

**Bangor University**

## **DOETHUR MEWN ATHRONIAETH**

### **Astudiaeth destunol o statud Gruffudd ap Cynan**

Thomas, Einir Gwenllian

*Award date:*  
2001

*Awarding institution:*  
Prifysgol Bangor

[Link to publication](#)

#### **General rights**

Copyright and moral rights for the publications made accessible in the public portal are retained by the authors and/or other copyright owners and it is a condition of accessing publications that users recognise and abide by the legal requirements associated with these rights.

- Users may download and print one copy of any publication from the public portal for the purpose of private study or research.
- You may not further distribute the material or use it for any profit-making activity or commercial gain
- You may freely distribute the URL identifying the publication in the public portal ?

#### **Take down policy**

If you believe that this document breaches copyright please contact us providing details, and we will remove access to the work immediately and investigate your claim.


Download date: 29. Apr. 2024

**ASTUDIAETH DESTUNOL O  
STATUD GRUFFUDD AP CYNAN  
(CYFROL 2)**

**Einir Gwenllian Thomas**

I'W DDEFNYDDIO YN Y  
LLYFRGELL YN UNIG  
—  
TO BE CONSULTED IN THE  
LIBRARY ONLY

**Ph.D. Cymru  
(Bangor, 2001)**



## *Cefndir a Chyd-destun*

Dogfen yn diffinio hawliau a dyletswyddau gwŷr wrth gerdd Cymru ydyw Statud Gruffudd ap Cynan, gan ganolbwyntio ar ddeddfu ynghylch addysg, graddio, ymddygiad, statws a rhoddion beirdd a cherddorion y Cyfnod Modern Cynnar.

Nid oes fersiwn cynharach na hanner cyntaf yr unfed ganrif ar bymtheg ar gael, ac ni ellir profi o gwbl fod statud arall wedi bodoli cyn 1523, sef blwyddyn cynnal eisteddfod gyntaf Caerwys. Nid oes raid synnu at hyn, wrth gwrs, gan fod Statud Gruffudd ap Cynan wedi ei gwreiddio'n ddwfn iawn yn ei chyfnod; ac yn sicr ddigon, dechrau'r unfed ganrif ar bymtheg yn hytrach na chyfnod teyrnasiad Gruffudd ap Cynan yn y ddeuddegfed ganrif ydyw cyfnod creu a chadarnhau'r statud arbennig hon.

Serch hynny, nid cael ei llunio mewn gwagle yn ôl mympwy ambell fardd neu noddwr a wnaeth y ddogfen: y mae i Statud Gruffudd ap Cynan gyd-destun ehangach o lawer na hynny. Mynd ati i geisio rheoleiddio'r gwŷr wrth gerdd a wnaeth llunwyr y ddogfen hon, ac yr oedd cyd-destun cymdeithasol i hyn oll. Amgylchiadau'r unfed ganrif ar bymtheg a'r ganrif o'i blaen a arweiniodd at yr angen o gael rheolaeth a threfn ar wŷr wrth gerdd Cymru.

Yn yr adran hon eir ati i osod Statud Gruffudd ap Cynan yn ei chyd-destun hanesyddol a chymdeithasol, gan ganolbwyntio ar yr hyn a arweiniodd at greu'r ddogfen ac at gynnal y ddwy eisteddfod sy'n gysylltiedig â hi, sef Eisteddfodau Caerwys 1523 a 1567. Ymhellach, ceisir canfod a oedd gan Ruffudd ap Cynan gysylltiad o unrhyw fath â'r Statud, pam yr enwyd y ddogfen ar ei ôl, a pham y ceisiwyd rhoi gwedd hŷn o ganrifoedd i gyfres o reolau a oedd, yn amlwg, yn perthyn i ddechrau'r unfed ganrif ar bymtheg.

## 1. *Beirdd, Clerwyr a Chrwydriaid*

Fe gysylltir y Gogynfeirdd, sef y beirdd a flodeuai rhwng hanner cyntaf y ddeuddegfed ganrif a diwedd y bedwaredd ganrif ar ddeg,<sup>1</sup> â thywysogion neu arglwyddi arbennig. Ymddengys mai bardd Gruffudd ap Cynan oedd Meilyr Brydydd, a'r un oedd perthynas y bardd Llywarch ap Llywelyn (neu Brydydd y Moch, fel y'i gelwir) â Llywelyn ap Iorwerth. Caent nawdd a chynhaliaeth bur sefydlog gan y tywysogion hyn; ond pan fu farw Llywelyn ap Gruffydd yn y flwyddyn 1282, a phan ddaeth llinach tywysogion Cymru i ben, cafodd bywydau'r beirdd eu siglo at eu seiliau. Bellach, nid oedd llysoedd ar gael i gynnal yr hen drefn, ac yn hytrach na'r tywysogion, yr uchelwyr oedd prif noddwyr y beirdd o'r bedwaredd ganrif ar ddeg ymlaen. Nid oedd cyfoeth yr uchelwyr hyn yn ddigon i gynnal bardd o un pen y flwyddyn i'r llall, felly fe ddechreuodd y beirdd grwydro o dŷ i dŷ er mwyn chwilio am nawdd.<sup>2</sup> Yn syml, daeth y crwydro hwn – neu'r 'clera', fel y'i gelwid – yn ffordd o fyw i'r rhan fwyaf o Feirdd yr Uchelwyr. “Y nodwedd arbennig ynglŷn â bywyd prifeirdd Cymru wedi'r Gorchfygiad”, medd D. J. Bowen, “oedd eu bod yn crwydro o'r naill gartref bonheddig i'r llall, heb gyfanheddu gydag unrhyw noddwr yn barhaol.”<sup>3</sup> Ac ar y dechrau, beth bynnag, nid oedd y beirdd yn eu cyfyngu eu hunain i glera mewn ardaloedd cyfagos yn unig: yn wir, ceir tystiolaeth fod nifer helaeth o'r beirdd yn clera, neu'n mynd ar gylchwl, ar draws Cymru

---

<sup>1</sup> Nid 'Gogynfeirdd' y gelwid y beirdd a gyfansoddai ar fesur y cywydd, fodd bynnag.

<sup>2</sup> Gw. Roberts, 'Eisteddfod Caerwys 1567', t. 24.

<sup>3</sup> Bowen, 'Agweddau', tt. 66 - 7. Gw. hefyd Jones, 'Rhethreg yng Nghyfundrefn y Beirdd', *LI XII* (1933), t. 166.

benbaladr.<sup>1</sup>

Beirdd swyddogol, cerddorion, difyrwyr ysgafnfryd – yr oeddynt i gyd yn teithio ar hyd a lled y wlad yn chwilio am nawdd yn ystod y canrifoedd wedi'r Goncwest, a theithiai gwŷr cyffelyb o amgylch Lloegr, Iwerddon a'r Cyfandir hefyd.<sup>2</sup> “Vagabond life was by no means disreputable in the Middle Ages”,<sup>3</sup> medd Holz knecht; ond awgryma ei eiriau fod rhywfaint o lach ar yr arfer mewn cyfnod diweddarach. Mae hyn, yn sicr, yn wir yn achos Cymru.

Y bedwaredd ganrif ar ddeg hyd ddechrau'r unfed ganrif ar bymtheg oedd oes aur clera. Wrth i'r unfed ganrif ar bymtheg dynnu tua'i therfyn, fe aeth cylchoedd clera'r beirdd yn llai, ac erbyn yr ail ganrif ar bymtheg ymddengys fod yr arfer wedi dod i ben.<sup>4</sup> Serch hynny, ceir tystiolaeth fod rhai beirdd wedi teithio'n bell iawn ar eu cylchoedd clera. Crwydrai Dafydd ap Gwilym Gymru benbaladr; yr oedd Huw Ceiriog yn clera yn ei ardal ei hun yn yr hen Sir Ddinbych, ond hefyd ym Môn ac yng Nghwm Tawe;<sup>5</sup> ac er mai brodor o Ddyffryn Clwyd oedd Iolo Goch, ymddengys iddo gael nawdd ym Môn,

---

<sup>1</sup> Gw. *TYP*, t. lxix.

<sup>2</sup> Am drafodaeth ar y sefyllfa yng Nghymru, gw. Bowen, 'Beirdd a Noddwyr (Rhan II)', t. 241; *TB*, t. 179; *RRR*, t. 159; *TLIM*, t. 24, tt. 31 - 2. Am drafodaeth ar y sefyllfa yn Lloegr ac Iwerddon, gw. Chambers, *The Mediaeval Stage I*, t. 44, tt. 52 - 3; Constance Bullock-Davies, 'Welsh Minstrels at the Court of Edward I and Edward II', *TrCymm* (1972 - 73), t. 106; K. J. Holz knecht, *Literary Patronage in the Middle Ages* (New York, 1966), t. 22; Bruce Pattison, *Music and Poetry of the English Renaissance* (London, second edition 1970), t. 4; Gustave Rees, *Music in the Middle Ages*, (London, 1941), t. 203; Ifor Williams, 'Dafydd ap Gwilym a'r Glêr' *TrCymm* 1913 - 14, t. 155; P. W. Joyce, *A Social History of Ancient Ireland I* (Dublin, second edition 1913), tt. 449 - 50.

<sup>3</sup> Holz knecht, *Literary Patronage*, t. 38. Gw. hefyd tt. 34 - 5.

<sup>4</sup> Gw., e.e., Ceri W. Lewis, 'The Decline of Professional Poetry', *GWL*<sup>2</sup>, t. 51; Nia Powell, 'Robert ap Huw: Clerwr Gwyllt o Fôn', *HCC III* (1999), t. 37.

<sup>5</sup> Gw. *GHCEM*, t. xvii.

Morgannwg, Sir Gaerfyrddin, dwyrain y Mers a Sir y Fflint.<sup>1</sup> 'Does ryfedd, felly, fod y beirdd wrth grwydro yn cario negeseuon o'r naill uchelwr i'r llall o dro i dro, yn ogystal â throsglwyddo cerddi gofyn o dŷ eirchiad i dŷ rhoddwr.<sup>2</sup> Yn wir, hwy, ar ryw olwg, oedd postmyn y canrifoedd a fu, y rhai a arhosai am 'baned a bisgedan rhwng bob tŷ.

Yr oedd beirdd a cherddorion swyddogol – rhai megis Dafydd ap Gwilym, Deio ab Ieuan Du, Iolo Goch, Lewys Glyn Cothi, Guto'r Glyn, Robert ap Huw, Meurig Dafydd, Ieuan Brydydd Hir, Llywelyn ap Gutun, Gwilym Tew, Lewis Môn a Thudur Aled – yn clera, felly.<sup>3</sup> Fodd bynnag, yr oedd beirdd a difyrwyr llai 'parchus' yn crwydro o le i le yn chwilio am gynhaliaeth yn ogystal, rhai megis Robin Clidro, y Gwinau Llawen, Iocyn Ddu ab Ithel Grach, a Hityn Grydd. Yn wir, cofnododd Iocyn Ddu yr hyn a ddigwyddodd ar un o'i deithiau clera. Mwynhau manylu ynghylch "yr anturiaethau blasus a ddaeth i'w ran ar gwrs clera yng ngogledd-ddwyrain Cymru a thu hwnt" a wna, ys dywed Huw M. Edwards;<sup>4</sup> a chyfeirir at y Gwinau Llawen mewn cerdd

---

<sup>1</sup> Gw. Powell, 'Robert ap Huw', t. 37.

<sup>2</sup> D. J. Bowen, 'Y Cywyddau a fu rhwng Gruffudd Hiraethog a Beirdd Eraill', *B XXVIII* (1976 - 78), t. 362; *CGD*, t. 57.

<sup>3</sup> Gw., e.e., *GLGC*, tt. xxiv - xxv; *GLM*, tt. xv - xvi; *GTA*, t. xxviii; *CIGE*, tt. 76 - 7, t. 350; Powell, 'Robert ap Huw', t. 35; J. Gwynfor Jones, *Cymru a'r Tuduriaid: Cyfraith a Threfn Weinyddol, Crefydd a Chymdeithas 1534 - 1603* (Aberystwyth, 1993), t. 41; Lake, 'Goblygiadau Clera', tt. 27 - 31; Henry Lewis, 'Ymrysonau Dafydd Llwyd a Llywelyn ap Gutun', *B IV* (1929), t. 313; Thomas Roberts, 'Dyddiadau Gruffudd ab Ieuan ap Llywelyn Vychan', *B X* (1940), t. 236; *TLIM*, t. 45; J. E. Caerwyn Williams, 'Anglesey's Contribution to Welsh Literature', *TCHNM* (1959), tt. 15 - 16.

<sup>4</sup> Huw M. Edwards, "Rhodiwr fydd clerwr": Sylwadau ar Gerdd Ymffrost o'r Bedwaredd Ganrif ar Ddeg', *Traeth CXLIX* (1994), t. 50. Am drafodaeth fanwl ar y clerwr hwn, gw. *ibid.*, tt. 50 - 5.

gan Owain ap Rhys lle sonnir amdano'n yta yn Nhegeingl, ac yn crwydro gogledd Cymru i gyd, gan gynnwys ardaloedd megis Gwynedd, Rhuddlan, Diserth, Prestatyn, Waunysgor, Rhiwlawnyd, Treffynnon, Fflint, Llaneurgain, Caerwys, Tremeirchion a Llanelwy.<sup>1</sup>

Amrywiai arferion clera'r beirdd gryn dipyn, fel y sylwodd Saunders Lewis. Chwilio am nawdd a chynhaliaeth oedd amcan pob taith glera, wrth gwrs, a dyna pam mae'n debyg y gwelir bod ambell fardd pur dlawd – megis Guto'r Glyn – wedi clera llawer, a chlera hyd yn oed yn ei henaint, tra oedd beirdd cyfoethocach – megis Dafydd ab Edmwnd – yn gallu byw'n gyfforddus er nad oedd yn clera llawer.<sup>2</sup> Cyfeiriodd Deio ab Ieuan Du at y ffaith ei fod wedi casglu achau pendefigion ar ei daith glera trwy gymydau Ceredigion,<sup>3</sup> a lluniodd Iolo Goch yn ogystal gerdd yn sôn am ei daith glera.<sup>4</sup>

Un broblem a oedd ynghlwm wrth glera oedd teithio. Ar farch y teithiai Lewys Glyn Cothi o Went at un o'i noddwyr yn Sir Faesyfed,<sup>5</sup> a lluniodd Dafydd Epynt gywydd 'i ddiolch march o Dd ap Holl prydydd Watkyn Fychan o Hergest canys Dd Epynt a ddaeth i glera rhwng Gwy a Hafren ar i draed, a Dd ap Holl ai gwelas yn glairch trwm, ag a ddisgynodd i lawr oddiar i farch, ag a roes y march ar ffrwyn ar ysbardynav ar

---

<sup>1</sup> Gw. Charles, 'Noddwyr y Beirdd yn Sir y Fflint', tt. 36 - 7.

<sup>2</sup> Saunders Lewis, 'Dafydd ab Edmwnd', *YB X* (1977), t. 221.

<sup>3</sup> Gw. *CGD*, t. 57; Lake, 'Goblygiadau Clera', t. 128.

<sup>4</sup> Awgryma Cynfael Lake, 'Goblygiadau Clera', tt. 131 - 2, mai taith ddychmygol a ddisgrifir gan Iolo Goch, ac yntau'n hen wr ar y pryd, taith sy'n seiliedig ar fwy nag un o'i deithiau clera go iawn.

<sup>5</sup> Gw. Bowen, 'Beirdd a Noddwyr (Rhan III)', t. 25.

bwysgyns i Dd Epynt'.<sup>1</sup> Sonia Hywel ap Syr Mathew, y bardd, yr hanesydd, yr achwr a'r milwr o Lanfair Waterdine, am ei daith at un o'i noddwyr ar hyd ucheldir Mynydd Hirllowel adeg y Nadolig. Dyma ddisgrifiad o'r ddaear anhygar a achosodd gymaint o helbul iddo:

Llawer cors ar hyd llawr y cwm  
Llawr y caid llawer cwdwm  
Ffrydiau pydewau duon  
Ffyrnau hers uffern yw hon  
Corlan i ddyn creulon ddawns  
Colops halbrsiwn clips wybrsiawns  
Powdr awyr grimp budr a'i grwydr  
Pwdran toesfrain pottesfrwydr  
Corbyllan diawl crybwyll dig  
Cewyll oestrys cylestrig  
Griffit gauafloer grefft gyflathr  
Gruel a soeg oer law sathr  
Gruel y dom greulon dew  
Gwaddod llutrod a llwytreu  
Llwydrew dwr glew ar dôr glân  
Llyn budr yn llawn o bwdran  
Meginau llawn mign a llwch  
Morlo rhyw ufflor rhyfflwch  
Morlo fflwch meiriol a phla  
Mwrn o waith Satwrn swtta  
Mur morlo sur marl a sops  
Mwm mwll gelwrn mall galops  
Clo daear bryd dudair braff  
Carthen o'r wybren rybraff<sup>2</sup>

Synhwyrir rywsut mai amcan Hywel ap Syr Mathew oedd peri difirrwch yn y gerdd hon, a'i fod yn cael hwyl am ben ei helyntrion ei hun. Fodd bynnag, nid gorchwyl hawdd i'r beirdd – nac i neb arall, o ran hynny – oedd teithio o le i le yn ystod yr

---

<sup>1</sup> Gw. D. J. Bowen, 'Two Cwrs Clera Poems', *CLIGC* VII, rhan 3 (Haf, 1952), tt. 274 - 5.

<sup>2</sup> *Ibid.*, t. 276.



Oesoedd Canol a'r Cyfnod Modern Cynnar. Ys dywed Glanmor Williams, "gwlad anhygyrch ddidramwy oedd Cymru'r bymthegfed ganrif a'r unfed ganrif ar bymtheg."<sup>1</sup> Nid oedd mynyddoedd Cymru a'i chorsydd o ddim cymorth i'r teithwyr; ac ar wahân i'r ffyrdd a adeiladodd y Rhufeiniaid, ni ellid dweud bod wyneb addas ar lonydd y wlad.<sup>2</sup>

---

<sup>1</sup> Glanmor Williams, 'Dadeni, Diwygiad a Diwylliant Cymru', *Grym Tafodau Tân* (Llandysul, 1984), t. 79.

<sup>2</sup> Yn Lloegr, cyfrifoldeb unigolion arbennig oedd cynnal a chadw'r ffyrdd. Medd Vincent B. Redstone yn 'Social Condition of England During the Wars of the Roses', *TRHS XVI* (1902), t. 192:

The roads were kept in repair at the expense of private individuals by hermits who received gifts for that purpose. All burgesses were expected to keep in good repair that part of the road and highway alongside their dwellings.

Yr oedd cyflwr rhai ffyrdd yng Nghymru cyn waethed fel y cynghorid pobl i beidio â'u defnyddio. Yn 1587, dywedwyd bod Stryd Henllan yn Ninbych, yng ngeiriau Geraint H. Jenkins, *HCCMC*, t. 2, "yn rhy fudr a pheryglus i'w thramwyo". Ymddengys felly fod disgrifiad Lewis Hopkin o ffyrdd yn ardal Llantrisant yn ystod y ddeunawfed ganrif yn adlewyrchu cyflwr sawl ffordd yn y canrifoedd cynt:

Ffyrdd corsog, lleidiog, llwydion, - hynt wallus,  
Yn llawn tyllau dyfnion,  
Neu gerrig clogfaen geirwon,  
A brwnt ymhob man o'r bron.

(Fe'i dyfynnir *ibid.*) O ystyried hyn oll, nid ydyw'n syndod gweld bod damweiniau'n digwydd yn bur gyson. Medd Geraint H. Jenkins drachefn *ibid.*, tt. 2 - 3:

Pan deithiodd y rhigymwr, John Taylor, ar ei hen geffyl esgrynog 'Dun' drwy Gymru yn ystod canol yr ail ganrif ar bymtheg, bu raid iddo grobian dros rai o fryniau ysgithrog a ffyrdd troellog y Gogledd a dioddef sawl cwmp arswydus. Ar ôl teithio o Wedir i Gastell y Waun ym 1656, cyffesodd Richard Wynn ei fod yn ŵr ffodus iawn gan mai teirgwaith yn unig y syrthiasai oddi ar ei geffyl cyn cyrraedd pen ei daith. Pan chwalai pont, antur beryglus oedd ceisio rhydio afon. Ym 1617, boddwyd David Kemeys, ysgwier Cefnmabli, wrth geisio rhydio afon Rhymni, a'r un fu tynged y bardd Siôn Philip ar 13 Chwefror 1620 wrth geisio croesi o Bwllheli i Fochres ar ôl bod ar daith glera yn sir Gaernarfon.

Am fwy o wybodaeth ynghylch amodau teithio'r cyfnod, gw. Chambers, *The*

Ond nid ffyrdd tyllog a thywydd gwlyb a gwyntog oedd unig boendod y beirdd. Yr oedd y beirdd 'answyddogol' a'r difyrwyr ysgafnfryd, crwydrol, fe ymddengys, yn llawer mwy o fgythiad iddynt.

Fe geid clerwyr llai parchus o'r fath cyn y Goncwest, wrth gwrs. Yn nechrau'r drydedd ganrif ar ddeg ymddengys fod Phylip Brydydd wedi ymryson â'r beirdd isradd yn llys Rhys Ieuanc o Lanbadarn Fawr, sef noddwr Phylip Brydydd, a bod Phylip wedi gofyn i'w noddwr ddewis rhyngddo ef – y bardd swyddogol, parchus – a'r rhai y galwai ef hwy'n 'ofeirdd', yn 'wagfeirdd' neu'n 'feirdd ysbyddaid'.<sup>1</sup> Cyfeiria rhai Gogynfeirdd cynharach na Phylip Brydydd hefyd at feirdd isradd, er enghraifft sonia Meilyr Brydydd am 'fanfeirdd' a 'chylchwilfeirdd'.<sup>2</sup> Fodd bynnag, cymharol brin ydyw'r cyfeiriadau hyn yn ystod cyfnod y Gogynfeirdd a hynny, mae'n debyg, gan na ddechreuodd y glêr neu'r beirdd isradd hyn fynd yn bla hyd y bedwaredd ganrif ar ddeg.<sup>3</sup> Ys dywed Huw Meirion Edwards, "There would be little reason for the court bard, secure in his standing and in the knowledge of his innate superiority, to tarnish his eulogy, elegy, or religious verse with the mention of such lowly rhymesters."<sup>4</sup>

Fodd bynnag, ar ôl y Goncwest fe newidiodd pethau. "Ar ôl cwmp Llywelyn ap Gruffudd", medd D. J. Bowen, "bu'n rhaid i'r beirdd wynebu cystadleuaeth mathau poblogaidd ar ganu heb fod i'w statws mwyach gydnabyddiaeth gyfreithiol, ac o

---

*Mediaeval Stage I*, t. 48.

<sup>1</sup> Gw. Meirion Pennar, 'Teuluaeth a Maswedd', *YB XVI* (1990), t. 52; *GDB*, t. 110, t. 165, t. 167, t. 204, t. 213; *DGIA*, tt. 7 - 8.

<sup>2</sup> Gw. *DGIA*, t. 7.

<sup>3</sup> *Ibid.*, t. 1.

<sup>4</sup> *Ibid.*, t. 6.

ganlyniad yr oedd elfen o ansicrwydd yn bygwth eu hymgais i sefydlu'r traddodiad nawdd yn y llysoedd a'r mynachlogydd."<sup>1</sup> Yn anffodus i'r beirdd, parhau i ddwysáu a wnaeth y broblem hyd ddiwedd yr unfed ganrif ar bymtheg.<sup>2</sup>

Ceir enghreifftiau o'r mathau gwahanol o ddifyrwy a geid yn y cyfnod yng ngherdd Rhys Goch Eryri i Robert ap Maredudd o Eifionydd. Yn ogystal â chyfeirio at y prydyddion, y telynorion a'r crythorion 'swyddogol' a pharchus, sonnir am bibyddion, hudolwyr,<sup>3</sup> llamhidyddion, ffdlwyr a thabyrddwyr, ac yn y gerdd Saesneg 'Piers Plowman' gan William Langland fe sonnir am drwmpedwyr, adroddwyr, tabyrddwyr, jyglwyr, pibyddion, a chwaraewyr gutorn.<sup>4</sup> Yr oedd difyrwyr cyffelyb i'w cael yn Iwerddon hefyd, fe ymddengys. Yno ceid *crosán*, sef digrifwr aflednais a arferai adrodd straeon ynghyd â dawnsio, canu, jyglïo a pherfformio fel acrobat. Hefyd ceir y *glámh* (dychanwr), y *cáinte* a'r *bancháinte* (dychanwr a dychanwraig), y *drúth* a'r *óinmhid*

---

<sup>1</sup> Bowen, 'Graddedigion', t. 129.

<sup>2</sup> Gw. A. D. Carr, 'The Mostyn Family & Estate 1200 - 1642' (PhD, Prifysgol Cymru, 1975), t. 349; Gilbert Ruddock, 'Oes Aur Ein Llên: Cyfnod y Cywydd - XII Antherth a Dirywiad', *Ba* 141 (Gorffennaf, 1974), t. 411.

<sup>3</sup> Ceir tystiolaeth fod gwŷr hudol yn diddanu yng Nghymru mewn cofnod sy'n sôn am wledd a gynhaliwyd gan Ruffudd ap Rhys o Ystrad Tywi tua'r flwyddyn 1135:

Gwedi adynnill ei diroedd fe wnaeth Gruffydd ab Rhŷs wledd anrhydeddus yn Ystrad Tywi... a pharattoi pob moethus o fwydydd a diodydd, a phob ymryson doethineb, a phob diddanwch cerdd arwest a cherdd dannau, a choesawi [*sic*] prydyddion a cherddorion, a chynnal pob chwareuon hud a lledrith a phob arddangos, a phob campau gwrolion...

Fe ddyfynnir y wybodaeth hon yn *DGIA*, t. 12. Er nad ymddengys fod y cofnod hwn yn un dilys, o leiaf mae'n tystio i'r posibilrwydd y gellid gweld gwŷr hudol gynt yn diddanu mewn gwleddoedd yng Nghymru.

<sup>4</sup> Dyfynnir cerdd Rhys Goch Eryri a cherdd William Langland yn Bowen, 'Agweddau', tt. 67 - 8 Gw. hefyd t. 69.

(mathau o ddigrifwyr), y *mear* (ffwl), y *cornaire* (pibydd), y *fuirseoir* (clown), y *cearrbhach* (gamlwr), a'r *geocach* (digrifwr).<sup>1</sup>

Yr oedd rhai o'r difyrwyr ysgafnfyd hyn yn cael rhannu'r un llysoedd â'r beirdd swyddogol ac, er gwell neu er gwaeth, ymddengys fod y beirdd 'parchus' wedi dod i gysylltiad pur agos a chyson â'r beirdd isradd. Medd Huw Meirion Edwards:

...while the *Clêr* were generally regarded by the official poets, at least on the face of it, with a kind of professional disdain, it would certainly have been possible in medieval Wales for poets of all orders to come into contact with each other, and therefore to become familiar with each other's repertoires. This would have been particularly true in post-Conquest Wales, in the wake of the collapse of the legally defined bardic hierarchy of the Poets of the Princes; but it is reasonable to assume that there had already been limited interaction for many centuries. Even the most accomplished and aloof court poet, though he may consciously have confined himself to the time-honoured conventions of his profession, is unlikely to have remained entirely oblivious of – or, for that matter, entirely impervious to – the popular fashions and diversions of his age.<sup>2</sup>

Fodd bynnag, darlun digon dychanol a geir o'r beirdd isradd yng ngherddi'r Cywyddwyr. Yn wir, lluniodd Wiliam Cynwal gerdd i Ieuan ap Siôn o Bigod, Llansannan, yn ei feio am dderbyn clerwr o'r enw Ifan 'Biocys' i'w dŷ. Dyma ddisgrifiad Wiliam Cynwal o Ifan a'i 'grefft':

Eiste 'fyn, at hyn y tyr,  
Musig hardd, ymysg cerddwyr.  
Canu pennill cyn poeni,  
Caniad fal cyfarthiad ci,  
A chodi fyth, a chadw'i fael,  
Y cwpan, hen leidr cipwael.  
Os i giniaw, was gwanwrdd,

---

<sup>1</sup> Gw. *DGIA*, tt. 10 - 11.

<sup>2</sup> *Ibid.*, t. 67. Gw. hefyd t. 27, t. 37, t. 49; Morfydd E. Owen, 'Noddwyr a Beirdd', *BTh*, t. 86. Awgryma Dafydd Johnston, *CMOC*, t. 12, mai dylanwad o du'r beirdd isradd oedd yn rhannol gyfrifol am y cerddi maswedd a luniai'r Cywyddwyr.

Yn bin byth, myn ben y bwrdd.  
Ni bydd byth y man y bo,  
Dyn treblair, ond yn trwblïo.<sup>1</sup>

Ymhellach, mewn cywydd yn erchi'r clerwr Siôn ab Elis – neu Dibys Dobys, fel y'i  
gelwid – fel hyn y cyferchir yr hen Siôn gan Risiart ap Hywel:

Siôn iawngamp, sain y wingerdd,  
Ab Elis, gwych blas ei gerdd,  
Dibys, hwylus i'w holi,  
Dobys, o'ch ewyllys chwi.  
Bardd o'i fod y beirdd a fydd,  
Bloesg yw, yn blysio'i gywydd!  
Ieithydd, nid dedwydd ei dôn,  
Heb rif, mal berw afon.  
Ni ddeallir un o'i eiriau,  
Ond certh iaith ddiarth ni thau,  
Ni bu reswm i'w broses,  
Ni bydd y prydydd heb bres,  
Ni thau â'i laswyrâu sâl,  
Ni thynnir o'i iaith anial,  
Ni wŷr dyn, cyndyn y'i caid,  
Ar ddaear air a ddywaid.  
Seinio bydd, datsain i'w ben,  
Sain dŵr iso'n y darren.  
Malu a thaeru iaith ddiriaid,  
Mal hen gacynen y'i caid.<sup>2</sup>

Tebyg ydyw barn Gruffudd Hiraethog am yr hen Ddibys Dobys, yn ogystal:

Dibys henw Dobys hynod,  
Dybys nad rhyglyddus glod.  
Pe bai les, pwy a'i blysiodd?  
Pes rhoid, nid hapus y rhodd.  
Ba les yw gafr, bloesg afiaith,  
Be ddi heb wybod ei iaith?

---

<sup>1</sup> Fe'i dyfynnir yn Bowen, 'Y Cywyddau a fu rhwng Gruffudd Hiraethog', t.  
363.

<sup>2</sup> Fe'i dyfynnir *ibid.*, tt. 364 - 5.

Er nad da i glera gwledd  
Yw tafod yr etifedd,  
Da'n hydda y'i danheddwyr,-  
Digon o byst i gnoi bwyd.  
Chwerw iaith, unwedd chwerthiniad,  
Yn wylo du'n ôl ei dad.  
Ffrâm y beirdd, ffrom yw ei ben,  
Ffordd ddiarth fforddio'i awen,  
Sef nad oes o fewn dwy iaith  
Siôn ab Elis neb eilwaith.<sup>1</sup>

'Arfer clêr' oedd cynnyrch beirdd megis Dibys Dobys ym marn Gruffudd ap Dafydd ap Tudur,<sup>2</sup> a cheisia Iolo Goch ei orau i wahaniaethu rhyngddo ef ei hun, Ithel Ddu a Madog Dwygraig ar y naill law, a chlerwr o'r enw Gwyddelyn ar y llaw arall:

Nid synnwyr ffôl wrth ddolef,  
Nid clêr lliw'r tryser llawr tref,  
Nid beirdd y blawd, brawd heb rym,  
Profedig feirdd prif ydym.<sup>3</sup>

Yn llygaid y beirdd swyddogol, beirdd isradd oedd y gwaseilwyr yn ogystal, sef beirdd y canu rhydd gwerinol. Ys dywed Rhiannon Ifans:

Ni chydabyddid unrhyw fath arall o ganu, gan gynnwys canu gwaseila, fel canu swyddogol ar unrhyw gyfrif, ac nid ystyrir ychwaith bod cyswllt rhyngddynt heblaw, efallai, am hynafiaeth rhai o'r mesurau. Byddai pob bardd swyddogol yn ddirmygus iawn o'r mân feirdd, 'treiglfeirdd' fel y'u gelwid gan Gynddelw, 'cylchwylfeirdd' gan Feilyr am eu bod yn mynd ar dro, ar dreigl, drwy'r amser[...]. Ond er gwaethaf y dirmyg, yr oeddynt yn fygythiad economaidd i'r beirdd mawr.<sup>4</sup>

---

<sup>1</sup> Fe'i dyfynnir yn *ibid.*, tt. 366 - 7.

<sup>2</sup> Gw. Pennar, 'Teuluaeth', t. 52.

<sup>3</sup> *GIG*, rhif XXXVII, llau. 51 - 4. Hefyd gw. *DGIA*, t. 27.

<sup>4</sup> Rhiannon Ifans, 'Y Canu Gwaseila a'r Gyfundrefn Farddol', *YB XV* (1988), tt. 143 - 4.

Tebyg oedd sefyllfa'r bardd proffesiynol yn Lloegr. Yn sgîl dylanwad beirdd a cherddorion isradd, medd Holz knecht, "the scope of the court became the king's minstrel whose business it was to amuse his highness: in fact he was a kind of slightly dignified court fool."<sup>1</sup> Yr oedd Thomas de Cabham, is ddeon Salisbury ac Archesgob Caergaint, yn sicr ei farn ynghylch y difyrwyr hyn. Yng ngeiriau E. K. Chambers:

In the course of his analysis of human frailty, Thomas de Cabham makes a careful classification from the ethical point of view, of minstrels. There are those who wear horrible masks, or entertain by indecent dance and gesture. There are those again who follow the courts of the great, and amuse by satire and by raillery. Both these classes are altogether damnable.<sup>2</sup>

Teithiai difyrwyr o'r fath o amgylch Cymru, a deuai rhai o'r tu draw i Glawdd Offa. Gwŷr wrth gerdd isradd o Loegr a gododd wrychyn Iorwerth Beli, fe ymddengys, pan ymosododd mewn awdl ar Esgob Bangor – Anian Sais, mae'n debyg, a fu'n esgob yno rhwng 1309 a 1327 – am swcro ac anrhegu cerddorion o Loegr, yr 'iangwyr Saeson', yn hytrach na chynnig nawdd i feirdd traddodiadol Cymru.<sup>3</sup> Rhoddai'r esgob ddillad coeth i'r cerddorion Seisnig, meddai'r bardd, gan adael beirdd Cymru heb ddim.

Fel yr awgrymwyd eisoes, yr oedd y beirdd isradd yn fygythiad economaidd i'r

---

<sup>1</sup> Holz knecht, *Literary Patronage*, t. 30.

<sup>2</sup> Chambers, *The Mediaeval Stage I*, t. 59.

<sup>3</sup> Am gopi a thrafodaeth o'r gerdd, gw. N. G. Costigan (Bosco), R. Iestyn Daniel a Dafydd Johnston (goln.), *Gwaith Gruffudd ap Dafydd ap Tudur, Gwilym Ddu o Arfon, Trahaearn Brydydd Mawr ac Iorwerth Beli* (Aberystwyth, 1995), tt. 149 - 65. Gw. hefyd Bowen, 'Gruffudd Hiraethog ac Argyfwng Cerdd Dafod', *LIC II*, rhif (Ionor, 1953), t. 147; idem., 'Agweddu', t. 68; *DGIA*, t. 22; Pennar, 'Teuluaeth', t. 52; E. I. Rowlands, 'Bardic Lore and Education', *B XXXII* (1985), t. 146; *TB*, t. 126; Williams, 'Yr Arglwydd Rhys', t. 112; idem., 'Cerddi'r Gogynfeirdd i Wragedd a Merched a'u Cefndir yng Nghymru'r Cyfandir', *LIC XIII*, rhifyn 1 a 2 (Ionor - Gorffennaf, 1974/79), tt. 95 - 6; *Cyd*, t. 364.

beirdd swyddogol. Yr oeddynt yn rhannu'r un llysoedd â'r beirdd swyddogol yn aml, ac o'r herwydd yr oeddynt yn lleihau'r nawdd a oedd ar gael. Ymhellach, gwelir bod rhai o'r beirdd isradd yn erchi'r un rhoddion â'r beirdd swyddogol. Lluniodd y clerwr Dafydd Nant, er enghraifft, bump o gerddi gofyn, ac ynddynt mae'n erchi cist, clogyn, gŵn, cleddyf a tharw, sef y mathau o roddion a erchid gan y beirdd swyddogol.<sup>1</sup> "Os yw'r cerddi hyn yn arwydd o'r gystadleuaeth a wynebai'r beirdd o du'r beirdd dihyfforddiant yn hanner olaf y bymthegfed ganrif", medd Bleddyn Owen Huws, "ac os ydynt yn awgrymu bod lliaws o eirchiaid yn tyrru i blastai'r uchelwyr, nid rhyfedd mai diogelu detholrwydd yr alwedigaeth farddol drwy gyfyngu ar y gyfundrefn a chreu rheolau caeth i lywodraethu perthynas bardd a'i noddwr a wnaed yng Nghaerwys."<sup>2</sup>

Fodd bynnag, yr oedd modd i'r difyrwyr ysgafnfryd a'r gwŷr wrth gerdd answyddogol fygwth y beirdd swyddogol mewn ffordd arall, yn ogystal.

Yr oedd yn rhaid i'r beirdd grwydro'r wlad wrth glera, fel y gwelwyd eisoes: dyna sut y caent gynhالياeth. Ond yr oedd gwŷr llai parchus na hwy yn crwydro'r wlad hefyd – cardotwyr proffesiynol, troseddwyr, tlodion, ynghyd â'r beirdd iselradd – a'r perygl mawr i'r beirdd traddodiadol oedd iddynt gael eu camgymryd am un o'r 'teithwyr' eraill hyn. Medd Ceri W. Lewis:

That bona fide members of the bardic establishment were becoming increasingly confused during this period with the unskilled minstrels and hucksters who roamed the country in such large numbers only seemed to add to the scorn that was poured on them from so many quarters. Part of the problem may well have been that the number of professional poets far exceeded the committed patrons who were prepared to support them in the traditional manner. The position was no different in England. 'The multitude of writers of our age,'

---

<sup>1</sup> *CGD*, t. 18.

<sup>2</sup> *Ibid.*, tt. 18 - 19. Gw. hefyd Lewis, 'The Decline', t. 43.



wrote Thomas Evans in 1615, 'hath begotten a scarcity of patrons.' It was, perhaps, inevitable in a period when local authorities, as well as the central government in London, were seriously worried about the swelling population of paupers and vagabonds who regularly tramped the highways and byways creating an intractable problem for town and parish officials and constituting, in the opinion of the latter, a grave menace to public order and, in some circumstances, a serious threat to public health, that a determined effort should have been made to introduce a more stringent discipline into the professional guild of bards, and to make a clear distinction between the genuine, highly trained poets and the 'vagrant and idle persons naming themselves misntrels, rhymers and bards'. It is significant that among these included in the definition of the term 'vagabond' in England were players of interludes and minstrels 'not belonging to any barons of the realm'.<sup>1</sup>

Yn ystod yr unfed ganrif ar bymtheg ceisiwyd dosbarthu'r cardotwyr a'r tlodion yn garfanau gwahanol. Ceid tri phrif ddsbarth: y tlawd di-waith; y rhai a oedd yn abl i weithio ond a wrthodai wneud hynny, rhai megis cardotwyr proffesiynol, lladron a throseddwyr eraill; a'r tlawd methiedig, gan gynnwys plant amddifad, pobl sâl, gweddwon, henoed, neu weithwyr wedi eu hanafu. O'r rhain, yr ail ddsbarth a achosai'r cur pen mwyaf i'r awdurdodau ac i bobl y cyfnod. Er nad oedd bai ar bawb di-waith o bell ffordd, credid yn gyffredinol bod diweithdra'n bechod, ac oherwydd hynny credid bod y rhai a oedd yn abl i weithio ac a gâi gynhafiaeth trwy gardota yn 'dwyn' yn llythrennol oddi ar y tlodion gwir anghenus. Oherwydd hyn, lluniwyd deddfau llym er mwyn cosbi a rheoli'r rhai a gardotai heb fod angen.<sup>2</sup>

Yr oedd gan bobl y cyfnod farn bendant iawn ynghylch y cardotwyr hyn. Fe gyhoeddwyd llyfrau yn Lloegr yn trafod crwydriaeth yn ystod yr unfed ganrif ar bymtheg, llyfrau megis *The Ship of Fools* (1508), cyfieithiad o waith Sebastian Brandt,

---

<sup>1</sup> Lewis, 'The Decline', tt. 65 - 6.

<sup>2</sup> Gw. *MM*, tt. 5 - 6; J. Gwynfor Jones, *Beirdd yr Uchelwyr a'r Gymdeithas yng Nghymru c. 1536 - 1640* (Dinbych, 1997), t. 132; *TOT*, t. 25; *PVTE*, tt. 3 - 4, t. 26.

*The Highway to the Spatial-House* (c. 1535 - 6), a llyfrau gan wŷr megis Gilbert Walker, Awdeley, a Harman.<sup>1</sup> Soniodd William Lambards am y “many mighty, idle and runagate beggars wherewith we are much pestered”, y rhai a allasai ddod ag “infections to the whole body of the realm and commonwealth”.<sup>2</sup> Medd A. L. Beier:

The implication of all this is that vagrants were no ordinary criminals; they were actually menaces to society. They posed this threat because they were corrupt and social outcasts. ‘We know not according to what law or by what conventions they live’, observed Juan-Luis Vives in 1526. A century later John Gore said they were ‘Children of Belial, without God, without magistrate, without minister’. They were physically corrupt, spreading disease and infecting the community. [...] Another common theme was that vagabonds were responsible for a multitude of crimes. By supressing them, Vives suggested, ‘fewer thefts, acts of violence, robberies, murders, capital offences will be committed; even pandering and saucery would disappear. Richard Morison wrote similarly in 1536 that those ‘continuing in idleness, fall to stealing robbing, murder, and many other mischiefs’. Finally, vagrants threatened government and the social order.<sup>3</sup>

Yr hyn a oedd yn dwysáu’r broblem enfawr hon i’r beirdd, ac yn wir i deithwyr swyddogol eraill, oedd fod sawl galwedigaeth yn cael ei hystyried yn alwedigaeth cardotyn neu grwydryn, ac fel cardotwyr neu grwydriaid yr ystyrid pedleriaid, tinceriaid, milwyr, morwyr, difyrwyr, myfyrwyr, sipsiwn, gwneuthurwyr gwllân, gwerthwyr llyfrau a phamffledi, ynghyd â beirdd a cherddorion isradd.<sup>4</sup>

Ceir disgrifiadau byw iawn o fathau gwahanol o gardotwyr a chrwydriaid gan wŷr

---

<sup>1</sup> Gw. *MM*, tt. 7 - 8.

<sup>2</sup> Fe’i dyfynnir yn Jones, *Beirdd yr Uchelwyr a’r Gymdeithas*, t. 132.

<sup>3</sup> *MM*, t. 6.

<sup>4</sup> *Ibid.*, t. 10, tt. 86 - 96; *PVTE*, tt. 28 - 9; Richard Sugget, ‘Yr Iaith Gymraeg a Llys y Sesiwn Fawr’ yn *HCIG*, t. 170. Gw. hefyd E. M. Leonard, *The Early History of English Poor Relief* (London, 1965), t. 69.

yr unfed ganrif ar bymtheg. Dyna'r rhai a elwid yn 'Bawdy Baskets', sef merched a gariai fasedi'n llawn o lês a phinnau a nodwyddau er mwyn ceisio cuddio'r ffaith eu bod yn dwyn dillad oddi ar gloddiau; a'r 'Fagins' Elisabethaidd, wedyn, a oedd yn dysgu llanciau ieuainc sut i ddwyn o bocedi. Mae'n werth dyfynnu'n bur helaeth o ddisgrifiad Thomas Harman o ddihiryn yn ei lyfr *Caveat for Commen Cursetors* (1567), gan mai hwn sy'n cyfateb orau i'r cardotwr a oedd yn bygwth safle'r beirdd yng Nghymru.

A rogue is known to all men by his name, but not to all men by his condition; no puritan can dissemble more than he, for he will speak in a lamentable tune and crawl along the streets (supporting his body by a staff) as if there were not life enough in him to put strength into his legs: his head shall be bound about with linen, loathsome to behold; and as filthy in colour as the complexion of his face; his apparel is all tattered, his bosom naked, and most commonly no shirt on: not that they are driven to this misery by mere want, but that if they had no better clothes given them, they would rather sell them to some of their own fraternity than wear them, and wander up and down in that piteous manner, only to move people to compassion, and to be relieved with money, which being gotten, at night is spent as merrily and as lewdly as in the day it was won by counterfeit villainy. Another sect there be of these, and they are called STURDY ROGUES: these walk from county to county under colour of travelling to their friends or to find out some kinsmen, or else to deliver a letter to one gentlemen or other, whose name he will have fairly endorsed on paper folded up for that purpose, and handsomely sealed: others use this shift to carry a Certificate or passport about with them, with the hand or seal of some Justice to it, ...all these writings are but counterfeit, they having amongst them (of their OWN RANK), that can write and read, who are their secretaries in this business.<sup>1</sup>

Ymddengys fod pum elfen yn perthyn i grwydriaid o'r iawn ryw neu i gardotwyr proffesiynol: yr oeddynt yn dlawd, heb incwm sefydlog; yr oeddynt yn ddigon iach i weithio; yr oeddynt yn ddi-waith a diog, heb na meistr na chyflogwr; nid oedd ganddynt wreiddiau, ac o'r herwydd fe grwydrent y wlad; ac yn olaf, yr oeddynt yn anwybyddu'r

---

<sup>1</sup> Fe'i dyfynnir yn *PVTE*, tt. 97 - 8. Gw. hefyd D. J. Bowen, 'Canrif Olaf y Cywyddwyr', *LIC XIV* (1982 - 4), tt. 35 - 6.

gyfraith, ac fellý yn beryglus a drygionus.<sup>1</sup> “The vagrant’s most obvious characteristic was his long-term and often long-distance mobility”, medd Paul Slack. “[...] He often knew the roads of England like the back of his hand, and sometimes he had a regular itinerary between temporary bases.”<sup>2</sup> ‘Does ryfedd, felly, fod perygl i’r beirdd gael eu camgymryd am gardorwyr a chrwydriaid. Fe geid gwir dlodion, wrth gwrs, fel y gwelwyd eisoes, sef y rhai a geisiai waith, y rhai analluog na allai weithio, neu’r rhai a oedd yn gweithio ond nad oeddynt yn ennill digon o gyflog i fyw arno.’<sup>3</sup> “It would be wrong [...] to assume”, medd Pound, “that every person wandering the roads of Tudor England was, by definition, a rogue. Many genuinely sought work and, if fortunate enough to obtain it, remained in their new locality. Their position invariably remained a tenuous one and they seldom emerged from the ranks of the poor.”<sup>4</sup> Ond weithiau, yr oedd rhai o’r gwir dlodion hyn yn croesi’r ffin, fel petai, ac yn troedio llwybr y cardotwyr llai parchus. Ar ôl diddymu’r mynachlogydd yr oedd llawer o’r morwynion a weithiai yno gynt yn ddi-waith, a’r un oedd tynged gweision a morwynion yr uchelwyr a benderfynodd gwtogi ar y nifer a gyflogent yn ystod diwedd yr unfed ganrif ar bymtheg a dechrau’r ail ganrif ar bymtheg.<sup>5</sup> Gallai cyflogau neu enillion gwael arwain ambell weithiwr i gardota hefyd, ac yr oedd hyn yn arbennig o wir, fe ymddengys, yn achos y bardd neu’r cerddor crwydrol nad enillai gyflog cyson a sefydlog. Medd Beier:

---

<sup>1</sup> Gw. *MM*, t. 4.

<sup>2</sup> *PPTSE*, t. 94.

<sup>3</sup> *TOT*, t. 24; Nia M. W. Powell, ‘Crime and the Community in Denbighshire during the 1590’s: The Evidence of the Records of the Court of Great Sessions’ yn *CCCTW*, t. 282; *RRR*, t. 416.

<sup>4</sup> *PVTE*, t. 28.

<sup>5</sup> *MM*, tt. 23 - 5.

All that is known about vagrant musicians suggests that they were poor. [...] The life of the petty minstrel was hard. Robert Dorey played one day until midnight for some milkmaids near Reading in 1623, and travelled the next day before sun-up to perform for 1d at a gentleman's house. John Parkins had purportedly served Lord Stafford, but was playing at fairs in Essex in 1634, and four years earlier had petitioned Stafford quarter session for poor relief.

It was no coincidence that minstrels were poor and fell out of the law...<sup>1</sup>

Credid bod cerddorion yn gweithio ar y cyd â lladron pocedi: yn wir, cyhuddwyd Richard Cokley – a aeth i ffair Caer yn 1616 i ganu, dawnsio a gwneud triciau – o ddwyn pwrs a oedd yn cynnwys £5.<sup>2</sup>

“For every person prepared to work,” medd Pound, “there was another prepared to earn his living by dishonest means. The idea of a fair’s day’s labour was anathema to them and they were determined to go to any lengths to avoid it.”<sup>3</sup> Er na ddigwyddai’n aml, crwydrai rhai cardotwyr mewn grwpiau o ddau neu dri, dro arall mewn grwpiau o tua hanner cant.<sup>4</sup> Ceid grwpiau o’r fath yng ngoogledd-ddwyrain Cymru, er enghraifft. Yn wir, ymddengys fod un wedi ei anfon o Ysbyty Ifan yn 1578.<sup>5</sup> Weithiau ymosodid ar bobl; arferid gofyn am gardod gan y cyfoethog a dwyn oddi ar y gwan; smaliai rhai eu bod yn wallgof, yn fyddar, neu’n ddall er mwyn cael cardota. Yn wir, talai hynny’n well yn aml na gweithio. Ceir tystiolaeth fod cardotwyr yn Norwich wedi gwastraffu bwyd a gawsant am fod ganddynt fwy na digon ohono, ac yn ôl Edward Hext, Ustus Heddwch Gwlad yr Haf, gwelid rhai cardotwyr yn eu mwynhau eu hunain mewn tafarndai drwy’r

---

<sup>1</sup> *Ibid.*, t. 97.

<sup>2</sup> *Ibid.*

<sup>3</sup> *PVTE*, t. 29. Gw. hefyd *PPTSE*, t. 91.

<sup>4</sup> *TOT*, t. 24.

<sup>5</sup> Powell, ‘Crime and the Community’, t. 284.

dydd yn gwledda ar gig eidion neu gig oen yr oeddynt newydd ei ddwyn.<sup>1</sup> Yn wir, fe gasglodd Nicholas Genning, cardotwr a thwyllwr enwog o Loegr, bedwar swllt ar ddeg mewn un diwrnod: cafodd enillion da iawn o gofio mai chwe cheiniog oedd cyflog gweithiwr ar gyfartaledd yn y cyfnod.<sup>2</sup>

Ceir darlun hynod o eglur o'r sefyllfa yng Nghymru gan Nia Powell. Wrth astudio'r troseddau a gofnodid yn Llyfr y Sesiwn Fawr, darganfu fod llawer o'r troseddau a oedd wedi eu cyflawni yn Sir Ddinbych yn ymwneud â dwyn. Yn 1592, er enghraifft, 12% yn unig o'r achosion oedd ymwneud â thrais, tra bod y gweddill i gyd yn gysylltiedig â dwyn.<sup>3</sup> Drachefn, felly, gwelir yr un patrwm.

Heb amheuaeth, troseddai rhai er mwyn lliniaru ychydig ar eu cyflwr truenus. Gwelir perthynas bendant rhwng cyfeiriadau at ddwyn yd a chyfeiriadau at dlodi, cardota a chrwydro yn y cyfnod hwn, gyda gwŷr o orllewin Meirionnydd a sir Gaernarfon yn amlwg ymhlith yr anghenus a grwydrai tua'r dwyrain. [...] Cyhuddid rhai o ddwyn bwyd - yd yn fwyaf arbennig - i'w fwyta, er ei bod yn anodd weithiau wahaniaethu rhwng lloffa (arfer cydnabyddedig) a lladrata. Dygid pethau eraill, gan gynnwys anifeiliaid i'w gwerthu er mwyn cael arian i brynu bwyd. [...] Dygid yd neu fwydydd eraill hefyd ar adegau, nid i'w fwyta yn uniongyrchol, ond yn hytrach i'w hail-werthu er mwyn manteisio ar brisiau chwyddedig ac yna brynu grawn rhatach neu amrywiaeth o ymborth â'r elw.<sup>4</sup>

Ond, unwaith eto, troseddai rhai cardotwyr gan fod hynny'n haws na gweithio. Cofnodir hanes y cardotyng Thomas ap Robert o Ruthun a aeth ati i ddwyn blanced a chynfas o

---

<sup>1</sup> *PVTE*, t. 30.

<sup>2</sup> *Ibid.*, tt. 30 - 1. Am y mathau o droseddau a gyflawnid gan gardotwyr, gw. *PPTSE*, tt. 101 - 2. Gw. Nia M. W. Powell, 'Trosedd a Chymdeithas yng Ngogledd Cymru: Dwy Sir ar Droad yr Unfed Ganrif ar Bymtheg', *CC V* (Llandysul, 1990), tt. 30 - 55; Caroline A. J. Skeel, 'Social and Economic Conditions', t. 121 am y troseddau a gyflawnid gan aelodau cymdeithas yn gyffredinol.

<sup>3</sup> Powell, 'Trosedd a Chymdeithas', t. 36.

<sup>4</sup> *Ibid.*, t. 44.

feudy yn ystod mis Ionawr 1617. Fe'i daliwyd, ac ystyrir bod ei drosedd yn un ddifrifol gan iddo ddwyn nwyddau a oedd yn werth mwy na 12d.<sup>1</sup> Fe ddygid arian parod hefyd, ynghyd ag anifeiliaid a dillad, y ddau olaf oherwydd y gellid cael pris da amdanynt: er enghraifft gellid cael 8s 6d am grysbas, 26s 8d am fuwch, a hyd at 1s 3d y llath am frethyn cyffredin.<sup>2</sup> Wrth gwrs, mae'r rhan fwyaf o'r achosion yn ymwneud â dwyn anifeiliaid, fel y gellid disgwyl, gan fod modd eu gwerthu am arian neu eu bwyta.<sup>3</sup>

Yn ystod yr unfed ganrif ar bymtheg, felly, ceid crwydriaid a chardotwyr haeddiannol a rhai anhaeddiannol; ceid rhai a droseddai er mwyn goroesi, a rhai am fod gwneud hynny'n haws nag ennill bywoliaeth; ac fe geid teithwyr swyddogol a rhai answyddogol. Er mai'r cardotyn abl a'r cardotyn a droseddai a oedd, mewn gwirionedd, yn bygwth siglo seiliau'r gymdeithas, yr oedd yn anodd iawn gwahaniaethu rhyngddynt hwy a'r teithwyr mwy 'parchus'. "Prin iawn oedd unrhyw ymdeimlad o dosturi tuag at ddihirod crwydrol", medd Geraint H. Jenkins,<sup>4</sup> a chan na ellid gwahaniaethu'n ddigonol rhwng y gwir dlodion a'r cardotwyr, rhwng y teithwyr swyddogol a'r rhai a droseddai, prin iawn oedd tosturi'r llywodraeth. Ys dywed y cwpled:

Beggars they are by one consent,  
And rogues by Act of Parliament.<sup>5</sup>

Fel yr awgrymwyd eisoes, fe geid tldion, cardotwyr a throseddwyr crwydrol yn

---

<sup>1</sup> *Ibid.*, t. 38.

<sup>2</sup> *Ibid.*, tt. 38 - 44.

<sup>3</sup> *Ibid.*, t. 41.

<sup>4</sup> *HCCMC*, t. 49.

<sup>5</sup> Fe'i dyfynnir yn Mary Owen, 'Welsh Folk-Music', *TrCymm* (1897 - 98), t.

ystod y Canol Oesoedd, ond oherwydd nifer o ffactorau cymdeithasol ac economaidd, fe chwyddodd eu niferoedd yn arw yn ystod y Cyfnod Modern Cynnar. "Poverty was of course recognised as one of the great and increasing problems of the sixteenth century", medd Nia Powell.<sup>1</sup> Arweiniodd y cynnydd mewn tlodi at fwy o grwydriaid, a barn W. K. Jordan ydyw mai dyma oedd prif broblem y cyfnod.

The most immediate and pressing concern of government [...] for something more than a century (1520 - 1640) was with the problem of vagrancy. There is no doubt whatever that vagabondage was widespread, that it was organised and that it imposed on rural and village communities burdens and dangers with which they could not cope.<sup>2</sup>

O ddechrau'r unfed ganrif ar bymtheg ymlaen, felly, fe luosogodd y crwydriaid a'r cardotwyr.<sup>3</sup> Gan na cheid cyfrifiad cenedlaethol na chofrestr ar gyfer y di-wiath yn y cyfnod, mae'n anodd iawn, os nad yn amhosibl, ceisio canfod faint yn union o gardotwyr a geid: yn wir, yn 1577 credai Harrison fod 10,000 o gardotwyr yn Lloegr, ond ugain mlynedd yn ddiweddarach yr oedd ustus heddwch o'r farn fod yna 200,000

---

<sup>1</sup> Powell, 'Crime and the Community', t. 282. Cymh. hefyd yr hyn a ddywed E. M. Leonard, *The Early History of English Poor Relief* (London, 1965), t. 11: "...whereas, before the sixteenth century, beggars were only an occasional nuisance, they now became a chronic plague."

<sup>2</sup> W. K. Jordan, *Philanthropy in England 1480 - 1660: A Study of the Changing Pattern of English Social Aspirations* (London, 1959), t. 78. Cymh. sylwadau J. D. Mackie, *The Earlier Tudors: 1485 - 1558* (Oxford, 1978), t. 455: "in the day of Elizabeth, the sturdy beggar was as great a menace as ever." Gw. hefyd Whitney R. D. Jones, *The Tudor Commonwealth 1529 - 1559: A Study of the impact of the social and economic development of mid Tudor England upon contemporary concepts of the nature and duties of the commonwealth* (London, 1970), t. 117.

<sup>3</sup> Gw. *MM*, t. 14; Bowen, 'Ail Eisteddfod Caerwys', t. 147; Paul Slack, *The English Poor Law 1531 - 1782* (Basingstoke, 1990), tt. 11 - 12; Jones, *The Tudor Commonwealth*, t. 117.



ohonynt!<sup>1</sup> Yn ôl astudiaeth a gynhaliwyd yn Swydd Norwich, ymddengys mai rhwng pymtheg a phump ar hugain mlwydd oed yr oedd y mwyafrif o'r crwydriaid.<sup>2</sup> Awgryma Robin Evans fod tua 50 % - 60 % o boblogaeth y wlad yn dlawd, a dyna ydyw awgrym John Pound yntau.

It is undeniable that the numbers of poor, as such, were large. Between them, they comprised anything from 50 to 60 per cent of the population of any area of reasonable size, and on occasion their numbers were higher still. They ranged from the absolutely destitute to the wage-earner. Between one-quarter and one-third of the population were considered to be too poverty stricken to be assesses for taxation purposes in the period 1523 to 1527, and of those that were taxed up to 40 per cent were assesses on wages of 20s a year.<sup>3</sup>

Ymddengys fod y sefyllfa'n waeth yn y trefi nag yng nghefn gwlad, fel y gellid disgwyl. Erbyn yr unfed ganrif ar bymtheg, tua 10% yn unig o boblogaeth y wlad oedd yn byw mewn trefi, ond o blith y rhain yr oedd y mwyafrif ohonynt yn dlawd neu'n ymylu ar fod felly.<sup>4</sup> Ymhellach, yn ystod y ganrif penderfynodd llawer o drigolion cefn gwlad fudo i'r trefi i geisio 'bywyd gwell'. Y canlyniad oedd na allai'r trefi ymdopi.<sup>5</sup>

---

<sup>1</sup> *MM*, tt. 14 - 15. Gw. hefyd *PVTE*, t. 27.

<sup>2</sup> *TOT*, t. 24.

<sup>3</sup> *PVTE*, t. 79.

<sup>4</sup> *TOT*, t. 20.

<sup>5</sup> *Ibid.*, t. 25. Mae Brian Howells, 'The Lower Orders' yn Trevor Herbert & Gareth Elwyn Jones (goln.), *Tudor Wales* (Cardiff, 1988), t. 51, yn nodi bod rhai yn honni bod llawer o Gymry ymhlith cardotwyr Llundain yn 1582, ac mai Cymry oedd mwyafrif y tlodion oedd yn mudo i ddinas Worcester yn 1584.

Yng nghefn gwlad Cymru, fel yn Lloegr, derbynai'r uchelwyr y cyfrifoldeb o gynnal rhai o'r gweiniaid. Credent fod hynny'n arwydd o rinwedd. Canmolwyd Hywel Fychan ap Dafydd Llwyd o Lanuwchllyn gan Wiliam Cynwal, e. e., am roi cymorth "i'r hen tlawd". Medd Nia Powell, 'Crime and the Community', t. 286:

Gentlefolk such as Sir Lewis Mansel and Sir John Stradling were equally generous in their donations to the poor in Glamorgan during their

Daeth problemau cymdeithasol yn ogystal â phroblemau ariannol yn sgîl y mewnfudo i'r trefi. Ceid cyfraddau marwolaeth uchel ac afiechydon lu, ac fe gynyddodd yr achosion o ladrata, meddwi, cardota, a thlodi yn gyffredinol.<sup>1</sup> Llundain oedd waethaf, fel y gellid disgwyl, ac yr oedd yr awdurdodau wedi gorchymyn mor gynnar ag 1475 y dylid diarddel crwydriaid a chardotwyr o'r ddinas.<sup>2</sup> "In such circumstances", medd Slack, "the poor were more easily seen as an undifferentiated and dangerous mass than as individuals to whom the community had a collective responsibility."<sup>3</sup>

Ymhellach, teimlai'r llywodraeth y gallai beirdd crwydrol Cymru wneud niwed i'r wlad trwy godi cynnwrf ymysg y trigolion a thrwy gefnogi gwrthryfel, yn arbennig felly gan eu bod yn hoff o ganu cerddi darogan a cherddi'n trafod materion gwleidyddol neu gymdeithasol. Ys dywed Nia Powell, "yr oedd y crwydriaid [...] yn elfen a ystyrid

---

lifetime, whilst others left generous bequests to help the needy. Some founded institutions; in 1590, for instance, Gabriel Goodman, a Rhuthun man who had become Dean of Westminster founded Christ's Hospital in his home town to relieve the poor, provided they accepted strict regulations laid down by him. Such benevolence is certainly evident in the gaol files of the period. Relief was given at the homes of both yeomen and those of higher status. In January 1599, for instance, Ieuan ap Morys of Llaneurgain Caernarfonshire, was given relief at the house of John Hanmer of Seswick's widow and also at the homes of Roger Puleston and Richard Leighton. At Leighton's house, he was served lunch, 'with other poor', and there were so many there that they were served in what seemed to be at least two sittings. There are some indications indeed that poverty was accommodated in some areas of Wales in such a voluntary, 'unofficial' manner far more rapidly than in England, to the extent that even at the beginning of the eighteenth century, the official poor rate was not levied at all. Certainly, in a period of dearth in late sixteenth-century Denbighshire, even vagabonds were provided for quite generously.

<sup>1</sup> *PPTSE*, tt. 68 - 9.

<sup>2</sup> *TOT*, t. 22.

<sup>3</sup> *PPTSE*, t. 69.

yn fygythiad posibl i sefydlogrwydd, yn elfen a allai esgor ar anniddigrwydd a therfysg.”<sup>1</sup> Mewn gwirionedd, ychydig o gerddi'n trafod Gwrthryfel Glyn Dŵr a gadwyd; ond eto i gyd, awgryma Enid Roberts y gallasai beirdd Cymru, wrth glera o'r naill le i'r llall, ledaenu propaganda.<sup>2</sup> Canu o blaid cael Harri Tudur ar yr orsedd a wnaeth y beirdd adeg Brwydr Bosworth yn 1485, ond gellir dadlau y gallai'r gwrthwyneb fod yn wir dan amgylchiadau gwahanol. Medd Enid Roberts:

Os medrai brawdoliaeth grwydrol o'r fath ddylanwadu mor bendant ar ran teulu brenhinol, yr oedd perygl iddi weithredu i'r gwrthwyneb a chreu anniddigrwydd a therfysg yn y wlad. Yng ngolwg cyfraith Lloegr, ymhlith y *wasters and vagabonds*, mintai grwydrol y tlodion, yr ystyrid y beirdd a'r cerddorion. [...] Hyd yn oed yn Lloegr pobl i'w hofni a'u hamau oedd y *minstrels*. Cludent newyddion o le i le; canent ganeuon brathog yn erbyn swyddogion y goron, a rhoent lais i gwynion y tlawd. Credid iddynt fod yn gymorth i'r "Peasants' Revolt", 1381, i wrthryfel Jack Cade, 1450, ac i fân helyntion hwnt ac yma. O ganlyniad fe'u cosbid a'u carcharu, yn arbennig o 1572 ymlaen.<sup>3</sup>

Ond beth am droi ein golygon yn ôl at dlodion a chardotwyr a chrwydriaid yr

---

<sup>1</sup> Nia Powell, 'Robert ap Huw', t. 37. Gw. hefyd D. J. Bowen, 'Y Cywyddwyr a'r Dirywiad', *B* XXIX (1981), t. 466.

<sup>2</sup> Roberts, 'Eisteddfod Caerwys 1567', tt. 24 - 5.

<sup>3</sup> *Ibid.*, t. 25, t. 26. Cyhuddai'r Saeson y Gwyddyl o godi gwrthryfel yn eu herbyn, yn ogystal. Medd Thomas F. O'Rahilly, 'Irish Poets, Historians, and Judges in English Documents, 1538 - 1615', *PRIA* XXXVI (1922), t. 86:

the English government looked upon the literati with particular disfavour, and time and again punitive measures were put in force against such groups of enemies as 'rebels, vagabonds, rimers, Irish harpers, bards, and other malefactors'. As the conquest proceeded the lot the harried literati class became more and more desperate, until in the disastrous battle of Kinsale Ireland's literary organisation was crushed no less than her political independence.

Fe'i dyfynnir yn Roberts, 'Eisteddfod Caerwys 1567', t. 25.

unfed ganrif ar bymtheg?

Fe gynyddodd crwydreiaeth yn ystod y ganrif oherwydd nifer o resymau.

Ys dywed D. J. Bowen, “Prif achos cyni oedd y cynnydd naturiol yn y boblogaeth”.<sup>1</sup> Yn wir, y cynnydd aruthrol ym mhoblogaeth Prydain yn ystod yr unfed ganrif ar bymtheg oedd prif ysgogydd Deddfau'r Tlodion yn anuniongyrchol ym marn Mathew Hale.<sup>2</sup> Rhwng 1500 a 1600 bu cynnydd o 40% ym mhoblogaeth Lloegr,<sup>3</sup> a thebyg fu hanes Cymru. “Yn y flwyddyn 1500 roedd poblogaeth Cymru tua 250,000”, medd Robin Evans, “ond mae'n ymddangos i'r boblogaeth gynyddu'n sylweddol rhwng 1550 ac 1660 i gyfanswm o 372,000.”<sup>4</sup> Ond er y cynnydd yn y boblogaeth, ni welwyd

---

<sup>1</sup> Bowen, ‘Canrif Olaf y Cywyddwyr’, t. 34. Dyna ydyw barn Brian Howells yntau yn ‘The Lower Orders’, t. 50: “The principal reason for the growth of pauperism in the sixteenth century was that the population was rising rapidly”. Gw. hefyd Jones, *Beirdd yr Uchelwyr a'r Gymdeithas*, t. 54; Jones, *The Tudor Commonwealth*, tt. 114 - 15.

<sup>2</sup> Gw. Slack, *The English Poor Law*, t. 11. Gwaith anodd iawn, fodd bynnag, ydyw mesur yn gywir faint o gynnydd a fu ym mhoblogaeth Cymtu. Ys dywed Geraint H. Jenkins, *HCCMC*, t. 1, “Y mae'n amhosibl tynnu darlun cywir o natur y boblogaeth yng Nghymru yn ystod y cyfnod hwn. Ni wnaethpwyd cyfrif o bob enaid byw ym Mhrydain hyd 1801, a phur anghyflawn ac annibynadwy yw'r ystadegau sydd gennym cyn y flwyddyn honno”. Ond o'r ffynonellau gwybodaeth amrywiol a oedd ar gael yr adeg honno – megis cofnodion treth aelwyd neu asesiadau cymorthdaliadau – gwelid mai cynyddu a wnâi poblogaeth Cymru, yn enwedig rhwng 1540 a 1642. Gw. *RRR*, t. 406; Hugh Thomas, *A History of Wales 1485 - 1600* (Llandybie, 1990), t. 144. Am y ffactorau a arweiniodd at ostyngiad ym mhoblogaeth Cymru cyn yr unfed ganrif ar bymtheg, gw. *TOT*, t. 7; *HCCMC*, t. 1; Matthew Griffiths, ‘Country and Town: Agrarian Change and Urban Fortunes’ yn Herbert & Jones (goln.), *Tudor Wales*, t. 68.

<sup>3</sup> Gw. *PVTE*, t. 4; Jordan, *Philanthropy*, t. 63; *TOT*, t. 7.

<sup>4</sup> *TOT*, t. 7. Gw. hefyd Bowen, ‘Canrif Olaf y Cywyddayr’, t. 35; *HCCMC*, t. 1. Yng Nghymru, yn siroedd y Gogledd y gwelwyd y cynnydd mwyaf, a hynny oherwydd potential amaethyddol a masnachol yr ardal, a chan fod llawer o'r tu draw i Glawdd Offa wedi mudo i siroedd dwyreiniol Cymru. Gw. *HCCMC*, t. 1; *TOT*, t. 7; Bowen, ‘Canrif Olaf y Cywyddwyr’, t. 34; Thomas, *A History of Wales*, t. 145.

cynnydd yn nifer y swyddi a oedd ar gael, ac arweiniodd y galw ychwanegol am nwyddau at dlodi a chwyddiant enfawr.<sup>1</sup>

Arweiniodd cynaeafau gwael,<sup>2</sup> amgáu tir a newid dull o ffermio at dlodi a chrwydreiaeth hefyd,<sup>3</sup> a gwaethygu'r sefyllfa a wnaeth y newidiadau a fu yn y diwydiant

---

<sup>1</sup> Gw. *PVTE*, t. 4; Powell, 'Robert ap Huw', t. 37; *TOT*, t. 7; Howells, 'The Lower Orders', t. 41. Mae'n werth nodi yma fod problem arall a oedd yn gysylltiedig â chynnydd yn y boblogaeth i'w gweld yn yr unfed ganrif ar bymtheg, sef pobl yn mudo o'r naill sir i'r llall ac o'r naill wlad i'r llall o fewn Prydain. Mudodd llawer o Saeson i siroedd yng ngogledd-ddwyrain Cymru, a dyna pam y gwelwyd mwy o gynnydd ym mhoblogaeth y Gogledd. Ys dywed Hugh Thomas, *A History of Wales*, tt. 144 - 5: "It has been estimated that between 1550 and 1670 some 700 English families moved into the county of Flint, 680 families into that of Denbighshire, and 580 into that of Montgomery. These immigrants produced a chain reaction, in that many families of the north-east moved west to the counties of Caernarvonshire, Merioneth, and Anglesey. The result was that, with only slight exception, there was a considerable over-all increase in the north east."

<sup>2</sup> Yn ystod yr unfed ganrif ar bymtheg, nid oedd cael cynhaeaf gwael yn rhywbeth anarferol, ac amcangyfrifir y ceid cynhaeaf gwael bob chwe blynedd yn Lloegr a phob pedair blynedd yng Nghymru.. Gw. John Gwynfor Jones, *Cymru a'r Tuduriaid: Cyfraith a Threfn Weinyddol, Crefydd a Chymdeithas 1534 - 1603* (Aberystwyth, 1993), t. 130; Jones, *The Tudor Commonwealth*, t. 140; Glanmor Williams, 'Addysg yng Nghymru yn ystod yr Oesoedd Canol', *EA XLIX* (1986), t. 74; Howells, 'The Lower Orders', t. 45; *TOT*, t. 5. Weithiau, fel y sylwodd John Pound, *PVTE*, t. 15, a D. J. Bowen, 'Canrif Olaf y Cywyddwyr', t. 34, ceid cynaeafau gwael am ddwy neu dair blynedd yn olynol, ac arweiniai hynny at lai o fwyd ac at gynnydd sylweddol ym mhris y bwyd a oedd ar gael. Cafwyd cynaeafau nodedig o wael yng Nghymru yn ystod y blynyddoedd a ganlyn: 1549 - 51, 1594 - 7, 1629, 1645 - 9, 1656 - 9, y 1670au, y 1690au 1739 - 41, 1756 - 8. Am fwy o wybodaeth, gw. *HCCMC*, tt. 13 - 14; R. B. Outhwaite, *Inflation in Tudor and Stuart England* (London, 1969), t. 14; Slack, *The English Poor Law*, t. 11. Ymatebodd rhai o feirdd oes Elisabeth i'r sefyllfa, yn arbennig yn ystod 80au a 90au'r unfed ganrif ar bymtheg. Cyfeiria Harri Bach Brydydd, e.e., at yr "yd yn ffaely", a dywed fod newyn, ynghyd â marwolaeth a rhyfel, yn bygwth pawb ar adegau. Gw. Glanmor Williams, 'Yr Hanesydd a'r Canu Rhydd Cynnar', *Grym Tafodau Tân*, t. 146.

<sup>3</sup> Cyn y bymthegfed ganrif ceid tiroedd comin, ac yr oedd gan bawb yr hawl i fynd â'u hanifeiliaid yno i bori. Yn yr unfed ganrif ar bymtheg, fodd bynnag, llwyddodd aelodau dylanwadol o'r gymdeithas i'w hamgáu, gan rwystro'r werin rhag eu defnyddio. Heb gael defnyddio'r tiroedd comin, ni allai'r bobl fwydo'u hanifeiliaid, a heb anifeiliaid ddi tlodi'n nes ac yn nes. Ymhellach, cyn yr unfed ganrif ar bymtheg, tyfu cnydau a wnâi amaethwyr Cymru gan amlaf, ond yn ystod y

brethyn, rhyfeloedd y cyfnod a diddymu mynachlogydd y wlad.<sup>1</sup>

Fodd bynnag, ar ôl y cynnydd a welwyd ym mhoblogaeth y wlad, y prif ffactor a arweiniodd at dlodi a chrwydreiaeth – a'r hyn a effeithiodd fwyaf ar wŷr wrth gerdd Cymru, o bosibl – oedd chwyddiant.

Bu'r unfed ganrif ar bymtheg yn ganrif a welodd chwyddiant enfawr. Er bod rhai, megis Thomas Rogers, wedi dadlau na ddechreuodd chwyddiant tan y 1540au,

---

ganrif hon sylweddolwyd bod porri defaid yn talu'n well, ac felly fe ddefnyddid y tir – a gâi ei ddefnyddio cyn hyn i dyfu cnydau – i bori defaid. Gan nad oedd angen cymaint o weithwyr gyda'r dull newydd hwn o ffermio, câi'r perchnogion fwy o elw, ond fe wnaed llawer o weision fferm yn ddi-waith. Gw. *EC*, t. 34; G. R. Elton, *England Under the Tudors* (London, 1955), t. 232; Jordan, *Philanthropy*, t. 60; Andrew Watkins, 'Peasants in Arden' yn Richard Britnell (gol.), *Daily Life in the Late Middle Ages* (Gloucestershire, 1998), t. 83; *TOT*, tt. 13 - 15, t. 37; *PVTE*, t. 7; Jones, *The Tudor Commonwealth*, tt. 157 - 8.

<sup>1</sup> Yn y bymthegfed ganrif yr oedd y diwydiant gwlan yn ffynnu ym Mhrydain, a hynny gan fod Prydain yn allforio gwlan i wledydd eraill. O 1460 ymlaen dechreuwyd allforio mwy fyth o wlan o Brydain, a gwelwyd cynnydd o 60% yn yr allforio hwn rhwng dechrau a diwedd cyfnod Harri VIII ar yr orsedd. Yna, fodd bynnag, cafwyd dirwasgiad, a hynny'n rhannol oherwydd gorgynhyrchu. Collodd nifer eu gwaith, naill ai dros dro neu'n barhaol, a'r unig ddewis i ambell un oedd cardota er mwyn cael cynhaliaeth. Gw. *TOT*, t. 17; *PVTE*, t. 6.

Ymhellach, yr oedd y Canol Oesoedd a'r Cyfnod Modern Cynnar yn gyfnodau o ryfela. I filwyr cyflogedig na chaent eu lladd, yr oedd pethau'n bur dderbyniol, ond yr oedd diwedd i bob rhyfel, ac ar ôl i'r brwydro orffen yr oedd y milwyr hyn – a oedd, fel arfer, yn arfog o hyd – yn ddi-waith, a'r unig ateb i lawer ohonynt oedd crwydro'r wlad yn chwilio am gynhaliaeth. Gwelwyd llawer iawn o filwyr di-waith ar ôl Rhyfel y Rhosynnau, e.e., a gwaethygu'r sefyllfa a wnaeth penderfyniad Harri VII i gyfyngu ar fyddinoedd preifat gan fod gwŷr bonheddig y wlad wedi gorfod cael gwared â mwy na'r disgwyl o'u milwyr. Gw. *TOT*, t. 4.

Yn ogystal, rhwng 1536 a 1539 fe ddadwaddolwyd mynachlogydd Cymru a Lloegr, a hynny'n bennaf gan fod Prif Weinidog Harri VIII, sef Thomas Cromwell, angen arian i'r goron. Wedi'r dadwaddoli ceid llawer iawn o fynaich a lleianod di-waith, a diweithdra a wynebai morwynion a gweision y mynachlogydd, ynghyd â'r rhai a weithiai ar y tir. Yn ogystal â chreu tlodion a chardotwyr o'r rhai a weithiai yn y mynachlogydd, fe ychwanegodd y dadwaddoli at dlodi o fath arall. Cyn hyn, câi'r tlodion eu bwydo a'u hymgeleddu yn y mynachlogydd, ond ar ôl i'r mynachlogydd ddiflannu yr oeddynt ar drugaredd y wlad a rhai elusennau preifat. Ymhellach, collodd beirdd Cymru nawdd y mynaich a ymddiddorai yn y gelfyddyd. Gw. *MM*, t. 23; Jordan, *Philanthropy*, tt. 58 - 60; *TOT*, t. 5; *PVTE*, tt. 16 - 22; *EC*, tt. 34 - 6.

derbynnir heddiw ei fod, mewn gwirionedd, wedi dechrau tua 1480, er na welwyd chwyddiant cyson tan y 1510au neu'r 1520au. Gydag effeithiau cynaeafau gwael y 50au, daeth i'w benllanw tua 1556/7. Yr oedd y 1560au rywfaint yn well, ond gwelwyd chwyddiant aruthrol eto yn ystod y 70au a'r 80au, ac mewn gwirionedd fe barhaodd i lethu pobl y wlad hyd ddiwedd yr ail ganrif ar bymtheg.<sup>1</sup>

Arweiniodd hyn oll at broblemau enfawr i drigolion y wlad. "Yn ddiau", medd J. Gwynfor Jones, "chwyddiant oedd un o'r problemau mwyaf dyrys a wynebodd y llywodraeth o flynyddoedd canol yr unfed ganrif ar bymtheg hyd at y degawdau cyn y Rhyfeloedd Cartref."<sup>2</sup> A chan fod prisiau'n codi'n gynt na chyflogau, yr oedd hi'n fain iawn ar bawb, yn arbennig ar y tlodion. A chyffredinoli, erbyn canol y ganrif yr oedd prisiau nwyddau wedi dyblu, a threblu erbyn yr 80au; ac, yn wir, erbyn diwedd yr unfed ganrif ar bymtheg yr oedd prisiau bedair gwaith yr hyn yr arferent fod ar ddechrau'r ganrif.<sup>3</sup> O fewn ychydig o flynyddoedd, rhwng 1590 a 1596-8, fe ddyblodd prisiau bwyd, ac ar adegau gwelwyd chwyddiant o 600%.<sup>4</sup> Wrth gwrs, amrywiai prisiau gwahanol fathau o nwyddau yn ôl y galw a oedd amdanynt. Yn ôl Robin Evans, fe gynyddodd prisiau rhyg wyth gwaith, gwenith saith gwaith, a llefrith bumgwaith.<sup>5</sup> Tebyg fu'r effaith yn Lloegr.

---

<sup>1</sup> Gw. Bowen, 'Beirdd a Noddwyr (Rhan III)', t. 26; idem., 'Canrif Olaf y Cywyddwyr', t. 34; Elton, *England*, tt. 224 - 8; *TOT*, t. 7; Outhwaite, *Inflation*, tt. 12 - 15; Jones, *Beirdd yr Uchelwyr a'r Gymdeithas*, t. 138; Jones, *The Tudor Commonwealth*, tt. 115 - 16.

<sup>2</sup> Jones, *Beirdd yr Uchelwyr a'r Gymdeithas*, t. 140.

<sup>3</sup> Bowen, 'Canrif Olaf y Cywyddwyr', t. 34; Elton, *England*, tt. 224 - 5; Outhwaite, *Inflation*, t. 13.

<sup>4</sup> Gw. Powell, 'Trosedd a Chymdeithas', t. 33, t. 44.

<sup>5</sup> *TOT*, t. 8. Gw. hefyd Jones, *Beirdd yr Uchelwyr a'r Gymdeithas*, t. 140.

In the latter half of the sixteenth-century, corn cost from three to ten times the average price of the previous three centuries. Sugar rose from fourpence to half-a-crown. Stowe tells us that not only corn “but all things else, whatever was sustenance for man, was likewise raised whithout all conscience or reason.” Rents increased exorbitantly during the same period. A farm which in the earlier part of the century let for ten shillings, would fetch in 1583 as much as ten pounds.<sup>1</sup>

Yr hyn a wnâi effeithiai'r chwyddiant yn waeth oedd y ffaith ei fod wedi dod yn sydyn o rywle, heb fawr o rybudd, ar ôl canrif o brisiau pur sefydlog.<sup>2</sup> Teimlai'r llywodraeth fod yn rhaid iddynt ymyrryd er mwyn ceisio gwella'r sefyllfa, a'u hateb oedd llygru'r arian bath yn 1526. Fe wnaed yr un peth yn 1544, ond yn y bôn gwaethygu'r chwyddiant a wnaeth hyn.

O ganlyniad nid oedd gan y cyhoedd unrhyw ffydd yn yr arian bath newydd ac felly roeddynt yn mynnu mwy o bres am eu nwyddau. Golygai hyn fod gwerth pres yn gostwng eto, ac felly cynyddai'r chwyddiant unwaith yn rhagor. Parhâi Dug Somerset â'r polisi o lygru'r arian bath yn 1551 ac o ganlyniad i hynny, ac i gynhaeaf gwael 1549, cafwyd cynnydd sydyn a sylweddol mewn prisiau.<sup>3</sup>

Fe effeithiodd chwyddiant ar dlodion a chyfoethogion fel ei gilydd. Ym marn y beirdd, yr oedd elfen o gybydd-dod ar ran y noddwr yn perthyn i'r lleihad a fu mewn nawdd, ond, wrth gwrs, ffordd hwylus o geisio gwasgu defnyn neu ddau ychwanegol o gadach digon sych oedd hynny. Fe weithiodd tactegau'r beirdd i raddau gan fod llawer o'r uchelwyr mwyaf llewyrchus wedi parhau i'w noddi er gwaethaf y caledi ariannol; ond yr oedd sefyllfa'r uchelwyr llai llewyrchus rywfaint yn wahanol, fe ymddengys. A chyffredinoli, “mewn blynyddoedd pan oedd y dirwasgiad yn pwysu'n drwm, mae'n

---

<sup>1</sup> Sheavyn, *The Literary Profession*, tt. 3 - 4.

<sup>2</sup> Outhwaite, *Inflation*, t. 9; Bowen, 'Canrif Olaf y Cywyddwyr', t. 34.

<sup>3</sup> *TOT*, t. 11. Gw. hefyd Elton, *England*, tt. 226 - 8.



ddiau bod grym economaidd llawer o ystadau bychain a chanolig yng Nghymru'n bur  
simsan", medd J. Gwynfor Jones<sup>1</sup> Yr oedd sefyllfa'r tlodion yn waeth byth. Fel y  
nodwyd eisoes, cyflogau isel a geid yn yr unfed ganrif ar bymtheg, yn arbennig  
cyflogau'r gweithwyr heb grefft, ac ni chynyddai'r cyflogau hyn yn unol â chwyddiant.  
Ychydig iawn o weithwyr a oedd yn berchen ar na thir na thŷ, a'u hunig ddewis dan  
bwysau chwyddiant o'r fath oedd byw ar lai. Gorfû i rai fyw ar gymorth eu cymdogion:  
eu hunig ddewis arall oedd newynu.<sup>2</sup>

Blynyddoedd o hyfforddi o'u blaenau heb sicrwydd y caent nawdd: dyna oedd  
sefyllfa'r beirdd yng Nghymru yn y cyfnod.<sup>3</sup> 'Does ryfedd fod rhai ohonynt wedi lleisio  
eu cwynion a'u pryderon mewn cerddi. Medd Ifan Llwyd Sieffre:

Yno y doeth prinder drwy gymry a lloeger  
kyfyngder ar lawer o newyn  
rhoi saith goron chwedyl chwith  
am hob o wenith Rhvthyn.<sup>4</sup>

Lluniodd Owain Gwynedd hefyd ddwy gyfres o englynion yn sôn am galedi ariannol yr  
oes:

Hawdd oedd gael dyn hael dan hed - o ruddaur  
A roddai ym wared;  
Hawdd ym gael heddiw, am ged,  
Eidion cul a dyn caled.

---

<sup>1</sup> Jones, *Beirdd yr Uchelwyr a'r Gymdeithas*, t. 139.

<sup>2</sup> Gw. *PVTE*, t. 12.

<sup>3</sup> Bowen, 'Canrif Olaf y Cywyddwyr', t. 34; *RLNW*, t. 162.

<sup>4</sup> Fe'i dyfynnir yn Williams, 'Yr Hanesydd a'r Canu Rhydd Cynnar', t. 146.

Byd yw hwn croendwn, byd crindon - cilwg,  
Byd caled ar ddynion,  
Byd cloi'r da, byd cael o'r don,  
Byd cêl yd, byd cul eidion. (1573)

\* \* \*

Dyma fyd adfyd, awn i udfan, - glêr,  
Ym ni'n glir heb arian;  
Dyma'r flwyddyn, ei hunan,  
Diystyr gwŷr, dyst i'r gwan.

Gynt, rhai oedd fawai, wedd feth, - a chrinion  
A chryno o rywbeth;  
Yrŵan, ddrygan ddrewgreth,  
Bawai yw pawb o bob peth.

Pob ffrwyth, pob tylwyth, pob teulu, - pob dewr,  
Pob dirwest yn pallu;  
Pob merch, pob llannerch, pob llu,  
Pob enw maith, pawb yn methu.

Cawod a thrawod ar athrawon - byd,  
Rhaid yw bod yn fodlon;  
E ddaw yna i ddynion  
Gawod o haul gwedi hon.<sup>1</sup>

Fel y ceir gweld maes o law, fe luniwyd deddfau gan y llywodraeth yn ystod y Cyfnod Modern Cynnar, deddfau a geisiai reoli a chosbi cardotwyr a segurwyr yn bennaf, gyda rhai yn ceisio lleddfu amgylchiadau'r tlodion anghenus. Cyn 1500, fodd bynnag, ni cheid darpariaeth o'r fath, a dibynnai'r tlodion ar gymorth gan sefydliadau megis mynachlogydd, eglwysi, a chan elusennau preifat. Erbyn yr unfed ganrif ar bymtheg, fodd bynnag, cwyd nad oedd eglwysi'n rhoi cymorth fel y dylent ac nad oedd digon yn cyfrannu at elusennau preifat, ac felly penderfynodd y llywodraeth ymyrryd.

Cyfuniad o'r ffactorau a drafodwyd uchod, felly, a arweiniodd at ddwysáu

---

<sup>1</sup> Dyfynnir yr englynion yn D. Roy Saer, 'Owain Gwynedd: ii Ei Gerddi', *LIC* VI, rhifyn 3 a 4 (Ionor - Gorffennaf, 1961), t. 206.

problem cardota'r unfed ganrif ar bymtheg.

Fodd bynnag, nid oes llawer o dystiolaeth ar gael i ategu'r syniad fod y cardotwyr a'r crwydriaid hyn wedi siglo seiliau cymdeithas. Awgrymir hefyd fod sylwebyddion y cyfnod wedi gorliwio pethau wrth drafod niferoedd y cardotwyr a'r crwydriaid, ac wrth drafod eu hymddygiad.<sup>1</sup> “Er bod lle i ofni y byddai cynnydd yn eu niferoedd yn fygythiol i sefydlogrwydd y deyrnas, yn arbennig mewn cyfnod o gyni”, medd J. Gwynfor Jones, “yn arferol lleiafrif bach o wŷr a merched a achosai drafferthion mawr i’w awdurdodau. Ymdriniai’r ustusiaid heddwch a’u cyd-swyddogion yn y cartrefi a’r plwyfi lawer mwy â mamau a phlant anghyfreithlon ganddynt, ac â’r tlawd anghenus a ddifreintwyd gan eu hamgylchiadau.”<sup>2</sup> Ymhellach, ni bu cynnydd enfawr yn nhroseddau’r cyfnod, ac o blith y troseddau a gyflawnid, rhai’n ymwneud â dwyn yn hytrach nag â thrais a welid amlaf.<sup>3</sup>

I’r llywodraeth, serch hynny, bygythiad iddynt hwy ac i gymdeithas oedd unrhyw sôn am gardotwyr a chrwydriaid a thlodion anfodlon, a dyna pam y lluniwyd deddfau llym a oedd yn ymdrin yn bennaf â chosbi cardotwyr a chrwydriaid yn hytrach na cheisio lleddfu cyflwr y gwan. Pam, felly, y lluniwyd deddfau o’r fath? Mae’r ateb, yn rhannol, i’w ganfod yn syniad y Tuduriaid ynghylch cymdeithas. Gair mawr y llywodraeth Duduraidd oedd ‘sefydlogrwydd’, a gellid ceisio cyrraedd y delfryd hwn

---

<sup>1</sup> *TOT*, t. 25; Jones, *Beirdd yr Uchelwyr a’r Gymdeithas*, t. 132.

<sup>2</sup> *Ibid.*, tt. 132 - 3. Gw. hefyd *PPTSE*; Jones, *The Tudor Commonwealth*, t. 132.

<sup>3</sup> Gw. *TOT*, t. 25.

trwy gael rheolau unffurf a phendant drwy'r holl wlad.<sup>1</sup> Yng ngeiriau J. Gwynfor Jones:

Prif amcan polisiau economaidd y Tuduriaid oedd ceisio (yn ofer mae'n wir) cynnal cydbwysedd organig o fewn y gymdeithas hierarchyddol y credid yn ffyddiog ei bod yn parhau i ffynnu ynghyd â chryfhau sefydlogrwydd y byd economaidd ac amddiffyn ei holl amgylchfyd. [...]Ofnid dryswch ac anghydfod cymdeithasol. Yn y cyfrwng hwnnw rhoddid pwyslais ar radd a threfn. 'Every degree of people in their vocation, calling, and office,' meddid, 'hath appointed them their duty and order. So that in all things is to be lauded and praised the goodly order of God'. Credid bod anghyfartaledd rhwng deiliaid teyrnas yn anorfod a derbyniol ond ni fyddid yn dygymod ag aflonyddech o fewn yr haenau hynny i'r diben o greu mwy o wastadrwydd rhyngddynt.<sup>2</sup>

Fel y sylwodd J. Gwynfor Jones ymhelach:

Cyfrifid bod gwrthryfel mewn unrhyw ffurf yn bechod gwleidyddol, nid yn unig am iddo beri gwae a dinistr ond, yn bwysicach, am iddo amharu ar gydbwysedd y fframwaith cymdeithasol traddodiadol o fewn y deyrnas Duduraidd.<sup>3</sup>

Oherwydd "Ofnid gwrthryfel a therfysg fel y pla yng nghanrif y Tuduriaid."<sup>4</sup>

---

<sup>1</sup> Gw. J. Gwynfor Jones, 'Hanfodion Undod Gwladwriaethol, Cyfraith a Threfn yng Nghymru Cyfnod y Tuduriaid: Tystiolaeth Beirdd yr Uchelwyr', *LIC XV*, rhifyn 1 a 2 (Ionor - Gorffennaf, 1984 - 86), t. 34, t. 35, t. 36, t. 38, t. 40, t. 53.

<sup>2</sup> *Ibid.*, t. 41.

<sup>3</sup> *Ibid.*, t. 35.

<sup>4</sup> *Ibid.*, t. 40. Cymh. yr hyn a ddywed W. K. Jordan, *Philanthropy*, t. 77:

It may be safely said that the steady concern of the Tudors with the problem of poverty followed from the almost obsessive preoccupation of these great rulers with the question of public order. Henry VII, his son, and his granddaughter all shared an intuitive sensitivity in this matter and were quick to lash out when the slight threat to public security appeared in any part of the realm. This concern was surely part of their jealous conception of the meaning of sovereignty and their abiding resolution to secure the realm and their throne from the chronic disorder of the preceding century. We may well believe that these monarchs were not moved by sentiments of piety or of pity as they resolutely addressed themselves to the problem of poverty, but they were at the same time deeply persuaded that unrelieved and uncontrolled

## 2. *Beirdd, Crwydriaid a'r Gyfraith*

Yr oedd y twf yn nifer y cardotwyr, y crwydriaid a'r beirdd crwydrol a ledaenai bropaganda yn poeni awdurdodau'r unfed ganrif ar bymtheg, a hynny gan fod modd iddynt gynhyrfu'r dyfroedd yr hoffent iddynt fod mor dawel.<sup>1</sup> Ymgais i'w rheoli a'u tawelu – yn ogystal ag i'w helpu ryw gymaint – fu'r deddfau a elwir yn Ddeddfau'r Tlodion.

Dyma grynodedb o'r prif ddeddfau sy'n ymwneud â'r tlodion, y crwydriaid, y cardotwyr a'r beirdd hyd at ddechrau'r ail ganrif ar bymtheg:

(i)1282

Yn y flwyddyn hon, deddfodd Edward I na ddylai “Wastres Barthes & Rymors” a gwŷr crwydrol eraill gymortha, sef gofyn am gynhaliaeth neu gymorth neu gardod.<sup>2</sup> Ymddengys na lwyddwyd i ddileu'r arfer, fodd bynnag, oherwydd yn yr unfed ganrif ar bymtheg cyfeirir at yr arfer gan Gyngor Cymru a'r Gororau:

The Kymorthas which was wont to be a benevolence is now grown to be partlie compulsorei by suche as have riotouslie wasted their living or have been greatlie charged to win their saftie for some heynous murther or felonie to the

---

poverty was the most fertile breeding ground fod local disorders which might by a kind of social contagion flame across the whole realm. Hence it was that the immense power of the Crown was steadily addressed to the problem of poverty.

<sup>1</sup> Lluniai'r beirdd gerddi darogan a cherddi proffwydol, cerddi a allai ddeffro gwrthryfel. Gw. R. Geraint Gruffydd, 'Yr Iaith Gymraeg mewn Ysgolheictod a Diwylliant' yn *HCIG*, tt. 339 - 40; Sugget, 'Yr Iaith Gymraeg', tt. 171 - 5; J. E. Caerwyn Williams & Patrick K. Ford, *The Irish Literary Tradition* (Cardiff, 1992), tt. 175 - 6.

<sup>2</sup> Gw. Bowen, 'Agweddau', t. 70; Chambers, *The Mediaeval Stage I*, t. 54, troednodyn 3; Skeel, 'Social and Economic Conditions', tt. 128 - 9.

importunate charge of the best sort of men. And therefore worthie to be staide, for the honest and simple are never releived therbie.<sup>1</sup>

Yn Lloegr, fe gosbid gwŷr am gymortha. Eu dirwyo a gaent – dirwy a amrywiau, fel arfer, o ryw 6s 8d i £3. Fodd bynnag, fe gysylltid cymortha ag “extraction, extortion and oppression” weithiau,<sup>2</sup> ac ar adegau felly gellid rhoi dirwy o £30 i’r euog.<sup>3</sup>

(ii) 1315

Yn 1315 fe gyfyngwyd ar ryddid minstreliaid. Oherwydd yr holl segurwyr a’r holl gardotwyr a grwydrai o dŷ i dŷ yn hawlio bwyd a diod ac anrhegion – gan gymryd arnynt eu bod yn finstreliaid swyddogol – deddfodd Edward II “that to the houses of prelates earls and barons none resort to meate and drynke, unless he be a mynstrel, and of those mynstrels that there come none except it be three or four mysntrels of honour at the most in one day, unlesse he be desired to of the lorde of the house.”<sup>4</sup> Ymhellach, deddfwyd na ddylent fynd i dŷ uchelwr llai llewyrchus oni bai ei fod wedi gofyn iddynt fynd yno.<sup>5</sup> Ymddenys fod ‘minstrel of honour’ yn golygu minstrel dilys a chanddo gysylltiad â thŷ uchelwr nodedig: hynny ydyw, bod cysylltiad â noddwr yn gwneud cerddor yn swyddogol, gan ei wahaniaethu oddi wrth y segurwyr.<sup>6</sup> Nodwyd hefyd y

---

<sup>1</sup> Skeel, ‘Social and Economic Conditions’, t. 128.

<sup>2</sup> *Ibid.*, t. 129.

<sup>3</sup> *Ibid.*

<sup>4</sup> Fe’i dyfynnir yn Chambers, *The Mediaeval Stage I*, t. 54.

<sup>5</sup> Gw. Rowlands, ‘Nodiadau’, t. 239. Ymddengys fod un o reolau Statud Gruffudd ap Cynan yn adleisio’r ddeddf hon.

<sup>6</sup> Chambers, *The Mediaeval Stage I*, t. 54.

dylai'r cerddor fodloni ar y rhodd a gâi. Hefyd pe troseddai unwaith, byddai'n colli ei safle; pe troseddai yr eilwaith, collai ei grefft.<sup>1</sup>

(iii) 1349

Yn y flwyddyn hon deddfodd Edward III na ddylid rhoi elusen i gardotwyr abl ond, yn hytrach, y dylid eu hannog i weithio.<sup>2</sup>

(iv) 1361

Gorchmynwyd y dylid gwarthnodi ffoaduriaid ar eu talcen gyda'r llythyren 'F'. Fodd bynnag, ni cheir tystiolaeth fod y gosb hon wedi ei gweithredu.<sup>3</sup>

(v) 1402

Fel Deddf 1282, mae'r ddeddf hon, a luniwyd yn ystod teyrnasiad Harri IV, yn berthnasol iawn i'r beirdd yng Nghymru.

4 Henry 4, c. 28

AGAINST WASTERS, MINSTRELS, &c.. In WALES

Item, to eschew many diseases and Mischief which have happened before this time in the Land of WALES by many Wasters, Rhymers, Minstrels and other Vagabonds; It ordained and stablished that no Waster, Rhymer, Minstrel nor Vagabond be in any wise sustained in the Land of WALES to make Commorthies or gathering upon the Common people there.<sup>4</sup>

---

<sup>1</sup> Gw. Bowen, 'Agweddau', t. 70; idem., 'Dafydd ab Edmwnt', t. 444; Holz knecht, *Literary Patronage*, tt. 33 - 4.

<sup>2</sup> Gw. Jordan, *Philanthropy*, t. 83.

<sup>3</sup> Gw. *MM*, t. 159.

<sup>4</sup> Ivor Bowen, *The Statutes of Wales* (London, 1908), t. 34.

Fe basiwyd sawl deddf yn ymwneud â Chymru yn ystod y cyfnod hwn, a phob un wedi ei llunio, ys dywed Ivor Bowen, “for the purpose of crushing the national spirit of the WELSH people.”<sup>1</sup> Rhwng 1400-1 pasiwyd chwech o ddeddfau – er enghraifft, ni châl Cymro brynu tir yn Lloegr nac ym mhlwyfi trefol Seisnig Cymru – a gwelwyd mwy yn 1402: yn ogystal â’r ddeddf a ddyfynnir uchod, gorchmynnwyd na ddylai Sais gael ei gollfarnu gan Gymro yng Nghymru.<sup>2</sup>

Ymhelaetha Dafydd Jenkins ar ddeddfau tebyg:

There were further repressive statutes in 1402, two in 1407, and one each in 1413 and 1414, before a statute of 1430 confirmed all previous fulminations against Owain Glyn Dŵr for the “great Insurrections, Rebellions and horrible Treason imagined and committed by him. This did not close the chapter: another Act “concerning outrages by Welshmen” was passed in 1441 - 2, and all statutes against Welshmen were confirmed in 1446 - 7 by an Act which also provided “that all grants of franchises, markets, fairs and other liberties to buy or to sell within the towns of North Wales, made to any Welshmen before this time shall be voided and of no value”.<sup>3</sup>

Mae amseru’r deddfau cynharaf hyn yn hanfodol bwysig wrth drafod eu cynnwys, wrth gwrs, gan eu bod wedi eu pasio yn ystod cyfnod Gwrthryfel Owain Glyndŵr. Ymosodai Owain Glyndŵr a’i ddilynwyr ar gestyll Lloegr; deisyfai annibyniaeth i Eglwys Cymru ac annibyniaeth i’r wlad ei hun; a dymunai weld dwy brifysgol yn y wlad. Ys dywed Ivor Bowen, “[he] instilled a dread into the English authorities. Under the circumstances it is not surprising to find legislative measures of a repressive character

---

<sup>1</sup> *Ibid.*, t. xlv. Gw. hefyd C. J. Ribton-Turner, *A History of Vagrants and Vagrancy and Beggars and Begging* (London, 1887), tt. 63 - 4.

<sup>2</sup> *Ibid.*, tt. xlv - xlvi.

<sup>3</sup> Dafydd Jenkins, ‘Law and Government in Wales before the Act of Union’, *CLP*, t. 45.



passed by the English Parliament.”<sup>1</sup>

O safbwynt y llywodraeth, yr oedd mwy iddi na hyn, fodd bynnag, yn enwedig o gofio Deddf 4 Henry 4, c. 28. Deddf oedd hon yr anelid ei heffeithiau'n syth at feirdd Cymru, a hynny fe ymddengys gan fod y beirdd, fel y nodwyd eisoes, yn gallu codi cynnwrf ymysg trigolion y wlad, cynnwrf a allai ddatblygu'n helynt gwleidyddol a chymdeithasol. Rhan o hyn, wrth gwrs, oedd canu proffwydol y beirdd – canu a broffwydai y byddai'r Cymry'n curo'r Saeson yn yn pen draw.<sup>2</sup>

Ymhellach, awgryma'r ddeddf na wahaniaethid rhwng y beirdd swyddogol yng Nghymru ar y naill law a'r rhai answyddogol, iselradd, difeistr a grwydrai'r wlad ar y llaw arall.<sup>3</sup> Medd Gwyn Thomas:

Daliodd senedd Llundain i gymysgu rhwng minstreliaid o Saeson a phrydyddion a cherddorion y traddodiad clasurol Cymraeg. Yn yr unfed ganrif ar bymtheg yr hyn a olygid wrth finstreliaid yn Lloegr oedd pawb oedd yn difyrnu trwy gân - y ffidleriaid, pibwyr, cantorion a baledwyr. Byddai'r rhain yn mynd ar draws gwlad i ddiddanu pobl mewn tafarnau a ffeiriau gyda chaneuon go faswedus ar brydiau. (Yr oedd rhai tebyg iddynt i'w cael yng Nghymru hefyd, bid siŵr, ond nid y beirdd traddodiadol oedd y rheini.)<sup>4</sup>

A thebyg ydyw sylw A. D. Carr:

The Council [at Ludlow] was responsible for supervising the maintenance of law and order in Wales and then for the control of vagrancy, and the existence of a class of craftsmen whose living depended on travelling from house to house

---

<sup>1</sup> *Ibid.*, tt. xlv - xlv.

<sup>2</sup> Gw. *EC*, t. 36; Bowen, 'Agweddau', t. 69; Carr, 'The Mostyn Family & Estate', t. 348; Chambers, *The Mediaeval Stage* I, t. 54.

<sup>3</sup> Gw. W. J. Gruffydd, *Llenyddiaeth Cymru 1450 - 1600* (Lerpwl, 1922), t. 5; *EC*, t. 36.

<sup>4</sup> *EC*, tt. 36 - 8.

posed the problem of how to distinguish between the trained professional poet and the itinerant mountback, beggar, or bear-leader; the legislation against vagrants and sturdy beggars made no such distinction.<sup>1</sup>

(vi) 1469 a gild Edward IV

Yn 1469 fe luniodd Edward IV gild neu urdd i'r cerddorion, urdd a geisiai eu gwarchod rhag ofergerddorion. I'r cerddorion swyddogol i gyd, yn arbennig i gerddorion y brenin ei hun, yr oedd hyn yn newydd da gan y byddai'n llawer llai tebygol iddynt gael eu camgymryd bellach am gardotwyr neu grwydriaid troseddol. Yn anffodus, nid oedd y ddeddf hon yn cynnig yr un sicrwydd i'r beirdd yng Nghymru. Ys dywed A. D. Carr:

Thus steps had been taken to incorporate the minstrels and protect them from the vagrancy laws and from the restrictions on free movement imposed by the Statute of Labourers, but no such charter had been granted to the bards although they were an organised craft...<sup>2</sup>

Fe luniwyd y ddeddf hon gan Edward IV gan fod rhai ofergerddorion yn arddel teitl a lifrau ei gerddorion swyddogol ef, gan hawlio tâl a rhoddion anghyfreithlon. Er mwyn gwarchod y cerddorion swyddogol, felly, fe adnewyddodd Edward urdd y cerddorion gyda'i gerddorion ef â rheolaeth drosti. Yr oedd gan swyddogion yr urdd hon yr hawl i ddisgyblu cerddorion y wlad i gyd, ac eithrio cerddorion Caer, ac yr oedd ganddynt hefyd yr hawl i lunio statudau ac ordeiniadau.<sup>3</sup> Ymddengys, felly, na châi rhywun-rhywun ymuno â'r urdd. "It is not improbable, although it is not distinctly

---

<sup>1</sup> Carr, 'The Mostyn Family & Estate', t. 355.

<sup>2</sup> *Ibid.*, t. 349.

<sup>3</sup> Gw. Chambers, *The Mediaeval Stage* I, t. 55; Bowen, 'Agweddau', t. 70; *MM*, t. 98; Bowen, 'Dafydd ab Edmwn't', t. 444.

stated,” medd Chambers, “that admission into the guild was practically confined to ‘minstrels of honour’.”<sup>1</sup>

Yn ogystal â gwarchod safle’r cerddorion, gwelir bod siartr Edward IV yn nodi eu dyletswyddau.

Yn ôl ‘Llyfr Du’ Edward IV, dylai cerddorion y brenin fod yn bresennol yn y llys adeg y pum gŵyl arbennig, ac am weddill y flwyddyn dylai dau neu dri ohonynt (rhagor pes mynnid) aros i wasanaethu ar y brenin, tra ymddengys ei bod yn rhydd i’r lleill glera. Gwaharddai’r brenin i’w gerddorion fod yn rhy hy wrth ofyn rhoddion gan arglwyddi.<sup>2</sup>

Fe warchodid buddiannau’r noddwyr yn ogystal â rhai’r cerddorion, felly, trwy ddeddfu na ddylai’r cerddorion lethu gormod ar byrsiau’r rhoddwyr!

(vii) 1495

Yn ystod hanner can mlynedd cyntaf y Tuduriaid ar yr orsedd, ychydig a wnaed, mewn gwirionedd, i geisio ymdrin â phroblemau cardota.<sup>3</sup> Yr unig ddeddf a basiwyd yn y cyfnod oedd Deddf 1495. Yn ôl y ddeddf hon, fel yr holl ddeddfau hyd 1531, cyfrifoldeb yr Ustusiaid Heddwch oedd cadw golwg ar y bobl hynny a grwydrai’r wlad heb waith parhaol. Ond nid ‘cadw golwg’ yn yr ystyr o dad yn gofalu am ei blentyn a olygir: yn hytrach, ymddengys mai prifathrawon go gas oedynt. ’Does ryfedd i Paul Slack honni mai deddf oedd hon a oedd yn “largely concerned with ways of punishing

---

<sup>1</sup> Chambers, *The Mediaeval Stage* I, t. 55.

<sup>2</sup> Bowen, ‘Agweddau’, t. 70.

<sup>3</sup> *PVTE*, t. 39.

vagrants.”<sup>1</sup>

Yn 1495 ymddengys mai cosbi a chywilyddio'r cardotwyr a'r segurwyr a âi â bryd y llywodraeth. Ar ôl eu dal am droseddu'r tro cyntaf, dylid eu rhoi mewn cyffion am dridiau, a'u bwydo ar fara a dŵr yn unig; pe troseddent drachefn, dylid eu gosod mewn cyffion am chwe diwrnod. Ymhellach, gorchmynnwyd y dylid eu chwipio ac yna eu hanfon yn ôl i'w plwyfi genedigol.

Fodd bynnag, ni weithredid y ddeddf hon yn aml, a bu raid disgwyl hyd ddirwasgiad y 1520au cyn i'r llywodraeth gael eu gorfodi i ymateb eto.<sup>2</sup>

(viii) 1520

Yn y flwyddyn hon, fe adnewyddwyd siartr Edward IV (1469) gan Harri VIII. Yn wir, efallai fod y ddogfen hon wedi dylanwadu ar gomisiynwyr Eisteddfod Caerwys 1523.<sup>3</sup>

(ix) 1530/1

Am y tro cyntaf, fe geisiodd y ddeddf hon wahaniaethu o ddifrif rhwng y tlawd anghenus ar y naill law a'r cardotwyr proffesiynol a'r segurwyr ar y llaw arall, a hynny, mae'n debyg, oherwydd effeithiau'r dirwasgiad. Rhoddwyd caniatâd i'r tlodion anghenus a'r rhai na allent weithio gardota yn eu plwyfi eu hunain,<sup>4</sup> ac er mwyn sicrhau

---

<sup>1</sup> Slack, *The English Poor Law*, t. 17.

<sup>2</sup> Gw. *MM*, t. 159; *TOT*, t. 40; Jordan, *Philanthropy*, t. 83; Mackie, *The Earlier Tudors*, t. 453; *PVTE*, t. 39; *PPTSE*, t. 115; idem., *The English Poor Law*, t. 17.

<sup>3</sup> Gw. Carr, 'The Mostyn Family & Estate', t. 350.

<sup>4</sup> *TOT*, t. 40; Roberts, 'Eisteddfod Caerwys 1567', t. 26; *PVTE*, t. 39.

na chaent eu cosbi am ofyn, cardod rhoddwyd trwyddedau pwrpasol iddynt.<sup>1</sup> “Between 1531 and 1547”, medd Paul Slack, “licenced, badges or other means of regulating begging were introduced in Norwich, Southampton, Cambridge, Chester, Lincoln, Hull, Beverley, York and Kings Lynn.”<sup>2</sup> Fodd bynnag, pe baent yn cardota tu allan i’r plwyfi hyn, gellid eu gosod mewn cyffion.

Er bod y ddeddf hon yn gam i’r cyfeiriad iawn, ychydig a wnaeth y llywodraeth i geisio rhoi cymorth i’r tlodion.

Os nad aeth y ddeddf ati i wella safle’r tlodion, yn sicr fe aeth ati i gosbi’r cardotwyr proffesiynol a’r segurwyr. Bellach, chwipio yn hytrach na chael eu rhoi mewn cyffion oedd y gosb.<sup>3</sup>

The poor law of 1531 stipulated that vagrants be ‘tied to the end of a cart naked and be beaten with whips’ around the town or village, and until their bodies were bloody. [...] Whipping, probably the most common penalty for vagrancy, was the creation of an authoritarian patriarchal society, which considered it ‘the only reliable method of controlling both children and adults’. It was therefore natural for officials to flog the masterless, who were rebellious inferiors. Whipping also enjoyed wide currency because it was the most efficient way of dealing with vagabonds. To hold them for trial, or send them to a house of correction was expensive and troublesome, whereas a sound thrashing and a passport saw them off to become someone else’s troubles.<sup>4</sup>

Rhaid oedd iddynt ddychwelyd i’w cynefin yn syth, a phe digwyddent grwydro oddi ar eu llwybr adref caent eu chwipio wedyn. Yna, disgwylid iddynt ganfod gwaith a byw’n

---

<sup>1</sup> Gw. Jones, *Beirdd yr Uchelwyr a’r Gymdeithas*, t. 135; Roberts, ‘Eisteddfod Caerwys 1567’, t. 26; Slack, *The English Poor Law*, t. 59.

<sup>2</sup> *PPTSE*, t. 119.

<sup>3</sup> Slack, *The English Poor Law*, t. 59; Jordan, *Philanthropy*, t. 84; Leonard, *The Early History*.

<sup>4</sup> *MM*, t. 59. Gw. hefyd *TOT*, t. 40.

dda.<sup>1</sup> Gorchmynnwyd y dylid crogi cardotwyr diog.<sup>2</sup>

Awgryma Bleddyn Owen Huws fod y ddeddf hon wedi effeithio'n uniongyrchol ar y beirdd yng Nghymru, a hynny gan ei bod yn gorchymyn cosbi eirchiaid. Yn wir, rhwng 1500 a 1630 hanerodd nifer y cywyddau gofyn a luniwyd lle gwelid y bardd yn erchi rhodd drosto'i hun o'i gymharu â'r cyfnod cyn 1500 – ffenomen a welwyd, efallai, yn sgîl Deddf 1531.<sup>3</sup> Sôn am natur gaethiwus y ddeddf hon a wnaeth Thomas ab Ieuan ap Rhys, cwndidiwr o Forgannwg, pan ddywedodd bod “Act y brenin ... yn rhwystro pawb i geisio.”<sup>4</sup>

(x) 1532

Yn y flwyddyn hon, lluniodd Harri VIII ddeddf yn erbyn cymortha yng Nghymru.

Deddfwyd

That no person nor persons from hensforth, without licence of the said comyssioners in writinge, shall within Wales or marches of the same, or in any shires adjoyning to the same, requiyre procure, gather, or levye any commorthe, bidalle, tenantale, or other collecon or exacon of goods, cattulles, money or any other thinge, under colour of marienge or suffring of their children, sayenge or synginge their fyrst masses or gospelles of any prestes or clarkes, or for redempcion of any murder or any other felonye, or for any other maner of cause by whatt name or names soever they shalbe callyd.<sup>5</sup>

---

<sup>1</sup> Gw. Mackie, *The Earlier Tudors*, tt. 453 - 4.

<sup>2</sup> Gw. Jones, *Beirdd yr Uchelwyr a'r Gymdeithas*, t. 135.

<sup>3</sup> *CGD*, t. 116.

<sup>4</sup> Gw. *ibid.* Gw. hefyd Dafydd H. Evans, ‘Thomas ab Ieuan a’i “Ysgowld o Wraig”’, *YB XIX*, t. 95, llau. 23 - 4, 98 - 9; Powell, ‘Robert ap Huw’, t. 37; *PPTSE*, t. 17; *EC*, t. 38.

<sup>5</sup> Gw. C. J. Ribton-Turner, *A History of Vagrants*, t. 79.

Yn y ddeddf hon, ysgwyddodd y llywodraeth y cyfrifoldeb o gynnig cymorth i'r tlawd, a thrwy hynny yr oeddynt fwy neu lai yn cydnabod nad oedd darpariaeth Deddf 1530/1 yn ddigonol. Yn 1535/6 gorchmynnodd Thomas Cromwell y dylai swyddogion lleol, maeri a wardeni eglwysi fod â'r hawl i gasglu elusennau ar y Sul ac ar ddyddiau gŵyl er mwyn helpu'r tlawd anghenus.<sup>1</sup> Ymhellach, gorchmynnwyd y dylai pregethwyr annog eu plwyfolion i gyfrannu at elusennau o'r fath mewn ewyllysiau.<sup>2</sup> Gobeithid y byddai hyn yn lleihau angen y tlodion i gardota. Ymhellach, dylid rhoi pryd o fwyd yn rhad ac am ddim i'r cardotwyr a'r crwydriaid a deithiai'n ôl i'w plwyfi eu hunain am bob deng milltir a deithient, a chynigid gwaith iddynt ar ôl iddynt gyrraedd adref.<sup>3</sup> Dylid bwrw golwg yn fisol dros nifer y crwydriaid a'r cardotwyr a geid, a dylid cosbi'r rhai a gardotai'n gyson.<sup>4</sup>

A dyma ddod â ni at ochr arall y geiniog: cosbi. Er bod y ddeddf hon yn lliniaru peth ar sefyllfa'r tlodion, yr oedd, fel ei chwiorydd hyn, yn llym ei chosb ar y segurwyr a'r cardotwyr proffesiynol. Nid oedd plant, hyd yn oed, y tu hwnt i'w chrafangau: yn wir, deddfwyd y dylai plant crwydrol a oedd rhwng pump a phedair ar ddeg oed fynd at feistr, ac y dylid eu chwipio ar ôl iddynt ddod yn ddeuddeg oed pe gwrthodent weithio.<sup>5</sup>

---

<sup>1</sup> Gw. Mackie, *The Earlier Tudors*, t. 454; Roberts, 'Eisteddfod Caerwys 1567', t. 26.

<sup>2</sup> *Ibid.* Gw. hefyd Slack, *The English Poor Law*, t. 59.

<sup>3</sup> Gw. Jordan, *Philanthropy*, t. 85; Leonard, *The Early History*, t. 55; Mackie, *The Earlier Tudors*, t. 454; *PPTSE*, tt. 118 - 31; Jones, *Beirdd yr Uchelwyr a'r Gymdeithas*, t. 135.

<sup>4</sup> *PPTSE*, t. 118.

<sup>5</sup> Mackie, *The Earlier Tudors*, t. 454.

Parhawyd i gosbi'r oedolion hefyd: pe troseddent yr eilwaith, dylid torri rhan o'u clust i ffwrdd a'u chwipio,<sup>1</sup> a phe baent yn troseddu drachefn dylid eu cyhuddo o ffelwniaeth.<sup>2</sup>

(xii) 1547

Drachefn, ceisiai Deddf 1547 helpu tlodion a chosbi cardotwyr a segurwyr. Deddfwyd y dylai'r tlodion angenus dderbyn arian elusennol, arian a gâi ei gasglu'n wythnosol mewn eglwysi.<sup>3</sup> Ymhellach, câi'r tlodion gwahanglwyfus benodi rhywun arall i gardota drostynt – er bod unrhyw gardota y tu hwnt i hynny yn anghyfreithlon; a dylid prentisio plant tlawd, weithiau nes eu bod yn bedair ar hugain mlwydd oed.<sup>4</sup>

Ond unwaith yn rhagor, prif nod Deddf 1547 oedd cosbi. “The act of 1547”, medd J. D. Mackie, “is both notorious and puzzling; notorious for the extreme harshness of its clauses, and puzzling in its enactment under the otherwise benevolent paternal regime of Somerset.”<sup>5</sup> Penderfynwyd y dylid cosbi'r cardotwyr trwy eu gwneud yn gaethweision am ddwy flynedd am eu trosedd gyntaf; petaent yn parhau i droseddu, dylid eu rhwymo wrth gaethwasaeth am byth neu eu dienyddio.<sup>6</sup> Gwarthnodi oedd y gosb arall: dylid gwarthnodi'r cardotwyr a'r segurwyr gyda'r llythrennau V neu S. Fodd

---

<sup>1</sup> *Ibid.*

<sup>2</sup> *MM*, t. 160; *PPTSE*, t. 118. Gw. hefyd Powell, ‘Robert ap Huw’, t. 37; *EC*, t. 38.

<sup>3</sup> Slack, *The English Poor Law*, t. 59; *PVTE*, t. 42.

<sup>4</sup> *Ibid.*, t. 42; *PPTSE*, t. 122; idem., *The English Poor Law*, t. 59; Jones, *The Tudor Commonwealth*, t. 131.

<sup>5</sup> Mackie, *The Earlier Tudors*, t. 131.

<sup>6</sup> Jordan, *Philanthropy*, t. 86; Leonard, *The Early History*, t. 56; *PVTE*, t. 41; Slack, *The English Poor Law*, t. 59; *PPTSE*, t. 122; *TOT*, t. 42.



bynag, nid oes tystiolaeth fod y gosb ddiwethaf hon wedi ei gweithredu.<sup>1</sup> Yn wir, oherwydd llymder y cosbau yr oedd hi'n anodd canfod rhai i'w gweithredu, ac ymddengys mai methiant fu'r ddeddf.

(xiii) 1549/50

Yn 1550 fe ddiddymwyd Deddf 1547, ac adferwyd Deddf 1536.<sup>2</sup>

Yn 1549 cafwyd deddf arall a oedd yn ymwneud â'r beirdd yn Iwerddon. Fel gyda Deddf 1402 yng Nghymru, teimlai'r goron Seisnig fod angen rhoi taw ar y beirdd yn Iwerddon er mwyn eu rhwystro rhag annog trigolion y wlad i wrthryfela. Mewn statudau a luniwyd yn Limerick gan gomisiwn y brenin, ordeiniwyd "that no poet or any other person hereafter shall make or compose any poems or anything which is called 'auran' to any person, except to the King, on pain of forfeiting all his goods, and imprisonment, at the pleasure of the King or his Deputy."<sup>3</sup>

---

<sup>1</sup> *MM*, t. 159; Jones, *The Tudor Commonwealth*, t. 131.

<sup>2</sup> *TOT*, t. 42; *PVTE*, t. 43; Slack, *The English Poor Law*, t. 59; Jones, *The Tudor Commonwealth*, t. 131.

<sup>3</sup> Fe'i dyfynnir yn J. E. Caerwyn Williams, 'Y Beirdd Llys yn Iwerddon', *LIC* III, rhif 1 (Ionor, 1954), t. 10; James F. Kenney, *The Sources for the Early History of Ireland* (New York, 1929) t. 31. Gw. hefyd *Calendar of the Carew Manuscripts I* (1867), tt. 214 - 15; Lewis, 'The Decline', t. 66; Williams a Ford, *The Irish*, t. 176.

Yr oedd sefyllfa'r beirdd yn Iwerddon, fel yng Nghymru, yn bur ansicr. Medd J. E. Caerwyn Williams a Patrick K. Ford, *The Irish*, tt. 176 - 7:

From time to time special campaigns against the poets were mounted. For example, in the year 1415 there is an account of Lord Justice Talbot (Lord Furnivall) organizing attacks on Diarmaid Ó Dálaigh, Dubhthach Mac Eochdha Eolaigh, and Muirgheas Ó Dálaigh. In 1579, Sir Henry Harrington was appointed 'seneschal' and principal administrator of the lands of Ó Byrne and other neighbourhoods. Here were some of his responsibilities:

He shall make proclamation that no idle person, vagabond or masterless-man, bard, *rymer*, or other notorious malefactor, remain

(xiv) 1552

Canolbwyntwyd ar leddfu bywyd y tlodion yn hytrach nag ar gosbi cardotwyr a segurwyr yn y ddeddf hon. Cadarnhawyd deddfau 1531 a 1550, gorchmynnwyd y dylid cadw cofrestr o'r tlawd methiedig, gan nodi na ddylent gardota, a phenodwyd casglwr elusennau gwirfoddol ym mhob plwyf. Câl'r plwyfolion benderfynu faint a gyfrannt, ond yn anffodus ni fu'r syniad yn llwyddiant.<sup>1</sup>

(xv) 1555

Eto, deddf a ganolbwyntiai ar gynnig cymorth yn hytrach na chosbi oedd hon. Dilynwyd llwybr Deddf 1552, gan ychwanegu y câl'r tlodion a oedd yn berchen ar drwydded neu fathodyn arbennig ofyn cardod. Er hyn, parhawyd i gynnig y dylid gwarthnodi crwydriaid a chardotwyr.<sup>2</sup>

(xvi) Statud y Gweithwyr 1563

Fe luniwyd y ddeddf hon, meddid, er mwyn cael gwared ag "idleness, advance husbandry, and yield unto the hired person both in time of scarcity and in the time of

---

within the district on pain of whipping after eight days, and *of death* after twenty days.

He shall apprehend those who support such, and seize their goods certifying the same to the lord deputy.

In a district adjacent to County Kildare, Gerald, the Earl of Kildare, and Piers fitz James of Ballysonnon had a special commission, which included the following mandate:

They are also to punish *by death*, or otherwise as directed, *harpers, rhymers, bards, idlemen, vagabonds*, and such horse-boys as have not their master's bill to show whose men they are.

<sup>1</sup> Gw. *TOT*, tt. 42 - 3; Slack, *The English Poor Law*, t. 60; *PPTSE*, t. 123.

<sup>2</sup> Slack, *The English Poor Law*, t. 60; *PPTSE*, t. 123; *TOT*, t. 43.

plenty a convenient proportion of wages.”<sup>1</sup> Y bwriad, fe ymddengys, oedd sicrhau cyflogau mwy cyfartal ynghyd â “[ph]lannu gwerth dygnwch ac ufudd-dod yng nghalonau’r bobl”, ys dywed Geraint H. Jenkins.<sup>2</sup>

Yn ôl y ddeddf, yr oedd yn rhaid i grefftwyr fwrw saith mlynedd o brentisiaeth dan law meistr. Yr oedd yr amodau yn rhai digon llym, mewn gwirionedd: yr oedd yn rhaid i blant tlawd fwrw prentisiaeth o’r adeg pan oeddynt yn ddeg oed hyd eu penblwydd yn un ar hugain; gorfodid gwŷr di-waith rhwng deuddeg a thrigain mlwydd oed, neu’r rhai nad oeddynt yn ennill mwy na degpunt y flwyddyn, i weithio ym myd amaeth am flwyddyn pe na bai ganddynt grefft; rhoddid merched dibriod rhwng deuddeg a deugain mlwydd oed i weithio; a rhwystrwyd gweision rhag gadael eu swydd heb gael cennad ustus heddwch a thrwydded arbennig yn dwyn llofnod cwnstabl y plwyf, y person, a dau ŵr o statws. Ymhellach, yr ustusiaid heddwch a ddylai benderfynu ar uchafswm cyflogau’r gweithwyr, a’r un fyddai’r cyflog drwy gydol y flwyddyn er nad ystyrid chwyddiant wrth ei bennu. O’r herwydd, dioddefai’r tlawd yn enbyd ar adegau neilltuol. Yn wir, ym marn Brian Howells ni lwyddodd y ddeddf i ofalu am anghenion y tlawd o gwbl. Meddai:

The whole system ensured the existence of a large pool of cheap labour and subjected the labouring classes to tight social discipline.<sup>3</sup>

---

<sup>1</sup> Dyfynnir y ddeddf yn Howells, ‘The Lower Orders’, t. 49. Gw. hefyd Jones, *Cymru a’r Tuduriaid*, t. 128.

<sup>2</sup> *HCCMC*, t. 46.

<sup>3</sup> Howells, ‘The Lower Orders’, t. 49; *TOT*, tt. 38 - 40, t. 43; Jenkins, *HCCMC*, t. 46; Jones, *Cymru a’r Tuduriaid*, t. 128; Slack, *The English Poor Law*, t. 60.

Hanfod y ddeddf, fe ymddengys, oedd cred y llywodraeth fod rhagluniaeth wedi ordeinio y dylai'r tlodion a'r rhai nad oedd ganddynt eiddo ymddwyn fel gweision.<sup>1</sup>

(xvii) 1571/2

Y ddeddf hon oedd y llymaf ei chosbau ers deddf 1547. Yn ogystal â rhoi'r hawl i ustusiaid heddwch asesu a chofrestru'r tlodion a oedd yn eu plwyfi, trethu'r trigolion er mwyn eu cadw, penodi gwŷr i gasglu'r arian ar eu cyfer, ynghyd â rhoi'r hawl iddynt drwyddedu cardotwyr pe bai gormod ohonynt angen cymorth, fe roddwyd hawliau eraill iddynt. Gorchmynnwyd y caent arestio a chosbi crwydriaid a chardotwyr trwy eu carcharu, ac yna eu rhoi mewn cyffion traed, eu chwipio, llosgi twll yn eu clust, a'u hanfon yn ôl i'r plwyf y buont yn trigo ynddo ddiwethaf. Hefyd, gellid dienyddio'r sawl a droseddai am y trydydd tro. Ar wahân i'r gosb eithaf, y chwipio a'r llosgi oedd y cosbau mwyaf erchyll, mae'n debyg, ond fe weithredwyd y cosbau hyn mewn rhannau o'r wlad. Yn Essex yn y flwyddyn 1574, er enghraifft, chwipiwyd a llosgwyd chwech o gardotwyr, dau o'r rheini yn ferched.<sup>2</sup>

Fe allasai'r ddeddf hon achosi caledi mawr i'r beirdd oherwydd, yng ngeiriau Beier, "Minstrels, who included harpers, pipers and fiddlers, were also vagrants under the statute of 1572. They played wherever there was dancing, games and acting, and were unpopular with the authorities."<sup>3</sup> Yn wir, awgryma J. Gwynfor Jones nad pwysau economaidd a throddu a arweiniodd at y ddeddf lem hon: yn hytrach, ymddengys mai

---

<sup>1</sup> Gw. *HC*, t. 256.

<sup>2</sup> *MM*, t. 159. Gw. hefyd Jordan, *Philanthropy*, t. 87; Leonard, *The Early History*, t. 69.

<sup>3</sup> *MM*, t. 97.

dymuniad y goron i osgoi pob arwydd o ansefydlogrwydd a arweiniodd ati. Wrth gwrs, gallai cerddorion a beirdd, fel y gwelwyd eisoes, ddeffro anniddigrwydd; ond, yn lwcus i'r beirdd yng Nghymru, fe gafwyd ymgais i'w gwarchod: llwyddwyd i newid y mesur gan eithrio'r beirdd a chanddynt drwyddedau rhag cael eu cosbi dan y ddeddf, "and it may not be without significance", medd A. D. Carr, "that William Mostyn was a member of this parliament",<sup>1</sup> sef un o gomisiynwyr ail Eisteddfod Caerwys, eisteddfod y graddiwyd llawer o feirdd a cherddorion ynddi ychydig flynyddoedd yn unig cyn Ddeddf 1572.<sup>2</sup>

Ni fu beirdd Iwerddon mor lwcus. Yn 1571 cafwyd comisiwn a roddai hawl i'r awdurdodau gosbi beirdd.

All carroughes, bards, rhymers and common idle men and women within this province making rhyme, bringing of messegges, and common players at cards, to be spoiled of all their goods and chattels, and to be put in the next stocks, there to remain till they shall find sufficient surety to leave that wicked thrade of life, and to fall to other occupation.<sup>3</sup>

Ymhellach, gorchmynnwyd y dylid dienyddio "harpers, rhymers, bards, idlemen,

---

<sup>1</sup> Carr, 'The Mostyn Family and Estate', t. 358.

<sup>2</sup> Yng ngeiriau'r ddeddf ei hun, dylid cosbi "all Fencers Bearwardes Comon Players in Enterludes & Minstrels, not belonging to any Baron of this Realm or towards any other honourabl personage of greater Degree; all Juglers Pedlars Tynkers and Petye Chapmen; while said Fencers Bearrewardes comon Players in Enterludes Mynstrels Juglers Tynkers & Petye Chapmen, shall wander abroad and have not Lycense of two Justices of the Peace at the least, whereof one to be of the Quorum, wher and in what Shier they shall hapen to wander." Gw. Chambers, *The Mediaeval Stage I*, t. 54; *MM*, t. 96.

Am gyfeiriadau eraill at Ddeddf 1571/2, gw. *MM*, t. 97, t. 159; Bowen, 'Canrif Olaf y Cywyddwyr'; idem., 'Y Cywyddwyr a'r Dirywiad', t. 466. t. 36; *TOT*, t. 43; Carr, 'The Mostyn Family & Estate', t. 358; Jones, *Cymru a'r Tuduriaid*, t. 129; *PPTSE*, t. 94; idem., *The English Poor Law*, t. 18.

<sup>3</sup> Gw. Kenney, *Sources*, t. 31; Williams, 'Y Beirdd Llys yn Iwerddon', t. 10.

vagabonds, and such horseboys as have not their master's bill to show whose men they are."<sup>1</sup> (Gwelir yma hefyd y gallai trwydded neu nawdd uchelwr rwystro bardd rhag cael ei gosbi.) Fel y sylwodd J. E. Caerwyn Williams, mae'r ffaith y credid bod Arglwydd Mountjoy a Syr George Carew wedi llwgrwobrwyo'r bardd Aonghus Ruadh Ó Dálaigh i ddychanu rhai Gwyddyl, a bod Syr John Perrott wedi cyflogi beirdd eraill i foli coron Lloegr, yn arwydd o effaith dylanwad y beirdd.<sup>2</sup>

(xviii) 1575/6

Deddf a anelai at arwain y tlawd i weithio a cheisio eu hatal rhag cardota oedd y ddeddf hon. Gorchmynnwyd y dylai pob bwrdeistref gynnig gwaith ac offer gweitho i'r rhai a fethai ganfod gwaith eu hunain. Pe gwrthodent, caent eu carcharu yn un o'r tai cywiro a sefydlwyd ym mhob sir trwy'r wlad. Parheid, hefyd, i roi cardotwyr mewn cyffion, a pharheid i ystyried bod troseddu'r eilwaith yn gyfystyr â ffelwniaeth.<sup>3</sup>

(xix) 1598

Yn 1598 pasiwyd dwy ddeddf gan Elisabeth: y naill (39 Eliz. I c.30) ar gyfer helpu'r tlodion, a'r llall (39 Eliz. I c. 40) ar gyfer cosbi twyllwyr, cardotwyr a chrwydriaid diog.

Y gyntaf o blith y rhain oedd uchafbwynt gofal y llywodraeth dros y tlodion, er mai ymdrin â symptomau tlodi yn hytrach nag â'r hyn a oedd yn ei achosi a wnaeth, fel

---

<sup>1</sup> Lewis, 'The Decline', t. 66.

<sup>2</sup> Gw. Williams, 'Y Beirdd Llys yn Iwerddon', t. 10.

<sup>3</sup> Gw. *MM*, t. 160; *TOT*, t. 43; *PPTSE*, t. 129; *idem.*, *The English Poor Law*, t. 18, t. 60; *EC*, t. 38.

gweddill y deddfau. Rhydd Brian Howells grynodedb o'r ddeddf:

A policy evolved of dividing the poor into a number of broad categories each of which received different treatment. The 'deserving poor', a group embracing orphans, abandoned children, cripples, aged people without any means of support and those able-bodied paupers who were willing to work but unable to find employment, were to be given relief either at home or in alms houses [...]. In theory all the settled poor were to be under close control and supervision. Periodically they were rounded up and forced to attend 'sessions for labourers', where local JPs sought to enforce the provisions of the *Statute of Artificers*, notably by apprenticing older children, finding work for adults, and punishing the disobedient and work-shy [...]. They also appointed guardians of the poor within each parish who were authorized to raise poor rates, house, feed and cloathe the homeless poor, and dole out supplementary relief wherever necessary.<sup>1</sup>

Hefyd gellid apelio'n erbyn trethi uchel, a gallai rhai tlodion ofyn cardod yn eu plwyfi eu hunain cyn belled â bod ganddynt drwydded – er y gobeithiai'r goron mai yn anaml iawn y digwyddai hynny.<sup>2</sup>

Cosbi'r tlodion holliach, y cardotwyr, y crwydriaid a'r segurwyr oedd amcan yr ail ddeddf. Ni newidiodd y diffiniad o 'grwydryn' neu 'gardotyn' ryw lawer rhwng Deddf 1572 a Deddf 1598, er bod Deddf 1598 yn nodi y dylid diddymu'r deddfau blaenorol. "Vagabondage was again carefully defined", medd Pound.

It was ordered that any persons thus designated were to be arrested, whipped until bloody, and then returned by the most direct route to their place of origin. If they delayed on the way they were to be whipped again. On reaching their home parish they were to be placed in service of able-bodied, or lodged in almshouses or deemed incapacitated in any way. If necessary, incorrigible rogues were to be committed to gaol or a house of correction, and the Act authorised justices of the peace to erect such places in every county and city in

---

<sup>1</sup> Howells, 'The Lower Orders', t. 50.

<sup>2</sup> *Ibid.*, t. 50. Gw. hefyd *TOT*, t. 43; Powell, 'Trosedd a Cymdeithas', t. 45; Jones, *Cymru a'r Tuduriaid*, t. 13; *PPTSE*, t. 126; idem., *The English Poor Law*, tt. 60 - 1.

the kingdom. If treatment of this sort proved insufficient to deter the rogue element, provision was made for them to be banished from the realm or committed perpetually to the galleys. And that returned from such banishment left themselves open to execution as felons.<sup>1</sup>

(xx) 1601 hyd 1782

Cafwyd sawl deddf a oedd yn ymdrin â thlodion a chardotwyr a chrwydriaid yn ystod y cyfnod hwn, sef deddfau 1601, 1604, 1610, 1647-9, 1657, 1662, 1692, 1697, 1714, 1740, 1744 a 1782.<sup>2</sup> Ceisiai rhai deddfau, er enghraifft deddf 1601, gynnig rhywfaint o gymorth i'r tlodion, ond drachefn canolbwyntio ar gosbi'r tlodion a'r cardotwyr a wnâi'r rhan fwyaf o'r deddfau hyn. Anfon crwydriaid a chardotwyr i Dai Cywiro, eu gwarthnodi, eu chwipio, eu gorfodi i wneud llafur caled a'u rhwymo wrth wasanaeth oedd y prif gosbau a wynebai 'troseddwyr' tlawd neu grwydrol y cyfnod.

Dyna, felly, grynodedb o'r prif deddfau a oedd ymwneud â thlodion, crwydriaid, cardotwyr, segurwyr ac, weithiau, yn uniongyrchol â'r beirdd.

O ran y beirdd yng Nghymru, y deddfau sydd o ddiddordeb pennaf ydyw'r rhai sy'n ymwneud naill ai â chyfyngu ar arferion y beirdd neu'r rhai sy'n ymwneud â chosbi cardotwyr, crwydriaid, segurwyr ac ofergerddorion – a hynny gan nad oedd y llywodraeth yn aml yn gwahaniaethu rhwng y rhai hyn a'r beirdd swyddogol.

---

<sup>1</sup> *PVTE*, t. 53. Gw. hefyd Powell, 'Trosedd a Chymdeithas', t. 47; *MM*, t. 96, t. 159, t. 160; Howells, 'The Lower Order', t. 50; Jordan, *Philanthropy*, tt. 94 - 5; *PPTSE*, t. 94, tt. 126 - 7; idem., *The English Poor Law*, t. 61; Skeel, 'Social and Economic Conditions', t. 140.

<sup>2</sup> Am drafodaeth lawn ar y deddfau hyn, gw. *TOT*, t. 43; Jones, *Cymru a'r Tuduriaid*, t. 45; Powell, 'Robert ap Huw', t. 37; idem., 'Trosedd a Chymdeithas', t. 45; Slack, *The English Poor Law*, t. 11, tt. 18 - 19, tt. 61 - 4; *EC*, t. 38, *HC*, t. 343; *MM*, t. 96, tt. 159 - 60; Wiliam, 'Robert ap Huw', tt. 47 - 8.



Fel y gwelwyd, gellid eu cosbi mewn nifer o ffyrdd hynod o erchyll yn ystod yr Oesoedd Canol a'r Cyfnod Modern Cynnar: eu gwarthnodi, eu chwipio, eu rhoi mewn cyffion, llosgi neu dorri twll yn un o'u clustiau, ac weithiau eu dienyddio. Ceir tystiolaeth fod segurwyr, cardotwyr a beirdd wedi cael eu cosbi fel hyn, a hefyd ceir tystiolaeth fod rhai tlodion analluog, hyd yn oed, wedi dioddef yn yr un modd, a hynny gan nad oedd y llywodraeth yn gallu gwahaniaethu'n ddigonol rhwng tlodi ar y naill law a chrwydriaeth ar y llaw arall.<sup>1</sup> Ymhellach, er llymed oedd llawer o'r deddfau, yr oedd y rhan fwyaf o boblogaeth y wlad yn eu cefnogi, a hynny gan eu bod yn ofni ac yn casáu cardotwyr a chrwydriaid i'r fath raddau.<sup>2</sup>

Y cosbau lleiaf llym, ar ryw olwg, oedd y rhai a gyfyngai ar ryddid unigolion neu'r rhai a'u gorfodai i wneud rhywbeth arbennig, megis mynd i'w plwyf genedigol, mynd i garchar, mynd i dŷ cywiro, neu wneud llafur caled.

Deddfwyd yn gynnar iawn – yn 1383 a 1388, er enghraifft – y dylid carcharu cardotwyr a chrwydriaid, ond ymddengys na ffynnodd yr arfer gan fod carchardai mor ddrud i'w cadw. Hyd yn oed ar ddiwedd yr unfed ganrif ar bymtheg, rhyw ddwsin yn unig o gardotwyr y gellid eu carcharu mewn un carchar ar y tro. Er hyn, gwelir bod tlodyn anabl, analluog – diniwed, i bob pwrpas – wedi ei garcharu am grwydro yn Bridewell yn y flwyddyn 1640.<sup>3</sup>

Nid oedd caethwasiaeth ac anfon cardotwyr a chrwydriaid i fynd yn weision neu'n forwynion mor boblogaidd â chosbi corfforol, ychwaith, ond ceir tystiolaeth fod

---

<sup>1</sup> Gw. Jordan, *Philanthropy*, t. 80.

<sup>2</sup> *Ibid.*, t. 79.

<sup>3</sup> Gw. *MM*, t. 115, t. 161.

wyth o gardotwyr wedi eu gorfodi i fynd yn weision neu'n forwynion ym Middlesex rhwng 1572 a 1575.<sup>1</sup>

O'r cosbau corfforol, mae'n debyg mai'r gosb leiaf erchyll i'r crwydriaid a'r cardotwyr – os gellir ei disgrifio felly, hefyd – oedd gorfod dioddef bod mewn cyffion. Gan fod cosb o'r fath yn un eithaf cyffredin ni chofnodwyd ei gweithredu'n fanwl, ond ceir tystiolaeth fod dynes ddall o Windemere wedi ei gosod mewn cyffion yn 1635.<sup>2</sup>

Er mor erchyll ydoedd, fe weithredid y gosb o losgi neu o dorri twll yn un o glustiau'r cardotwyr a'r crwydriaid. Yn 1574 cosbwyd chwech o grwydriaid yn y modd hwn, dau ohonynt yn ferched.<sup>3</sup> Ymhellach, gorchmynnwyd y dylid torri clustiau criw o grefftwyr a masnachwyr o Thaxted, Essex, ym mis Mawrth 1622 am lunio baled yn gwarthruddo gŵr o'r enw Richard Turner, yn sgîl honiad ei fod wedi curo ei ferch Ann. Ond nid oedd y criw yn fodlon gwerthfawrogi difrifoldeb eu hymddygiad na'r gosb a'u disgwyliai.

[The mayor of Thaxted] by way of reprove, [told] them that makeinge of libells would indanger the losse of their eares, [they] did make a scoffe of [him] and his admonitions, and did thereuppon publishe that a sow of one in the town had lost her ears for makinge libells and ...[they] made a representation of the mayor and bayliffes of [Thaxted] in innes and alehouses as sittinge in their sessions, to the great scandall of the government of the said corporacion.<sup>4</sup>

Yr oedd gwarthnodi yn gosb erchyll arall, ac ymddengys y gweithredid y gosb yn

---

<sup>1</sup> *Ibid.*; *PVTE*, t. 43.

<sup>2</sup> *MM*, t. 115.

<sup>3</sup> *Ibid.*, t. 159.

<sup>4</sup> Gw. Adam Fox, 'Ballads, Libels and Popular Ridicule in Jacobean England', *PP CXLV* (1994), t. 73.

rheolaidd, yn enwedig o gyfnod Siâms I ymlaen. Rhwng 1572 a 1575 deddfwyd y dylid gwarthnodi pedwar a deugain o grwydriaid ym Middlesex, ac er na warthnodid merched fel arfer, fe wnaed hynny yn Essex yn 1614.<sup>1</sup>

Chwipio, fe ymddengys, oedd y gosb gorfforol a weithredid amlaf. “Whipping [...]enjoyed wide currency”, medd A. L. Beier, “because it was the most efficient way of dealing with vagabonds. To hold them for trial, or send them to a house of correction, was expensive and troublesome whereas a sound thrashing and a passport saw them off to become someone else’s troubles.”<sup>2</sup> Cosbwyd tlodion analluog yn ogystal â throreddwyr a chardotwyr yn y modd hwn: yn Swydd Rydychen yn 1572, fe chwipiwyd dynes analluog gyda phlentyn am grwydro, a thebyg fu hanes dynes ddall yn Windemere yn 1635. Cwnstabiliaid a weithredai’r gosb hon, fel arfer: yn Wiltshire rhwng 1603 a 1638 fe chwipiwyd bron i fil o bobl.<sup>3</sup> Yr un oedd y drefn yng Nghymru.

[Y]n 1556 chwipiwyd dyn a dwy ddynes o Ddinorwig am ddwyn dafad gwerth chwe cheiniog; yn Hydref 1557, chwipiwyd merch o Ffestiniog, a’i hoelio gerfydd ei chlust yn y farchnadfa yng Nghaernarfon am iddi ddwyn gwerth ceiniog o gaws a darn arian gwerth chwe cheiniog yng Nghlynnog.<sup>4</sup>

Marwolaeth oedd y gosb olaf. Fe ddienyddwyd tri dyn a dynes ym Middlesex yn 1575-6, gorchmynnwyd y dylid lladd un arall yn Warwick yn 1582, a chrogwyd eraill am gwmnïa gyda sipsiwn.<sup>5</sup> Ymhellach, rhwng 1572 a 1575 deddfwyd y dylid crogi

---

<sup>1</sup> Gw. *MM*, t. 160; *PPVTE*, t. 43.

<sup>2</sup> *MM*, t. 159.

<sup>3</sup> *Ibid.*, t. 115, t. 160.

<sup>4</sup> Jones, *Cymru a’r Tuduriaid*, t. 130.

<sup>5</sup> Gw. *MM*, t. 160.

pump o wŷr difeistr ym Middlesex,<sup>1</sup> dedfrydwyd dyn i farwolaeth yn ôl rhòl dditio Llys y Sesiwn Chwarter yn Sir Gaernarfon wedi iddo ddwyn pum trol o wair a oedd yn werth ugain ceiniog,<sup>2</sup> a chrogwyd dau o dlodion yng Nghaerdydd yn 1596 am ddwyn deg torth.<sup>3</sup>

Yn ôl Syr John Wyn o Wydir, fe laddwyd nifer o feirdd gan Edward I. “[He] caused our bards all to be hanged by martial law as stirrers of the people to sedition; whose example, being followed by the governours of Wales, until Henry the Fourth in time, was the utter destrucion of that sort of man”, meddai.<sup>4</sup> Fe fwrir peth amheuaeth ar sylwadau Syr John, fodd bynnag. Medd un ysgolhaig:

The statement that Edward caused all the bards to be hanged does not appear to be supported by a single contemporary historian; and it is probable that the worthy Baronet was led to form this conclusion from knowing that Edward had issued an edict against the bards.<sup>5</sup>

Boed hynny fel y bo: mae geiriau Syr John Wyn o leiaf yn dangos fod deddfau'r goron Seisnig – ar lafar gwlad, beth bynnag – wedi effeithio'n arw ar y beirdd yng Nghymru. Yn wir, ceir tystiolaeth fod ambell fardd a cherddor wedi dioddef dan y deddfau hyn. Cerddor o Gymro a gosbwyd oedd Siôn Lewis o Fôn, oherwydd ym mis Mai 1618 fe'i cafwyd yn euog o gardota yn Rhuthun, ac fe'i disgrifiwyd gan reithgor y

---

<sup>1</sup> *PVTE*, t. 43.

<sup>2</sup> Jones, *Cymru a'r Tuduriaid*, t. 130.

<sup>3</sup> *HC*, t. 256.

<sup>4</sup> J. Gwynfor Jones (gol.), *The History of the Gwydir Family and Memoirs: Sir John Wyn* (Llandysul, 1990), t. 24, llau. 14 - 18. Gw. hefyd Sir John Wynne, *The History of the Gwydir Family* (Oswestry, 1878), t. 42; Stephens, *The Literature of the Kymry*, t. 93.

<sup>5</sup> Gw. Wynne, *The History*, t. 42, troednodyn rhif 2.

fwrdeistref yn Sesiwn Fawr Sir Ddinbych fel “idle loiterer and nightwalker”.<sup>1</sup> Nid Siôn

Lewis fu'r cyntaf i gael ei gosbi am grwydro:

Erlynyd un ar ddeg o feirdd, cerddorion a dawnswyr yn sir y Fflint yn 1547. Yr oeddynt yn cynnwys Richard a Hugh Downsior, Robert John a Foulk Fodler, Thomas Grythor, Rhisiart y Prydydd Brith a Robin Clidro, beirdd. Ducpwyd Rhisiart y Prydydd Brith gerbron Sesiwn Fawr Sir Ddinbych hefyd yn 1553, ynghyd â phymtheg arall a ddisgrifir fel ‘vakabonds calling them selyffs mynstrells’. Yr oedd y grŵp hwn yn cynnwys tri ffidler, dau grythor, un o'r enw Ieuan Brydydd a dducpwyd gerbron am fynd o gwmpas a thelyn ganddo, a Thomas Tyvie *alias* Brythyll Brych (h.y. brithyll), a oedd yn ddawnsiwr yn ôl pob tebyg. Bu erlyniadau eraill hefyd. Yn Ysbyty Ifan yn 1578 cymerwyd Owen ap Thomas o Ddinbych yn garcharor, ar gyhuddiad o fyw yn segur. Pan ofynnwyd iddo paham yr oedd yn eglwys Ysbyty Ifan, eglurodd ei fod yno ‘because he can make songs or rymes, and for that is a rymer and wandreth abroad.’ Nid yng ngogledd-orllewin Cymru yn unig y bu erlyniadau. Ceir tystiolaeth o ymgyrch yn erbyn clerwyr yn sir Benfro. Yn nechrau'r ail ganrif ar bymtheg, arestiwyd nifer o glerwyr, gan gynnwys pibydd, ffidler a chrythor, am grwydro ar hyd y wlad ar adeg cneifio a hau. Ym 1615 cyhuddwyd Rowland David gan yr uchel reithgor o grwydro'r wlad â'i ffidil a'i grwth ac o gadw dau lanc a'u hyfforddi yn brentisiaid.<sup>2</sup>

Ym mam Nia Powell, “diau i driniaeth fel hon gyfrannu at wanhau'r traddodiad barddol a cherddorol yng ngogledd Cymru.”<sup>3</sup>

Nid oes raid edrych ymhellach na cherddi'r beirdd eu hunain er mwyn canfod tystiolaeth fod cosbau'r llywodraeth yn cael eu gweithredu. Cyfeiria Siôn Hywel Siôn at sefyllfa'r cardotwyr, gan brotestio yn erbyn llymder y cosbau:

---

<sup>1</sup> Powell, ‘Robert ap Huw’, t. 38.

<sup>2</sup> Suggett, ‘Yr Iaith Gymraeg’, t. 171. Daeth llawer o feirdd i ddiwedd treisgar yn Iwerddon hefyd, fe ymddengys, beirdd megis Eoghan Ruadh mac an Bhaird, Muiris Ballach Ó Cléirigh, Donnchadh an tSneachta Mac Craith, Cú Connacht Ó Cianáin, a Tadhg Dall Ó hUiginn. Gw. Williams & Ford, *The Irish*, t. 177.

<sup>3</sup> Powell, ‘Trosedd a Chymdeithas’, t. 47.

Or kreawdr vrenin ner, annaeth y ser ar ddaearen  
i harchwn ni ras ymryd, hi aeth yn fyd aflawen  
vaeth y kydwylbod ir klawdd, nydoes un gwawdd wrth angen  
ir tlawd klwyvys digyvoeth, ond aedeu hoeth i geven  
o bydd efrydd gwann di nerth, yn kaiso gwerth y ffauen  
ve losgir i glüst ai law, betfai e naw a thrigen...  
ninnau pan welon ni ddyn, yn hoeth heb un edeven  
wrth y porth mewn gwynt a rhew, ar od yn dew or wybren  
delwch y rhog divydd brwnt, a chwipiwech hwnt o chorden  
ne rhowch mewn kyffon y knaf, beth nawni or slaf anniben<sup>1</sup>

Fe allai'r beirdd yng Nghymru – hyd yn oed y beirdd swyddogol, gan na wahaniaethid rhyngddynt hwy a'r ofergerddorion a'r cardotwyr bob amser – fod mewn perygl, felly, o gael eu cyhuddo naill ai o gardota tra yr oeddynt yn mynd ar daith glera swyddogol, neu o geisio codi gwrthryfel wrth lunio cerddi proffwydol, gwladgarol, gwleidyddol.

---

<sup>1</sup> Fe'i dyfynnir yn Williams, 'Yr Hanesydd a'r Canu Rhydd Cynnar', t. 147.

### 3. *Urddau a Gildiau.*

Mae'r deddfau a luniwyd ar gyfer rheoli a chosbi cardotwyr a chrwydriaid yn cyfeirio wrth fynd heibio, fel petai, at ambell elfen a allai gynnig gradd o ddiogelwch i'r beirdd swyddogol ar eu teithiau clera ar draws y wlad.

Yn 1469, fel y gwelwyd, fe ddeddfodd Edward IV y dylid ffurfio urdd swyddogol i gerddorion y wlad, gyda'i gerddorion ef yn ben arni. Fodd bynnag, nid oedd urddau crefft neu gildiau o'r fath yn newydd i'r bymthegfed ganrif: yn wir, y bedwaredd ganrif ar ddeg oedd oes aur y gildiau,<sup>1</sup> a pharhaodd yr arfer i ffynnu hyd yr unfed ganrif ar bymtheg a thu hwnt, er iddynt ddechrau dadfeilio o ddiwedd yr unfed ganrif ar bymtheg ymlaen.<sup>2</sup> Tystir i boblogrwydd gildiau yn yr unfed ganrif ar bymtheg mewn llythyr a ysgrifennwyd gan lysgennad o Fenis tra oedd yn Llundain:

The whole population is divided into 'companies', termed in Venice 'schools', or fraternities, of artificers...nor can any one enter these companies until he has served those of the trade during six or seven years.<sup>3</sup>

Awgrymir bod rhyw fath o gild yn bod yn y seithfed ganrif yn Lloegr, er na cheir tystiolaeth ysgrifenedig o'u bodolaeth yn y wlad hyd y nawfed ganrif, na thystiolaeth hollol bendant hyd yr unfed ganrif ar ddeg.<sup>4</sup>

Ar ôl y Goncwest daeth tri math o gild i'r amlwg: gildiau crefyddol-gymdeithasol,

---

<sup>1</sup> Bowen, 'Beirdd a Noddwyr (Rhan III)', t. 21.

<sup>2</sup> *MM*, t. 98, Elton, *England*, tt. 241 - 2; Lipson, *The Economic History II*, t. 330.

<sup>3</sup> Fe'i dyfynnir yn Lipson, *The Economic History II*, t. 330.

<sup>4</sup> Gw. cyflwyniad William F. Kahl yn George Unwin, *The Gilds and Companies of London with a new introduction by William F. Kahl* (Watford, 1963), tt. Xxiii - xxiv.

gildiau'r marsiandïwyr, a gildiau'r crefftwyr.<sup>1</sup> Â'r gildiau crefft y mae a wnelo ein diddordeb ni'n bennaf, a hynny, wrth gwrs, gan mai crefft fel teilwra neu gyfrwyo neu saernïo oedd barddoni gynt.

Cyn bwrw golwg ar arwyddocâd y gwahanol gildiau, byddai'n werth ceisio olrhain rhywfaint ar hanes sefydliadau o'r fath.

Ym Mharis yn 1321 sefydlwyd rhyw fath o urdd ar gyfer y cerddorion. Prif bwrpas y gild oedd rheoli'r cerddorion, a rheoli faint ohonynt a phwy a gâi eu cyflogi o fewn y brifddinas; ond erbyn 1407 yr oedd Ffrainc i gyd dan awdurdod y gild. Ymhellach, ffurfiwyd gild ar gyfer difyrwyr yn Chauncy, Ffrainc, yn ystod y bymthegfed ganrif.<sup>2</sup>

Yr oedd Llundain, fel y gellid disgwyl, yn ddinas a chanddi lawer o gildiau. Er y ceid gildiau yn y brifddinas honno cyn diwedd y ddeuddegfed ganrif – er enghraifft, daeth gild o'r enw 'The English Guild of Knights' i ben yn 1125 – y gildiau o ail hanner y ddeuddegfed ganrif ymlaen sydd enwocaf.<sup>3</sup> Amcangyfrifir bod chwech a thrigain o gildiau yn Llundain rhwng diwedd y bymthegfed ganrif a chanol yr unfed ganrif ar bymtheg.<sup>4</sup> Y gild enwocaf yn Llundain, mae'n debyg, oedd gild Edward IV i'r cerddorion. Fel y gwelwyd eisoes, gobeithiai'r brenin y byddai gan y gild awdurdod dros gerddorion y wlad i gyd, fel gild y cerddorion ym Mharis, ond barn E. K. Chambers ydyw na ddigwyddodd hynny. Yn 1604 cafwyd siartr a roddai reolaeth trwy'r ddinas ac

---

<sup>1</sup> Bowen, 'Sylwadau ar Oes y Cywyddwyr Cynnar', *YB VII*, t. 43.

<sup>2</sup> Gw. Chambers, *The Mediaeval Stage II*, tt. 258 - 9.

<sup>3</sup> Unwin, *The Guilds*, t. 15.

<sup>4</sup> Mackie, *The Earlier Tudors*, t. 458.



am radiws o dair milltir i'r gild, ond cyfyngwyd yr awdurdod i'r ddinas yn unig dan lywodraeth Siarl I.

Nid y cerddorion yn unig, wrth gwrs, a ymffurfiai'n urdd gydnabyddedig yn Lloegr. Medd Matthew Davies:

The trail was blazed by those crafts which later came to make up the bulk of the Great Twelve livery companies, a group headed by the mercers and grocers and completed by the rise of the haberdashers in the second half of the fifteenth century and the incorporation of the fullers and shearmen as the Clothworker's Company in 1528. Organization within many of these trades had its origins in the thirteenth century and was probably encouraged by the formalizing of the city's custom whereby the freedom could only be obtained through one of the recognized misteries. Elspeth Veale has emphasized the variety of the early associations set up by the craftsmen of London: some, for instance, began as parish fraternities which were dominated by the more successful practitioners of particular crafts, and which were subsequently able to take on regulatory responsibility for the craft as a whole. Among these was the skimmers' fraternity, dedicated to the feast of Corpus Christi, whose membership expanded during the course of the fourteenth century to include all prominent London skimmers, not just those who lived in the Walbrook and Budge Row areas of the city. Other fraternities were founded by the goldsmiths and by the tailors, whose guild of St John the Baptist was perhaps the most successful of these organisations. By 1400 the tailors had acquired two royal charters, a hall with a chapel and a second chapel in St Paul's Cathedral, and they had confraternal relations with several religious houses in and around London.[...]

Heading many of the misteries by this time [hynny ydyw, y bymthegfed ganrif] were exclusive associations of the more successful artisans or merchants, whose wardens had long exercised a wider authority over their respective crafts on behalf of the city's government. Members of these associations often wore livery gowns and hoods on ceremonial occasions and in due course were known as the 'liverymen' of their crafts, a status which often provided a stepping-stone to office within the craft or in the city of administration. Outside these groups lay the great majority of freemen, of whom only a small number were destined to become liverymen. [...] [T]he status of a liveryman was often synonymous with membership of a formally constituted fraternity, such as the goldsmiths' Fraternity of St Dunstan, or the tailors' Fraternity of St John the Baptist, whose activities were often sanctioned by royal letters patent. In other cases, most notably the vintners, ironmongers and mercers, those freemen who wore livery, though never formally identified as a fraternity, were nevertheless clearly distinct from the rest of the freemen, and as such also acquired letters patent and often exercised similar social and religious function including the administration of charities, the provision of charity to liverymen and their families, and the employment of chaplains, activities usually funded out of large property

endowments.<sup>1</sup>

Ceid gild i'r cerddorion yn Tutbury, Swydd Stafford, yn 1380,<sup>2</sup> a honnai aelodau'r gild eu bod y tu hwnt i Ddeddfau'r Tlodion, er na chydabyddid hyn gan y goron.<sup>3</sup> Yn 1526 ffurfiwyd urdd i'r cerddorion yng Nghaergaint, a rhoddai'r gild hawl i'r aelodau berfformio yn y dref.<sup>4</sup> Ceid nifer o gildiau yn Efrog hefyd, bron i hanner cant rhwng diwedd y bymthegfed ganrif a chanol yr unfed ganrif ar bymtheg,<sup>5</sup> ac yn 1561 ceid gild ar gyfer y cerddorion yn y ddinas.<sup>6</sup> Yn 1555 yn Beverley, Swydd Efrog, ffurfiwyd gild a oedd yn ymdrin â chyflogaeth cerddorion yn y dref, ac yn ddiddorol ddigon nodir yng nghofnodion y gild y dylai pob aelod newydd fod yn "mynstrell to some man of honour or worship or waite of some towne corporate or other ancient town or else of such honestye and conyng as shalbe thought laudable and pleasant to the hearers." C'ai cerddorion swyddogol o'r fath eu heithrio rhag "[the] Kyng's acts where they speak of vacabonds and valient beggars."<sup>7</sup> Nodir ymhellach na ddylai bugail, ffermwr, neu was fod yn gerddor y tu hwnt i'w blwyf ei hun.<sup>8</sup>

Yr urdd enwocaf sy'n ymwneud â cherddorion o safbwynt Cymru, fodd bynnag,

---

<sup>1</sup> Matthew Davies, 'Artisans, Guilds and Government in London' yn Britnell (gol.), *Daily Life*, tt. 126 - 7. Gw. hefyd Bowen, 'Sylwadau', t. 43.

<sup>2</sup> Chambers, *The Mediaeval Stage I*, t. 55; Bowen, 'Agweddau', t. 70.

<sup>3</sup> Chambers, *The Mediaeval Stage II*, t. 260.

<sup>4</sup> *Ibid.*, t. 261.

<sup>5</sup> Mackie, *The Earlier Tudors*, t. 458.

<sup>6</sup> Chambers, *The Mediaeval Stage II*, t. 262.

<sup>7</sup> Fe'i dyfynnir yn *ibid.*, t. 261.

<sup>8</sup> *Ibid.* Gw. hefyd *ibid.*, t. 55.

ydyw urdd Caer. Ymddengys mai caniatâd Randal Blundeville, Iarll Caer, yn y drydedd ganrif ar ddeg a arweiniodd at sefydlu'r urdd hon, caniatâd a roddai awdurdod dros gerddorion Caer i deulu Dytwn. Yng ngeiriau E. K. Chambers:

Tradition has it that †1210 Randal Blundeville, Earl of Chester, besieged by the Welsh in Rhuddlan Castle, was relieved by Roger Lacy, constable of Cheshire, with a mob of riff-raff from Chester Midsummer fair. Randal gave to Lacy, and Lacy's son John gave to his steward Hugh de Dutton and his heirs the 'magistratum omnium leccatorum et meretricum totius Cestriae.' The fact of the jurisdiction is undoubted. It was reserved by the charter to the London guild in 1469, claimed by Laurence de Dutton in 1499, admitted upon an auction of *quo warranto* as a right 'from time immemorial,' further reserved in the first Vagrant Act (1572) which specifically included minstrels, and in the successive Acts of 1597, 1603, 1628, 1641, 1713, 1740, 1744. It lapsed when this last Act was repealed in 1822. Up to 1756 the heir of Dutton regularly held his *curia Minstralciae* at Chester Midsummer fair, and issued licences to fiddlers in the city and county for a fee of 4 1/2d., afterwards raised to 2s. 6d. Thomas Dutton (1569 - 1614), under puritan influences, inserted a proviso against piping and dancing on Sundays.<sup>1</sup>

Ymhellach, cyflogid cerddorion o ddechrau'r bymthegfed ganrif ymlaen gan gorfforaethau trefol neu ddinesig: digwyddodd hyn yn Llundain, Cofentri, Bryste, Yr Amwythig, Norwich, Caer, Efrog, Beverley, Caer Lŷr, Lynn a Chaergaint, er enghraifft. Câl'r cerddorion hyn dâl penodedig am wasanaethu'r corfforaethau, ac er mwyn dangos eu bod yn aelodau swyddogol gwisgent lifrau'r dref yr oeddynt yn ei gwasanaethu ynghyd â bathodynau pwrpasol.<sup>2</sup>

Yr oedd urdd o unrhyw fath – boed hi ar gyfer cerddorion, cryddion neu siopwyr – yn ceisio gwarchod buddiannau'r aelodau. Gildiau, fel arfer, a oedd yn pennu oriau

---

<sup>1</sup> Chambers, *The Mediaeval Stage* II, t. 259. Gw. hefyd *ibid.*, I, t. 55; Bowen, 'Agweddau', t. 70; Carr, 'The Mostyn Family & Estate', t. 349. Fel y ceir gweld yn nes ymlaen, yr oedd cysylltiad rhwng y Dytwniaid a rhai o gomisiynwyr Eisteddfod Caerwys 1523.

<sup>2</sup> Chambers, *The Mediaeval Stage* I, t. 51.

gwaith, cyflogau a phrisiau nwyddau, a hwy a geisiai gymodi'r aelodau pe baent wedi dadlau ynghylch rhywbeth.<sup>1</sup> Ymhellach, cyfrifoldeb gild oedd prentisio aelodau newydd i'r grefft trwy eu hyfforddi'n drylwyr dan law athro am flynyddoedd – saith mlynedd fel arfer, er bod cyfnodau prentisio mewn crefftau gwahanol yn amrywio o bedair blynedd i un mlynedd ar bymtheg.<sup>2</sup> Fodd bynnag, yr oedd yn rhaid i aelodau pob gild gadw at ambell reol er mwyn gallu elwa ar eu sefyllfa. Weithiau, cyfyngid ar nifer y prentisiaid y gallai athro eu dysgu, yn bennaf er mwyn sicrhau na cheid gormod o gystadleuaeth i'r rhai a oedd yn arfer eu crefft eisoes,<sup>3</sup> ac ni chaniateid i grefftwr a oedd yn aelod o un gild ymyrryd â chreffft arall.<sup>4</sup> Hefyd, pe cynhyrchid gwaith gwael o unrhyw fath yr oedd modd i'r gild gosbi'r sawl a'i gwnaethai. Yr oedd bod yn aelod o gild yn arwydd o safon; yn wir, pan welwyd dirywiad mewn safonau cynnyrch a nwyddau yn ystod teyrnasiad Edward VI – er enghraifft pan aeth gweithwyr ati i ymestyn brethyn er mwyn iddo fynd ymhellach, ac yna ei dewychu gyda phowdr arbennig – barnwyd mai diffyg rheolaeth gild ar y diwydiant a oedd ar fai. Yng ngeiriau W. R. D. Jones:

Decline in standards were often attributed to the withdrawal of industry from control by guilds and corporate towns. An act concerning the 'making of Hats Dornyckes [a type of stout, figured linen] and Coverlets at Norwich' is typical in its references to 'divers evil and covetous disposed' individuals, not fully trained, withdrawing from the city to the countryside and there making their weares 'deceitfully & insufficiently without Controlment, to the decay of both craft and city. Professor Heaton cites the many complaints at the 'multitude of clothiers lately increased in the realm [since] every man that would had liberty to be a

---

<sup>1</sup> Gw. Mackie, *The Earlier Tudors*, tt. 458 - 9. Gw. hefyd Elton, *England*, t. 241; Lipson, *The Economic History I*, tt. 328 - 36, t. 391.

<sup>2</sup> Gw. Lipson, *The Economic History I*, t. 309, t. 314.

<sup>3</sup> *Ibid.*, tt. 316 - 9.

<sup>4</sup> *Ibid.*, tt. 357 - 9.

clothier', and the consequent plea for strict apprenticeship enforcement.<sup>1</sup>

Weithiau, fel yr awgrymwyd eisoes, torrai rhai aelodau ryw reol – er enghraifft y gŵr a gafodd ei ddal yn cymysgu gwallt gyda gwlan, eto er mwyn i'r gwlan fynd ymhellach – a phe gwneid hynny gellid dirwyo'r aelod hwnnw a'i ddiswyddo.<sup>2</sup> Ymhellach, gellid gwahardd aelod o'i gild am gamymddwyn mewn rhyw ffordd, am beidio â bod yn ufudd, am ddwyn, am fynychu tafarndai ac am fetio.<sup>3</sup> Yn ôl rheolau gild Sant Steffan, er enghraifft, nodir y gellid cosbi aelod am ymladd, dadlau, ymddwyn fel fagabwnd, chwarae disiau, mynychu puteindai, neu am gyflawni unrhyw drosedd gywilyddus arall. Dyma reolau sy'n ein hatgoffa'n syth o rannau o Statud Gruffudd ap Cynan:

If any of them be a common brawler or given to quarrel or be a vagabond or night-wanderer or use a dice or brothels or be guilty of any crime whereby the brethren or sisters may incur scandal ...he shall be admonished once, twice or thrice, and if he be delinquent the fourth time he shall be wholly expelled from the brotherhood.<sup>4</sup>

Yr oedd y gildiau hyn yn sefydliadau swyddogol, a châi llawer ohonynt eu cydnabod gan y goron. Nid oedd gan bob gild drwydded, ond câi gildiau didrwydded o'r fath eu dirwyo gan y brenin.<sup>5</sup> Rhaid oedd i aelodau llawer o'r gildiau swyddogol dalu am eu haelodaeth – er enghraifft, yr oedd yn rhaid i'r pobyddion yn 1155 dalu £6

---

<sup>1</sup> Jones, *The Tudor Commonwealth*, tt. 172 - 3. Gw. hefyd Lipson, *The Economic History I*, tt. 328 - 31.

<sup>2</sup> Jones, *The Tudor Commonwealth*, t. 173.

<sup>3</sup> Gw. Lipson, *The Economic History I*, tt. 312 - 3.

<sup>4</sup> Fe'i dyfynnir yn Unwin, *The Guilds*, t. 123. Gw. hefyd Bowen, 'Sylwadau', t. 44.

<sup>5</sup> Unwin, *The Guilds*, t. 47.

y flwyddyn i'r Trysorlys am fod yn aelodau o'u gild. Oherwydd hyn, ac oherwydd y statws a'r arbenigrwydd a ddôl yn sgîl bod yn aelod o gild, nid ydyw'n syndod gweld fod gildiau'r Oesoedd Canol a'r Cyfnod Modern Cynnar yn sefydliadau cyfrinachol. "It is not always sufficiently realized that the Fraternity was essentially a secret association", medd George Unwin, "which had every reason for withdrawing its existence and its regulations as much as possible from public notice. Even after they attained a fully authorized position as livery companies, the trade fraternities were extremely jealous of the secrecy of their proceedings."<sup>1</sup> Yr oedd y *Feste du Pui*, er enghraifft, yn urdd gyfrinachol tu hwnt. Cyfarfyddai'r aelodau bedair gwaith y flwyddyn – y dydd Iau cyn y Nadolig, y dydd Iau cyn Sul y Blodau, y dydd Iau cyn dydd Sant Siôn, a'r dydd Iau cyn Gŵyl Fihangel – a chredent fod cyfrinachedd yn rhywbeth i'w goleddu.

Their proceedings were strictly private. Any member who revealed their secrets was liable to be expelled and to be held as a perjurer, since he had broken the solemn oath administered to him on entering.<sup>2</sup>

Prif bwrpas gildiau, fe ymddengys, oedd hwyluso bywydau'r aelodau a cheisio cyfyngu ar hawliau'r rhai nad oeddynt yn perthyn i'r gildiau.<sup>3</sup> Yr oedd ffurfio gildiau yn arwydd fod crefft yn graddol sefydlogi ac ymdrefnu. Wrth gyfeirio at y cerddorion yn arbennig, dyma a ddywed Bruce Pattison:

---

<sup>1</sup> *Ibid.*, t. 97.

<sup>2</sup> *Ibid.*, tt. 100 - 1. Cymh. yr hyn a ddywed Matthew Davies, 'Artisans', t. 139: "Admission to a guild within one of London's crafts was a jealously guarded privilege, and guild authorities frequently felt it necessary to tighten their criteria for entry when necessary."

<sup>3</sup> Chambers, *The Mediaeval Stage* I, t. 55.

The formation of minstrel guilds is a sign that professional entertainers were settling down beside the *bourgeois* patrons who treated the more respectable of them as equals and allowed them greater independence than patronage in a noble household. It is noteworthy that the Paris guild of 1321, the type of most of the later ones, seems to include only musicians. Such privileged bodies, claiming sole right to free performance in a town, are a step towards the organization of a musical profession.<sup>1</sup>

Fe fu'r beirdd yng Nghymru yn rhoi trefn ar eu crefft a'u celfyddyd hefyd. Yn wir, barn D. J. Bowen a G. J. Williams ydyw fod y beirdd ar ôl y Goncwest wedi ffurfio eu hurdd sefydliedig eu hunain.<sup>2</sup>

Fodd bynnag, a ellir cymharu 'gild' neu 'urdd' y beirdd yng Nghymru i'r rhai y'u trafodwyd eisoes? A oes digon o dystiolaeth ar gael i gyfiawnhau galw ffrwyth ymdrefnu'r beirdd yn sefydliad o'r fath?

Er hwylustod, byddai'n werth crynhoi yr hyn sy'n nodweddu gild. Sefydliad oedd gild a warchodai grefft arbennig, ac er mwyn gwneud hynny llunnid rheolau (ysgrifenedig), ac yr oedd yn rhaid i aelodau'r gild ddilyn y deddfau hyn. Datblygodd ambell gild o sefydliadau plwyfol, lle gwelid aelodau mwyaf blaenllaw rhyw grefft yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb o ddysgu'r grefft i eraill. Yr oedd ambell amod i'w chadw cyn dod yn aelod o gild: yr oedd yn rhaid prentisio am flynyddoedd, ac wrth wneud hynny yr amcan oedd perffeithio'r gelfyddyd, ac yr oedd yn rhaid bod yn brentis o anrhydedd ac yn brentis gonest, fel na ellid dwyn gwarth ar weddill aelodau'r gild. Ymhellach, ni ddylid dysgu'r grefft i ormod o brentisiaid, ac ni ddylid arwain mwy nag un crefft. Y gild a ddeddfai ynghylch lle a phryd ac am ba hyd y gellid gweithio, a'r gild a oedd yn

---

<sup>1</sup> Pattison, *Music*, t. 47

<sup>2</sup> Gw. Bowen, 'Beirdd a Noddwyr (Rhan III)', t. 21; G. J. Williams, *Agweddau ar Hanes Dysg Gymraeg: Detholiad o Ddarlithiau G. J. Williams*, gol. Aneirin Lewis (Caerdydd, 1985), tt. 124 - 5.

pennu cyflogau eu haelodau. Ymhellach, gallai penaethiaid gild gosbi aelod am gynhyrchu gwaith gwael, am dorri rheol, ac am gamymddwyn neu ymddwyn mewn modd a fyddai'n dwyn gwarth ar enw da'r gild. Yr oedd gild yn sefydliad swyddogol: gwisgai'r aelodau lifrau ar achlysuron arbennig; câi'r aelodau, mewn ambell achos, eu heithrio rhag cael eu cosbi dan Ddeddau'r Tlodion; ac yr oedd gan y mwyafrif o'r gildiau ddogfen frenhinol a roddai'r hawl iddynt fod ag awdurdod dros grefft arbennig o fewn ardal arbennig. Yr oedd gild hefyd yn sefydliad cyfrinachol, ac ni ddylai neb o'r tu allan i'r gelfyddyd gael y ffrainc o wybod rheolau'r gild na'r gelfyddyd.

Wrth graffu ar gyfundrefn y beirdd yng Nghymru, mae'n amlwg mai'r ddogfen sy'n cyfateb orau i reolau gild ydyw Statud Gruffudd ap Cynan. Fel y gwelwyd eisoes, ceisio rhoi trefn ar y gwŷr wrth gerdd – yn feirdd ac yn gerddorion – oedd amcan y Statud, ceisio rheoli eu crefft, a hefyd ceisio gwarchod yr aelodau rhag y beirdd a'r cerddorion isradd – neu'r 'chwyn', ys dywedir, mewn ambell destun o'r Statud. Gwneir ymdrech lew i wahaniaethu rhwng y beirdd swyddogol a'r cardotwyr crwydrol, troseddol, ac fel yng nghofnodion y gildiau enwog, ceisia'r Statud ddeddfu ynghylch lle, am faint, a phryd y câi'r gwŷr wrth gerdd arfer eu crefft. Ymhellach, nodir y taliadau a'r rhoddion y dylai'r gwŷr wrth gerdd eu derbyn, a cheir adran faith yn y Statud sy'n nodi sut y dylid cosbi'r beirdd a'r cerddorion am gamymddwyn neu dorri rheolau'r ddogfen. Yn ogystal, rhoddir pwys ar brentisiaeth faith a manwl yn y Statud, cyfyngir ar nifer y disgyblion neu'r prentisiaid y câi athro eu dysgu, a nodir na châi neb arwain dwy gelfyddyd. Hefyd, manylir llawer ynghylch maes llafur y gwŷr wrth gerdd; ac, wrth gwrs, pwysleisir na ddylid datgelu cyfrinachau'r gelfyddyd i neb ar wahân i brentis swyddogol. Fodd bynnag, ni rydd y Statud wybodaeth ynghylch unrhyw lifrau, ni cheir tystiolaeth gadarn fod y ddogfen wedi cael sêl bendith y goron, ac ni sonnir am adeilad



y gellid ei ddefnyddio'n gartref parhaol i'r sefydliad. Serch hynny, fe allai cysylltiad y Statud ag Eisteddfod Caerwys 1523 gynnig gwybodaeth bellach inni. Yn ystod yr eisteddfod honno fe gadarnhawyd rheolau'r Statud ac fe raddiwyd llawer o feirdd a cherddorion. Efallai, dim ond efallai, y gellir galw'r cadeiriau a'r telynuau bychain a roddwyd yn wobrwyon i'r prif benceirddiaid neu'r athrawon, y rhai a hongiai ar eu hysgwyddau, yn rhyw fath o lifrau, gan fod tlws o'r fath yn arwydd pendant mai gwŷr wrth gerdd graddedig – nid oferfeirdd – oeddynt.<sup>1</sup> Yr oedd y tlysau hyn yn dangos bod eu henillwyr yn aelodau o garfan y gwŷr wrth gerdd swyddogol, hyd yn oed pe na bai'n arwydd eu bod yn perthyn i sefydliad fel gild. Hefyd, er na ellir profi beth yn hollol oedd perthynas y Statud ac Eisteddfod 1523 â'r goron, gwelir yn nes ymlaen fod ambell destun o'r Statud yn nodi bod y ddogfen wedi ei llunio, a bod yr eisteddfod wedi ei chynnal, trwy gomisiwn brenhinol – ac yn sicr, fe gynhaliwyd Eisteddfod Caerwys 1567 gyda chaniatâd brenhinol. Ymhellach, cyfeirir at gomisiwn brenhinol yn nhrwydded barddol Gruffudd Hiraethog, ac awgryma D. J. Bowen mai at gomisiwn brenhinol coll eisteddfod 1523 y cyfeirir.<sup>2</sup> Hefyd yn y cais a wnaed i Gyngor Cymru a'r Gororau yn 1594 ar gyfer cynnal eisteddfod arall yng Nghaerwys, cyfeirir at y comisiynau a gafwyd eisoes gan Harri VIII ac Elisabeth I i gynnal eisteddfodau yn gynharach yn y ganrif, ac ymddengys mai cyfeirio at gomisiwn brenhinol Eisteddfod Caerwys 1523 a wneir pan gyfeirir at gomisiwn Harri VIII.<sup>3</sup> Mae cymalau yn y Statud hefyd yn awgrymu bod

---

<sup>1</sup> Nid oes tystiolaeth, fodd bynnag, fod pawb a raddiodd yn derbyn tlws: ymddengys mai'r prif benceirddiaid neu'r athrawon, fel arfer ar ôl ennill ymryson, a'u derbynai.

<sup>2</sup> *GGH*, t. xxvii.

<sup>3</sup> *Ibid.*

ffyddlondeb i'r goron Duduraidd yn bwysig: dylid cefnogi swyddogion y brenin gan ymddwyn yn heddychlon ac yn ufudd, meddir. "Ymddengys", medd Gwyn Thomas, "fel petai pwysau gwleidyddol a gweinyddol o'r tu ôl i'r ymdrech i gael y gwŷr wrth gerdd i fffitio i system newydd o lywodraeth."<sup>1</sup>

Mae tystiolaeth ynghylch adeilad parhaol i gild y beirdd yng Nghymru yn brinnach. Awgrymir mai mewn tŷ yng Nghaerwys, dan nawdd teulu'r Mostyniaid, y cynhaliwyd y ddwy eisteddfod. Gellir dadlau, felly, mai'r adeilad hwn oedd 'cartref' y gild; ond fel y gwelwyd eisoes, yr oedd aelodau'r gildiau yn Lloegr yn cyfarfod sawl gwaith mewn blwyddyn ac, yn anffodus, nid oes tystiolaeth fod cyfarfodydd o'r fath wedi cael eu cynnal yng Nghymru, er bod beirdd yn dod ynghyd weithiau mewn neithiorau neu wyliau arbennig. Wrth gwrs, bwriadwyd cynnal eisteddfod bob tair blynedd, gan gadarnhau graddau gwŷr graddedig a graddio o'r newydd yno, mae'n debyg; ond drachefn, ni cheir tystiolaeth fod eisteddfod arall wedi ei chynnal ar ôl 1523 hyd 1567.

Oherwydd hyn oll, mae'n anodd derbyn fod y beirdd yng Nghymru wedi ymffurfio'n urdd mor sefydledig a parhaol â'r urddau a ffurfiwyd yn Lloegr. Eto i gyd, mae'n anodd gwrthod y syniad fod y Statud wedi ei llunio ar ddull dogfennau'r urddau crefft, ac mai'r un oedd amcan y ddogfen ac eisteddfodau Caerwys ag amcanion gildiau eraill o'r iawn ryw, sef gwarchod a rheoli'r grefft yr oeddynt yn ei chynrychioli. Efallai mai cwmp gild y beirdd yng Nghymru fu methu â chael cartref parhaol: o'r herwydd, ni wireddwyd yr amcan o gynnal eisteddfod bob tair blynedd. Canolbwyntio ar ddysgu, graddio, trwyddedu, rheoli ymddygiad, a gosod canllawiau ar gyfer cynhaliath y gwŷr wrth gerdd a wnaeth y Statud. Ffrwyth llafur gwŷr a aeth ati i ddynewared gild ydyw yn

---

<sup>1</sup> EC, t. 76.

hytrach na ffrwyth gild sefydledig, barhaol, o'r iawn ryw.

Cyn cloi'r drafodaeth, mae'n werth ystyried dwy ffordd arall o warchod buddiannau'r gwŷr wrth gerdd.

Fel y gwelwyd eisoes, yr oedd gan gildiau'r hawl i roi trwyddedau i'w haelodau,<sup>1</sup> ac fe ymddengys fod y Statud hefyd yn cefnogi'r arfer. (Nodir, er enghraifft, na ddylai bardd dieithr dderbyn rhodd na thâl pe na bai ganddo drwydded gydag ef.) Yn wir, ymddengys fod trwydded farddol Gruffudd Hiraethog wedi ei llunio yn enw'r Statud:

bid hysbyssol o bawb o bawb o voneddigion a chyffredin o vewn siroedd a thaleithiav Kymrv yn bod ni siams vychan ysgweier Hw ap davydd ap lewys ysgweier lewys morgannwc pennkerdd ac athro kerdd dafawd o vewn siroedd a thaleithiav Kymrv trwy rym komisiwn gras y brenin harri wythfed or henw brenin lloegyr ffreingk ac ewerddon amddiffynnawdr y ffydd penn gorvchel ar y ddaear tann dduw Eglwys loegr ac ewerddon y ddwyfed flwyddyn ar bymtheg ar hugain oy deyrnasiad y ras ef Yr ym ni trwy rym yr vn konisiwn y rai rai sy vry nid amgen siams vychan ysgweier hw davydd ap lewys ysgweier lewys morgannwc pennkerdd ac athro kerdd tafawd Yr ym ni trwy awdvrddod athrawon a hen bennkeirddiaid eraill ar blaen yn tystiolaethv vod gruffudd hiraethawc prydydd disgybl y lewys morgannwc Yr ym ni wrth rym komisiwn yn tystiolaethv wrth ystatvd twysogion kymrv ymhvm llyfyr kerddwriaeth kelfyddyd kerdd dafod y vod ef yn abl di ddiffic y gael gradd disgybl pennkeirddiaidd y gerdded y gael ac y ovyn ac y gymeryd Roddion ac ewyllys da boneddigion a chyffredin val y perthyno y radd disgybl pennkeirddiaidd y gaffel ac yn dystoliaeth ar hynny yr ym ni yn rroddi yn dwylaw yn hvn yn ysg[r]ivennedic ann selav a duw a gattwo gras y brenin amen amen amen

Jiames vaughan Hugh lewis myvi lewys morgannwc<sup>2</sup>

Ys dywed D. J. Bowen, "Rhydd y warrant yr hawl iddo fynd ar deithiau clera, ac i dderbyn y taliadau a bennwyd ar gyfer disgyblion pencerddiaidd yn yr Ystatud; byddai

---

<sup>1</sup> Gw. Bowen, 'Agweddau', t. 70.

<sup>2</sup> Gw. *GGH*, tt. xxvi - xxvii.

Gruffudd, felly, yn dwyn y ddogfen hon ganddo ar ei gylchdeithiau.”<sup>1</sup>

Yr oedd trwydded yn sicrhau dau beth.

Yn gyntaf, yr oedd yn sicrhau na ellid camgymryd bardd swyddogol am gardotyn neu grwydryn neu segurwr. Yn ystod yr unfed ganrif ar bymtheg, crwydryn neu gardotyn oedd bardd neu gerddor yn llygaid Deddfau'r Tlodion: yr hyn a ddangosai nad dyna ydoedd mewn gwirionedd oedd trwydded wedi ei llofnodi gan ddau o ustusiaid heddwch.<sup>2</sup> Fel y sylwodd A. D. Carr, gellid, mewn egwyddor, gosbi bardd am glera cyn iddo gael trwydded swyddogol:

[T]heir position was rather ambiguous; they were welcomed by the men on whom the crown depended to govern Wales, but at the same time, they had no formal right to go on circuit. A poet going his rounds could conceivably be put in the stocks as a vagabond and, terrible as bardic revenge might be, the experience would be a humiliating one.<sup>3</sup>

Yr oedd trwydded, felly, yn dangos bod ei pherchennog yn ŵr parchus, proffesiynol, a bod ganddo hawl swyddogol i deithio a chlera. Yn yr un modd, rhoddai trwydded, dan rai amgylchiadau, yr hawl i dlodion analluog gardota. Fel y gwelwyd eisoes, yn ôl Deddf 1531 câi tlodion o'r fath gardota cyn belled â bod ganddynt drwydded; ond heb drwydded caent eu cosbi,<sup>4</sup> ac fe'u cosbid hwy hefyd am gardota gyda thrwydded ffug.<sup>5</sup>

---

<sup>1</sup> *Ibid.*, t. xxvi. Gw. Evan D. Jones, 'Simwnt Fychan a Theulu Plas y Ward', *B* VII (1933 - 35), tt. 141 - 2 am gopi o drwydded barddol Simwnt Fychan.

<sup>2</sup> Gw. *PPTSE*, t. 125; Powell, 'Robert ap Huw', t. 37; *MM*, t. 97.

<sup>3</sup> Carr, 'The Mostyn Family & Estate', t. 350.

<sup>4</sup> Mackie, *The Earlier Tudors*, t. 452.

<sup>5</sup> *MM*, t. 27; Sheavyn, *The Literary Profession*, t. 104.

Yn ogystal â chynnig diogelwch i feirdd, yr oedd trwydded o gymorth mawr iddynt gael croeso a nawdd yn nhai'r uchelwyr. Wedi'r cyfan, yr oedd noddï beirdd o safon a statws o fantais i statws uchelwr gan fod bardd da yn gymaint o symbol statws yn y Cyfnod Modern Cynnar ag ydyw car mawr neu dŷ haf yn ne Ffrainc heddiw.<sup>1</sup> Yn yr un modd, gallai uchelwr gynnig diogelwch i fardd, gan fod cysylltiad ag uchelwr neu â thŷ uchelwr yn dangos nad rhyw fardd ceiniog a dimai ydoedd.

Fel gyda thrwydded, yr oedd cael cysylltiad â thŷ noddwr o fantais i fardd. Yn gyntaf, yr oedd yn cynnig mynediad i dai uchelwyr eraill,<sup>2</sup> a hefyd dangosai nad rhyw fardd isradd neu gardotyn ydoedd. Yn 1572, er enghraifft, pan ddeddfwyd y dylid cosbi minstreliaid am grwydro, câi'r beirdd a'r cerddorion a chanddynt gysylltiad ag uchelwyr nodedig eu heithrio.<sup>3</sup> Ys dywed Bruce Pattison:

severe laws against vagabonds made it necessary for any travelling bards to seek the protection of a powerful noble. The wearing of his livery and the protection of a letter from him would ensure safe conduct and even a welcome in most places.<sup>4</sup>

Fel yr awgryma'r dyfyniad uchod, gallai uchelwr neu noddwr nodedig roi lifrau

---

<sup>1</sup> Gw. Lewis, 'The Decline', t. 43.

<sup>2</sup> Edrydd Holz knecht stori am gerddor yn Lloegr, stori sy'n awgrymu bod nawdd uchelwr nodedig o gymorth i ŵr wrth gerdd ganfod nawdd pellach. Meddai Holz knecht, *Literary Patronage*, t. 35, troednodyn rhif 53: "Perhaps the livery of his lord gained him entrance into the court of other nobles. There is a medieval Latin story of how a minstrel sought his supper at a castle. Asked what lord he served he replied "God" and was refused entrance by the porter unless he served some other lord. But minstrels were always men of quick wits, so this one announced thereupon he was the devil's own servant and was received joyfully "quia bonuo socius erat.""

<sup>3</sup> Gw. Bowen, 'Y Cywyddwyr a'r Dirywiad', t. 466; idem., 'Beirdd a Noddwyr (Rhan III)', t. 21; Powell, 'Robert ap Huw', t. 37; *PPTSE*, t. 125.

<sup>4</sup> Pattison, *Music and Poetry*, t. 4.

i fardd.<sup>1</sup> Mae'n ddiddorol gweld bod Tomas Mostyn wedi rhoi lifrau i Simwnt Fychan, yn enwedig o gofio bod cysylltiad rhwng y Mostyniaid ac eisteddfodau Caerwys ac â'r ymdrech i warchod y beirdd swyddogol. Meddai Simwnt Fychan:

Ef a fry fwyfwy i ras,  
Ef a urddodd i farddwas;  
Lifrai a roes, ail Efracw,  
Las rodd, a wna les yrhawg,  
Llwyrddawn i ennill urddas,  
Llurig yw im rhag llwyr gas,  
Yr hon, er gwg rhai anwir,  
A bair o'i chael yn barch hir,  
Ac nid wyf ofnog na dig  
Yn cario hon, myn Curig,  
Dillin bro Edwin ydwyf,  
Dilladus-drwsiadus wyf.<sup>2</sup>

Yn ôl tystiolaeth y bardd ei hun, deuai'r lifrai ag urddas a pharch iddo, ac nid oedd arno ofn clera tra oedd yn ei gwisgo, a hynny gan ei fod yn gwybod bod ei grefft a'i gelfyddyd, yn ogystal â'i ddillad, yn drwsiadus a pharchus.<sup>3</sup>

---

<sup>1</sup> Bowen, 'Agweddau', t. 70.

<sup>2</sup> Fe'i dyfynnir yn Carr, 'The Mostyn Family & Estate', t. 337. Gw. hefyd R. Alun Charles, 'Teulu Mostyn fel Noddwyr y Beirdd', *LIC IX*, rhifyn 1 a 2 (Ionor - Gorffennaf, 1966), t. 83.

<sup>3</sup> Gw. Carr, 'The Mostyn Family & Estate', t. 338.

#### 4. *Eisteddfod Caerwys 1523*

Gan fod y beirdd answyddogol a'r difyrwyr ysgafnfryd a deithiai ar draws y wlad yn chwilio am nawdd, a chan fod modd i'r beirdd swyddogol gael eu camgymryd am y 'chwyn' hyn – neu am gardotwyr, crwydriaid, segurwyr, troseddwy, neu hyd yn oed dlodion analluog – yr oedd yn rhaid i rywun yn rhywle geisio rhoi trefn ar bethau, a cheisio diogelu eu safle a'u statws.

Dyna, mewn gwirionedd, y ceisiwyd ei wneud yn yr eisteddfod gyntaf a gynhaliwyd yng Nghaerwys, Sir y Fflint, yn 1523. Fel y crybwyllwyd eisoes, ac fel y nodir yn y Statud, yr oedd chwyn y beirdd answyddogol yn bygwth mygu blodau llewyrchus y beirdd swyddogol, ac felly yr oedd yn rhaid ceisio cael gwared â hwy.<sup>1</sup> Ys dywed D. J. Bowen, yr oedd yn rhaid ceisio "diogelu detholrwydd yr alwedigaeth."<sup>2</sup> Yr oedd yn rhaid canfod ffordd o brofi nad ofergerddorion ceiniog a dimai oedd beirdd traddodiadol, clasurol Cymru, ac yr oedd yn rhaid sicrhau na châi beirdd a cherddorion isradd o'r fath unrhyw siawns o ennill mynediad i rengoedd blaen y gelfyddyd. Bwriad Eisteddfod Caerwys 1523 oedd ehangu'r bwlch rhwng y gwŷr wrth gerdd swyddogol, parchus, crefftus ar y naill law, a'r gwŷr wrth gerdd ysgafnfryd, answyddogol ar y llaw arall. Mewn rhyw fath o eisteddfod a gynhaliwyd yn Drumceat yng ngogledd Iwerddon ganrifoedd yn gynharach, penderfynwyd y dylid lleihau nifer y beirdd er mwyn diogelu

---

<sup>1</sup> Gw. Bowen, 'Agweddau', t. 70; idem., 'Graddedigion', t. 130; *GHO*, t. 10; Edwards, *Yr Eisteddfod*, t. 11; Peter Crossley-Holland, 'Secular Homophonic Music in Wales in the Middle Ages', *ML* XXIII (1942), t. 140; Ceri W. Lewis, 'Einion Offeiriad and the Bardic Grammar', *GWL*<sup>2</sup>, tt. 62 - 3; idem., 'The Decline', tt. 67 - 8; *RRR*, t. 146, t. 443; T. H. Parry-Williams, 'The Bardic Tradition', *WR* VI (Winter, 1947), t. 251; Ifor ap Gwilym, *Y Traddodiad Cerddorol yng Nghymru* (Abertawe, 1978), t. 21; Bobi Jones, 'Pwnc Mawr Beirniadaeth Lenyddol Gymraeg', *YB* III (1967), t. 259; Jones, *Beirdd yr Uchelwyr a'r Gymdeithas*, t. 134.

<sup>2</sup> Bowen, 'Graddedigion', t. 129.

parhad y gyfundrefn farddol yn y dalaith.<sup>1</sup> Gellir dadlau mai dyna, mewn gwirionedd, oedd amcan Eisteddfod Caerwys 1523 hefyd.

Yn yr eisteddfod aethpwyd ati, ys dywed y Statud, i roi 'ordr a llywodraeth' ar gelfyddyd y gwŷr wrth gerdd. Gwnaethpwyd hynny trwy gadarnhau graddau'r gwŷr a oedd wedi ennill eu graddau eisoes (mewn neithiorau, fe ymddengys), trwy raddio gwŷr o'r newydd, a thrwy roi cyfle i'r gweddill fyfyrto ar y grefft a dysgu rheolau'r gelfyddyd, er mwyn eu hwyluso i raddio yn y dyfodol, efallai.<sup>2</sup> Rhoi gwybodaeth ynghylch graddio, graddio, cadarnhau graddau: dyna ffordd yr eisteddfod o geisio gwahaniaethu rhwng y gwŷr wrth gerdd swyddogol ar y naill law a'r rhai answyddogol ar y llaw arall. Awgryma D. J. Bowen mai canolbwyntio ar gadarnhau graddau a wnaed yng Nghaerwys yn hytrach na graddio beirdd a cherddorion o'r newydd, a hynny gan nad oes tystiolaeth fod yr eisteddfod wedi parhau am fwy na diwrnod.<sup>3</sup> Cael cadarnhau ei radd fel athro cadeiriog a wnaeth Tudur Aled yng Nghaerwys, a daw D. J. Bowen i'r casgliad "mai cadarnhau graddau a enillasid eisoes mewn neithiorau a wnaethpwyd mewn achosion eraill hefyd."<sup>4</sup> Fodd bynnag, fe gynnwys sawl llawysgrif restr o'r gwŷr wrth gerdd a raddiwyd yn yr eisteddfod, ac ni chofnodir mai cael cadarnhau eu graddau a wnaethont hwy. Ymhellach, gan fod rhai wedi gwrthod y graddau a roddwyd iddynt, go brin mai

---

<sup>1</sup> Gw. Jones, 'Rhethreg yng Nghufundrefn y Beirdd', t. 168.

<sup>2</sup> Gw. *GHO*, t. 14; Carr, 'The Mostyn Family & Estate', t. 350; *CGD*, tt. 16 - 17; Bob Owen, 'Telynorion a Chrythorion Oes y Tuduriaid', *Y Delyn* I, rhif 1 (Gwanwyn, 1947), t. 14; Gilbert Ruddock, 'Oes Aur Ein Llên: Cyfnod y Cywydd - XII Anterth a Dirywiad', t. 411; *EC*, t. 44; Ifor ap Gwilym, *Y Traddodiad Cerddorol*, t. 21; Jones, *Beirdd yr Uchelwyr a'r Gymdeithas*, t. 134.

<sup>3</sup> D. J. Bowen, 'Graddau Barddol Tudur Aled', *LIC XVIII* (1994 - 95), t. 99.

<sup>4</sup> *Ibid.*



cadarnhau'r graddau hynny a wnaed yng Nghaerwys. Ymddengys mai yn yr eisteddfod y'u graddiwyd, ac iddynt wrthod y graddau'n syth am eu bod yn credu eu bod yn haeddu gwell.<sup>1</sup>

Yr oedd arholi'r gwŷr wrth gerdd a'u gwobrwy â graddau yn ffordd o ddiogelu safonau'r gelfyddyd gan na allai pawb fodloni'r gofynion caeth.<sup>2</sup> Yr oedd ennill gradd yng Nghaerwys, felly, yn arwydd o allu gwŷr wrth gerdd – yn arwydd nad un o'r 'chwyn' ydoedd. Yr oedd ennill gradd, yn ogystal, yn rhoi'r hawl i fardd gael trwydded. Ys dywed Hywel Teifi Edwards yn ei ddull dihafal ei hun, “Darparwyd clinig iddynt lle gallent gael papur a dystiai i'w hiachusrwydd prydyddol.”<sup>3</sup>

### *Pam Caerwys?*

Eisteddfod talaith Aberffraw oedd Eisteddfod Caerwys 1523, ac o'r herwydd gellid bod wedi ei chynnal mewn sawl man o fewn y dalaith honno. Llandygái oedd cartref William Gruffudd, Dinbych oedd cartref Rhosier Salbri, o Lewenni Fechan (neu'r Llannerch) ger Llanelwy y dôi Gruffudd ab Ieuan ap Llywelyn Fychan, ac o Iâl yr hanai Tudur Aled, felly pam y lleolwyd yr eisteddfod yn nhref fechan Caerwys, tref nid nepell o gartref yr olaf o'r swyddogion a oedd yn gysylltiedig â hi, sef Rhisiart ap Hywel?

---

<sup>1</sup> Gw. *ibid.*

<sup>2</sup> Gw. Carr, 'The Mostyn Family & Estate', t. 350; Harper, 'Llawysgrif Robert ap Huw', t. 178; Crossley-Holland, 'Secular Homophonic Music', t. 140; *CGD*, tt. 18 - 19; Lewis, 'The Decline', t. 67; G. J. Williams, 'The Eisteddfod', *WR* VI (Winter, 1947), t. 254.

<sup>3</sup> Edwards, *Yr Eisteddfod*, t. 11. Cymh. yr hyn a ddywed yr un awdur yn *The Eisteddfod*, t. 7: “It was as if a clinic was being provided for the examination of ailing professionals from which no one whose fitness was in doubt would emerge with a clean bill of health.”

Gellir meddwl am sawl ffactor sy'n llwyddo'n rhannol i ateb y cwestiwn hwn.

Yn gyntaf, yr oedd gogledd-ddwyrain Cymru yn y cyfnod yn ardal ddiwylliedig iawn, gyda llawer o fawrion y byd llenyddol yn hanu oddi yno; yn wir, yr ardal hon oedd “canolfan a chadernid diwylliant llenyddol Cymru yn yr unfed ganrif ar bymtheg” ym marn Enid Roberts,<sup>1</sup> barn sy'n ategu'r hyn a ddywedodd G. J. Williams bymtheng mlynedd ynghynt: “Dyma ganolfan bywyd llenyddol y cyfnodau hyn.”<sup>2</sup> O'r gogledd-ddwyrain yr hanai beirdd enwog megis Gutun Owain, Guto'r Glyn a Thudur Aled, a deuai enillwyr prif wobrau Eisteddfod Caerfyrddin o'r ardal, sef Cynwrig Bencerdd, Rhys Bwting, a Dafydd ab Edmwnd – yr olaf yn enwog am ennill cadair arian ac am roi trefn ar bedwar mesur ar hugain cerdd dafod. Yn wir, awgryma D. J. Bowen a Hywel Teifi Edwards y gallai llwyddiant gwŷr wrth gerdd Tegeingl yng Nghaerfyrddin fod yn rhannol gyfrifol am leoli eisteddfod 1523 yn yr ardal.<sup>3</sup> Parhau i ffynnu a wnaeth yr ardal wedi 1523. Hanai Gruffudd Hiraethog o'r gogledd-ddwyrain – o Langollen, a bod yn fanwl gywir – a llwyddodd ef i feithrin nifer helaeth o feirdd da, Wiliam Llŷn, Wiliam Cynwal, Siôn Tudur a Simwnt Fychan yn eu plith. Yn ôl pob tebyg, fe aeth Gruffudd Hiraethog ati i olygu rhywfaint ar ramadeg y beirdd; yn sicr, fe gyflawnwyd y gwaith hwnnw gan Simwnt Fychan, ei ddisgybl, gan mai ffrwyth ei waith ef – y Pum Llyfr Cerddwriaeth, a ysgrifennwyd tua 1570 – ydyw'r gramadeg barddol enwocaf a'r llawnaaf ar sawl cyfrif.

Ymhellach, yr oedd yr ardal yn frith o noddwyr, llawer mwy nag a geid mewn

---

<sup>1</sup> Roberts, 'Eisteddfod Caerwys 1567', t. 28.

<sup>2</sup> G. J. Williams, 'Traddodiad Llenyddol Dyffryn Clwyd a'r Cyffiniau', *TCHSDd I* (1952), t. 20.

<sup>3</sup> Gw. Bowen, 'Graddau Barddol', t. 100; Edwards, *Yr Eisteddfod*, t. 10.

rhannau eraill o'r wlad, felly yr oedd porfa fras ar gael i'r beirdd. Ceid uchelwyr nodedig, megis Salbriaid Llewenni, Conwyiaid Bodrhyddan, Mostyniaid Mostyn, a cheid nifer o dai llai enwog megis Bachymbyd, Bodygraig, Gwenynog, Y Foelas, Bryneutyn, Plas-y-Ward, Bodidris, Euarth, Plas Iolyn, Y Giler a Berain.<sup>1</sup>

Yr oedd Caerwys hefyd yn dref Gymreig ei naws. "Yn wahanol i fwrdeisdrefi eraill – megis Y Fflint, Rhuddlan, Dinbych, Conwy, Caernarfon – ni phlannwyd minteioedd o Saeson yng Nghaerwys; ni chodwyd yno gastell na sefydlu garsiwn", medd Enid Roberts.

Arhosodd y fwrdeistref Gymraeg yn nwylo'r brodorion a'i swyddogion yn aelodau o hen deuluoedd uchelwrol yr ardal. Nid hi oedd pen tref y sir, ond yr oedd yn un o drefi'r Sesiwn Fawr, ac yn ôl Edward Lluyd (ddiwedd olaf un yr ail ganrif ar bymtheg, mae'n wir) hi oedd yr unig dref farchnad yn y sir. Wrth gasglu tyrfa grwydrol beirdd a cherddorion i Gaerwys, nid oedd perygl gwrthdaro rhwng y brodorion Cymreig a'r Saeson garsiwn a dosbarth gweinyddwyr. A phe digwyddai pethau fynd o chwith, yr oedd yn ddigon agos at Gaer i gael cymorth parod barnwr a milwyr."<sup>2</sup>

Ymhellach, ceid traddodiad fod Gruffudd ap Cynan wedi cynnal eisteddfod yng Nghaerwys a'i fod wedi rhoi trefn ar gyfundrefn y gwŷr wrth gerdd yn ystod ei oes. Trafodir dilysrwydd y traddodiad yn ddiweddarach; ond yn yr unfed ganrif ar bymtheg nid oedd profi bod y traddodiad yn wir ai peidio yn bwysig: yr oedd y ffaith fod rhyw sôn fod Gruffudd ap Cynan wedi cynnal eisteddfod yng Nghaerwys rywdro yn ddigon. Yr oedd Gruffudd yn frenin ar ogledd Cymru i gyd, ond yng Nghaerwys, meddid, sef yng

---

<sup>1</sup> Gw. Enid Roberts, 'The Renaissance in the Vale of Clwyd', *FHSP* XV (1954 - 55), tt. 53 - 4; Williams, 'Traddodiad Llenyddol Dyffryn Clwyd', t. 21. Gw. hefyd Bowen, 'Graddau Barddol', tt. 100 - 1; Carr, 'The Mostyn Family & Estate', tt. 351 - 2; Roberts, 'Eisteddfod Caerwys 1567', t. 28.

<sup>2</sup> Roberts, 'Eisteddfod Caerwys 1567', tt. 28. Gw. hefyd Carr, 'The Mostyn Family & Estate', tt. 351 - 2.

Ngwynedd Is Conwy, y cynhaliodd ei eisteddfod, nid mewn tref arall a oedd yn nes at ei brif lys yn Aberffraw, Môn, Gwynedd Uwch Conwy.<sup>1</sup> Ym marn sawl ysgolhaig, cysylltir Gruffudd ap Cynan â Chaerwys gan fod Angharad, ei wraig, yn ferch i Owain ab Edwin, arglwydd Tegeingl.<sup>2</sup>

Gall mai ym mhlwyf Caerwys yr oedd ei chartref – Trefedwin yw enw un o drefidegwm y plwy – ac iddi ddod â thir a llys i'w chanlyn. Nid damcanu gorwyllt fai awgrymu cynnull beirdd a cherddorion i'w neithior.<sup>3</sup>

Fel y nododd Gwyn Thomas, yr oedd gan dywysogion Gwynedd dŷ ym Maesmynan ger Caerwys, ac yn eglwys Caerwys ei hun honnir bod yna ddelw ddrylliedig o wraig Dafydd ap Llywelyn (m. 1246) neu o wraig Dafydd ap Gruffudd (m. 1283), sef dau aelod o linach frenhinol Gwynedd.<sup>4</sup>

Fodd bynnag, fe gyffyrddwyd â'r prif reswm pam y cynhaliwyd eisteddfod 1523 – ac eisteddfod 1567, o ran hynny – yng Nghaerwys eisoes pan gyfeiriwyd at Risiart ap Hywel. Fel y ceir gweld maes o law, ef oedd penteulu'r Mostyniaid a drigai ym Mhlas Mostyn, Sir y Fflint, nid nepell o Gaerwys adeg eisteddfod 1523. Wrth graffu ar y Statud, mae'n amlwg fod i Risiart ap Hywel le hynod o bwysig yn nhrefniadau'r eisteddfod: cefnogi'r eisteddfod a wnaeth Wiliam Gruffudd a Rhosier Salbri, cynnig cyngor a wnaeth Tudur Aled a Gruffudd ab Ieuan ap Llywelyn Fychan, ond dywedir bod yr eisteddfod wedi ei chynnal gerbron Rhisiart ap Hywel, ac felly ymddengys ei fod ef

---

<sup>1</sup> Gw. Bowen, 'Graddau Barddol', t. 100; idem., 'Ail Eisteddfod Caerwys', t. 147.

<sup>2</sup> Gw. Carr, 'The Mostyn Family & Estate', t. 351; *EC*, t. 50.

<sup>3</sup> Roberts, 'Eisteddfod Caerwys 1567', t. 27.

<sup>4</sup> *EC*, tt. 50 - 2.

yn rhyw fath o lywydd iddi.. Dyna rôl ei wŷr, Wiliam Mostyn, yn eisteddfod 1567 hefyd, o bosibl. Ar sail hyn oll, awgryma Enid Roberts y gellid bod wedi cynnal yr eisteddfodau yng Nghaerwys gerllaw Plas Mostyn gan mai'r Mostyniaid a noddai'r eisteddfodau. Ymhellach, fel y sylwodd Enid Roberts eto, ymddengys fod cysylltiad teuluol rhwng comisiynwyr eraill yr eisteddfod a'r Mostyniaid: yr oedd modryb Rhosier Salbri, sef Catrin Salbri, yn wraig i Risiart ap Hywel; yr oedd merch William Gruffudd, Siân, yn briod â mab Rhisiart ap Hywel, sef Tomas Mostyn; ac yr oedd Gruffudd ab Ieuan ap Llywelyn Fychan yn fab yng nghyfraith i Risiart ap Hywel trwy gyfrwng ei briodas gyntaf â Sioned.<sup>1</sup> Ymhellach, er na ellir canfod cysylltiad teuluol rhyngddo â'r Mostyniaid, ymddengys fod Tudur Aled yn hen gyfarwydd â'r teulu uchelwrol hwnnw: fe raddiodd Tudur yng ngwledd briodas Ieuan ap Dafydd ap Ithel Fychan, Coedymynydd, ac fel mae'n digwydd yr oedd Hywel, mab Ieuan, yn briod â Margared, merch Rhisiart ap Hywel. Felly, "y mae'n deg casglu", medd Enid Roberts, "bod cysylltiad agos rhwng Tudur Aled hefyd a theulu Mostyn."<sup>2</sup> Tebyg iawn oedd y sefyllfa adeg Eisteddfod Caerwys 1567. Wiliam Mostyn oedd llywydd yr eisteddfod yr adeg honno, fel y

---

<sup>1</sup> Gw. Roberts, 'Eisteddfod Caerwys 1567', t. 29; Bowen, 'Beirdd a Noddwyr y Bymthegfed Ganrif – Rhan I', *LIC XVIII* (1994), t. 73. Er mai enw Rhisiart ap Hywel a geir yn y Statud, awgryma D. J. Bowen y gall mai'r merched yn ei fywyd oedd prif ysgogwyr a threfnwyr yr eisteddfod. Yr oedd mam Rhisiart, Margared, yn fyw yn 1523, ac awgryma'r dystiolaeth a erys amdani ei bod yn ddynes gref, weithgar, lawn egni, tra bod ei mab yn dra hapus yn nhawelwch Plas Mostyn. "[E]fallai'i fod yn wŷr braidd yn ddi-fynd fel ei fab Tomas", medd D. J. Bowen am Risiart ap Hywel yn 'Beirdd a Noddwyr (Rhan I)', t. 74, "a bod sail i'r traddodiad iddo ddweud wrth Harri VII nad oedd yn chwenych mwyniant bywyd y llys am ei bod yn well ganddo drigo ymhlith ei bobl ei hun." Ymhellach, fe gadwyd cerddi i Margared, ond ni cheir rhai i Risiart. Ar sail hyn, awgryma D. J. Bowen mai'r fam, gyda chefnogaeth ei merch yng nghyfraith, efallai, fu'n dyfal weithio er mwyn cynnal eisteddfod yng Nghaerwys.

<sup>2</sup> Roberts, 'Eisteddfod Caerwys 1567', t. 29.

gwelwyd eisoes, ond yr oedd ewythr iddo, mab yng nghyfraith iddo, a dau frawd yng nghyfraith iddo, yn aelodau o gomisiwn yr eisteddfod, tra oedd y gweddill hefyd yn gallu olrhain rhyw gysylltiad ag ef: yr oedd tri yn aelodau o deulu Coedymynydd, un yn perthyn yn agos i wraig Wiliam Mostyn, a dau arall yn perthyn yn agos i gomisiynwr arall.<sup>1</sup>

Ymddengys fod eisteddfodau Caerwys yn rhai teuluol iawn! Efallai'n wir fod modd canfod pam y penderfynwyd cynnal eisteddfodau wrth graffu rhywfaint ar gefndir y teulu.

Yr oedd y Mostyniaid yn ddisgynyddion i Uchdryd ab Edwin o Degeingl, ac felly'n ddisgynyddion i Hywel Dda, a gallai'r llinach honno olrhain perthynas â llinach frenhinol Gwynedd. Yn bwysicach, efallai, yr oedd y Mostyniaid yn ddisgynyddion i Ednyfed Fychan, distain i rai o reolwyr Gwynedd, ac awgryma A. D. Carr fod Rhisiart ap Hywel a'i wŷr wedi derbyn y cyfrifoldeb o roi trefn ar y gwŷr wrth gerdd oherwydd y gallai Ednyfed Fychan fod â'r un cyfrifoldeb yn ei swydd fel seneschal ganrifoedd ynghynt.<sup>2</sup>

Yr oedd y Mostyniaid, mae'n amlwg, yn deulu cyfoethog, ac yn deulu amlwg a dylanwadol ymhlith uchelwyr gogledd Cymru. Yr oeddynt yn berchen ar bum plas – Pengwern ger Llangollen, Sir Ddinbych; Trecastell ger Penmon, Môn; Mostyn, Sir y Fflint; Gloddaeth ger Llandudno, Arfon; a Thregarnedd ger Llangefni, Môn.<sup>3</sup> Ys dywed

---

<sup>1</sup> *Ibid.*, tt. 29 - 30.

<sup>2</sup> Gw. Carr, 'The Mostyn Family & Estate', t. 360; idem., 'The Making of the Mostyns: The Genesis of a Landed Family', *TrCymm* (1979), t. 141.

<sup>3</sup> Gw. Roberts, 'Eisteddfod Caerwys 1567', t. 30; Bowen, 'Beirdd a Noddwyr (Rhan I)', t. 72; Carr, 'The Making of the Mostyns', t. 139.

Enid Roberts, yr oedd ganddynt blasau mewn pedair sir, ac efallai fod ganddynt dir neu dai ym Meirionnydd a Threfaldwyn, yn ogystal, gan fod Siôn Tudur yn ei farwnad i Wiliam Mostyn yn 1576 yn nodi bod chwe sir yn galaru ar ei ôl.<sup>1</sup>

Mae A. D. Carr yn ei astudiaeth fanwl a chynhwysfawr o'r Mostyniaid yn crynhoi'r hyn a arweiniodd at lwyddiant y teulu fel a ganlyn:

The outstanding features of the family history may be summed up as luck and longevity; the direct male line of descent continued without a break from at least the eleventh century to 1831 and it only ended then because Sir Thomas Mostyn the sixth baronet, died unmarried. The estate passed to a cousin and it still exists today; apart from the crown the Mostyn estate is probably the oldest landowning institution in north Wales. It is this survival that is one of the most interesting features of the Mostyns' history; they never over-reached themselves. Their estates were scattered; so was their influence and thus they never came to dominate any one county. The roots of the family lay in the march, in the earldom of Chester, and in the principality of North Wales...<sup>2</sup>

I'r Mostyniaid yr oedd priodi'n arf pwysig a hwylus iawn wrth geisio ehangu a lledaenu ffiniau'r stad. "Marriage [...] made the Mostyns", medd A. D. Carr, "not one marriage but a series of advantageous matches in the fourteenth and fifteenth centuries."<sup>3</sup> Pengwern oedd eu prif blas, ond trwy briodas daeth Trecastell, Mostyn, Gloddaith a Thregarnedd i feddiant y teulu, ac yn sgil hyn oll fe gynyddodd eu statws a'u dylanwad lleol.<sup>4</sup>

O ystyried hyn oll, nid ydyw'n syndod gweld bod y Mostyniaid wedi noddi beirdd o'r Canol Oesoedd hwyr ymlaen.

---

<sup>1</sup> Roberts, 'Eisteddfod Caerwys 1567', t. 30.

<sup>2</sup> Carr, 'The Making of the Mostyns', t. 137.

<sup>3</sup> *Ibid.*, t. 139.

<sup>4</sup> *Ibid.*, tt. 139 - 40, t. 150; idem., 'The Mostyn Family & Estate', t. 334.

The Mostyns must rank among the most important patrons of the bardic order; they were also among the last of the major families to patronize the poets and take interest in the traditional culture.<sup>1</sup>

Syndod, felly, ydyw gweld na chadwyd llawer o gerddi i aelodau'r teulu: cadwyd cerddi i gangen Trecastell a Thregarnedd, ond prin iawn ydyw'r canu i Bengwern, Mostyn a Gloddaith.

Mae rhai o'r cerddi a gadwyd yn fwy arwyddocaol nag eraill gan eu bod yn trafod diddordeb y teulu yn y ddysg farddol. Yn ei gerdd i Ieuan Fychan, er enghraifft, sonia Guto'r Glyn am ddiddordeb ei noddwr mewn cerdd dafod a cherdd dant, a dengys hefyd fod Ieuan yn barddoni ei hun:

Perchen tŷ fu i luoedd,  
Pencerdd ar y ddwygerdd oedd.  
Ieuan a gân yngynnil,  
Ac a wna maeth i gan mil.  
Y glod i'w dafod a'i dŷ,  
A'i delyn, hwn a'i dyly.  
Gruffudd ar gywydd yw'r gŵr  
Gryg hirddoeth, gorau cerddwr.  
Llywarch Hen a'i awdl Wên dlos,  
Llaw Ieuan yn lle eos.  
Ni bu gerddwr o ŵr iach,  
Ni bu Nudd yn beneiddiach.  
Ni aned un awenydd  
Well ar dant ers llawer dydd.  
Os Ieuan a gân y gainc,  
Llawn fydd y llu ieuainc,  
Minnau'n drist, ni mynnwn draw,  
Er y wlad, aur ei lidiaw.<sup>2</sup>

---

<sup>1</sup> Idem., 'The Mostyn Family & Estate', t. 332. Gw. hefyd R. Alun Charles, 'Noddwyr y Beirdd yn Sir y Fflint', t. 3.

<sup>2</sup> Fe'i dyfynnir yn R. Alun Charles, 'Teulu Mostyn fel Noddwyr y Beirdd', t. 75.



Yn wir, lluniodd Ieuan ei hun gywydd yn gofyn cwragl gan Siôn Eutun, ac fe ysgrifennodd englynion.<sup>1</sup>

Mab hynaf Ieuan oedd Hywel, a phriododd Hywel â Margared (merch Gruffudd ap Rhys ap Gruffudd ap Madog, Gloddaith, a Morfudd, sef etifeddes Syr Gruffydd Llwyd o Dregarnedd, Môn). Bu farw Hywel o flaen Margared, ac ailbriododd hi â Harri Salbri Fychan. Yn ôl Tudur Aled, yr oedd Margared yn noddwraig o fri.

Er rhoi bwyd a'i haur budd,  
A'i da amgen, nid ymgudd;  
Ni ad hon, wedi hynny,  
I fendith D[d]uw fynd o'i thŷ;  
Rhai caled rhag rhoi, ciliant,  
Gwragedd a gwŷr ar gudd, gant;  
Mae tŷ ar drum y tir draw  
Merch weddw heb ymorchuddiaw,  
Tŷ'r wraig windraul trugeindrws  
Ni cheidw yr aur na chan drws,  
Tŷ byth nis cânt heb wythwin,  
A thai beilch weithiau heb win,  
Tŷ ni bu well tân a bwyd  
Teirgwyl, uwch tai'r golochwyd;  
Tair tref fawr, tair tyrfa ynn,  
Treloddaith, tario flwyddyn;  
Tregarnedd Gwynedd a'i gwŷr,  
Trefgastell tyrfa gwestwyr,  
Tri llety, tri llu atyn',  
Tlodion, ewch, teulu Duw'n un.  
Af i'r wledd fawr o Loddaith,  
Os bydd drud, ysbyty'r iaith;  
Os cerddwyr, aent, wŷr, at hon,  
Os dieithr, neu westeion;  
Os dyn Duw, estyn ei dwrn,  
A cherddor, faich ei harddwn;  
Clywed y gwan, clod a gâi,  
Curiad ateb cardotai;  
Rhai o egin rhyw wagyd,  
Addo heb roi oedd eu bryd,  
A'r un lloer, arian o'i llaw,

---

<sup>1</sup> Gw. *ibid.*, tt. 75 - 7.

Rhywiog oedd, rhoi ac addaw.  
A aned merch, enaid Môn,  
Uwch a haelach ei chalon?<sup>1</sup>

Y Fargared y sonnir amdani uchod oedd mam Rhisiart ap Hywel, llywydd eisteddfod 1523.

Fel yr awgrymwyd eisoes, ni chadwyd llawer o gerddi i Risiart ap Hywel, ond fe gadwyd llawer o gerddi i'w fab hynaf, Tomas Mostyn – aelod cyntaf y teulu i fabwysiadu'r cyfenw Mostyn.<sup>2</sup> Yn wir, Tomas oedd y cyntaf i gael ei gydnabod fel noddwr mawr. Canodd saith o feirdd iddo: lluniodd Gruffudd Hiraethog, Lewys Morgannwg, Simwnt Fychan a Siôn Brwynog awdlau mawl iddo; lluniodd Lewis ab Edward a Simwnt Fychan gywyddau mawl iddo (gyda Simwnt yn llunio dau gywydd o'r fath); cyfansoddodd Gruffudd Hiraethog gerdd iddo yn gofyn am elyrch; a lluniwyd marwnadau iddo gan Wiliam Llŷn, Siôn Brwynog, Siôn Tudur a Simwnt Fychan.<sup>3</sup> Cyfeiriwyd eisoes at farwnad Simwnt Fychan i Domas, lle y'i canmolir am roi lifrau i'r bardd. Cyfeiria Simwnt hefyd at y croeso a gâi beirdd yn ei gartref:

Dyna fyth, da enw a fedd,  
Denant i feirdd dwy Wynedd;  
Enwog gennym i'n cynnal  
Yw ardreth hwn ar dri thâl;  
Bwrw in o dâl ran dig  
Bunnoedd dair gŵyl arbennig.<sup>4</sup>

---

<sup>1</sup> Fe'i dyfynnir yn *ibid.*, t. 80.

<sup>2</sup> *Ibid.*, t. 81.

<sup>3</sup> Gw. Carr, 'The Mostyn Family & Estate', t. 337.

<sup>4</sup> Fe'i dyfynnir yn *ibid.*, t. 338; Charles, 'Teulu Mostyn', t. 83.

Canmolir y croeso a geid gan Domas a'i wraig, Siân, mewn cywydd arall o eiddo Simwnt hefyd.

Pa le yr af â cherdd dafawd?  
Prydydd wyf, parodaidd wawd:  
Mi af i eiliaw awen  
I baradwys wiwlys wen,<sup>1</sup>

Mae'r ganmoliaeth gymaint yn fwy arwyddocaol o gofio mai cerdd yn 'dangos fod y byd yn casáu beirddion' oedd hon.

Wiliam Mostyn, un o ynnau mawrion Eisteddfod Caerwys 1567, oedd etifedd Tomas Mostyn. Canwyd chwech o farwnadau iddo – awdl gan Wiliam Cynwal, a chywyddau gan Lewis ap Hywel, Wiliam Llŷn, Simwnt Fychan a Siôn Tudur, yr olaf o'r rhain yn llunio dwy farwnad iddo.<sup>2</sup> Ymhellach, yr oedd Wiliam Mostyn yn barddoni ei hun, a chyda Syr Rhys Griffith o'r Penrhyn a Simwnt Thelwall fe gyfansoddodd gyfres o englynion yn sôn am raddio crythor anghelfydd o'r enw Owain yn Eisteddfod Caerwys 1567.<sup>3</sup>

Yr oedd ail fab Tomas, sef Rhisiart Mostyn, hefyd yn hoff o gerdd dafod, fe ymddengys. Yr oedd ganddo llawysgrifau yn ei feddiant, ac efallai iddo gopïo rhannau ohonynt.<sup>4</sup> Yn wir, i Risiart y cyflwynodd Gruffudd Hiraethog ei 'Loegr Drigiant Ddifyrwch Brytanaidd Gymro' – llawysgrif a oedd, gyda llaw, yn cynnwys copi o Statud Gruffudd ap Cynan.

---

<sup>1</sup> Fe'i dyfynnir yn Charles, 'Teulu Mostyn', t. 83.

<sup>2</sup> Gw. Carr, 'The Mostyn Family & Estate', t. 341.

<sup>3</sup> *Ibid.*

<sup>4</sup> Charles, 'Teulu Mostyn', t. 102.

Bu'r beirdd yn canu i Birs Mostyn hefyd, mab arall i Risiart ap Hywel. I Birs y cyflwynodd Simwnt Fychan ei awdl ar y pedwar mesur ar hugain yn ôl llawysgrif Peniarth 62,<sup>1</sup> a nodir ei fod yn noddwr o fri gan Lewis ab Edwart:

Y Nadolig yno daliaf,  
I'w lys cerrig, a'i les caraf,  
Ar ei leithig, wr haelaf,  
Yn was diddig, yno 'steddaf.

Wedi cynnig, i'w dai canaf,  
I'r gaer miwsig o'r grymusaf,  
Ym calennig, o'm cael iawnaf,  
Aur arbennig yr erbynniaf.<sup>2</sup>

Ymhellach, cyfansoddai Pirs englynon ei hun, a chopïai lawysgrifau.

Parhaodd y Mostyniaid i noddi ac i ymddiddori mewn cerdd dafod a cherdd dant ymhell i'r ail ganrif ar bymtheg.<sup>3</sup> Yr oedd eu cyfoeth a'u statws a'u safle yn eu galluogi i wneud hynny. Yn wir, efallai iddynt deimlo bod noddi'n ddyletswydd arnynt, ac efallai mai dyna pam yr aethant ati i noddi eisteddfodau Caerwys.

Mae Enid Roberts yn cynnig rheswm arall pam yr aeth y Mostyniaid – a Rhisiart ap Hywel yn arbennig – ati i noddi'r eisteddfodau. Fel y gwelwyd eisoes, mewn ambell ardal yn Lloegr gallai uchelwr arbennig ysgwyddo'r cyfrifoldeb o reoli hynt a helynt y gwŷr wrth gerdd o fewn ei ardal, ac yng Nghaer y gwelwyd yr enghraifft orau o hyn gyda cherddorion y ddinas honno'n dod dan awdurdod teulu Dytwyn. Yr oedd gwreiddiau'r

---

<sup>1</sup> *Ibid.*, t. 98.

<sup>2</sup> *Ibid.*, t. 99.

<sup>3</sup> Am drafodaeth fanwl ar y cerddi a luniwyd i'r Mostyniaid, gw. *ibid.*, tt. 88 - 95, t. 106; Carr, 'The Mostyn Family & Estate', tt. 341 - 5.

Mostyniaid yn iarllaeth Caer,<sup>1</sup> ac awgryma Enid Roberts fod Rhisiart ap Hywel eisiau dynwared y drefn a welid yno:

Tybed a roddwyd gallu cyffelyb i benteulu Mostyn? neu, ac yntau yn sirif, a gymerodd Rhisiart ap Hywel arno'i hun gyfrifoldeb o'r fath, a thrwy hynny ychwanegu at ei urddas ac ymgodi'n nes at statws ei berthnasau yng nghyfraith, Stiward Arglwyddiaeth Dinbych a Siambren Gwynedd? Yr oedd Sir Gaer yn ffinio â Fflint, a gwaed y Dytwn yng ngwythiennau Catrin Salbri. Adwaenai Rhisiart ap Hywel y teulu; hawdd iawn fyddai iddo ei batrymu ei hun ar eu penteulu hwy. Ym Mhroclamasw'n 1567 i Wiliam Mostyn yr ymddiriedodd y frenhines y dasg o ddarparu'r dodrefn angenrheidiol ar gyfer yr eisteddfod, a chydabyddai mai ganddo ef a'i hynafiaid yr oedd 'the gyfte and bestowing of the sylver harpe appertayning to the Cheff of that facultie'. Erbyn yr ail eisteddfod, yr oedd blaenoriaeth teulu Mostyn yn cael ei gymryd yn ganiataol.<sup>2</sup>

Efallai, felly, fod yr eisteddfodau wedi eu cynnal yng Nghaerwys gan fod y dref yn gyfleus, yn Gymreig ac yn Gymraeg, oherwydd grym y traddodiad fod eisteddfod gyffelyb wedi ei chynnal yno yn ystod oes Gruffudd ap Cynan, neu oherwydd eu bod wedi eu noddi gan deulu Mostyn a oedd â'u cartref nid nepell o Gaerwys.

### *Swyddogion yr Eisteddfod*

#### (i) Rhisiart ap Hywel

Fel y gwelwyd eisoes, Rhisiart ap Hywel oedd penteulu'r Mostyniaid adeg Eisteddfod 1523. Margared, etifeddes Gloddaeth, oedd ei fam, Hywel, mab Ieuan Fychan ac Angharad (etifeddes Hywel ap Tudur o Fostyn) oedd ei dad, a Chatrin Salbri oedd ei wraig.<sup>3</sup> Rhisiart oedd yr aelod cyntaf o'r teulu i fod yn berchen ar bum llys y

---

<sup>1</sup> Carr, 'The Mostyn Family & Estate', t. 137.

<sup>2</sup> Roberts, 'Eisteddfod Caerwys 1567', t. 31. Gw. hefyd Carr, 'The Mostyn Family & Estate', t. 353.

<sup>3</sup> Gw. *Cyd*, t. 524.

teulu – Pengwern, Tregarnedd, Trecastell, Mostyn, a Gloddaeth – a’i fab hynaf, Tomas, oedd y cyntaf i etifeddu’r plasau hyn i gyd.<sup>1</sup> Pirs, sylfaenydd Mostyniaid Talacre, oedd ei fab ieuengaf, ac fel y gwelwyd eisoes yr oedd ganddo ferch o’r enw Sioned, a fu’n briod â’r bardd Gruffudd ab Ieuan ap Llywelyn Fychan.

Yr oedd Rhisiart ap Hywel yn “Lancastrydd selog”, ys dywed J. Gwynfor Jones, a chefnogodd Harri Tudur ym Mrwydr Bosworth ym 1485.<sup>2</sup> Yr oedd yn berchen ar lawer o diroedd yn Sir y Fflint, ac yr oedd ganddo gysylltiad â thair sir ynghyd ag un o arglwyddiaethau’r mers.<sup>3</sup> Ym 1509 a 1523, Rhisiart oedd is-siryf Sir y Fflint,<sup>4</sup> ac fel y gwyddys ef oedd llywydd Eisteddfod Caerwys 1523. Ar Chwefror y seithfed 1539/40 bu farw Rhisiart ym Mhlas Mostyn, a daeth ei fab hynaf, Tomas, i’w etifeddiaeth.<sup>5</sup>

## (ii) Wiliam Gruffydd

Ganed Syr Wiliam Gruffydd tua’r flwyddyn 1480, a bu farw tua 1531.<sup>6</sup> Ys dywed y bardd Gruffudd ap Tudur ap Hywel amdano:

---

<sup>1</sup> Carr, ‘The Mostyn Family & Estate’, t. 139.

<sup>2</sup> J. Gwynfor Jones, ‘Y Dydd Llun Tyngedfennol Hwnnw’, yn Dafydd Glyn Jones a John Ellis Jones (goln.), *Bosworth a’r Tuduriaid* (Caernarfon, 1985), t. 9. Gw. hefyd Carr, ‘The Mostyn Family & Estate’, t. 336; Charles, ‘Teulu Mostyn’, t. 80; *Cyd*, t. 524.

<sup>3</sup> Carr, ‘The Mostyn Family & Estate’, t. 336, t. 353.

<sup>4</sup> *Ibid.*, t. 353; Roberts, ‘Eisteddfod Caerwys 1567’, t. 29.

<sup>5</sup> Charles, ‘Teulu Mostyn’, t. 81; Roberts, ‘Eisteddfod Caerwys 1567’, t. 29. Ynghyd â’r erthyglau a restrir yn y pum troednodyn diwethaf, gw. Bowen, ‘Beirdd a Noddwyr (Rhan I)’, tt. 73 - 4; idem., ‘Graddau Barddol’, t. 98, t. 101.

<sup>6</sup> E. I. Rowlands, ‘Tri Wiliam Gruffudd’, *LIC* II, rhif 4 (Gorffennaf, 1953), t. 257.

pvmthegcant gwarant gwrol  
tair x a blwyddyn trwy rol  
y rhoed gwr onrhydedd  
ynn farchog bannog mewn bedd<sup>1</sup>

Mae E. I. Rowlands wedi llwyddo i olrhain hanes Wiliam Gruffudd a'i deulu. "Ganwyd Wiliam (Syr Wiliam yr ieuengaf) tua 1480", meddai. "[Y]r oedd ei dad wedi priodi Joan, gweddw William Buttler o Bewsey a merch Syr William Troutbeck, rywdro cyn 1480, fel y dengys trwydded gan y Pab a ddyddiwyd y flwyddyn honno. Yr oedd wedi'i eni cyn 1484 yn sicr."<sup>2</sup>

O'r Penrhyn yn Llandygái, Arfon, y deuai, ac yn aml mae hanes ei fywyd yn cael ei ddrysio gyda hanes ei dad a'i daid gan mai Wiliam oedd eu henwau hwythau hefyd, a chan mai'r Penrhyn oedd eu cartref.<sup>3</sup>

Bu Wiliam yn briod ddwywaith: yn gyntaf i Siân Stradling o Sain Dunwyd, ac yna i Siân arall, sef merch Siôn Pilstwn (Hen).<sup>4</sup> Priododd Siân, ei ferch o'i briodas gyntaf, â Thomas ap Rhisiart ap Hywel.<sup>5</sup>

Fel Rhisiart ap Hywel, yr oedd Wiliam Gruffudd yn ŵr pwysig a dylanwadol yng

---

<sup>1</sup> *Ibid.*, t. 257.

<sup>2</sup> *Ibid.* Gw. hefyd Henry Lewis, 'Cywyddau Ymryson Ifan Dylunior, Syr Dafydd Trefor a Ieuan ap Madog', *B XVII*, rhan III (Tachwedd, 1957), t. 161.

<sup>3</sup> Gw. Rowlands, 'Tri Wiliam Gruffydd', tt. 256 - 7. Tua 1445-50 - 1505-6 oedd dyddiadau'r tad, a thua 1418-19 - 1483 oedd dyddiadau'r taid. Ceir erthygl ar y taid gan A. D. Carr, sef 'Gwilym ap Gruffydd and the Rise of the Penrhyn Estate', *Cylchgrawn Hanes Cymru XV* (1990 - 91), tt. 1 - 20.

<sup>4</sup> Gw. Lewis, 'Cywyddau Ymryson', tt. 161 - 2. Gw. hefyd Roberts, 'Marwnadau Telynorion', t. 83.

<sup>5</sup> Gw. Bowen, 'Beirdd a Noddwyr (Rhan I)', t. 73; Carr, 'The Mostyn Family & Estate', t. 352; Charles, 'Teulu Mostyn', t. 81; Roberts, 'Eisteddfod Caerwys 1567', t. 29.

ngogledd Cymru. Yr oedd ei dad yn Siambrlen Gogledd Cymru rhwng 1483 a 1490, a daeth yr un swydd i'r mab rhwng 1508 a 1531, ar wahân i gyfnod byr yn 1509.<sup>1</sup> Ymhellach, fe'i hurddwyd yn farchog yn eglwys Twrnai ar y pumed ar hugain o Fedi, 1513,<sup>2</sup> yr un flwyddyn ag y bu'n ymladd yn Ffrainc dan Charles Brandon, Dug Suffolk.<sup>3</sup> Yr oedd ei safle a'i bwysigrwydd yn ymledu y tu hwnt i ogledd Cymru, felly. "Trwy ei briodas perthynai i deulu Stradling, Sain Dunwyd ym Morgannwg", medd J. Gwynfor Jones, "ac yr oedd hefyd yn gâr i Syr Rhys ap Thomas o Ddinefwr, Marchog Urdd y Gardlys, Siambrlen siroedd Aberteifi a Chaerfyrddin a Chwnstabl a Stiward arglwyddiaeth Brycheiniog."<sup>4</sup> Byddai gŵr o'r fath wedi dod ag urddas ac anrhydedd amlwg i eisteddfod 1523.

Yn ogystal â hyn oll, ymddengys fod Wiliam Gruffudd yn ŵr hwylus iawn i'w gael yng Nghaerwys – hynny ydyw, os oedd yn bresennol yn yr eisteddfod –<sup>5</sup> a hynny gan fod tystiolaeth ar gael sy'n awgrymu fod ganddo ddiddordeb mewn cerdd dant. Mewn cywydd a luniwyd gan Ifan Dylunior i Wiliam Gruffudd ar anogaeth Dr. Wiliam Glyn a Siôn Pilstwn, sersiant, fe ddychenir Wiliam Gruffudd am ddilyn rhyw ferch o'r enw Gweronwy, ond yn bwysicach o lawer na hyn cyfeirir at ei hoffter o gerdd dant. Cyfeirir

---

<sup>1</sup> Gw. Jones, *Cymru a'r Tuduriaid*, t. 24, t. 49; Carr, 'The Mostyn Family & Estate', t. 352; Charles, 'Teulu Mostyn', t. 81; Roberts, 'Eisteddfod Caerwys 1567', t. 29.

<sup>2</sup> Gw. Rowlands, 'Tri Syr Wiliam Gruffydd', t. 257; Lewis, 'Cywyddau Ymryson', t. 162; Jones, *Cymru a'r Tuduriaid*, t. 49.

<sup>3</sup> Jones, *Cymru a'r Tuduriaid*, t. 49.

<sup>4</sup> *Ibid.*

<sup>5</sup> Ni nodir yn y Statud fod Wiliam Gruffudd a Rhosier Salbri yn bresennol yn yr eisteddfod yn 1523. Fodd bynnag, o gofio am hoffter Wiliam o gerdd dant, gellir awgrymu y byddai achlysur o'r fath wrth ei fodd. Gw. Bowen 'Graddau Barddol', t. 98.



at feirdd a cherddorion yn clera yn ei gartref:

Pob pibydd ymennydd mawr,  
Pob tâl in, pob telyniawr.  
Pob crythor, trysor wyt draw,  
Pob pencerdd piau pynclaw.  
Ni ddaw bwngler i'th glera,  
Ni baidd dyn oni bydd da.  
Carw mes aur, côr mesurau,  
Cyrhaeddai frig pob cerdd frau.  
Coffor gwrdd, coff aur gerddawr,  
Caffom oes it, y cyff mawr.<sup>1</sup>

– fe'i gelwir yn "[dd]atgeiniad anynad",<sup>2</sup> ac, yn wir, fe'i darlunir fel rhyw fath o feirniad:

Pob acen o'th awenydd,  
Pob prifgairc, ar dy fainc fydd.  
Rhodio wnei'r hyd y neuadd,  
Rhuwlio a gwranddo pob gradd.<sup>3</sup>

Tybed a gyflawnodd swydd gyffelyb yn eisteddfod 1523?

Mewn cywydd arall i Wiliam Gruffudd sonia Ifan Dylunior drachefn am ei allu ym myd cerdd dant, gan honni bod Wiliam yn gallu perfformio sawl un o'r *genres* cydnabyddedig – tri mwchwl godidog, colofn a chadair, er enghraifft:

Bu abl â dysg heblaw dyn,  
Bu ordd teulu, bardd telyn.  
Fy llew rhudd, felly rhoddwch,  
Fel Arthur a'i fflamddwr fflwch,  
Y dwylaw ar y delyn  
A chanu tant a chnot yn.  
Fe ddaw pob merch anerchfawr

---

<sup>1</sup> Fe'i dyfynnir yn Lewis, 'Cywyddau Ymryson', t. 164.

<sup>2</sup> *Ibid.*

<sup>3</sup> *Ibid.*

Ar ôl dy amnaid yr awr,  
A chyda'r tant, gwarant gwych,  
I roi nyddiad rhinweddwyd.  
Ni fu'n glir o fwnwgl iach,  
Lwys bêr wÿdd lais bereiddiach.  
Ni chân neb â chwi o'n iaith  
Mor gyfion ym mrig afiaith.  
Mêl i ostwng melyster  
I ddal pwnc a meddwl pêr.  
Gwae un dyn a ganai dant  
Yn ddwl wedd, yn ddilwyddiant.  
Ystudiwr â chnot ydwyd,  
Hir a byw, dihareb wyd.  
Trwm uwchlaw gwÿr tri mwchl gwych,  
Trumiog odidog ydych.  
Cywir iawngof cywreingerdd,  
Colofnau cadeiriau cerdd.  
Caem roddion cymyneddwyd,  
Cawn y gwin er canu gwych.  
Croyw gennyf, cry' ac uniawn  
Cadw'r llys cadarn llawn  
Fal prydydd gynt, wiw hynt wedd,  
Yn Rhaglan mewn rhywiogwledd.<sup>1</sup>

Dyna yn wir beth ydyw canmoliaeth!

Gan fod ganddo ddiddordeb mewn cerdd dant, a chan ei fod yn perthyn trwy briodas i'r Mostyniaid, yr oedd Wiliam Gruffudd yn gefnogwr perffaith i'r eisteddfod.

(iii) Rhosier Salbri

Lleweni, ger Dinbych, oedd cartref Rhosier Salbri (bu. f. 1530).<sup>2</sup>

Fel y nodwyd eisoes, yr oedd Catrin Salbri, gwraig Rhisiart ap Hywel, yn fodryb

---

<sup>1</sup> *Ibid.*, tt. 166 - 7.

<sup>2</sup> Gw. Enid Roberts, 'Siôn Salbri, Lleweni (bu. f. 1566)', *TCHSDd XIX* (1970), t. 76.

iddo, felly yr oedd yn nai i benteulu'r Mostyniaid adeg Eisteddfod Caerwys 1523.<sup>1</sup>  
Ymhellach, yr oedd Catrin Salbri yn chwaer i lystad Rhisiart ap Hywel, felly yr oedd  
Rhosier yn nai iddo ef yn ogystal.<sup>2</sup> Fel Wiliam Gruffudd, bu Rhosier yn dal swydd  
bwysig, sef swydd Stiward Dinbych.<sup>3</sup>

Nodwyd eisoes fod cysylltiad rhwng Rhosier Salbri a theulu'r Dytwn, Caer.

Ymhelaetha A. D. Carr ar hyn:

Elizabeth Dutton was Sir Roger Salusbury's great-grandmother, which meant that Richard's wife, Katherine Salusbury, was also descended from her. [...] Tudur Aled did lay considerable stress on the Dutton connection with Sir Roger Salusbury and there is one Dutton reference among the Mostyn papers. On 15 October, 1558, David and Rhys ap Benet and Thomas ap Robert ab Ithel, all gentlemen of Whitford, bound themselves in £2,000 to indemnify William Mostyn for the sum of £1,000 in which he stood bound to Katherine Dutton, widow.<sup>4</sup>

Cymharer yr hyn a ddywedir yn llawysgrif Peniarth 147:

Mam Elizabeth don oedd Elizabeth vz sr pirs o dytwn<sup>5</sup>

---

<sup>1</sup> Gw. Bowen, 'Beirdd a Noddwyr (Rhan I)', t. 73; Carr, 'The Mostyn Family & Estate', t. 352; Charles, 'Teulu Mostyn', t. 81; Roberts, 'Eisteddfod Caerwys 1567', t. 29.

<sup>2</sup> Gw. Bowen, 'Beirdd a Noddwyr (Rhan I)', t. 73.

<sup>3</sup> Carr, 'The Mostyn Family & Estate', t. 352; Roberts, 'Eisteddfod Caerwys 1567', t. 29.

<sup>4</sup> Carr, 'The Mostyn Family & Estate', tt. 353 - 4.

<sup>5</sup> Fe'i dyfynnir yn Rowlands, 'Nodiadau', t. 239. Gw. hefyd *GTA I*, tt. 20 - 1, t. 27, t. 98, tt. 110 - 11, t. 114, t. 117, t. 138. Elisabeth Don oedd gwraig Tomas Salbri Hen, sef taid Syr Rhosier Salbri.

(iv) Gruffudd ab Ieuan ap Llywelyb Fychan

Ym marn J. C. Morrice, bu Gruffudd ab Ieuan ap Llywelyn Fychan fyw o tua 1470 i 1535: 1470 gan fod y bardd yn sôn am bla mewn dwy gerdd, sef ‘Cowydd y Cornwyd’ a ‘Cywydd Marwnad Owain a Gruffudd ddeu fab Sion ap Rhys ap Howel Coetmor’, pla a ddigwyddodd yn 1478 neu yn 1499-1500, meddai; a 1535 yn gyntaf am ei fod, mae’n amlwg, wedi byw’n hwy na 1526, sef dyddiad marw Tudur Aled (gan iddo lunio marwnad iddo), ac yn ail gan na soniodd am ddiddymu Abaty Llanegwestl ym 1535 er ei fod yn gyfaill i’r Abad Siôn – pe bai’n fyw yr adeg honno, byddai’n rhyfedd iddo beidio â sôn am y digwyddiad.<sup>1</sup>

Fodd bynnag, ni chytuna W. Ambrose Bebb â hyn. Awgryma ef fod Gruffudd wedi byw’n hwy na 1535, a hynny gan iddo gyfansoddi cywydd Protestannaidd, gwrth-Gatholig, sef ‘Cywydd yn erbyn braint delwau’. “Pa fodd y gallai ef ddatgan syniad a oedd mor gas yng ngolwg ei frenin, ac yntau’n gwybod gystal â phendefigion mwyaf y deyrnas fod ‘llid y brenin yn lladd?’ Ni allai.”<sup>2</sup> Er i Harri VIII ymwrthod â’r Pab, y grefydd Gatholig oedd ei grefydd serch hynny, felly ymddengys nad yn ystod ei deyrnasiad ef – ond yn hytrach yn ddiweddarach yn yr unfed ganrif ar bymtheg – yr ysgrifennodd Gruffudd y cywydd hwn. Ymhellach, cred Bebb iddo weld cyfeiriadau ysgrifenedig at y bardd yn ddiweddarach na 1535: yn yr *Early Chancery Proceedings Concerning Wales* gan E. A. Lewis darganfu ei enw ar gyfer y blynyddoedd 1543-4 a 1547-51, sef oes Edward VI, ac oes lle y gallai fod wedi llunio ei gywydd

---

<sup>1</sup> *DWGILIV*, tt. xiv - xv.

<sup>2</sup> W. Ambrose Bebb, ‘Dyddiadau Gruffudd ab Ieuan ap Llywelyn Vychan. 1495 - 1563-4?’, *B X* (1940), t. 117.

Protestannaidd.<sup>1</sup> Yn ogystal, ceir ei enw yn y *Lay Subsidy Rolls* fel dirprwywr dros Isaled, Isdulas a Rhuthun yn 1544 a hefyd yn 1546, ac enwir ef mewn llythyr a anfonodd William Salesbury “at y Brytanniaidd foneddigion, Master Richard Longford o Drefalun, Master Humfre Lloyd o Ddinbych a Master Jankyn Gwyn o Lan Idloes,”<sup>2</sup> llythyr a ysgrifennwyd, ym marn Bebb, rhwng 1564 a 1568. Sonnir yn y llythyr am farwolaeth – cymharol ddiweddar, fe ymddengys – Gruffudd, ac ar sail hyn awgryma Bebb iddo farw tua 1563-4. Meddai:

Am flynyddoedd marw Gruffydd ab Ieuan, deuaſ i’r casgliad ei eni tua 1495. Yn ôl hynny, yr oedd o gwmpas tair ar hugain oed pan gyfansoddodd ei ‘Awdl i’r Iesu Gwyn o Ruddlan’; ac yn tynnu at ei ddeg ar hugain pan ymddangosodd yn Eisteddfod Caerwys gyda Thudur Aled. Bu fyw, meddaf, hyd tua 1563 - 4. Dyry hyn iddo oes go hir, yn ddiau, sef tua thrigain a deg; ond nid oedran amhosibl hyd yn oed yn yr unfed ganrif ar bymtheg.<sup>3</sup>

Mae Thomas Roberts yn anghytuno â hyn, gan ddadlau bod Gruffudd wedi ei eni cyn 1495, a hynny ar sail cywydd gan Ruffudd y gellir profi ei fod yn perthyn i oes Harri VII, sef ‘Cywydd Darogan’. Canwyd y cywydd hwn, meddid, rhwng 1500 a 1509, felly rhaid symud dyddiad geni Gruffudd i gyfnod rhywfaint yn gynharach – rhwng 1480 a 1485, efallai.<sup>4</sup> Byddai Gruffudd tua deugain oed, felly, adeg Eisteddfod Caerwys 1523, a rhaid cyfaddef y gellid disgwyl i ŵr a chando ran mor amlwg yn yr eisteddfod fod o’r oedran hwnnw gan fod blynyddoedd, fel arfer, yn dod â phrofiad, safle a dylanwad yn eu

---

<sup>1</sup> *Ibid.*, tt. 118 - 19.

<sup>2</sup> Fe’i dyfynnir yn *ibid.*, t. 119. Am gopi cyflawn o’r llythyr, gw. E. D. Jones, *Y Ddraig Goch* (Awst, 1938).

<sup>3</sup> Bebb, ‘Dyddiadau Gruffudd’, t. 120.

<sup>4</sup> Thomas Roberts, ‘Dyddiadau Gruffudd ab Ieuan’, tt. 233 - 6. Am drafodaeth lawn, gw. tt. 233 - 9.

sgil.

Ymhellach, mewn erthygl arall cyflwyna Thomas Roberts dystiolaeth derfynol ynghylch dyddiad marwolaeth Gruffudd, sef ei ewyllys:

In the name of god Amen the XI day of m'ch in the year of our lord god a thousand fyue hundrete fyftie iij I Gruff ap Jenn ap llyn vachan of the paryshe of henllan...esquier...do make ordein & constitute my last will & testament...<sup>1</sup>

Fe brofwyd yr ewyllys ar y trydydd o Fai, 1553, felly bu Gruffudd farw rywbyrd rhwng yr unfed ar ddeg o Fawrth a'r trydydd o Fai 1553.<sup>2</sup>

Mewn plasdy o'r enw Lleweni Fechan – a enwyd wedyn yn Llannerch – ger Dinbych y trigai Gruffudd.<sup>3</sup> Yr oedd ganddo linach fonheddig, ac ymddengys ei fod yn ewythr i Richard Davies, Esgob Tŷ Ddewi, gan fod taid Gruffudd yn hen daid i'r Esgob.<sup>4</sup> Bu'n briod ddwywaith – y tro cyntaf priododd â Sioned, merch Rhisiart ap Hywel a Chatrin Salbri o Fostyn,<sup>5</sup> a'r eildro priododd ag Alis, merch John Owen o Lansanffraid. Cafodd bedwar o blant o'r briodas gyntaf – Lewys, Robert, Catherine ac Alis – a phump o'i ail briodas – Edward, Thomas, John, Ann a Lowri – ac ymddengys fod Alis, ei blentyn olaf o'i briodas gyntaf, yn dipyn o fardd gan ei bod wedi llunio cywyddau ac

---

<sup>1</sup> Fe'i dyfynnir yn Thomas Roberts, 'Gruffudd ab Ieuan ap Llywelyn Fychan (? - 1553)', *B XVI* (1954 - 56), t. 251. Gw. hefyd E. Gwynne Jones, *A schedule of Gwysaney Deeds, Documents and Papers temporarily deposited in the Lib. of the Uni. Coll. of N. W.*

<sup>2</sup> Roberts, 'Gruffudd ab Ieuan (? - 1553)', t. 251.

<sup>3</sup> Gw. *DWGILIV*, t. x - xi; Roberts, 'Eisteddfod Caerwys 1567', t. 29.

<sup>4</sup> Gw. *DWGILIV*, t. ix; Jones, *Beirdd yr Uchelwyr a'r Gymdeithas*, t. 134.

<sup>5</sup> Gw. *DWGILIV*, t. ix; Bowen, 'Beirdd a Noddwyr (Rhan I)', t. 73; idem., 'Graddau Barddol', t. 352; Roberts, 'Eisteddfod Caerwys 1567', t. 29.

englynion.<sup>1</sup>

Yn ogystal â bod yn fab yng nghyfraith i Risiart ap Hywel, gallai Gruffudd hawlio perthynas ag un arall o wŷr blaenllaw eisteddfod 1523, sef Tudur Aled: yr oedd taid Tudur Aled yn gyfyrder i hendaid Gruffudd.<sup>2</sup> Er mai perthynas bur bell oedd hon, o leiaf mae'n cadarnhau fod cwlwm eithaf tynn yn bodoli rhwng swyddogion eisteddfod 1523, a bod pob un ohonynt, rywsut neu'i gilydd, yn perthyn i un neu fwy, naill ai trwy waed neu trwy briodas.

#### (v) Tudur Aled

Er y credid gynt mai gŵr o Lansannan oedd Tudur Aled,<sup>3</sup> dadleuodd Cledwyn Fychan yn argyhoeddiadol mai brodor o Iâl, cwmwd i'r gogledd-orllewin o Nanheudwy, Powys Fadog, ydoedd.<sup>4</sup> Yn ôl pob tebyg, fe'i ganed rywbryd yn ystod trydydd chwarter y bymthegfed ganrif, a bu farw c. 1526, sef ychydig flynyddoedd yn unig ar ôl eisteddfod gyntaf Caerwys.<sup>5</sup>

Yr oedd Tudur Aled yn perthyn i deulu bonheddig, uchelwrol. Dyma ei ach fel y'i gwelir yn llawysgrif Peniarth 128:

---

<sup>1</sup> *DWGILIV*, t. ix.

<sup>2</sup> Bowen, 'Graddau Barddol', t. 95.

<sup>3</sup> Gw. *GTA* I, t. xvii; Cledwyn Fychan, 'Tudur Aled: Ailystyried ei Gynefin', *CLIGC* XXIII (1983 - 84), tt. 45 - 7.

<sup>4</sup> Fychan, 'Tudur Aled', tt. 45 - 57; *GGH*, t. xxiv; Bowen, 'Graddau Barddol', t. 96; idem., 'Taleithiau'r Gwŷr wrth Gerdd', *LIC* XVII (1992 - 93), t. 141.

<sup>5</sup> Gw. *Cyd*, t. 933; *GGH*, t. xxiv; *TB*, t. 220; *RRR*, t. 162; Glanmor Williams, *Wales and the Reformation* (Cardiff, 1997), t. 50; Eirug Davies, 'Tudur Aled a Chaerfyrddin', *Ba* 239/240 (Rhagfyr/Ionawr, 1982/83), tt. 422 - 3.

Tudur Aled ap Rob(ert) ap Ithel ap Ll(ywely)n Chwith ap Kyn(wrig) ap Bleddyn Llwyd ap Bleddyn Vychan<sup>1</sup>

Er bod peth dryswch yn yr ach,<sup>2</sup> mae'r wybodaeth a geir o Lywelyn Chwith ymlaen yn bur sicr. Tystia'r bardd Huw ap Dafydd i berthynas Tudur a Llywelyn Chwith, er enghraifft, yn ei farwnad i'i bardd:

Ail Iolo, o Lywelyn,  
Ac o du'r Chwith, gwenith gwyn.<sup>3</sup>

Ymddengys fod barddoni'n rhedeg trwy wythiennau teulu Tudur. Ceir tystiolaeth fod tad Tudur, sef Robert ab Ithel, yn fardd,<sup>4</sup> a gwelir bod Tudur yn hawlio perthynas â'r bardd enwog Dafydd ab Edmwnd, gan iddo'i alw yn "F'ewythr o waed"<sup>5</sup> yn y farwnad a gyfansoddodd iddo. Yr wybodaeth hon fu'n sail i'r gred fod Dafydd ab Edmwnd yn frawd i fam Tudur, er na ellir profi hyn gan nad ydyw ach ei fam wedi goroesi. Mae T. Gwynn Jones yn tueddu i dderbyn bod cysylltiad teuluol rhwng Tudur Aled a Dafydd ab Edmwnd – er iddo ddadlau y gallai 'ewythr' olygu 'cyfaill' – a hynny'n bennaf oherwydd y geiriau 'o waed'.<sup>6</sup> Fodd bynnag, nid ydyw Cledwyn Fychan mor sicr:

---

<sup>1</sup> Fe'i dyfynnir yn John Morris-Jones, 'Tudur Aled', *TrCymm* (1908 - 9, t. 21.

<sup>2</sup> Gw. *ibid.* Nodir gan John Morris-Jones fod Peniarth 64, er enghraifft, yn honni mai Gruffudd ap Dafydd Dinllae, nid Cynwrig, oedd tad Llywelyn Chwith, tra bod *Powys Fadog* iii, t. 106, yn nodi mai Bleddyn Fychan oedd tad Bleddyn Llwyd.

<sup>3</sup> *GTA* I, t. xx.

<sup>4</sup> Fychan, 'Tudur Aled', t. 56.

<sup>5</sup> *GTA* I, t. 283, rhif LXX, ll. 29.

<sup>6</sup> *Ibid.*, t. xx.



Bu cymaint o ailadrodd ar y ddamcaniaeth, a gynigiwyd gyntaf gan Peter Bailey Williams ar sail un llinell, fod mam Tudur yn chwaer i Ddafydd ab Edmwnd, nes ei bod bellach bron â chael ei derbyn fel ffaith. [...] Yn absenoldeb unrhyw dystiolaeth gadarnach, ni welaf sut y gellir rhagdybio perthynas mor agos rhyngddynt.<sup>1</sup>

Yn hytrach, awgryma Cledwyn Fychan mai cyfeirio a wna Tudur at y cysylltiad rhyngddo ef a Dafydd ab Edmwnd â theulu Coedymynydd, Lloneurgain. O Bwll Gwepa ger Lloneurgain y deuai Dafydd ab Edmwnd, ac ymddengys iddo gael nawdd a chroeso gan un o'i gymdogion, sef Ieuan ap Dafydd ab Ithel Fychan a oedd yn aelod o deulu Coedymynydd. Fel y gwelwyd eisoes, yn neithior Ieuan ap Dafydd yr enillodd Tudur Aled ei radd farddol gyntaf, a da o beth fyddai cofio bod perthynas waed bell rhwng Ieuan a Thudur: yr oedd taid Tudur yn gyfyrder i dad Ieuan.<sup>2</sup> Ond a ydyw hyn yn ddigon i gyfiawnhau galw Dafydd ab Edmwnd yn 'ewythr o waed'? A fyddai Tudur Aled wedi defnyddio geiriau mor benodol a phendant ar sail y cysylltiad a geid rhyngddo ef a Dafydd â theulu Coedymynydd? Efallai; ond mae'r geiriau'n awgrymu cysylltiad agosach o dipyn. Heb gofnod o ach ei fam, ni ellir profi fod Tudur yn nai i Ddafydd ab Edmwnd; ond hyd yn oed pe na bai perthynas mor agos â hynny rhyngddynt, efallai bod modd olrhain rhyw berthynas waed arall rhyngddynt yn rhywle, perthynas na ellir ei phrofi heb fwy o dystiolaeth.

Tudur Aled oedd prif fardd ei gyfnod. Fel y gwelwyd eisoes, graddiodd am y tro cyntaf yn neithior Ieuan ap Dafydd ab Ithel Fychan, ac ymddengys mai mewn neithiorau yr enillodd weddill ei raddau hefyd gan na fu eisteddfod hyd 1523 – ac erbyn yr eisteddfod honno, ymddengys fod Tudur wedi ennill ariandlws, gan iddo gael

---

<sup>1</sup> Fychan, 'Tudur Aled', tt. 61 - 2.

<sup>2</sup> *Ibid.*, t. 62.

cadarnhau'r fraint honno yng Nghaerwys.<sup>1</sup> Yr oedd ganddo ddisgyblion wrth ei draed – Lewys Morgannwg a Gruffudd Hiraethog, er enghraifft – ond yr oedd Tudur wedi bod yn ddisgybl ei hun hefyd wrth gwrs, ac efallai y gall craffu ar ei athrawon ddadlennu rhywfaint ynghylch ei ymwneud ag eisteddfod 1523.

Ymddengys fod Tudur wedi bod yn ddisgybl i Ddafydd ab Edmwnd. Ar sail y dystiolaeth a geir ym marwnad Tudur Aled i Ddafydd ab Edmwnd y bernir bod hyn y wir, gan i Tudur ddweud am Ddafydd: “f'athro oedd”.<sup>2</sup> Bu hefyd, fe ymddengys, yn ddisgybl i Ieuan ap Llywelyn Fychan, sef tad Gruffudd ab Ieuan ap Llywelyn Fychan a fu'n cydgomisiynu yng Nghaerwys gyda Thudur.<sup>3</sup> Yr oedd Ieuan ap Llywelyn Fychan yn ŵr o ddylanwad a statws: Lancastrydd ydoedd fel ei fab, a rhwng 1506 a 1509 bu'n gweithredu fel siryf Sir y Fflint yn absenoldeb y Sais a benodwyd gan Harri VII. Ymhellach, bu'n Siedwr y Goron dros Sir y Fflint ac, efallai, yn yr ardal a ddaeth yn ddiweddarach yn Sir Ddinbych.<sup>4</sup> Ymddengys mai yng Nghaer-rhys, rhwng Caerwys a Thremeirchion, y treuliodd Ieuan y rhan fwyaf o'i oes, ond daeth i Leweni Fechan ger Dinbych cyn diwedd ei oes, a'r cartref hwnnw oedd cartref ei fab, Gruffudd. Bu farw naw mis cyn Eisteddfod Caerwys 1523, sef yn ystod Hydref 1522.<sup>5</sup>

Tudur Aled oedd prif fardd ei ardal a'i gyfnod, a phrif fardd eisteddfod 1523. Awgrymir ei fod yn gerddor o fri, yn ogystal. Galwodd Lewys Daron ef yn “[B]encerdd

---

<sup>1</sup> Gw. *GTA* I, t. xxvi, t. xxxvi; Bowen, ‘Taleithiau’, t. 141; *DWGILIV*, t. xiii.

<sup>2</sup> *GTA* I, t. 283, rhif LXX, ll. 29, a t. xxii. Gw. hefyd Bowen, ‘Graddau Barddol’, t. 95; Fychan, ‘Tudur Aled’, t. 61, t. 63; *TB*, t. 219.

<sup>3</sup> Gw. Fychan, ‘Tudur Aled’, t. 63; Bowen, ‘Graddau Barddol’, t. 95.

<sup>4</sup> Gw. Fychan, ‘Tudur Aled’, t. 64; T. A. Glenn, *The Family of Griffith of Garn and Plasnewydd* (1934).

<sup>5</sup> Gw. Fychan, ‘Tudur Aled’, t. 65.

y ddwygerdd agos”, a chyfeiria Lewys Môn ato fel “bardd dwbl” a oedd yn berchen ar “ddwy gadair”:

Bardd dwbl, i bwy ’roedd debig?  
Ba wlad draw, ba le y trig?  
Dug ar ī ŵn, fal dau grair,  
Diwedd gwawd, y ddwy gadair.<sup>1</sup>

Mae’n rhyfedd mai dwy gadair a enillodd, fodd bynnag, gan mai telyn a wisgai’r pen cerddor fel arfer; ond ymddengys fod tystiolaeth Lewys Daron yn cadarnhau fod Tudur yn gerddor yn ogystal ag yn fardd:

Gwin neu fêl y gwnâi foliant,  
Ag yna, teg ganu tant.<sup>2</sup>

Yr oedd un o brif noddwyr Tudur Aled, sef Syr Rhys ap Tomas o Ddinefwr, “yn athro tant” ac “yn fardd awdl”,<sup>3</sup> ac efallai iddo ef ddylanwadu ar Dudur ac ennyn ei ddiddordeb mewn cerdd dant yn ogystal â cherdd dafod.<sup>4</sup>

Cyn cloi’r adran hon sy’n trafod swyddogion Eisteddfod Caerwys 1523, byddai’n werth ceisio ystyried beth yn union oedd rôl y gwŷr hyn yn yr eisteddfod.

---

<sup>1</sup> *Ibid.* Am gyfeiriadau eraill at y marwnadau a luniwyd i Dudur Aled, gw. Morris-Jones, ‘Tudur Aled’, tt. 51 - 2; *GTA* II tt. 725 - 51; Williams, *Wales and the Reformation*, t. 50; Williams, *TLIM*, t. 64.

<sup>2</sup> *Ibid.* Gw. hefyd *TB*, t. 220; *EC*, t. 80.

<sup>3</sup> Gw. Davies, ‘Tudur Aled’, t. 422.

<sup>4</sup> Yn ôl y Statud, ni ddylai bard ymhel â dwy gelfyddyd – megis cerdd dafod a cherdd dant – er na chedwid at lythyren y ddeddf fel y gwelwyd eisoes. Ymddengys, fodd bynnag, fod Tudur wedi ennill ei radd gerddorol cyn 1523.

Rhisiart ap Hywel oedd tad gwarcheidiol yr eisteddfod. Ef a'i deulu, fe ymddengys, oedd yn noddi, ac mae'n debyg mai ef oedd yn trefnu lleoliad ar gyfer cynnal yr eisteddfod o fewn Caerwys. Byddai noddi achlysur o'r fath yn hwb mawr i'w statws a'i safle yn ei sir ei hun ac, yn wir, mewn ardaloedd eraill yng Nghymru. Mae'n rhyfedd iawn, felly, na chadwyd cerddi iddo: go brin y byddai'r beirdd a arferai ymweld â Phlas Mostyn wedi anwybyddu gorchest o'r fath.

Cefnogi'r eisteddfod, fe ymddengys, a wnaeth Wiliam Gruffudd a Rhosier Salbri, Wiliam Gruffudd o ogledd-orllewin y wlad, a Rhosier Salbri o'r gogledd-ddwyrain nid nepell o leoliad yr eisteddfod. Ni cheir tystiolaeth gadarn o blaid presenoldeb y ddau yn yr eisteddfod, ond go brin y byddai'r naill na'r llall – Wiliam Gruffudd, a oedd yn ymddiddori mewn cerdd dant, a Rhosier Salbri, gyda'r eisteddfod ar stepen ei ddrws – wedi peidio â bod yn bresennol oni bai fod hynny'n amhosibl. Rhoi eu henwau ynghlwm wrth yr eisteddfod a wnaethant, a thrwy hynny ei gwneud yn fwy 'swyddogol' yn llygaid yr awdurdodau, gan fod y ddau fel ei gilydd yn wŷr o statws ac yn wŷr a chanddynt swyddi pwysig yn eu hardaloedd eu hunain. Efallai hefyd fod y cysylltiad teuluol – cysylltiad digon llac, rhaid cyfaddef – a fodolai rhwng Rhosier Salbri a theulu Dytwn, Caer, yn hwb seicolegol i'r eisteddfod a'i threfnwyr, gan ddod â hwy gam yn nes at y delfryd o fod ag awdurdod diymwad dros wŷr wrth gerdd y Gogledd.

Efallai, fodd bynnag, fod gan y gwŷr hyn rôl ychydig yn fwy ymarferol yn yr eisteddfod. Rhisiart ap Hywel, Wiliam Gruffudd a Rhosier Salbri oedd cynrychiolwyr y 'sefydliad'; hwy, yn anad neb arall mae'n debyg, a boenai ynghylch trefn a chyfraith ac ufudd-dod y gwŷr wrth gerdd i reolau, neu yn hytrach i ddelfrydau'r goron. Mae cyfres o reolau yn y Statud sy'n nodi sut y dylai'r gwŷr wrth gerdd ymddwyn tuag at eu noddwyr, sut y dylent ymddwyn yn gyffredinol (er enghraifft, dylent ymwrthod â lladrata,

diota, mercheta, ac yn y blaen), a cheir adran hefyd sy'n gorchymyn y dylent fod yn ufudd i'r brenin a'i swyddogion. Efallai fod cynrychiolwyr y 'sefydliad' yn yr eisteddfod yn gyfrifol am lunio'r adrannau hyn, neu rai tebyg iddynt, yn y Statud.

Rôl Tudur Aled a Gruffudd ab Ieuan ap Llywelyn Fychan yn yr eisteddfod sydd fwyaf diddorol, fodd bynnag. Hwyl a gynrychiolai'r gelfyddyd wrth gerdd, yn gerdd dafod a thant, ac ymddengys mai cynghori oedd eu swydd yng Nghaerwys. Ond cynghori ynghylch beth yn union? Ynghylch cadarnhau graddau'r rhai a oedd wedi eu hennill eisoes, ynghylch graddio gwŷr o'r newydd, ac ynghylch trwyddedu, mae'n debyg, yn arbennig felly'r ddau olaf. Fodd bynnag, a oedd gan y ddau rywbeth i'w wneud â phennu'r rheolau ynghylch graddio: hynny ydyw, ai Tudur Aled a Gruffudd ab Ieuan a roddodd drefn ffurfiol ar faes llafur y gwŷr wrth gerdd – maes llafur a fololai eisoes mewn rhyw ffurf, wrth gwrs, gan fod beirdd a cherddorion yn gallu graddio mewn neithiorau cyn 1523 – gan nodi beth yn union oedd gofynion y gwahanol raddau?<sup>1</sup> Ai Tudur a Gruffudd a benderfynodd rywbryd cyn neu yn ystod yr eisteddfod sawl mesur, er enghraifft, yr oedd yn rhaid i'r beirdd eu gwybod cyn ennill gradd? Ac ai Tudur – efallai gyda chymorth Wiliam Gruffudd – a roddodd drefn ar faes llafur a graddau'r gwŷr wrth gerdd dant?

Os aeth Tudur Aled a Gruffudd ab Ieuan ati i roi trefn ar y rhan arbennig hon o'r Statud, yna Tudur mae'n debyg a gymerodd yr awenau, gan fod ei oed a'i brofiad a'i ragoriaeth fel bardd yn ei alluogi i wneud hynny. Cyn belled ag y gellir gweld, nid aeth

---

<sup>1</sup> Go brin mai Tudur Aled a Gruffudd ab Ieuan a bennai roddion y gwŷr wrth gerdd, fodd bynnag, gan fod y rheini'n llawer is na'r disgwyl.

Tudur ati i ad-drefnu rheolau'r mesurau a'r gynghanedd:<sup>1</sup> os gwnaeth rywbeth, yna casglu a chrynhoi'r hyn yr oedd yn rhaid i'r beirdd a'r cerddorion ei gyflawni er mwyn ennill eu graddau a wnaeth, ac efallai deddfu rhywfaint ynghylch perthynas disgybl a'i athro.<sup>2</sup> Ys dywed G. J. Williams:

Yr unig beth y gellir bod yn sicr ei gyflawni yng Nghaerwys ydyw rhoddi trefn ar wŷr wrth gerdd [...] [N]i welaf sut y geill neb faentumio bod Tudur wedi llunio rheolau'r gynghanedd yng Nghaerwys o ystyried yr hyn a ddywed Simwnt Fychan, sef mai yn amser Dafydd ab Edmwnd y bu'r 'konffurmiad diwaethaf ar gynghaneddion a messvrau.'<sup>3</sup>

Yn anffodus, fodd bynnag, nid oes tystiolaeth bendant, annibynnol, ynghylch cysylltiad Tudur â'r Statud ar gael; yn hytrach, cyfeiriadau wrth fynd heibio, fel petai, a geir. Sonia Gruffudd Hiraethog am "[R]eolau Tudur Aled", ac felly Ieuan Tew:

Gwylier, gan fynnu gweled - yr heol  
I'r awen ei cherdded:  
Rhol gyniwair, crair beirdd Cred -  
Rheolau Tudur Aled.<sup>4</sup>

Er na fanylir llawer ynghylch y 'rheolau' hyn, ymddengys fod Ieuan Tew yn awgrymu mai rheolau a roddai'r beirdd ar y llwybr iawn oeddynt: hynny ydyw, nid rheolau manwl a oedd yn deddfu ynghylch gramadeg, mesurau neu gynganeddion, ond rheolau

---

<sup>1</sup> Yn ôl Simwnt Fychan, Dafydd ab Edmwnd a wnaeth hynny ddiwethaf yng Nghaerfyrddin. Gw. *GP*, t. 119.

<sup>2</sup> Am farn eraill ynghylch hyn oll, gw. Morris-Jones, 'Tudur Aled', t. 22, t. 23, tt. 44 - 9; *GTA* I, tt. xxxviii - xix, t. lxxxvii; Saunders Lewis, 'Adolygiad o Gramadegau'r Penceirddiaid', *LI XIII* (1934), t. 252; *GP*, tt. lxxv - lxxvi; *CD*, t. 140.

<sup>3</sup> *GP*, tt. lxxv - lxxvi.

<sup>4</sup> Fe'i dyfynnir yn Morris-Jones, 'Tudur Aled', t. 22. Gw. hefyd *GP*, t. lxxv.

cyffredinol ynghylch celfyddyd y gwŷr wrth gerdd, rheolau a fyddai'n galluogi'r beirdd a'r cerddorion – yn ogystal â'u hawen – i 'gerdded' yn ddiogel a llwyddiannus.

Awgrymir – eto gan osgoi dweud yn berffaith blaen – fod a wnelo Tudur Aled rywbeth â'r Statud ym marwnadau'r beirdd i'r bardd. Dywed Huw ap Dafydd ap Llywelyn fod Tudur wedi "Goreuro rhol,"<sup>1</sup> a disgrifir ef gan Raff ap Robert fel a ganlyn:

### Rhuwliwr oedd, rhol Hiraddug<sup>2</sup>

Ymhellach, dywedodd Gruffudd ab Ieuan ap Llywelyn Fychan fod Tudur Aled yn poeni ynghylch "urddas gwawd".<sup>3</sup> Mae'r cyfeiriad mwyaf difyr, fodd bynnag, ym marwnad Morus Gethin i Dudur. Cyfeiria ddwywaith at Dudur yn "chwynnu gwawd":

Malai osteg, melyston,  
Melys iaith, fel mêl ī sôn;  
Pleth englynion cyfionwawd,  
Plethiad aur waed ar wawd;  
Canu i wŷr cyn ī orwedd,  
A chwynnu gwawd chwannog wedd;  
Canu mawl merch anherchgrair,  
O charai ferch, - chwaer i Fair;  
Canu mwsg fawl ebawlfeirch  
Cwyradd ī fodd, carodd feirch;  
Moliannu saint, braint breuwawd,  
Chwannog oedd i chwynnu gwawd;  
Canu i bob peth ī blethgerdd,  
A ffyrfhau gwŷdd a fferf gerdd;  
Penna awdur pan ydoedd,

---

<sup>1</sup> *GTA* II, t. 729.

<sup>2</sup> *Ibid.*, t. 745.

<sup>3</sup> Gw. *DWGILIV*, t. 17.

Rhaid cytuno â D. J. Bowen ynghylch tystiolaeth y cerddi hyn, sef bod y cyfeiriadau ynddynt at Dudur Aled a'r Statud yn benagored ac amhendant.<sup>2</sup> Fodd bynnag, rhaid i D. J. Bowen yntau gydnabod y byddai'n od o beth pe na bai prif fardd y cyfnod, a phrif fardd yr ardal a'r eisteddfod, yn gysylltiedig rywfodd â'r Statud. Meddai:

teg fyddai dyfalu i Dudur Aled fod â rhan bwysig yn y gwaith o gymeradwyo'r fersiwn o'r Ystatud a osodwyd gerbron y boneddigion a'r gwŷr wrth gerdd yn 1523, os nad yn ei lunio, o ystyried ei safle a'i brofiad [...]. Gyda'i athro barddol, Dafydd ab Edmwnd, wedi bod yn gyfrifol am y 'konffyrmiad diwaethaf a vv ar gynghaneddion a messvrau' yn Eisteddfod Caerfyrddin, gweddaidd fuasai i Dudur fod yn gyfrannog yn y dasg o osod trefn ar y gyfundrefn farddol fel y cyfryw.<sup>3</sup>

Mae'r berfenw 'chwynnu' a ddefnyddiwyd gan Morys Gethin, wrth gwrs, yn dod â ni'n syth yn ôl at eiriau'r Statud: onid cael gwared â'r 'chwyn' o blith y gwŷr wrth gerdd oedd amcan eisteddfod 1523 yn ôl ambell destun o'r Statud?

Nac anghofier Gruffudd ab Ieuan, ychwaith. Fel Tudur Aled, yr oedd ef yn fardd. Yn wir, fe ysgrifennodd gerdd yn trafod materion a gynhwysir yn y Statud, ac awgryma G. J. Williams y gallasai fod wedi cyfansoddi'r cywydd hwnnw adeg yr eisteddfod.<sup>4</sup> Efallai, yn wir, mai cynnwys y Statud a esgorodd ar y gerdd. Oni ellid ystyried cyfansoddi cerdd o'r fath yn benllanw'r dathlu a welwyd, o bosibl, pan gadarnhawyd cynnwys y Statud yn yr eisteddfod?

---

<sup>1</sup> *GTA* II, t. 741.

<sup>2</sup> Bowen, 'Graddau Barddol', t. 100.

<sup>3</sup> *Ibid.*

<sup>4</sup> *GP*, t. cv.



Fel y gwelwyd, nid dieithriaid mo Tudur Aled a Gruffudd gan fod tad Gruffudd, fe ymddengys, wedi bod yn athro barddol – ffurfiol neu anffurfiol – i Dudur am gyfnod. Cynigia Cledwyn Fychan ddamcaniaeth hynod o ddifyr ar sail perthynas Ieuan ap Llywelyn, Gruffudd ab Ieuan a Thudur Aled: bu farw Ieuan naw mis yn unig cyn eisteddfod 1523, ac awgryma Cledwyn Fychan y gall mai ei syniad ef, yn wreiddiol, oedd cynnal eisteddfod er mwyn rhoi trefn ar y gelfyddyd farddol, yn enwedig gan fod ganddo ddiddordeb mewn cerdd dafod a gweinyddu.<sup>1</sup> A adeiladodd y mab a'r disgybl ar sail syniad y tad a'r athro? A aeth Tudur a Gruffudd ati i gynnal yr eisteddfod 'er cof' am Ieuan? Ac ai trwy gyfrwng perthynas deuluol Gruffudd a'r Mostyniaid y daeth Rhisiart ap Hywel yn llywydd ac yn noddwr i'r achlysur?

Mae hyn oll yn bosibl.

### *Graddedigion*

Ceir copi o restr y rhai a raddiodd yn Eisteddfod Caerwys 1523 yn llawysgrif

Peniarth 155:

Llyma y Rrai a Raddwyd yngharwys nid amgen Tudur Aled a ganiadwyd ac a gonffyrmiad yn athro Kadeirioc I arwain ariandlws val iroedd Er pan I kymerassai dann I berygl iw dwyn or lle iroedd.

Dai nan klyn a wnaethpowyd yn athro a Rroddi ariandlws telyn iddaw.

Edwart Sirk / Thomas amhadoc / Edn grythor / a Morys llanvair / a raddiessid or blaen mewn neithiorav Reiol yn benkerddiaid ac yno I sikrawyd drwy I kanhiadv ai Konffyrmio/

Hwlcyn llwyd, Ienn delynior / Ienn grythor / Dai Maessmor / disgyblion penkerddiaidd.

Hw Menav / Rys grythor / Bili ap Owain / a Sion ap Sander disgyblion disgyblaidd

---

<sup>1</sup> Fychan, 'Tudur Aled', t. 65.

ond hynny gwrthod a wnaethant.<sup>1</sup>

Yr unig fardd a enwir uchod ydyw Tudur Aled, bardd a gyrhaeddodd frig ei broffesiwn. Ond beth am feirdd o safon disgybl ysbâs, disgybl disgyblaidd a disgybl penceirddiaidd, a beth am benceirddiaid? Ai gwŷr wrth gerdd dant yn unig a oedd yn haeddu eu graddio yn 1523?

Go brin, rywsut. Awgrymwyd bod rhestr graddedigion y beirdd ar goll;<sup>2</sup> ond eto i gyd, pam cynnwys enw Tudur Aled – gŵr y conffyrmiwyd ei statws fel bardd yng Nghaerwys – ymhlith y gwŷr wrth gerdd dant? Ai cynnwys enw Tudur Aled a wnaeth casglwr gwreiddiol y rhestr hon gan fod Tudur yn cael ei dderbyn fel cerddor yn ogystal â bardd, er mai fel bardd y cadarnhawyd ei statws yn yr eisteddfod? Hynny ydyw, a ydyw'r ffaith fod enw Tudur Aled wedi ei gynnwys ymysg y gwŷr wrth gerdd dant yma rywsut yn cadarnhau bod Tudur, fel y tybiwyd, yn fedrus iawn fel cerddor yn ogystal â bardd er, efallai, na fu'n bencerdd ar y ddwy gelfyddyd?

Awgrymwyd mai yng Nghaerwys yn 1523 y cipiodd Tudur Aled yr ariandlws: hynny ydyw, mai yn yr eisteddfod y bu'n ymryson amdano. Fodd bynnag, ac yntau'n un o brif gyngorwyr yr eisteddfod – ac yn un o'r rhai a aeth ati i farnu a graddio a thrwyddedu beirdd ei hun, efallai – nid gweddus, rywsut, fyddai iddo 'gystadlu' yno ei hun!

Wrth graffu'n fwy manwl ar yr wybodaeth a ddyfynnir uchod, fodd bynnag, ymddengys nad yn yr eisteddfod y cipiodd Tudur yr ariandlws. Cadarnhau ei hawl i arwain ariandlws a wneir ar ôl iddo ei ennill eisoes. Yn wahanol i Ddai Nantglyn, a

---

<sup>1</sup> Peniarth 155, t. 94

<sup>2</sup> Gw., e.e., Edwards, *Yr Eisteddfod*, t. 14; *EC*, tt. 80 - 2.

enillodd yr ariandlws yn yr eisteddfod, yr oedd Tudur yn berchen arno eisoes. Achlysur hwylus oedd yr eisteddfod i gadarnhau ei hawl, ac i ddangos, ys dywed y Statud, ei fod yn abl i'w arddel a'i hawlio a'i gadw. Fel Edward Sirc,<sup>1</sup> Thomas ap Madog, Edn Grythor, a Morus Llanfair, cael cadarnhau ei radd yn eisteddfod 1523 a wnaeth Tudur ar ôl iddo ennill ariandlws rai wythnosau, rai misoedd, neu yn wir, rai blynyddoedd ynghynt. Eisteddfod 1523 oedd yr eisteddfod gyntaf y gallai gael cadarnhau ei radd a'i safle ynddi.

Dai Nantglyn oedd athro arall yr eisteddfod, fel y gwelwyd eisoes. Cyfeiria naill ai Siôn Tudur neu Wiliam Llŷn at ei gamp yn ennill telyn arian mewn cerdd a luniwyd i farwnadu dau ar hugain o wŷr wrth gerdd:

Od aeth hwn mae'n adwyth hyn,  
Duw, dan unclo Dai Nantclyn:  
Dug y gwr bu'n deg ei gân;  
Dylai'n wir Delyn Arian.<sup>2</sup>

Gŵr arall a enwir yn y gerdd hon, sef 'Marwnad y Gwŷr wrth Gerdd', ydyw Ieuan Delynior a raddiodd yn ddisgybl penceirddiaidd yn 1523. Ymddengys mai Aberdaron oedd ei gartref, ac efallai mai ef oedd tad yr Iorwerth ap Ieuan Delynior a raddiodd yn bencerdd yn eisteddfod 1567.<sup>3</sup> Ymddengys fod Ieuan yn ei flodau rhwng 1475 a 1560.

---

<sup>1</sup> Am fwy o wybodaeth ynghylch Edward Sirc, gw. *GHCEM*, tt. xxi - xxiii.

<sup>2</sup> Fe'i dyfynnir yn Bowen, 'Graddedigion', t. 130. Awgryma D. J. Bowen, 'Graddau Barddol', t. 100, y gallai Dai Nantglyn fod wedi cynorthwyo i gadarnhau'r Statud yn eisteddfod 1523.

Gw. hefyd *LICD*, t. 185; Roberts, 'Marwnadau Telynorion', tt. 81 - 2.

<sup>3</sup> Gw. Harper, 'Llawysgrif Robert ap Huw', tt. 176 - 7; Roberts, 'Marwnadau Telynorion', t. 82; Bob Owen, 'Ifan Delynior', *B XVIII*, rhan I (Tachwedd, 1958), t. 26.

Ef, fel y gwelwyd eisoes, a luniodd gywydd dychan i Wiliam Gruffydd o'r Penrhyn. Datblygodd y cywydd hwn yn gyfres o gywyddau ymryson, ac ynddynt ceir cip ar Ieuan ei hun trwy lygaid ei ymrysonwyr. Ni cheir darlun gloyw iawn ohono mewn gwirionedd, ond wrth gwrs, ni ddylid disgwyl dim gwahanol mewn cywyddau ymryson o'r fath. Yn yr ail gywydd yn y gyfres – cywydd gan Syr Dafydd Trefor dros Wiliam Gruffydd – cyfeirir at statws Ieuan fel bardd a cherddor:

Ifan, dy waith sy ofer,  
Goffa clau ar dy gyff clêr.  
Meithrin chwileren ennyd  
Mewn mynwes gynnes i gyd  
Oedd dy gael uwchlaw'r aelwyd,  
Eginyn bardd, i gnoi bwyd.  
O thynnaist, mae it waith ennyd,  
Yn dy ben enaid y byd,  
Gwyddiad gyda gwiw addysg  
Gwarant ar gerdd dant a'i dysg,  
A chrychiad brofiad a brig  
A mesur clymau musig.  
Ond da y gwnaeth, hyd y gwn i,  
Gelu arnad giliorni.<sup>1</sup>

Fodd bynnag, cerddi ysgafnfryd rhwng cyfeillion oedd y rhain, mae'n debyg, lle gwneid y gwrthrych yn rhyw fath o gyff gwawd, a go brin – ac yntau wedi graddio'n ddisgybl pencerddaidd yn 1523 – fod Ieuan mor ddi-glem â hynny. Yn wir, cadarnheir mai tipyn o hwyl rhwng ffrindiau oedd y cyfan yn y cywydd dychan a luniodd Wiliam Gruffydd, gan fod Ieuan yn cael croeso a nawdd yn ei gartref, sef y Penrhyn. Medd Bob Owen:

Nid oes amheuaeth nad oedd Ifan Dylynor yn ŵr parchus yn y Penrhyn ymhlith y Gruffuddiaid, gan y ceir fod 'Tyddyn Ifan Dylyniwr' ar dir y Penrhyn, Llandygái. Dyddir un o'r gweithredoedd lle y digwydd Gorff. 23, 1622. Ar y 7fed o Fehefin, 1563, ceir fod John ap Ieuan Delyniwr yn dyst i weithred

---

<sup>1</sup> Gw. Lewis, 'Cywyddau Ymryson Ifan Dylynor', t. 166.

berthynol i ystad Penrhyn. Yn ychwanegol, dengys ei gywydd moliant i Syr Edward Pilstwn, a chywydd dychan Ifan Penllyn iddo, fod i Ifan Dyllynor groeso hefyd ym Maelor.<sup>1</sup>

Pan na châi Ieuan ei destunio, felly, ceir yr argraff ei fod yn ŵr wrth gerdd parchus a medrus. Medd Huw ap Rhisiart amdano:

Y gwr hen ar gair hynod  
browdwr kler brau awdur glod  
tad y gerdd dant ai gwrantwr  
ai hendaidd wyd hynod wr  
Ifan iraedddan rwyddgerdd  
Dyllynior gowir ior gerdd<sup>2</sup>

Mae Wiliam Cynwal yntau, yn y farwnad a luniodd i Ieuan Delynnor, hefyd yn hael ei glod:

Duw a roes môr dyrys, maith,  
Dilyw ar gerdd y dalaith.  
Oer draw oedd ddyfod awr drwch,  
Y tannau i ble y tynnwch?  
Dwyn Ieuan iawngan angerdd,  
Dewr awdur coeth, daradr cerdd.  
Telynor o ragor oedd,  
Tyner wawd, henwr ydoedd;  
Bar gwlad o waith, briglwyd iôr,  
Bongainc, ac athro Bangor.  
Dwyn Ifan graff dan fawr gri,  
Duw, tir oer deutu'r 'Ryri;  
A gwyrda gwyn, gair di-gêl,  
Iesu, cau osawg Hywel.  
Ba ganu ban ddarfu ei ddydd,  
Breugoed twf, brigwaed Dafydd?  
Ieuan ŵyr Ieuan arall,  
Aer y llew, orwyn y llall.

Aeth i fedd, agwedd ogof,

---

<sup>1</sup> Owen, 'Ifan Dyllynior', tt. 26 - 7.

<sup>2</sup> Gw. *ibid.*, t. 31.

Y pedair cadair a'r cof.  
Cuddiwyd awen pen y pair,  
Caewyd ar y pum cywair.  
Cerydd aeth ar bob cerdd ddofn,  
Celir y pedair colofn.  
Torrwyd gwraidd diarwaidd, da,  
Trimwehl yn y tir yma.  
Gradd i fil oedd ei gerdd fo,  
Gardd burffrwyth gordd Aberffro.<sup>1</sup>

Mae'r ffaith fod Wiliam Cynwal yn galw Ieuan yn 'bedair cadair' ac yn 'bedair colofn' yn awgrymog iawn. Fel y ceir gweld, dim ond pedair prif gadair a phedair prif golofn a geid. Mae'r ffaith fod Wiliam Cynwal yn awgrymu fod Ieuan yn hyddysg yn y rhain i gyd yn awgrymu fod y cerddor wedi esgyn i radd uwch na disgybl pencerddaidd rhwng 1523 (pan enillodd radd disgybl pencerddaidd) a dyddiad ei farwolaeth: dwy golofn a dwy gadair yn unig yr oedd yn rhaid i ddisgybl pencerddaidd eu gwybod; enillydd ariandlws neu ben telynor yn unig a ddylai wybod pedwar fersiwn y ddwy *genre*. Fodd bynnag, ceir rhestr o delynorion talaith Aberffro yn llawysgrif Peniarth 147, t. 203, llawysgrif sy'n dyddio i c. 1566, sef ar ôl marwolaeth Ieuan Delynior, mae'n debyg, ac fel disgybl pencerddaidd y'i disgrifir yno: "I. delynor o lyn d. p".<sup>2</sup> Ymddengys naill ai fod Peniarth 147 yn gopi ffyddlon o destun cynharach a luniwyd pan oedd Ieuan yn ddisgybl pencerddaidd,<sup>3</sup> neu na raddiodd Ieuan yn bencerdd o gwbl, ac mai ceisio dyrchafu statws y cerddor yr oedd Wiliam Cynwal yn ei farwnad iddo er mwyn pwysleisio ei ragoriaeth fel telynor.

---

<sup>1</sup> Fe'i dyfynnir yn Roberts, 'Marwnadau Telynorion', t. 112. Gw. hefyd Owen, 'Ifan Delynior', tt. 36 - 8.

<sup>2</sup> Peniarth 147, t. 203.

<sup>3</sup> Awgryma D. J. Bowen, *GGH*, t. xxix, fod y wybodaeth a geir yn Peniarth 147 i'w holrhain i'r cyfnod rhwng 1545/6 a 1564.

O'r graddedigion eraill, y rhai a wrthododd eu graddau sydd o ddiddordeb pennaf, sef Huw Menai, Rhys Grythor, Bili ap Owain, a Siôn ap Sander.<sup>1</sup> Fe'u graddiwyd yn ddisgyblion disgyblaidd, ond ni dderbyniasant y radd hon gan eu bod yn credu, mae'n debyg, eu bod yn haeddu gwell. Fel y gwelwyd eisoes, mae rheolau'r Statud ynghylch yr amser y gellid aros mewn un radd arbennig yn amrywio. Ar ôl gwrthod eu graddau disgyblaidd, ymddengys fod y cerddorion hyn, yn ymarferol o leiaf, wedi syrthio i radd disgybl ysbâs graddol. Yn ôl y testunau sy'n trafod tynged y disgybl hwn – sef F. FF. H. N. PH. I<sup>(1)</sup>, LL<sup>(1)</sup> a S<sup>(1)</sup> (iii) – am dair blynedd yn unig y câi aros yn y radd hon, a phe na bai'n abl i ddod yn ddisgybl disgyblaidd ymhen y tair blynedd byddai'n colli ei radd ysbâs. Beth yn union fu tynged Huw Menai, Rhys Grythor, Bili ab Owain a Siôn ab Sander? A gollasant eu graddau cerddorol am byth ar ôl 1523? Mae rhywfaint o dystiolaeth ar gael ynghylch tynged Rhys Grythor. Ar ôl gwrthod ei radd ddisgyblaidd yn 1523, mae'n syndod o beth gweld ei enw ymhlith graddedigion ail eisteddfod Caerwys yn 1567,<sup>2</sup> ac yn drasig ddigon fel disgybl disgyblaidd y graddiodd yno hefyd! Mae'n anodd dychmygu sut yn union y digwyddodd hyn. Go brin ei fod wedi colli ei radd ysbâs, hyd yn oed ar ôl iddo fod ynddi am dair blynedd a mwy wedi 1523. Ymddengys mai parhau i glera a diddanu yn ei radd ysbâs a wnaeth, ac yna, pan ddaeth cyfle arall i raddio mewn eisteddfod, ac yntau bellach mewn gwth o oedran mae'n rhaid, fe dderbyniodd yn 1567 yr union radd a wrthododd fwy na deugain mlynedd ynghynt!

Ar ba sail y gwrthododd y gwŷr hyn eu graddau? Yn ôl y Statud yr oedd yn rhaid i bob disgybl gyflawni gofynion penodol cyn y gellid eu graddio, ac ymddengys fod yn

---

<sup>1</sup> Gw. *LICD*, tt. 283 - 4, t. 309; Ifor ap Gwilym, *Y Traddodiad Cerddorol*, t. 44.

<sup>2</sup> Wrth gwrs, ni ellir gwybod i sicrwydd ai'r un Rhys Grythor ag a welid yn Eisteddfod 1523 ydyw hwn, ynteu crythor arall o'r un enw.

rhaid i bob disgybl gyflawni gofynion pob gradd, ac na ellid neidio'n syth o radd disgybl ysbâs graddol i radd disgybl pencerddiaidd, dyweder, gan osgoi graddio'n ddisgybl disgyblaidd.<sup>1</sup> Tybed ai rhywbeth fel hyn sydd y tu ôl i hanes y pedwar a wrthododd eu graddau? A raddiasant yn ddisgyblion disgyblaidd mewn neithiorau cyn 1523, a themlo eu bod erbyn adeg yr eisteddfod yn haeddu esgyn yn uwch ar ysgol y cerddorion yn hytrach na chael cadarnhau'r graddau a feddent eisoes? Ynteu a raddiasant yn uwch na disgyblion disgyblaidd cyn 1523 gan ddod i'r eisteddfod i gael cadarnhau'r graddau hynny, gan gael siomedigaeth ar ôl dod gan na theimlai'r beirniaid eu bod yn haeddu'r graddau a feddent?

---

<sup>1</sup> Yr unig radd y gellid ei hosgoi, mewn gwirionedd, oedd gradd pencerdd. Nodir yn y Statud y gallai disgybl pencerddiaidd ymgeisio am ariandlws pe teimlai ei fod yn ddigon da i wneud hynny, ac wrth gwrs, ped enillai'r tlws hwnnw ddi'n athro'n syth heb yn gyntaf raddio'n bencerdd.



## 5. Eisteddfod Caerwys 1567

Fe lwyddodd eisteddfod 1523 yn rhannol yn ei hamcanion. Llwyddwyd i raddio rhai gwŷr wrth gerdd, a llwyddwyd i osod patrwm iddynt, er mai patrwn delfrydol yn hytrach nag un ymarferol ydoedd ar sawl ystyr. Parhawyd hefyd i roi trwyddedau i'r beirdd a'r cerddorion; ond ymddengys na weithredid y rheolau na'r system drwyddedu yn hynod o lwyddiannus, a hynny mae'n debyg gan na lwyddwyd i gynnal eisteddfod arall am bron i bum mlynedd a deugain, er i'r Statud honni y dylid cynnal un bob tair blynedd. Gan mai geiriau ysgrifenedig yn hytrach na chanllawiau byw ac ymarferol oedd llawer o reolau eisteddfod 1523, ni lwyddwyd i ailosod y gelfyddyd farddol a'r gelfyddyd gerddorol ar gledrau newydd, ac o'r herwydd ymddengys na lwyddwyd i chwynnu'r gwŷr anheliwng yn llwyr o ardd y gwŷr wrth gerdd proffesiynol, swyddogol.

Fel y gwelwyd eisoes, gwaethygu a wnaeth sawl problem yn ystod yr unfed ganrif ar bymtheg: fe barhaodd y boblogaeth i gynyddu, cafwyd cyfnodau o chwyddiant mawr, ac fe waethygodd tlodi, ac esgorodd hyn ar fwy o gardota a chrwydro. Yn sgîl hyn oll, dwysáu a wnaeth problemau'r gwŷr wrth gerdd.

Tebyg iawn, felly, oedd amcanion eisteddfod 1567 i amcanion ei chwaer hŷn, sef ceisio canfod ffordd ymarferol o wahaniaethu rhwng y beirdd swyddogol ar y naill law a'r beirdd answyddogol a'r cardotwyr a'r crwydriaid troseddol ar y llaw arall. Ys dywed y comisiwn brenhinol a roddwyd i gomisiynwyr eisteddfod 1567:

...it is come to the knowledge of the Lorde President and other *our* said Cunsail in *our marches* of Wales that vagraunt and idle *persons* naming them selves mynstrelles Rithmers and Barthes, are lately growen into such an intollerable multitude *within* the principalitee of north wales, that not only gentlemen and other by their shameles disorders are oftentimes disquieted in their habitacions / But also the expert mynstrelles and musiciens in tonge and Conyng thereby much discouraged to travail in the exercise and practize of theire knowleges and also not

litle hyndred in their Lyvinges and *prefermentes*<sup>1</sup>

A'r lle a gysylltid â rhoi trefn ar y beirdd a'r cerddorion oedd Caerwys:

And forasmuch as *our* said Counsaill of late travayling in some *parte* of the said *principalite* had *perfect* vnderstanding by credible report that thaccustomed place for the *execucion* of the like *Commissyon* / hath bene heretofore at Cayroes in our Countie of fflynt<sup>2</sup>

Ailgynnau delfrydau eisteddfod 1523 a wnaed yn eisteddfod 1567, mewn gwirionedd, gan barhau â'r "[b]roses ymgeleddol", ys dywed Hywel Teifi Edwards.<sup>3</sup> Yr amcan oedd cadarnhau safle a statws y beirdd haeddiannol, a chosbi'r gweddill – yn gardotwyr, yn grwydriaid ac yn feirdd isradd. "Like today's abusers of the *Social Security* system", medd Hywel Teifi Edwards eto, "they were to be called to account and penalized, whereas the genuine practitioners [...] would be encouraged and their worth recognized."<sup>4</sup> Fel yn 1523, aethpwyd ati i warchod y gwŷr wrth gerdd haeddiannol trwy eu graddio a'u trwyddedu. Mae trwydded Simwnt Fychan fel pencerdd wedi goroesi, a gwelir ei bod wedi ei llofnodi gan lawer o'r gwŷr a oedd yn gomisiynwyr yn eisteddfod 1567.

Llyma'r modd y graddwyd  
Sim. Vachan yn Benncerdd.

Bid yspys i bob kyfriw ddydd vod Eisteddvod ar wyr wrth gerdd tafod a thanth ynhref Gaerwys yn Sir y Flint y chweched dydd ar hugain o vis Mai yn y nawfed

---

<sup>1</sup> Gw. *RWMI*, t. 291.

<sup>2</sup> *Ibid.*

<sup>3</sup> Edwards, *Yr Eisteddfod*, t. 15.

<sup>4</sup> *Idem.*, *The Eisteddfod*, tt. 8 - 9.

vlwyddyn o devrnasiad Gras y vrenhines Elsbeth Gar bronn Elis Prys ysgwier Doctor o Gyfraith Syfyl ac vn o gynghoriaid Gras y y [*sic*] vrenhines ym marcher Cymru. Wiliam Mostyn. Pys Mostyn. Owain ap Sion ap Howel Vychan. Sion ap Wiliam ap Sion. Sion Lewys Ywain. Morys Gruffydd. Simwnt Thelwal. Sion Gruffydd Sersiant. Robert Pilstwn. Ieuan Llwyd o Ial a Wiliam Glynn ysgwieriaid An bod ni yr henweddic Eisteddwyr drwy Gomvsiwn Gras y vrenhines ai chynghoriaid yn Rhoi ac yn kanathau i Simwnt Vychan prydydd radd penncerdd ag i bawb i Gynnwys ai groesawu i bob lle kyfleus i fyned ac i ddyfod ac i gael rodd wrth ei radd yn ol y dywysogawl ystatus pann yw oed Crist mil a hanner a saith a thrugain.

Sion Gruffydd  
Morys Gruffydd  
Robert Pilston  
Ieuan Llwyd  
William Glynn

Elis Price  
Wiliam Mostyn  
Owain ap Sion ap Hol vychan  
Sion ap Wiliam ap Sion  
Sion Lewys Owain  
Simwnt Thelwal<sup>1</sup>

Fel y ceir gweld, yr oedd llawer o'r comisiynwyr hyn yn ustusiaid heddwch – a hwy oedd yn gyfrifol yn ôl rhai o Ddeddfau'r Tlodion am gadw trefn ar segurwyr a chardotwyr.

Hwy hefyd, fe ymddengys, oedd yn gyfrifol am gadw trefn ar y gwŷr wrth gerdd yng Nghaerwys, a phe na baent yn teimlo fod y beirdd neu'r cerddorion yn ddigon da i ennill gradd, yr oedd ganddynt yr hawl i'w trin fel crwydriaid atebol ac fel segurwyr, a'r awdurdod i'w hanfon i weithio.<sup>2</sup>

---

<sup>1</sup> Fe'i dyfynnir o Isgr. Wynnstay 10, 146b, yn Jones, 'Simwnt Fychan', t. 142.

<sup>2</sup> Am fwy o wybodaeth, gw. Bowen, 'Ail Eisteddfod Caerwys', tt. 145 - 6, tt. 147 - 8; idem., 'Graddedigion', tt. 129 - 30; idem., 'Y Cywyddwyr a'r Dirywiad', t. 465; idem., 'Beirdd a Noddwyr (Rhan III)', t. 21; idem., 'Dafydd ab Edmwn't', t. 444; *GHO*, tt. 61 - 2; Carr, 'The Mostyn Family & Estate', t. 354, t. 356, t. 358; Edwards, *Yr Eisteddfod*, t. 10, t. 15; idem., *The Eisteddfod*, tt. 8 - 9; Gruffydd, 'Yr Iaith Gymraeg mewn Ysgolheictod', tt. 344 - 5; Harper, 'Llawysgrif Robert ap Huw', t. 168, t. 174; *CGD*, t. 18; *HCCMC*, t. 125; Jones, 'Rhethreg yng Nghyfundrefn y Beirdd', t. 168; Jones, *Cymru a'r Tuduriaid*, t. 129; idem., *Beirdd yr Uchelwyr a'r Gymdeithas*, t. 134; Lewis (gol.), *Agweddu*, tt. 124 - 5; Lewis, 'The Decline', tt. 67 - 8; Roberts, 'Eisteddfod Caerwys 1567', tt. 23 - 4, t. 26, t. 34; Peter R. Roberts, 'The 'Act of Union' in Welsh History', *TrCymm* (1972 - 73), t. 67; Ruddock, 'Oes Aur Ein Llên: Cyfnod y Cywydd - XI Anterth a Dirywiad', t. 411; Gwyn Thomas, 'Golwg ar Gyfundrefn y Beirdd yn yr Ail Ganrif ar Bymtheg' yn R. Geraint Gruffydd (gol.),

Cafodd eisteddfod 1567 gefnogaeth y Dyneiddiwr a'r ysgolhaig William Salesbury. Yn wir, ar y chweched o Fai, 1567, ychydig cyn cynnal yr eisteddfod, fe anfonodd lythyr at "y Boneddicion yr eisteddwyr ar gwyr wrth gerdd", gan amgau fersiwn o Statud Gruffudd ap Cynan ynddo – copi, sylwer, a ddaeth ar ei draws, nid fersiwn a luniodd ef ei hun – ac anogodd y comisiynwyr i fynd ati i addasu'r Statud, gan ddewis a dethol ohono:

Can hynny meddaf y tybiais y gwnawn beth nyd cwbl anwiw ar gydrychioli y pruddap chwi y ddywededic Statût, erwydd y copi a ddaeth im llaw i: sef megys y galloch gwedy ychwy y gwelet a synniaw arni gan ych pwyll dderbyn nei roi heibio, arallû, dirymio adwywio a chadarnhaû oll vanneû neû bwytheû, ai nebv n o honvnt, y cyfryw vodd ac y ddeall ych doethineb chwi, y vod yn addvwyn neû ddivwyn, yn gyvaddas neû yn ancyfaddas ir oes presentol. A channa phery dim y dan haûl ar a ddychymico dyn mwy nag ynteu ehvn yn yr amcan ddarparedic, chwitheû (tebycafi) ellwch yn gyfiawn newidio yr hynn a welochwi och cydgyngor y defnydd yn erchi. Ac mal hynn gan ervynn ar benawdûr pob iowngerdd a gwir gyssondap rwyddhaû rhagoch, y canaf yn iach ychwy dros hynn o bryd.<sup>1</sup>

Mae'r copi o'r Statud a anfonodd William Salesbury at gomisiynwyr Eisteddfod 1567 gryn dipyn yn wahanol i'r fersiynau a geid yn ystod hanner cyntaf yr unfed ganrif ar bymtheg. Y newid pwysicaf, a'r newid mwyaf arwyddocaol, ydyw'r ffaith fod gofynion graddau'r gwyr wrth gerdd dant – ond nid gofynion graddau'r beirdd – wedi eu codi'n arw: hynny ydyw, yr oedd yn rhaid i'r cerddorion feistrioli *genres* anos, a meistrioli mwy o'r *genres* hyn, cyn y gellid eu graddio erbyn ail hanner yr unfed ganrif

---

*Bardos* (Caerdydd, 1982), t. 76; *EC*, tt. 104 - 8; *RRR*, t. 146, t. 443; G. J. Williams, 'Yr Eisteddfod a'r Orsedd', *LII* (1922), t. 132; Parry-Williams, 'The Bardic Tradition', t. 251; Ifor ap Gwilym, *Y Traddodiad Cerddorol*, t. 21; Sugget, 'Yr Iaith Gymraeg', tt. 170 - 1.

<sup>1</sup> Ceir copi o lythyr William Salesbury yn llsgr. Peniarth 77, tt. 165 - 6. Fe'i dyfynnir uchod o'r trawsysgrifiad a geir gan J. Gwenogvryn Evans yn *RWMI*, t. 512.

ar bymtheg. Ni cheir unrhyw dystiolaeth fod newidiadau sylweddol wedi eu gwneud i'r Statud yn eisteddfod 1567, ac felly ymddengys mai derbyn y fersiwn a anfonodd William Salesbury atynt a wnaeth y comisiynwyr, heb addasu rhyw lawer arno. Os felly, yr oedd rhywun neu rywrai wedi bod yn diwygio ac yn codi safon y graddau cerdd dant cyn 1567. Pam na welwyd newid cyffelyb yng ngraddau'r beirdd? A oedd eu graddau hwy'n ddigon anodd eisoes i rwystro beirdd isradd rhag dod yn aelodau o'r gelfyddyd swyddogol, ynteu a ydyw'r newid a fu yng ngraddau'r cerddorion yn arwydd nad y beirdd answyddogol a achosai'r helynt mwyaf yng Nghymru yn ystod ail hanner yr unfed ganrif ar bymtheg ond, yn hytrach, mai'r cerddorion crwydrol, answyddogol – ffidlwyr, pibyddion ac ati – oedd yn bygwth y gelfyddyd swyddogol wrth gerdd? Ai'r clerwyr cerddorol yn hytrach na'r beirdd isradd oedd y drain mwyaf poenus yn ystlysau boneddigion y cyfnod, ac ai dyna pam y ceisiwyd dyrchafu graddau'r cerddorion swyddogol gan rwystro mwy a mwy o'r cerddorion llai galluog rhag cael trwydded i grwydro'r wlad yn erchi cynhaliaeth a nawdd?

### *Y Comisiynwyr*

Yn ôl y comisiwn brenhinol, rhoddwyd caniatâd i un ar hugain o wŷr gynnal ail eisteddfod yng Nghaerwys, sef Syr Rhisiart Bwcle, Syr Rhys Gruffydd, Elis Prys, Wiliam Mostyn, Ieuan Llwyd, Siôn Salbri, Rhys Thomas, Morus Wyn, Wiliam Lewis, Pirs Mostyn, Owen Siôn ap Hywel Fychan, Siôn William ap Siôn, Siôn Lewis Owen, Morus Gruffydd, Simwnt Thelwel, Siôn Gruffydd, Elis ap Wiliam Llwyd, Robert Pilstwn, Hari ap Hari, Wiliam Glyn a Rhys Huws, llawer ohonynt yn noddi gwŷr wrth gerdd yn barod. Ys dywed A. D. Carr, "The commissioners were the landed gentry in the courts of North

Wales”,<sup>1</sup> ac nid ydyw’n syndod gweld bod llawer ohonynt yn ustusiaid heddwch.<sup>2</sup> Fel y gwelwyd eisoes, ustusiaid heddwch, ymysg eraill, a benodwyd i gadw trefn ar wŷr crwydrol, segurwyr a chardotwyr, a gellid disgwyl gweld gwŷr o’r fath yn yr eisteddfod, yn enwedig gan fod gan yr achlysur gefnogaeth y Frenhines Elisabeth trwy gyfrwng Cyngor Cymru a’r Gororau.

Rhoddyd caniatâd brenhinol, felly, i un ar hugain o uchelwyr gogledd Cymru gynnal eisteddfod, ond ymddengys mai mewn enw’n unig y cefnogodd naw o’r rhain yr eisteddfod, gan mai deuddeg o’r un ar hugain hyn a enwir yn y llawysgrifau Cymraeg sy’n cyfeirio at yr eisteddfod, a chan mai’r un deuddeg a enwir yn nhrwydded Simwnt Fychan, sef Elis Prys, Wiliam Mostyn, Pirs Mostyn, Owain ap Siôn ap Hywel Fychan, Siôn ap Wiliam ap Siôn, Siôn Lewys Owain, Morus Gruffudd, Simwnt Thelwal, Siôn Gruffydd Sersiant, Robert Pilstwn, Ieuan Llwyd a Wiliam Glyn.<sup>3</sup> Wrth gwrs, nid oedd raid i bob comisiynwr fod yn bresennol yn yr eisteddfod: yn wir, nodir hyn yn y comisiwn:

...But also that you xxtie xixen xvijen xvijen xvjen xven xiiijen xiiijen xije xien xen ix viij vij or vi of you, whereof youe Sr Richard Bulkeley, Sr Rees Gruffith, Ellice Price, and w<sup>m</sup> mostyn Esquiors or iijee or ijo of you to be of the number to repayre to the said place the daye aforsaid...<sup>4</sup>

Fel gydag eisteddfod 1523, yr oedd i’r Mostyniaid le amlwg iawn yn eisteddfod

---

<sup>1</sup> Carr, ‘The Mostyn Family & Estate’, t. 356.

<sup>2</sup> Gw. Edwards, *The Eisteddfod*, t. 8; Roberts, ‘Eisteddfod Caerwys 1567’, t. 37.

<sup>3</sup> Gw. Carr, ‘The Mostyn Family & Estate’, t. 356; Roberts, ‘Eisteddfod Caerwys 1567’, t. 36.

<sup>4</sup> *RWMI*, t. 292.

1567. Ymddengys mai'r penteulu ar y pryd, sef Wiliam Mostyn, oedd prif Fostyn yr eisteddfod hon. Fe'i henwir yn y comisiwn brenhinol, fe'i henwir yn y llawysgrifau Cymraeg sy'n olrhain hanes yr eisteddfod, ac fe'i henwir yn nhrwydded Simwnt Fychan. Ymhellach, iddo ef a'i deulu y rhoddwyd yr hawl o gyflwyno tlws i'r pen cerddor:

william mostyn Esquior and his auncesrors have had the gyfte and bestowing of the sylver harpe appertayning to the Cheff of that facultie<sup>1</sup>

– ac ef a oedd yn gyfrifol am ddarparu pethau angenrheidiol eraill, er enghraifft cadeiriau, deunyddiau ar gyfer llunio trwyddedau a lluniaeth, efallai, ar gyfer yr eisteddfod:

willm mostyn hath promised to see furnytire and things necessary provided fod that assembly at the place aforesaid.<sup>2</sup>

Yr oedd i Wiliam Mostyn rôl llawer mwy ymarferol na'r comisiynwyr eraill yn yr eisteddfod, felly. Cynigiai gymorth o gig a gwaed, fel petai, yn ogystal â chymorth llai diriaethol ei enw. Ef a ddilladodd ac a fwydodd yr eisteddfod, ac efallai iddo yn hyn o beth ddilyn ôl troed ei daid, Rhisiart ap Hywel, gan nad ydyw'n amhosibl iddo ef, fel llywydd eisteddfod 1523, fod wedi cyflawni'r un dyletswyddau, er nad oes comisiwn brenhinol ar gyfer yr eisteddfod honno i'w gael bellach i gadarnhau hyn. Mae'r hyn a roddir ar ysgwyddau Wiliam Mostyn yng nghomisiwn yr ail eisteddfod yn sicr yn cefnogi'r awgrym a wnaed gan Enid Roberts, sef bod yr eisteddfodau wedi'u cynnal dan nawdd Mostyniaid Sir y Fflint. I Wiliam Mostyn hefyd y rhoddwyd y fraint o gyflwyno

---

<sup>1</sup> Gw. *RWMI*, t. 291.

<sup>2</sup> *Ibid.*, t. 292.

tlws – telyn arian fechan sydd ar gael hyd heddiw ym Mhlas Mostyn – i ben cerddor yr ŵyl. Ni ddywedir bod y delyn hon wedi ei chyflwyno i Ddai Nantglyn, pen cerddor ac enillydd ariandlws telyn eisteddfod 1523; fodd bynnag, mae geiriau comisiwn brenhinol yr ail eisteddfod yn awgrymog iawn. Yn ôl y comisiwn, “william mostyn Esquior and his auncestors” a gafodd y fraint o gyflwyno’r tlws arbennig hwn, felly tybed ai cyfeirio at Risiart ap Hywel yn gwneud yr un peth yn 1523 a wneir yn y comisiwn pan ddywedir bod y fraint hefyd yn perthyn i gyndadau Wiliam? Gellir dadlau bod lleoliad yr wybodaeth arbennig hon o fewn y comisiwn yn ategu’r syniad hwn. Yn union o flaen y cyfeiriad at Wiliam Mostyn a’i gyndadau nodir mai Caerwys ydyw’r lle arferol y cynhelid eisteddfod yno, ac yna’n syth wedyn cyfeirir at ‘arfer’ Wiliam Mostyn a’i gyndadau o gyflwyno’r delyn arian:

And forasmuch as *our* said Counsaill of late travayling in some parte of the said principalite had perfect vnderstanding by credible report that thaccustomed place for thexecicion of the like Commissyion / hath bene heretofore at Cayroes in our Countie of fflynt, and that william mostyn Esquior and his auncestors...<sup>1</sup>

Yn union fel y mae cynnal yr eisteddfod yng Nghaerwys yn rhan annatod o’r trefniadau, felly hawl Wiliam Mostyn a’i gyndadau i gyflwyno’r delyn arian i’r pen cerddor. Ys dywed Enid Roberts, “os nad oedd gan y penteulu hawl swyddogol i’r gwaith o wneud trefn ar y beirdd a’r cerddorion mae’n bur debyg iddo hawlio blaenoriaeth drwy rym arfer.”<sup>2</sup>

Fel y gellid disgwyl, yr oedd Wiliam Mostyn yn ŵr blaenllaw yn ei gyfnod. Ef oedd etifedd Tomas ap Rhisiart ap Hywel, ac yn ogystal â bod yn filwr bu’n dal nifer o

---

<sup>1</sup> *Ibid.*, t. 291.

<sup>2</sup> Roberts, ‘Eisteddfod Caerwys 1567’, t. 38.



swyddi pwysig: yn 1553-4, ac o 1572 hyd ei farw ar y pedwerydd ar bymtheg o Fedi, 1576, bu'n cynrychioli Sir y Fflint yn y senedd; yn 1551-2 bu'n siryf Sir Ddinbych; yn 1560-1, 1565-6, 1567-8, ac yn 1570-1 bu'n siryf Sir y Fflint; ac yn 1566-7 bu'n siryf Sir Gaernarfon.<sup>1</sup>

Canwyd nifer o farwnadau iddo – chwech i gyd – gan rai o brif feirdd y cyfnod, sef Wiliam Cynwal, Lewis ap Hywel, Wiliam Llŷn, Simwnt Fychan a Siôn Tudur, ac mae hyn yn arwydd, fe ymddengys, o'i statws fel noddwr, er na chadwyd y cerddi a ganwyd iddo ac yntau'n dal yn fyw, os canwyd rhai. Yn wir, ymddengys ei fod yn ymddiddori yn y gelfyddyd farddol ei hun gan iddo lunio cyfres o englynion yn trafod graddio crythor go giarni o'r enw Owain yng Nghaerwys. Syr Rhys Gruffydd o'r Penrhyn a wthiodd y cwch i'r dŵr trwy gyfansoddi dau englyn i Wiliam Mostyn a Simwnt Thelwal yn cefnogi'r crythor. Esgorodd y rhain ar bum englyn gan Wiliam Mostyn a Simwnt Thelwal, y ddau'n canu am yn ail.<sup>2</sup>

Os na chadwyd cerddi i Wiliam Mostyn tra oedd yn fyw, fe gadwyd rhai i'w fab, Syr Tomas. Yn ei gerdd i Tomas cyfeiria Wiliam Cynwal at gysylltiad Wiliam, ei dad, ac yn wir at gysylltiad y Mostyniaid yn gyffredinol, ag eisteddfod Caerwys:

Dithau'n rholi, holi hyn,  
Hyd Tems, Mastr Tomas Mostyn;  
Os ariandlws, aur andler,  
Am ddal y claim a ddyl clêr,  
Yma i ti, mae'n amod hyn,

---

<sup>1</sup> Gw. Charles, 'Teulu Mostyn', t. 86; Roberts, 'Eisteddfod Caerwys 1567', t. 38.

<sup>2</sup> Gw. Carr, 'The Mostyn Family & Estate', t. 341; Roberts, 'Eisteddfod Caerwys 1567', t. 39. Am gopi o'r englynion hyn, gw. llsgr. LIGC 1553, tt. 759 - 61.

Nid Wiliam Mostyn yn unig a gynrychiolai'r Mostyniaid yn eisteddfod 1567: yr oedd Pirs Mostyn o Dalacre yn un o'r comisiynwyr, yn ogystal, ac ymddengys ei fod yntau, fel Wiliam, yn bresennol yn yr eisteddfod.<sup>2</sup> Yr oedd Pirs yn fab i Risiart ap Hywel, felly yr oedd yn ewythr i Wiliam. Fel ei nai, yr oedd Pirs yn ŵr eithaf dylanwadol yn ei ardal: bu'n Aelod Seneddol dros fwrdeistref Fflint yn Ionawr 1558, a bu'n siryf yr un sir yn 1552-3.<sup>3</sup> Fe'i ganed ar y deuddegfed o Chwefror, 1495, felly erbyn ail eisteddfod Caerwys yr oedd yn ei saithdegau. Bu farw c. 1579/80.<sup>4</sup> Pan gynhaliwyd Eisteddfod Caerwys 1523 yr oedd Pirs yn ei ugeiniau cynnar, ac efallai ei fod yn bresennol yn honno yn ogystal. Medd Enid Roberts:

---

<sup>1</sup> Fe'i dyfynnir yn Charles, 'Teulu Mostyn', t. 87.

<sup>2</sup> Fel y ceir gweld yn nes ymlaen yr oedd nifer o'r comisiynwyr yn perthyn i'r Mostyniaid, yn enwedig felly i Wiliam Mostyn. Fel yn achos eisteddfod 1523, ymddengys mai 'achlysur teuluol' oedd yr ail eisteddfod i raddau helaeth, hefyd. Yr oedd Syr Rhys Gruffydd, Pirs Mostyn, Morus Gruffydd, Ieuan Llwyd a Wiliam Glyn i gyd yn perthyn naill ai trwy waed neu trwy briodas i Wiliam Mostyn. Gw. Carr, 'The Mostyn Family & Estate', t. 357; Roberts, 'Eisteddfod Caerwys 1567', tt. 39 - 47. Medd A. D. Carr: "A number of the other commissioners were related to William Mostyn; in such a tightly-knit class as that of the uchelwyr this was hardly surprising. William's mother was a Griffith of Penrhyn, which made Sir Rhys his uncle. Another uncle was Piers Mostyn of Dalacre while Robert, the son of Morrice Griffith of Porthamel, another commissioner, married William's daughter Grace. Ieuan Lloyd of Yale, later knighted, was not only William's brother-in-law, having married his sister Elizabeth; his father was the half brother of William's first wife Margaret Powell. William Glynne of Glynllifon was also a brother-in-law, his first wife having been Katherine Mostyn, who died before 1558; his second wife, Angharad, was the widow of Rowland Griffith of Porthamel."

<sup>3</sup> Charles, 'Teulu Mostyn', t. 98.

<sup>4</sup> Roberts, 'Eisteddfod Caerwys 1567', t. 39.

Er nad enwir mohono yn y manylion a gadwyd am eisteddfod 1523 y mae'n bosibl iawn ei fod yno gyda'i dad, Rhisiart ap Hywel. Ai gormod awgrymu mai dyna pam y telid cymaint o sylw iddo yn 1567?<sup>1</sup>

Drachefn, yr oedd Pirs yn ymddiddori yn y gelfyddyd farddol. Lluniodd beirdd megis Wiliam Cynwal, Lewis ab Edwart a Simwnt Fychan gerddi mawl iddo, ac yn wir fe gysylltir enw Pirs yn llawysgrif Peniarth 62 ag awdl orchestol a luniwyd gan Simwnt Fychan, awdl sy'n gysylltiedig ag eisteddfod 1567 ac awdl sydd, yn wir, yn dwyn i gof reolau'r Statud. Dyma'r penawd i'r gerdd fel y'i ceir yn Peniarth 62:

Ir M. Pers Mosden odl voliant ac ynddi'r y xxiiij mesur y rhai y notir eu enweu ar yr or gyferbyn ac wynt er mwyn athroaeth cynnil i ddanwarded, a chlaer espysrwydd i ddiscipulon cerdd davot<sup>2</sup>

Yn ôl Lewis ab Edwart, yr oedd Pirs wedi hen arfer â noddi beirdd:

Y Nadolig yno daliaf,  
I'w lys cerrig, a'i les caraf,  
Ar ei leithig, wr haelaf,  
Yn was diddig, yno 'steddaf.

Wedi cynnig, i'w dai canaf,  
I'r gaer miwsig o'r grymusaf,  
Ym calennig, o'm coel iawnaf,  
Aur arbennig yr erbyniaf.<sup>3</sup>

Ymhellach, bu'n copïo nifer o destunau – rhai megis 'Englynion y Misoedd' – ac

---

<sup>1</sup> *Ibid.*

<sup>2</sup> Fe'i dyfynnir yn Charles, 'Teulu Mostyn', t. 98. Ar ymyl y ddalen yn y llsgr. ceir y geiriau "Imitato erwydd Statud Gr. Ap Cyna".

<sup>3</sup> Fe'i dyfynnir yn *ibid.*, t. 99.

ydddengys iddo englyna rhywfaint.<sup>1</sup>

Y Dr. Elis Prys (1512?-94?) o Blas Iolyn, Ysbyty Ifan, Sir Ddinbych, oedd un arall o'r comisiynwyr. Graddiodd yn Faglor ac yna yn Ddoethor yn y Gyfraith yng Ngholeg Sant Nicolas, Caergrawnt, ac yn sgîl ei w'n academiaidd coch fe'i hadwaenid fel 'Y Doctor Coch'. Bu'n dal nifer o swyddi pwysig ac amrywiol: cafodd ei benodi gan Cromwell yn 1535 i ymweld â mynachlogydd Cymru, ac aeth ati'n ddiymdroi i helpu â'r dasg o'u diddymu; yn 1538 fe'i penodwyd yn Ddirprwy Cyffredinol esgobaeth Llanelwy; bu'n siryf sawl gwaith (yn Ninbych (1548-9), ym Meirionnydd (1551-2, 1555-6), yna yn ôl yn Ninbych (1556-7), yng Nghaernarfon (1558-9), ac wedyn ym Meirionnydd eto (1563-4, 1567-8)); a daeth yn aelod o Gyngor Cymru a'r Gororau yn Llwydlo yn 1560, swydd a'i gwnaeth yn ustus heddwch yn ei sgîl. Yn amlwg ddigon, Elis Prys – oherwydd ei fod yn aelod o Gyngor Cymru a'r Gororau, yn anad dim – oedd yn cynrychioli'r 'sefydliad' yn yr eisteddfod, gan ei fod, yn llythrennol, yn gwasanaethu'r goron yng Nghymru. Fodd bynnag, nid oedd ei swydd a'i statws o anfantais i'r comisiynwyr eraill nac i'r eisteddfod yn gyffredinol: yn wir, efallai fod cefnogaeth gŵr o'r fath wedi bod o gymorth i'r eisteddfod gael caniatâd brenhinol. Ymddengys, yn ogystal, fod Elis Prys yn bresennol yn yr eisteddfod. Efallai iddo gael ei orfodi i fod yno gan y goron, wrth gwrs; ond ymddengys nad rhyw aelod diddim o'r comisiwn ydoedd gan fod Wiliam Cynwal, un o'r beirdd a raddiodd yn yr eisteddfod, wedi llunio cerdd ysgafn yn dweud hanes Elis Prys ac Ieuan Llwyd o Iâl, cerdd sydd, efallai, yn perthyn i hil y cerddi cyff clêr a genid mewn neithiorau a gwleddau eraill er mwyn diddanu'r gynulleidfa trwy destunio neu wneud hwyl am ben y prifardd trwy adrodd rhyw stori

---

<sup>1</sup> Gw. *ibid.*, t. 100; Roberts, 'Eisteddfod Caerwys 1567', t. 39. Ceir dau o'r englynon yn llsgr. Mostyn 131, tt. 212 - 3 yn llaw John Jones Gellilyfdy.

gelwyddog amdano. Cwyna Wiliam Cynwal na chafodd radd yn yr eisteddfod, a hynny gan fod Elis Prys yn rhy brysur yn mercheta:

keissiais Jnav llwybrav lles  
kynggori akw ynghares  
gyrrais wenn hygar soniaw  
Rac I ofn Ef or dref draw  
poen oedd weithian pan ddevthym  
I ofyn gradd o fewn grym  
parodd wedi fynghyriaw  
yn fagmwns drwy aliwns draw  
pei kowssai'r verch serch a swm  
beraidd vessvr bardd fasswn<sup>1</sup>

Nid oedd tynnu coes fel hyn yn newydd rhwng Wiliam Cynwal ac Elis Prys. Yn wir, ymddengys fod Prys yn croesawu beirdd ato i Blas Iolyn yn aml: croesewid beirdd ato adeg y Nadolig, ac yr oedd Dafydd Maenan, telynor o Landdoged, ac eraill o bosibl, yn arfer mynd i gartref y Doctor Coch bob Pasg.<sup>2</sup> Yn sicr, fe âi Wiliam Cynwal yno, a gwelir ei fod wedi llunio cerddi ysgafn eraill yn tynnu coes ei noddwr yn ei gartref ei hun. Er enghraifft, mae Wiliam Cynwal yn tynnu coes Elis Prys am roi gormod o groeso i ŵr digon amheus o'r enw Morgan Eurych, ac adroddir hanesyn digon od amdano yn Aberdyfi.<sup>3</sup> Gellir tybio felly fod Elis Prys, os oedd yn bresennol yn yr eisteddfod, wedi ei fwynhau ei hun yn arw yng Nghaerwys ynghanol holl firi a rhialtwch a thynnu coes y beirdd.<sup>4</sup>

---

<sup>1</sup> Fe'i dyfynnir yn Roberts, 'Wiliam Cynwal', t. 63.

<sup>2</sup> Gw. *ibid.*, t. 61; Roberts, 'Eisteddfod Caerwys 1567', t. 38.

<sup>3</sup> *Ibid.*

<sup>4</sup> Am fwy o wybodaeth am Elis Prys, gw. *Cyd*, t. 605; Roberts, 'Eisteddfod Caerwys 1567', tt. 37 - 8; Peter R. Roberts, 'Deddfwriaeth y Tuduriaid a Statws

Ieuan Llwyd o Fodidris, Iâl, fel y gwelwyd, oedd y comisiynwr arall a gafodd dynnu ei goes gan Wiliam Cynwal. Fel yr awgrymwyd eisoes, yr oedd Ieuan yn frawd yng nghyfraith i Wiliam Mostyn gan iddo briodi Elisabeth, chwaer Wiliam, ac ymhellach yr oedd gwraig Wiliam, sef Margared Powel, yn chwaer i dad Ieuan. Fel gweddill y comisiynwyr, bu Ieuan Llwyd yn dal swyddi pur bwysig yn ei ardal: bu'n Ustus Sir Ddinbych, ac yn siryf yr un sir yn 1567-8, sef union adeg yr eisteddfod. Yn y cywydd a luniwyd gan Wiliam Cynwal – yr un cywydd ag y testuniwyd Elis Prys ynddo – cyhuddir Ieuan o chwarae cardiau yn hytrach na gwneud ei waith yn yr eisteddfod. Yn syml, fe'i cyhuddir, fel Elis Prys, o dorri rheolau'r Statud!

Mab yng nghyfraith yn hytrach na brawd yng nghyfraith i Wiliam Mostyn oedd Morus Gruffydd: priododd Morus ferch Wiliam Mostyn, sef Gras. Bu'n Aelod Seneddol dros Fiwmares, yn siryf ym Môn, ac yn ustus heddwch rhwng 1564 a 1594. Yr oedd Morus, felly, yn Ustus Heddwch adeg yr eisteddfod ac yn un a oedd yn atebol i drwyddedu beirdd a cherddorion haeddiannol ac i roi trefn ar y gwŷr nad oeddynt yn haeddu gradd.<sup>1</sup>

Yr oedd Wiliam Glyn o Lynllifon, Llandwrog, yn perthyn trwy briodas i Wiliam Mostyn gan ei fod wedi priodi Catrin, chwaer Wiliam, yn 1544. Ymddengys fod Catrin wedi marw'n eithaf ifanc yn y flwyddyn 1551, ac ailbriododd Wiliam Glyn ag Angharad, sef mam Morus Gruffydd, y comisiynwr y soniwyd amdano uchod.<sup>2</sup> Bu farw Angharad

---

Gwleidyddol 'Yr Iaith Frytannaidd' yn *HCIG*, t. 143.

<sup>1</sup> Gw. Roberts, 'Eisteddfod Caerwys 1567', t. 39.

<sup>2</sup> *Ibid.*, t. 41. Gw. hefyd W. Gilbert Williams, *Arfon y Dyddiau Gynt* (Caernarfon, 1915), t. 91, t. 99. Merch Eliseus ap Morus o deulu Celennau oedd Angharad.

o'i flaen, fel Catrin, a phriododd Wiliam Glyn y drydedd waith ag Alis, merch o Gonwy.<sup>1</sup> Mab Iemwnt Llwyd ap Robert oedd Wiliam Glyn, a bu farw yn y flwyddyn 1594 gan adael etifeddiaeth i'w fab Tomas. Cafodd Wiliam Glyn ddau o feibion o'i briodas gyntaf, sef Tomos a Rhisiart, a chafodd dri o blant o'i ail briodas, sef Morus, Owen a Chatrin.<sup>2</sup> Fel un a gododd fyddin ar gyfer helpu Harri VIII yn Arfon, bu Wiliam yn gefnogwr ffyddlon i'r goron. Ys dywed Huw Pennant yn ei gywydd marwnad i Wiliam Glyn:

Ynillodd fodd, haeddodd fawl  
Hynaws bedwar prins bydawl,  
Ac yn iawn iddynt y gwnaeth  
I'w oes union wasanaeth.  
Un fu ail i'r hen filwyr,  
Harri wyth gynt, pen rhaith gwyr.  
I'w siambr Grwm mewn rwm mawr  
A fu lanwych hardd, flaenawr.  
Bu'n dwyn siars Profost Marsial  
Dan Edwart, y doethwart dal.  
Bu sgwair haelair helaeth,  
Ac yn wir Mari a'i gwnaeth.  
Bu'n Siri, baun y siroedd  
Dan Elsbeth wawr, eurbleth oedd.<sup>3</sup>

Ymddengys fod Wiliam yntau wedi ymddiddori yn y gelfyddyd farddol gan iddo lunio marwnad i'w wraig gyntaf, a chan iddo fod yn ustus yn ymryson Edmwnd Prys a Wiliam Cynwal. Drachefn, yr oedd ei statws a'i ddiddordeb yn y gelfyddyd farddol yn ei wneud

---

<sup>1</sup> Gw. Williams, *Arfon*, t. 100.

<sup>2</sup> Gw. *ibid.*, t. 99.

<sup>3</sup> Fe'i dyfynnir yn *ibid.*, tt. 92 - 3.

yn gomisiynwr perffaith yng Nghaerwys.<sup>1</sup>

Gallai Robert Pilstwn o Blas-ym-Mers, Wrecsam, yntau olrhain perthynas â'r Mostyniaid gan ei fod yn nai i Wiliam Glyn. Fel llawer o'r comisiynwyr eraill, bu'n dal swyddi pwysig: bu'n Aelod Seneddol dros Gaernarfon yn 1547-52 a thros Ddinbych yn 1553, bu'n ustus Dinbych, a hefyd bu'n siryf yr un sir rhwng 1558 a 1559.<sup>2</sup>

Yr oedd Robert Pilstwn yn perthyn i un arall o'r comisiynwyr, sef Siôn Lewis Owain o'r Llwyn, Dolgellau, gan fod mam Siôn, sef Margared Pilstwn, yn gyfneither i Robert Pilstwn. Fel Robert, bu Siôn hefyd yn siryf rhwng 1565-6, a hefyd bu'n ustus yn Sir Feirionnydd, ac yn Aelod Seneddol rhwng 1572-83.<sup>3</sup> Priododd Siôn Lewis Owain ag Wrsle, merch Rhisiart Mytwn, arglwydd Mawddwy, ac ymddengys i'r ddau roi nawdd pur hael i'r beirdd. Canodd Gruffudd Hiraethog, Wiliam Cynwal, Wiliam Llŷn ac Owain Gwynedd iddo. Medd Wiliam Cynwal, er enghraifft:

Ei wledd sy mor ffri â Chaerllion  
A maeth enwog i bob math ddynion,  
Hardd yw y llyn, a'i fyrddau llawnion  
Ynn fal ynyd, a'i gogau'n flinion;  
Am gynnal y fâl o Fôn - i Gaer-wair,  
Ymhob tyrfa a ffair, oes air i Siôn.

Nid â gwynt bellach, hynach hinion,  
Neu o dir gelltydd adar gwylltion,  
Na llanw moroedd, na llynnau mawrion,  
Na haul ddydd araul uwch gwŷdd aeron,  
Na lleuad i'w stad, astudion' - iaith bêr,  
Ni chyrraedd y sêr mwy no cherdd Siôn.

---

<sup>1</sup> Gw. *Cyd*, tt. 273 - 4. Am hanes teulu Wiliam Glyn, gw. Williams, *Arfon*; idem., 'Hen Deulu Glyn Llifon', *Cymru* LXIX (1925); Glyn Roberts, 'The Glynnnes and the Wynns of Glynllifon', *TCHSG* (1946), tt. 25 - 30.

<sup>2</sup> Roberts, 'Eisteddfod Caerwys 1567', t. 41.

<sup>3</sup> *Ibid.*, tt. 61 - 2; Hughes, 'Rhai o Noddwyr', t. 155.



Â'u parod weddi aed prydyddion  
At lew'n aros, aed telynorion,  
Â'u croywiaith irwych aed crythorion,  
Archant yn un rhodd, rhoes ansoddion,  
I'r Iesu, i'w allu, er ei archollion - byth,  
Yn w'r grasus syth hir goroesi Siôn.<sup>1</sup>

Ymhellach, awgryma Gruffudd Hiraethog fod Siôn yn dipyn o giamstar ar ganu'r delyn:

O Dduw, angylaidd o ddyn  
I roi dwylo ar delyn;  
Ewinedd bysedd mor bêr  
Yn cribo pwnc goreuber;  
Lleisio gwych, lluosog waith,  
Yn frau tyner Frytaniaith.<sup>2</sup>

– ac yn amlwg fe'i cysylltir, oherwydd ei ymwneud ag ail eisteddfod Caerwys mae'n debyg, â rhoi urddas i'r gyfundrefn farddol a cherddorol. Ym marn Wiliam Llŷn, er enghraifft, ef oedd “Llew ac urddas holl gerddwyr”.<sup>3</sup> Fodd bynnag, cerdd Owain Gwynedd i Siôn Lewis Owain sydd o ddiddordeb pennaf, a hynny gan yr ymddengys i'r bardd ei llunio adeg ail eisteddfod Caerwys. Cyfansoddodd Owain, a raddiodd yn bencerdd yn yr eisteddfod, awdl orchestol i Siôn, sef awdl yn cynnwys pedwar mesur ar hugain cerdd dafod. Yn yr awdl hon dywedir bod Siôn yn noddwr ffyddlon – “Os niwl i glêr sy'n ael gwlad, / Siôn Lewis sy'n oleuad” – ac awgryma Owain mai ef ei hun oedd prif fardd Y Llwyn:

Duw a roes beirdd dros y byd  
Er darostwng ar dristyd,

---

<sup>1</sup> Fe'i dyfynnir yn Hughes, ‘Rhai o Noddwyr’, t. 155.

<sup>2</sup> *Ibid.*

<sup>3</sup> *Ibid.*

Ni bu un bardd, o bai'n bur,  
Heb ei nodi i benadur:  
Merddin fu mawr ddewin farn  
Ym mraaisg wawd Emrys gadarn,  
Taliesin at hoyw lysoedd  
Dewin a bardd Elffin oedd,  
Beirdd lu a fu ac a fydd -  
Bardd Ifor bur oedd Ddafydd;  
Bardd wyf, gŵyl berwddof galon;  
Ba radd sy uwch bardd i Siôn?<sup>1</sup>

Ai awgrymu y mae fod ei safle fel bardd i Siôn yn fwy o anrhydedd hyd yn oed nag ennill gradd pencerdd yn yr eisteddfod?

Darganfu Enid Roberts fod tri o gomisiynwyr eisteddfod 1567, sef Siôn Gruffydd Sersiant, Siôn ap Wiliam ap Siôn a Simwnt Thelwal yn perthyn i deulu Coedymynydd, ac fel y gwelwyd eisoes yr oedd gan y teulu hwnnw gysylltiadau amlwg â theulu Mostyn.<sup>2</sup>

O'r tri hyn, yr un sydd o ddiddordeb pennaf ydyw Siôn ap Wiliam ap Siôn, Gellilyfdy. Yr oedd Siôn ap Wiliam ap Siôn yn daid i'r copiwr llawysgrifau enwog, John Jones Gellilyfdy, ac yr oedd yn aelod o deulu diwylliedig iawn. Medd Enid Roberts:

Dichon y gwyddai'r teulu hwn gymaint am lenyddiaeth Gymraeg ag odid un teulu yng Nghymru'r cyfnod. Y tu ôl i waith copio John Jones y mae hir draddodiad. Drocon fe sonia ef am gynnwys llyfrgell ei daid: ymhlith yr 'hen lyfrev kandrell yr hai a vvessynt lyfrev im taid Sion ap Wiliam' cesglir bod copi o ramadeg barddol, Ystatud Gruffudd ap Cynan, copi hen iawn o'r Gwersau Lladin, hen broffwydoliaethau a brudiau, a llawer o awdlau a chywyddau ac englynion, rai ohonynt yn llaw'r beirdd eu hunain. Gwyddent am lawysgrifau Abaty'r Maes Glas, hen lyfrau Dinas Basi. Tybed ai i'r Gellilyfdy yr aeth rhai ohonynt, ac mai felly y dechreuodd John Jones ymddiddori mewn llunio priflythrennau mor gain

---

<sup>1</sup> *Ibid.*

<sup>2</sup> Roberts, 'Eisteddfod Caerwys 1567', t. 42.

ac amrywiol? . Yr oedd amryw o'r teulu'n copio, gan gynnwys o leiaf un o feibion Siôn ap Wiliam ap Siôn - Rhys, Hywel a Wiliam, tad John Jones.<sup>1</sup>

Mae tystiolaeth y beirdd yn ategu diddordeb Siôn ap Wiliam ap Siôn mewn barddoniaeth a llenyddiaeth o bob math. Yn ôl Wiliam Llŷn,

Ba gronigl, ba garennnydd,  
Na wyddai hwn oll 'n ei ddydd?  
Ba arfau'n ddiâu ddwyoes  
Na wybu'r hwn bwy a'u rhoes?<sup>2</sup>

Cyfeiria Wiliam Cynwal hefyd at y ffaith fod Siôn yn gwybod "Achau ac arfau i gyd",<sup>3</sup> a chyfeiria yn ogystal at ei swydd fel comisiynwr yn Eisteddfod Caerwys 1567: "Ei farn [...] oedd dda gynt ar y ddwy gerdd", meddai.<sup>4</sup> Ategir hyn gan Wiliam Llŷn:

Ni bu 'rïoed dyn, heb air twn,  
Cymhwysach mewn comisiwn  
Pan fu 'steddfod ddyfnglod ddwys  
A rhif gwŷr yn nhref Gaerwys.<sup>5</sup>

Efallai, os ydyw awgrym Enid Roberts yn gywir, fod swydd Siôn ap Wiliam ap Siôn fel cyfreithiwr yn ei wneud yn fwy addas byth fel comisiynwr.<sup>6</sup>

---

<sup>1</sup> *Ibid.*, tt. 45 - 6.

<sup>2</sup> Fe'i dyfynnir yn *ibid.*, t. 145.

<sup>3</sup> Fe'i dyfynnir yn *ibid.*

<sup>4</sup> Fe'i dyfynnir yn Charles, 'Noddwyr y Beirdd', t. 38.

<sup>5</sup> Fe'i dyfynnir yn Roberts, 'Eisteddfod Caerwys 1567', t. 45.

<sup>6</sup> Dyfynna Enid Roberts eiriau Wiliam Cynwal a Wiliam Llŷn, geiriau a all awgrymu fod Siôn ap Wiliam ap Siôn yn gyfreithiwr. "Cadarn ym mhob mainc ydoedd", medd Wiliam Cynwal, tra dywed Wiliam Llŷn: "Brawdr cyfraith bur ydoedd, / Barnwr a dyddiwr da oedd." Gw. *ibid.*

Cyfeiriwyd eisoes at y ffaith fod John Jones Gellilyfdy wedi copïo testun o'r Statud – testun W – a'i fod yn honni mai o lawysgrif a oedd yn eiddo i'w daid y copiodd ef. Bu farw Siôn ap Wiliam ap Siôn yn y flwyddyn 1573, felly yr oedd y testun a geid yn ei lawysgrif ef yn dyddio rywdro cyn y flwyddyn honno. Nid enwa John Jones y llawysgrif, ond ymddengys nad oedd y llawysgrif honno yn llaw ei daid gan iddo ddweud fel a ganlyn:

Mav anwyl ddarlleydd ef a ddamweiniodd i mi gaffael rhol o bapyr or eiddo yn haid [...] ac yn ysgrifenedig arno dosbarth y llythrennav o waith Edyrn ap Padarn beisrdd, ac ystatvn Grvffydd ap Kynan a Bleddyn ap Kynvyn ar wyr wrth gerdd, a Dwned Kymraeg yr rhai oeddyn yn ysgrifenedig *o law deg iawn* a minne ai hadysgrifennais yma allan or rhol oll eill troedd<sup>1</sup>

Mae tystiolaeth John Jones yn profi fod gan Siôn ap Wiliam ap Siôn gopi o'r Statud yn ei feddiant, er na ellir gwybod i sicrwydd pa un ai cyn ynteu ar ôl eisteddfod 1567 y daeth i'w feddiant. Fel y gwelwyd eisoes, ymddengys fod y testun a oedd ym meddiant Siôn ap Wiliam ap Siôn yn un pur wahanol i fersiynau eraill o'r Statud. Nid nodi graddau'r gwŷr wrth gerdd a wneir, nac ychwaith restru'r rheolau cyffredinol ynghylch sut yn union y dylent ymddwyn; yn hytrach, cyfeirir at Ruffudd ap Cynan a Bleddyn ap Cynfyn yn llunio rheolau ar gyfer y gwŷr wrth gerdd, a nodir eu bod ill dau wedi deddfu na ddylai gŵr gael swydd na statws bardd neu gerddor heb iddo yn gyntaf gael gradd a chaniatâd eisteddfod, a honno, fe ymddengys, yn un o'r eisteddfodau y dylid eu cynnal unwaith bob tair blynedd. Sonnir am gadw at un grefft neu gelfyddyd, a thrafodir rhywfaint ar swydd y teuluwr a'r clerwr; ond mae'r testun yn cloi ar yr un nodyn ag y

---

<sup>1</sup> Hafod 24, t. 260. Myfi a italeiddiodd rai geiriau yn y dyfyniad. Byddai'n rhyfedd iddo beidio â chyfeirio at y ffaith mai yn llaw ei daid yr oedd y testunau hyn pe bai ei daid wedi digwydd eu copïo.

dechreuodd trwy honni bod Gruffudd ap Cynan a Bleddyn ap Cynfyn wedi cadarnhau rheolau'r gwŷr wrth gerdd a llunio rheolau newydd, yn union fel y gwnaeth Rhys ap Gruffydd yn yr 'eisteddfod' a gynhaliodd yn Aberteifi yn y flwyddyn 1176.<sup>1</sup> Mae crynswth y testun, felly, yn cyfeirio at bwysigrwydd cynnal cyfarfod neu eisteddfod ar gyfer llunio rheolau a chadarnhau hawl y gwŷr wrth gerdd i ddilyn eu proffesiwn. Ai cyd-ddigwyddiad ydyw hyn oll? Ai cyd-ddigwyddiad ydyw fod testun o'r fath wedi cael ei gasglu ynghyd rywdro cyn 1573, efallai tuag adeg eisteddfod 1567, ac ai cyd-ddigwyddiad ydyw fod y llawysgrif a oedd yn cynnwys y testun hwn wedi bod ym meddiant un o gomisiynwyr eisteddfod 1567? Ni ellir profi bod comisiynwyr ail eisteddfod Caerwys wedi mynd ati i ddiwygio'r Statud, er i Wiliam Salesbury awgrymu y dylent wneud hynny, ac ni ellir profi ychwaith fod y testun a geir yn llawysgrif Siôn ap Wiliam ap Siôn yn deillio o gyfnod yr eisteddfod. Fodd bynnag, a ellir awgrymu bod rhywun – efallai ar gais gŵr megis Siôn ap Wiliam ap Siôn – wedi mynd ati i ddewis a dethol rhannau neilltuol o'r Statud naill ai cyn, yn ystod, neu'n fuan ar ôl eisteddfod 1567, gan geisio pwysleisio pwysigrwydd sefydliad fel eisteddfod wrth roi trefn ar y gyfundrefn farddol a'r gyfundrefn gerddorol, a hynny, efallai, er mwyn ceisio sicrhau caniatâd yr awdurdodau i gynnal mwy o eisteddfodau yn y dyfodol?

Cyfylder i Siôn ap Wiliam ap Siôn oedd Siôn Gruffudd Sersiant, a fu farw yn 1580. Yn ôl Wiliam Cynwal bu'n siryf bedair gwaith, a bu'n ustus yn sir y Fflint am ddeugain mlynedd.<sup>2</sup>

---

<sup>1</sup> Nodir mai Rhys ap Tewdwr yn hytrach na'i wŷr, Rhys ap Gruffudd, a gynhaliodd yr eisteddfod yn Aberteifi yn nhestun John Jones, felly mae'n amlwg fod John Jones, copïwr testun ei daid, neu gopiwr rhyw gynsail goll arall, wedi gwneud camgymeriad.

<sup>2</sup> Roberts, 'Eisteddfod Caerwys 1567', tt. 42 - 3.

Simwnt Thelwal<sup>1</sup> oedd y comisiynwr olaf a oedd yn perthyn i deulu Coedymynydd. Hanai o Blas-y-ward, Llanynys, Dinbych, a bu'n briod dair gwaith: yn gyntaf ag Ales, merch Robert Salbri o'r Rug, yna â Siân, merch John Massy o Broxon, Swydd Gaer, ac yna â Margaret. Cyn ei farwolaeth ar y deunawfed o Ebrill, 1586, bu'n Aelod Seneddol dros Ddinbych yn 1552-3 ac yn 1563-7, ac yn 1577 daeth yn aelod o Gyngor Cymru a'r Gororau.<sup>2</sup>

Ymddengys mai'r comisiynwr olaf a oedd yn bresennol yn yr eisteddfod ac a lofnododd drwydded farddol Simwnt Fychan oedd Owain ap Siôn ap Hywel Fychan o Lwydiarth, Llanfihangel-yng-Ngwynfa, Sir Drefaldwyn. Eto bu'n Ustus Heddwch yn ei sir ei hun yn 1560, ac ym Meirionnydd yn 1562 a 1564. (Yr oedd ganddo dŷ yn y sir honno hefyd, yng Nghaer-gai.) Gwelir mai ef oedd yr unig gomisiynwr o'r tu allan i dalaith Aberffraw, er bod y ffaith fod ganddo gartref ym Meirionnydd yn ei gysylltu â thalaith Aberffraw, wrth gwrs. O dalaith Mathrafal y deuai, felly, ac yn wir gwelir bod beirdd a chanddynt gysylltiad â'r dalaith honno wedi eu graddio yn yr eisteddfod. Os felly, nid eisteddfod a oedd yn gyfyngedig i un dalaith ydoedd. Tybed a ydyw hyn yn arwyddocaol? A oedd a wnelo presenoldeb Owain ap Siôn ap Hywel Fychan yn eisteddfod 1567 unrhyw beth â'r fersiwn o'r Statud a oedd yn llawysgrif Siôn ap Wiliam ap Siôn o gofio bod y newidiadau a wnaed i gyfundrefn y gwŷr wrth gerdd yn y testun hwnnw yn cael eu cysylltu â Bleddyn ap Cynfyn o dalaith Mathrafal yn ogystal â Gruffudd ap Cynan o dalaith Aberffraw? Nid ymddengys fod gwŷr wrth gerdd o dalaith Ddinefwr wedi graddio yn yr eisteddfod, ond oni sonnir am osod rheolau a chynnal

---

<sup>1</sup> Simwnt ap Rhisiart ab Edward ab Eubulus ap Simwnt ap Dafydd ap Siôn ap Siôn ap Rhys Fychan oedd ei ach. Gw. *GHCEM*, t. 155.

<sup>2</sup> Gw. *ibid.* tt. 155 - 6.

eisteddfod yn y dalaith honno hefyd yn y fersiwn arbennig hon o'r Statud? Hynny ydyw, a luniwyd y testun hwnnw er mwyn pwysleisio pwysigrwydd cynnal eisteddfodau, ac er mwyn ceisio dwyn Cymru gyfan dan adain y rheolau a bennid yno, a hynny trwy gysylltu'r syniad o lunio rheolau o'r fath â thri o brif arweinwyr tair talaith Cymru?

### *Dyddiad yr Eisteddfod*

O'r holl fanylion a erys ynghylch yr ail eisteddfod a gynhaliwyd yng Nghaerwys, union ddyddiad yr eisteddfod sy'n achosi'r cur pen mwyaf. Dau ddewis sydd, fe ymddengys, sef 1567 a 1568, ac mae tystiolaeth gymharol ddibynadwy ar gael i gefnogi cynnal yr eisteddfod y naill flwyddyn a'r llall.<sup>1</sup>

Mae'r dystiolaeth ynghylch 1568 yn deillio o'r wybodaeth a geir yn y comisiwn brenhinol a roddwyd i swyddogion yr eisteddfod. Fel y gwelwyd eisoes, ceir copi o'r comisiwn yn *RWMI*, tt. 291 - 2, a honna'r sawl a'i copiodd, sef J. Gwenogvryn Evans, fod hwn yn gopi o'r comisiwn gwreiddiol. Arwyddwyd y comisiwn "at our Citie of Chester the xxiiijth of October the nynth yeare of our Raigne",<sup>2</sup> hynny ydyw ar y trydydd ar hugain o Hydref, 1567, a nodir y dylid cynnal yr eisteddfod "the Monday next after the feast of the blessed Trynitee which shalbe in the year of our Lorde god / 1568."<sup>3</sup>

---

<sup>1</sup> Yng Ngramadeg Siôn Rhydderch (testun LL<sup>(1)</sup>, llau. 236 - 7) nodir mewn un man mai yn y flwyddyn 1565 y cynhaliwyd yr eisteddfod: "Hanes yr ail eisteddfod fawr Ynghaerwys yn Sir y Fflint, a gynhaliwyd y 26 dydd o fis Mai yn y flwyddyn o oedran Crist 1565." Ond, ys dywed D. J. Bowen, 'Graddedigion', t. 131, "gwall amlwg" ydyw hyn, gwall argraffu efallai, gan fod y wybodaeth sy'n dilyn y dyddiad 1565 yn nodi mai yn ystod y "nawfed o deyrnas y Frenhines Elizabeth" (LL<sup>(1)</sup>, llau. 236 - 7) y cynhaliwyd yr eisteddfod, sef 1567.

<sup>2</sup> Gw. *RWMI*, t. 292.

<sup>3</sup> *Ibid.*

Y gŵr a aeth ati i oleuo llawer, os nad y cyfan, ar y maes dyrys hwn ydyw D. J. Bowen mewn dwy erthygl a gyhoeddwyd yn *Llên Cymru* yn ystod pumdegau'r ganrif a aeth heibio.<sup>1</sup> Ynddynt, er nad ydyw'n honni mai yn 1568 y cynhaliwyd yr eisteddfod, cyflwyna dystiolaeth o blaid y flwyddyn honno, ac fel y gellid disgwyl mae'n canolbwyntio ar y dystiolaeth a geir yn y comisiwn.

Ni ellir dadlau â D. J. Bowen pan ddywed fod "tystiolaeth y comisiwn yn bendant o blaid derbyn 1568 fel dyddiad yr eisteddfod."<sup>2</sup> Ar y copi o'r comisiwn a geir yn *RWM* I y dibynna D. J. Bowen yn bennaf wrth bwysu a mesur y dystiolaeth o blaid 1568, ac er bod rhai, fel y ceir gweld maes o law, yn amau a ydyw'r copi hwn yn gopi o'r comisiwn gwreiddiol mewn gwirionedd, mae D. J. Bowen yn barnu ei fod yn gopi o'r gwreiddiol, a chyflwyna dystiolaeth sy'n ategu cywirdeb yr wybodaeth a geir yn y copi hwn. Cadarnheir bod yr wybodaeth a geir yn y copi o'r comisiwn a gopiwyd gan J. Gwenogvryn Evans yn gywir gan gopiâu eraill o'r comisiwn. Yn llawysgrif Mostyn 165, t. 486, er enghraifft, ceir adysgrif arall o'r comisiwn, ac yno hefyd nodir mai yn 1568 y dylid cynnal yr eisteddfod. Ar ôl y copi o'r comisiwn yn yr un llawysgrif dywedir: "This Commission was copyed Exactly from the Original now at Mostyn where the Silver Harp is also in the year 1747."<sup>3</sup> Ymhellach ceir copi arall o'r comisiwn (copi sy'n deillio o'r adysgrif a wnaed yn 1693) ar ddechrau Llawysgrif Robert ap Huw, sef llawysgrif BM 14,905, tt. vi - vii, yn llaw Richard Morris mae'n debyg, a thrachefn 1568 ydyw'r

---

<sup>1</sup> Cyfeiriwyd at yr erthyglau hyn eisoes, sef 'Graddedigion', tt. 129 - 34, ac 'Ail Eisteddfod Caerwys', tt. 139 - 61.

<sup>2</sup> Bowen, 'Graddedigion', t. 130.

<sup>3</sup> Gw. idem., 'Ail Eisteddfod Caerwys', t. 140.



dyddiad a geir;<sup>1</sup> a cheir dau gopi arall o'r comisiwn – y ddau eto'n deillio o'r copi a wnaed yn 1693), y naill yn llawysgrif LIGC 5285 a'r llall yn llaw Ieuan Fardd yn llawysgrif Panton 55.<sup>2</sup> Ymhellach, nodir Gerallt Harris fod Syr John Rhys a Syr D. Brynmor Jones yn *The Welsh People* yn honni bod y copi a wnaethant hwy o'r comisiwn yn gopi o'r comisiwn gwreiddiol a oedd ar gael ym Mostyn yn y flwyddyn 1900, a chan fod y copi hwn, yng ngeiriau Gerallt Harris, yn “cyfateb yn ffyddlon i gopi Dr. Evans (Rwm I, 291 0 2) [...], y mae'n rhaid derbyn tystiolaeth y copïau hyn ynglŷn a blwyddyn cynnal yr Eisteddfod.”<sup>3</sup> Mae hyn eto yn awgrymu fod y comisiwn a geir yn *RWMI* yn gopi o'r gwreiddiol, a bod y dyddiadau a geir ynddo wedi eu copïo'n gywir.

Daw'r dystiolaeth arall o blaid 1568 yn rhannol o gyfeiriad y bardd Wiliam Llŷn. Mewn cerdd farwnad i Risiart Thelwal, nodir bardd fod y gwrthrych wedi marw yn ystod 1568:

Oed Duw yn bymtheg cant oedd /  
Trugain wyth trwy gwyn ieithoedd<sup>4</sup>

Ymhellach ceir mwy o wybodaeth ynghylch dyddiad marwolaeth Richard Thelwal uwchben y copi o'r farwnad a luniwyd iddo gan Simwnt Fychan, copi sydd yn llaw Rhisiart ap Siôn o Ysgorlegan (sef mab yng nghyfraith Rhisiart Thelwal). Yno ceir yr wybodaeth a ganlyn:

---

<sup>1</sup> *Ibid.*, tt. 140 - 1.

<sup>2</sup> *Ibid.*, t. 141.

<sup>3</sup> Gw. Harris, 'Ail Eisteddfod Caerwys', t. 31, troednodyn rhif 3.

<sup>4</sup> Gw. Bowen, 'Graddedigion', t. 131.

oed Krist: 1568: y 13 o fis maihevin: ynghylch 65: flwyddyn oi oedran ef<sup>1</sup>

Hynny ydyw, bu farw ar Sul y Drindod, 1568, sef o bosibl y Sul cyn y gellid bod wedi cynnal yr eisteddfod y flwyddyn honno.

Ychwanegir at bwysigrwydd y dystiolaeth hon gan yr wybodaeth fod Rhisiart Thelwal wedi marw yn yr eisteddfod tra oedd yn comisiynu yno. Gwelir hyn yn Llanstephan 158, t. 115, er enghraifft, oherwydd yn y llawysgrif hon ar ddiwedd ach Rhisiart, dyma'r wybodaeth a geir: "The said Rich: the father of all died at kaerwys as he sate vpon his commission a° 1568."<sup>2</sup> Simwnt Thelwal, mab Rhisiart Thelwal, oedd un o gomisiynwyr ail eisteddfod Caerwys, nid Rhisiart ei hun, felly ymddengys nad ydyw manylion yr wybodaeth olaf a ddyfynnwyd yn hollol gywir: ymddengys fod copiwr Llanstephan 158 wedi gwneud camgymeriad trwy ddrysu rhwng y tad a'r mab; "ond yr awgrym yw", medd Gwyn Thomas, "ei fod, er hyn, yn gwbod mai tua Gŵyl y Drindod 1568 y cynhaliwyd yr Eisteddfod."<sup>3</sup>

Dyna'r dystiolaeth bwysicaf o blaid cynnal yr eisteddfod yn 1568.

Fodd bynnag, mae modd chwalu llawer iawn o'r hyn a ddywedwyd uchod i'r llawr, a da o beth fyddai parhau i drafod y dystiolaeth ddiwethaf am ychydig eto.

---

<sup>1</sup> Gw. Harris, 'Ail Eisteddfod Caerwys', t. 27. Gw. hefyd Bowen, 'Ail Eisteddfod Caerwys', t. 149; *EC*, t. 86. Noda D. J. Bowen, 'Ail Eisteddfod Caerwys', t. 149, fod gwybodaeth debyg i'w chael yn llsgr. Card 63, tt. 145 - 59, llsgr. arall a oedd yn perthyn i Risiart ap Siôn, a llsgr. a oedd yn cynnwys marwnadau i Risiart Thelwal gan Simwnt Fychan, Wiliam Cynwal a Wiliam Llŷn. Dyma'r dystiolaeth a geir ynddi: "Rissiarthelwal a ddiweddo[dd] i oes fydawl y 13 o vis maihevin: 1568 ynghylch y 65: flwyddyn o ei oedran."

<sup>2</sup> Gw. Harris, 'Ail Eisteddfod Caerwys', t. 27.

<sup>3</sup> *EC*, t. 86.

Nodwyd uchod bod Rhisiart Thelwal wedi marw ar y trydydd ar ddeg o Fehefin, 1568, a bod modd cysylltu ei farwolaeth â dyddiad eisteddfod Caerwys. Fel y sylwodd D. J. Bowen, fodd bynnag, gan mai ar y Llun cyntaf ar ôl Sul y Drindod 1568 y dylid cynnal yr eisteddfod yn ôl y comisiwn, sef y pedwerydd ar ddeg o Fehefin, mae'n amlwg nad ydyw'r wybodaeth sy'n honni bod Rhisiart wedi marw tra oedd yn eistedd ar gomisiwn yr eisteddfod yn gywir gan y byddai wedi marw cyn i'r eisteddfod ddechrau!<sup>1</sup> Yn ogystal, awgryma perthynas Simwnt Thelwal, sef mab Rhisiart, â'r eisteddfod ac â'i dad nad yn 1568 y cynhaliwyd yr eisteddfod. Yn ôl tystiolaeth Wiliam Cynwal, ymddengys fod Rhisiart Thelwal wedi ei gladdu ddiwrnod ar ôl ei farwolaeth, sef y dydd Llun ar ôl Sul y Drindod 1568 (a diwrnod cynnal yr eisteddfod, os mai yn 1568 y cynhaliwyd hi).

Medd Wiliam Cynwal:

y llvn yr aeth llawn roi i win  
or fv haf ar fyhevin  
oed Jessv nawdd dewis ner  
a mawl hwnn mil a hanner  
Ac wedy yw Roi gida rrain  
aeth ragor wyth a thrvgain  
yw ol yr oedd alar rann  
lais oer yn eglwys ssaeran<sup>2</sup>

Medd D. J. Bowen eto:

Yr oedd Simwnt Thelwal yn gweithredu fel eisteddwr yn yr eisteddfod ddydd Llun ar ôl Gŵyl y Drindod, 1567, fel y prawf y dogfennau perthnasol [...]. Profir ei fod yn bresennol yn yr eisteddfod hefyd gan yr englynion a fu rhwng Wiliam Mostyn ac yntau a Syr Rhys Gruffudd [...]. Gan nad yw'n debyg y gwnâi Simwnt eisteddfota ddiwrnod angladd ei dad, dyma ergyd arall yn nhalcen y

---

<sup>1</sup> Bowen, 'Ail Eisteddfod Caerwys', t. 149.

<sup>2</sup> Fe'i dyfynnir yn Bowen, 'Ail Eisteddfod Caerwys', t. 149, troednodyn 69.

ddadl tros 1568.<sup>1</sup>.

Hynny ydyw, cafodd Rhisiart, tad Simwnt, ei gladdu ar y pedwerydd ar ddeg o Fehefin, 1568, felly gan fod digon o dystiolaeth ar gael i ddangos bod Simwnt yn bresennol yn ail eisteddfod Caerwys, go brin mai ar ddiwrnod claddu ei dad y cynhaliwyd hi. Awgryma hyn, felly, mai yn 1567 y bu.

Amheuir hefyd werth tystiolaeth y copi o'r comisiwn a geir yn *RWMI*, a hynny gan fod y comisiwn gwreiddiol bellach, fe ymddengys, ar goll. O'r herwydd ni ellir bod yn hollol bendant fod yr wybodaeth a erys i ni heddiw yn berffaith gywir. Fel y nodwyd eisoes, mae D. J. Bowen o'r farn fod y copi a geir yn *RWMI* yn gopi o'r gwreiddiol, a'i fod yn gopi ffyddlon a chywir, ond nid ydyw Gerallt Harris ac Enid Roberts mor siŵr.<sup>2</sup> "Un o hil Tomos wyf!": dyna ydyw ymateb Enid Roberts i honiad J. Gwenogvryn Evans, John Rhys a Brynmor Jones iddynt lunio copïau o'r comisiwn gwreiddiol.<sup>3</sup> Ymddengys i mi, fodd bynnag, fod yr wybodaeth a geir yn y copïau o'r comisiwn sydd ar gael heddiw yn debygol o fod yn gywir, a hynny gan fod mwy nag un copi ar gael i gadarnhau'r dystiolaeth, a chan na fyddai'n debygol i bob copiwr wneud yr un camgymeriadau â'i gilydd.<sup>4</sup> Tybed, felly, a fu rhyw gawlio yn y comisiwn gwreiddiol? Fel y sylwodd Enid Roberts, ymddengys mai clerig o Sais o Gyngor Cymru a'r Gororau a luniodd y comisiwn, Sais nad oedd ganddo lawer o wybodaeth am Gymru na'i hiaith. Tybed ai camgymeriad

---

<sup>1</sup> *Ibid.*

<sup>2</sup> Gw. Harris, 'Ail Eisteddfod Caerwys', t. 26; Roberts, 'Eisteddfod Caerwys 1567', t. 33, t. 36.

<sup>3</sup> Roberts, 'Eisteddfod Caerwys 1567', t. 33.

<sup>4</sup> Gw. Bowen, 'Ail Eisteddfod Caerwys', t. 140.

ar ei ran ef a arweiniodd at nodi mai 1568 oedd dyddiad yr eisteddfod?<sup>1</sup>

Mae'r dystiolaeth o blaid cynnal yr eisteddfod ar y dydd Llun cyntaf ar ôl Sul y Drindod 1567, sef y chweched ar hugain o Fai, yn llawer helaethach ac yn gryfach o gryn dipyn na'r dystiolaeth o blaid 1568.

Yn wahanol i dystiolaeth Seisnig, estron y comisiwn, mae'r llawysgrifau Cymraeg sy'n cynnwys gwybodaeth ynghylch ail eisteddfod Caerwys yn nodi mai yn 1567 y'i cynhaliwyd. Llawysgrifau ydyw'r rhain sy'n nodi pwy yn union a raddiodd yn yr eisteddfod – llawysgrifau megis Peniarth 132, 59; LIGC 872, 473; Peniarth 121, 215; Peniarth 144, 268; Card 67, 144; Cw 5, 23; H 24, 642; LIGC 1599, 166<sup>v</sup>; Welsh e. 2,233, Llyfrgell Bodley; BM 14991, 303<sup>r</sup>; BM 14934, 84<sup>r</sup>; BM 15036, 67<sup>2</sup> – ac yn ogystal â nodi'r flwyddyn, sef 1567, nodir ynddynt mai ar y chweched ar hugain o Fai y'i cynhaliwyd, sef dyddiad y dydd Llun cyntaf ar ôl Gŵyl y Drindod, 1567, a dyddiad sy'n cydymffurfio â'r hyn a nodir yn y comisiwn.

Ymhellach, mydryddir blwyddyn cynnal yr eisteddfod mewn englyn y dywedir ei fod wedi ei ganu adeg yr eisteddfod gan Huw Pennant, a raddiodd yn ddisgybl disgyblaidd yno, a'r flwyddyn a geir ganddo ef ydyw 1567:

Pymtheg cant prif ffyniant bôr  
A thrigain a saith ragor<sup>3</sup>

---

<sup>1</sup> Gw. Roberts, 'Eisteddfod Caerwys 1567', t. 36.

<sup>2</sup> Gw. Bowen, 'Graddedigion', t. 131; idem., 'Ail Eisteddfod Caerwys', tt. 153-4; Harris, 'Ail Eisteddfod Caerwys', t. 24, t. 30 (troednodyn rhif 1); Roberts, 'Eisteddfod Caerwys 1567', t. 35.

<sup>3</sup> Fe'i dyfynnir yn *EC*, t. 88. Gw. hefyd Bowen, 'Graddedigion', t. 131; idem., 'Ail Eisteddfod Caerwys', t. 150; Roberts, 'Eisteddfod Caerwys 1567', t. 23.

Hefyd yn y drwydded a roddwyd i Simwnt Fychan pan raddiodd yn bencerdd yn yr eisteddfod, 1567 ydyw'r dyddiad a geir: "y chweched dydd ar hugain o vis Mai [...] pan yw oed Crist mil a hanner a saith a thrugain."<sup>1</sup>

Ymddengys y gall Simwnt Fychan gynnig mwy o dystiolaeth inni o blaid 1567. Lluniodd Simwnt awdl orchestol i Birs Mostyn o Dalacre, a oedd yn un o gomisiynwyr yr eisteddfod. Ceir ugain a rhagor o gopïau o'r awdl mewn llawysgrifau gwahanol, a chysyllta rhai o'r rhain yr awdl â'r eisteddfod, er na nodir beth yn union oedd dyddiad yr eisteddfod.<sup>2</sup> Fodd bynnag, dywed y copi cynharaf o'r awdl sydd ar gael heddiw ei bod wedi ei chanu gerbron yr eisteddfod, ac yn bwysicach fyth nodir bod y copi arbennig hwnnw wedi ei lunio ym Mangor ar yr ugeinfed o Ebrill, 1567. "Y mae'n amlwg", medd Gerallt Harris, "fod Simwnt Fychan wedi ei chyfansoddi cyn dyddiad Eisteddfod Caerwys [...]. Os felly, prin y byddid yn ei chyfansoddi a'i chopïo dros flwyddyn cyn cynnal yr eisteddfod, ac y mae hyn yn cadarnhau'r dystiolaeth dros dderbyn 1567 fel y

---

<sup>1</sup> Gw. Jones, 'Simwnt Fychan', t. 142. Gw. hefyd Bowen, 'Graddedigion', t. 131; idem., 'Ail Eisteddfod Caerwys', t. 150; *EC*, t. 88; Roberts, 'Eisteddfod Caerwys 1567', t. 25. Ychwanega Gerallt Harris, 'Ail Eisteddfod Caerwys', t. 24, yr wybodaeth a ganlyn: "Dogfen arall bwysig sy'n gysylltiedig â'r Eisteddfod yw trwydded simwnt Fychan fel pencerdd. Fe'i cyhoeddwyd lawer tro mewn llyfrau a chylchgronnau, a cheir copïau yn Wynnstay 10, 146v; BM 15022, 248; NLW 1599, 166v; NLW 5285 a NLW 1231, 9. Yn y tair llawysgrif gyntaf y dyddiad a geir yw 1567, ond 1568 yw'r flwyddyn yn y ddwy olaf. Eithr y mae tystiolaeth Wynnstay 10 yn bwysig, fel y dangosodd Mr. E. D. Jones wrth gyhoeddi'r copi, canys fe'i copïwyd gan William Maurice, Cefn-y-braich, o'r ddogfen wreiddiol ym Mhlas-y-ward. Diddorol yw sylwi mai cyfieithiadau Saesneg o'r drwydded yw'r ddau gopi sy'n cynnwys y flwyddyn 1567, ac felly hefyd y copi sydd yn *Some Specimens* Ieuan Brydydd Hir. Yn un ohonynt ceid yn wreiddiol fod yr Eisteddfod i'w chynnal "on ye 26<sup>th</sup>. day of May in ye 9<sup>th</sup>. year of our reign," ond croesodd rhywun "9<sup>th</sup>." allan a rhoi "10<sup>th</sup>." yn ei le. Ymddengys, felly, mai copi William Maurice yw'r un y gellir dibynnu arno, a bod y copïau sy'n cynnwys y flwyddyn 1568 wedi newid y flwyddyn i gydymffurfio â'r dyddiad a geir yng Nghomisiwn y Frenhines."

<sup>2</sup> Harris, 'Ail Eisteddfod Caerwys', t. 25.

flwyddyn.”<sup>1</sup>

Cynigia Wiliam Salesbury dystiolaeth anuniongyrchol ynghylch dyddiad yr eisteddfod hefyd. Ar y chweched o Fai 1567, anfonodd Salesbury llythyr at gomisiynwyr eisteddfod Caerwys, gan amgau copi o Statud Gruffudd ap Cynan ynddo, a chyfeiria at yr eisteddfod a fydd “danoch chwithau ar vyrrder”.<sup>2</sup> Go brin y byddai wedi anfon llythyr o’r fath pe bai’r eisteddfod i’w chynnal fis Mehefin y flwyddyn ganlynol!<sup>3</sup>

Ymhellach, fe allai cerdd o eiddo Owain Gwynedd, y bardd a raddiodd yn bencerdd yn ail eisteddfod Caerwys, daflu peth goleuni ar ddyddiad yr eisteddfod, er na ellir honni bod y dystiolaeth hon cyn gadarned â’r gweddill gan mai mewn penawd uwchben cerdd, yn hytrach nag yn y gerdd ei hun, y ceir y dystiolaeth. Lluniodd Owain Gwynedd gywydd i Siôn Lewis Owain, Dolgellau, un o gomisiynwyr yr eisteddfod. Ceir o leiaf bedwar ar ddeg o gopiau o’r cywydd hwn, ac yn nhri chwarter y rhain dywedir iddo gael ei ganu yn yr eisteddfod a gynhaliwyd yn ystod y nawfed flwyddyn o deyrnasiad Elisabeth, sef 1567.<sup>4</sup>

Yn ogystal, yn llawysgrif Mostyn 131 ceir copïau o englynion a luniwyd yn ail eisteddfod Caerwys yn llaw John Jones o’r Gellilyfdy, a dengys John Jones yn ei ddull manwl arferol y gellir eu holrhain i lawysgrif a luniwyd yn 1567:

---

<sup>1</sup> *Ibid.* Gw. hefyd *EC*, t. 90.

<sup>2</sup> Peniarth 77, t. 165; *RWMI*, t. 512

<sup>3</sup> Gw. Bowen, ‘Graddedigion’, t. 131; idem., ‘Ail Eisteddfod Caerwys’, t. 150; Harris, ‘Ail Eisteddfod Caerwys’, t. 25; *EC*, t. 90.

<sup>4</sup> Gw. Bowen, ‘Ail Eisteddfod Caerwys’, t. 150; Harris, ‘Ail Eisteddfod Caerwys’, t. 25; *EC*, t. 90; Saer, ‘Owain Gwynedd: i Ei Fywyd’, t. 78.

Ac felly y terfyna a ysgrifennwyd ar ôl cyfrif Lloegr pan oedd oed Crist 1589 30 Ianuarii [Ionawr] o gopi a sgrifenasai Llywelyn ap Mathew i Mr Edward Stradling An. Do. 1567, a minnau a'i adsgrifennais o law Rosier Mostyn.<sup>1</sup>

Hefyd yn llawysgrif (Bangor) Mostyn 6476 ceir adran fechan o'r Statud yn llaw Gruffudd Dwinn o Ystrad Merthyr ger Gydweli, adran sy'n nodi sut y gellid ennill ariandlws y cerddor. Ar ddiwedd y paragraff ceir yr wybodaeth a ganlyn:

yr amser i ysgrivennais ysgriven hon pan oedd oed Krist, 1567. dyma vy llaw i Gryffydd Dwinn ar vrys.<sup>2</sup>

Awgryma Enid Roberts ar sail hyn fod Gruffudd Dwn yng Nghaerwys yn 1567, efallai er mwyn gweld rhai o'i ddisgyblion yn graddio yno,<sup>3</sup> a'i fod, o bosibl, wedi copïo'r rhan arbennig hon o'r Statud i Wiliam Mostyn gan mai ef, fel penteulu'r Mostyniaid, oedd yn cyflwyno'r delyn arian i brif gerddor yr ŵyl.<sup>4</sup> Drachefn, awgryma hyn mai yn 1567 y cynhaliwyd yr eisteddfod.

Daw'r dystiolaeth bwysicsaf, fodd bynnag, o du Wiliam Cynwal, a hynny am fod Wiliam Cynwal yn bresennol yn yr eisteddfod, a chan fod y dystiolaeth i'w chanfod yn ei law ei hun. Canodd y bardd hwn – a raddiodd yn ddisgybl pencerddaidd yno – gywydd i'r eisteddfod, a cheir copi ohono yn ei law ef ei hun yn llawysgrif (Bangor) Mostyn 4, 189b. Mydryddir dyddiad yr eisteddfod yn ddiamwys yn y cywydd hwn:

---

<sup>1</sup> Fe'i dyfynnir yn *EC*, t. 88.

<sup>2</sup> Fe'i dyfynnir yn Roberts, 'Eisteddfod Caerwys 1567', t. 61.

<sup>3</sup> Gw. *ibid.*

<sup>4</sup> Gw. *EC*, tt. 94 - 6.



Yn fardd ni allai un fod  
Os dôi wyddfa eisteddfod,  
Y modd y bu llu a llys  
Un rif gwŷr yn nhref Gaerwys,  
Ac oed Iesu, gydoeswr,  
A'i ragorau, gorau gŵr,  
vij a lx, cain y cant,  
Aeth acw a // xv // c<sup>1</sup>

– sef saith a thrigain a phymtheg cant (1567).

Mae'r dystiolaeth o blaid 1567, felly, yn llethol.<sup>2</sup>

Fodd bynnag, fe erys problemau. Sut, er enghraifft, y gallai copi o restr graddedigion yr eisteddfod honni i'r eisteddfod gael ei chynnal trwy rym comisiwn ym mis Mai 1567 er na chafwyd comisiwn tan fis Hydref 1567? Pam mae dyddiad y comisiwn yn ddiweddarach na'r eisteddfod?

Cynigia Gerallt Harris y gellid bod wedi cynnal dwy eisteddfod, neu ddau eisteddiad, un yn 1567 a'r llall yn 1568. Os felly, byddai dyddiad y comisiwn yn gynt na dyddiad yr ail eisteddiad. Awgryma Gerallt Harris hyn ar sail tystiolaeth a geir yn llawysgrif LIGC 1599, 166v. Meddai:

Ceir yno gopi o drwydded Simwnt Fychan, a'r dyddiad 1567 wrtho, ac fe'i dilynir gan gopi o'r rhestr o dan y teitl:- "Llyma belach henwaev [*sic*] y Prydyddion /a/ raddiwyd ar graddav a ynnillasont yn gyfreithlawn yn yr eisteddfahon [*sic*] drwy rym stattus Gruff ap kyanan." Y mae'r gair "eisteddfahon" yn awgrymu fod mwy nag un Eisteddfod, ac ymddengys mai yn Eisteddfod 1567 y graddiwyd Simwnt Fychan yn bencerdd. Hefyd, os gwir yw'r stori fod Rhisiart Thelwal yn un o Gomisiynwyr Eisteddfod 1568, tybed ai'r gwirionedd yw nad yr un oedd y Comisiynwyr yn 1568 ag yn 1567? Hwyrach mai rhestr o gomisiynwyr Eisteddfod 1567 sydd gennym yn y rhestrau o'r graddedigion ac ar ddiwedd

---

<sup>1</sup> Fe'i dyfynnir yn *EC*, t. 92. Gw. hefyd Roberts, 'Eisteddfod Caerwys 1567', tt. 35 - 6.

<sup>2</sup> 1567 ydyw'r dyddiad y mae Charles, 'Teulu Mostyn', t. 86, a Carr, 'The Mostyn Family & Estate', t. 354, yn ei dderbyn hefyd.

trwydded Simwnt Fychan fel pencerdd, - yn arbennig o gofio mai 1567 yw'r flwyddyn yn y rheini.<sup>1</sup>

Fodd bynnag, byddai'n rhyfedd iawn i gymaint o wybodaeth ynghylch comisiynwyr a graddedigion eisteddfod 1567 oroesi, a dim ynghylch rhai eisteddfod 1568. Oni ellir dehongli'r gair 'eisteddfahon' yn wahanol i Gerallt Harris, gan awgrymu mai at yr eisteddiadau gwahanol a gafwyd yn eisteddfod 1567 yn unig y cyfeirir, er enghraifft at eisteddiad y bore, eisteddiad y prynhawn, ac efallai eisteddiad gyda'r nos (gan gymryd yn ganiatâol mai am un diwrnod yn unig y parhaodd yr eisteddfod)? Ymhellach cynigia D. J. Bowen dystiolaeth gadarn iawn dros gredu mai un eisteddfod yn unig a fu yn ystod chwedegau'r unfed ganrif ar bymtheg. Yn gyntaf, at ddau gomisiwn yn unig y cyfeiria'r cais a luniwyd gan nifer o uchelwyr Cymru yn 1594 am gynnal eisteddfod arall, sef un yn amser Harri VIII, a'r llall yng nghyfnod Elisabeth I, a'r awgrym felly ydyw mai dwy eisteddfod yn unig a gafwyd yng Nghaerwys.<sup>2</sup> Hefyd cyfieithiodd Ieuan Fardd annerch i'r Cymry gan Thomas Prys, annerch a welodd mewn llawysgrif a oedd yn perthyn i Edward Lhuyd, a thrachefn at ddwy eisteddfod yn unig y cyfeirir:

An address in Welsh from Thomas Price to his Countreymen, admonishing to cultivate the British language, History & Poetry, &c. He says he never met recorded, any account of our Eisteddfodau except the two held at Caerwys. one in Henry 8<sup>th</sup>, the other in Queen Elizabeth's time.<sup>3</sup>

Ymhellach, wrth nodi pwy a raddiodd yn 1567, nododd John Jones Gellilyfdy yn llawysgrif Hafod 24 mai'r tro hwnnw, sef y chweched ar hugain o Fai, 1567, oedd y tro

---

<sup>1</sup> Harris, 'Ail Eisteddfod Caerwys', t. 27.

<sup>2</sup> Bowen, 'Ail Eisteddfod Caerwys', t. 151.

<sup>3</sup> Gw. *ibid.*

diwethaf i eisteddfod gael ei chynnal yng Nghaerwys – ac fe ddylai ef o bawb wybod gan fod ei daid, Siôn ap Wiliam ap Siôn, yn un o gomisiynwyr yr eisteddfod honno.<sup>1</sup>

Un eisteddfod a fu yng Nghaerwys yn ystod ail hanner chwedegau'r unfed ganrif ar bymtheg felly, fe ymddengys, ac yn ôl pob tebyg yn y flwyddyn 1567 y'i cynhaliwyd.

Os felly, a roddwyd caniatâd comisiwn brenhinol i eisteddfod 1567 cyn ei chynnal o gwbl?

D. J. Bowen, eto, sy'n goleuo'r sefyllfa. Yn ôl trwydded Simwnt Fychan, ac yn ôl un copi o restr graddedigion eisteddfod 1567, fe gynhaliwyd yr eisteddfod trwy rym comisiwn. Ymddengys nad y comisiwn sydd ar gael heddiw oedd hwnnw gan fod y comisiwn a geir heddiw wedi ei ddyddio'n ddiweddarach nag eisteddfod 1567, fel y gwelwyd eisoes. Awgryma D. J. Bowen y gallai'r comisiwn a roddwyd i gynnal eisteddfod 1523 fod mewn grym o hyd yn 1567: ymddengys ei fod mewn grym yn 1546, beth bynnag, pan raddiodd Gruffudd Hiraethog yn ddisgybl pencerddaid gan fod ei drwydded barddol fel disgybl o'r radd honno yn cyfeirio fwy nag unwaith at "rym komisiwn gras y brenin Harri Wythfed".<sup>2</sup> Ai trwy awdurdod comisiwn eisteddfod 1523 y cynhaliodd swyddogion eisteddfod 1567 eu heisteddfod hwy, felly? Ymddengys mai felly y bu. Ond drachefn, mae mwy i'r stori, ac efallai fod a wnelo'r gŵr a oedd yn llywydd i Gyngor Cymru a'r Gororau adeg yr eisteddfod, sef Henry Sidney (1529 - 86) rywbeth â hyn oll.. Yr oedd Sidney a'i deulu yn hoff iawn o farddoniaeth, ac yr oedd yn enwog am noddi beirdd. Ys dywed D. J. Bowen, "ymddiddorai'n ddwfn yn y diwylliant Cymreig: gwelodd Salesbury Lyfr Coch Hergest gydag ef yn Llwydlo, ac ef

---

<sup>1</sup> Gw. *ibid.*

<sup>2</sup> Gw. *ibid.*

a anogodd David Powel i gyhoeddi'i lyfr hanes yn 1584."<sup>1</sup> Gyda gŵr fel hwn wrth y llyw, go brin y byddai Cyngor Cymru a'r gororau yn gwrthod rhoi caniatâd i uchelwyr Cymru gynnal eisteddfod. Fodd bynnag, adeg eisteddfod 1567, ac yn ystod yr adeg y dylid bod wedi cyhoeddi'r eisteddfod, sef undydd a blwyddyn ymlaen llaw, nid oedd Henry Sidney yng Nghymru: o fis Ionawr 1566 ac am ugain mis ar ôl hynny yr oedd yn Iwerddon. Ni ddychwelodd i Loegr tan ddechrau mis Hydref 1567. Tybed a ydyw dyddiad ei ddychwelyd i Brydain yn arwyddocaol o gofio mai yn ystod mis Hydref 1567 yr arwyddwyd y comisiwn sydd gennym ar glawr heddiw? A fu rhyw drefniant rhwng Henry Sidney a swyddogion eisteddfod 1567? A gawsant hwy'r hawl ganddo i gynnal eisteddfod trwy rym comisiwn 1523 ar yr amod eu bod yn cael comisiwn swyddogol yn enw Elisabeth, yn hytrach nag yn enw Harri VIII, ar ôl i Sidney ddychwelyd i Brydain? Ai dyma sy'n esbonio pam y cyfeiria comisiwn Elisabeth at eisteddfod yn 1568? Ymddengys fod rhyw ddryswch ynghylch blwyddyn cynnal yr eisteddfod ychydig flynyddoedd yn unig ar ôl ei chynnal oherwydd yn y cais a wnaed yn 1594 am gael cynnal eisteddfod arall, cyfeiriad digon amhendant a geir at gomisiwn yr ail eisteddfod.

*seuerall Comissions have bene graunted & directed out by your Lordship & executed thone in the tyme of the late kinge Henrie the eighte father to her Majestie and thother at, or aboutes the eighte or nineth yere of her Majesties Raigne that now ys [dureinge the gouvernement of the honourable & worthie knight Syr Henry Sydney then Lord President]*<sup>2</sup>

Yn ystod yr wythfed neu'r nawfed flwyddyn o deyrnasiad Elisabeth, yn ôl y cais hwn, y rhoddwyd comisiwn ar gyfer cynnal eisteddfod 1567, sef yn 1566 neu yn 1567. Efallai

---

<sup>1</sup> *Ibid.*, t. 148.

<sup>2</sup> *RWMI*, t. 294.

y gwyddai'r uchelwyr a luniodd gais 1594 mai yn 1567 (ar ôl i'r eisteddfod gael ei chynnal) y rhoddwyd comisiwn yr ail eisteddfod, ond rhag i hyn amharu ar eu cyfle i gynnal eisteddfod arall tybed a wnaethant gynnwys cyfeiriad at 1566 gan eu bod yn gwybod mai yn ystod y flwyddyn honno, mewn gwirionedd, y dylid bod wedi cael comisiwn ar gyfer yr ail eisteddfod?

Ymddengys, felly, mai yn 1567, ar y chweched ar hugain o Fai, y cynhaliwyd ail Eisteddfod Caerwys. Ymddengys, hefyd, mai absenoldeb llywydd Cyngor Cymru a'r Gororau o Brydain a arweiniodd at gomisiwn hwyr i'r eisteddfod, comisiwn a lofnodwyd ym mis Hydref 1567. Arweiniodd hyn, efallai, at beth dryswch, ac yn hytrach na nodi yn y comisiwn y dylai'r eisteddfod gael ei chynnal ar y Llun cyntaf ar ôl Sul y Drindod 1567, nodwyd mai ar y dyddiad hwnnw yn 1568, sef y dydd Llun ar ôl y Sul y Drindod a ddôi nesaf yn amseryddol, y dylid ei chynnal. Hyn, efallai, sy'n esbonio'r gwahaniaeth rhwng y dyddiadau a geir yn y comisiwn ar y naill law ac yn y ffynonellau eraill ar y llaw arall.

### *Graddedigion Eisteddfod 1567*

Mae enwau'r rhai a raddiodd yn ail eisteddfod Caerwys – yn feirdd, yn gerddorion telyn ac yn gerddorion crwth – i'w canfod mewn nifer o llawysgrifau.<sup>1</sup> Fel y dangosodd ymchwil manwl D. J. Bowen, gellir rhannu'r llawysgrifau'n ddau brif deulu: y cyntaf (teulu A), a gynrychiolir gan y fersiwn a geir yn llawysgrif Peniarth 132, a'r ail (teulu B) a gynrychiolir mewn llawysgrifau megis LIGC 872, Peniarth 121,

---

<sup>1</sup> Gw. Bowen, 'Graddedigion', t. 131.

Peniarth 144, Card 67, Cw 5, H 24, LIGC 35, LIGC 5269, LIGC 8330.<sup>1</sup> Ar y cyfan, mae'r ddau deulu'n cytuno'n weddol â'i gilydd, ond weithiau mae'r naill deulu'n enwi rhai gwŷr nas ceir yn y llall. Dyma grynodedb o'r gwahaniaethau:<sup>2</sup>

**Y graddedigion a enwir  
yn y ddau deulu  
A a B**

**Y graddedigion a enwir  
yn nheulu A yn unig**

**Y graddedigion a enwir  
yn nheulu B yn unig**

### Cerdd Dafod

Pencerddiaid:

Lewis (ab) edwart

Wiliam Llŷn

Simwnt Fychan

Owain Gwynedd

Disgyblion Pencerddaid:

Siôn Tudur

Lewis Menai

Huw Llŷn

---

<sup>1</sup> Gw. *ibid.* Gw. hefyd Harris, 'Ail Eisteddfod Caerwys', t. 24 am enghreifftiau pellach o lawysgrifau sy'n cynnwys y rhestr – e.e. LIGC 13099, LIGC 1599, Card 41, llsg. Welsh e. 2,233 yn Llyfrgell Bodley. O'r rhain, LIGC 1599 yn unig sy'n perthyn i deulu A, tra bod y gweddill yn perthyn i deulu B. Mae'r fersiwn a argraffwyd yng Ngramadeg Siôn Rhydderch (testun LL<sup>(1)</sup>, tt. 187 - 8 o'r gyfrol hon) yn dilyn teulu B, ond ceir rhai gwahaniaethau: nid enwir Lewis ab Edwart; dywedir bod Robert ap Rhys Gwilym a Thomas Môn, yn ogystal â Siams Eutun a Ieuan Penmon yn athrawon crwth; nid enwir Siôn Ednyfed o gwbl; a dywedir bod Tomos Grythor yn ddisgybl pencerddaid yn hytrach nag yn bencerdd. Mae'r copi a argraffwyd yn Thomas Pennant, *Tours in Wales II* (gol. John Rhys), tt. 91 - 3 hefyd yn perthyn i deulu B, ond yn hytrach na dilyn teulu B a galw'r 'Dafydd Llwyd' a raddiodd yn bencerdd telyn yn 'Dafydd Llwyd ab Ieuan ap Rhys', dilynir teulu A a'i alw'n 'Dafydd Llwyd ap Siôn ap Rhys'.

<sup>2</sup> Seilir yr wybodaeth hon ar yr hyn a gyhoeddodd D. J. Bowen, 'Graddedigion', tt. 131 - 3.

Er nad ydyw'r enwau'n cytuno'n union yn A a B, efallai mai'r un gŵr ydyw Tomos Llwyd o Bowys (A) a Tomos Cegidfa (B), yn enwedig o gofio mai gŵr o Fathrafal oedd y Tomos Llwyd Grythor o Gegidfa a enwir yn llsg. Peniarth 147. Efallai hefyd y gellir uniaethu Rhys Grythor Hiraethog (B) naill ai â Rhys Grythor o Lansannan neu â Rhys Grythor o Gerrig-y-drudion (A). Ymhellach, efallai mai'r un un ydyw Dafydd Llwyd ap Siôn ap Rhys (A) a Dafydd Llwyd ab Ieuan ap Rhys (B), ond bod rhyw gamgymeriad yn rhywle wedi digwydd yn enw'i dad.

**Y graddedigion a enwir  
yn y ddau deulu  
A a B**

Wiliam Cynwal  
Bedo Hafais/Hafesb/Hasaff  
Siôn Phylip  
Huw Cornwy/Conwy  
Disgyblion Disgyblaidd:  
Ieuan Tew (Brydydd)  
Huw/Hywel Ceiriog  
Huw Pennant  
Disgyblion Ysbâs:  
Dafydd Alaw

**Y graddedigion a enwir  
yn nheulu A yn unig**

Rhisiart Brydydd  
Edwart Huw o Benllyn

**Y graddedigion a enwir  
yn nheulu B yn unig**

Edward Brynlllys/  
Brwynlllys  
Rhys Gelli/Geli

Cerdd Dant - Telyn

Pencerddiaid:

Siôn ap Rhys Bencerdd Dafydd Llwyd ap Siôn  
Wiliam Penllyn ap Rhys  
Edward ab Ieuan (Delynor)  
Robert ap Hywel Llanfor  
Hwmffre Goch  
Tomas Anwyl  
Hywel/Hwlcyn Llwyd  
Disgyblion Pencerddiaid:  
Robert Llwyd Llywelyn Hwsmon  
Ieuan Penllyn  
Rhisiart Glyn  
Disgyblion Disgyblaidd:  
Huw Dai  
Huw ap Morus  
Siams Morlais/Morlas  
Elis Gruffudd  
Siôn Niwbwrch  
Disgyblion Ysbâs:  
Ieuan ap Maredudd Rhisiart Llwyd  
Lewis Merain/Berain  
Gwalchmai (ap Dafydd)

Dafydd Llwyd ab Ieuan  
ap Rhys  
(Nodir bod Siôn ap Rhys  
Bencerdd, Wiliam Penllyn  
a Hwlcyn Llwyd yn  
athrawon yn ogystal ag yn  
bencerddiaid)

Lewis Llanfor

Cerdd Dant - Crwth

Pencerddiaid:

Siams Eutun  
Ieuan Penmon  
Tomas Môn  
Robert ap Rhys Gutun

(Nodir bod Siams Eutun ac  
Ieuan Penmon yn athrawon  
yn ogystal â  
phencerddiaid)

**Y graddedigion a enwir  
yn y ddau deulu  
A a B**

Tomas Grythor Ddall  
Siôn (ab) Ednyfed  
Disgyblion Pencerddaid:  
Siôn Ddu Grythor  
Disgyblion Disgyblaidd:  
Robert ab Ieuan Llwyd  
Tomas Fychan Grythor/  
Tomas Grythor Bach  
Edward Grythor (Hir)  
Wiliam (ab) Ednyfed  
Disgyblion Ysbâs:  
Rhisiart Conwy  
Robert Conwy

**Y graddedigion a enwir  
yn rheulu A yn unig**

Tomas Llwyd o Bowys  
Rhys Grythor o Lansannan  
Rhys Grythor o Gerrig-y-  
Drudion

**Y graddedigion a enwir  
yn rheulu B yn unig**

Tomas Cegidfa  
Rhys Grythor Hiraethog  
Dafydd ap Hywel Grythor  
Siôn Alaw  
Crythor Llwyd Marchedd

Er bod y mwyafrif llethol o'r llawysgrifau yn perthyn i deulu B, eto i gyd mae teulu A yn bwysig gan mai i'r teulu hwn y perthyn y llawysgrif hynaf sydd ar gael heddiw o blith y rhai sy'n cynnwys rhestr graddedigion eisteddfod 1567.

Ceir mwy o wybodaeth am raddau rhai o'r gwŷr wrth gerdd wrth graffu ar dystiolaeth a geir mewn dwy llawysgrif lle rhestrir rhai o'r beirdd a'r cerddorion a oedd yn perthyn i daleithiau Aberffraw a Mathrafal. Ceir yr wybodaeth hon yn llawysgrif Peniarth 147 a llawysgrif Peniarth 169, ac fel y ceir gweld maes o law fe berthyn yr wybodaeth i'r cyfnod cyn eisteddfod 1567.<sup>1</sup>

Ychydig o baragraffau'n unig a geir, ond maent yn cynnwys gwybodaeth ddiddorol iawn ynghylch rhai o'r gwŷr wrth gerdd a raddiodd yn ail eisteddfod Caerwys. Dyma rai o delynorion talaith Aberffraw:

Hwlkyn llwyd o rythyn dysgybl penkerddiaidd Jhon ap Rys o dir mon or vn radd ond aros isteddfod. Willm penllyn o radd pencerdd yr vn ffynyd. Jenn

---

<sup>1</sup> Dyfynnir yr wybodaeth a geir isod o lsg. Peniarth 147.



delynor o lvn dysgybl perkerddiaith Robert ap hol llanfawr o bwll heli yr vn ffynyd Llewys ap Iankin o ddolgelle or vn radd dai maenan o lan ddoged or vn radd [ ] ap John rys o dir mon or vn radd tomos Anwyl o vaenan yr vn radd Jer vab Jenn delynor or vn radd<sup>1</sup>

Dyma rai o delynorion talaith Mathrafal:

Rys Wyn delynor o bowys dysgybl dysgyblaidd dd llwyd delynor o gydewen or vn radd lewys ap hoell wyn o bowys or vn radd hugh dai o blwy Riwabon or vn radd Richart glyn or vn radd hugh ap morys o lansilyn or vn radd Jhon ao edwart delynor Jhams morlas o groesoswallt dysgybl ysbas Ienn ap mredydd ap hol goch o swydd y wayn dysgybl ysbas<sup>2</sup>

Dyma rai o grythorion talaith Mathrafal:

Jamys eytyn / Grythor o Vaylor pencerdd morys grythor o groesolwallt dysgybl dysgyblaidd Edwart grythor o Riwabon or vn radd Robert ap ifan llwyd o wrexam or vn radd Willm goch grythor o bowys wenwynwyn or vn radd tomas ddall grythor tomas llwyd grythor o gegidfa dysgybl ysbas<sup>3</sup>

Dyma rai o feirdd talaith Aberffraw:

Lewys ap Edwart o vorvari o tegaingl pencerdd, Jhon brwynoc o dir mon pencerdd Simwnt Vychan o ddyfryn Clwyd Jhon tydyr o lanelwy yn hegaingl morys a[p] Ienn ap einion o Vfionydd<sup>4</sup>

Dyma rai o feirdd Mathrafal:

Gruff hir aethog o lan gollen. pencerdd hww arwystl o rwystli morgan Elvel o dre esgob hoell ap S[yr] mathe William llyn dysgybl dysgylaidd Owen ap S[yr] ifan

---

<sup>1</sup> Peniarth 147, t. 203.

<sup>2</sup> *Ibid.*, t. 204.

<sup>3</sup> *Ibid.*, t. 205.

<sup>4</sup> *Ibid.*, t. 203.

or vn radd Jenn tew brydydd dysgybl ysbas<sup>1</sup>

Yma rhestrir enwau cyfarwydd iawn: Hwlcyn Llwyd, Wiliam Penllyn, Ieuan Delynior, Robert ap Hywel Llanfor, Tomas Anwyl, Iorwerth ab Ieuan Delynor, Dafydd Llwyd, Huw Dai, Rhisiart Glyn, Huw ap Morus, Siams Morlas, Ieuan ap Maredudd ap Hywel Goch, Siams Eutun, Edward Grythor, Robert ab Ifan Llwyd, Tomos Grythor (Dall), Tomos Llwyd Grythor, Lewys ab Edwart, Simwnt Fychan, Owain ab Syr Ifan (sef Owain Gwynedd), Wiliam Llŷn, Siôn Tudur ac Ieuan Tew Brydydd, sef beirdd a cherddorion a raddiodd yn ail eisteddfod Caerwys.

Gan na ellir gwybod i sicrwydd union ddyddiad yr wybodaeth a geir yn Peniarth 147 ynghylch graddau beirdd a cherddorion taleithiau Aberffraw a Mathrafal, ni ellir canfod pryd yn union yr enillodd y gwŷr wrth gerdd y graddau a briodolir iddynt yn y llawysgrif. Fodd bynnag, er na ellir canfod union ddyddiad yr wybodaeth, fe ellir ei holrhain i gyfnod arbennig. Fel y gwelwyd, dywedir mai pencerdd ydyw Gruffudd Hiraethog yn y rhestr o feirdd talaith Mathrafal. Mae gwarant Gruffudd Hiraethog fel disgybl pencerddaidd ar gael hyd heddiw, a gellir ei dyddio i c. 1545/6. Bu farw Gruffudd yn 1564, felly gellir dyddio'r wybodaeth a geir ynghylch beirdd a cherddorion taleithiau Aberffraw a Mathrafal i'r cyfnod rhwng dyddiad trwydded Gruffudd fel disgybl pencerddaidd a'i farwolaeth, sef rhwng 1545/6 a 1564.<sup>2</sup> Mae'r wybodaeth, felly, yn goleuo rhywfaint ar yr hyn a ddigwyddodd yng Nghaerwys gan fod modd cymharu'r graddau a feddai'r gwŷr wrth gerdd adeg llunio'r rhestr, sef rhwng 1545/6 a 1564, â'r

---

<sup>1</sup> *Ibid.* t. 204.

<sup>2</sup> Gw. *GGH*, t. xxix.

graddau a gawsant yn yr eisteddfod fel y'u ceir yn rhestrau graddedigion yr eisteddfod.<sup>1</sup>

Ni welwyd newid yng ngraddau naw o'r gwŷr wrth gerdd rhwng 1545/6-1564 a 1567, felly ymddengys mai cael cadarnhau eu graddau a wnaethant yn yr eisteddfod yn hytrach na cheisio am raddau gwell. Wrth gwrs, nodir ym mhob testun o'r Statud sy'n cynnwys cyhoeddiad Eisteddfod Caerwys 1523 mai amcan yr eisteddfod honno oedd cadarnhau graddau'r rhai a oedd wedi graddio gynt yn ogystal â graddio gwŷr o'r newydd. Dyma'r rhai yr ymddengys iddynt gael cadarnhau'r graddau a feddent eisoes yn eisteddfod 1567:

Lewis ab Edwart, bardd o dalalith Aberffraw	pencerdd
Wiliam Penllyn, telynor o dalaith Aberffraw	pencerdd
Siams Eutun, crythor o dalaith Mathrafal	pencerdd
Ieuan Delynior, telynor o dalaith Aberffraw	disgybl pencerddaidd
Huw Dai, telynor o dalaith Mathrafal	disgybl disgyblaidd
Huw ap Morus, telynor o dalaith Mathrafal	disgybl disgyblaidd
Edward Grythor (Hir), crythor o dalaith Mathrafal	disgybl disgyblaidd
Robert ab Ifan Llwyd, crythor o dalaith Mathrafal	disgybl disgyblaidd
Ieuan ap Maredudd, telynor o dalaith Mathrafal	disgybl ysbâs

Ymddengys fod y gweddill o'r gwŷr wrth gerdd a enwir yn Peniarth 147 ac yn rhestr graddedigion eisteddfod 1567, fodd bynnag, wedi esgyn yn uwch ar ysgol eu celfyddyd gan fod y graddau a nodir wrth eu henwau yn rhestr graddedigion yr eisteddfod yn uwch na'r graddau a briodolir iddynt yn Peniarth 147. Dyma grynodedeb o'u graddau:

---

<sup>1</sup> Ni ellir gwneud hyn gyda Simwnt Fychan, Siôn Tudur a Tomas Grythor Dall, fodd bynnag, oherwydd er iddynt gael eu henwi yn y rhestr ni nodir eu graddau.

<b>Y gwŷr wrth gerdd</b>	<b>Eu graddau rhwng 1545/6 a 1564</b>	<b>Eu graddau yn 1567</b>
Hwlcyn Llwyd, telynor o dalaith Aberffraw	disgybl pencerddaidd	pencerdd (ac athro)
Siôn ap Rhys Bencerdd, telynor o dalaith Aberffraw	disgybl pencerddaidd	pencerdd (ac athro)
Robert ap Hywel Llanfor, telynor o dalaith Aberffraw	disgybl pencerddaidd	pencerdd
Tomos Anwyl, telynor o dalaith Aberffraw	disgybl pencerddaidd	pencerdd
Iorwerth ab Ieuan Delynior, telynor o dalaith Aberffraw	disgybl pencerddaidd	pencerdd
Dafydd Llwyd (?), telynor o dalaith Mathrafal	disgybl disgyblaidd	pencerdd
Rhisiart Glyn, telynor o dalaith Mathrafal	disgybl disgyblaidd	pencerdd
Siams Morlas, telynor o dalaith Mathrafal	disgybl ysbâs	disgybl disgyblaidd
Tomos Llwyd Grythor (?), crythor o dalaith Mathrafal	disgybl ysbâs	disgybl disgyblaidd
Wiliam Llŷn, bardd o dalaith Mathrafal	disgybl disgyblaidd	pencerdd
Owain Gwynedd, bardd o dalaith Mathrafal	disgybl disgyblaidd	pencerdd
Ieuan Tew Brydydd bardd o dalaith Mathrafal	disgybl ysbâs	disgybl disgyblaidd

Mae'r mwyafrif o'r rhain wedi esgyn un gris yn uwch – pump o radd disgybl pencerddaidd i radd pencerdd (sef Hwlcyn Llwyd, Siôn ap Rhys Bencerdd, Robert ap Hywel Llanfor, Tomos Anwyl ac Iorwerth ab Ieuan Delynor), un o radd disgybl disgyblaidd i radd disgybl pencerddaidd (sef Rhisiart Glyn), a dau o radd disgybl ysbâs

i radd disgybl disgyblaidd (sef Siams Morlas a Thomos Llwyd Grythor). Cododd tri o'r gwŷr wrth gerdd o radd disgybl disgyblaidd i radd pencerdd (sef Dafydd Llwyd Delynor, Owain Gwynedd a Wiliam Llŷn).

Beth yn union ydyw arwyddocâd hyn oll?

Ni ellir dweud yn bendant mai ennill eu graddau yng Nghaerwys a wnaeth pob un o'r gwŷr hyn: efallai i rai ohonynt eu hennill mewn neithiorau cyn yr eisteddfod – ond ar ôl y cyfnod y mae gwybodaeth Peniarth 147 yn tarddu ohono, sef ar ôl 1564 – ac yna, iddynt gael eu cadarnhau yn eisteddfod 1567. Ond mae'n debyg fod rhai, o leiaf, wedi ymgeisio am radd newydd yn yr eisteddfod, a'i chael yno.

Gan fod modd canfod y cyfnod pan luniwyd y rhestr o'r beirdd a'r cerddorion fel y'i ceir yn Peniarth 147, gellir canfod rhywfaint mwy ynghylch faint o amser a gymerai i'r gwŷr wrth gerdd a raddiodd yng Nghaerwys ennill eu graddau. Mewn rhai fersiynau o'r Statud ceir gwybodaeth ynghylch hyd y gwahanol raddau. Yn ôl y rhan fwyaf o'r rhain, am dair blynedd yn unig y dylid aros yn yr un radd (er bod B a H yn nodi y gellid aros yn ddisgybl disgyblaidd am byth). Ymddengys, felly, y byddai esgyn o safle disgybl ysbâs heb radd i safle pencerdd (gan raddio'n ddisgybl ysbâs graddol, yn ddisgybl disgyblaidd ac yn ddisgybl pencerdddaidd yn y cyfamser) yn cymryd deuddeng mlynedd. Sut, felly, mae cysoni hyn â'r wybodaeth a geir yn Peniarth 147 a rhestr graddedigion 1567? Sut, ar y naill law, y gallai Ieuan Delynor, er enghraifft, aros yn ddisgybl pencerdddaidd am gyfnod mor faith (sef rhwng 1545/6 i 1564 a 1567) o gofio bod Wiliam Llŷn ac Owain Gwynedd, ar y llaw arall, wedi esgyn o radd disgybl disgyblaidd i radd pencerdd o fewn yr un amser?

A ellir awgrymu mai rheolau 'delfrydol' oedd y rheolau a geid yn y Statud a nodai hyd y gwahanol raddau? Ymddengys y cymerai lawer o flynyddoedd i ddisgybl

ysbâs raddio'n bencerdd, a hynny gan fod cymaint o waith dysgu'r gelfyddyd a'i meistrioli; ond er nodi y dylid gostwng gradd gŵr wrth gerdd pe bai'n oedi'n rhy hir yn ei radd bresennol, a weithredid hynny mewn gwirionedd?

Nodwyd eisoes fod B a H yn honni y gellid aros yn ddisgybl disgyblaidd am byth pe dymunid gwneud hynny, sef y radd ganolig, heb fod yn wych nac yn wael. Y radd arall na ellid ei 'cholli', fe ymddengys, oedd gradd pencerdd, a hynny gan mai'r unig gam pellach i'w gymryd oedd ceisio am ariandlws a dod yn athro'r dalaith. Nid oedd yn rhaid i unrhyw bencerdd ymgeisio am ariandlws ac, wrth gwrs, ni ellid ymgeisio am ariandlws pe bai pencerdd arall yn digwydd ei hawlio ar y pryd. Os felly, ar ôl dod yn bencerdd gellid aros yn y radd honno am byth.

Yn ôl rhai testunau, felly, yr oedd safle a statws a gradd y disgybl disgyblaidd a'r pencerdd yn ddiogel am byth pe na ddymunai'r sawl a oedd yn berchen ar y graddau hyn ymgeisio am raddau gwell. Mae'n ddiddorol gweld, felly, fod saith gŵr o blith y naw a enwyd uchod fel y rhai a arhosodd yn yr un graddau rhwng 1545/6-1564 a 1567 naill ai'n ddisgyblion disgyblaidd neu'n bencerddiaid:

Lewys ab Edwart	-	pencerdd
Wiliam Penllyn	-	pencerdd
Siams Eutun	-	pencerdd
Huw Dai	-	disgybl disgyblaidd
Huw ap Morus	-	disgybl disgyblaidd
Edward Grythor	-	disgybl disgyblaidd
Robert ab Ifan Llwyd	-	disgybl disgyblaidd

Awgryma'r dystiolaeth hon fod rheolau'r Statud yn cael eu gweithredu yn hyn o beth.

Fodd bynnag, mae dau arall a arhosodd yn yr un graddau rhwng 1545/6-1564 a 1567, fel y gwelwyd eisoes, sef Ieuan Delyniol, a arhosodd yn ddisgybl pencerddiaid, ac Ieuan ap Maredudd, a arhosodd yn ddisgybl ysbâs. Ymhellach, fel y gwelwyd eisoes,

fe raddiodd gŵr o'r enw Rhys Grythor yn ddisgybl disgyblaidd yn eisteddfod 1523, ond gwrthododd ei radd am ei fod yn dymuno ennill gradd well, mae'n debyg. Yn ddiddorol ddigon graddiodd gŵr o'r enw Rhys Grythor yn ddisgybl disgyblaidd yn eisteddfod 1567, ac ni ellir anwybyddu'r posibilrwydd mai'r gŵr a raddiodd yn 1523 ydoedd. Os felly, yn ôl rheolau'r Statud, dylid bod wedi gostwng gradd Rhys i radd disgybl ysbâs. Efallai i hyn ddigwydd; ond pa un bynnag a ddigwyddodd ai peidio, ymddengys fod Rhys wedi llwyddo i ennill bywoliaeth yn bur ddidrafferth naill ai fel disgybl ysbâs neu fel disgybl disgyblaidd, a hynny am gyfnod o bron i bum mlynedd a deugain!

Efallai, felly, fod rhywfaint o rym i'r rheol a nodai y gallai disgybl disgyblaidd (a phencerdd, yn anuniongyrchol) aros yn y radd honno am byth. Efallai hefyd, yn wreiddiol, y credid na ddylid estyn y fath fraint i ddisgyblion ysbâs a disgyblion pencerddaidd – am nad oedd gradd ysbâs yn ddigon disglair, ac am fod gradd bencerddaidd yn rhy dda i loetran uwch ei phen heb geisio am y radd olaf un, efallai. Ond ymddengys fod cryn dipyn o lacio wedi bod ar y rheol hon, os bu grym iddi o gwbl, ac ymddengys fod y gwŷr wrth gerdd – erbyn ail hanner yr unfed ganrif ar bymtheg, o leiaf – yn cael aros mewn unrhyw radd heb fod rheidrwydd arnynt i geisio am y radd nesaf. Aros yn yr un graddau am flynyddoedd lawer a wnaeth Ieuan Delyniol, Ieuan ap Maredudd ac eraill, ac nid ymddengys eu bod wedi cael eu cosbi am wneud hynny mewn unrhyw ffordd.<sup>1</sup>

---

<sup>1</sup> Am fanylion ynghylch bywyd a gwaith y beirdd a raddiodd yn eisteddfod 1567, gw. yr erthyglau a restrir gan Dyfrig Davies yn 'Graddedigion Ail Eisteddfod Caerwys, 1567', *B XXIV*, rhan 1 (Tachwedd, 1970), tt. 30 - 9. Hefyd gw. *GHO*, t. 62; Charles, 'Teulu Mostyn', t. 87; Edwards, *Yr Eisteddfod*, t. 15; *HCCMC*, t. 125; D. Hywel E. Roberts, 'Huw neu Hywel Ceiriog: Disgybl Disgyblaidd', *B XXIV*, rhan 1 (Tachwedd, 1970), tt. 39 - 42; Roberts, 'Eisteddfod Caerwys 1567', t. 48, tt. 50 - 4; idem., 'Rhagor am Siôn Tudur yn Llundain', *TCHSDd XIX* (1970), tt. 103 - 7; idem., 'Siôn Tudur', *LIC II*, (1952 - 53), tt. 82 - 95; *TB*, t. 228; *EC*, tt. 96 - 8, t. 102; *RRR*, t.

## *Comisiwn Brenhinol yr Eisteddfod*

Fel y nodwyd eisoes, fe gafodd swyddogion eisteddfod Caerwys 1567 ganiatâd brenhinol i gynnal yr eisteddfod, ac mae rhai copïau o'r comisiwn hwnnw ar gael heddiw, comisiwn a lofnodwyd yng Nghaer ar y trydydd ar hunain o Hydref, 1567.<sup>1</sup> Yn y comisiwn, a roddwyd trwy awdurdod Elisabeth I, fe enwir swyddogion yr eisteddfod, fe grybwyllir pam fod angen cynnal eisteddfod o'r fath, a chyfeirir at y ffaith mai Caerwys oedd y lle arferol i gynnal eisteddfod. Nodir hefyd y dylid cyhoeddi'r eisteddfod undydd a blwyddyn o leiaf ymlaen llaw ymhob ffair a marchnad a thref ym Môn, Arfon, Meirionnydd, Dinbych a Fflint, ac y dylai rhai, neu bob un o'r comisiynwyr, fod yn bresennol yn yr eisteddfod, gan raddio'r teilwng a'u trwyddedu, a chanfod gwaith i'r gweddill, a sicrhau "[that] peas and good order be observed and kept accordingly".<sup>2</sup> Sylwer mai mewn pum sir yn unig, yn ôl tystiolaeth y comisiwn, y dylid cyhoeddi'r eisteddfod, sef pum sir y gogledd, ac yn nes ymlaen yn y comisiwn, pan gyfeirir at y beirdd a'r cerddorion sy'n dymuno ennill gradd, cyfeirio at y rhai o fewn talaith Aberffraw a wneir, nid at feirdd unrhyw dalaith arall. Er i ambell wŷr wrth gerdd o dalaith Mathrafal raddio yn yr eisteddfod, ac er bod un o gomisiynwyr yr eisteddfod yn hanu o'r dalaith honno, ymddengys mai eisteddfod yn benodol ar gyfer gwŷr wrth gerdd

---

442; Hughes, 'Rhaid o Noddwyr y Beirdd yn Sir Feirionnydd', t. 156; Saer, 'Owain Gwynedd', t. 78, t. 80, tt. 194 - 207; *SHW*, t. 47; Gruffydd, 'Yr Iaith Gymraeg', t. 345; *GHCEM*, tt. xv - xvii; Am wybodaeth ynghylch y cerddorion a raddiodd gw. *LICD*, t. 172, t. 180, t. 182, t. 186, t. 187, t. 203, t. 204, t. 214, t. 215, tt. 244 - 5, t. 270, t. 281, t. 282, t. 283, t. 309, t. 310, t. 314, t. 315; Harper, 'Llawysgrif Robert ap Huw', t. 175, t. 177; Ifor ap Gwilym, *Y Traddodiad Cerddorol*, t. 44; Jones, 'Simwnt Fychan', tt. 141 - 2.

<sup>1</sup> Gw. gopi o'r comisiwn gwreiddiol yn *RWMI*, tt. 291 - 2.

<sup>2</sup> Gw. *ibid.*, t. 292.



y gogledd o fewn talaith Aberffraw oedd Eisteddfod 1567, yn llygaid y goron o leiaf. Hynny ydyw, eisteddfod oedd a leolwyd yn nhalaith Aberffraw ar gyfer graddio a thrwyddedu beirdd a cherddorion y dalaith honno ydoedd.

Fe gafwyd caniatâd brenhinol ar gyfer eisteddfod 1567, felly, ond ni ellir profi bod caniatâd o'r fath wedi cael ei roi i eisteddfod 1523, a hynny gan nad oes comisiwn brenhinol ysgrifenedig y gellir ei gysylltu ag eisteddfod 1523 wedi goroesi. Fodd bynnag, er nad oes comisiwn felly ar gael heddiw, ceir cyfeiriadau yma ac acw sy'n awgrymu'n gryf fod dogfen o'r fath wedi cael ei anfon at swyddogion yr eisteddfod honno hefyd.

Fe wnaed cais ar gyfer cynnal eisteddfod arall i Gyngor Cymru a'r Gororau yn y flwyddyn 1594, cais a gafodd ei wrthod. Serch hynny, fe gynnwys y cais hwn wybodaeth a all daflu goleuni ar sefyllfa eisteddfod 1523. Sonnir am ryw "former Comissions", gan awgrymu bod mwy nag un wedi ei roi; ac yn wir, cyfeirir yn ddiamwys at gomisiwn a roddwyd yn ystod teyrnasiad Harri VIII, hynny ydyw yn ystod cyfnod eisteddfod 1523:

*seuerall Comiossions have bene graunted & directed out by your Lordship & executed thone in the tyme of the late kinge Henrie the eichte father to her Majestie and thother at, or aboutes the eichte or nineth yere of her Majesties Raigne that now ys [dureinge the gouernment of the honourable & wirthie knight Syr Henry Sydney then Lord President] the recordes wherof (as we take) remayne with your good Lordship<sup>1</sup>*

Ymhellach, wrth drafod eisteddfod 1523 fe gynnwys ambell destun o'r Statud gyfeiriad at gomisiwn. Y testunau cynharaf i gynnwys hyn, hyd y gwyddys, ydyw D ac E, y naill wedi ei ysgrifennu c. 1566 a'r llall c. 1570. Sonia D am ddyddiad yr

---

<sup>1</sup> Gw. *RWMI*, t. 294.

eisteddfod – dywed iddi gael ei chynnal yn ystod y bymthegfed flwyddyn o deyrnasiad Harri VIII, ac yna, yn syth wedyn, honna ei bod wedi ei chynnal “drwy gomisiwn yr vn enwedic brenin”.<sup>1</sup> Dywed E yn ogystal fod yr eisteddfod wedi ei chynnal “o rym comisiwn”.<sup>2</sup> Fel y gwelwyd eisoes, ni pherthyn testunau D ac E i’r un gangen neu i’r un teulu, felly ymddengys nad ydyw’r naill wedi ‘benthyg’ yr wybodaeth oddi ar y llall. Awgryma hyn fod testun neu destunau cynharach, rhai a gollwyd erbyn hyn, wedi cynnwys cyfeiriad at y comisiwn, a gallai dyddiad testun neu destunau o’r fath fynd â ni’n nes o lawer at ddyddiad eisteddfod 1523.

Gellid dadlau, wrth gwrs, fod D ac E wedi cyfeirio at gomisiwn 1523 oherwydd dylanwad yr ail eisteddfod. Lluniwyd y ddau destun, fel y gwelwyd eisoes, naill ai yn union cyn neu’n fuan ar ôl eisteddfod 1567, ac felly yn union cyn neu’n fuan ar ôl y comisiwn a’i hawdurdododd; ac oni bai am ddernyn o dystiolaeth pwysig arall, gellid awgrymu bod llunwyr/copïwyr D ac E wedi cyfeirio at gomisiwn 1523 gan eu bod wedi clywed sôn am wneud cais am gomisiwn ar gyfer eisteddfod 1567.

Fodd bynnag, mae’r dystiolaeth olaf yn bwysig ac arwyddocaol, a hynny’n bennaf gan ei bod yn gynharach o dipyn na 1567, ac felly yn llawer nes at gyfnod eisteddfod 1523. O’r herwydd, mae’n fwy tebygol o fod yn dystiolaeth ddibynadwy.

Cyfeiriwyd eisoes at Ruffudd Hiraethog ac at ei raddio fel disgybl pencerddaidd yn 1545/6. Yn y drwydded sy’n tystio i’w radd, cyfeirir sawl gwaith at ‘rym comisiwn’ – er enghraifft, dywedir bod Lewys Morgannwg, athro Gruffudd, yn bencerdd ac athro cerdd dafod trwy siroedd a thaleithiau Cymru, a’i fod felly “trwy rym komisiwn gras y

---

<sup>1</sup> Gw. testun D, ll. 4.

<sup>2</sup> Gw. testun E, llau. 3 - 4.

brenin harri wythfed or henw brenin lloegr ffreingk ac ewerddon”.<sup>1</sup> Ymhellach, cyfeirir at y ffaith fod Siams Fychan, Huw Dafydd ap Lewys a Lewys Morgannwg, “trwy rym yr vn komisiwn”,<sup>2</sup> yn tystiolaethu fod Gruffudd Hiraethog yn haeddu ennill gradd disgybl pencerddaid. Pa gomisiwn a roddodd Harri VIII a roddai’r hawl i rai ddeddfu ynghylch sut i raddio beirdd? “Ymddengys”, medd D. J. Bowen, “[...] mai apelio at awdurdod y comisiwn a roddwyd ar gyfer eisteddfod 1523 a wneir yn y warant.”<sup>3</sup>

### *Lle yng Nghaerwys y cynhaliwyd yr Eisteddfod?*

Awgrymwyd eisoes mai dan nawdd y Mostyniaid y cynhaliwyd eisteddfod 1523 ac eisteddfod 1567, felly gellir dadlau mai cyfrifoldeb y ddau a ddigwyddai fod yn benteulu ar y pryd oedd ymorol am le i gynnal yr eisteddfodau.

Yn ôl tystiolaeth Simwnt Fychan, bardd a raddiodd yn 1567, dan gysgod onnen y cynhaliwyd yr eisteddfod:

Dan onnen lasnen, dyna lwysnaid - beirdd  
Gyda barn penaethiaid,  
Di-gêl eisteddfod a gaid  
Yng Nghaerwys, drwy’r cynghoriaid.<sup>4</sup>

Ymhelaetha Siôn ap Tomos ar hyn, gan awgrymu fod yr onnen gerllaw croesffordd:

Cwmpas tew dulas tŷ deiliog - gwyrddail

---

<sup>1</sup> Fe’i dyfynnir yn *GGH*, t. xxvi.

<sup>2</sup> Fe’i dyfynnir yn *ibid.*

<sup>3</sup> Gw. *ibid.*, t. xxvii.

<sup>4</sup> Fe’i dyfynnir yn Roberts, ‘Eisteddfod Caerwys 1567’, t. 23. Gw. hefyd Bowen, ‘Dafydd ab Edmwnnt’, t. 442; Edwards, *Yr Eisteddfod*, t. 14.

Lle i gerddwyr godidog;  
Cylch da eu cerdd, clochdy cog,  
Croes onnen Caerwys enwog.

Pêr ydyw pren paradwys - a difai  
A dyfodd yn gymwys,  
A than ei brig mae dig dwys  
Anguriol onnen Gaerwys.<sup>1</sup>

Yr unig groesffordd bosibl a allai fod gerllaw lleoliad yr eisteddfod yng Nghaerwys, fe ymddengys, ydyw'r groesffordd a geir ar sgwâr y dref.<sup>2</sup> Cyfeiria Geraint Bowen at dystiolaeth a geir ynghylch eisteddfod arall a gynhaliwyd mewn neuadd yng Nghaerwys – ond eisteddfod dra gwahanol, wrth gwrs, a gynhaliwyd fwy na dwy ganrif yn ddiweddarach. Dyma'r wybodaeth a geir am yr eisteddfod honno:

Boed hysbys i'r BEIRDD, TELYNORION A'R CANTORION, y cynhelir EISTEDDFOD yn Nyddiau y Sulgwyn, yn y flwyddyn 1798 sef dau oed Undydd-a-Blwyddyn, yng Nghaerwys, ac yn yr hen Neuadd, yn ol erchiad, ac ar draul Cymdeithas y Gwyneddigion yn Llundain, dan lywiad y Parchedigion Robert Thomas, Peter Whitley, Robert Williams, Llywelyn Llwyd a Walter Davies ac hefyd Dafydd Ddu Eryri, Fardd Cadeiriog ac amryw ereill o ddoethion Cymru. Y TESTUN, 'CARIAD I'N GWLAD DRWY ADGYFODIAD YR HEN EISTEDDFOD A DEFODAU CYMRU'. Dalier sylw, - Gwobrwyir y Beirdd, Telynorion a'r Dadgeiniaid yn ol eu gradd a'u teilyngdod. Agorir y Neuadd Ddydd Mawrth y Sulgwyn, 1798. Bydd gymhwys i'r Beirdd ddanfôn eu gwaith at y Parchedig Mr. Iwyd o Gaerwys oddeutu mis cyn y cyfnod. Y neuadd hynod, a sonier am dani uchod, yw y lle y cynnaliwyd yr Eisteddfod orchestol, drwy orchymyn y Frenhines Elizabeth yn y flwyddyn 1567.<sup>3</sup>

Yn amlwg fe batrymwyd y cyhoeddiad hwn ar gyhoeddiad Eisteddfod Caerwys 1523;

---

<sup>1</sup> Fe'i dyfynnir yn Roberts, 'Eisteddfod Caerwys 1567', t. 32. Trafodir arwyddocâd yr englynion yn yr erthygl hon hefyd.

<sup>2</sup> Gw. *EC*, t. 96.

<sup>3</sup> Fe'i dyfynnir yn Geraint Bowen, 'Beirdd Ynys Prydain ac Eisteddfod Caerwys', *Tal* LII (1985), t. 45.

ond a ellir derbyn yn ddigwestiwn dystiolaeth mor ddiweddar â 1798 ynghylch union leoliad yr eisteddfod yng Nghaerwys? Fel y sylwodd Enid Roberts, arferid cynnal eisteddfodau mawrion y Canol Oesoedd yn llysoedd yr uchelwyr a'u noddai, felly a all yr un peth fod yn wir ynghylch eisteddfod 1567? Meddai:

Yn ôl traddodiadau a gadwyd am eisteddfodau cynnar – eisteddfodau yr Arglwydd Rhys yng nghastell Aberteifi, 1176, ac eisteddfod Gruffudd ap Nicolas yng Nghaerfyrddin c. 1451 – yn llysoedd yr uchelwyr y cynhelid hwy. Pan nad oedd eisteddfod câi'r beirdd eu graddio mewn neithiorau yn llysoedd yr uchelwyr. Y mae'n rhesymol casglu mai mewn llys uchelwr y cynhaliwyd eisteddfodau Caerwys hefyd, ac o gysylltu tystiolaeth y ddogfen a thystiolaeth yr englynion, tybed nad dyma'r fan, y tŷ hwn o eiddo teulu Mostyn ger sgwâr Caerwys? Bychan oedd Plas Mostyn ar y pryd; nid cyn 1570 y dechreuodd Wiliam Mostyn ei helaethu. Gallai'r tŷ hwn yng Nghaerwys fod yn ehangach, yn fwy 'modern' ac yn hwylusach at groesawu tyrfa. A feiddiaf awgrymu mai dyna'r gwir resymau dros gynnal eisteddfodau yng Nghaerwys, a thros flaenoriaeth teulu Mostyn ynddynt?<sup>1</sup>

Fodd bynnag, ai mewn tŷ y cynhaliwyd holl weithgareddau'r eisteddfod? Mae rhai o'r englynion a luniwyd i onnen Caerwys yn awgrymu lleoliad arall, yn ogystal. Yn amlwg, dewisiwyd onnen y dref yn destun i'r beirdd ganu arno, ac fel y gellid disgwyl dyrchefir y gwrthrych. Ond oni ellir darllen llawer o'r hyn a ddywedir yn yr englynion yn llythrennol, a thrwy hynny awgrymu'n betrus fod rhai o weithgareddau'r eisteddfod wedi eu cynnal yn yr awyr agored dan ganghennau'r goeden? Honna Simwnt fod yr eisteddfod wedi ei chynnal "dan onnen lasnen", ac mewn englyn a dadogir ar Wiliam Cynwal dywedir mai "Dann onnen frig uchel" y'i cynhaliwyd.<sup>2</sup> Ymhellach, "is dail ag irwydd", medd Huw Ceiriog, y bu'r eisteddfod.<sup>3</sup> Cymerwyd yn ganiataol mai mewn

---

<sup>1</sup> Roberts, 'Eisteddfod Caerwys 1567', tt. 32 - 3.

<sup>2</sup> Gw. Roberts, 'Eisteddfod Caerwys 1567', t. 58, t. 59.

<sup>3</sup> Gw. *ibid.*, t. 58; *GHCEM*, t. 36, t. 163.

adeilad islaw'r onnen, gyda'r goeden yn cysgodi'r adeilad, y cynhaliwyd yr eisteddfod. Ond tybed? Onid oes posibilrwydd bychan fod rhai o weithgareddau'r eisteddfod wedi eu cynnal yn union dan yr onnen warcheidiol hon ar sgwâr y pentref yn yr awyr agored gyda'i changhennau'n gwarchod pawb fel to adeilad rhag heulwen mis Mai? Er na ellir profi dilysrwydd englyn William Byrkinshaw i'r onnen yng Nghaerwys,<sup>1</sup> dywedir ynddo bod defod wedi ei gynnal o gwmpas yr onnen. Ai cyfeirio at rai o weithgareddau'r eisteddfod a wneir yma? Ai dyna pam y dewisiwyd yr onnen fel testun i'r beirdd ganu arno? Yn hytrach na chyfansoddi englynion yn canmol llys neu dŷ'r Mostyniaid, a ganodd y beirdd i'r onnen am ei bod hi – dros dro, beth bynnag – wedi bod yn gartref i rai o weithgareddau'r eisteddfod, neu'n 'adeilad' iddynt? Â Simwnt yn ei flaen wedyn i ddweud mai “di-gêl” eisteddfod a gafwyd. Cynigia *GPC* nifer o ystyron i ‘di-gêl’, er enghraifft ‘amlwg’, ‘cyhoedd’, ‘gwybyddus’, ‘enwog’ ac, wrth gwrs, gelir dadlau mai cyfeirio at y ffaith fod i'r eisteddfod gyhoeddusrwydd ac amlygrwydd ac enwogrwydd a wna.<sup>2</sup> Fodd bynnag, fe gynigir ystyr arall, yn ogystal, a gwelir ei arwyddocâd yn well wrth ei drosi i'r Saesneg, sef ‘unconcealed’,<sup>3</sup> sy'n gallu golygu ‘agored’, ‘amlwg’, ‘gweladwy’, ‘anghuddiedig’, ‘anghudd’, ‘heb ei guddio’, ‘heb ei gelu’.<sup>4</sup> Ai awgrymu y mae Simwnt fod yr eisteddfod yn ‘ddi-gêl’ gan nad oedd na wal na drws yn cuddio'r gweithgareddau: hynny ydyw, ai awgrymu y mae fod rhai o weithgareddau'r eisteddfod wedi eu cynnal yn yr awyr agored? Ymhellach, oni ellir deall yr un ergyd yn englyn

---

<sup>1</sup> Gw. Roberts, ‘Eisteddfod Caerwys 1567’, t. 59.

<sup>2</sup> Gw. *GPC*, t. 996.

<sup>3</sup> Gw. *Ibid.*

<sup>4</sup> Gw. Bruce Griffiths a Dafydd Glyn Jones (gol.), *Geiriadur yr Academi* (Cardiff, 1995), t. 1560.

Rhisiart Dafis i'r onnen lle dywedir mai mewn "Capel anirgel dan argoed Brigog" y cynhaliwyd yr eisteddfod?<sup>1</sup> Mae geiriau Siôn ap Tomos yntau yn awgrymog iawn. Dywed fod yr onnen yn "[d]y deiliog". Fel Dafydd ap Gwilym gynt, mae'r goeden yn adeilad i Siôn, ac fel y trôdd Dafydd ap Gwilym y llwyn yn llys neu'n eglwys, try'r goeden yn englyn Siôn ap Tomos yn ddy. Ar y naill law, mae'r onnen yn "[g]lochdy cog", ond ar y llaw arall mae'n "Lle i gerddwyr godidog". Ai pren a dail yr onnen fu waliau a drysau'r cynulliad am gyfnod? Yn union fel y cyfeirir at y llys mewn gwledd, ai cyfeirio at 'lys' yr eisteddfod a wna'r beirdd? Wedi'r cyfan, yn ystod yr haf y cynhaliwyd yr eisteddfod – adeg ar y flwyddyn y gellid yn hawdd dreulio amser yn yr awyr agored (pe digwyddai beidio â glawio!)<sup>2</sup> – ac wedi'r cyfan, am ddodrefn, hynny ydyw celfi, tlysau i'r enillwyr, a phethau 'symudol' eraill, yr oedd Wiliam Mostyn yn gyfrifol yn ôl y comisiwn: ni sonnir o gwbl ei fod hefyd yn gyfrifol am drefnu adeilad.

Er hyn, mae'n syndod na chyfeiriodd mwy o feirdd at hynodrwydd yr 'eisteddfod awyr agored', a chyfeirio'n fwy uniongyrchol ati. Ychwaith, nid ydyw dadlau y gellid bod wedi cynnal rhai o weithgareddau eisteddfod 1567 yn yr awyr agored yn esbonio lle

---

<sup>1</sup> Gw. Roberts, 'Eisteddfod Caerwys 1567', t. 58. Fodd bynnag, ni ellir profi dilysrwydd yr englyn hwn. Gw. *ibid.*, t. 59.

<sup>2</sup> Os gellir darllen englyn Huw Llŷn yn llythrennol, ymddengys fod yr haul wedi tywynnu ar eisteddfod 1567:

Ces bren frig lasnen onen lwysliw haul  
ar heol eglurliw  
caerau rhôn uwch cwrr y rhiw,  
Caerwys eglurlywys glaerliw.

Fe'i dyfynnir yn Roberts, 'Eisteddfod Caerwys 1567', t. 58. Cyfeiria Simwnt Fychan at awyr las yn ei englyn ef i'r onnen, yn ogystal, felly ymddengys fod y tywydd yn braf a sych a heulog adeg cynnal yr eisteddfod. Gw. *ibid.*, t. 23, am englyn Simwnt Fychan.

yn union y cynhaliwyd eisteddfod 1523. Serch hynny, er mor denau ydyw'r dystiolaeth o blaid yr eisteddfod 'awyr agored', fe erys y posibilrwydd lleiaf fod rhywfaint o weithgareddau eisteddfod 1567 wedi eu cynnal dan y nen, a than gysgod yr onnen, ar sgwâr Caerwys.



## 6. Cysylltiad Gruffudd ap Cynan â'r Statud

Fe enwir Gruffudd ap Cynan mewn rhyw ffordd neu'i gilydd yn y mwyafrif llethol o'r testunau a geir o'r Statud heddiw. O blith y testunau a olygwyd fe enwir Gruffudd ap Cynan ym mhob un ohonynt, ac y mae hynny i'w ddisgwyl, wrth gwrs, gan mai'r tywysog hwnnw a roddodd ei enw i'r ddogfen.

Cyfeirio'n unig at Gruffudd a wna'r rhan fwyaf o'r testunau: bron na ellir dweud mai ei enwi wrth fynd heibio, fel petai, a wnânt. Crybwyllir "hen Statud Gruffudd ap Kynan"<sup>1</sup> droeon, ac fel y gellid disgwyl fe ddefnyddir enw'r tywysog fel teitl i'r ddogfen. Weithiau defnyddir ei enw fel teitl i'r ddogfen yn ei chyfanrwydd, er enghraifft:

Llyma y konffyrmiad a wnaethpwyd ar Ystatus Gruffudd ap Kynan yn yr eisteddvod Ynghaerwys<sup>2</sup>

Statût Gruffudd ap Cynan ar y gwyr wrth gerdd<sup>3</sup>

Deddf neu gyfraith Gryffydd ap Kynan, a rai a'i geilw Ysdatvd Gryffydd ap Kynan<sup>4</sup>

Llyma Ystatût Gruffyth ap Kynan, twysog Kymrv<sup>5</sup>

Gwyr wrth gerdd: Statut Gruffudd ap Cynan<sup>6</sup>

---

<sup>1</sup> A, llau. 11 - 12. Cymh. CH, llau. 12 - 13; E, llau. 10 - 11; H, ll. 8; H, ll. 11; H, ll. 96; L, llau. 75 - 6; L, ll. 81; Y, llau. 41 - 2.

<sup>2</sup> CH, llau. 1 - 2.

<sup>3</sup> FF, ll. 1. Cymh. Y, ll. 1.

<sup>4</sup> N, llau. 1 - 2.

<sup>5</sup> R (i), ll. 1.

<sup>6</sup> RH, ll. 1.

Llyma yr Yssdatvs a wnaeth Gruffudd ap Kynan i'r penkeirddiaid<sup>1</sup>

Statud Gruffudd ap Cynan, sef braint ar wyr wrth gerdd drwy waith tywysogion Cymru a oeddynt yn cynnal gwir ddefodau y Brutaniaid<sup>2</sup>

Dro arall defnyddir ei enw fel teitl i wahanol adrannau o fewn y ddogfen:

Llyma val i nodwyd Ystatus Gruffudd ap Kynan roddion i bob gradd yn i radd o gerdd tavod a thant<sup>3</sup>

Statud Gruffydd ap Cynan ynghylch cadw eisteddfod, a threfn ac ordinhadau prydyddion cerdd dafod a'u perthynasau<sup>4</sup>

Ymhellach, defnyddir enw Gruffudd ap Cynan wrth gloi ambell destun:

Ac velly y tervyna Ystatyd Gryffydd ap Kynan, twysoc Gwynedd, ar y gwyr wrth gerdd<sup>5</sup>

Enw Gruffudd ap Cynan a gysylltir â'r Statud yn gyntaf ac yn bennaf, ond mewn rhai testunau o ail hanner yr unfed ganrif ar bymtheg ymlaen fe enwir tywysogion eraill yn ogystal, yn arbennig felly Bleddyn ap Cynfyn a Rhys ap Tewdwr. "Lhyma bhraint ac Ystatut Gruphudh ap Cynan a Rhys ap Tewdwr ar wyr wrth gerdh", meddir mewn un testun,<sup>6</sup> tra honnir mewn testunau eraill mai Gruffudd ap Cynan a Bleddyn ap Cynfyn a luniodd y ddogfen:

---

<sup>1</sup> S (i), ll. 1.

<sup>2</sup> LL<sup>(1)</sup>, llau. 1 - 2.

<sup>3</sup> CH, llau. 94 - 5. Cymh. D, llau. 104 - 5; F, llau. 105 - 6.

<sup>4</sup> LL<sup>(1)</sup>, ll. 273.

<sup>5</sup> F, llau. 161 - 2. Cymh. E, llau. 105 - 6; N, llau. 149 - 50; S (i), llau. 43 - 4; S<sup>(1)</sup> (i), ll. 157.

<sup>6</sup> L, llau. 1 - 2. Cymh. L, ll. 145; L, llau. 204 - 5.

Gruphydh ab Cynan, tywysawg Aberphraw, a Bledhyn ab Cynbhyn, tywysawc Mathrâbhael, a wnaethant bhraint a threbhn ar wyr wrth gerdh<sup>1</sup>

Llyma Ystatunn Gruffydd ap Kynan a Bleddyn ap Kynvynn<sup>2</sup>

Braint ag Statvnn Grvffvdd ap Kynan a Bleddyn ap Kynvyn, yr hon a wnaethant ar wyr wrth gerd<sup>3</sup>

Fodd bynnag, cydnabyddir mai Gruffudd ap Cynan oedd y mwyaf blaenllaw o'r tywysogion hyn mewn sawl testun, gan ddweud mai cadarnhau rheolau Gruffudd a wnaeth y gweddill, gan ychwanegu atynt. Medd testun PH, er enghraifft:

Ac yn ôl Gruuhydh ab Cynan, tywyssawc Gwynedh, Bledhyn ab Cynbhyn, tywyssawc Powys, a gadarnháawdh breiniau a Statûteu gwyr wrth gerdh, ag a wnaeth rai ereilh o newydh<sup>4</sup>

Mae ambell destun, fodd bynnag, yn cynnig mwy o wybodaeth ynghylch cysylltiad Gruffudd ap Cynan â'r Statud. Yn ôl B, H ac I<sup>(1)</sup>, fe gynhaliodd Gruffudd ap Cynan eisteddfod, a cheir manylion yn ei chylch yn B a H:

Llyma ballach gopi o'r Ystatus a fv garbronn y taleithioc dywysoc, Gruffudd ap Kynan:

Bid ysbys i bawb sydd o vewn talaith Aberffro vod eisteddvod ar wyr

---

<sup>1</sup> PH, llau. 5 - 6. Cymh. LL<sup>(1)</sup>, llau. 3 - 4; S<sup>(1)</sup> (iv), llau. 24 - 5; S<sup>(1)</sup> (iv), llau. 385 - 98.

<sup>2</sup> W, ll. 1.

<sup>3</sup> W, llau. 3 - 4.

<sup>4</sup> PH, llau. 20 - 1. Gw. hefyd W, llau. 39 - 41; Y, llau. 24 - 6; LL<sup>(1)</sup>, llau. 18 - 20. Cymh. yr hyn a ddywedir yn L, llau. 66 - 70: "Ac bhal yn ol Gruphudh ap Cynan, tywyssawc Gwynedh, Rhys ap Tewdwr, tywyssawc Dinebhwr, a Bledhyn ap Cynbhyn, tywyssawc Mathrabhael, Iestyn ap Gwrgan, tywyssawc Morgannwc, ac Elystan Glodrydh, tywyssawc rwgh Gwy a Habhren, a gytvnewdh ac a gydbhynnawdh ac [a] amhlaawdh byghev yr Ystatut hwnn, ac a'i cadarnhaawdh, ac a wnaeth erailh o newydh."

wrth gerdd tafod a thant yn gyvreithlawn o fewn tref Gaerwys, a gwys a rybudd trwy awdurdod, garbronn y talaithiawc dywysoc yn bersenol, Gruffudd ap Kynan, a Gwynn ap Eginir, ac eraill o voneddigion a brehyrion treftadol o'r vnrryw dalaith, i wnaethur kyvraith a llywodraeth ar holl anant a cherddwyr tavod a thant, ac ar i kelvyddyd<sup>1</sup>

Yn yr eisteddfod hon, meddir, fe luniodd Gruffudd ap Cynan reolau ar gyfer y gwŷr wrth gerdd – hynny ydyw, fe luniodd 'Statud Gruffudd ap Cynan'. Cadarnheir ei fod wedi llunio deddfau yn nes ymlaen yn B a H: "Ac yn gyntaf", medd B, "vod y dywedic dywysawc, o gydvndeb y gynnvlleidva, ynn keniadv ac yn ordeinio...";<sup>2</sup> ac yn ddiddorol ddigon, nodir yn I <sup>(1)</sup> ei fod wedi cael cymorth o du'r Gwyddyl, yn ogystal â chymorth gan y Cymry, wrth lunio'r rheolau hyn:

Statud y gwŷr wrth gerdd o waith Gruffudd ap Cynan, twysawc Cymru, yr hwn a ddechreuodd lywodraethu Gwynedd ynghylch y flwyddyn 1079, ac a fu farw yn y flwyddyn 1136. Yr hon Statud a gadarnhawyd mewn eisteddfod gan amryw o athrawon celfyddyd o Gymru, a Gwyddelod hefyd, y rhai a ddygasai Gruffudd ap Cynan gydag efo o'r Iwerddon.<sup>3</sup>

Mae'r wybodaeth a ddyfynnwyd uchod yn yr adran hon hyd yn hyn i'w weld mewn testunau sy'n dyddio o hanner cyntaf yr unfed ganrif ar bymtheg i hanner cyntaf y ddeunawfed ganrif, a cheir copïau o'r Statud sy'n perthyn i ddiwedd y ddeunawfed ganrif a dechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg sy'n cyfeirio at Ruffudd ap Cynan, ei eisteddfod a'i reolau. Ar hyd y canrifoedd, felly, credid bod Gruffudd ap Cynan wedi rhoi trefn ar y gyfundrefn farddol yn ystod ei deyrnasiad, a thrwy hyn ceisiwyd dangos bod modd olrhain Statud Gruffudd ap Cynan i'r ddeuddegfed ganrif.

---

<sup>1</sup> B, llau. 31 - 8. Gw. hefyd H, llau. 60 - 71.

<sup>2</sup> B, llau. 42 - 4. Gw. hefyd H, llau. 72 - 3.

<sup>3</sup> I <sup>(1)</sup>, llau. 1 - 5.

Tan yr unfed ganrif ar bymtheg ni cheir tystiolaeth fod y traddodiad hwn am Ruffudd ap Cynan wedi ei gofnodi, ond yn ystod y ganrif honno, ac am ryw ganrif neu ddwy wedyn, ymddengys fod cryn dipyn o rym yn perthyn iddo gan fod beirdd ac ysgolheigion, yn ogystal â'r rhai a aeth ati i gopïo ac addasu'r Statud, yn cyfeirio at y tywysog yn llunio deddfau neu reolau ar gyfer y gwŷr wrth gerdd. "Rhaid cydnabod", medd D. Simon Evans, "fod y traddodiad hwn, sef fod Gruffudd ap Cynan wedi rhoi trefn a dosbarth ar reolau cerdd dafod a cherdd dant, wedi greddfu'n ddwfn erbyn yr unfed ganrif ar bymtheg, beth bynnag yw'r gwir am a gredid am hynny. Yn wir, mae'n amlwg ei bod hi'n ffasiwn yn y dyddiau hynny edrych yn ôl ar Gruffudd ap Cynan a'i amcanion fel man cychwyn llawer peth o bwys."<sup>1</sup> Cyfeirio a wna D. Simon Evans yma at destun arall, 'Y Naw Helwriaeth', ac yn benodol felly at y fersiwn a geir yn llawysgrif Hafod 3 (a luniwyd yn ystod dechrau'r ail ganrif ar bymtheg) gan fod y testun arbennig hwnnw yn cysylltu enw Gruffudd ap Cynan â llunio rheolau ar gyfer hela – yr 'ystatys hela', fel y'i gelwir.<sup>2</sup> Ond mae'r hyn a ddywed D. Simon Evans yr un mor wir wrth drafod y Statud.

Ar y cyfan, cyfeirio at Ruffudd ap Cynan fel diwygiwr cerdd dafod a cherdd dant a wneir gan feirdd a haneswyr fel ei gilydd. Cyfeiria Gruffudd Hiraethog, er enghraifft, at y ffaith fod beirdd yn torri'r rheolau a luniwyd gan Ruffudd ap Cynan:

Gru[ff]udd yn wir graffddawn wedd,  
ab Cynan bennaig Gwynedd;  
A wnaeth ystatud i ni,

---

<sup>1</sup> HGK, t. ci. Gw. hefyd t. cxlvi. Cymh. yr hyn a ddywed Enid Roberts, 'Marwnadau Telynorion', t. 88.

<sup>2</sup> Gw. *ibid*; Iorwerth C. Peate, 'Y Naw Helwriaeth', B VI, rhan IV (Mai, 1933), tt. 307 - 8.

.Chwithau wŷr gwnewch ei thorri<sup>1</sup>

– ac mewn cywydd moliant i Siôn Llwyd o'r Ceiswyn, Tal-y-llyn, dywed Huw Machno fod Siôn yn dilyn ôl troed Gruffudd ap Cynan gan ei fod wedi mynd ati i feirniadu cerdd dafod a cherdd dant:

Yng Ngwynedd od eisteddant  
Am glod i'r tafod a'r tant,  
Ym myw'r Llwyd, mawr oll ei waith  
Yn delio yn y dalaith,  
Efô arnom yn farnwr  
A gawn, gyfarwydda' gŵr;  
Efo'n rhoi fwyfwy i'n rhan,  
Byw y'i cawn fal mab Cynan.<sup>2</sup>

Enwir Gruffudd ap Cynan mewn cysylltiad â llunio rheolau i'r beirdd gan Wiliam Salesbury hefyd yn y llythyr a anfonodd at gomisiynwyr ail eisteddfod Caerwys:

Gan ymy dybiet (wyrda vrddasawl cyd bot yspes gan bawp mor ddiseml ac mor ddoethion ytych) na byddai yn amperthynasol, amyn yn beth porth ychwy gymerêd golwc ar ddosparthwaith pendeûic or hen amser, nid amgen no Gruff ap Cynan; dan ba un megys a dûw yn y blaen y bydd y danoch chwithau ar vyrrder, y bù (mal y darllenir yn i Cronicl ef eisteddvod arbennic ar wyr wrth gerdd) y gwr mal ydd oedd ef ehvn yn gerddgar iawn, velly o ddehewyt meddwl y gwnaeth ef gwbl drefn ac Statût berffaith ar y peth. yr hon yn hir o amser, a safawdd yn gyfraith ys yr hon yd y dydd hwn y mae'r gwyr or ddwygerdd yn ymarddelw o honei yw chadw ai chynnal yn bendant.<sup>3</sup>

Ymhellach, er na sonia Wiliam Llŷn am Ruffudd ap Cynan yn llunio Statud fel y cyfryw,

---

<sup>1</sup> Fe'i dyfynnir yn Bowen, 'Ail Eisteddfod Caerwys', t. 144.

<sup>2</sup> Fe'i dyfynnir yn *NBM*, t. 34.

<sup>3</sup> Gw. *RWMI*, tt. 511 - 12; Bowen, 'Gruffudd Hiraethog ac Argyfwng Cerdd Dafod', t. 159; idem., 'Ail Eisteddfod Caerwys', t. 144; J. T. Jones, 'Blwyddyn Marw Gruffudd Hiraethog a Dyddiad 'Ffugrau' Salesbury', *B VIII*, rhan I (Tachwedd, 1935), t. 7.

fe gysylltir enw'r tywysog â'r arfer o roi rhoddion i feirdd, gan fod Wiliam Llŷn yn honni bod beirdd yn cael tâl am lunio marwnadau i wŷr urddasol "O amser Gruff ap Kynan hyd heddiw", gan awgrymu mai yn ystod teyrnasiad y tywysog hwnnw y penderfynwyd ar yr arfer.<sup>1</sup>

Fe gysylltir Gruffudd â llunio rheolau barddol gan Wiliam Cynwal ac Edmwnd Prys hefyd, y naill, fel y gwyddys, yn fardd traddodiadol, a'r llall yn ddyneiddiwr. Cyfeiria Edmwnd Prys at "[G]yfraith goroffiaith Grvffvdd / Cynan",<sup>2</sup> gan gadarnhau mewn man mai yn ystod teyrnasiad "Gruffudd loewleddf lân / aurawg cenedl, ryw Cynan"<sup>3</sup> y lluniwyd y rheolau. Ceir cyfeiriad mwy pendant fyth at y Statud yng ngwaith Wiliam Cynwal, a honna fod beirdd Cymru yn gwybod ei chynnwys:

Sôn yr wyd, a'th synnwyr rvs,  
Haws d'ateb, am Ystatus  
Gruffudd wych, gorhoffaidd wedd,  
Gwalch Gynan amgylch Gwynedd,  
A nyni feirdd, hen a fo,  
Am hyn a wyddom honno.<sup>4</sup>

Sonia ysgolheigion yn ogystal â beirdd am gysylltiad Gruffudd ap Cynan â llunio rheolau'r gelfyddyd wrth gerdd. Yn wir, cynhwysodd yr hanesydd David Powell grynoded o Statud Gruffudd ap Cynan wrth drafod teyrnasiad Gruffudd ap Cynan yn ei lyfr *The Historie of Cambria* (1594),<sup>5</sup> a chredai Powell fod Gruffudd ap Cynan wedi rhoi

---

<sup>1</sup> Gw. *HGK*, t. ci.

<sup>2</sup> *YEPWC*, t. 120, cywydd 27, llau. 11 - 12.

<sup>3</sup> *Ibid.*, t. 210, cywydd 48, llau. 21 - 2. Gw. hefyd Bowen, 'Ail Eisteddfod Caerwys', t. 144.

<sup>4</sup> *YEPWC*, t. 151, cywydd 36, llau. 15 - 20.

<sup>5</sup> Gw. Bowen, 'Ail Eisteddfod Caerwys', t. 145.

trefn ar feirdd a cherddorion Cymru trwy ddod â gwŷr wrth gerdd o Iwerddon draw i'r wlad gydag ef. Meddai:

There are three sorts of minstrels in Wales: (1) The first sort named Beirdd... (2) The second sort of them are players upon instruments, chiefly the harp and crowth, whose musike fod the most part came to Wales with the said Gruffydd ap Cynan, who being on the one side an Irishman by his mother and grandmother, and also born in Ireland brought over with him out of that countrie diverse cunning musicians into Wales, who devised in a manner all the instrumental musike that is now here used, as apeareth as well by the books written of the same, as also by the names of the tunes and measures used among them in this daie. (3) The third sort are Atkaneiaid - the singers of songs.<sup>1</sup>

Nododd Robert ab Ifan yntau fod Gruffudd ap Cynan wedi llunio “cyfraithiav a deddfav kammoledig ar brydyddion a gwyr wrth gerdd danav ag henwodd yddynt roddion a chwarteisi yw gael gan bendefigion y gwledydd”;<sup>2</sup> a chyfeiriodd y rhai a aeth ati i wneud cais ar gyfer cynnal eisteddfod yn 1594 at rôl y tywysog fel lluniwr deddfau ar gyfer y gwŷr wrth gerdd:

And that late prince of wales Gruffith ap Kynan of auncient & worthie memorie did stablishe & sett downe laws ordinances & decrees for their continuance and maynteignance that did *serve* for the purposes aforesaid and to seclude & vtterlie to abrogate from the same sciences all athers that weare not of the said allowed & advanced skill sobreitie and good behaviour *which* his decrees were ever sithence mainteigned in euery honest *parte* and not abrogated<sup>3</sup>

Ni welai ysgolheigion y bedwaredd ganrif ar bymtheg unrhyw beth o'i le ar y traddodiad,

---

<sup>1</sup> Gw. hefyd *HDNg*, t. 18; idem., ‘Welsh Music: History and Fancy’, *TrCymm* (1972 - 73), tt. 78 - 9; idem., ‘Ap Huw: Untying the Knot’, *S VI* (1977), t. 70; *HGK*, t. ciii; Pennant, *Tours in Wales II*, John Rhys (gol.), tt. 86 - 7; Stephens, *The Literature of the Kymry*, t. 58.

<sup>2</sup> Fe'i dyfynnir yn Bowen, ‘Ail Eisteddfod Caerwys’, t. 144.

<sup>3</sup> Gw. *RWMI*, t. 293.



ychwaith. Meddai George Borrow wrth drafod Gruffudd ap Cynan:

Anxious that poetry and music should be degraded by falling into the hands of the profligate and uneducated, first, he published a statute...<sup>1</sup>

Derbyniai Thomas Stephens yn ddigwestiwn hefyd fod Gruffudd ap Cynan, c. 1100, wedi cynnal eisteddfod er mwyn llunio rheolau ar gyfer y gwŷr wrth gerdd,<sup>2</sup> ac felly Mary Owen.<sup>3</sup>

Aeth Robert Griffith, yr ysgolhaig cerdd dant, gam ymhellach. Yn ogystal â derbyn bod Gruffudd ap Cynan wedi cynnal eisteddfod yn ystod ei deyrnasiad, a'i fod wedi dod â rhai o'r Gwyddyl draw o Iwerddon i roi cymorth iddo,<sup>4</sup> credai fod modd profi hyn trwy graffu ar Fuchedd Gruffudd ap Cynan gan iddo ddod ar draws cofnod mewn rhyw destun – testun sy'n ymddangos yn bur Ioloaidd i mi – sy'n honni bod y tywysog wedi cynnal eisteddfod. Dyfynna Griffith o'r llawysgrif:

Evelly Grufudd ab Cynan, brenhin Gwynedd, a gynnaliodd Eisteddfod at y cyfryw amcan yn Nghaerwys, i ba le y cyrchodd holl gerddorion Cymru; a rhai hevyd o Loegy, ac o yr Alban, pan y dirmygai y Cymry ymarver a phibau, ac mewn rhan a waherddid gantynt; pan yn Ysgodawg oedd yn rhagori ar bawb yn y cyfarvod hwnw o ganu pib; ac i ba un y rhodded Grufudd ab Cynan y Bib avr, yn arwydd o ei orchest yn pibianu.<sup>5</sup>

Ymhellach, credai Robert Griffith fod modd olrhain statutau gwreiddiol y gwŷr wrth

---

<sup>1</sup> George Borrow, *Celtic Bards, Chiefs and Kings* (London, 1928), t. 49. Gw. hefyd t. 50.

<sup>2</sup> Stephens, *The Literature*, tt. 56 - 7, t. 85. Gw. hefyd *HGK*, tt. ciii - civ.

<sup>3</sup> Mary Owen, 'Welsh Folk-Music', *TrCymm* (1897 - 98), t. 67.

<sup>4</sup> *LICD*, tt. 25 - 7.

<sup>5</sup> Gw. *ibid.*, t. 109.

gerdd i'r chweched ganrif.<sup>1</sup> Eto, fodd bynnag, ymddengys mai traddodiad 'ffug' ydyw hwn – traddodiad sydd drachefn yn deillio efallai o ddychymyg Iolo Morganwg – ac ymddengys mai dweud hyn ar sail gwybodaeth a welodd yn un o fersiynau Iolo o Statud Gruffudd ap Cynan a wnaeth Robert Griffith, sef bod y Statud wedi ei thynnu “o ddosparthau a dosparthiadau prif feirdd Cymru, nid amgen Taliesin Ben Beirdd, a Merddin Emrys, a Merddin ap Morfryn ac eraill.”<sup>2</sup>

A dyma ddod at rai o ysgolheigion mwyaf blaenllaw yr ugeinfed ganrif. Gwelir bod Arnold Dolmetsch, gŵr a astudiodd lawer ar lawysgrif Robert ap Huw a cherdd dant gynnar, o'r farn nad oes raid amau fod Gruffudd ap Cynan wedi cynnal eisteddfod er mwyn rhoi trefn ar y gwŷr wrth gerdd;<sup>3</sup> a gwelir bod T. Gwynn Jones hefyd – er ei fod yn cydnabod nad oes tystiolaeth hanesyddol ar gael sy'n cadarnhau i Ruddudd ap Cynan gynnal eisteddfod, ac er ei fod yn credu mai cynnyrch yr unfed ganrif ar bymtheg yn hytrach na chynnyrch y ddeuddegfed ganrif ydyw Statud Gruffudd ap Cynan – yn derbyn bod sail i'r traddodiad fod Gruffudd ap Cynan wedi rhoi rhyw fath o drefn ar y gwŷr wrth gerdd yn ei gyfnod, a'i fod wedi dod â gwŷr wrth gerdd o Iwerddon draw i Gymru gydag ef.<sup>4</sup>

Ar y cyfan, felly, fe dderbyniwyd y traddodiad fod Gruffudd ap Cynan wedi

---

<sup>1</sup> *Ibid.*, t. 35.

<sup>2</sup> Gw. testun S<sup>(1)</sup> (iii), llau. 387 - 9.

<sup>3</sup> Arnold Dolmetsch, 'Ancient Welsh Music', *TrCymm* (1933 - 35), t. 115, t. 117.

<sup>4</sup> Gw. T Gwynn Jones, 'Bardism and Romance: a study of the Welsh literary tradition', *TrCymm* (1913 - 14), tt. 229 - 32, tt. 235 - 7, t. 264, tt. 300 - 1.; idem., 'Cerdd Dant', *BI* (1923), tt. 140 - 1; *GTA* I, t. xxix, tt. xxxv - xxxvi. Ymhellach, gw. Ellis, 'Welsh Music', t. 87; idem., 'Ap Huw', t. 80; *HGK*, tt. c - ci.

ymyrryd rywfodd yng nghyfundrefn y beirdd a'r cerddorion, a'i fod efallai wedi cael cymorth gwŷr wrth gerdd o Iwerddon wrth wneud hyn. Credai rhai iddo gynnal eisteddfod yn ystod y ddeuddegfed ganrif, ac mai ffrwyth yr eisteddfod honno – nid eisteddfod 1523 – oedd Statud Gruffudd ap Cynan.

Felly faint o'r traddodiad hwn sy'n debygol o fod yn wir?

### *O blaid y traddodiad*

(i) Er na chyfeirir at Ruffudd ap Cynan yn cynnal eisteddfod nac yn llunio rheolau ar gyfer y gwŷr wrth gerdd gyda chymorth y Gwyddyl mewn unrhyw ddogfen y gellir rhoi pwys hanesyddol arni, mae'n amlwg fod cysylltiad agos rhwng Gruffudd ac Iwerddon.

Yn Nulyn y'i ganed, ac fe ffodd i Iwerddon droeon cyn iddo yn y pen draw lwyddo i ddod â Gwynedd dan ei adain. Hanai o hil Hywel Dda, Cunedda Wledig a Rhodri Mawr: yr oedd yn Gymro o ochr ei dad, Cynan ab Iago – alltud yn Iwerddon a fu farw mewn brwydr yn 1063 – ond hanner Gwyddeles o'r enw Rhagnell (Ragnhildr) oedd ei fam, merch brenin Llychlynaidd o Ddulyn, a thrwyddi hi fe ddaeth Gruffudd, yn ôl pob tebyg, yn ymwybodol o lenyddiaeth a cherddoriaeth ei wlad enedigol, os nad yn gwbl gyfarwydd â hwy. Er iddo fyw hyd ei wythdegau cafodd fywyd pur gythryblus fel unrhyw dywysog arall yn y cyfnod. Gallai hawlio Gwynedd oherwydd bod ei daid – Iago ab Ithel, a laddwyd yn 1039 – yn frenin Gwynedd yn ei gyfnod. Yn y flwyddyn 1075, ac yntau tuag ugain mlwydd oed, daeth Gruffudd i Wynedd am y tro cyntaf i'w hawlio. Ymladdodd yn erbyn Trahaearn; ond yn Mrwydr Bron yr Eos, Clynnog, fe'i trechwyd gan ei wrthwynebydd, ac fe ffodd Gruffudd yn ei ôl i Iwerddon. Yn 1081, fodd bynnag, ymladdodd Gruffudd a Rhys ap Tewdwr ar y naill law â Thrahaearn, Meilyr

ap Rhiwallon ap Cynfyn a Charadog ap Gruffudd ar y llaw arall ym mrwydr Mynydd y Carn, a'r tro hwn Gruffudd a orfu, ac aeth yn ei flaen i hawlio Gwynedd. Yn anffodus torrwyd crib llwyddiant Gruffudd yn fuan ar ôl ei fuddugoliaeth gan y Normaniaid. Fe'i cipiwyd gan filwyr Huw Fras, iarll Caer, ac fe'i carcharwyd am ddeuddeng mlynedd o leiaf. Tua'r flwyddyn 1094 llwyddodd Gruffudd i ddianc, gan ddychwelyd i Wynedd. Yn 1098 ymgyrchodd Wiliam Rufus yn erbyn Gwynedd gyda chymorth ieirll Caer a'r Amwythig, ond ar lannau'r Fenai cawsant gurfa gan filwyr o Lychlyn, a lladdwyd iarll Amwythig gan Fagnws Droednoeth, brenin Norwy. O hyn hyd ei farwolaeth yn 1137 bu teyrnasiad Gruffudd ap Cynan ar Wynedd yn un pur lwyddiannus a heddychlon, hyd yn oed ar ôl i Harri I esgyn i'r orsedd yn y flwyddyn 1100.<sup>1</sup>

Mae'n amlwg, felly, fod i Iwerddon le pwysig ym mywyd Gruffudd ap Cynan: rhedai rhywfaint o waed Gwyddelig trwy'i wythiennau, yn Iwerddon y'i ganed, treuliodd ugain mlynedd cyntaf ei oes yno, a bu'n alltud yno droeon. Ymhellach ymddengys mai Gwyddel oedd ei delynor, Cellan, telynor a ddaeth draw gydag ef i Gymru o Iwerddon efallai.

Pwysleisir pwysigrwydd Gruffudd fel noddwr beirdd. I awdur yr *Historia*, ei bwysigrwydd fel noddwr crefydd oedd bwysicaf, a hynny mae'n debyg gan mai clerigwr oedd yr awdur hwnnw ei hun; ond yn ei farwnad i Ruffudd, canolbwyntio ar ei haelioni tuag at y beirdd a wna Meilyr Brydydd. Câi Meilyr ddiodydd yn llys ei noddwr:

---

<sup>1</sup> Am fwy o wybodaeth am Ruffudd ap Cynan gw. K. L. Maund (gol.), *Gruffudd ap Cynan: A Collaborative Biography* (Woodbridge, 1996); *Cyd*, t. 289; *HC*, t. 102, t. 105, tt. 112 - 3; *HGK*; H. J. Hughes, 'Gruffudd ap Cynan', *Ba* 185 (Mehefin, 1978), t. 22; Jones, 'Bardism', tt. 231 - 2; J. E. Caerwyn Williams, 'Beirdd y Tywysogion: Arolwg', *LIC* XI, rhifyn 1 a 2 (Ionor - Gorffennaf, 1970), tt. 9 - 11, tt. 11 - 12; *ARh*, t. xiv; Roberts, 'Marwnadau Telynorion', t. 88; Ifor ap Gwilym, *Y Traddodiad Cerddorol*, t. 22.

Kyn myned mab Kynan y dan dywa6d  
Keffid yn y gyntet uet a braga6d.<sup>1</sup>

– câi gyfoeth ganddo:

Ken myned mur ked yn daweda6c  
Dy-m-guc, neu'm goruc yn oluda6c<sup>2</sup>

– awgryma ei fod ef neu rai eraill wedi cael meirch yn rhoddion:

Ny chronnei na seirch na meirch g6eilyt<sup>3</sup>

– a phwysleisia ei fod yn ofalus iawn o'i feirdd:

As rotwy vy Ren rann dragywyt  
Yg g6erth a rotes er lles prydyt<sup>4</sup>

Yr oedd noddï diwylliant fel hyn yn rhan o ddyletswydd, ac yn rhan o fwynhad, penaethiaid Cymru ar hyd y canrifoedd. Fodd bynnag, awgryma J. E. Caerwyn Williams y gallai Gruffudd ap Cynan yn hyn o beth fod wedi dilyn ôl troed brenin enwog o Iwerddon, sef Brian Bóroma (Bóru) a anwyd c. 940 ac a fu farw yn 1014. Yr oedd y brenin hwn yn enwog fel noddwr diwylliant, ac awgryma J. E. Caerwyn Williams ei fod wedi dylanwadu ar ddull Gruffudd ap Cynan o deyrnasu. “Prin y gall dim amheuaeth

---

<sup>1</sup> *GMB*, t. 71, rhif 3, llau. 29 - 30. Gw. hefyd *HGK* t. cxxxv.

<sup>2</sup> *GMB*, t. 72, rhif 3, llau. 71 - 2. Gw. hefyd *HGK*, t. cxxxv.

<sup>3</sup> *GMB*, t. 73, rhif 3, ll. 94. Gw. hefyd *HGK*, t. cxxxv.

<sup>4</sup> *GMB*, t. 74, rhif 3, llau. 139 - 40. Gw. hefyd *HGK*, t. cxxxv.

nad oedd yn gwybod am Brian Boroma”, meddai, “ac nid yw’n amhosibl ei fod wedi patrymu ei lywodraeth yn y blynyddoedd olaf ar lywodraeth hwnnw.”<sup>1</sup>

Ei eni, a’i fagu am ugain mlynedd yn Iwerddon; y gwaed Gwyddelig a redai trwy’i wythiennau; ei hoffter o ddychwelyd i’w wlad enedigol; y ffaith fod y Gwyddyl, ynghyd â’r Sgandinaffiaid a’r Daniaid, wedi ymladd yn ei fyddin ddwywaith wrth iddo geisio hawlio Gwynedd; y cerddor Gwyddelig a ddaeth gydag ef i Gymru, efallai; dylanwad posibl brenin Gwyddeleg ar ei ddull o lywodraethu ei deyrnas: nid ydyw hyn yn profi bod Gruffudd wedi cynnal eisteddfod na llunio Statud; er nad oes prawf pendant ychwaith ei fod wedi rhoi trefn ar feirdd a cherddorion Cymru gyda chymorth gwŷr wrth gerdd o Iwerddon, ni ellir llwyr ddiystyru’r posibilrwydd hwnnw o gofio am ei berthynas glôs ag Iwerddon a’i ddiddordeb yn y byd barddol.

(ii) Dywed D. Simon Evans yn ei ragymadrodd i *Historia Gruffud vab Kenan* fod ambell gyfnod arbennig yn hanes Cymru yn aros yn y cof, a hynny gan ei fod yn gyfnod a welodd newid a datblygu, ac am ei fod yn gyfnod o ffyniant. Cafwyd hyn, meddai, yn y chweched ganrif dan reolaeth Rhodri Mawr, yn yr unfed ganrif ar bymtheg yn sgîl newidiadau gwleidyddol, crefyddol, diwylliannol ac economaidd, ac yn ystod yr ugeinfed ganrif. Fodd bynnag, mae’n dadlau bod y ddeuddegfed ganrif wedi bod yn gyfnod nodedig iawn, yn ogystal, a hynny gan fod modd gweld yn ystod y ganrif honno “agor, neu o leiaf, gil-agor ffin a chlawdd, a gollwng i mewn ddylanwadau a grymsterau a effeithiodd yn drwm ac yn drwyadl ar yr hen fywyd. Nid ei ddifetha a’i ddileu [...], ond rhoi gwth iddo oddi ar yr hen rigolau, ei fywiocáu ag egni newydd a pheri ei fod yn dilyn

---

<sup>1</sup> Williams, ‘Beirdd y Tywysogion’, t. 10.

trywydd gwahanol.”<sup>1</sup> .Yn ystod y ganrif honno gwelwyd dylanwadau o Loegr, Iwerddon, Ffrainc a Sgandinafia ar Gymru, ac esgorodd hyn oll ar newid.

[R]haid fu wrth gyfaddawdu, a chyfaddasu a chymathu. A chanlyniad hyn oll fu cychwyn cyfnod newydd, yn wleidyddol, yn economaidd, yn ddiwylliannol, crefyddol a llenyddol. Dyma gychwyn sefydliadau ac arglwyddiaethau estron ar ddaear Cymru. Dyma hefyd gychwyn gwladwriaeth Gymreig gadarn a sefydlog a barhaodd am ryw ddwy ganrif.<sup>2</sup>

Yng nghanol newid o’r fath, nid rhyfedd o beth fyddai gweld brenin amlycaf Cymru’r cyfnod, sef Gruffudd ap Cynan, yn ceisio gosod agweddau ar ei wlad a’i phobl ar seiliau newydd, ac nid ydyw’n amhosibl iddo fod wedi gwneud hyn gyda phrif gynheiliaid diwylliant ei wlad ar y pryd, sef y beirdd a’r cerddorion.

Yn wir, dadleuwyd droeon fod rhyw fath o ddadeni yn y byd llenyddol i’w weld yn ystod y ddeuddegfed ganrif.<sup>3</sup> Yn ystod y ganrif honno y cofnodwyd fersiwn Ladin wreiddiol *Historia Gruffud vab Kenan* – a hynny dan nawdd Owain Gwynedd, mab Gruffudd –, a dyma’r cyfnod a welodd Fucheddau’r Saint, Llyfr Llandaf a *Historia Regum Britanniae* Sieffre o Fynwy. Yn bwysicach, efallai, diogelwyd llawer o ganu mawl o’r un cyfnod, er mai parhad yn y traddodiad oedd hyn yn hytrach na ffrwydriad barddol a ddaeth o ryw wagle, mae’n debyg. Gelwid beirdd y ddeuddegfed ganrif – a’r rhai a barhaodd i ganu yn yr un dull hyd ddiwedd y bedwaredd ganrif ar ddeg – yn Ogyffeirdd, ac yn ddiddorol ddigon ystyrir yn draddodiadol mai Meilyr Brydydd, bardd Gruffudd ap Cynan, oedd y Gogynfardd cyntaf – neu’r cyntaf i’w waith gael ei gofnodi,

---

<sup>1</sup> *HGK*, t. xi.

<sup>2</sup> *Ibid.*, t. xii.

<sup>3</sup> Cyfeiria D. Simon Evans yn *Llafar a Llyfr yn yr Hen Gyfnod* (Abertawe, 1982), t. 3, at y “deffro a’r cyffro a brofwyd yn y ddeuddegfed ganrif.”

o leiaf. O gyfnod Gruffudd ap Cynan ymlaen gwelir enwau nifer o feirdd – rhai megis Gwalchmai, mab Meilyr a bardd llys Owain Gwynedd, Cynddelw Brydydd Mawr, Llywarch ap Llywelyn a Dafydd Benfras. Cadwyd gwaith tua deg ar hugain o'r beirdd hyn, ac er bod rhai i'w gweld trwy Gymru mae'n arwyddocaol fod y mwyafrif llethol yn perthyn i Wynedd, sef teyrnas Gruffudd ap Cynan. Medd J. Lloyd Jones:

it may be tentatively suggested that seventeen or eighteen poets belonged to Gwynedd, eight or nine to Powys, one to Brecknock, and three to the south west province of Deheubarth.<sup>1</sup>

Er nad ydyw hyn drachefn yn profi dim, y mae o leiaf yn arwydd y gallai elfen o'r traddodiad ynghylch Gruffudd ap Cynan fod yn wir, sef ei fod wedi rhoi trefn ar wŷr wrth gerdd Cymru, yn arbennig felly, efallai, gwŷr wrth gerdd ei deyrnas ei hun, yn ystod y ddeuddegfed ganrif. Ys dywed Thomas Parry:

Pair hyn [hynny ydyw y ffaith fod cymaint o waith y Gogynfeirdd wedi ei gadw] i ddyn dybio ddyfod rhyw adfywiad mawr yn yr awen Gymreig gydag adferiad nerth y genedl yn nyddiau Gruffudd ap Cynan, a diamau y gellir credu hynny. Haera traddodiad ddarfod i Ruffudd ddyfod â cherddorion a beirdd gydad ef o Iwerddon i'w lys yng Ngwynedd, a gwneuthur rhyw ddiwygiad ar y ddwy grefft. [...] Ni ellir profi na gwadu'r traddodiad yn bendant, ond buasai'r hyn a honnir ganddo yn beth digon naturiol i ddigwydd.<sup>2</sup>

(iii) Cyfeiriwyd eisoes at y dylanwad a ddaeth o du Iwerddon yn ystod y ddeuddegfed ganrif. Gwelwyd bod tebygrwydd trawiadol rhwng cyfundrefn y beirdd yng Nghymru ac Iwerddon a rhwng maes llafur beirdd y ddwy wlad, ond ymddengys fod y cysylltiad yn gwreiddio'n ddyfnach o gryn dipyn na hynny, a phair hyn i sawl ysgolhaig

---

<sup>1</sup> J. Lloyd Jones, 'The Court Poets of the Welsh Princes', *PBA* XXXIV, t. 168.

<sup>2</sup> *HLIG1900*, t. 37.



gredu bod y naill wlad wedi benthg syniadau, themâu a ffurfiau llenyddol a cherddorol oddi ar y llall ar hyd y canrifoedd, ac efallai fod i Ruffudd ap Cynan ran yn y ‘benthg’ hwn.

Gellir olrhain y cysylltiad rhwng Cymru ac Iwerddon i gyfnod cynharach o ganrifoedd na chyfnod Gruffudd ap Cynan: mae arysgrifau o’r bedwaredd ganrif, er enghraifft, yn tystio bod sefydliadau Gwyddelig yng ngogledd-orllewin a de-orllewin Cymru ac ym Mrycheiniog, a gwelir ôl dylanwad y sefydliadau hyn ar enwau llefydd, er enghraifft Llŷn, Din-Ilaen a Desach; ac er bod Bucheddau’r Saint yn perthyn i gyfnod diweddarach, awgryma eu cynnwys bod cysylltiad rhwng y Cymry a’r Gwyddyl o’r chweched ganrif ymlaen. Ymhellach ceir glosau Cymraeg a Gwyddeleg yn y llawysgrif sy’n cynnwys englynion Juvenicus, llawysgrif sy’n perthyn i’r nawfed ganrif; awgrymir bod cysylltiad rhwng llys Gwynedd a gwŷr dysgedig Iwerddon yn ystod y nawfed ganrif; cynhwysir llawer iawn o eiriau Cymraeg yng Ngeiriadur Cormac; ymddengys fod croniclwyr y ddwy wlad yn gwybod am groniclau’i gilydd; a gwelir bod Sulien, gŵr dysgedig o’r unfed ganrif ar ddeg, wedi treulio amser yn Iwerddon. Yn ogystal, gwelwyd dadeni neu adfywiad llenyddol yn Iwerddon fel yng Nghymru yn ystod yr unfed ganrif ar ddeg a’r ddeuddegfed ganrif, ac ymddengys fod tebygrwydd o ran arddull, ffurf, cymeriadau a chynnwys rhwng ‘Breuddwyd Rhonabwy’ a ‘Culhwch ac Olwen’ ar y naill law a chwedlau o Iwerddon ar y llaw arall. Awgrymwyd hefyd fod y gerdd Wyddeleg ‘Céttamain cáin re’ wedi dylanwadu ar ‘Kintevin Keinhaw amsser’ y Cymry, a bod rhyw gysylltiad rhwng mesur y cywydd yng Nghymru a’r ‘debide scáilte’ yn Iwerddon.<sup>1</sup>

---

<sup>1</sup> Am drafodaeth fanwl, ar y cysylltiad rhwng Cymru ac Iwerddon gw. *HGK*, yn arbennig felly tt. lix - lxviii, tt. xcix - ci, tt. cv - cvi; Patrick Sims-Williams, ‘Cú Chulainn in Wales: Welsh Sources for Irish Onomasts’, *Cel* XXI (1990), tt. 620 - 33; idem., ‘Historical Need and Literary Narrative: A Caveat from Ninth-Century Wales’,

Mae'n werth rhoi mwy o sylw i un maes arall yn arbennig, fodd bynnag, a hynny gan yr ymddengys fod y cysylltiad rhyngddo ac Iwerddon yn un cryf dros ben, a'r maes arbennig hwnnw ydyw cerdd dant.

Yn nhestun PH o'r Statud ac yn Llawysgrif Robert ap Huw fe enwir nifer o fesurau, o glymau, o ganiadau ac o gyweiriau cerdd dant. "Amrywia'r sillafu o lawysgrif i lawysgrif", medd Enid Roberts, "fel pe bai ystyr y gair yn ddieithr i'r sawl a oedd yn ysgrifennu a'i fod yn dibynnu ar draddodiad llafar, a'r ynganiad a glywyd."<sup>1</sup>

Yn gyntaf, gwelir bod i enwau nifer o'r pedwar mesur ar hugain cerdd dant arlliw Gwyddelig. Yn Llawysgrif Robert ap Huw, er enghraifft, ceir enwau megis 'mak y mwn hir', 'korsgoleff', 'koraldan', 'wnsach', 'kor dia tutlach', 'korwrgog', 'karsi', 'mak y mwn byr', 'mak y mynfaen' a 'mak y delgi',<sup>2</sup> ac enwir rhai o'r rhain, ynghyd ag eraill, yn y gramadegau cerdd dant: yn llawysgrif Hafod 24, t. 802 fe enwir 'kor teiltadlach' ('kordiatulach' a geir yn Peniarth 169, t. 350), a cheir 'kor kynedlach' yn Peniarth 169,

---

*Cylchgrawn Hanes Cymru XVII* (1994), tt. 1 - 40; idem., 'The evidence for vernacular Irish literary influence on early mediaeval Welsh literature' yn Dorothy Whitelock, Rosamond McKitterick & David Dumville (goln.), *Ireland in Early Mediaeval Europe: Studies in Memory of Kathleen Hughes* (Cambridge, 1982), tt. 235 - 57; idem., 'Irish Elements in Late Medieval Welsh Literature: The Problem of Cuhelyn and \*Nyf' yn Martin J. Ball, James Fife, Erick Poppe & Jenny Rowland (goln.), *Celtic Linguistics Ieithyddiaeth Geltaidd: Readings in the Brythonic Languages Festschrift for T. Arwyn Watkins* (Amsterdam/Philadelphia, 1990), tt. 277 - 95. Gw. hefyd *GTA*, t. xxxv, lle yr honna T. Gwynn Jones y gallai'r ffaith fod rhai o drigolion Ceredigion ddechrau'r ugeinfed ganrif yn gallu cyfrif mewn Gwyddeleg fod yn arwydd fod Gwyddelod wedi byw yn yr ardal hyd yn gymharol ddiweddar. Am fwy o wybodaeth ynghylch hyn, gw. David Thomas, 'An Old System of Numeration found in South Cardiganshire', *Cardiganshire Antiquarian Society III* (1925).

<sup>1</sup> Roberts, 'Marwnadau Telynorion', t. 92.

<sup>2</sup> Fe'u rhestrir yn *HCC III*, t. 324.

t. 357.<sup>1</sup> Hefyd gwelir dylanwad Gwyddelig ar enwau rhai cyweiriau cerdd dant, er enghraifft 'Lleddf Gywair y Gwyddel' a'r 'Cywair Gwyddelig Dieithr', ac ar rai o'r difre – 'difr alban' a 'difr cwrcot', er enghraifft.<sup>2</sup> Yn nhestun PH o'r Statud fe enwir nifer o ganiadau a chlymau. Gellir dadlau bod rhai o'r enwau canlynol wedi eu henwi ar ôl Gwyddelod arbennig, a bod eraill yn cynnwys elfen gref o ddylanwad Gwyddelig: 'Caniad arr Gainghc Cychôlyn', 'Caniad Cormac Wydhel', 'Caniad Crych ar y Carsi', 'Caniad y Gwydhel', 'Caniad y Marchoc Gwydhel', 'Caniad Ysglachwewli', 'Cwlwm Mwloch Mwri', 'Cwlwm y Gwydhel vn o'r Colobhnau', 'Cwlwm Dilach Dwd', 'Cwlwm Sythmôlach' a 'Cwlwm y Darnsach'.<sup>3</sup> Ys dywed Patrick Sims-Williams:

These reveal a clear debt to Ireland: alongside Welsh titles such as *Caniad y Twrch Trwyth* and *Caniad ar gainc Daid ap Gwilim* occur titles such as *Caniad Iarll Cormac Wyddel* ('Tune of Earl Cormac the Irishman'). [...] [I]t is hard to believe that the Irish titles [...] were entirely invented, for no obvious motive, in the sixteenth century. Moreover, the testimony of Giraldus Cambrensis and others suggests that Irish music was known and admired in medieval Wales. This is not at all surprising since music transcends linguistic barriers; in modern Wales, for instance, music from Ireland is well known, even though literature in Irish is almost unknown outside the university colleges.<sup>4</sup>

Ymhellach nid enwau *genres* cerdd dant yn unig sy'n dangos cysylltiad rhwng Cymru ac Iwerddon: honna Peter Crossley-Holland fod tebygrwydd rhwng addurniadau a

---

<sup>1</sup> Gw. Ellis, 'Welsh Music', t. 87; *HDNg*, t. 48; idem., 'Ap Huw', t. 80; Jones, 'Bardism', t. 235; Roberts, 'Marwnadau Telynorion', t. 89, t. 92.

<sup>2</sup> Gw. *Llsg.* Hafod 24, t. 809.

<sup>3</sup> Gw. PH, llau. 124 - 71. Gw. hefyd J. Breese Davies, 'Canu gyda'r Tannau', *TrCymm* (1930), t. 79; *HDNg*, t. 48; idem., 'Welsh Music', t. 87; idem., 'Ap Huw', t. 80; *SHW*, t. 26; *HGK*, t. ciii; Jones, 'Bardism', t. 235; idem., 'Cerdd Dant', t. 141; Roberts, 'Marwnadau Telynorion', t. 89, t. 92.

<sup>4</sup> Sims-Williams, 'Cú Chulainn', tt. 620 - 1.

harmonï gweithiau cerddorol y ddwy wlad yn ogystal.<sup>1</sup>

Ceir gwybodaeth ynghylch sut y rhoddwyd trefn ar gerdd dant mewn nifer o ffynonellau. Cyfeiriwyd eisïoes at y testun o'r Statud sy'n honni bod Gruffudd ap Cynan wedi cynnal eisteddfod er mwyn rhoi trefn ar y gwÿr wrth gerdd gyda chymorth Gwyddelod. Fe gysylltir enw Gruffudd ap Cynan â chynnal eisteddfod o'r fath, eto gyda chymorth Gwyddelod, yn Llawysgrif Robert ap Huw mewn adran sydd wedi tarddu, meddid, "O Lyfr yr Athro Tho. Kelli o Retelgarwys",<sup>2</sup> sef gwÿr o Fôn a oedd yn fyw yn y flwyddyn 1480.<sup>3</sup> Ar ôl copiïo fersiwn o destun a elwir yn 'Ddosbarth Cerdd Dannau' o lawysgrif Thomas Celli, ysgrifenna Lewis Morris, copiwr yr adran arbennig hon o lawysgrif Robert ap Huw, fel a ganlyn:

Llyma y 24 mesur o gerdd dannau wrth reol fesur oll, fal i Cyfansoddwyd mewn Eisteddfod o flaen llawer o athrawon Celfyddyd o Gymru Cywraint yn y gelfyddyd, ag eraill o Wyddelod, yn amser Gruffydd ap Cynan; ag a ddodwyd ar Lyfrau drwy Orchymyn y ddwy Blaid, Sef y Cymru a'r Gwyddelod Blaenorol neu Frenhinol o'r Amser; ag a goppiwyd oddyno yr unfed dydd ar ddeg o fis mai yn y flwyddyn Un Mil c<sup>4</sup>

Gan yr ymddengys nad ydyw llyfr Thomas Celli wedi goroesi, ni ellir profi dilysrwydd yr wybodaeth hon. Fodd bynnag, mae dau destun arall yn cynnig gwybodaeth ynghylch y trefnu a fu ar gerdd dant, sef 'Dosbarth Cerdd Dannau' a 'Cadwedigaeth Cerdd Dannau'. Ys dywed Sally Harper, "Ni allwn fod yn sicr yn y naill achos na'r llall pa

---

<sup>1</sup> Crossley-Holland, 'Secular Homophonic Music', t. 153.

<sup>2</sup> *Musica: Llawysgrif Robert ap Huw*, cyflwyniad gan Wyn Thomas (Surrey, 1987), t. 8.

<sup>3</sup> Darlith gan Sally Harper yn Adran Gerddoriaeth Prifysgol Cymru, Bangor, Haf 1999.

<sup>4</sup> Gw. *Musica*, t. 8.

bryd y lluniwyd y fersiwn gwreiddiol ysgrifenedig na hyd yn oed a oedd yna fersiwn o'r fath",<sup>1</sup> ond mae'n werth craffu ar y dystiolaeth a gyflwynir yn y testunau hyn.

Yn y fersiwn a geir o 'Dosbarth Cerdd Dannau' yn llawysgrif Peniarth 62, priodolir y gelfyddyd i Oloch Foel, Henri Cefnrhudd a Marchan Wyddel a'i ddisgyblion. Ni ddywedir ymhle y trefnwyd y gelfyddyd, ond fe ddywedir i'r trefnu ddigwydd yn amser Cwysen fab Carsi o Lyn Achlach. Glendalough yn Iwerddon ydyw Glyn Achlach, yn ôl pob tebyg, ardal a gysylltir â Sant Cwyfan.<sup>2</sup> Fe gofnodir bywyd Sant Cwyfan yn Bonedd y Saint, ac mewn fersiwn diweddar o hanes ei fywyd dywedir ei fod yn fab i Carsi, sef Carsi Delynor, mae'n debyg, gŵr yr enwyd caniad a mesur cerdd dant ar ei ôl.<sup>3</sup>

Bu farw Sant Cwyfan yn y flwyddyn 618, felly awgryma 'Dosbarth Cerdd Dannau', yn groes i'r dystiolaeth a welwyd eisoes, mai yn y seithfed ganrif yn hytrach nag yn y ddeuddegfed y rhoddwyd 'trefn' ar gerdd dant.<sup>4</sup>

Mae'r dystiolaeth a geir yn 'Cadwedigaeth Cerdd Dannau, fodd bynnag, yn dod â'r ad-drefnu'n ôl i'r ddeuddegfed ganrif. Dyma'r fersiwn a geir yn llawysgrif Peniarth 155, tt. 79 - 80:

---

<sup>1</sup> Harper, 'Llawysgrif Robert ap Huw', t. 163.

<sup>2</sup> Crossley-Holland, 'Secular Homophonic Music', tt. 158 - 9.

<sup>3</sup> Mewn darlith a draddodwyd gan Sally Harper yn yr Adran Gerddoriaeth, Prifysgol Cymru, Bangor, Haf 1999.

<sup>4</sup> Awgryma Sally Harper *ibid.*, fodd bynnag, fod y testun yn bur lwgr, ac na ellir derbyn yr holl fanylion a geir ynddo.

Am fwy o wybodaeth gw. *HGK*, tt. cii - ciii; Harper, 'Llawysgrif Robert ap Huw', t. 163; Crossley-Holland, 'Secular Homophonic Music', t. 141; Jones, 'Bardism', t. 234.

. Llyma lyfr a elwir kadwedigaeth  
kerdd dannav/

Nid amgen Telynnav a chrythav o vewn tair talaith gymry y Rhain a dynnwyd allan or myssic drwy ddeall a dychymic doctor or gelvyddyd ac wrth ddamvniad pedwar penkerd o delyn a chrwth a meddwl ac athrawlithr pob vn att i gilidd I wnevtvht kerddi ac iw kadw ynghof ai kanv yn i lle ac iw dosbarth / A phwy oedd henwav y iiij penkerdd hynny / Allon ap Kynav / Rrydderch voel / mytholwch Wyddyl / ac Oloff gerddor / Ac yn gwrandaw ar hynny henri gefnridd / A charssi delynnior a llawer eraill ai kyngor ai kyfrwyddyd gida hwynt / A thrwy vndeb gyd gyngor yr athrawon doethion hynny a chelvyddyd y doctor or missic gida chelvyddyd yr athrawon I gwnaethbwyd y iiij messvr ar xx ac y swkrio y pedwar [t. 80] messvr ar xx i gwnaed y iiij difr ar xx Ac o dri achos i gwnaethpwyd y kyntaf / i wnevthur kerddi yr ail i adnabod y kerddi y trydydd i gadw kerdd ynghof val i mae I henwav or blaen yn Iaith werddonic A mwrthan wyddel oedd arglwydd pennaf y pryd hynny ai konffyrmiodd hwynt yn y man a elwir Glynn Achlach / drwy i holl allv ai swyddav a gorchymyn i bawb I swkyrio ac yn wir dosbarth y iiij messvr ar xx o bydd ai gwypo yn ddilys ddidramgwydd a dosbarth y gamwth pob vn at i gilydd...

Yma ceir rhywfaint mwy o wybodaeth nag a geir yn 'Dosbarth Cerdd Dannau': nodir yn bendant mai yng Nglyn Achlach yn amser Mwrthan Wyddel y digwyddodd yr ad-drefnu, ac mai Alon ap Cenau, Rhydderch Foel, Matholwch Wyddel ac Olof Gerddor oedd wrth ei wraidd, gyda chymorth Henri Cefnrhudd a Charsi Delynor ac eraill.

Yn 'Dosbarth Cerdd Dannau' ac yn 'Cadwedigaeth Cerdd Dannau' fe enwir Henri Cefnrhudd a Mwrchan/Mwrthan Wyddel. Yn y naill, fel y gwelwyd, nodir – yn gamarweiniol, efallai – mai yn ystod cyfnod Cwysen y lluniwyd y rheolau hyn, ond yn 'Cadwedigaeth Cerdd Dannau' nodir mai yn ystod cyfnod Mwrthan y gwnaed hynny. Yn ôl Sally Harper, y brenin Muirchertach Ua Brian, a fu farw yn y flwyddyn 1119, ydyw Mwrthan,<sup>1</sup> felly dyma ddod â ni yn ôl i union gyfnod Gruffudd ap Cynan. Ymhellach ceir tystiolaeth fod Muirchertach wedi cyd-weithio â Gruffudd.<sup>2</sup>

---

<sup>1</sup> Darlith Sally Harper.

<sup>2</sup> *Ibid.* Awgryma Sally Harper hefyd mai Harri I ydyw'r Henri Cefnrhudd y sonnir amdano, a hynny gan fod Harri I yn frawd i Wiliam, a elwid yn Wiliam Goch.

Tystiolaeth Thomas Celli; ‘Dosbarth Cerdd Dannau’; ‘Cadwedigaeth Cerdd Dannau’: dim ond y cyntaf sy’n enwi Gruffudd ap Cyna, ond yn ôl pob tebyg mae’r tri yn cyfeirio at gyfnod Gruffudd. (Fel y nodwyd eisoes, ymddengys mai oherwydd i’r testun gael ei lygru rywfodd y cyfeiria ‘Dosbarth Cerdd Dannau’ at y seithfed ganrif.)

Drachefn, cysylltir y trefnu a fu ar gerdd dant ag Iwerddon ac â’r ddeuddegfed ganrif, ac er nad ydyw hyn yn profi fod a wnelo Gruffudd ap Cynan rywbeth â llunio’r rheolau, nid ydyw’n gwrthbrofi hynny, ychwaith. Wedi’r cyfan, cysylltir ei enw, neu o leiaf ei gyfnod, â llunio rheolau ar gyfer y gwŷr wrth gerdd – rheolau a luniwyd gyda chymorth Gwyddelod – yn Statud Gruffudd ap Cynan, yn nhystiolaeth Thomas Celli, yn ‘Dosbarth Cerdd Dannau’ ac yn ‘Cadwedigaeth Cerdd Dannau’.

#### *Yn erbyn y traddodiad*

(i) Mae’r testunau sy’n cynnig gwybodaeth ynghylch y traddodiad am Ruffudd ap Cynan yn rhoi trefn ar y gwŷr wrth gerdd gyda chymorth gwŷr o Iwerddon, yn llunio eisteddfod ac yn llunio Statud, yn ddiweddarach o bedair canrif na chyfnod Gruffudd ei hun. Ni cheir copi o’r Statud cyn ail chwarter yr unfed ganrif ar bymtheg, a barn Sally Harper ydyw mai rywdro yn ystod hanner cyntaf yr unfed ganrif ar bymtheg y lluniwyd ‘Dosbarth Cerdd Dannau’ a ‘Cadwedigaeth Cerdd Dannau’; a hyd yn oed pe gellid

---

Drachefn, dyma ddod â ni yn ôl i’r ddeuddegfed ganrif ac i gyfnod Gruffudd ap Cynan gan fod Harri I wedi marw ddwy flynedd cyn dyddiad marwolaeth Gruffudd, sef yn 1135.

Am fwy o wybodaeth ynghylch ‘Cadwedigaeth Cerdd Dannau’, gw. Ellis, ‘Ap Huw’, t. 78; *HGK*, t. ciii; *LICD*, t. 25, t. 172, t. 179, t. 282; Harper, ‘Llawysgrif Robert ap Huw’, t. 163; Crossley-Holland, ‘Secular Homophonic Music’, t. 139, t. 154; Jones, ‘Bardism’, t. 235; idem., ‘Cerdd Dant’, tt. 143 - 4; Roberts, ‘Marwnadau Telynorion’, t. 88; Stephens, *Literature*, t. 57; Pekka Toivanen, ‘Llawysgrif Robert ap Huw a Phenbleth Trawsgrifio’, *HCC* III (1999), t. 120.

derbyn tystiolaeth Thomas Celli yn ddigwestiwn, ni ellir dyddio'r dystiolaeth honno ynghynt nag ail hanner y bymthegfed ganrif. Os felly, ceir tair canrif a hanner o leiaf o dawelwch. Ni chyfeirir o gwbl at y traddodiad yn *Historia Gruffud vab Kenan*,<sup>1</sup> ac mae'r beirdd, tan yr unfed ganrif ar bymtheg, yn dawedog iawn ynghylch unrhyw draddodiad o'r fath.

Ymhellach, ymddengys nad ydyw cynnwys y Statud fel y'i ceir heddiw yn adlewyrchu amgylchiadau'r ddeuddegfed ganrif: yn hytrach, fel y gwelwyd eisoes, ymateb i argyfwng a ddaeth i'w anterth yn ystod y bymthegfed ganrif a'r unfed ganrif ar bymtheg a wnaeth llunwyr y Statud, sef yr argyfwng a ddaeth i ran y beirdd a'r cerddorion swyddogol, gan eu bod yn cael eu camgymryd am gardotwyr, crwydriaid, segurwyr, twyllwyr, a difyrwyr iselradd ac ysgafnfryd. Problemau cymdeithasol ac economaidd y bymthegfed ganrif a'r ganrif ddilynol a arweiniodd at argyfwng y gwŷr wrth gerdd, nid amgylchiadau'r ddeuddegfed ganrif. Hefyd, fel y nodwyd eisoes, mae'r ffaith fod y Statud yn nodi y dylai'r gwŷr wrth gerdd ymddwyn yn heddychlon, gan ufuddhau i reolau'r brenin a'i swyddogion, yn awgrym cryf o 'ddelfryd' y goron Duduraidd yn hytrach o ddelfryd unrhyw frenin a deyrnasodd yn ystod oes Gruffudd ap Cynan. Ymddengys, felly, mai ar gyfer Eisteddfod Caerwys 1523, yn hytrach nag ar gyfer unrhyw eisteddfod a gynhaliwyd yn ystod y ddeuddegfed ganrif, y lluniwyd y Statud, ac mai cynnyrch gwŷr yr unfed ganrif ar bymtheg ydoedd yn y bôn, er y gellid

---

<sup>1</sup> Awgryma T. Gwynn Jones, 'Bardism', t. 230, y gallai awdur yr *Historia* fod wedi hepgor yr wybodaeth ynghylch Gruffudd ap Cynan yn rhoi trefn ar y beirdd a'r cerddorion gan fod yn well ganddo, ac yntau'n glerigwr, ganolbwyntio ar drafod Gruffudd yn noddi crefydd. Amcan yr *Historia*, fodd bynnag, oedd dyrchafu'r gwrthrych, felly go brin y byddai'r awdur yn peidio â chyfeirio o gwbl at Ruffudd yn llunio rheolau o'r fath pe bai wedi gwneud hynny mewn gwirionedd, hyd yn oed pe na bai wedi manylu ynghylch yr hanes.



olrhain peth o'r cynnwys i gyfnod cynharach.<sup>1</sup> Ys dywed J. E. Caerwyn Williams, "although Gruffudd ap Cynan could have influenced the Welsh bardic order during his reign, there is no evidence that he did, and very little likelihood that he could have imposed Irish practices on the Welsh bards, even had he tried."<sup>2</sup>

(ii) Hyd yn oed pe gellir derbyn bod rhyw sail i'r traddodiad fod Gruffudd ap Cynan wedi rhoi trefn ar y gwŷr wrth gerdd, ni ellir profi ei fod wedi cynnal eisteddfod na llunio cyfres o reolau fel y'u ceir yn y Statud. Pe bai wedi gwneud hynny, siawns na fyddai ei fardd ef ei hun, sef Meilyr Brydydd, wedi cyfeirio at y digwyddiad yn ei farwnad i Ruffudd ap Cynan. Fel y gwelwyd eisoes, canmolir Gruffudd am ei nawdd a'i haelioni, felly onid naturiol fyddai iddo glodfori ei bennaeth am osod y byd barddol ar gledrau newydd pe byddai wedi gwneud hynny?

(iii) Ym marn nifer o ysgolheigion, ni chafwyd dadeni i'r graddau y tybiwyd gynt yn ystod y ddeuddegfed ganrif. Do, daeth llawer mwy o feirdd i'r amlwg, ac fe gadwyd mwy o gerddi ac o destunau rhyddiaith ar glawr, ond dadleuir nad 'dadeni' sy'n gyfrifol

---

<sup>1</sup> Am drafodaeth bellach ar ddyddiad y Statud, gw. Bowen, 'Ail Eisteddfod Caerwys', t. 144; idem., 'Beirdd a Noddwyr (Rhan III)', t. 25; idem., 'Dafydd ab Edmwn't', t. 445; *GHO*, tt. 10 - 11; Carr, 'The Mostyn Family & Estate', t. 351, t. 357; Edwards, *Yr Eisteddfod*, t. 11; idem., *The Eisteddfod*, t. 7; Harper, 'Llawysgrif Robert ap Huw', t. 163; Crossley-Holland, 'Secular Homophonic Music', t. 160; J. E. Caerwyn Williams, 'Yr Arglwydd Rhys', *ARh*, t. 110; Jones, 'Bardism', t. 264; *GTA I* t. xxix; Lewis, 'Einion Offeiriad', t. 62, t. 64; *DWGILIV*, t. 14; Enid Roberts, 'Uchelwyr y Beirdd I', *TCHSDd XXIV* (1975), t. 47; idem., 'Uchelwyr y Beirdd II', *TCHSDd XXV* (1976), t. 53, tt. 85 - 6; idem., 'Eisteddfod Caerwys 1567', t. 27; Rowlands, 'Nodiadau', t. 238, t. 239; Ruddock, 'Oes Aur ein Llên', t. 411; *EC*, t. 52, t. 74, t. 94.

<sup>2</sup> Fe'i dyfynnir yn *SHW*, t. 11.

am hyn o gwbl; yn hytrach, efallai mai 'damwain' a oedd yn gyfrifol: dim ond dau gant o linellau o ganu mawl o'r cyfnod rhwng y flwyddyn 600 a'r flwyddyn 1100 a gadwyd, ond o'r cyfnod rhwng 1100 a'r flwyddyn 1300 fe gadwyd ymhell dros ddeuddeng mil o linellau, a hynny, fe ymddengys, am fod llawysgrifau o'r cyfnod hwnnw wedi goroesi o gymharu â'r rheibio a fu ar lawysgrifau'r canrifoedd cynnar. Medd R. Geraint Gruffydd:

Pam y gwahaniaeth trawiadol rhwng diffwrwythdra ymddangosiadol y pum canrif cyn 1100 a ffrwythlondeb diamheuol y ddwy ganrif wedi 1100? Dyna un o gwestiynau gwir ddyrys hanes llenyddiaeth Gymraeg! Yr ateb traddodiadol i'r cwestiwn ydyw fod y Brenin Gruffudd ap Cynan o Wynedd, pan ddychwelodd o Iwerddon yn 1075 neu 1081 neu 1099, wedi dod â mintai o feirdd Gwyddeleg gydag ef a lwyddodd i adfywio barddoniaeth lys ledfyw'r Gymraeg ac a fu'n gyfrifol felly am y blodeuo mawr a ddigwyddodd yn y ddwy ganrif wedi hynny. Er cymaint y carwn i gredu'r stori yna – am ei bod hi'n stori dda [...] – y mae'r Athro J. E. Caerwyn Williams (yr awdurdod mwyaf o ddigon ar Feirdd y Tywysogion) wedi dangos yn derfynol nad oes fawr ddim sail iddi. Gan ei bod yn amhosibl credu nad oedd beirdd llys yn canu i Rodri Mawr, Hywel Dda a Gruffudd ap Llywelyn – ac enwi dim ond tri o frenhinoedd mwyaf y pum canrif wag – mae'n rhaid dod i'r casgliad mai'r prif reswn am y gwahaniaeth rhwng gwacter 600 - 1100 ar y naill law, a llawnder 1100 - 1300 ar y llaw arall, ydyw bod gwaith y rheibwyr Sgandinafaidd – neu ryw reibwyr eraill – wedi llwyddo i ddistrywio'r llawysgrifau i gyd. Nid yw hon chwaith yn ddamcaniaeth gwbl foddhaol, ond dyna'r un orau sydd ar gael ar hyn o bryd.<sup>1</sup>

Ymddengys na chafwyd deffroad mawr yn y ddeuddegfed ganrif, felly: parhad o'r traddodiad a welwyd mewn canrifoedd cynharach ydoedd, dim ond bod gwaith beirdd mawl y ddeuddegfed ganrif wedi ei ddiogelu ar glawr tra bod llawer o gynnyrch y canrifoedd cynt wedi ei ddinistrio a'i golli am byth.

(iv) Mae'n anodd iawn pwysu a mesur effaith y dylanwad a ddaeth i Gymru o du Iwerddon. Fe welwyd peth dylanwad, yn ôl pob tebyg, ond mae modd dadlau nad

---

<sup>1</sup> R. Geraint Gruffydd, 'Beirdd y Tywysogion', *LIC XVIII*, rhifyn 1 a 2 (Ionor - Gorffennaf, 1994), t. 27.

dylanwad o'r fath sy'n gyfrifol am yr holl bethau sy'n gyffredin yn niwylliannau'r ddwy wlad: oni allai trigolion y ddwy wlad, a hwythau'n hanu o'r un llwyth yn wreiddiol, fod wedi datblygu arferion a chelfyddydau tebyg i'w gilydd yn annibynnol ar ei gilydd? Ys dywed Patrick Sims-Williams:

Most points of comparison between Irish and Welsh literature are irrelevant to the question of influences, for 'one can scarcely doubt that most of the similarities between Welsh and Irish literary usage and content are to be ascribed to common origins', as Proinsias Mac Cana has rightly remarked.<sup>1</sup>

Yn wir, dadleua D. Simon Evans na chafodd y Cymry a'r Gwyddyl gymaint o gyfle ag a feddylid gynt i ddylanwadu ar ei gilydd. Cydnebydd y gallai'r bumed ganrif a'r chweched fod yn gyfnod lle gwelid y naill wlad yn dylanwadu ar y llall, gan fod Gwyddelod yn byw yng Nghymru yr adeg honno; ond rhwng y seithfed ganrif a'r unfed ganrif ar bymtheg ymddengys na allai'r dylanwadu hwn barhau – i'r un graddau, beth bynnag – gan na siaredid Gwyddeleg yn gyffredin yng Nghymru. Yn wahanol i Ffrangeg, Lladin a Saesneg, ychydig o ôl dylanwad Gwyddeleg a welir ar yr iaith Gymraeg. Ys dywed D. Simon Evans, "Rhaid wrth sefyllfa lle mae dwy gymdeithas yn cyd-fyw, yn ymrwbio â'i gilydd, a lle ceir o leiaf ryw faint o ddwyieithrwydd, cyn y gall dylanwadau lifo'n helaeth. Hefyd rhaid wrth dangnefedd a chydweithrediad."<sup>2</sup> Nid ydyw'r ffaith fod Gwyddelod wedi dod i Gymru i fyw yn profi o gwbl, felly, fod diwylliant yr Ynys Werdd wedi dylanwadu'n drwm ar ddiwylliant Cymru. Ys dywed Patrick Sims-Williams:

---

<sup>1</sup> Sims-Williams, 'The evidence', tt. 236 - 7.

<sup>2</sup> *HGK*, tt. cvii - cix.

We know from Welsh and Irish sources and from the distribution of inscribed stones that immigrants from Ireland settled in parts of Wales between the fourth and sixth centuries, notably Gwynedd, Dyfed and Brycheiniog. Sir John Rhŷs, W. J. Gruffydd, and others surmised that these Irish settlements were the occasion for large numbers of Irish stories to pass into Welsh. In itself the thesis is plausible enough, but it is quite unproven and perhaps unprovable. No Welsh narrative literature can be shown to be as old as this. The only way in which one of the later Welsh stories could be proved to have come from Ireland at this period would be by showing that it contained proper names whose Irish development was arrested in (say) the sixth century and gave way to Welsh developments; and no such names have been produced.<sup>1</sup>

Do, fe gafwyd mwy o gysylltiad rhwng Cymru ac Iwerddon yn ystod yr unfed ganrif ar ddeg a'r ddeuddegfed ganrif; ond eto, ni cheir llawer o dystiolaeth fod Cymry a Gwyddelod wedi priodi gyda'i gilydd, na bod gan y naill wybodaeth fanwl o iaith y llall.<sup>2</sup> Rhai yn unig, fe ymddengys, a wyddai Gymraeg a Gwyddeleg, ac o'r rhain mae'n debyg mai cyfran fechan iawn a oedd yn ymylu ar fod yn rhugl yn y ddwy iaith, heb sôn am fod yn gwbl rugl.<sup>3</sup> Ymhellach, nid oes dystiolaeth yng nghanu'r Gogynfeirdd sy'n profi eu bod yn gyfarwydd â llenyddiaeth y Gwyddyl.<sup>4</sup> Yng ngeiriau Patrick Sims-Williams, "very little Irish literature was known in late medieval Wales."<sup>5</sup> Nid dylanwad o du Iwerddon, felly, ydyw'r unig esboniad pam y gwelir tebygrwydd rhwng arferion diwylliannol y wlad honno a Chymru.

Heb fynd i fanylu yma ar ddulliau'n ymwneud â thechneg, addurn a mesur, pethau megis y defnydd helaeth o gytseinnedd ac odl fewnol, a'r odl a elwir yn odl

---

<sup>1</sup> Sims-Williams, 'The evidence', t. 239.

<sup>2</sup> *HGK*, tt. cix - cx.

<sup>3</sup> *Ibid.*, t. cxi.

<sup>4</sup> Sims-Williams, 'Irish Elements', t. 277.

<sup>5</sup> *Ibid.*, t. 286.

'Wyddelig' [...], mae'n deg dweud nad dylanwad Gwyddelig yw'r unig esboniad posibl (nac yn wir yr esboniad mwyaf boddhaol) ar nodweddion y mae modd eu hegluro fel dulliau a datblygiadau cynhenid. Yn yr un modd gyda'r ddau fesur, y 'debide scailte' mewn Gwyddeleg a'r 'cywydd' yn y Gymraeg, dau fesur digon tebyg i'w gilydd mewn llawer ystyr. Er cymaint y sylw a roddwyd i broblem eu perthynas, nid oes fodd profi fod y naill wedi dylanwadu ar y llall.<sup>1</sup>

(v) Er bod peth cyfathrach rhwng y Cymry a'r Gwyddyl yn ystod y ddeuddegfed ganrif, gellir dadlau na fyddai'r Cymry, o angenrheidrwydd, wedi derbyn cerddorion o Iwerddon i roi trefn ar eu celfyddyd gyda breichiau agored. Wedi'r cyfan, ni chafodd y rhai a ddaeth o Iwerddon gyda Gruffudd ap Cynan pan geisiodd hawlio Gwynedd y tro cyntaf fawr o groeso gan drigolion y wlad hon, ys dywed yr *Historia*:

Ac odena tri meib Merwyd a holwyr Lley'n a diunassant en erbyn Gruffud eu harglwyd priodaur, ac a ladassant hyd nos en eu lletyeu en e wlat o'r Gwydyl deudengwyr a deugeint o varchogyon Gruffud a'e deulu.<sup>2</sup>

Ymhellach, dadleua Patrick Sims-Williams nad ydyw'r arlliw Gwyddelig a geir mewn rhai enwau sy'n gysylltiedig â cherdd dant o angenrheidrwydd yn adlewyrchu dylanwad dilys. Meddai:

A sceptic might argue that this fashion for Irish names may have been rather superficial, like the Continental craze for 'Turkish music' in the eighteenth century. There is certainly an element of invention in the sixteenth-century [musical] tracts. For example, the four musicians said to have settled the rule of music at 'Glyn Achlach' (Glendalough) under the auspices of 'Mwrchan wyddel', the lord of Ireland, comprise two people with Welsh names plus 'Olof(f) Gerddor' ('O. the musician') – which is probably Irish *ollamh* – and 'Matholwch Wyddel'. The latter is not a genuine Irish name either, but an Irish-sounding name, presumably derived from the name of the Irish king in the well-known Middle Welsh story of *Branwen* [...]. Another suspicious name is 'Carsi

---

<sup>1</sup> *HGK*, t. cxii.

<sup>2</sup> *Ibid.*, t. 10

delynnor' ('the harper'), who is said to have been in the audience at Glyn Achlach: variants of this name appear in late medieval Welsh manuscripts as the name of the father or grandfather of St Kevin of Glendalough.<sup>1</sup>

\* \* \*

Wrth bwysu a mesur y dystiolaeth o blaid ac yn erbyn y traddodiad ynghylch Gruffudd ap Cynan a'i ymwneud â'r gwŷr wrth gerdd, rhaid cydnabod na ellir profi'r naill ochr na'r llall yn foddhaol. Nid oes cofnod o gwbl iddo gynnal eisteddfod drefnus na llunio Statud, ond eto i gyd mae'r dystiolaeth yn awgrymu y gallai fod a wnelo'r brenin hwnnw rywbeth â chyfundrefnu'r beirdd a'r cerddorion yng Nghymru. Gwyddys iddo ddod ag un cerddor o leiaf draw gydag ef o Iwerddon, sef Gellan. Efallai iddo ef, neu gerddor tebyg iddo, ymddiddori yn y gyfundrefn farddol a'r gyfundrefn gerddorol yng Nghymru, neu efallai na wnaeth ddim o gwbl, dim ond bod traddodiad wedi tyfu o'i amgylch ef a'i frenin, traddodiad a esboniai'n daclus hanes cyfundrefn y gwŷr wrth gerdd yng Nghymru.

Fel y gwelwyd, yn ystod yr unfed ganrif ar bymtheg y blodeuodd y traddodiad hwn ynghylch Gruffudd ap Cynan. Boed y traddodiad hwnnw yn un hynafol a dilys, boed o'n draddodiad a ddatblygodd ymhen rhyw ganrif neu ddwy ar ôl cyfnod Gruffudd ap Cynan, neu boed o'n draddodiad 'ffug' a luniwyd yn unswydd gan wŷr yr unfed ganrif ar bymtheg, 'does dim dwywaith na fu o gymorth i swyddogion Eisteddfod Caerwys 1523. Onid oedd y ffaith eu bod hwy yn cynnal eisteddfod ac yn llunio Statud ar ddull eisteddfod a Statud y brenin enwog hwnnw o'r ddeuddegfed ganrif yn cyfreithloni ac yn

---

<sup>1</sup> Sims-Williams, 'Cú Chulainn', tt. 620 - 1.

awdurdodi eu gweithredoedd a'u penderfyniadau?<sup>1</sup> Yr oedd cysylltu Gruffudd ap Cynan â llunio eisteddfod a rheolau ar gyfer y gwŷr wrth gerdd – boed hynny'n gam neu'n gymwys – yn dod â bri ac awdurdod y gorffennol gwych i eisteddfod 1523 ac i'r Statud.<sup>2</sup>

Nid oedd cysylltu enw gŵr enwog o'r gorffennol â dogfen ddiweddarach yn newydd, fodd bynnag. Yr enghraifft orau a welwyd o hyn yng Nghymru cyn y Statud ydyw cysylltu enw Hywel Dda gyda chyfreithiau'r wlad, cyfreithiau a gedwir bellach mewn llawysgrifau o ganol y drydedd ganrif ar ddeg ymlaen, ond cyfreithiau a gysylltir â gŵr o'r ddegfed ganrif.

Hywel ap Cadell oedd y gŵr a adwaenir bellach fel Hywel Dda, wŷr yr enwog Rodri Mawr a fu'n frenin ar Wynedd ac yn bennaeth ar lawer o Gymru yn ystod y nawfed ganrif. Yn y flwyddyn 878 bu farw Rhodri, ac felly rhannwyd ei deyrnas rhwng ei feibion. Daeth Seisyllawg i feddiant Cadell, tad Hywel, ond pan fu ef farw fe rannwyd ei diroedd eto rhwng ei feibion, Hywel a Clydog. Yn 920, fodd bynnag, fe laddwyd Clydog, ac ymddengys mai Hywel, wedi hynny, oedd unig arweinydd Seisyllawg. Erbyn hyn yr oedd Hywel wedi priodi Elen, merch Llywarch ap Hyfaidd (bu.f. 904), brenin Dyfed, felly trwy ei etifeddiaeth a thrwy ei briodas daeth ardal eang y Deheubarth dan adain Hywel. Fodd bynnag, nid arhosodd yn ei unfan, a phan laddwyd Idwal Foel o Wynedd mewn brwydr yn erbyn y Saeson yn 942, aeth Hywel yno i hawlio'r deyrnas; a

---

<sup>1</sup> Mae'n werth nodi bod Iolo Morganwg wedi honni mai dychymyg swyddogion Eisteddfod Caerwys 1523 a luniodd y traddodiad am Ruffudd ap Cynan yn rhoi trefn ar gyfundrefn y gwŷr wrth gerdd. "The Institutes of Gruff. ap Cynan are only a humbug by Tudur Aled", meddai mewn un man. Gw. Roberts, 'Eisteddfod Caerwys 1567', t. 27.

<sup>2</sup> Gw. Bowen, 'Ail Eisteddfod Caerwys', t. 146; Edwards, *Yr Eisteddfod*, t. 11; idem., *The Eisteddfod*, t. 7; Harper, 'Llawysgrif Robert ap Huw', t. 168, t. 174; Ifor ap Gwilym, *Y Traddodiad Cerddorol*, t. 22; Bobi Jones a Gwyn Thomas, *The Dragon's Pen* (Llandysul, 1986), t. 49.

chan fod Powys erbyn yr adeg honno dan reolaeth Gwynedd, fe ddaeth y rhan fwyaf o Gymru i feddiant Hywel.<sup>1</sup> Awgrymir ei fod wedi ceisio ennill cyfeillgarwch y Saeson yn hytrach na chodi eu gwrychyn oherwydd ni chofnodir iddo ymladd â hwy o gwbl, a chan yr ymddengys fod ganddo berthynas glós â llys Wessex. Yn wir, awgrymwyd mai dilyn ôl troed Alfred, brenin Wessex, a wnaeth pan aeth ar bererindod i Rufain yn y flwyddyn 928.<sup>2</sup>

Hywel ydyw'r unig frenin yng Nghymru i gael ei alw'n 'Dda'; yn wir, ychydig iawn trwy Ewrop gyfan a gafodd anrhydedd o'r fath. Fodd bynnag, mae'n ddiddorol nodi na cheir cofnod ohono fel 'Hywel Dda' hyd ddechrau'r ddeuddegfed ganrif, sef yn Llyfr Llandaf, a gall hyn awgrymu mai gwŷr mewn oes ddiweddarach na'i gyfnod ef ei hun a'i henwodd felly. Awgryma Kirby mai arweinwyr y Deheubarth yn y ddeuddegfed ganrif a'i hanrhydeddodd â'r enw, a hynny er mwyn dod â bri ac enwogrwydd y gortffennol i'r rhanbarth. Ym marn J. E. Lloyd, fodd bynnag, cysylltiad Hywel â'r Cyfreithiau sy'n gyfrifol am ei epithet.<sup>3</sup>

Mae mwyafrif llethol y llyfrau cyfraith Canoloesol yn cynnwys prolog sy'n olrhain hanes creu cyfreithiau Cymru. Dywedir bod Hywel, ar ôl iddo weld cyflwr y wlad, wedi gorchymyn i chwe gŵr o bob cwmwd yng Nghymru ddod i'r Tŷ Gwyn yn Nyfed er mwyn llunio cyfreithiau. Mae'r prologau oll yn pwysleisio bod y gyfraith yn ymestyn dros Gymru gyfan; ond gan fod fersiynau gwahanol o'r stori hon ar gael, fel

---

<sup>1</sup> Gw. *Cyd*, t. 355; *HC*, tt. 84 - 5; J. E. Lloyd, 'Hywel Dda: The Historical Setting', *AS X* (1928), tt. 1 - 2. Gw. yn arbennig Carr, "'Houael Rex': Hywel the King' yn A. D. Carr a Dafydd Jenkins, *A Look at Hywel's Law* (Hendy Gwyn ar Daf), tt. 3 - 4.

<sup>2</sup> Gw. *Cyd*, t. 355; Lloyd, 'Hywel Dda', t. 2.

<sup>3</sup> Gw. Carr, "'Houael Rex'", tt. 8 - 9, tt. 10 - 11; Lloyd, 'Hywel Dda', tt. 2 - 3.



gyda'r Statud, yn amlwg nid ydyw'r manylion bob amser yr un fath. Ni elwir Hywel yn 'Hywel Dda' ymhob fersiwn, ac ni chyfeirir bob tro un at y ffaith mai yn y Tŷ Gwyn y cynhaliwyd y gynhadledd.<sup>1</sup> Manyla Dafydd Jenkins ynghylch y gwahaniaethau a welir yn y prologau:

Mae'r llyfrau'n gytûn ar gymaint â hyn o'r stori – fod Hywel Dda wedi cynnull cynhadledd o gynrychiolwyr o wahanol rannau ei deyrnas; maent yn amrywio cryn dipyn yn y manylion a ychwanegir ganddynt. Er enghraifft, pan eir i sôn am ganlyniadau gwaith y gynhadledd, nid yw'n ddigon gan bob un llawysgrif fod rhai hen gyfreithiau wedi'u cadw, eraill wedi'u diwygio, ac eraill wedi'u diddymu: mae rhai llawysgrifau'n dweud fod pwyllgor o ddeuddeg lleygwr ac un gŵr eglwysig wedi'i benodi i lunio llyfr o'r gyfraith; ac mae rhai ohonynt yn enwi'r tri dyn ar ddeg a fu ar y pwyllgor. A thrachefn, wedi sôn am Hywel yn rhoi awdurdod i'r gyfraith ddiwygiedig, mae rhai llawysgrifau'n dweud iddo fynd i Rufain, ac esgobion Cymru gydag ef, a chael awdurdod y Pab i'r gyfraith; ac mae rhai yn enwi'r esgobion a'r Pab wrth eu henwau, ac yn ychwanegu Blegyrwyd archddiacon Llandaf at y cwmni; ef hefyd a enwir fel yr “un ysgolhaig huotlaf o Gymru oll” – yr offeiriad ar y pwyllgor, a dywedir mai “doctor yng nghyfraith yr Ymherodr ac yng nghyfraith yr eglwys oedd ef.”<sup>2</sup>

Fel gyda Gruffudd ap Cynan a'r Statud, fodd bynnag, ni ellir bod yn hollol siŵr mai Hywel a luniodd y Cyfreithiau. Wedi'r cyfan, ni cheir cyfeiriad cyfoes at Hywel sy'n dweud ei fod wedi llunio cyfreithiau o gwbl: o'r drydedd ganrif ar ddeg ymlaen y cedwir cyfeiriadau o'r fath; a pho bellaf yr eir oddi wrth gyfnod Hywel, po fwyaf o fanylion ynghylch cynhadledd Tŷ Gwyn a geir, a rhoddir pwyslais cynyddol hefyd ar ymwneud clerigwyr â'r cyfundrefnu. Ym marn J. Goronwy Edwards nid ydyw'r prologau'n cynnig cefndir hanesyddol cadarn i'r Cyfreithiau; yn wir, awgryma mai

---

<sup>1</sup> Gw. Huw Pryce, 'The Prologues to the Welsh Lawbooks', *B XXXIII* (1986), t. 151; Dafydd Jenkins, *Cyfraith Hywel: Rhagarweiniad i Gyfraith Gynhenid Cymru'r Oesau Canol* (Llandysul, 1970), t. 1. Gw. hefyd Bowen, *The Statutes*, t. xxiv; C. J. Ribton-Turner, *A History of Vagrants*, tt. 429 - 30.

<sup>2</sup> Jenkins, *Cyfraith Hywel*, tt. 1 - 2.

ffrwyth dychymyg gwŷr y ddeuddegfed ganrif a luniwyd er mwyn pwysleisio cysylltiad y Cyfreithiau yng Nghymru â'r eglwys ydynt, gan roi taw, felly, ar yr Eingl-Normaniaid a'r gwŷr eglwysig a honnai fod y Cyfreithiau Cymreig yn anfoesol. Ymhellach, gwelir nad ydyw llawer o'r Cyfreithiau yn adlewyrchu amgylchiadau'r ddegfed ganrif: yn hytrach, ymddengys eu bod yn perthyn i'r ddeuddegfed ganrif.<sup>1</sup> Barn H. D. Emanuel hefyd ydyw mai i'r ddeuddegfed ganrif y perthyn y prologau, a'u bod wedi eu llunio er mwyn pwysleisio bod awdurdod Cyfreithiau Cymru yn hynafol, a'u bod wedi eu sefydlu cyn cyfnod y Normaniaid.<sup>2</sup> Ys dywed Huw Pryce, ddi enw Hywel â bri'r gorffennol i'r Cyfreithiau yn union fel y ddi enw Gruffudd ap Cynan â bri'r gorffennol i'r Statud, a'r gobaith oedd, mae'n debyg, y byddai'r bri hwnnw yn dod ag awdurdod yn ei sgîl yn union fel y ddi enw Harri I, er enghraifft, â bri i gyfraith Lloegr. Medd Huw Pryce:

It is likely that the king's principal function in the text was to underline that Welsh law was both ancient and of royal origin. Since the prologues also credit Hywel with extensive authority over Wales, he could also be regarded as sanctioning the universal application of that law throughout the country.<sup>3</sup>

Fel yr awgrymwyd eisoes, nid oedd rhai megis John Peckham, Archesgob Caergaint rhwng 1279 ac 1292, yn cefnogi'r Cyfreithiau, ac mae'n debyg fod gwŷr eraill mewn cyfnodau cynharach yn coleddu'r un syniadau ag ef. Efallai mai ymateb i hyn a wnaeth llunwyr y prologau.<sup>4</sup> Efallai, yn ogystal, fod llunwyr y prologau yn gobeithio y byddai

---

<sup>1</sup> Gw. Carr, "Houael Rex", t. 10; Pryce, 'The Prologues', t. 151. Gw. hefyd J. Goronwy Edwards, 'Hywel Dda and the Welsh Lawbooks', *CLP*.

<sup>2</sup> Gw. Pryce, 'The Prologues', tt. 151 - 2.

<sup>3</sup> *Ibid.*, t. 166.

<sup>4</sup> *Ibid.*, tt. 176 - 7.

enwi Hywel Dda yn annog tywysogion eu cyfnod hwy i ymddiddori yng nghyfreithiau' u gwlad.<sup>1</sup>

Mae rhai, felly, yn dadlau mai defnyddio enw Hywel er mwyn dod ag awdurdod a bri'r gorffennol i'r Cyfreithiau a wnaed. Fodd bynnag, cred llawer y gall fod gronyn o wirionedd yn y stori. Gronyn bychan iawn o wirionedd ydyw ym marn Dafydd Jenkins –

ni ellir rhoi llawer o goel ar yr holl chwedl ddiddan yma. Peth digon cyffredin yw cael mewn llyfr cyfraith, ochr yn ochr â datganiad digon cywir o reolau'r gyfraith, ddarn o hanes honedig nad oes nemor ddim sail iddo, er mwyn ychwanegu at awdurdod y gyfraith; ac mae pob lle i gredu mai rhyw gnewyllyn digon bychan o wirionedd sy'n llechu dan yr hanes manwl hwn am y modd y cafodd cyfraith Hywel ei henw a'i hawdurdod.<sup>2</sup>

– ond gronyn serch hynny. Ys dywed Huw Pryce, “On present evidence we cannot prove that Hywel made an important contribution to Welsh law; but neither can we disprove it, and the most plausible explanation for his unanimous inclusion in the prologues remains that his reputation as a lawgiver had a historical basis.”<sup>3</sup>

Ymddengys fod nifer o ffeithiau'n cefnogi'r traddodiad ynghylch Hywel. Yn gyntaf, er bod y llyfrau cyfraith yn cynnwys datblygiadau a newidiadau o ran ambell gyfraith, ymddengys fod rhai cyfreithiau'n hŷn na'r ddeuddegfed ganrif. Er gwaethaf y gwahaniaethau sydd rhwng y gwahanol fersiynau o'r Cyfreithiau, gwelir bod llinyn arian yn rhedeg trwyddynt oll, ac ym marn J. E. Lloyd ni ellir diystyru'r posibilrwydd mai i gyfnod Hywel y perthyn y cnewyllyn hwnnw. Meddai wrth drafod y gwahanol

---

<sup>1</sup> *Ibid.*, t. 178.

<sup>2</sup> Jenkins, *Cyfraith Hywel*, t. 2.

<sup>3</sup> Pryce, 'The Prologues', t. 166.

fersiynau:

They differ greatly among themselves and the Welsh MSS. even admit of being classified in three main divisions, representing three quite distinct editions of the laws. [...] At the same time, there is a core of matter which is common to all - an original nucleus which it does not seem at all fanciful to refer to the tenth century.<sup>1</sup>

Ymhellach, awgryma Lloyd a T. P. Ellis mai oherwydd ei ymwneud â'r Cyfreithiau y cafodd Hywel ei anrhydeddu â'r epithet 'Da'.<sup>2</sup>

Yn olaf, gan yr ymddengys mai un corff o gyfreithiau a geid trwy Gymru i gyd, mae'n debyg fod y cyfreithiau hyn wedi eu llunio neu eu cadarnhau pan oedd Cymru i gyd, neu'r rhan fwyaf o'r wlad, yn cael ei harwain gan un brenin. Ychydig o frenhinoedd, mewn gwirionedd, a fu mewn sefyllfa o'r fath. Yr unig rai y gellir eu henwi ydyw Rhodri Mawr (rhwng 872 ac 878), Hywel Dda (rhwng 942 a 949), Maredudd ab Owain (rhwng 986 a 999), a Gruffudd ap Llywelyn (rhwng 1055 a 1063).<sup>3</sup> O'r rhain i gyd, Hywel a gysylltir â'r Cyfreithiau, ac awgryma A. D. Carr y gallai ei berthynas ag Aethelstan, brenin Lloegr, fod yn gyfrifol am hyn. Gan fod Hywel yn gyfarwydd â llys Aethelstan, efallai fod hoffter yr Eingl-Sacsoniaid o lunio cyfreithiau wedi dylanwadu arno. Yn wir, gwelir rhywfaint o ôl dylanwad Eingl-Sacsoneg ar iaith y Cyfreithiau: er enghraifft, defnyddir y gair 'distain' (a ddatblygodd o'r Saesneg 'disc-thegn'), a'r gair 'edling', a allai darddu o'r gair 'aetheling'.<sup>4</sup>

---

<sup>1</sup> Lloyd, 'Hywel Dda', t. 3.

<sup>2</sup> Gw. *ibid.*, t. 2; T. P. Ellis, 'Hywel Dda: Codifier', *TrCymm* (1926 - 27), tt. 8 - 9.

<sup>3</sup> Gw. Carr, 'Houael Rex', tt. 11 - 12.

<sup>4</sup> *Ibid.*, t. 12.

Efallai fod a wnelo Hywel Dda rywbeth â llunio Cyfreithiau Cymru, efallai nad ymyrrodd â hwy o gwbl. Yn ôl pob tebyg, mae rhyw sail i'r traddodiad; ond boed sail iddo neu beidio, mae'n amlwg fod enw Hywel wedi dod â bri ac awdurdod i'r Cyfreithiau yn union fel y daeth enw Gruffudd ap Cynan â bri'r gorffennol gwych i'r Statud. Yn y ddau achos, ymddengys fod stori wedi ei gwau o amgylch rhyw draddodiad dilys, stori a gynigiai gefndir o ran lleoliad, amser ac awdurdod i gorff o reolau, deddfau neu gyfreithiau. Digwyddodd yr un peth gyda'r testunau meddygol o'r Canol Oesoedd o'r enw 'Meddygon Myddfai'. Gwybodaeth ynghylch llunio diagnosis a phrognosis, a gwybodaeth ynghylch llawfeddygaeth, cyffuriau a gwella cleifion trwy ollwng gwaed a llosgi a geir ynddynt, yn ogystal â chyfarwyddiadau ynghylch sut i lunio meddyginiaethau trwy ddefnyddio llysiau, anifeiliaid a mwynau;<sup>1</sup> ond drachefn, law yn llaw â'r wybodaeth ffeithiol hon ceir stori sy'n ceisio tadogi'r gwaith ar wŷr o'r gorffennol. Mewn un fersiwn a geir yn llawysgrif LIB Ych 14912, er enghraifft, dywedir mai Rhiwallon Feddyg a'i feibion – Cadwgan, Gruffudd ac Einion – a luniodd yr wybodaeth feddygol yn gyntaf, a hynny dan nawdd Rhys Gryg, arglwydd Dinefwr.<sup>2</sup>

Nid oedd llunio stori yn gefndir i destun ffeithiol yn arfer a gyfyngid i Gymru'n unig. Yn wir, ymddengys fod storïau 'lle ac amser' i'w gweld o flaen testunau cyfraith yn Iwerddon hefyd.

Yn ôl rhagymadrodd i destun o'r enw *Bretha Étgid*, er enghraifft, ceir hanes gŵr

---

<sup>1</sup> Gw. *Cyd*, t. 496.

<sup>2</sup> Am drafodaeth fanwl ar 'hanes' creu'r testun meddygol, gw. Morfudd E. Owen, 'The Medical Books of Medieval Wales and the Physicians of Myddfai', *The Carmarthenshire Antiquity XXXI* (1995), tt. 34 - 44; idem., 'Meddygon Myddfai: A Preliminary Survey of Some Medieval Medical Writing in Welsh', *SC X/XI* (1975/76), tt. 210 - 33; Howard E. F. Davies a Morfudd E. Owen, 'Meddygon Myddfai' yn *WMed*, tt. 156 - 67; *DOC*, t. 134; Pryce, 'The Prologues', t. 175.

o'r enw Cenn Faelad, mab Ailella, gŵr a fu farw yn 679. Yn ôl yr hanes, fe anafwyd Cenn Faelad ym mrwydr Mag Rath yn 637 ac aethpwyd ag ef i dŷ Briccine o Duaim Dreacain i wella. Er mwyn ei wneud yn holliach bu'n rhaid cael gwared â'i *inchinn dermait*, sef y rhan o'i ymennydd a oedd yn gyfrifol am anghofio, ac o ganlyniad daeth yn bencampwr ar gofio. Safai tŷ Briccine wrth ymyl tair stryd rhwng cartrefi tri o athrawon lle ceid tair ysgol – un ysgol ar gyfer dysg grefyddol, y llall ar gyfer cyfraith frodorol, a'r olaf ar gyfer dysg farddol frodorol. Mynychodd Cenn Faelad y tair ysgol, ac ar ddiwedd pob diwrnod fe gofiai bopeth a glywodd yn ystod ei wersi'r dydd hwnnw, ac aeth ati i drefnu'r wybodaeth ar ffurf barddoniaeth ac yna ei gofnodi'n ysgrifenedig.<sup>1</sup>

Ceir fersiwn arall ar y stori mewn testun o'r enw *Auraiceps ua nÉces*. Yma priodolir y testun i Gonchobor mac Nessa, gan honni mai ei addasu'n unig a wnaeth Cenn Faelad. Ymhellach, ychwanegir yma mai Briccine a hyfforddai yn y tair ysgol, a gelwir Cenn Faelad yn ŵr 'y tair ysgol'. Yn ôl Proinsias Mac Cana, mae'r wybodaeth olaf hon am Cenn Faelad yn ddiddorol gan fod bardd o'r bymthegfed ganrif, bardd o'r enw Diarmaid a oedd yn aelod o deulu'r Ó Cleirighiaid, yn berchen ar epithet debyg i Cenn, sef *na dtri Sgol*, ond yn affodus nid oes mwy o dystiolaeth ar gael i gadarnhau fod ganddo gysylltiad â thair ysgol o'r fath.<sup>2</sup>

Ym marn Eoin MacNeill yr oedd y traddodiad ynghylch Cenn Faelad yn sylfaenol wir. Honna fod Cenn yn perthyn i linach fonheddig, a bod dystiolaeth ar gael sy'n awgrymu ei fod yn gysylltiedig â chyfraith, dysg frodorol a llenyddiaeth, a dysg grefyddol. Pwrpas stori brwydr Mag Rath, meddai, oedd nodi bod Cenn Faelad wedi

---

<sup>1</sup> Gw. Proinsias Mac Cana, 'The Three Languages and the Three Laws', *SC V* (1970), tt. 62 - 3.

<sup>2</sup> *Ibid.*, tt. 63 - 4.

gwneud yr hyn na wnaed erioed o'r blaen, sef cofnodi cynnwys yr hyn a ddysgid yn ysgolion dysg ac yn ysgolion crefyddol Iwerddon.<sup>1</sup>

Fodd bynnag, cred Mac Cana mai ffuglen ydyw'r stori, ffuglen a adeiladwyd o amgylch rhyw gnewyllyn hanesyddol, ac yma mae'n werth dyfynnu'n bur helaeth o'r hyn sydd gan Mac Cana i'w ddweud gan ei fod yn rhannol berthnasol i'r Statud:

[...] the legend of Cenn Faelad bears on its face all the marks of a fiction – a fiction which may none the less contain an element of truth. Apart from the late date of the texts in which it occurs (none of them can be older than the eleventh century), the legend itself has all the appearances of an idealized abstraction. Tuaim Dreacain is the ideal city of learning: Bricíne's house stands at the *trivium* of the three streets which symbolize the triad, or *trivium*, of learned disciplines which were recognized in seventh-century Ireland. If such a centre had really existed anywhere in Ireland, with such a close physical association between the secular and ecclesiastical disciplines, the barrier between them would surely have been breached before Cenn Faelad came on the scene.

One must be wary, therefore, of reading too much historical significance into the legend of Cenn Faelad. The relatively late date of the texts in which it occurs and the character of the legend itself suggests that it be used only with the utmost caution as evidence for the state of Irish learning in the seventh century. One need not suppose that it is sheer invention – most legends of the sort are built around a kernel of historical truth, or at least of genuine tradition: the difficulty is to isolate this element from its context. And in the present instance the legend may be more important for the general notions of organized learning which it reveals rather than for any light it may throw on a particular historical period. To be specific, the central notion which emerges from the story of Cenn Faelad's stay at Tuaim Dreacain is one of a close association, even juxtaposition, of the three main branches of learning, *sénechas*, *filidecht*, *légend*, the teaching of law schools, the teaching of the schools of nature poetry and general tradition, and finally the teaching of the monastic schools. This collocation fitted neatly into the traditional pattern of the triad and cannot but have been reinforced by it, if it was not indeed inspired by it in the first place.<sup>2</sup>

Ymddengys, felly, fod llunio stori sy'n cynnig cefndir i destun ffeithiol yn arfer

---

<sup>1</sup> Gw. *ibid.*, tt. 64 - 5.

<sup>2</sup> *Ibid.*, tt. 65 - 6.

pur gyffredin, stori a oedd yn ei chyfanrwydd yn annhebygol o fod yn wir, ond stori a allai gynnwys elfen o wirionedd, neu a ddatblygodd efallai o ryw draddodiad hynafol a dilys.

Nid ydyw'r Statud, felly, yn sefyll mewn gwagle. Ni ellir profi o gwbl fod y traddodiad ynghylch Gruffudd ap Cynan yn wir, ond ni ellir ei daflu o'r neilltu'n llwyr ychwaith. Ymddengys yn debygol fod rhyw draddodiad yn sail i'r hanes a geir amdano yn y Statud, ond eto cafwyd bron i bedair canrif o dawelwch heb gyfeiriad o gwbl ato'n ymyrryd yn y gyfundrefn farddol. Boed y stori'n wir ai peidio, bu o gymorth i swyddogion Eisteddfod Caerwys 1523: o fewn eu talaith farddol hwy, sef talaith Aberffraw, un o'r brenhinoedd mwyaf llwyddiannus a maith ei deyrnasiad oedd Gruffudd ap Cynan, a phetai rhyw draddodiad a'i cysylltai â beirdd a cherddorion eisoes yn bodoli, wel gorau oll. I wŷr yr unfed ganrif ar bymtheg, ac yn arbennig felly i swyddogion Eisteddfod Caerwys 1523, ymddengys fod Gruffudd ap Cynan wedi cynnig awdurdod, bri, statws, braint a gwreiddiau cynnar i'r Statud.



## 7. *Y Statud a Chyfundrefn y Beirdd*

Fel y gwelwyd eisoes, mae Statud Gruffudd ap Cynan yn cyfeirio at nifer o elfennau a allai fod yn bwysig iawn i feirdd. Cyfeirir at addysg y beirdd ac at eu rhoddion; trafodir sut ac ymhle y gellid graddio; a cheisir gosod canllawiau moesol cadarn iddynt.

Fodd bynnag, a oedd yr hyn y traethir yn ei gylch yn y Statud yn fyw i'r beirdd a enillai eu tamaid trwy farddoni yn ystod hanner cyntaf yr unfed ganrif ar bymtheg, sef y cyfnod y lluniwyd fersiwn cynharaf y Statud? Ai darlun artiffisial o gyfundrefn y beirdd a geir yn y Statud, ynteu a oedd grym gwirioneddol i'r rheolau a geir yn y ddogfen? Yn syml, ai creu darlun ffug neu ddarlun delfrydol o gyfundrefn y beirdd a wna'r Statud, ynteu a ydyw'r darlun a geir ynddi yn adlewyrchiad teg o sefyllfa'r beirdd yn yr unfed ganrif ar bymtheg?

Yn yr adran hon, ceisir dangos bod llawer o'r hyn y cyfeirir ato yn y Statud yn berthnasol i feirdd y cyfnod. Trafodwyd eisoes gyd-destun cymdeithasol y Statud: yma ceisir trafod cyd-destun y ddogfen o fewn cyfundrefn y beirdd.

Gellir dosbarthu'r wybodaeth a geir yn Statud Gruffudd ap Cynan yn ddau brif gategori: yn gyntaf, sonnir am rai pethau nad oeddynt yn gyfoes i wŷr yr unfed ganrif ar bymtheg – hynny ydyw, sonnir am rai agweddau ar 'orffennol' y gyfundrefn farddol – ac yn ail, sonnir am yr hyn a allai fod yn berthnasol i feirdd yr unfed ganrif ar bymtheg.

Mae'n ddiddorol nodi mai testunau o ail hanner yr unfed ganrif ar bymtheg ymlaen yn unig sy'n sôn am orffennol y gyfundrefn farddol – am y pencerdd a'r bardd

teulu, am Rys ap Gruffudd a Bleddyn ap Cynfyn, ac am y newid a ddaeth i ran y drefn o noddi'r beirdd pan ddaeth cyfnod y tywysogion i ben. Canolbwyntia'r testunau a luniwyd yn hanner cyntaf yr unfed ganrif ar bymtheg ar bethau ymarferol a oedd yn berthnasol i feirdd y cyfnod hwnnw, ond ymddengys fod llunwyr ambell destun o ail hanner y ganrif ymlaen – testunau a luniwyd yn wreiddiol tua 1567 efallai, sef adeg cynnal ail eisteddfod Caerwys – yn teimlo bod angen edrych yn ôl i'r gorffennol a thrafod rhai agweddau ar y gorffennol hwnnw, o bosibl er mwyn ceisio dod ag awdurdod i weddill yr hyn y traethir yn ei gylch. Efallai na fu canllawiau ymarferol y testunau cynharaf yn ddigon i achub y gyfundrefn farddol, a bod gwŷr ail hanner y ganrif yn teimlo bod angen pwysleisio eu pwysigrwydd a'u harwyddocâd trwy eu cysylltu â threfn y 'gorffennol gwych'.

Fel y gwelwyd eisoes, cyfeirir at rai o reolau Cyfreithiau Hywel Dda mewn ambell destun o ail hanner yr unfed ganrif ar bymtheg ymlaen, ac mae'r rheolau hyn yn ymwneud yn bennaf â'r pencerdd a'r bardd teulu. Wrth gwrs, nid oedd trefn yr Oesoedd Canol yn bod erbyn cyfnod y Statud, ac ni ddosberthid y beirdd yn 'benceirddiaid' neu'n 'feirdd teulu' fel y gwneid gynt. Fodd bynnag, ymddengys fod rhai o wŷr ail hanner y ganrif yn teimlo bod angen atgoffa beirdd eu cyfnod hwy o'r drefn hon, o drefn a allai gynnig gwaredigaeth iddynt, o bosibl, rhag y beirdd a'r cerddorion isradd ac answyddogol cynyddol a oedd yn bygwth siglo seiliau'r gyfundrefn farddol draddodiadol. Er na ddiffiniwyd swyddogaethau'r pencerdd a'r bardd teulu yn gwbl ddiawys yn y llyfrau cyfraith, o leiaf fe ystyrir bod y ddau yn feirdd o safle a statws, yn wŷr wrth gerdd cyfreithlon a chanddynt awdurdod a pharch.<sup>1</sup>

---

<sup>1</sup> Ni thrafodir yma y gwahaniaethau rhwng y gwahanol fersiynau o'r Cyfreithiau. Am fwy o wybodaeth, gw. Aled Rhys Wiliam (gol.), *Llyfr Iorwerth*

Fel y mae teitl ei swydd yn awgrymu, y pencerdd oedd y bardd a oedd wedi cyrraedd brig ei broffesiwn. Wrth drafod y pencerdd a'r gof, dywed Dafydd Jenkins hyn:

Both were leaders of their professions in the area (and we must remember that smithcraft was on the same level as bardism as a profession too honourable for villeins). The organisation of these professional guilds was independent of the court.<sup>1</sup>

Ei statws annibynnol a roddai'r rhyddid iddo erchi. "Ny henyw y penkerd o rif y swydogyonn llys",<sup>2</sup> meddid; ond, serch hynny, yr oedd iddo le anrhydeddus yn y llys hwnnw, a châl ei ystyried fel gŵr o anrhydedd, "the leader of a locally-based group of men of the craft".<sup>3</sup> Yn wir, câi eistedd yn agos i'r brenin yn y wledd, ef a gâi ganu gyntaf yn y llys, ac fe gâi nifer o roddion a breiniau.<sup>4</sup>

Mae statws uchel y pencerdd – a statws y beirdd yn gyffredinol – i'w weld yn rhai o ddeddfau eraill y Cyfreithiau hefyd. Y bardd oedd un o'r tri dyn na ddylai ryfela,<sup>5</sup> gan na ellid dioddef ei golli; a hyd yn oed pe byddai bardd neu gerddor yn llofruddio rhywun,

---

(Cardiff, 1960); Dafydd Jenkins (gol.), *The Law of Hywel Dda: Law Texts from Medieval Wales Translated and Edited* (Llandysul, 1986); Stephen J. Williams a J. Enoch Powell (goln.), *Cyfreithiau Hywel Dda yn ôl Llyfr Blegywryd (Dull Dyfed): Argraffiad Beirniadol ac Eglurhaol* (Caerdydd, 1961).

<sup>1</sup> Dafydd Jenkins, 'The Law of Hywel', yn Carr & Jenkins (goln.), *A Look at Hywel's Law*, tt. 33 - 4.

<sup>2</sup> Fe'i dyfynnir yn idem., 'Pencerdd a Bardd Teilu', *YB XIV* (Dinbych, 1988), t. 25.

<sup>3</sup> Idem., *The Law of Hywel Dda*, t. 371.

<sup>4</sup> Gw. Chadwick, *The Growth of Literature I*; Jenkins, 'Pencerdd a Bardd Teilu', tt. 33 - 9; Jones, 'Bardism and Romance', tt. 209 - 10, t. 212.

<sup>5</sup> Artist ac ysgolhaig neu farnwr oedd y ddau arall.

ni chaniateid ei ladd ef.<sup>1</sup>

Bardd y brenin oedd y pencerdd yn gyntaf ac yn bennaf, ond bardd y frenhines a'r osgordd oedd y bardd teulu.<sup>2</sup> Yn wahanol i'r pencerdd, yr oedd y bardd teulu yn sicr yn un o swyddogion y llys, ac ef ydyw'r unfed ar ddeg i'w enwi yn Llyfr Blegywryd a Llyfr Cyfnerth a'r tri thestun Lladin, ond yr wythfed yn Llyfr Iorwerth.<sup>3</sup> Câi eistedd ger y penteulu, ac yr oedd ei sarhad, ei alanas, a'i ebediw yr un fath â rhai'r gostegwr, y drysawr neuadd, y drysawr ystafell, y gwastrawd afwyn, y canhwyllydd, y meddydd, y trulliad, swyddog y llys, y cog, y troedawg, y meddyg, gwastrawd afwyn y frenhines, y gwas ystafell, a'r forwyn ystafell. Fel y pencerdd, câi hawlio nifer o roddion a breiniau, ac yr oedd yn ŵr o statws a pharch.<sup>4</sup>

---

<sup>1</sup> Gw. Holzknecht, *Literary Patronage*, t. 27. Am gyfeiriadau at gadair y pencerdd, gw. *LIB*, tt. xxvi - xxviii; Jones, 'Bardism and Romance', tt. 208 - 9, t. 239; idem., 'Social Life', tt. 113 - 14; Williams, 'Anglesey's Contribution', tt. 5 - 6; idem., 'Beirdd y Tywysogion', tt. 36 - 7, t. 39; idem., 'The Court Poet in Medieval Ireland', *PBA* LVII (1971), tt. 89 - 90; Jenkins, 'Pencerdd a Bardd Teulu', tt. 41 - 2. Gw. Williams, 'Beirdd y Tywysogion', tt. 36 - 7; idem., 'Yr Arglwydd Rhys', t. 114; *GDB*, t. 165 am drafodaethau ar ennill cadair trwy ymryson yn Iwerddon.

<sup>2</sup> Gw. Bowen, 'Y Cywyddwyr a'r Noddwyr Cynnar', t. 82; Jenkins, 'Pencerdd a Bardd Teulu', tt. 31 - 2; Jones, 'Bardism and Romance', t. 215, t. 219; Chadwick, *The Growth of Literature* I, t. 583; Williams, 'Beirdd y Tywysogion', t. 33. Am drafodaeth ar y datblygiad a fu yn swyddogaeth y bardd teulu, gw. Jenkins, 'Pencerdd a Bardd Teulu', t. 41.

<sup>3</sup> Gw. Jones, 'Bardism and Romance', t. 213; Williams, 'Beirdd y Tywysogion', t. 31.

<sup>4</sup> Gw. Jenkins, 'Pencerdd a Bardd Teulu', tt. 28 - 32; Jones, 'Bardism and Romance', tt. 213 - 19; idem., 'Social Life', tt. 114 - 15. Am farn gwahanol arbenigwyr yn y maes ynghylch union safle a swyddogaeth y pencerdd a'r bardd teulu, ac ynghylch arwyddocâd y mesurau a ddefnyddient, gw. Jenkins, 'Pencerdd a Bardd Teulu', t. 20, t. 40; J. E. Lloyd, *History of Wales* II (London, 1911), t. 530; Williams, 'Beirdd y Tywysogion', tt. 32 - 3; idem., *Y Storiwr Gwyddeleg a'i Chwedlau* (Caerdydd, 1972), t. 12; Bowen, 'Y Cywyddwyr a'u Noddwyr Cynnar', t. 77, t. 87; Peredur Lynch, 'Yr Awdl a'i Mesurau', *BTh*, tt. 277 - 8; Nerys Ann Jones, 'Y Gogynfeirdd a'r Englyn', *BTh*, tt. 294 - 8; Pennar, 'Teuluaeth a Maswedd', t. 55;

Fe ymddengys, felly, fod y Statud yn cyfeirio at y pencerdd a'r bardd teulu er mwyn atgoffa beirdd a noddwyr yr unfed ganrif ar bymtheg o'r drefn 'ddelfrydol' a fodolai gynt. Yr oedd grym y gyfraith y tu cefn i'r pencerdd a'r bardd teulu – yr oedd awdurdod swyddogol i'w safle – ond nid felly feirdd yr uchelwyr. Efallai fod rheswm tebyg yn llechu tu ôl i benderfyniad ambell un o'r gwŷr a aeth ati i addasu'r Statud i gynnwys hanes Eisteddfod Aberteifi yn y ddogfen, ac i'w chysylltu ag enwau Rhys ap Gruffudd a Bleddyn ap Cynfyn yn ogystal ag enw Gruffudd ap Cynan.

Drachefn, fe berthyn y testunau sy'n cynnwys am y tro cyntaf hanes eisteddfod Aberteifi a hanes Rhys ap Gruffudd a Bleddyn ap Cynfyn i ddiwedd yr ail ganrif ar bymtheg – hynny ydyw, ar ôl Eisteddfod Caerwys 1567.

Er i fersiynau cynharaf y Statud nodi y dylid cynnal eisteddfod bob tair blynedd, ymddengys na chafwyd ail eisteddfod tan 1567. A aethpwyd ati i geisio newid y drefn hon? A aeth rhywun ati yn union o flaen neu'n fuan ar ôl ail Eisteddfod Caerwys 1567 i geisio hybu'r syniad o gynnal eisteddfod? Wedi'r cwbl, fe gysylltir enwau tri o brif reolwyr y Cymry â'r ymgyrch i hybu eisteddfodau, bellach; ac onid dangos ysblander a gwychter 'eisteddfod' Rhys ap Gruffydd yn Aberteifi er mwyn annog Cymry'r unfed ganrif ar bymtheg i gynnal eisteddfodau tebyg a wnaed?

Os felly, pwy a aeth ati i ychwanegu deunydd o'r fath at y Statud?

Heb fwy o dystiolaeth, mae'n amhosibl dweud i sicrwydd pwy a wnaeth hyn. Fodd bynnag, mae'n werth nodi mai John Jones, Gellilyfdy, a gopiodd destun W, sef un o'r testunau sy'n cynnwys yr wybodaeth. Yn y llawysgrif sy'n cynnwys W, dywed John

---

Dafydd Jenkins, '*Bardd Teulu and Pencerdd*' yn T. M. Charles-Edwards, Morfydd E. Owen & Paul Russel (goln.), *The Welsh King and his Court* (Cardiff, 2000), tt. 142 - 66.

Jones iddo ddefnyddio llawysgrif ei daid wrth ei llunio, sef llawysgrif Siôn ap Wiliam ap Siôn (a fu farw yn 1573).<sup>1</sup> Daw hyn â ni'n ôl ar ein hunion at ail Eisteddfod Caerwys, gan fod Siôn ap Wiliam ap Siôn yn un o'r comisiynwyr yno. Ni ellir profi mai yn yr eisteddfod hon, neu trwy gymorth swyddogion yr eisteddfod, y cyflwynwyd yr ychwanegiadau hyn i'r Statud, ond mae'r ffaith fod gan Siôn ap Wiliam Siôn gopi o destun a oedd yn cynnwys yr ychwanegiadau hyn yn ei feddiant yn hynod o awgrymog. Hyd yn oed pe na bai ganddo ef na'r eisteddfod ran yn yr ychwanegu, ymddengys nad oedd yn anghytuno'n llwyr â'r ychwanegiadau a wnaed.

Yr oedd cysylltu enwau gwŷr megis Bleddyn ap Cynfyn a Rhys ap Gruffydd â'r Statud yn ogystal â chysylltu'r ddogfen ag enw Gruffudd ap Cynan yn ffordd o uno Cymru gyfan, ac yn ffordd o geisio dod â chefnogaeth Cymru i gyd y tu cefn i'r Statud. Cynrychiolid cefnogaeth talaith Aberffro gan Ruffudd ap Cynan, talaith Mathrafal gan Fleddyn ap Cynfyn, a thalaith Dinefwr gan Rys ap Gruffydd. Wrth gwrs, yr oedd crybwyll Bleddyn ap Cynfyn a Rhys ap Gruffydd o gymorth i statws y Statud: bu Bleddyn ap Cynfyn farw ym 1075 ar ôl teyrnasu'n eithaf llwyddiannus am ddeuddeng mlynedd ac, ym marn D. Simon Evans, yr oedd yn "ŵr nodedig a gyfrannodd yn fawr at les a budd ei ddeiliaid yn ystod ei deyrnasiad. Sefydlodd ym Mhowys linach a barhaodd hyd y bedwaredd ganrif ar ddeg."<sup>2</sup> Yr oedd Rhys ap Gruffydd yntau, fel sy'n ddigon hysbys, yn ŵr o awdurdod. Yr oedd yn ŵyr i Rys ap Tewdwr a Gruffudd ap Cynan, ac o 1171 hyd ei farwolaeth yn 1197 yr oedd y rhan fwyaf o'r Deheubarth dan ei awdurdod ac, wrth

---

<sup>1</sup> Gw. Nesta Jones, 'Bywyd John Jones Gellilyfdy' (Traethawd M. A. Prifysgol Cymru, 1964), tt. 18 - 19.

<sup>2</sup> *HGK*, t. xv. Honna rhai fod Bleddyn ap Cynfyn wedi cynnal eisteddfod – e.e gw. Stephens, *The Literature of the Kymry*, t. 10, t. 322 – ond ni ellir rhoi coel ar hyn bellach.

gwrs, yr oedd yn enwog fel noddwr.<sup>1</sup> Efallai, yn ogystal, fod enwau Bleddyn ap Cynfyn a Rhys ap Gruffydd wedi eu crybwyll yn y Statud gan fod y ddau, meddid, wedi cyflwyno newidiadau i'r Cyfreithiau.<sup>2</sup> Nid ydyw'n amhosibl fod y Statud wedi dilyn yr un patrwm.

Testunau o ail hanner yr unfed ganrif ar bymtheg, hefyd, sy'n cyfeirio at y ffaith fod yr uchelwyr wedi ysgwyddo'r baich o noddi'r gwŷr wrth gerdd ar ôl i'r tywysogion ddiflannu. Prin, wrth reswm, fod yn rhaid pwysleisio arwyddocâd hyn yn hanes y gyfundrefn nawdd.<sup>3</sup>

Wrth gwrs, nid oedd yr uchelwyr cyn y bedwaredd ganrif ar ddeg yn noddwyr dibrofiad oherwydd hyd yn oed yn ystod cyfnod y tywysogion nid peth cwbl ddieithr oedd eu gweld yn noddi beirdd.<sup>4</sup> Datblygiad yn hytrach na chwyldro a gafwyd, ac fel sy'n ddigon hysbys, i gyd-fynd â'r datblygiad hwn fe ddaeth y cywydd yn hytrach na'r awdl seremonïol yn brif gyfrwng mawl a marwnad. Yn ogystal â hyn daeth bri ar y canu serch, y canu gofyn a'r canu proffwydol.<sup>5</sup> Ymddengys, felly, mai pwysleisio cyfrifoldeb yr uchelwyr i noddi'r beirdd a wna'r adran hon yn y statud, gan eu hannog yn anuniongyrchol, efallai, i barhau â'r drefn.

---

<sup>1</sup> *Cyd*, tt. 650 - 1. Gw. hefyd Owen, 'The Medical Books', t. 42; idem., 'Meddygon Myddfai', tt. 216 - 17; Williams, 'Aberteifi 1176', tt. 30 - 1; Davies & Owen, 'Meddygon Myddfai', t. 158.

<sup>2</sup> Gw. Pryce, 'The Prologues', t. 178; Owen, 'Y Cyfreithiau - (1)', t. 210.

<sup>3</sup> Gw., e.e., Bowen, 'Gruffudd Hiraethog ac Argyfwng Cerdd Dafod', t. 147; idem., 'Beirdd a Noddwyr (Rhan II)', t. 246; *GHO*, t. 9; Roberts, 'Uchelwyr y Beirdd: I Llys', tt. 46 - 7; *RLNW*, t. 11, t. 127; Lake, 'Goblygiadau Clera', t. 126.

<sup>4</sup> Gw. D. J. Bowen, 'Yr Uchelwyr', *Ba 4* (Chwefror, 1963), t. 122; idem., 'Barddoniaeth yr Uchelwyr', t. 312; Glyn Roberts, *Aspects of Welsh History* (Cardiff, 1969), t. 309; Rowlands, 'Bardic Lore', t. 153.

<sup>5</sup> Gw. Bowen, 'Agweddau', tt. 55 - 8; Rowlands, 'Nodiadau', t. 231.

Dyna'r rhannau o'r Statud sy'n cyfeirio at orffennol y gyfundrefn farddol.

Mae gweddill y Statud yn canolbwyntio ar osod canllawiau neu lunio rheolau a allai fod o werth ymarferol i feirdd ei chyfnod er, fel y ceir gweld, na chedwid at bob rheol. Yma, rhennir yr wybodaeth yn adrannau gwahanol, sef addysg y beirdd, sut y gellid ymryson am ariandlws a dod yn athro, y rheolau cyffredinol, y rhoddion, gwyliau a gwleddau, defod y cyff clêr, graddio mewn neithior ac eisteddfod, a thrwyddedau barddol.

### *Addysg y beirdd*

Fel y gwelwyd uchod wrth drafod cynnwys y Statud, traethir yn bur helaeth ar addysg y beirdd ac ar yr hyn yr oedd yn rhaid i bob disgybl ei gyflawni cyn y gallai esgyn i radd uwch, ac ymddengys fod yr elfennau y cyfeirir atynt yn y Statud – er enghraifft, dysgu'r sillafau, y mesurau, y cynganeddion, y beiau cyffredin, y rhannau ymadrodd, y cymeriadau, a gwybod achau boneddigion – yn adlewyrchiad digon teg o addysg y beirdd yn yr Oesoedd Canol.

Mae D. J. Bowen ac E. I. Rowlands ill dau wedi cyfeirio at yr hyn a ddywed Llywelyn Goch ap Meurig Hen a Lewys Glyn Cothi mewn cerddi arbennig o'u heiddo. Yn 'Cywydd i'r Eira', dyma a ddywed Llywelyn Goch ynghylch ei swyddogaeth yn y Nannau:

Fy swydd gyda'm harglwyddi  
Hyn a fydd, a'u câr hen wyf i;  
Darllen cyfraith, rugliaith raid,  
A Brut hen y Brutaniaid.<sup>1</sup>

---

<sup>1</sup> *DGG*, rhif LXXXV, t. 159, llau. 43 - 6. Fe'i dyfynnir yn Rowlands, 'Bardic Lore', t. 147; Bowen, 'Beirdd a Noddwyr (Rhan II)', t. 251. Am gopi o'r gerdd



Ychwanegir at yr wybodaeth hon gan Lewys Glyn Cothi. Pan oedd yn llys Wiliam ap Siôn o Lanegwad, ei ddyletswyddau meddai

Oedd ddeall iddo awen;  
Darllen art arall yn well,  
Darllen ystoriau wellwell.  
Siensis, drwy'r siens a drig  
Achau'r ynys a'i chronig,  
A'r hen gerdd ar hyn o gof,  
A rhieingerdd o'r hengof.<sup>1</sup>

– ac yn llys Llywelyn a Henri ap Gwilym o Lan Tywi, byddai'n

mynegi, myn lago,  
Ysдорïau Brutus o Dro,  
A hen gerdd a henwau gwŷr  
A rhieni yr henwyr.<sup>2</sup>

Mae'r dystiolaeth orau, fodd bynnag, i'w chanfod yng nghywydd Gruffudd ab

---

gyfan, gw. Dafydd Johnston (gol.), *Gwaith Llywelyn Goch ap Meurig Hen* (Aberystwyth, 1998), tt. 44 - 5, rhif 8. Yma, 'Moliant Hywel a Meurig Llwyd o Nannau' ydyw teitl y gerdd.

<sup>1</sup> Fe'i dyfynnir yn Bowen, 'Beirdd a Noddwyr (Rhan II)', tt. 251 - 2. Gw. hefyd Rowlands, 'Bardic Lore', t. 147. Ceir testun llawn yn *GLGC*, tt. 135 - 6, rhif 58.

<sup>2</sup> Fe'i dyfynnir yn Bowen, 'Beirdd a Noddwyr (Rhan II)', t. 252. Cymh. yr hyn a ddywed Gruffudd Hafren mewn cywydd lle sonia am atyniadau cartref ei noddwr yn y Morfa-mawr:

Ystoriau ac iachau gant,  
Pynciau urddas penceirddiaid,  
Pob mwynder er pleser plaid...  
Ac edrych...  
Hoen gwiwddoeth, hen gywyddau.

Gw. Roberts, 'Noddi Beirdd yng Ngeredigion', t. 31.

Ieuan ap Llywelyn Fychan 'yn Dangos Pa Gyfrwyddyd a dylai vod mewn Bardd', cerdd  
a luniwyd, efallai, ar gyfer Eisteddfod Caerwys 1523. Dyma a ddywed Gruffudd:

A rhaid yw kyn gofyn rodd  
Medru wythran ymadrodd  
Ar kynghneddau moddau mad  
Ai chwilio ar ddychweliad  
A ffuro n iaith nid ffair nos  
Ai chychwyn wrth chwe achos  
Y dyn abl a adnebydd  
Y graddau ar siamplau y sydd  
A ffob esgus hwyluswaith  
A roed er ysgusor iaith  
Ni wyddai veirdd newyddion  
Attebau bervau llei bon  
Moddau ac ansoddau ysydd  
Bannav a ffum gobennydd  
Mae llef a chenedl hefyd  
Yn y vers kyn hyn o vyd  
Edrycher llei mager mawl  
Ar synwyr amhersennawl  
O ddaw a reswm ne ddav  
I gyvarvod ar versav  
[A] gida chwedl y gwawdydd  
Parthav ac ansoddau sydd  
Parod oedd ir prydyddion  
Y sydd o gyswllt a son  
Tec ywr iaith im areithiaw  
Beirddiaid a ddowaid a ddaw  
Beirddiaid yn ol detholair  
Ebillion gweddillion gair  
Achau rac henwau a gaid  
Blin arwydd or blaenoriaid  
Ymdraidd pump ymadrodd per  
Kyfundeb ai kyfiownder  
A ffan wyper henwer rodd  
Medru wythran ymadrodd  
Raid yw gwybod ar glodgerdd  
Y silldau syn gwau y gerdd  
A ffyrf pob sillda oi ffen  
Wrth arwydd pob llythyren  
[Mad yw medru] yr ymadrawdd  
Medru tec or mud ar tawdd  
Y mae silldau mewn daufodd  
Yscafnion mudion i modd

Trymion yw llawer eraill  
 Talgrynnion lleddfôn yw r llail  
 Ungamp kyssoni iowngerdd  
 Messurau sy n gwav y gerdd  
 Gwybod ple i dylei veio  
 A ffa ryw fai fyddai vo  
 Kynnal bodd kanol y byd  
 Kof i roddi kyvrwyddyd  
 Dwyn klod ar davod llei del  
 Dwyn iache pob dyn uchel  
 Ac arfav gynt ar vric onn  
 A dduc gwyr bonheddicion  
 Darllain llyfre lle i dylent  
 Ac ystoria gwyrda gynt  
 Llyvre diben yn penyd  
 Llyvre r gerdd yn llwyr i gyd.  
 Kynnal val yr amkenais  
 Kymraec hen Kymru ai kais  
 Kymru tec nid kamryw tal  
 Kanyn y bie i kynnal  
 Aiff eirioed y kyffredin  
 Ag aur goreugwyr ai gwin  
 Dyn arall daw yn ara  
 Yw mysg oni ddysg yn dda<sup>1</sup>

Darllen Brutiau a chyfraith; dysgu chwedlau a hengerdd,<sup>2</sup> gwybod y sillafau, y mesurau,

---

<sup>1</sup> *DWGILIV*, rhif VIII, tt. 19 - 21. Gw. hefyd *GP*, tt. ciii - civ.

<sup>2</sup> Dywedir yn y Statud y dylai bardd, yn arbennig arwyddfardd, fod yn gyfarwydd â gwaith Taliesin Ben Beirdd, Myrddin Wyllt a Myrddin Emrys.

Y bardd o'r chweched ganrif ydyw Taliesin, wrth gwrs. Caiff Taliesin – ynghyd â beirdd eraill na wyddom ddim am rai ohonynt, megis Talhaearn, Blwchfardd, Cian a Gwenith Gwawd – ei enwi yn yr *Historia Brittonum*. Gw. Jones, 'Bardism and Romance', t. 224; *Cyd*, t. 532, t. 694. Fodd bynnag, tyfodd y Taliesin hanesyddol hwn yn ffigwr chwedlonol, a thadogwyd cerddi chwedlonol arno. Yn ôl pob tebyg, yr oedd yr arwyddfardd yn gorfod dysgu'r cerddi hyn yn ogystal â cherddi'r Taliesin o gig a gwaed; yn wir, y "traddodiad ffug am Daliesin [...] oedd y mwyaf poblogaidd ymysg beirdd diweddarach." Gw. *Cyd*, t. 694. Am ymdriniaethau manwl â'r Taliesin hanesyddol a'r Taliesin chwedlonol, gw. *CT*; Ifor Williams, *Chwedl Taliesin* (Caerdydd, 1957); Marged Haycock, 'Llyfr Taliesin: Astudiaeth ar rai agweddau' (Traethawd D.Phil., Prifysgol Cymru, Aberystwyth, 1983); P. K. Ford, *Ystoria Taliesin* (1992).

Bardd chwedlonol, nid bardd hanesyddol, oedd Myrddin Wyllt. Cysylltir ei enw â nifer o gerddi, megis yr 'Afallennau', yr 'Hoianau', a 'Cyfoesi Myrddin a

y beiau, y cynganeddion, y rhannau ymadrodd – mae'r rhestr yn ddiidiwedd. 'Doedd ryfedd fod y beirdd yn gorfod astudio am flynyddoedd lawer cyn cyrraedd brig eu proffesiwn!

Yr oedd dysgu achau ac arfau hefyd, fel y gwelwyd, yn rhan bwysig o addysg y beirdd. I'r uchelwyr, yr oedd clywed eu hach yn cael ei datgan yng ngŵydd gwesteion mewn gwledd, er enghraifft, yn ffordd hwylus iawn o gadarnhau eu statws a'u safle cymdeithasol.<sup>1</sup> Ys dywed Glanmor Williams, "From early medieval times the gentry-born in Wales were notoriously pedigree-conscious and inordinately proud of a long and exalted lineage, a pride which they transmitted to later generations."<sup>2</sup> "Yr oedd meddu ar arfau'n dynodi safle freiniol mewn cymdeithas",<sup>3</sup> medd D. J. Bowen yntau, a dyna pam, mae'n debyg, yr oedd y newydd-ddyfodiaid i'r byd uchelwrol – y *nouveaux riches* – yn benderfynol o fod yn berchen ar ach wych, hyd yn oed pe na bai'r ach, o

---

Gwenddydd ei Chwaer'. Ys dywedid yn *Cyd*, t. 527, "Hyd y gellir canfod o'r daroganau anodd hyn, aelod o lys Gwenddolau fab Ceido, a laddwyd ym mrwydr Arfderydd yn 573, ydoedd. Yn sgil gweledigaeth frawychus a gafodd yn y frwydr collodd Myrddin ei bwyll a ffoi i goed Celyddon lle y trigai'n ddydd gwyllt yn dal cymdeithas â'r anifeiliaid ac mewn ofn rhag Rhydderch, gelyn Gwenddolau, mae'n debyg, ac yn ei orffwylledd cafodd ddawn broffwydo." Yn *Vita Merlini* Sieffre o Fynwy, fodd bynnag, ystumir yr hanes, gan gysylltu enw Myrddin â'r stori sy'n sôn am frwydr rhwng y ddraig goch a'r ddraig wen. Am ymdriniaeth lawn, gw. A. O. H. Jarman, *The Legend of Merlin* (Cardiff, 1960). Myrddin Emrys y gelwid y Myrddin a geid yn hanes Sieffre, ac ef, meddir, oedd yn gyfrifol am symud y meini o Iwerddon er mwyn adeiladu Côr y Cewri. Gw. *Cyd*, t. 527; Borrow, *Celtic Bards*; D. J. Bowen, 'Cywyddau Gruffudd Hiraethog i Dri o Awduron y Dadeni', *TrCymm* (1974 - 75), t. 128.

<sup>1</sup> Gw. *RRR*, t. 98. Awgryma Glanmor Williams, yn ogystal, mai mewn priodasau y llunidd cerddi'n moli ach y gŵr a'r wraig.

<sup>2</sup> *RLNW*, t. 149.

<sup>3</sup> Bowen, 'Beirdd a Noddwyr (Rhan III)', t. 2.

angenrheidrwydd, yn gywir.<sup>1</sup> Yr oedd y beirdd yn cyfeirio'n aml yn eu cerddi at achau'r noddwyr yr oeddynt yn digwydd eu moli neu eu marwnadu;<sup>2</sup> yn wir, cymaint oedd diddordeb y beirdd mewn llunio cerddi achyddol o'r fath fel bod y cyfan i'w weld "hyd syrffed",<sup>3</sup> ys dywed Gwyn Thomas, erbyn dechrau'r ail ganrif ar bymtheg. Manteisio ar hyn a wnaeth y *nouveaux riches*, a chael y beirdd i lunio achau ffug iddynt, er enghraifft pan honnodd Owain Salesbury fod modd i Domas Dafydd ap Ieuan olrhain ei ach i dywysog Bafaria yn ogystal ag i frenin Penmachno.<sup>4</sup> Fodd bynnag, yr oedd y Dyneiddwyr yn amheus iawn o hyn i gyd, a gwelir un o blith y beirdd hefyd yn mynegi ei amheuaeth. Medd Siôn Tudur:

Ninnau'r beirdd a wnawn, rai bas,  
O'r arddwyr wŷr o urddas,  
A rhoi achau rhy wychion,  
A mawl i Siac mal i Siôn.  
Pawb chwit chwat yn lladrata  
Penillion prydyddion da,  
A'u troi i iangwr truan,  
Poen trwy freib, fal peintio'r frân.<sup>5</sup>

Boed a fo am hynny, yr oedd gwybod a chasglu a chyfeirio at achau ac arfau yn rhan bwysig iawn o waith y beirdd. Yn wir, dywed Thomas Parry ei bod yn "hawdd credu mai herodraeth oedd prif orchwyl y prydyddion. Nid cangen o astudiaeth hanes

---

<sup>1</sup> Gw. Lewis, 'The Decline', t. 32.

<sup>2</sup> Gw. Roberts, 'Uchelwyr y Beirdd I', t. 50; Jones, 'Rhethreg yng Nghyfundrefn y Beirdd', t. 158.

<sup>3</sup> Gwyn Thomas, 'Y Portread o Uchelwr ym Marddoniaeth Gaeth yr Ail Ganrif ar Bymtheg', *YB VIII* (1974), t. 113.

<sup>4</sup> *Ibid.*

<sup>5</sup> Parry (gol.), *The Oxford Book of Welsh Verse*, rhif 112, t. 224.

oedd hel achau iddynt hwy, ond gwaith y llafurid wrtho gyda llawer mwy o sêl a manylder. [...] Y prydydd oedd ceidwad swyddogol purdeb gwaed y boneddigion.”<sup>1</sup> Yn ystod yr Oesoedd Canol y dechreuodd herodraeth ddatblygu’n drefn ffurfiol,<sup>2</sup> ond ymddengys mai yn ystod cyfnod Elisabeth I y ffynnodd arwyddfarddoniaeth. “Indeed”, medd E. D. Jones, “the herald-bard was very much a creation of that period of acute interest in genealogy and heraldry, and represented, I believe, a sort of grafting on to the Welsh bardic system of some of the functions of the Officer of Arms as represented by the College of Heralds founded towards the end of the fifteenth century.”<sup>3</sup> Ond er mai yn ystod y cyfnod rhwng tua 1450 a 1600 y cyrhaeddodd herodraeth ac arwyddfarddoniaeth eu penllanw, yr oedd beirdd cynharach yn hoff o gyfeirio at achau mewn cerddi, er nad i’r un graddau, efallai. Medd Gwalchmai am Owain Gwynedd:

Ardwyreaf hael o hil gruffut...  
Ardwyreaf hael o hil rodri...<sup>4</sup>

– a dywed Bleddyn Fardd fod Gruffudd ap Llywelyn ap Iorwerth o “hil Gruffut”.<sup>5</sup>

Yn ogystal â chadw achau, yr oedd yr arwyddfeydd yn gorfod dysgu arfau neu arfbeisiau eu noddwyr, a dysgu beth yn union oedd y gwahaniaeth rhwng arfbais y tad

---

<sup>1</sup> Idem., ‘Y Dr. Siôn Dafydd Rhys’, t. 236.

<sup>2</sup> *DOC*, tt. 102 - 3.

<sup>3</sup> E. D. Jones, ‘Presidential Address’, *AC CXII* (1963), t. 3. Am wybodaeth ynghylch sut a phryd y datblygodd herodraeth yn Lloegr, gw. Peter A. Bucknell, *Entertainment and Ritual* (London, 1979), tt. 150 - 1.

<sup>4</sup> Fe’i dyfynnir yn Williams, ‘Beirdd y Tywysogion’, t. 46.

<sup>5</sup> *Ibid.*

ac arfbais ei fab hynaf, er enghraifft.<sup>1</sup>

Ceir tystiolaeth o hoffter y beirdd – a’r Cymry’n gyffredinol – o achau yn llawysgrif B. M.Lansdowne III, f. 110. Adroddiad gan gyfrin swyddog o Gyngor Cymru a’r Gororau a ysgrifennwyd tua diwedd yr unfed ganrif ar bymtheg neu ddechrau’r ail ganrif ar bymtheg ydyw, ac ynddo ceir yr wybodaeth a ganlyn:

Upon the Soundaies and hollidaies, the multitude of all sortes of men women and children of everie parish doe use to meete in soundrie places either one some hill or one the side of some mountaine where their harpers and crowthers singe them songs of the doeings of their auncestors, namelie, of their wars against the kings of this realm and the English nacion, and then doe they ripp upp their petigres at length howe eche of them is descended from those their ould princes.<sup>2</sup>

Ond, wrth gwrs, nid oes raid edrych ymhellach na chanu’r beirdd eu hunain er mwyn canfod cyfeiriadau at yr arfer o hel achau ac arfau. Cyfeiriwyd eisoes at gywydd Lewys Glyn Cothi lle y cyfeiria at ei ddyletswyddau yn llys Gwilym ap Siôn o Lanegwad, ac yn ‘Moliant Wiliam Edwart’, dywed Lewis Môn ei fod yn:

Gosod arfau, rhannau rhòl,  
a’u disgreio, dysg reiol.<sup>3</sup>

Dengys Iolo Goch, yn ogystal, ei fod yn hen gyfarwydd â chreffft yr arwyddfardd gan iddo ddefnyddio elfennau’r gelfyddyd wrth ddisgrifio tarian ac ystondardd Syr Hywel y Fwyall fel a ganlyn:

---

<sup>1</sup> Parry, ‘Y Dr. Siôn Dafydd Rhys’, t. 237.

<sup>2</sup> Fe’i dyfynnir yn Ifor Williams, ‘Hen Chwedlau’, *TrCymm* (1946 - 47), t. 28. Gw. hefyd Williams, *Y Storiwr Gwyddeleg*, t. 3.

<sup>3</sup> *GLM*, t. 267, rhif LXXIV, llau. 51 - 2.

.. Ac ystondardd hardd hirddu  
Yn nhâl tŵr, da filwr fu,  
A thri blodeuyn gwyn gwiw  
O'r unllun, dail arianlliw.<sup>1</sup>

– ac yr oedd Lewys Glyn Cothi, mae'n amlwg, yn hyddysg iawn yn y gelfyddyd gan iddo yntau hefyd gynnwys elfennau herodrol yn ei gerddi, er enghraifft pan ddywedodd fod gan Syr Richard Herbert dri llew arian ar ei faner.<sup>2</sup>

Wrth gwrs, yr oedd y beirdd yn cael eu hyfforddi yn y grefft o arwyddfarddoniaeth. “Hir, trwyadl a llafurus oedd y cwrs o ddysgu'r holl fesurau a'r cynganeddion a chyfrinachau eraill a berthynai i urdd y beirdd, megis achau, herodraeth, a hanesion teuluol.”<sup>3</sup> Ceid llawer o arwyddfeirdd enwog, megis Lewys Morgannwg, Lewys Glyn Cothi, Wiliam Llŷn, Simwnt Fychan, Wiliam Cynwal, Siôn Tudur, Owain Gwynedd, Rhys Cain, Gutun Owain, a Gruffudd a Lewys Dwnn, ond yr enwocaf, mae'n debyg, oedd Gruffudd Hiraethog a oedd yn is-herodr dros Gymru dan y Coleg Arfau.<sup>4</sup> Yr oedd Lewys Glyn Cothi yn unigryw ymhlith y beirdd hyn, fe ymddengys, gan ei fod yn darlunio arfbeisiau gwrthrychau ei gerddi uwchben y cerddi yn y llawysgrif.<sup>5</sup>

---

<sup>1</sup> Gw. Evan John Jones, *Medieval Heraldry: Some Fourteenth Century Heraldic Works* (Cardiff, 1943), t. xlix.

<sup>2</sup> Gw. *DOC*, t. 103.

<sup>3</sup> Gw. Glanmor Williams, 'Addysg yng Nghymru cyn 1536', *Grym Tafodau Tân*, t. 17. Ymhellach, gw. Proinsias Mac Cana, 'The Three Languages and the Three Laws', *SC V* (1970), t. 73.

<sup>4</sup> Gw. *Cyd*, t. 292. Am gyfeiriadau at arwyddfeirdd gw. *GP*, t. xci; Jones, *Cymru a'r Tuduriaid*, t. 10; Jones, 'Presidential Address', t. 3, tt. 7 - 9.

<sup>5</sup> Gw. Bowen, 'Beirdd a Noddwyr (Rhan III)', t. 2. Ymfalchïai'r Gwyddyl yn eu tras, yn ogystal, ac felly nid ydyw'n syndod gweld y *filid* yn llunio cerddi yn cynnwys llawer iawn o achau. Gw. *TLLM*, tt. 49 - 50, tt. 139 - 40. Am wybodaeth ynghylch hel achau yn yr Alban, gw. Derick S. Thomson, 'Gaelic Learned Orders and Literati in Medieval Scotland', *SS XII* (1968), t. 71.



Rhwng 1450 a 1600, fel y gwelwyd eisoes, oedd oes aur yr arwyddfeydd yng Nghymru, ac mewn gwirionedd daeth yr arwyddfeydd i ben ar ôl y Ceiniaid, sef Rhys a Siôn Cain, y tad a'r mab.<sup>1</sup> Mewn llythyr a ysgrifennodd Wiliam Bodwrda at Siôn Cain yn y flwyddyn 1647, er enghraifft, dywed mai Siôn oedd yr unig ŵr trwy Wynedd i gyd a chanddo'r mymryn lleiaf o wybodaeth ynghylch arwyddfarddoniaeth.<sup>2</sup> Mae testun PH o'r Statud yn enwi Thomas Siôn (c. 1530 - 1609) o Borth y Ffynnon, Tregaron, fel achwr penigamp. Cyfeiria J. Gwynfor Jones ato, yn ogystal, gan ddweud ei fod ef, ynghyd â Lewys Dwnn a Thomas Wiliems o Drefriw, "yn dangos diddordeb mawr mewn sefydlu achau a asiai briodoleddau pendefigaeth ac uchelwriaeth."<sup>3</sup> Yr oedd Thomas yn fab i Catherine a Siôn ap Dafydd ap Madog ap Hywel Moetheu, ac yr oedd beirdd ei gyfnod, hefyd, yn ei ystyried yn achwr penigamp.<sup>4</sup>

Ymddengys mai addysg lafar oedd addysg y beirdd yn wreiddiol; yn wir, ni cheir copi o ramadeg ysgrifenedig cyn y bedwaredd ganrif ar ddeg, ac nid ydyw'r gramadeg hwnnw'n cynnwys holl ddeunydd hyfforddiant y beirdd. "Dysgedigaeth lafar oedd hon", medd Gwyn Thomas, "am mai dyna oedd dull llenyddiaeth yn ystod y rhan helaethaf o gyfnod Beirdd yr Uchelwyr. Llafar hefyd am ei bod hi'n ddysgedigaeth gyfrinachol, yn wybodaeth rhwng beirdd a'i gilydd yn hytrach nag yn beth i'w datgelu i rywun-rhywun".<sup>5</sup> Dyna ydyw barn G. J. Williams yntau:

---

<sup>1</sup> Gw. Charles, 'Teulu Mostyn', t. 95; Jones, 'Presidential Address', tt. 10 - 12.

<sup>2</sup> Gw. Jones, 'Presidential Address', t. 12.

<sup>3</sup> Jones, *Cymru a'r Tuduriaid*, t. 13.

<sup>4</sup> Gw. *Cyd*, t. 415. Ymhellach gw. Lewys Dwnn, *Heraldic Visitations* (1846); D. C. Rees, *Tregaron: Historical and Antiquarian* (1936).

<sup>5</sup> *TB*, t. 179.

Diamau mai ar dafod leferydd y dysgai'r hen athrawon, ac efallai mai traddodiad llafar yn unig ydoedd hyd y bedwaredd ganrif ar ddeg.<sup>1</sup>

Trwy gyfrwng traddodiad llafar o'r fath y dysgai'r beirdd achau tywysogion ac uchelwyr ar eu cof, ynghyd â deunyddiau chwedlonol a cherddi'r hen feistri, a'u hymgorffori wedyn yn eu cerddi.<sup>2</sup> Addysg lafar, hefyd, a alluogai'r beirdd i astudio'n fanwl a dysgu cerddi'r Cynfeirdd a'r Gogynfeirdd, a thrwy hynny ddod yn ymwybodol o bwysigrwydd sŵn a rhythm – elfennau pwysig iawn o gofio mai cael eu datgan a wnâi eu cerddi.<sup>3</sup>

Elfen bwysig yn yr addysg lafar hon, fe ymddengys, oedd dysgu'r hyn a elwir yn Drioedd Ynys Prydain. Nid peth anarferol ydyw gweld bardd yn cymharu'i noddwr i Rydderch Hael, er enghraifft, er mwyn pwysleisio ei haelioni.<sup>4</sup> Rhestr o gymeriadau neu ddigwyddiadau chwedlonol wedi eu casglu fesul tri ydyw Trioedd Ynys Prydain, math o fynegai i'r chwedlau a'r straeon llên gwerin yr oedd yn rhaid i'r beirdd fod yn

---

<sup>1</sup> GP, t. xiii. Gw. hefyd t. lxxxviii, tt. xcix - cxc; Ceri W. Lewis, 'Einion Offeiriad and the Bardic Grammar', *GWL*<sup>2</sup>, t. 58; Timothy Lewis, *Beirdd a Bardd-rin Cymru Fu*, (Aberystwyth, 1929), t. 11; CD, t. 139; Enid Roberts, 'Wiliam Cynwal', *TCHSDd XII* (1963), t. 73; *RLNW*, tt. 126 - 7.

<sup>2</sup> Gw. G. J. Williams, *Agweddau ar Hanes Dysg Gymraeg: Detholiad o Ddarlithiau G. J. Williams*, gol. Aneirin Lewis (Caerdydd, 1985), t. 6. Hyd yn oed ar ôl i rannau o addysg y beirdd gael eu cofnodi'n ysgrifenedig gan wŷr megis Einion Offeiriad a Dafydd Ddu o Hiraddug, ymddengys fod y traddodiad o ddysgu a hyfforddi beirdd ar lafar wedi parhau, gan nad ydyw'r gramadegau'n cynnig darlun cyflawn o addysg y beirdd. Ys dywed Ceri W. Lewis, 'The Content of Poetry and the Crisis in the Bardic Tradition', *GWL*<sup>2</sup>, t. 104: "Another important result of Einion's work was that the concept of a written curriculum for the bardic schools - to supplement the main instruction, which was still imparted orally - continued down to the end of the sixteenth century, by which time the professional guild of bards was in marked decline."

<sup>3</sup> Gw. Parry-Williams, 'The Bardic Tradition', t. 250.

<sup>4</sup> Rhydderch yn ôl y Trioedd oedd un o'r tri gŵr hael, a'r ddau arall oedd Nudd a Mordaf.

ymwybodol ohonynt. Trwy ddysgu'r trioedd hyn, yr oedd cyfoeth yr holl chwedlau o fewn cyrraedd y beirdd,<sup>1</sup> a hyd yn oed pe na baent yn adrodd y chwedlau hyn ar ôl eu dysgu – hynny ydyw, pe na baent yn ymddwyn fel cyfarwyddiaid – fe allent gyfeirio at chwedl neu gymeriad chwedlonol yn eu cerddi. Yng ngeiriau Rachel Bromwich:

*Trioedd Ynys Prydein*, like the *Trioedd Cerdd*, were evolved as a part of the teaching given in the bardic schools; pupil bards being required to learn the triad sequence by heart. As such, the various groups of triads originated simply as mnemonic devices; and *Trioedd Ynys Prydein* came into being as an aid to the recollection of the repertoire of narrative material which the young bard was in process of mastering. [...] We know that down to the final years of disintegration of the bardic order, bardic training continued to be both imparted and retained in a medium which was almost entirely oral - for the surviving copies of the *dwned* or bardic grammar represents only a late and partial aid to instruction - and hence it is that our knowledge of the content of this instruction must remain in a great measure inferential.<sup>2</sup>

Awgryma Rachel Bromwich nad oedd y beirdd erbyn canol y bedwredd ganrif ar ddeg mor gyfarwydd â beirdd cynharach â'r cefndir a'r traddodiadau y cyfeirir atynt yn y Trioedd.<sup>3</sup> Ymddengys fod Beirdd y Tywysogion, fodd bynnag, yn gwbl gyfarwydd â'r cefndir hwn, a bod ganddynt, felly, wybodaeth bur fanwl o'r chwedlau.<sup>4</sup>

---

<sup>1</sup> Er mai cymeriadau 'chwedlonol' a welir yn Nhrïoedd Ynys Prydain, yr oedd y ffin rhwng 'hanes' a 'chwedl' yn denau iawn yn ystod y Canol Oesoedd.

<sup>2</sup> *TYP*, tt. lxx - lxxi. Gw. hefyd t. lxxxviii, t. cxxx; Rachel Bromwich, 'Cyfeiriadau Traddodiadol a Chwedlonol y Gogynfeirdd' yn *BTh*, tt. 202 - 18; Lewis, 'The Content of Poetry', t. 92; Rowlands, 'Bardic Lore', t. 151, t. 155; *GP*, tt. lxxxviii - lxxxix.

<sup>3</sup> *TYP*, t. lxxvii. Gw. hefyd Lewis, 'The Content of Poetry', t. 95.

<sup>4</sup> Am drafodaeth fanwl ar bwysigrwydd y chwedlau yn hyfforddiant barddol y beirdd, gw. *TYP*, tt. lxiv - lxxv, tt. lxxxiii - lxxxiv; Lewis, 'The Content of Poetry', tt. 92 - 5; Rowlands, 'Bardic Lore', t. 146, t. 155; *TB*, t. 127; Williams, 'Beirdd y Tywysogion', tt. 42 - 4. Dylid nodi nad at arwyr y traddodiad Cymreig yn unig y cyfeiria'r beirdd yn eu cerddi. Yn aml, cyfeirir at arwyr Clasurrol megis Iason ac Eneas, neu at arwyr Beiblaidd megis Dafydd neu Selyf. Gw. *TB*, t. 126.

Yr oedd dysgu achau ac arfau noddwyr, chwedlau, straeon llên gwerin, a cherddi beirdd y gorffennol, felly, yn rhan bwysig o hyfforddiant y beirdd, fel y noda'r Statud. Fodd bynnag, yr oedd ochr arall i geiniog eu haddysg, ochr a gynigiai hyfforddiant mwy technegol, ac fel y gwelwyd eisoes, ar yr elfennau technegol hyn – megis dysgu sillafau, mesurau, cynganeddion a rhannau ymadrodd – y canolbwyntia'r Statud yn bennaf.

Yn ôl cerdd Gruffudd ab Ieuan ap Llywelyn Fychan a'r Statud, yr oedd yn rhaid i fardd wybod ei sillafau. Ar wahân i'r llythrennau, meistrioli'r sillafau oedd un o'r gofynion mwyaf elfennol, fe ymddengys, gan fod yn rhaid i'r disgybl ysbâs graddol, sef y bardd isaf ei radd, eu gwybod. Y testunau sy'n manylu ynghylch y sillafau a nifer o'r elfennau technegol eraill yn y cwrs barddol ydyw Gramadegau'r Penceirddiaid. Fel y gwyddys, lluniwyd y fersiwn cynharaf gan Einion Offeiriad, a thebyg mai tarddu o hwnnw a wna'r copi yn Llyfr Coch Hergest a berthyn i tua 1400. Er bod Peniarth 20 yn llawysgrif gynharach na'r Llyfr Coch, dichon mai copi o'r ailwampiad o Ramadeg Einion a wnaed gan Ddafydd Ddu o Hiraddug a geir yn y llawysgrif honno.

Ym marn Ceri W. Lewis, yr oedd bod yn hyddysg yn y sillafau'n hynod o bwysig.

This section [...] undoubtedly summarizes a vitally important part of the practical instruction given to the young bardic novitiates a mastery of which was absolutely essential before they could seriously undertake the composition of verse in the strict metres. As the length of each metrical line in Welsh strict-metre verse is determined not by its accented beats, but rather by the precise number of syllables it contains, the syllable is appropriately described in the bardic grammar as the poet's 'measuring rod'.<sup>1</sup>

---

<sup>1</sup> Lewis, 'Einion Offeiriad', tt. 76 - 7. Tebyg ydyw barn G. J. Williams yntau, *GP*, t. xxxi: "Yn yr adran hon sy'n ymdrin â'r sillafau ac â'r gwahanol fathau o ddiptoniaid, ceir yr hyn yr oedd yn rhaid i'r disgybl ei feistrioli cyn dechrau ymhél â phrydyddiaeth. Rhoddir yma yn ddiamau grynoded o ran bwysig o'r ddysg draddodiadol a gyfrennid yn ysgolion y penceirddiaid. Yr oedd cyfrif sillafau yn rheol cyhydedd yn y Gymraeg, ac yn herwydd hynny, gorfyddai ar y disgyblion roddi sylw manwl i'r gwahanol fathau o sillafau y gellir eu cael. Gelwir y sillaf yn 'llath

Yn gyntaf, mae'r Gramadegau'n nodi y gall sill gynnwys rhwng un a chwe llythyren. Manylir, yn ogystal, ar sillafau ysgafnion (er enghraifft *gwên, llên*) a sillafau trymion (er enghraifft *gwen, llen*), a gallai gwybod y gwahaniaeth rhwng y mathau gwahanol hyn o sillafau helpu'r beirdd wrth odli. Sonnir, hefyd, am y gwahaniaeth rhwng y sillaf dalgron a'r sillaf leddf, ac am y mathau gwahanol o ddeuseiniaid. Ymhellach, trafodir rhai geiriau y gwelir y ymwithiol ynddynt weithiau, er enghraifft *bagyl, baryf, mydyr*, ond nodir mai geiriau unsill ydynt. Yn ogystal, dywedir nad deuseiniaid a geid mewn geiriau megis *Cymraeg* neu *teyrn*: yr oedd y naill air yn air tri sill a'r llall yn ddeusill, meddir. Byddai'r wybodaeth hon, felly, wedi bod o fudd mawr i'r beirdd wrth iddynt odli a llunio llinellau o'r hyd cywir.<sup>1</sup> Efallai'n wir mai dangos ei fod wedi perffeithio'i sillafau yr oedd Ieuan Rhydderch (fl. 1430 - 70) pan luniodd gywydd yn moli gwallt merch – cywydd a oedd yn cynnwys geiriau a ddangosai'n bendant ei fod wedi deall y rheolau uchod yn llwyr.<sup>2</sup>

Yr oedd gwybod y gwahanol fesurau'n hynod o bwysig i fardd hefyd, wrth gwrs, a nodir yn y Statud fod yn rhaid i'r disgybl ysbâs wybod chwe mesur, bod yn rhaid i'r disgybl disgyblaidd wybod deuddeg, bod yn rhaid i'r disgybl penceirddiaidd wybod un ar hugain, a bod yn rhaid i'r pencerdd wybod y pedwar mesur ar hugain.. Er mai

---

vessur' i bob prydydd.”

<sup>1</sup> *GP*, tt. xxxi - xxxii, t. xxiv, t. lxii, tt. 1 - 3, tt. 19 - 21, tt. 39 - 42, tt. 89 - 94; R. Geraint Gruffydd, 'Wales's Second Grammarian: Dafydd Ddu of Hiraddug', *PBA XC* (1996), t. 7; Lewis, 'Einion Offeiriad', tt. 76 - 82; A. T. E. Matonis, 'Problems Relating to the Composition of the Welsh Bardic Grammars' yn A. T. E. Matonis a Daniel F. Melia (goln.), *Celtic Language, Celtic Culture* (California, 1990), t. 278; Rowlands, 'Bardic Lore', tt. 144 - 5; G. J. Williams (gol.) *Gramadeg Cymraeg gan Gruffydd Robert: yn ôl argraffiad y dechreuwyd ei gyhoeddi ym Milan yn 1567* (Caerdydd, 1939), t. civ; *GHO*, t. 16; Saunders Lewis, 'Adolygiad', t. 254.

<sup>2</sup> Gw. Lewis, 'Einion Offeiriad', t. 81.

deuddeg o fesurau a ddefnyddid yn ymarferol gan y Gogynfeirdd, ymddengys fod y syniad o bedwar mesur ar hugain yn bur hen – cyn hyned â'r bedwaredd ganrif ar ddeg, beth bynnag. Yn wir, awgryma John Morris-Jones mai Einion Offeiriad ei hun a gynyddodd nifer y mesurau i bedwar ar hugain.<sup>1</sup> Ceid ugain o fesurau cyn ei gyfnod ef, meddai, ond lluniodd Einion dri o fesurau newydd ei hun, a phenderfynodd gynnwys y cywydd llosgyrnog yn ogystal. Rhoddai hynny gyfanswm o bedwar mesur ar hugain.<sup>2</sup> Yr oedd i'r rhif arbennig hwn arwyddocâd i'r beirdd, fe ymddengys. Medd Ceri W. Lewis:

This figure, which was rigidly adhered to through-out the centuries, had a powerful symbolic significance in the Middle Ages, and it is interesting that the author of the bardic grammar lists twenty-four letters in the Welsh alphabet, although these do not represent all the sounds of the language. This figure occurs also in many other connections. For example, there were twenty-four measures of instrumental music, while the officers of the king's court (in the Laws of Hywel Dda), the great physical fears, the noblest ancestors, the wonders of the island of Britain, the best knights in Arthur's court, the kings traditionally considered to be most powerful, and the prime virtues all numbered twenty-four, on the evidence of medieval Welsh manuscripts.<sup>3</sup>

Yn ôl Gramadeg Llyfr Coch Hergest, “Teir keing ereill a berthynant ar brydyddiaeth: eglwynon, ac odleu, a chywydeu kerdwryeid, anhawd eu kanyat a’e dechymic”,<sup>4</sup> a thrafodir pob cangen fesul un. Eglurir mai “Tri ryw egllyn yssyd: egllyn vnawdyl ac egllyn proest, ac egllyn o hen ganyat.”<sup>5</sup> Trafodir yr englyn unodl yn gyntaf,

---

<sup>1</sup> *CD*, t. 319. Gw. hefyd *GP*, t. xxxvii.

<sup>2</sup> *CD*, t. 358 - 9.

<sup>3</sup> Lewis, ‘Einion Offeiriad’, t. 83.

<sup>4</sup> *GP*, t. 6.

<sup>5</sup> *Ibid.*

gan nodi bod tri math – unodl union, unodl crwca, ac unodl cyrch – a chynigir enghreifftiau o bob un.<sup>1</sup> Yna, tro'r englyn proest ydyw: “Tri ryw eglyn proest yssyd, proest dalgron, a lledyfbroest, a phroest gadwynawc”;<sup>2</sup> a gorffennir adran yr englyn trwy drafod y ddau englyn o'r hen ganiad.<sup>3</sup> Mae'r gramadeg hefyd yn manylu ynghylch mesurau'r awdl. “Pump messur kyffredin o'r dechreu a uu ar odleu, nyt amgen, todeit, a gwaewdodin, a chyhyded hir, a chyhyded uerr, a rupynt.”<sup>4</sup> Y gwawdodyn byr a olygir yma oherwydd ar ôl rhoi enghraifft o'r mesurau hyn ceir yr wybodaeth hon:

Gwedy hynny y dechymygywt pedwar messur ereill, nyt amgen, byrr a thodeit, a gway[w]dodin hir, a chyhyded nawbann, a chlogyrnach.<sup>5</sup>

Wedyn, nodir bod Einion Offeiriad wedi llunio tri o fesurau ei hun, sef hir a thoddaid, cyrch a chwta, a thawddgyrch gadwynog<sup>6</sup> – er bod fersiwn Peniarth 20 yn nodi mai Dafydd Ddu Athro a'u lluniodd.<sup>7</sup>

Yr unig fesurau a erys ydyw'r cywyddau. “Tri ryw gywyd yssyd”, meddir, “kywyd deueir, ac awdyl gywyd, a chywyd llogyrnawc”,<sup>8</sup> a cheir enghreifftiau o'r ddau gywydd deuaire – y deuaire hirion a'r deuaire fyrion – ac o'r cywyddau eraill.

---

<sup>1</sup> *Ibid.*, t. 7.

<sup>2</sup> *Ibid.*, t. 8.

<sup>3</sup> *Ibid.*, t. 9.

<sup>4</sup> *Ibid.*

<sup>5</sup> *Ibid.*, t. 10.

<sup>6</sup> *Ibid.*, t. 11.

<sup>7</sup> *Ibid.*, t. 51.

<sup>8</sup> *Ibid.*, t. 12.

Dyna'r pedwar mesur ar hugain yn ôl y Gramadegau barddol cynharaf, felly. Fodd bynnag, yn Eisteddfod Caerfyrddin, a gynhaliwyd tua chanol y bymthegfed ganrif, aeth Dafydd ab Edmwnd ati i ailwampio adran y mesurau. Yn ogystal â thynhau rheolau'r gynghanedd, fe benderfynodd gael gwared â dau o englynion yr hen ganiad a chyflwyno dau fesur o'i waith ei hun i oriel y pedwar mesur ar hugain, sef cadwynfyr a gorchest y beirdd – mesurau anos nag englynion yr hen ganiad, mesurau a oedd yn mynnu mwy o allu a thechneg i'w canu.<sup>1</sup> Ymddengys mai dosbarth Dafydd ab Edmwnd, yn hytrach na dosbarth yr hen Ramadegau a fabwysiadwyd gan lunwyr y Statud gan fod cyfeiriad at o leiaf un o fesurau newydd Dafydd yn y mwyafrif o'r testunau sy'n cynnwys adran maes llafur y beirdd: mae CH a L yn cyfeirio at y cadwynfyr a gorchest y beirdd, tra mae A, B, D, E, F, FF, H, R (i), Y, I<sup>(1)</sup> a LL<sup>(1)</sup> yn cyfeirio at y cadwynfyr yn unig. Cadarnheir astrusrwydd y mesurau hyn yn y Statud, gan fod y ddogfen yn nodi nad oedd disgwyl i'r disgybl pencerddaidd hyd yn oed, sef y disgybl uchaf ei radd, ganu ar y mesurau hyn. Y pencerdd yn unig, fe ymddengys, a feddai ar y gallu technegol angenrheidiol i'w canu.<sup>2</sup>

---

<sup>1</sup> Am drafodaeth ar hen bedwar mesur ar hugain cerdd dafod a'r newidiadau a welwyd yn ystod y bedwaredd ganrif ar ddeg a'r bymthegfed gw. *CD*, tt. 319 - 54. Fel Ceri W. Lewis, awgryma John Morris-Jones, *ibid.*, tt. 358 - 9, "mai rhyw ffansi y dylai elfennau'r gân fod o'r un nifer ag elfennau'r iaith" a oedd yn gyfrifol am benderfynoldeb y beirdd o gael pedwar mesur ar hugain yn hytrach na nifer arall.

<sup>2</sup> Am fwy o wybodaeth am ddogfen y mesurau, gw. *GHO*, t. 16; Rachel Bromwich, 'Gwaith Einion Offeiriad a Barddoniaeth Dafydd ap Gwilym', *YB X* (Dinbych, 1977), t. 162; Gruffydd, 'Wales's Second Grammarian', t. 7; Lewis, 'Einion Offeiriad', tt. 82 - 4; Lewis, 'Adolygiad', t. 254; Matonis, 'Problems Relating to the Composition', t. 279, tt. 286 - 7; Rowlands, 'Bardic Lore', t. 145; *GP*, tt. xxxvii - xxxviii, t. lxx, t. lxxiii, t. ci; Lynch, 'Yr awdl a'i Mesurau', tt. 258 - 87.

Mae'n werth nodi yma fod adran y mesurau yn y gramadeg a gopiwyd gan Robert ab Ifan yn Peniarth 158, tt. 21 - 30, yn anghytuno â thystiolaeth y Statud. Fel y gwelwyd eisoes, yr oedd yn rhaid i'r disgybl ysbâs graddol wybod englyn unodl union, englyn unodl crwca, englyn unodl cyrch, englyn proest cyfnewidiog, englyn



Yr oedd gochel rhai beiau gwaharddedig wrth lunio cerdd – y pymtheg bai cyffredin, fel y’u gelwir gan amlaf yn y Statud – yn bwysig iawn i’r beirdd, yn ogystal, a disgwyliid i bawb o radd disgybl disgyblaidd neu uwch ochel y beiau hyn. Cytuna Wiliam Cynwal a Roger Morris â’r Statud gan ddweud mai pymtheg bai a geid, ond yn ôl Gruffydd Robert ceid deunaw, a honna Simwnt Fychan fod tri ar hugain ohonynt.<sup>1</sup> Fodd bynnag, ym marn G. J. Williams pymtheg bai a geid – yn draddodiadol, beth bynnag<sup>2</sup> – a chynigia fod modd eu dosbarthu fel a ganlyn:<sup>3</sup>

- (i) Gormod odlau
- (ii) Dybryd Sain / Proest i’r odl
- (iii) Tin ab
- (iv) Carnymorddiwes
- (v) Rhy debyg
- (vi) Ymsathr odlau
- (vii) Twyll gynghanedd / Twyll odl / Twyll gymeriad

---

proest cadwynog a chywydd deuair. Dylai’r disgybl disgyblaidd wybod y rhain ynghyd â’r cywydd llosgyrnog, yr awdl gywydd, y toddaid, y gwawdodyn hir a’r gwawdodyn byr; a dylai’r disgybl pencerddiaidd wybod pob mesur ar wahân i gadwynfyr, gorchest y beirdd a thawddgyrch cadwynog. Yn ôl y fersiwn a geir yn llaw Robert ab Ifan, fodd bynnag, dylai’r disgybl ysbâs graddol wybod y pum englyn a’r pedwar cywydd; dylai’r disgybl disgyblaidd wybod y rhain, ynghyd â’r toddaid a’r ddau wawdodyn; a dylai’r disgybl pencerddiaidd wybod y clogyrnach ynghyd â’r gweddill. Gw. *GP*, t. ci.

<sup>1</sup> Medd Simwnt yn *Pum Llyfr Cerddwriaeth*: “Henwau y beiau yw y Rain, Gormod Odlav, Dybryd Ssain (yr hwnn yssydd yn brovest i’r awdl), Tin ap, Karnymorddiwes, Ry Debyc, [158] Ymsathr Odl; tri thwyll yssydd, Twyll Gynghanedd, Twyll Awdl, Twyll Gymeriad; Drycddychymyc, Drycynnwyr, Drycystyr, Vnic a Lliossawc i gyd, Gwrw a Banw i gyd, Gwydd ac Apssen i gyd, Lleddf a Thalgron i gyd, Trwm ac Ysgafn i gyd, Krych a Llyfn i gyd, Kam Amsser, Kam Bersson, Kam Achos, Kamossodiad.” Gw. *GP*, tt. 124 - 5.

<sup>2</sup> *Ibid.*, t. lxxx.

<sup>3</sup> *Ibid.*, tt. lxxx - lxxxiv. Am drafodaeth lawnach ar y beiau gwaharddedig, gw. *GHO*, t. 16; Gruffydd, ‘Wales’s Second Grammarian’, t. 7, t. 16; Lewis, ‘Adolygiad’, t. 254; Rowlands, ‘Bardic Lore’, t. 145; *GP*, t. xxxix, tt. lxxviii - lxxxiv, tt. 13 - 15; tt. 32 - 4, tt. 53 - 4, tt. 59 - 65, tt. 124 - 30, tt. 191 - 8.

- (viii) Drwg ddychymyg / Drwg synnwyr / Drwg ystyr
- (ix) Unig a lluosog ynghyd
- (x) Gwryw a benyw ynghyd
- (xi) Gŵydd ac absen ynghyd
- (xii) Lleddf a Thalgron ynghyd
- (xiii) Trwm ac ysgafn ynghyd
- (xiv) Crych a llyfn ynghyd
- (xv) Cam amser / Cam berson / Cam achos / Camosodiad / Camgyfansoddiad

Ymhellach, rhaid oedd i'r beirdd o radd y disgybl pencerddaidd ymlaen wybod y rhannau ymadrodd yn ôl y Statud. Fodd bynnag, mae'r wybodaeth ysgrifenedig a geir am y rhannau ymadrodd yn y Gramadegau yn drwm dan ddylanwad gramadegwyr Lladin – gwŷr megis Aelius Donatus, Rhufeiniwr o'r bedwaredd ganrif, a Priscianus, gwŷr o Constantinople a oedd yn perthyn i'r chweched ganrif<sup>1</sup> – ac o'r herwydd go brin y gellir dweud bod yr wybodaeth a geir yn hynod o berthnasol i'r iaith Gymraeg nac i'r beirdd, ar wahân i'r ffaith eu bod yn ymgyfarwyddo â gramadeg fel gwyddor, wrth gwrs.<sup>2</sup> Wrth drafod dylanwad gweithiau Donatus a Priscianus ar y gramadegau barddol, dyma a ddywed Ceri W. Lewis:

The influence of their works is clerally reflected in those sections of the bardic treatise that are devoted to a discussion of the alphabet, syntax, and the parts of speech. It must be emphasized that these sections were not intended to be a detailed analysis and description of a particular language in its written and spoken form, but rather the study of grammar as a science unconnected with the distinctive features of a particular language. These sections are really only an abridged translation into Welsh of Latin grammars and they undoubtedly reflect the influence of the monastic schools. It is hardly likely that the whole of this information was imparted orally to the bardic aspirants, but rather from a book; it may well have been committed to writing quite early and was perhaps translated into Welsh some centuries before the oldest extant copy of the bardic

---

<sup>1</sup> Gw. Gruffydd, 'Wales's Second Grammarian', t. 6; *GHO*, t. 16; Rowlands, 'Bardic Lore', t. 145; *GP*, t. xxxiv.

<sup>2</sup> Gw. *GHO*, t. 16.

treatise.<sup>1</sup>

Oherwydd y dylanwad estron hwn ar yr adran sy'n trafod y rhannau ymadrodd yn y Gramadegau, ni ellir cymhwyso'r hyn a ddywedir yno at y Gymraeg. "Dwy rann ymadrawd yssyd, nyt amgen, henw a beryf",<sup>2</sup> medd Gramadeg y Llyfr Coch, a'r un ydyw'r honiad yn fersiwn Llanstephan 3 a Pheniarth 20.<sup>3</sup> Fel y sylwodd G. J. Williams, rhaid disgwyl tan y bymthegfed ganrif cyn canfod mwy o rannau ymadrodd. "Pa ssawl rann ymadrodd ysydd?" ydyw cwestiwn Gutun Owain: "Wyth, nid amgen, henw a rraghenw, a beryf, a racveryf, a chyfranniad, a chysylldiad, ac arddodiad, a thaflodiad."<sup>4</sup> Gan nad ydyw'r wybodaeth a geir yn y Gramadegau ynghylch y rhannau ymadrodd yn ddigon cywir a chynhwysfawr i fod o fudd ymarferol i'r beirdd, ymddengys felly mai ar lafar y dysgai'r athrawon yr wybodaeth hon i'w disgyblion, a'u hoffer hyfforddi gorau, mae'n debyg, oedd cerddi'r rhai a fu'n barddoni o'u blaen.<sup>5</sup>

Un maes yr oedd angen i'r beirdd gael hyfforddiant trylwyr iawn ynddo oedd y gynghanedd, er mai ychydig o bwyslais a roddir ar hyn yn y Statud, mewn gwirionedd: un testun yn unig sy'n nodi y dylai'r disgybl disgyblaidd wybod y cynganeddion, sef S<sup>(1)</sup> (iii); ond disgwyliid i'r disgybl pencerddaid a'r pencerdd eu gwybod a'u dosbarthu. O

---

<sup>1</sup> Lewis, 'Einion Offeiriad', t. 73.

<sup>2</sup> *GP*, t. 3.

<sup>3</sup> *Ibid.*, t. 21, t. 42.

<sup>4</sup> *Ibid.*, t. 67. Mae Pum Llyfr Cerddwriaeth Simwnt Fychan, sy'n perthyn i'r unfed ganrif ar bymtheg, yn cynnwys yr un wyth rhan ymadrodd â fersiwn Gutun Owain. Gw. *ibid.*, t. 94.

<sup>5</sup> Am fwy o wybodaeth, gw. *GHO*, t. 16; Gruffydd, 'Wales's Second Grammarian', t. 6; Lewis, 'Einion Offeiriad', tt. 73 - 5; Lewis, 'Adolygiad', t. 254; Rowlands, 'Bardic Lore', t. 145; *GP*, tt. xxxiv - v.

gofio am bwysigrwydd y cynganeddion, syndod mawr ydyw gweld na thrafodir hwy yn fanwl o gwbl yn y gramadegau cynharaf: yn wir, rhaid disgwyl hyd yr unfed ganrif ar bymtheg cyn cael trafodaeth deilwng a manwl arnynt yn ‘Pum Llyfr Cerddwriaeth’ Simwnt Fychan. Ond nid ydyw’n syndod ychwaith, rywsut, gan fod y beirdd yn hoff iawn o gadw’u dysg iddynt eu hunain yn unig. Fel y sylwodd G. J. Williams, ni all Wiliam Cynwal fanylu yn eu cylch “achos i bod yn gyfrinach Rwnng Beirdd Ynys Brydain.”<sup>1</sup>

Yn ôl Simwnt Fychan, “Kydateb kydssonaniaid a chyfnewid bogaliaid” ydyw cynganedd.<sup>2</sup> Pump o gynganeddion a geid, meddai, sef “kynganedd groes, kynganedd draws, kynganedd ssain, kynganedd lusc – vnawdl ynt yll dwy – a chynganedd benngoll. [128] Ac o’r pvmp kynganedd a henwyd vchod dwy brif kynganedd yssydd, nid amgen, kynganedd groes, a chynganedd sain nev vnawdl. A’r tair eraill, tynnedigion ynt o’r ddwy hynny.”<sup>3</sup> Cyfeirir yn ogystal at y kynganedd braidd gyffwrdd,<sup>4</sup> ond dywed Simwnt fod Dafydd ab Edmwnd wedi barnu y dylid cael gwared â hi, ynghyd â’r kynganedd bengoll, “yn y konffyrmiad diwaethaf a vv ar kynganeddion a messvrau yn amser yr awdvr [132] ariandyssawc”,<sup>5</sup> sef yn Eisteddfod Caerfyrddin. Mae cael gwared â’r cynganeddion syml hyn yn cyd-fynd, wrth gwrs, â’r

---

<sup>1</sup> Fe’i dyfynnir yn *GP*, t. lxxvi.

<sup>2</sup> *Ibid.*, t. 118.

<sup>3</sup> *Ibid.*

<sup>4</sup> *Ibid.*, t. 119.

<sup>5</sup> *Ibid.*

caethiwo a fu ar y mesurau yn ystod yr un eisteddfod.<sup>1</sup>

Dyna gyfeirio'n fras, felly, at rai elfennau y sonnir amdanynt yn y Gramadegau a Statud Gruffudd ap Cynan, elfennau yr oedd yn rhaid i'r beirdd eu meistrioli'n llwyr.

Wrth gwrs, nid yng Nghymru'n unig y ceid cwrs barddol uchelgeisiol o'r fath. Nid oes raid edrych ymhellach nag Iwerddon er mwyn canfod tystiolaeth sy'n dangos bod beirdd y wlad honno hefyd yn gorfod cael eu haddysgu a'u hyfforddi am flynyddoedd lawer cyn cyrraedd cangen uchaf eu celfyddyd. Elfennau pwysig iawn yn eu hyfforddiant oedd dysgu achau tywysogion a boneddigion, dysgu am fytholeg a hanes a llên gwerin eu gwlad, dysgu hen gerddi a mesurau ac, wrth gwrs, meistrioli'r iaith aruchel – artiffisial, i ryw raddau – yr oeddynt yn ei defnyddio yn eu cerddi.<sup>2</sup>

Ceir tystiolaeth yn Iwerddon hefyd ynghylch sut sefydliad oedd yr ysgol farddol gynt. Yn *Memoirs of the Right Honourable The Marquis of Clanricarde* ceir disgrifiad enwog o'r ysgolion barddol fel yr oeddynt yn yr ail ganrif ar bymtheg, ond oherwydd "ceidwadaeth draddodiadol y beirdd", ys dywed J. E. Caerwyn Williams, a chan yr ymddengys na newidiodd y drefn rhyw lawer drwy'r canrifoedd, gellir derbyn bod y dystiolaeth hon yn adlewyrchu arferion canrifoedd blaenorol yn ogystal.<sup>3</sup>

---

<sup>1</sup> Am ymdriniaeth fanwl â'r cynganeddion, gw. *ibid.*, tt. lxxiv - lxxviii, tt. 118 - 24; *CD*, tt 143 - 88.

<sup>2</sup> Gw. *TLII*, tt. 39 - 40, t. 50, tt. 51 - 4; Williams, 'The Court Poet in Medieval Ireland', t. 88, tt. 90 - 2; Eugene O'Curry, *Lectures on the Manuscript Materials of Ancient Irish History* (Dublin, 1861), tt. 239 - 40; Chadwick, *The Growth of Literature I*, tt. 571 - 2, t. 587, tt. 602 - 4; Bergin, 'Bardic Poetry', *JIS V* (1913), t. 154; Lewis, *Beirdd a Bardd-rin*, t. 41; Derick Thomson, *An Introduction to Gaelic Poetry* (London, 1974), tt. 11 - 40; Williams & Ford, *The Irish*, tt. 25 - 7; Fergus Kelly, *Early Irish Law Series Vol. III: A Guide to Early Irish Law* (Dublin, 1988), tt. 43 - 9; Joyce, *A Social History*, tt. 443 - 5; Lewis, 'The Content of Poetry', t. 94.

<sup>3</sup> Williams, 'Y Beirdd Llŷs yn Iwerddon', t. 2. Gw. hefyd *TLII*, t. 129; Bergin, 'Bardic Poetry', tt. 155 - 6.

Yn ôl y *Memoirs*, cynhelid yr ysgolion hyn “in a solitary Recess of a Garden or within a Sept or Enclosure far out of the reach of any Noise.”<sup>1</sup> Yna ceir yr wybodaeth ddifyr a ganlyn:

The Structure was a snug, low Hut, and beds in it at convenient Distances, each within a small Apartment without much Furniture of any kind, save only a Table, some Seats, and a Conveniency for Cloaths to hang upon. No Windows to let in the Day, nor any Light at all us'd but that of Candles, and these brought in at a proper Season only.<sup>2</sup>

Sylwer na chaent olau dydd o gwbl, na golau kannwyll ond ar rai adegau o'r flwyddyn. Cyfeirir at yr arfer rhyfedd hwn yn nes ymlaen, hefyd, wrth drafod sut yr hyfforddidi y beirdd.

Câi'r beirdd eu dosbarthu'n ôl eu hoed, eu gallu a'u haddysg, ac yna yr oedd yn rhaid iddynt fynd ati i gyfansoddi eu cerddi.

The Professors (one or more as there was occasion) gave a Subject suitable to the Capacity of each Class, determining the number of Rhimes, and clearing what was to be chiefly observed therein as to Syllables, Quartans, Concord, Correspondence, Termination and Union, each of which were restrain'd by peculiar Rules. The said Subject (either one or more as aforesaid) having been given over Night, they work'd it apart each by himself upon his own Bed, the whole next Day in the Dark, till at a certain Hour in the Night, Lights being brought in, they committed it to writing. Being afterwards dress'd and come together into a large Room, where the Masters waited each Scholar gave in his Performance, which being corrected or approv'd of (according as it required) either the same or fresh subjects were given against the next Day. This Part being over, the Students went to their Meal, which was then serv'd up; and so, after some time spent in Conversation and other Diversions, each retir'd to his Rest, to be ready for the Business of the next Morning.<sup>3</sup>

---

<sup>1</sup> Fe'i dyfynnir yn Bergin, 'Bardic Poetry', t. 156.

<sup>2</sup> *Ibid.*

<sup>3</sup> *Ibid.*, t. 157.

Yr oedd yn rhaid i'r beirdd gyfansoddi ar eu pennau eu hunain yn y tywyllwch yn yr ysgolion barddol yn Iwerddon, felly. Ym marn awdur y *Memoirs*, gwneid hyn er mwyn osgoi "the Distraction, which light and the variety of Objects represented thereby commonly occasions. This being prevented, the Faculties of the Soul occupied themselves solely upon the Subject in hand, and the Theme given; so that it was soon brought to some Perfection according to the Notions or Capacities of the Students."<sup>1</sup> Awgryma J. E. Caerwyn Williams fod y beirdd, o bosibl, yn chwilio am ysbrydoliaeth gan y duwiau yn y tywyllwch,<sup>2</sup> a bod modd olrhain yr arfer i ddefod baganaidd,<sup>3</sup> a diau bod cyfansoddi yn y tywyllwch o gymorth i'r bardd ddysgu'i gerddi ar ei gof yn hytrach na'u hysgrifennu.<sup>4</sup>

---

<sup>1</sup> *Ibid.*

<sup>2</sup> Williams, 'The Court Poet in Medieval Ireland', t. 120.

<sup>3</sup> Idem., 'Y Beirdd Llys yn Iwerddon', t. 132. Gw. hefyd Daniel Corkery, *The Hidden Ireland: A Study of Gaelic Munster in the Eighteenth Century* (Dublin, 1941), t. 65.

<sup>4</sup> Ni cheir cyfeiriadau pendant at arfer o'r fath yng Nghymru, ond mae E. I. Rowlands, 'Bardic Lore', t. 143, yn tynnu ein sylw at rywbeth tebyg yng ngherdd Iolo Goch i aelodau teulu Penmynydd:

Yr ynys dywell, cell cerdd,  
Y gelwid Môn wegilwerdd.

Yma, mae cysylltiad pendant rhwng 'cell' a 'thywyllwch'.

Medd J. E. Caerwyn Williams, 'Beirdd y Tywysogion': "Tynnodd Syr Ifor Williams sylw at y rhan o 'Foliant Dinbych Penfro' (ll. 45 - 7) sydd yn profi fod y tu mewn i gylch yr hen Ddinbych yn chwarter olaf y nawfed ganrif *gell*, fwthyn neu ystafell lle'r oedd ysgrifen *Brydein* a bod rhywun yn dangos *pryder* neu ofal mawr am yr ysgrifen honno: yn wir, hi oedd ei brif (*pryffwn*) ofal. 'Yno yr âi'r bardd pan gâi gyfle, ac yn swm y tonnau, uwchben hen Isgr. neu Isgrau. Cymraeg, profodd y fath wynfyd, na fedr lai na dymuno i'r gell honno barhau am byth!'"

Ymhellach, efallai fod adran sy'n rhagflaenu testun o awdl a luniwyd gan Sypyn Cyfeiliog, adran a geir yn llsg. Peniarth 113 yn llaw John Jones, Gellilyfdy, yn cyfeirio at hen arfer y beirdd yng Nghymru o gyfansoddi cerddi a hwythau ar eu

Efallai hefyd fod rheswn economaidd yn llechu tu ôl i'r orchest o gyfansoddi yn

y tywyllwch. Medd J. E. Caerwyn Williams a Patrick K. Ford:

Professor Bergin drew attention to a poem composed by Ó Gnímh (probably Fear Flatha Ó Gnímh) to mock Fearghal Óg (Mac an Bhaird) for breaking with convention and being so presumptuous as to compose a poem in the light of day and in the open air while riding his horse. The author himself was not accustomed to doing that. 'As for me, when I compose a poem, I am pleased - a thing that keeps me from straying - to take care to keep out the sun's light and have dark couches to make my vigil. If I could not get my eyelids between me and the bright beams as a protective shield from the light of day, my art would be destroyed.' The masters, he says, did not compose in broad daylight either: Donnchadh Mór Dálaigh, Giolla Brighde Mac Con Midhe, Aonghus Ruadh (the son of Ceanhall Buidhe Ó Dálaigh), Sgolls (a nickname of one of the sons of Cearbhall Buidhe Ó Dálaigh), An tÓnthóir (pseudonym of Eoghan Mág Craith), Gofraidh Fiones Ó Dálaigh, and Tadhg Óg hUiginn, to name a few.

No doubt the practice of composing in a supine position and in the dark helped the bard to concentrate on his poem. It was also a way of impressing

---

pennau eu hunain mewn tywyllwch. Dyma ran o'r rhaglith:

...damunodd ef [sef Sypyn Cyfeiliog] gael aros yno [sef yn llys Dafydd ap Cadwaladr o Fachelldref] y nosson honno a chael stafell iddo ei hunan a chanhwylle a losgei ony vae ddydd drannoeth: yr hynn oll a ganiatawyd iddo: ag ynteu a ymroddes y nosson honno i fyfyrío cerdd foliant i Ddafydd ap Cadwaladyr, ac y gwnaeth yr Owdyl honn (sydd yn dylyn) y nosson honno yr hyn ni wnaetheu neb er ioed gerdd oi math mewn cynn vyrred o amser: or achos y gelwid hi yr Owdyl unnos am ei gwneuthur yn un noswaith

Fe'i dyfynnir yn R. Iestyn Daniel, 'Rhaglith i Gerdd gan Sypyn Cyfeiliog: Dogfen Hanesyddol?', *DI* (Hydref, 1995), t. 56. Ys dywed R. Iestyn Daniel, *ibid.*, tt. 64 - 5, "mae'n anodd peidio â gweld yma adlewyrchiad o hen arfer beirdd Cymru ac Iwerddon o gyfansoddi ar eu pennau'u hunain mewn ystafell dywyll am gyfnod hir, a thebyg nad damwain yn hyn o beth yw'r gair *myfyrío* a ddefnyddir am lunio'r awdl." (Awgryma mai John Jones, Gellilyfdy, a ychwanegodd y cyfeiriad at ganhwylau gan na wyddai ddim am yr arfer o gyfansoddi yn y tywyllwch a chan ei fod yn credu "mai'r unig ffordd y gallai bardd gyfansoddi cerdd mewn ystafell dywyll fyddai trwy gymorth papur a golau". Gw. *ibid.*, t. 65.)

Ceid olion defod gyntefig debyg yn yr Alban, yn ogystal. Yn ôl Martin, *Description of the Western Island of Scotland*, arferai'r beirdd gau eu ffenestri a'u drysau i gyd, gan orwedd ar eu cefn gyda charreg ar eu bol; ac felly, gan guddio'u llygaid, cyfansoddent gerddi. "Dark Cell" y gelwid yr ystafell hon. Gw. Williams & Ford, *The Irish*, tt. 162 - 3.



others with the fact that poetic composition was not child's play, and that the effort implied thereby fully merited the payment which was expected in exchange for it. But these considerations by themselves are not sufficient to explain a custom and practice which must have owed its origin to some pagan custom that prevailed when the poet was both magician and seer.<sup>1</sup>

Yn ôl y *Memoirs* disgwyliid i'r beirdd yn Iwerddon gyfansoddi cerddi adeg priodas, genedigaeth, marwolaeth, neu pan gyflawnai'u noddwr gamp arbennig,<sup>2</sup> a hefyd disgwyliid i'r cywion beirdd ddatgan eu cerddi gerbron eu noddwyr.

The last Part to be done, which was the *Action* and *Pronunciation* of the Poem in Presence of the Maecenas, or the principal Person it related, was perform'd with a great deal of Ceremony in a Consort of Vocal and Instrumental Musick. The Poet himself said nothing, but directed and took care that everybody else did his Part right. The Bards having first had the Compositon from him, got it well by Heart, and now pronounc'd it orderly, keeping even Pace with a Harp, touch'd upon that Occasion; no other musical Instrument being allowed for the said Purpose than this alone, as being Masculin, much sweeter and fuller than any other.<sup>3</sup>

Yn Iwerddon, fel yng Nghymru, ceid llawer o wahanol raddau o feirdd. Saith o brif raddau a geid yn y wlad honno, sef ollamh, ánruth, clí, cano, dos, macfuirmid, a fochloc – yr ollamh oedd y bardd gorau ei radd a'i ddysg, a'r fochloc oedd y bardd a oedd yn berchen ar y radd isaf.<sup>4</sup> Yn ôl tystiolaeth y *Memoirs*, rhaid oedd astudio am

---

<sup>1</sup> Williams & Ford, *The Irish*, t. 162.

<sup>2</sup> Bergin, 'Bardic Poetry', tt. 157 - 8.

<sup>3</sup> *Ibid.*, tt. 158 - 9. Gw. hefyd *TLII*, tt. 133 - 4; Williams, 'Y Beirdd Llys yn Iwerddon', tt. 5 - 6.

<sup>4</sup> Gw. Breatnach, 'The Chief Poet', t. 37; O'Curry, *Lectures*, t. 220. Yn Iwerddon yr oedd gwahaniaeth rhwng *bard* a *fili*. Y bardd dysgedig, parchus, uchel ei statws a'i roddion oedd y *fili*, a'r *bard*, yn wreiddiol, oedd y rhigymwr neu'r bardd isradd (er y gallai'r *bard* fod wedi derbyn rhywfaint o hyfforddiant cynnar y *fili*). Am fwy o wybodaeth gw. George Calder (gol.), *Auraicept Na N-Éces* (Dublin, 1995), t. xx; Corkery, *The Hidden Ireland*, t. 68; Joyce, *A Social History I*, tt. 448 - 9; Kelly,

chwech neu saith o flynyddoedd cyn cyrraedd y radd uchaf,<sup>1</sup> ond ymddengys fod angen ymestyn yr addysg i ddeg, neu hyd yn oed ddeuddeg o flynyddoedd, pe dymunid cyrraedd gradd ollamh. Ys dywed H. M. a N. K. Chadwick:

According to the second tract on poetry contained in the *Book of Ballymote* and dating [...] from the eighth or ninth century, this training occupied many years – the number is stated or implied variously as seven, ten and twelve years.<sup>2</sup>

Yn ôl y Statud, ceid pedwar o brif raddau yng Nghymru: disgybl ysbâs, disgybl disgyblaidd, disgybl pencerddaidd, a phencerdd,<sup>3</sup> ac yr oedd blynyddoedd maith o addysg a hyfforddiant o'u blaenau hwythau. Fel y sylwodd A. O. H. Jarman, credai Beirdd yr Uchelwyr y gellid 'gwneud' bardd trwy ei hyfforddi'n ofalus, ac nad oedd yn rhaid i ŵr

---

*Early Irish Law*, t. 46; Williams & Ford, *The Irish*, tt. 21 - 3. Y saith gradd a enwyd uchod a enwir mewn un fersiwn o destun o'r enw *Bretha Nemed*. Mewn fersiwn arall, y graddau a ganlyn a enwir: *suí* neu *mársí*, *ánrith* neu *lethsruith* neu *serthonn*, *tánaise serthuinn*, *fer cethrair*, *dris* neu *fer oínfir*, a *taman*; a *dean*, *lethcherd*, *admall*, *bard*, *drisiuc* a *dul* a enwir mewn fersiwn arall eto. Hefyd, cyfeirir at feirdd o anrhydedd (sef *bóbard*, *áine*, *túathbard*, *admall*, *túath tigernbard*, *sruth* ac *ánruth*), ac at feirdd isradd (sef *cúlbard*, *srúbard*, *bard loirge*, *drisiuc*, *crom lúatha*, *sirthe*, *rindad* a *longbard*). Am fwy o wybodaeth, gw. Liam Breatnach (gol.), *Uraicecht Na Ríar: The Poetic Grades in Early Irish Law* (Dublin, 1987), yn arbennig felly tt. 3 - 175; Kelly, *Early Irish Law*, t. 46.

<sup>1</sup> *Memoirs*, t. 157, t. 164. Gw. hefyd Williams, 'Y Beirdd Llys yn Iwerddon', t. 4; *TLII*, t. 131; Williams & Ford, *The Irish*, t. 25.

<sup>2</sup> Chadwick, *The Growth of Literature I*, t. 603; O'Curry, *Lectures*, t. 240; 'The Chief Poet', t. 37; *TLII*, t. 39; Lewis, *Beirdd a Bardd-rin*, t. 41. Wrth gwrs, yr oedd yn rhaid hyfforddi neu brentisio am flynyddoedd cyn ennill safle a statws ymhob crefft. Yn Statud y Prentisiaid (1563), e. e., saith mlynedd oedd y cyfnod prentisio arferol, er y gwelid enghreifftiau o brentisiaid yn dilyn hyfforddiant am gyfnodau llai (e.e. pedair blynedd) a chyfnodau mwy (sef rhwng wyth ac un mlynedd ar bymtheg). Gw. E. Lipson, *The Economic History of England I* (London, 1945), t. 314.

<sup>3</sup> Gw. *GHO*, t. 12; *GTA I*, t. xxxiii; Owen, 'Welsh Folk Music', t. 69; *TB*, t. 178; *RRR*, t. 14; *GP*, t. lxxxix; Bowen, 'Graddedigion', t. 133; Jones, 'Bardism and Romance', t. 252.

fod wedi cael ei eni'n fardd o angenrheidrwydd.<sup>1</sup>

*Sut y gellid ymryson am ariandlws a dod yn athro*

Prif gamp unrhyw fardd oedd ennill ariandlws a dod yn athro'r dalaith. Fel y gwelwyd eisoes, manyla'r Statud ynghylch yr arfer, gan nodi y gallai bardd geisio hawlio ariandlws trwy herio penceirddiaid eraill amdano o fewn cyfnod o undydd a blwyddyn. Ped enillai'r ariandlws, ddi'n athro barddol, a byddai'n rhaid iddo fynd i'r eisteddfod nesaf i gadarnhau ei fod yn ddigon da i hawlio'r ariandlws unwaith ac am byth. Mae'n werth nodi fod y testun a elwir yn Dri Chof Ynys Brydain yn cyfeirio at arfer tebyg iawn:

And in figur of that when the comencement of Bards was, for there graduatione, ther chefest Title was *Pencerdd* [11] and the chefest *Pencerdd* of all the Bards had a Juell in forme of a Chayre bestowed vpon hym vpon his creacione or graduacione which he was to fix to his shoulder wyth a Rybend or such like thinge, and then was hee called *Bardd Cadeirioc*, that is a Chayred Bard and thys Chayred Bard was to sytt in a Chayre in the kings house or any where els that hee came which was not lawfull to any Bard els by vertve of his dignities of Bardshipp to haue in the kings house or Courte or clayme ytt any where else, as his right but only the *Bardd cadeirioc* whoe had wonn the Chayre vpon disputacione openly before the king at comencement time (or at a Royall weddinge) when the *Bardd cadeirioc* was deade that formerly enjoyed the sayd Juell, or els ytt was yalded vnto the cheef Bard of knowledge and worth, by the Bards wyth[12]out Disputacione (by reason of his knowen sufficiencie in his profession to surpasse all the rest of the Bards) and soe hee had yt *pro confesso* that hee was the cheef Bard of knowledge in that Dominion.

But if any Bard whatsoever challenge to dispute for ytt, yt could not be given *pro confesso* but hee must dispute for ytt, and accomplish the proverb at that time vizt (winne ytt and weare ytt) for hee should not weare yt vnles hee dyd winn yt vpon treyall or was yealded vnto hym by all the residue of the Bards vpon confessione of preheminent and singular knowledg and worth in hym aboute them all.<sup>2</sup>

---

<sup>1</sup> A. O. H. Jarman, 'Beirdd yr Uchelwyr', *Ba* 38 (Rhagfyr, 1965), t. 58.

<sup>2</sup> Williams, 'Tri Chof', t. 237.

Yma, fel yn y Statud, câi'r prif bencerdd dlws am roi crasfa i benceirddiaid eraill mewn ymryson. Ymddengys mai trafod y pencerdd cerdd dafod yn unig a wna'r Tri Chof gan mai cadair ydyw'r wobr, ac ymddengys, felly, mai at feirdd – nid at wŷr wrth gerdd yn gyffredinol – y cyfeirir. Pe na bai cystadleuaeth, meddir, câi'r prif bencerdd ei wobrwyo â'r ariandlws ar sail ei ddysg, ond pe bai unrhyw her, yna byddai'n rhaid cynnal ymryson.

Mae'r wybodaeth a geir yn y Statud yn fwy manwl na'r Tri Chof ar sawl cyfrif, ond mae'r Tri Chof yn cynnwys un cyfeiriad a all oleuo rhyw ychydig ar yr hyn a geir yn y Statud. Mae'r Tri Chof yn nodi y gellid ymryson am ariandlws mewn neithior frenhinol. Nid ydyw'r Statud yn nodi pryd nac ymhle y dylid cynnal ymryson o'r fath, ond gan fod beirdd yn ennill graddau mewn neithiorau, fel y gwelwyd eisoes, mae'n debyg y gellid graddio'r prif bencerdd mewn achlysur o'r fath, yn ogystal. Ymhellach, mae testunau CH, F, H, PH, LL<sup>(1)</sup> a S<sup>(1)</sup> (i) o'r Statud yn nodi y dylid rhoi undydd a blwyddyn o rybudd cyn cynnal neithior frenhinol, a dyna, wrth gwrs, sydd yn rhaid i'r pencerdd sy'n dymuno hawlio'r ariandlws ei wneud. Ymddengys, felly, fod yr arfer hwn wedi datblygu gan mai mewn neithiorau brenhinol y cynhelid yr ymrysonau'n wreiddiol, efallai.

Gellir olrhain yr arfer o roi tlysau i'r penceirddiaid buddugol i ganol y bymthegfed ganrif o leiaf, oherwydd yn Eisteddfod Caerfyrddin enillwyd y gadair arian gan Ddafydd ab Edmwnd, y delyn arian gan Gynwrig Bencerdd y cerddor, a'r tafod arian am fod yn brif ddatgeinydd yr ŵyl gan Rys Bwting.<sup>1</sup> Fodd bynnag, nid oes modd profi

---

<sup>1</sup> Am hanes yr eisteddfod honno, gw. Bowen, 'Dafydd ab Edmwnd', tt. 441 - 8; Edwards, *The Eisteddfod*, tt. 6 - 10; G. J. Williams, 'Eisteddfod Caerfyrddin', *LI V* (1925), tt. 94 - 102.

beth yn union oedd arwyddocâd y tlysau hyn: ai rhyw gofnod syml o gystadlaethau Eisteddfod Caerfyrddin oeddynt, ynteu a oedd mwy o arwyddocâd iddynt? A ddôï eu henillwyr yn athrawon eu talaith wedyn, ac ai dilyn trefn debyg i'r drefn a welir yn y Statud ynghylch hawlio neu herio rhywun am ariandlws a welid yng Nghaerfyrddin?<sup>1</sup>

Er na ellir profi bod defod ennill ariandlws fel y'i ceir yn y Statud yn weithredol yng Nghaerfyrddin, ymddengys fod yr arfer yn hŷn nag Eisteddfod Caerwys 1523, oherwydd mae Gruffudd Hiraethog yn nodi bod statws Tudur Aled fel athro cadeiriog, sef un o'r beirdd a oedd yn gysylltiedig ag eisteddfod 1523, wedi ei gadarnhau yn yr eisteddfod honno. Os felly, yr oedd yn athro cadeiriog cyn hynny.

Tudur Aled a ganiadwyd ac a gonffyrmied yn athro cadeiriog i arwain ariandlws, fal yr oedd er pan y'i cymerasai dan ei berygl i'w ddwyn o'r lle yr oedd. Dai Nanclyn a wnaethpwyd yn athro a rhoddi ariandlws telyn iddaw.<sup>2</sup>

Mae llawer o farwnadwyr Tudur Aled wedi cyfeirio ato fel bardd cadeiriog, yn ogystal. Bardd y "gadair arian" ydyw i Lewys Daron, "bardd cadeiriog" i Huw ap Dafydd a Lewys Morgannwg, a chyfeiria Siôn ap Hywel, Lewys Môn, Raff ap Rhobert a Gruffudd ab Ieuan at ei gadair hefyd.<sup>3</sup>

Bardd arall yr ymddengys iddo ddod yn athro ei dalaith – y tro hwn, ar ôl Eisteddfod Caerwys 1523 – ydyw Lewys Morgannwg. Yn nhrwydded farddol ei ddisgybl, Gruffudd Hiraethog, trwydded a luniwyd tua 1545/6, dywedir bod Lewys

---

<sup>1</sup> Gw. Edwards, *Yr Eisteddfod*, t. 12

<sup>2</sup> Fe'i dyfynnir yn Bowen, 'Dafydd ab Edmwnt ac Eisteddfod Caerfyrddin', t. 445. Gw. yn ogystal D. J. Bowen, 'Taleithiau'r Gwŷr wrth Gerdd', *LIC XVII* (1992 - 93), tt. 139 - 40.

<sup>3</sup> Fe ddyfynnir y beirdd hyn yn *GTA I*, t. xxxvii - xxxviii. Am gyfeiriadau pellach at statws Tudur Aled, gw. *EC*, tt. 78 - 80.

Morgannwg yn “benkerdd ac athro kerdd dafawd o vewn siroedd a thaleithiav kymrv”, a chyfeirir ato yn ogystal fel “athro’r tair talaith”.<sup>1</sup> Yn anffodus, ni chofnodir pryd na sut y daeth yn athro. Ai hawlio ariandlws a wnaeth, neu herio pencerdd arall amdano, ynteu a wnaethpwyd ef yn athro ar sail ei ddysg? Ym marn G. J. Williams, y cwbl sy’n sicr ydyw “yr edrychid arno fel pennaeth y beirdd rhwng tua 1530 a 1560.”<sup>2</sup> Un o ddisgyblion Lewys Morgannwg, fel y nodwyd eisoes, oedd Gruffudd Hiraethog. Daeth yntau yn ei dro yn athro, a rhaid bod hynny wedi digwydd rywdro rhwng 1545/6 (pan raddiwyd ef yn ddisgybl pencerddaidd) a 1564 (pan fu farw). Wrth drafod statws Gruffudd Hiraethog, dyma sydd gan D. J. Bowen i’w ddweud:

Os gan un bardd ar y tro yn unig yr oedd hawl ymarferol i arddel y teitl hwn [sef athro talaith], rhaid mai tua diwedd ei oes y daethai i ran Gruffudd; neu dichon fod Lewis wedi ildio’r safle iddo cyn pen ei yrfa. Ond efallai fod rhywfaint o lacrwydd yn y modd y defnyddid y teitlau hyn...<sup>3</sup>

Yn ôl y Statud a’r Tri Chof, gellid dod yn athro talaith trwy ymryson. Yr oedd ymrysonau yn bur boblogaidd yn y byd barddol. Bu ymryson rhwng Dafydd Llwyd a Llywelyn ap Gutun,<sup>4</sup> Gruffudd Hiraethog a Siôn Brwynog,<sup>5</sup> Dafydd ap Gwilym a

---

<sup>1</sup> Gw. *GP*, t. cii; Bowen, ‘Taleithiau’r Gwŷr wrth Gerdd’, t. 139; *GGH*, tt. xxxi - xxxii.

<sup>2</sup> *TLIM* t. 65.

<sup>3</sup> *GGH*, t. xxxi - xxxii. Gw. yn ogystal Bowen, ‘Taleithiau’r Gwŷr wrth Gerdd’, t. 140. Awgryma G. J. Williams yn *TLIM*, tt. 42 - 3, fod bardd o’r enw Rhys Brydydd o Forgannwg yn athro talaith erbyn canol y bymthegfed ganrif, er eto na chyfeirir ato’n ymryson am ariandlws fel y nodir y dylid ei wneud yn y Statud.

<sup>4</sup> Gw. *CGD*, t. 43; Henry Lewis, ‘Ymrysonau Dafydd Llwyd’, tt. 310 - 25; Richards, ‘Cywyddau Ymryson a Dychan Dafydd Llwyd o Fathafarn’, *LIC* III (1954 - 55), tt. 215 - 23.

<sup>5</sup> Gw. D. J. Bowen, ‘Canu Gruffudd i Degeingl’, *B* XXVI, rhan III (Tachwedd, 1975), tt. 281 - 4.

Gruffydd Gryg,<sup>1</sup> Guto'r Glyn a gwŷr megis Dafydd ab Ieuan ap Rhys a Syr Rhys o Garno,<sup>2</sup> Ieuan Delynior a Huw Rhisiart ac eraill,<sup>3</sup> a Siôn Cent a Rhys Goch Eryri,<sup>4</sup> ond yr enwocaf ohonynt i gyd, mae'n debyg, ydyw'r ymryson a fu rhwng y bardd, Wiliam Cynwal, a'r dyneiddiwr dysgedig, Edmwnd Prys.<sup>5</sup> Bu ymryson, yn ogystal, rhwng Phylip Brydydd a'r beirdd ysbyddaid adeg y Nadolig yn llys yr Arglwydd Rhys Ieuanc (m. 1222),<sup>6</sup> a cheid nifer o ymrysonau yn nhraddodiad y canu gwasael, er enghraifft adeg defod y Fari Lwyd.<sup>7</sup> Fodd bynnag, yn wahanol i'r ymryson y sonnir amdano yn y Statud, nid ceisio am radd neu safle neu statws a wneir yn yr ymrysonau hyn: yn hytrach, cynnig adloniant, dadlau neu drafod syniadau neilltuol a wneir.<sup>8</sup>

Nid oedd ymryson am ennill gradd neu safle neu swydd yn newydd yng Nghymru,

---

<sup>1</sup> *GDG*; Jones, 'Pwnc Mawr Beirmiadaeth Lenyddol', tt. 263 - 4; A. T. E. Matonis, 'Barddoneg a Rhai Ymrysonau Barddol Cymraeg yr Oesoedd Canol Diweddar', *YB XII* (1982); idem., 'Later Medieval Poetics and some Welsh Bardic Debates', *B XXIX* (1982); Hunter, 'Cyd-destnoli', tt. 33 - 6.

<sup>2</sup> Gw. William Gwyn Lewis, 'Herbertiaid Rhaglan fel Noddwyr y Beirdd yn y Bymthegfed Ganrif a Dechrau'r Unfed Ganrif ar Bymtheg', *TrCymm* (1986 - 88), t. 38; *RRR*, tt. 161 - 2.

<sup>3</sup> Gw. Lewis, 'Cywyddau Ymryson Ifan Dylunior', tt. 161 - 73; Owen, 'Ifan Dylunior', t. 27.

<sup>4</sup> Gw. Jones, 'Pwnc Mawr Beirmiadaeth Lenyddol', tt. 268 - 70; Matonis, 'Barddoneg'; idem., 'Later Medieval Poetics'; Hunter, 'Cyd-destunoli', tt. 33 - 4. Am gefndir cyffredin ymrysonau Cymru ac Ewrop, gw. erthyglau Ann Matonis; *GDB*, tt. 161 - 7.

<sup>5</sup> Gw. Jones, 'Edmwnd Prys I', tt. 247 - 60; *YEPWC*; Lewis, 'The Decline', tt. 40 - 3.

<sup>6</sup> Gw. Bowen, 'Y Cywyddwyr a'u Noddwyr Cynnar', tt. 76 - 7; *GDB*, tt. 161 - 7; *DGIA*, t. 7; Williams, 'Yr Arglwydd Rhys', t. 113.

<sup>7</sup> Gw. Meredydd Evans, 'Canu Gorchest', *HCC I*, tt. 77 - 83.

<sup>8</sup> Gw. Matonis, 'Barddoneg'; idem., 'Later Medieval Poetics'.

serch hynny. Yn y Cyfreithiau, er enghraifft, dywedir mai “bardd gwedi enillo cadair”<sup>1</sup> ydyw pencerdd, a chyfeirir mewn man arall at “ymryson cadair”.<sup>2</sup> Ar ddiwedd ‘Gwarchan Kynfelyn’ yn Llyfr Aneirin, yn ogystal, fe gyfeirir at ymryson, ac fel y neilltuid rhai o’r mesurau cerdd dant ar gyfer ymryson yn hytrach nag ar gyfer graddio oherwydd eu anhawsed – mesurau megis y tri mwchwl godidog – ymddengys fod y gwarchanau a geir yma yn hynod o hwylus i’w cael wrth law wrth ymryson gan eu bod yn werth llawer:

Eman e tervyna gwarchan kynvelyn. Canu vn canuawc a dal pob awdyl or gododin herwyd breint yng kerd amrysson. Tri chanu a thriugeint a thrychant a dal pob vn or gwarchaneu. Sef achaws yw am goffau ene gorchaneu riuedi e gwyr a aethant e gatraeth. Noc a dele gwr mynet y emlad heb arveu; ny dele bard mynet e amrysson heb e gerd hon. Eman weithyon e dechreu gwarchan maelderw. Talyessin ae cant ac a rodes breint idaw. kemeint ac e odleu e gododin oll ae dri gwarchan yng kerd amrysson.<sup>3</sup>

Mae’n anodd gwybod beth yn hollol ydyw ystyr ‘gwarchan’. Ym marn Kathryn A. Klar

It was a poem containing traditional material exclusively as opposed to material composed for a specific situation. The material of the *gwarchanau* could be extracted for use in all kinds of other poems - praises, elegies, eulogies, etc. - and perhaps for story-telling as well. But the *gwarchan* itself was the vehicle for its retention and transmission, and as such was the poetic equivalent of the Triads. And more than this, the *gwarchanau* as we have seen them were probably meant to be exemplary in nature, i.e. they not only served to transmit traditional material in poetic form, but at the same time demonstrated the technique whereby this was to be done. The brevity of *Gwarchan Adebón* is the best testimony to this particular function, since any body of verse which was meant

---

<sup>1</sup> Gw. Nerys Ann Jones, ‘Cerdd Ymryson Cynddelw Brydydd Mawr a Seisyllt Bryffwrch’, *YB XIV* (Dinbych, 1988), t. 52; Jones, ‘Bardism and Romance’, tt. 208 - 9; idem., ‘Social Life’, tt. 113 - 14.

<sup>2</sup> Gw. Williams, ‘Yr Arglwydd Rhys’, t. 113; idem., ‘Aberteifi 1176’, t. 33; Owen, “A mi feirdd”, t. 146.

<sup>3</sup> *CA*, t. 55.



to be an all-inclusive list of proverbs could not possibly have been as short.<sup>1</sup>

Ymddengys y câi'r beirdd farciau am gofio cerddi fel hyn mewn ymryson,<sup>2</sup> ac awgryma Kathryn Klar y gallai gwerth y gwarchanau hyn fod mor uchel oherwydd eu bod yn ffynhonnell i ddeunydd traddodiadol ac oherwydd eu bod yn hen.<sup>3</sup>

Cyfeirir at ymryson yn llys Maelgwn Gwynedd yn Llyfr Taliesin,<sup>4</sup> a chred llawer fod Cynddelw Brydydd Mawr a Seisyllt Bryffwrch wedi bod yn ymryson am benceirddiaeth yn llys Madog ap Maredudd o Bowys.<sup>5</sup> Yn ddiweddar, fodd bynnag, bwriodd Nerys Ann Jones amheuaeth ar hyn. Yn yr 'ymryson' ceir cyfres o englynion. "Ar yr olwg gyntaf", medd Nerys Ann Jones, "dyma'r gerdd sy'n brawf diamwys o arfer y beirdd o ymryson am gadair mewn llys";<sup>6</sup> ond gan fod y gyfres o englynion mor fyr, gan mai mesur y bardd teulu – nid mesur y pencerdd – a ddefnyddir, a chan nad ydyw'r cerddi'n arddangos y grefft na'r wybodaeth y disgwyliid eu gweld mewn ymryson o'r fath, daw i'r casgliad nad cerddi ymryson mohonynt ond, yn hytrach, mai "casgliad o

---

<sup>1</sup> Kathryn A. Klar, 'What are the *Gwarchanau*?' yn *EWP*, t. 115.

<sup>2</sup> Gw., e.e., J. E. Caerwyn Williams, 'Bardus Gallicae Cantor Appellatur...' yn *BTh*, t. 9.

<sup>3</sup> Klar, 'What are', t. 117. Ceir cerddi eraill gyda 'gwerth' arbennig yn perthyn iddynt, e.e. cerddi yn Llyfr Taliesin: 'Glaswawd Taliesin' = 24, 'Cadair Taliesin' = 24, 'Cadair Teyrmon' = 300, 'Cadair Ceridwen' = 300, 'Canu y Gwynt' = 300. Gw. Marged Haycock, 'Canu y Medd' o Lyfr Taliesin', *DI* (Hydref, 1995), t. 8, troednodyn 3; *DOC*, tt. 197 - 8.

<sup>4</sup> Gw. Ford, *Ystoria Taliesin*, t. 74.

<sup>5</sup> Gw. e.e. Jones, 'Bardism and Romance', t. 239, tt. 295 - 6; Williams, 'Yr Arglwydd Rhys', t. 113; *DOC*, t. 198.

<sup>6</sup> Jones, 'Cerdd Ymryson', t. 47.

englynion crwydr”<sup>1</sup> ydynt. Fodd bynnag, nid ydyw N. G. Costigan mor siŵr. Meddai:

Er i Dr. N. A. Jones ddadlau nad yw’r englynion hyn yn cynrychioli ymryson dilys, dangosant lawer o nodweddion cerddi ymryson Llyfr Taliesin [...]. Nid yw’r ffaith fod rhai o’r englynion yn digwydd fel rhan o gerddi eraill ychwaith yn golygu o angenrheidrwydd nad ydynt yn cadw olion rhyw draddodiad dilys.<sup>2</sup>

*Rheolau cyffredinol ynglŷn â bod yn fardd*

Yr oedd yr hyn a draethir ar addysg y beirdd yn y Statud yn berthnasol i gwrs barddol yr unfed ganrif ar bymtheg, ac mae’r un peth yn wir, i raddau, wrth drafod rhai o’r rheolau cyffredinol a geir yn y ddogfen, sef y rheolau sy’n deddfu ynghylch ymddygiad y beirdd a’u perthynas â’u hathrawon. Er na chedwid at bob un o’r rheolau hyn bob tro, ac er y gellir dadlau mai deddfau ‘delfrydol’ oedd rhai ohonynt, eto i gyd fe ellir deall pam y cawsant eu cynnwys yn y Statud.

Mae’r rheol na ddylai disgybl rannu ei wybodaeth ag unrhyw un arall y tu allan i’r cylch barddol yn rhan bwysig o draddodiad y beirdd, oherwydd ar hyd y canrifoedd pwysleisid mai dysg gyfrinachol ydoedd. Yn ôl y gramadegau, yr oedd y gynghanedd yn “gyfrinach Rwnge Beirdd Ynys Brydain”,<sup>3</sup> ac felly’r sillafau, yr ymadroddion ac, yn wir, y dwned yn gyffredinol.<sup>4</sup> Yr unig rai y tu hwnt i’r gelfyddyd a gâi gip bob hyn a hyn ar y ddysg gyfrinachol hon oedd yr uchelwyr hynny a oedd â llawysgrifau barddol yn eu

---

<sup>1</sup> *Ibid.*, t. 53.

<sup>2</sup> *GDB*, t. 165. Tuedda Ann Parry Owen, “A mi feirdd”, t. 146, i dderbyn bod yr englynion yn cynrychioli traddodiad dilys fod Cynddelw Brydydd Mawr a Seisyllt Bryffwrch wedi bod yn ymryson.

<sup>3</sup> *GP*, t. lxxxix.

<sup>4</sup> *Ibid.* Gw. hefyd *RRR*, t. 127; Roberts, ‘The Renaissance in the Vale of Clwyd’; W. Rhys Nicholas, *The Folk Poets* (Cardiff, 1978), t. 10.

meddiant. Nid y beirdd yn unig a goled dai gyfrinachedd, wrth gwrs, ond pob math o grefftwyr a masnachwyr. Fel y nododd D. J. Bowen, mewn cytundeb a luniwyd rhwng John Whitton, groser o Ipswich, a William Burre, ei brentis, rhaid oedd i Burre addo na ddatgelai gyfrinachau celfyddyd ei feistr i neb.<sup>1</sup> Hefyd, credai cerddorion Cymru mewn cadw eu dysg yn gyfrinach: y llawysgrif gynharaf sydd ar gael heddiw sy'n cynnwys cofnod ysgrifenedig o gerddoriaeth Gymreig ar gyfer y delyn ydyw Llawysgrif Robert ap Huw, llawysgrif sy'n perthyn i'r ail ganrif ar bymtheg, a hynny mae'n debyg gan na chofnodid cerddoriaeth ar bapur yn draddodiadol.<sup>2</sup> Ond i'r Dyneiddwyr, y beirdd a arbenigai mewn cyfrinachedd. Meddai Siôn Dafydd Rhys, er enghraifft:

am i bod nwy yn cadw i celfyddyd yn ddirgel, heb i damlewychu i neb, oddieithr i ryw ddyscybl a dyngo na ddysco moni i neb arall, ne i ymbell wr bonheddig a addawo ar i onestrwydd i chadw yn gyfrinachol, rhaid i ryw ddyn arall o honno ai gosod allan, os mynnir i thanu dros wyneb y wlad, a'i chyfrannu i bawb a'i chwenychai<sup>3</sup>

Wrth gwrs, gellir deall pam y coled dai llunwyr y Statud – yn ogystal â'r beirdd – gyfrinachedd: yr oedd o gymorth iddynt gadw rapsgaliwns anwybodus ac answyddogol o'r cylch barddol swyddogol a dysgedig. Ond pam y ceisid cyfyngu ar nifer y disgyblion barddol y câi'r athro eu dysgu?

---

<sup>1</sup> Bowen, 'Beirdd a Noddwyr (Rhan III)', t. 25.

<sup>2</sup> Gw. Claire Polin, 'Observations on the ap Huw Manuscript', *ML LX* (1979), t. 296, t. 300; *SHW*, tt. 13 - 14; Ifor ap Gwilym, *Y Traddodiad Cerddorol*, tt. 11 - 12. Wrth gwrs, yn ogystal â cheisio rhwystro rhywun-rhywun rhag dysgu'r gelfyddyd, yr oedd cadw'r gelfyddyd yn gyfrinach yn ffordd hwylus o sicrhau bod yn rhaid cael athrawon cydnabyddedig i ddysgu disgyblion gan na allai'r rheini ei deall na'i gwerthfawrogi'n llwyr heb gael hyfforddiant llafar.

<sup>3</sup> Fe'i dyfynnir yn Parry, 'Y Dr. Siôn Dafydd Rhys', tt. 255 - 6. Am enghreifftiau tebyg, gw. Garfield Hughes (gol.) *Rhagymadroddion 1547 - 1659* (Caerdydd, 1976), t. 67, tt. 113 - 14.

Nodir yn y Statud mai un disgybl yn unig y disgwyliid i'r athrawon a'r penceirddiaid eu dysgu ar unwaith, ond yn ymarferol ymddengys na chedwid at lythyren y ddeddf gan fod tystiolaeth ar gael sy'n awgrymu'n gryf fod beirdd yn arfer dysgu mwy nag un disgybl ar yr un adeg. "[N]i chedwid yn fanwl at yr Ystatud hyd yn oed wedi'r eisteddfod", medd D. J. Bowen,<sup>1</sup> a dyna ydyw barn Gwyn Thomas yntau:

Y peth pwysig i'w gofio yw fod yr hyn a gymeradwyir yn y Statud, yn ôl pob tebyg, yn ddelfrydol – yn rhywbeth y byddai'r rhai a rôl drefn ar urdd y beirdd yn hoffi ei weld yn digwydd.<sup>2</sup>

Yn wir, ceir sawl cyfeiriad at Ruffudd Hiraethog yn dysgu mwy nag un disgybl ar unwaith. Bu mewn neithior ym mhlas Rhiwedog yn Llanfor gyda'i ddisgyblion Lewis ab Edward, Simwnt Fychan a Siôn Tudur ym mis Hydref, 1555; bu mewn neithior yn Rhiwlas yng nghwmni Simwnt Fychan, Siôn Tudur a Wiliam Llŷn; a chyfeirir ato ef a'i ddisgyblion mewn englyn a ganodd 'vn oedd yn aros i botwen ferwi i'w rhoi i brydyddion oedd gida Hiraethog yn dysgu', sef:

Pan fo'r god barod e'i bwrir - a'r bwrdd  
Y mae'r beirdd mynydd-dir  
A gwae hon, e'i gwahenir,  
Y god, o'u dyfod i dir.<sup>3</sup>

Yng ngeiriau D. J. Bowen, "Dyma [...] dystiolaeth (er mai mewn englyn strae) fod Gruffudd yn cynnal dosbarthiadau ar gyfer ei gywion ynghyd, ac nid yn eu hyfforddi

---

<sup>1</sup> Bowen, 'Graddau Barddol', *LIC* XVIII (1994 - 5), t. 100.

<sup>2</sup> *TB*, t. 199. Gw. ymhellach, *GTA* I, t. xlii; *EC*, t. 76; *R RR*, t. 146; *GGH*, t. xxviii.

<sup>3</sup> Gw. *GGH*, t. xl. Gw. hefyd tt. xxxiv - xlii. Ymhellach, gw. Williams, 'Yr Arglwydd Rhys', t. 113; idem., 'Aberteifi 1176', t. 33.

fesul un ar y tro.”<sup>1</sup> Awgryma, ymhellach, mai yng nghartref y pencerdd neu yng nghartref rhyw noddwr yr hyfforddid y disgyblion, gan nad oes tystiolaeth fod ysgolion barddol fel y rhai a geid yn Iwerddon wedi bodoli yng Nghymru.<sup>2</sup>

Cynhelid rhai o’r ysgolion barddol yn Iwerddon yn nhŷ’r *ollamh* neu’r athro. Cyfrifoldeb yr athro oedd bwydo’r disgyblion a’u dilladu a’u dysgu, ac yn dâl câi’r athro ei gynnal yn ei henaint ganddynt pe bai angen.<sup>3</sup> Gan fod ‘ysgolion’ o’r fath i’w cael yn Iwerddon, yn amlwg yr oedd yr athro yn dysgu mwy nag un disgybl ar unwaith. Gwelwyd eisoes fod yr un peth yn wir yng Nghymru; felly pam mae’r Statud yn cynnwys rheol sy’n nodi na ddylai athro ddysgu ond un disgybl ar unwaith?

Fel y gwelwyd eisoes, ymddengys fod Statud Gruffudd ap Cynan yn cyfateb i ddogfennau ysgrifenedig a gynhyrchid gan gildiau, dogfennau a oedd yn cynnwys rheolau’r urddau hynny. Mae’n ddiddorol sylwi, felly, fod nifer o gildiau wedi llunio rheolau a geisiai gyfyngu ar nifer y prentisiaid y câi’r meistri eu dysgu a’u hyfforddi. Medd E. Lipson:

The number of apprentices which a master might employ developed in the fifteenth and sixteenth centuries into a subject of burning controversy. One or two towns, York in 1519 and Coventry in 1524, removed all restrictions and allowed every craftsman to take as many apprentices as he pleased. However, the practice easily lent itself to abuse; and the London Fishmongers warned the members of their craft not to receive more apprentices than they could support. Unfortunately it is often very difficult to interpret the evidence, and determine what were the real issues involved in the struggle of the guild to limit the number of apprentices; yet upon this interpretation turns our whole conception of the later history of the craft guild. The attempt to restrict the number of apprentices might spring from one of three motives, according as the interests of the

---

<sup>1</sup> *GGH*, t. xl.

<sup>2</sup> Bowen, ‘Y Cywyddwyr a’r Dirywiad’, t. 496, troednodyn rhif 2.

<sup>3</sup> Gw. Joyce, *A Social History I*, t. 443.

apprentices, or of the journeyman, or of the master, were kept in view; and the problem is to distinguish between these different factors in the situation. To take the first motive: we cannot condemn the guilds for ordering a master to take only as many apprentices "as his power may extend". This was the rule among the Weavers of Hull, - and the London Founders refused to allow more than two apprentices to be employed together at once on the same plee. "Some person that hath taken and useth to take three or four apprentices, and them may neither teach nor find [support], whereby good men's children of the country have been greatly deceived and this city scandalized". The second motive came into play when journeymen sought to restrict the number of apprentices in order to increase their chances of employment, without which it was impossible to accumulate enough capital to set up as independent masters. In the settlement of a dispute in 1424 between the masters and journeymen of the Coventry Weavers, the former were enabled to have as many apprentices as they pleased without challenge; it would seem that the arbitrators had decided in the masters' favour. On the other hand, the Weavers of Worcester were required to employ 'one journeyman at the least' for every loom within the city or its suburbs. Again, among the Tailors of Exeter no master was allowed more than three servants and one apprentice 'at the most' without licence of the company. Here the proportion of journeymen and apprentices was fixed so as to protect the journeymen from the competition of cheap labour, and the principle was subsequently embodied in legislation. Thus the Act of 1497 forbade Worcester Weavers to employ more than two apprentices at a time; and the Statute of Apprentices (1563) compelled every master in the cloth-making, tailoring and shoe-making industries who had three apprentices to employ a journeyman.<sup>1</sup>

Yn 1422, un prentis yn unig y câi'r gwneuthurwyr memrwn ei ddysgu yn Efrog, er enghraifft.

A ellir cymhwyso hyn oll i'r gelfyddyd farddol yng Nghymru? Go brin, rywsut, mai'r athrawon cerdd dafod a cherdd dant a luniodd reol a gyfyngai ar nifer y disgyblion y caent eu hyfforddi – er y gallai hynny, efallai, fod o fantais iddynt ambell dro pan geisient nawdd, gan y byddai llai o ddisgyblion yn golygu llai o gystadleuaeth – a hynny gan fod enghreifftiau ar gael, fel y gwelwyd, sy'n dangos bod rhai athrawon wedi anwybyddu'r rheol hon yn llwyr gan ddysgu mwy nag un disgybl ar unwaith. Os nad y rhai a chwiliai am nawdd a luniodd reol o'r fath, tybed ai'r rhai a roddai nawdd a wnaeth

---

<sup>1</sup> Lipson, *The Economic History* I, tt. 316 - 18.

hynny? Fel y gwelwyd eisoes, efallai fod a wnelo rhai o'r uchelwyr a oedd ynghlwn wrth Eisteddfod Caerwys 1523 rywbeth â'r broses o lunio rhai o'r rheolau cyffredinol a welir yn y Statud, felly tybed ai hwy a benderfynodd gynnwys rheol a gyfyngai ar nifer y disgyblion y câi pencerddiaid eu dysgu, gan ddilyn esiampl rhai gildiau? Hynny ydyw, gan fod crwydriaid, cardotwyr, difyrwyr ysgafnfyrd a beirdd answyddogol ar gynnydd yn y cyfnod, a geisiodd ambell noddwr sicrhau na fyddai gormodedd o wŷr wrth gerdd yn cael eu hyfforddi gan leihau, felly, nifer y gwŷr wrth gerdd a chwiliai am nawdd a chynhaliaeth?

Efallai mai rheswm o'r fath a arweiniodd at y rheol sy'n deddfu na ddylai gŵr wrth gerdd arddel ond un grefft neu gelfyddyd hefyd.

Wrth gwrs, crefft oedd barddoni yn yr Oesoedd Canol.<sup>1</sup> “[L]iterature is as yet a craft and not an art”, medd Karl Julius Holz knecht.<sup>2</sup> Ys dywed Glanmor Williams:

Ein tuedd ni heddiw efallai ydyw meddwl am feirdd a cherddorion yn fwy fel artistiaid nag fel crefftwyr. Ond yn ystod y cyfnod medifal fel crefftwyr yr edrychid arnynt gan eu noddwyr a chanddynt eu hunain. Byddai'r bardd yn fynych yn ei gyffelybu'i hun at saer coed: 'Mi yw saer llawn mesurau', ymffrostiai Iorwerth Fynglwyd. Hynny yw, ystyriai'i hun fel un oedd wedi'i drwytho yn ei grefft, ac yn gallu cynhyrchu'r glendid a'r llunieidd-dra oedd yn unol â safonau'r grefft honno, yn ôl y galw gan y noddwyr, yn union fel y byddai saer coed dawnus yn llunio llofft y grog neu dŷ hardd.<sup>3</sup>

Fodd bynnag, er i'r Statud nodi na ddylai bardd ymhel â chrefft neu gelfyddyd arall, ceir

---

<sup>1</sup> Am ddiffiniad o beth yn union ydyw crefft, gw. Unwin, *The Guilds*, t. 62.

<sup>2</sup> Holz knecht, *Literary Profession*, t. 1.

<sup>3</sup> Glanmor Williams, 'Addysg yng Nghymru', t. 78. Cymh. yr hyn a ddywed John Morris-Jones, 'Tudur Aled', t. 23: "[yr oedd] prydyddiaeth yn alwedigaeth, a thâl cyfreithiol i'r bardd am ei gerdd yn ol rheol osodedig, fel i'r twrnai am ei gyngor; ac eithriad oedd bod dyn yn fardd ac yn offeiriad fel Edmwnd Prys."

sawl enghraifft o hynny'n digwydd, mewn gwirionedd.<sup>1</sup> Yn y cywyddau ymryson a fu rhwng Dafydd Llwyd o Fathafarn a Llywelyn ap Gutun, cyhuddir Llywelyn o arwain dwy gelfyddyd, sef bod yn delynor ac yn rhyw lun o fardd, a honnir bod hyn oll yn tloidi'r wlad. Medd Dafydd Llwyd amdano:<sup>2</sup>

Gwael oedd fod dwy gelfyddyd  
Gantho i gribinio byd...  
Telynor fu'r mawrion mau,  
Llywelyn, fil o wyliau;  
Weithian, im oedran Medrod  
Yma yn fardd y myn fod.<sup>3</sup>

Gan ei fod yn ymhel â dwy gelfyddyd, honna Dafydd nad ydyw Llywelyn wedi perffeithio'r un,<sup>4</sup> ond myn Llywelyn fod ganddo berffaith hawl i arddel y ddwy gelfyddyd:

Prydydd wyf, parod ddwy iaith,  
A thelynor o'th lawnwaith.<sup>5</sup>

Hefyd, ymddengys fod Edward Sirc, y gŵr a raddiodd yn bencerdd telyn yn eisteddfod

---

<sup>1</sup> Yn *The Literary Profession*, tt. 100 - 4, dywed Phoebe Sheavyn fod beirdd yn Lloegr yn gorfod chwilio y tu hwnt i werthu eu cerddi er mwyn cael bywoliaeth. Yr oedd hi'n bur fain ar fyfyrwyr prifysgolion y cyfnod, hefyd. "In January, 1580", meddai, "a "scoller of Oxford" was accused of wandering through the country with a fellow student, with a forged licence to beg, in order "to get money...fod their better exhibition.""

<sup>2</sup> Gw. W. Leslie Richards (gol.), *Gwaith Dafydd Llwyd o Fathararn* (Caerdydd, 1964), rhifau 69 - 72; *CGD*, t. 43; Lewis, 'Ymrysonau Dafydd Llwyd', t. 313; Richards, 'Cywyddau Ymryson', tt. 221 - 2.

<sup>3</sup> Fe'i dyfynnir yn Richards, 'Cywyddau Ymryson', t. 221.

<sup>4</sup> *Ibid.*

<sup>5</sup> *Ibid.*, t. 222.



1523, yn grythor a bardd,<sup>1</sup> a bod Edward Maelor yn arddel celfyddyd y crythor yn ogystal â chelfyddyd y bardd.<sup>2</sup> Er i rai, megis Syr Robert Powel yn ei ymryson ag Edward Maelor, ei gynghori i anghofio'i grwth, anwybydda Edward Maelor y cyngor gan haeru, fel y gwnaeth Llywelyn ap Gutun, fod ganddo berffaith hawl i fod yn fardd a chrythor:

Rhoi'm cerdd dafod, freisg glod frau,  
A dinistr, 'y ngherdd dannau.  
Fo fu feirdd gwiw, fawredd gwych,  
Â dwygerdd odidowgwyh.  
Am hyn, nid annod ymhonyn'  
Nid yw raid im wadu'r un<sup>3</sup>

Ymhellach, ceir tystiolaeth fod Guto'r Glyn wedi bod yn filwr am gyfnod, a'i fod yn ogystal wedi bod yn porthmona.<sup>4</sup> Ceir tystiolaeth hefyd fod Tudur Penllyn a Siôn Phylip yn amaethwyr yn ogystal â beirdd, bod Wiliam Cynwal yn of,<sup>5</sup> Siôn Cent, Syr Phylip Emlyn, Llawdden, Syr Dafydd Trefor, ac efallai Iolo Goch yn wŷr eglwysig, Hywel Swrdwal yn feili, Siôn Tudur yn gwrtiwr ac yn aelod o Gard Edward VI ac Elisabeth I, Wiliam Llŷn yn felinydd, Rhys Cain a'i fab Siôn Cain yn geidwaid defaid,<sup>6</sup> ac Edmwnd Prys yn offeiriad. Yn ei ymryson ag Edmwnd Prys, mae Wiliam Cynwal yn llym ei

---

<sup>1</sup> Gw. Huw Ceiriog Jones (gol.), *Gwaith Huw Ceiriog ac Edward Maelor* (Caerdydd, 1990), t. xxiv.

<sup>2</sup> Am gyfeiriadau at Edward Maelor fel crythor, gw. *ibid.*, tt. xxiv - xxv.

<sup>3</sup> Gw. *ibid.*, t. 94, cerdd rhif 36, llau. 29 - 34. Gw. hefyd *ibid.*, tt. xxiv - xxv.

<sup>4</sup> *GGG*, rhif xxxl; Saunders Lewis, 'Gyfra Filwrol Guto'r Glyn', *YB IX*, tt. 80 - 99; *CGD*, t. 70.

<sup>5</sup> Gw. *GTA I*, t. xxxiii.

<sup>6</sup> Gw. Roberts, 'Uchelwyr y Beirdd II', tt. 51 - 3.

feirniadaeth ar ei gyfaill am arddel dwy alwedigaeth,<sup>1</sup> ond o leiaf yr oedd ef, Wiliam Cynwal, yn credu ei fod yn parchu rheol y Statud:

Bardd wyf, hardd beraidd fowrddysg,  
Yffeiriad wyd, coffr y dysg.  
Nid nes it wybod nodi,  
Fvdd dawn, fy nghelfyddyd i  
Nag ym wybod, freisglod frav,  
Ddwys gêd vthr, dy ddysc dithav.<sup>2</sup>

Fodd bynnag, nid y beirdd yn unig a âi'n groes i reol y Statud yn hyn o beth: yr oedd y datgeiniaid hefyd yn arddel dwy gelfyddyd, sef celfyddyd cerdd dafod a chelfyddyd cerdd dant. Cerdd dafod oedd priod faes y datgeiniad, fe ymddengys, oherwydd yn ôl H dylai fedru darllen y Gymraeg, gwybod wyth rhan ymadrodd, gwybod y sillafau, llunio englyn, gwybod am englynion, cywyddau, ac awdlau, a chywiro gwaith prydydd. Câl bedair ceiniog o dâl am hyn. Ond yn H, dywedir y gallai ennill pedair ceiniog yn ychwaneg trwy ddysgu am gerdd dant – er enghraifft, trwy ddysgu plethiadau, profiadau, gostegion, a thair ar ddeg o brifgeinciau.<sup>3</sup> Mae'r Statud, felly, yn cyflwyno gwybodaeth wrthyferbyniol o fewn yr un testun. Wrth gwrs, fel y nodwyd eisoes, rheolau 'delfrydol' ydyw rhai o'r rheolau a geir yn y Statud, ac ni chedwid at lythyren y ddeddf bob tro. Ymddengys mai rheol ddelfrydol ydyw hon: fe'i lluniwyd, o bosibl, er mwyn ceisio gwarchod noddwyr rhag gwŷr wrth gerdd a geisiai hawlio mwy nag un rhodd ganddynt, ond yn ymarferol ni chyfyngai llawer o'r beirdd eu hunain i farddoni'n

---

<sup>1</sup> Mae'n rhaid fod Cynwal wedi rhoi'r gorau i fod yn of ar ôl graddio'n fardd! Am drafodaeth ar safbwynt Wiliam Cynwal, gw. *YEPWC*, tt. clxx - clxxv.

<sup>2</sup> *Ibid.* t. 153, rhif 35, llau. 15 - 20. Gw. hefyd Lake, 'Goblygiadau Clera', t. 135.

<sup>3</sup> Gw. Jones, 'Bardism and Romance', t. 253.

unig. Yn wir, onid ydyw un o gynghorwyr pennaf ac enwocaf Eisteddfod Caerwys 1523, sef Tudur Aled, yn enghraifft berffaith o hyn? Wedi'r cyfan, onid oedd ef yn gerddor yn ogystal â bardd?<sup>1</sup>

Pam, felly, y lluniwyd rheol a geisiai rwystro gwŷr wrth gerdd rhag arddel dwy grefft neu dwy gelfyddyd? Drachefn, efallai y gellir canfod ateb trwy graffu ar reolau'r gildiau crefft, oherwydd yr oedd ganddynt hwy reolau tebyg, a'u pwrpas oedd ceisio sicrhau na fyddai gwŷr wrth gerdd a chanddynt grefft yn barod yn dwyn busnes ac elw crefftwyr mewn maes arall. Medd E. Lipson:

The main course of friction between the guilds naturally arose over the demarcation of their industrial spheres. It was a difficult task to draw a sharp line between allied occupations, and the crafts jealously resented any attempt at what they regarded as usurpation. The arrangements made to prevent encroachment by one mistery upon the territory of another were extremely detailed. The Cordwainers and Cobblers of London, for example, formed an agreement that no person who meddles with old shoes should sell new shoes. The principle, one man one trade, was well understood in the Middle Ages, although not always realized in practice. At Oxford it was ordered that every man should "keep and occupy his own proper craft or occupation wherein he hath been brought up, so that by their doings *every one of them may live by the other*. We have here an exact expression of the mediaeval view of trade: the individual was consciously subordinated to the interest of the community, and the avowed purpose of all commercial dealing was to enable each man to obtain a reasonable livelihood and a 'sufficient' profit. An attempt was made to carry this principle into law. The famous statute of 1363 bade "artificers, handicraft people, hold them everyone to one mistery"; but the injunction was not easily maintained. The London Carpenters tried to enforce it by forbidding their members to undertake any other man's work whether in masonry, plumbing, daubing or tiling, "saving only that, that belongeth to carpentry." At Chester, on the other hand, strife arose because the members of one company intermeddled with the trade of other companies; for instance, the Tailors complained that the Drapers cut and sewed garments. Order was therefore taken that all should keep to the mistery in which they were enfranchised, yet complaints were soon renewed. At Norwich the rule that no one should occupy more than one craft

---

<sup>1</sup> Fodd bynnag, cynigia D. J. Bowen, 'Graddau Barddol', y gallai Tudur fod wedi ennill ei raddau barddol a cherddorol cyn i'r Statud gael ei chadarnhau yn 1523, ac felly nad oedd yn torri unrhyw reol fel y cyfryw.

appears to have been in force in 1532; but it was abandoned a few years later when it was “ordained that every person and persons that keepeth two shops or more in several parts of this city, and there use diverse occupations or misteries, shall be charged to every such occupation to all charges and gilds [taxes] of the same”. In general it seems to have become a recognized principle that “all franchised men being free of one occupation shall henceforth be free of all occupations”, though usually upon the understanding that they contributed to every craft in which they engaged.<sup>1</sup>

Ymddengys mai ceisio sicrhau yr oedd y rheol hon yn y Statud na fyddai gŵr a chanddo grefft neu gelfyddyd eisoes yn dwyn y nawdd neu'r rhoddion y gallai gŵr arall eu cael gan ei fod yn arddel dwy grefft ac felly yn hawlio dwy rodd. Efallai fod llunwyr y Statud wedi cynnwys y rheol hon gan fod nifer y gwŷr wrth gerdd yn graddol gynyddu tra oedd nifer y noddwyr yn graddol nychu.

Mae'r mwyafrif o'r rheolau cyffredinol yn y Statud, fodd bynnag, yn ymwneud ag ymddygiad y gwŷr wrth gerdd.

Nid oedd rheolau'n mynnu ymddygiad perffaith ar ran disgybl neu brentis yn anghyffredin o gwbl ym myd yr urddau crefft. Enw da'r gild oedd y peth pwysicaf oll, a phe gwnâi'r aelodau unrhyw beth a ddôl ag amharch i'r gild, fe'u cosbid. Camwedd mawr, wrth gwrs, oedd cynhyrchu nwyddau gwael. Gellid dirwyo'r sawl a wnâi hyn, a gellid ei ddiarddel o'r gild am droseddu deirgwaith. Ys dywed E. Lipson, “The insistence that a bad workman brought discredit upon his fellows is worth attention. It explains the anxiety of the guilds to exclude from their membership all who were likely to damage their good name.”<sup>2</sup> Nid ydyw'n syndod, felly, gweld bod gildiau'n llunio rheolau a ddeddfai ynghylch ymddygiad eu haelodau, rheolau tebyg iawn i'r rhai a nodir

---

<sup>1</sup> Lipson, *The Economic History*, tt. 357 - 9.

<sup>2</sup> *Ibid.*, t. 331. Gw. hefyd tt. 328 - 30.

yn y Statud.

On the part of the apprentice, as his share of the covenant, were demanded obedience, self-control and fidelity to his master's service; he was expected to protect his master from loss, not to steal his master's goods 'not by sixpence in the year', and not to frequent inns or gaming-houses. [...] One of the ordinances of the London Clothworkers denounced the 'great disorder' amongst apprentices in frequenting taverns and plays as "such like places of evil rule and disorder, and in using of unlawful games and plays in the fields and in their masters' houses upon ths Sundays and holy days."<sup>1</sup>

Mae'r Statud yn hyn o beth yn cynnwys rheolau tebyg i'r rhai y soniwyd amdanynt uchod, rheolau sy'n ceisio sicrhau bod y gwŷr wrth gerdd yng Nghymru, fel yr *ollamh* yn Iwerddon, yn "upright, free from unjust dealings, and pure in conduct and word, i.e. free from immorality, bloodshed, and abuse of others", ys dywed P. W. Joyce.<sup>2</sup>

Nodir yn y Statud na ddylai gwŷr wrth gerdd feddwi o gwbl. Ystyrid bod mynychu tafarnau a meddwi yn anfoesol, ac y dylai unrhyw ŵr parchus gwerth ei halen osgoi hyn ar bob cyfrif. Yn wir, pasiwyd rhai deddfau gan y goron a geisiai wahardd ymddygiad o'r fath:

During the reign of James I and Charles I several statutes were passed with the intention of checking drunkenness, e.g., the Act, 1 Jac., c. 9, "to restrain the inordinate Haunting and Tipling in Inns, Alehouses, and Victualling Houses"; the preamble of this Act points out that the "auncient true and principle Use of Alehouses and Victualling-houses was fod the Receit, Relief and Lodging of Wayfaring People travelling from Place to Place, and for such supply of the Wants of such People as are not able by greater Quantities to make their Provision of Victuals, and not meant for Entertainment and Harboursing of lewd and idle People to spend and consume their Money and their Time in lewd and drunken manner." This act appears to have had little effect, for it was speedily

---

<sup>1</sup> Gw. *ibid.*; M. Sellers (gol.), *The York Mercers and Merchant Adventurers* (1918), t. 269.

<sup>2</sup> Joyce, *A Social History* I, t. 442.

followed by another in 1606 (4 Jac., c. 5), by yet another in 1609 (7 Jac., c. 10) and by others in 1624 (21 Jac., c. 7) and 1625 (1 Car., cc. 3 and 4).<sup>1</sup>

Yr oedd ceisio rhwystro pobl rhag meddwi o fantais i'r goron, wrth gwrs, gan na fyddai sefydlogrwydd cymdeithas yn cael ei fygwth i'r un graddau wedyn. Ymddengys fod rhai beirdd yn anghytuno â'r arfer hefyd. Yn 'Kowydd yn erbyn dylun kwrw a thafarnav koegion' rhydd y bardd ddisgrifiad byw iawn inni o'r arfer: "[L]lawer gwas glan fvan far / oth gyrchv aeth i garchar", meddai'r bardd,<sup>2</sup> ac ar ôl gwario'n helaeth ar y ddiod feddwol, ni fydd gan y diotwr na dillad nac arian ar ôl gan ei fod yn "sygno/r/ pwrs a gwanhav/r/ pen".<sup>3</sup>

och, och yt afiachus wyf  
A thlodach oth alw ydwyf<sup>4</sup>

Ond er tlodi dyn,<sup>5</sup> mae'r dafarnwraig a'i thylwyth yn annog pawb i yfed mwy, a hynny er mwyn gwneud mwy o elw:

A'r dafarnwraig loew ssaig lan  
ai gwr fal y graig arian  
Ai tv / gwrw/n/ grair teg iawn grys  
ai tylwyth mewn braint dilys  
gweission sychedig eissoes  
morynion mwynion dai moes  
or hain oll heb sorhav neb  
ni bydd vn heb ddav wyneb

---

<sup>1</sup> Skeel, 'Social and Economic Conditions', tt. 136 - 7.

<sup>2</sup> Gw. Llsg. LIGC 3047, t. 560.

<sup>3</sup> *Ibid.*

<sup>4</sup> *Ibid.*

<sup>5</sup> "[N]odais yt ba niwed son / wnethyr fymhlant yn noethion", medd y bardd, *ibid.*, t. 561.

esgys yfed yn wisgi  
eiste wnant ar yn kost ni  
gwenv in denw nid Anawdd  
gwagneithio gwenheithio/n/ hawdd  
Ag yn yn kefn gwenwyn kas  
egr dafly geiriav diflas...<sup>1</sup>

Ni chymeradwyid chwarae cardiau na disiau, na betio ychwaith. Yr oedd chwarae gemau megis ffristial, tawlbwrdd a gwyddbwyll yn rhan o'r pedwar camp ar hugain y disgwylid i feibion uchelwyr eu meistrioli,<sup>2</sup> a gwelir bod Tomas Prys o Blas Iolyn wedi erchi bwrdd chwarae gemau o'r fath gan Dafydd Salusbury o Lanrhaeadr.<sup>3</sup> Ond nid oedd gemau hap a betio mor 'barchus', er eu bod yn un o hoff bleserau uchelwyr

---

<sup>1</sup> *Ibid.* Gw. hefyd 'Kowydd i ddesgreibio meddwod' gan Siôn Phylip yn llsgr. LIGC 3047, tt. 130 - 3.

<sup>2</sup> Am wybodaeth ynghylch y gemau hyn, gw. Frank Lewis, 'Gwerin Ffristial a Thawlbwrdd', *TrCymm* (1941), tt. 185 - 205; Peniarth 158, tt. 213 - 16. Am lun o dawlbwrdd gw. Lewis, *Beirdd a Bardd-rin*, t. iv.

Dyfelir tabler mewn cywydd gofyn a ganodd Siôn Mawddwy dros Robert ap Huw o Bennal i Siôn Gruffudd ap Harri o Donfannau. Dyma ddisgrifiad y bardd ohono:

Dyro iddo, da'i wreiddyn,  
Dabler yn amser fy nyn,  
I dorri chwant, w'r dewr chwyrn,  
Dwys wasg, i'r disiau esgryn;  
Un â'i lliwiau yn llewyrch,  
Wyd abl i roi dabler wych;  
Llawford wiwserch, llyfr disiau,  
Llen wÿdd brint, llawenydd brau;  
Calennig hoyw ail Ynyr,  
Croyw gell sy'n cau ar ei gwÿr;  
Dwy ddôr fraith yw gwaith ei gwÿdd  
Da galawnd gyda'i gilydd.

Gw. *NBM*, t. 183.

<sup>3</sup> Gw. Enid Roberts, 'Everyday Life in the Homes of the Gentry', *CCCTW*, t. 66.

y wlad, yn enwedig felly aelodau'r goron Duduraidd. Medd David Loades:

All the Tudors were keen gamblers; even the frugal Henry VII drew regular sums of 60 or 100 shillings to finance his play, and Henry VIII appears to have lost upwards of £100 a year, mostly to the Gentlemen of his Privy Chamber. [...] Mary had solaced an unhappy youth in the same way, and her accounts between 1536 and 1544 show her spending anything from 12/6 to 40/- a month.<sup>1</sup>

Yr oedd pethau'n bur dda pan enillai rhywun; ond fel y gellid disgwyl, colli arian a wnâi'r mwyafrif. Colli ei arian a wnâi Siôn Owain, Llwydiarth, Llanfihangel-yng-Ngwyrfaï, fe ymddengys, gan i Owain Gwynedd ei gynghori i wario mwy ar ei gartref a llai ar chwarae cardiau:

Na weriwch byth, yr ych bôn,  
Eich rhuddaur ar chweryddion.  
Aur, deliwch ar adeilad,  
Aur ar y tir a rôl'r tad.  
Llesa adail - llys ydyw -  
Llwydiarth wych, lle diwaith yw:  
Nâd di, er newid dwyradd  
Osod yr un is dy radd.<sup>2</sup>

Colli arian oedd hanes Tomos Prys hefyd, fe ymddengys, gan iddo ysgrifennu 'Cywydd i ddanhgos fel y siomed gŵr am ei arian pan aeth ef i dref Llundain gyntaf rhwng caru merched a chwarae disiau'.<sup>3</sup>

O gofio hyn oll, nid ydyw'n syndod gweld bod llawer yn anghytuno â betio a chwarae gemau hap. "In spite of (or perhaps because of) the fact that it was so popular

---

<sup>1</sup> Davis Loades, *The Tudor Court* (London, 1986), tt. 96.

<sup>2</sup> Fe'i dyfynnir yn Enid Roberts, *Tai Uchelwyr y Beirdd 1350 - 1650* (Caernarfon, 1986), t. 39. Gw. hefyd idem., 'Everyday Life', t. 68.

<sup>3</sup> Gw. *RLNW*, t. 175.



and fashionable,” medd David Loades, “gambling attracted severe criticism from moral reformers.”

Even Wolsey, who was not noticeably strait-laced, tried to introduce a measure of restraint. Chapter 65 of the Eltham Ordinances allowed that ‘for some pastimes in the said (Privy) Chamber, in the absence of his Grace’, the servants might ‘use honest and moderate play’, but condemned the ‘immoderate and continuall play of dice, cards or tables’ which was apparently going on even in the king’s presence, and distracting his attendants from their duties. The early Protestants were particularly censorious, and Edward Underhill - known as the ‘Hot Gospeller’ - recalled how, in Edward VI’s court, there had been ‘shifters and dicers’ such as Ralph Bagnall and Miles Partridge, adding sanctimoniously

With such companions I was conversant a while; until I fell to reading and following the preachers...

In fact gambling was a part of that ‘low moral tone’ which had exposed the court of Europe to charges of corruption and depravity time out of mind, and still produced literary attacks, such as Antonio de Guevara’s *Menosprecio de Courte* (translated into English by Sir Francis Bryan in 1548) and Lorenzo Ducci’s *Arte Aulica* (translated into English by Edward Blount in 1607).<sup>1</sup>

Gymaint oedd hoffter trigolion y wlad o chwarae’r gemau hyn fel y lluniodd Harri VIII ddeddf a orchmynnai mai adeg y Nadolig yn unig y caniateid eu chwarae.<sup>2</sup> Wrth gwrs, nid dyma’r ddeddf gyntaf a gynhwysai reolau o’r fath. Yn 1315, er enghraifft, lluniodd Edward II ddeddf a orchmynnai gosbi gwŷr am ddiogi ac yfed a chambihafio:

...We wyllyng to restrayne suche outragious enterprises and idles...have ordayned...that to the houses of the Prelates, Earles, and Barons, none resort to meate and drynk unless he be a mynstrel, and of these minstrels, that there come none except it be three or foure minstrels of honour at the most in one day, unlesse he be desired of the lorde of the house. And to the houses of meaner men, that none come unlesse he be desired, and that such as shall come holde them selves contented with meate and drynk, and with such curtesie as the maister of the house wyl shewe unto them of his owne good wyll, without their

---

<sup>1</sup> Gw. Loades, *The Tudor Court*, tt. 96 - 7. Gw. hefyd Skeel, ‘Social and Economic Conditions’, tt. 136 - 7, t. 140.

<sup>2</sup> *Ibid.* Ddeddf 27 Henry VIII ydyw. Gw. Mackie, *The Earlier Tudors*, t. 454, yn ogystal, am drafodaeth fanylach.

askyng of any thyng. And yf any one do agaynst this ordinaunce, at the first tyme he to lose his minstrelsie, and at the second tyme to forweare his craft, and never to be receaved for a minstrell in any house...<sup>1</sup>

Ymhellach, ceisiodd Edward IV wahardd chwarae cardiau a disiau yn ei lys ar wahân i chwarae cardiau yn ystod cyfnod y Nadolig, a dyna oedd dymuniad Elisabeth hithau.<sup>2</sup> Yn ddiddorol ddigon, mae Wiliam Cynwal, a raddiodd yn Eisteddfod Caerwys 1567, yn cyhuddo Ieuan Llwyd ac Elis Prys, dau o gomisiynwyr yr eisteddfod, o chwarae cardiau a mercheta. Mae'n amlwg mai adleisio a gwneud hwyl am ben rheolau'r Statud y mae.<sup>3</sup>

Nodwyd eisoes fod y Statud eisiau gwahardd gwŷr wrth gerdd rhag mynychu tafarnau. Efallai fod a wnelo hyn rywbeth â llunio cerddi celwyddog, sarhaus yn ogystal â meddwi gan mai mewn tafarnau y llunnid cerddi o'r fath yn aml. Wrth astudio rhai o gerddi dychan Lloegr, daeth Adam Fox i'r casgliad

...[that] these railing rhymes and lampooning songs could be very much the products of the "alternative" society of the alehouse. Almost all were explicitly stated to have been composed over a pot of ale and handed out or repeated in taverns and inns. "If anie man aske who made this rime / Yt was Steven Corkrum in a drinkeing time", concluded one squib composed at a tipping-house in Pyworthy, Devon, in May 1612, and sung on "alebenches and other places in most scoffing, lewd and obscene manner". Denied the right openly to question those in authority, it was only away from their watchful eyes that people were able to vent grievances freely. The alehouses offered a sanctuary for relative freedom of speech, for cathartic release in story and song, jest and mockery; it provided the chance to ridicule in private those whom it was an offence to challenge in public. These ballads of popular invention were, like so much oral culture, inherently subversive and irreverent, implicitly running counter to the norms and values of society's élite and sometimes challenging

---

<sup>1</sup> Fe'i dyfynnir yn Rowlands, 'Nodiadau', t. 239.

<sup>2</sup> Gw. Vincent B. Redstone, 'Social Conditions', t. 195. Gw. hefyd Roberts, 'Siôn Salbri', t. 97.

<sup>3</sup> Gw. Roberts, 'Wiliam Cynwal', tt. 63 - 4.

them explicitly.<sup>1</sup>

Mewn tafarn yn Evesham ym mis Rhagfyr, 1605, er enghraifft, fe benderfynodd rhai bardduo enw George Hawkins, gŵr bonheddig lleol, gan honni iddo gael plentyn anghyfreithlon. Ys dywed Adam Fox, “It was a transgression, real or imagined, for which the conspirators were to censure him by means of a piece of imaginative ridicule of a kind familiar to life in early modern England. For these people were composing a “libel”, and George Hawkins was to be “balladed”.<sup>2</sup> Nid dynion yn unig oedd gwrthrychau’r cerddi hyn. Ar y cyntaf o Fawrth, 1607, lluniwyd tair cerdd gan Richard Rotten, ei frawd John, a gŵr o’r enw William Preety, yn cyhuddo geneth o’r enw Ann Bellamie o gael perthynas â gŵr priod o’r enw Richard Nitingale.<sup>3</sup> Yr oedd cerddi a deunyddiau enllibus eraill i’w gweld yn aml yn y cyfnod, fel y tystia Adam Fox eto:

In 1574 [...] a group of people were said to be causing strife at Rye, Sussex, by their “accustome to affixe upon diverse men’s dores certeine infamous libells and skrolls containing dishonest reproch...”. William and Elizabeth Trene of Rainham, Essex, were accused a decade later of scandalously making “a filthie ryme, of the most parte of the inhabitants of this parish”. Among numerous like rhymers was Joan Gomme of Thelford, Norfolk, presented in 1606 “for that she hath made and doth exercise the making of libellous and lascivious ballads by and of her neighbors”. In 1620, Robert Maundrell of Compton Basset, Wilts., was said to have “framed, contrived and published a very infamous and scandalous writinge, in the nature of a libell, tending to the disgrace of his father-in-lawe Richard Miller and his wife and daughters and [John Burchall’s] disgrace and his wife’s, and have scattered copies thereof abroad, and singe it in the open hearing if divers persons”. John Vaux, the notorious conjurer-parson of St Helen’s in Bishop Auckland, County Durham, was charged before the ecclesiastical authorities in 1633 that, among other misdemeanours, he “did

---

<sup>1</sup> Adam Fox, ‘Ballads, Libels and popular Ridicule in Jacobean England’, *PP* CXLV (1994), t. 72.

<sup>2</sup> *Ibid.*, t. 49.

<sup>3</sup> Gw. *ibid.*, t. 70.

make and contrive scurrilous libells and epigrams” and that he had “a written booke, in which there was verses made against Sir Charles Wrenn, knight, and diverse other gentlemen of the countrie”. In like sort, May Sheppard of Furneux Pelham, Herts., was said in 1652 to have framed and contrived certain rhymes and songs against a neighbour, Robert Pompheritt; while later in 1684 a group of men from Long Lawford, Warks., was in trouble for similarly abusing a local widow and her daughter.<sup>1</sup>

Nodwyd eisoes mai gwŷr neu wragedd a chanddynt rywfaint o awdurdod neu safle mewn cymdeithas oedd gwrthrychau'r cerddi hyn gan amlaf. Fel y gellid disgwyl, câi awduron y cerddi eu cosbi, ond prif symbyliad y cosbi hwn, yn hytrach na gwneud yn iawn am y cam personol, oedd ceisio sicrhau na ledaenai neges y cerddi gan greu rhyw fath o ansefydlogrwydd cymdeithasol. Oherwydd, yn ogystal â gwaradwyddo unigolion, anelid rhai cerddi at 'y sefydliad'. Ceid sawl cerdd yn bychanu wardeni eglwysi, cwnstabiliaid, beiliaid, ustusiaid a maeriaid.<sup>2</sup> Llunnid cerddi a gondemniai'r llysoedd a'r eglwys hefyd.<sup>3</sup> O gofio hyn oll, 'doedd ryfedd fod y llywodraeth am dawelu'r straeon, yr hel clecs a'r cynnwrf a gynhyrchid gan y cerddi hyn. Yn y cyfarwyddiadau a roddid i Gyngor Cymru a'r Gororau, cyfeirir yn aml at y ffaith fod

...diverse Lewd and maliciouse persons have heretofore and of Late dayes more and more devised spread abroade reported or published many false and seditious tales newes sayeings ... which amongst the people have wrought and may worke greate mischieffe and inconveniencies...<sup>4</sup>

Yn wir, cyfansoddid cerddi enllibus am y goron: mewn achos yn Llys Siambr y Seren,

---

<sup>1</sup> *Ibid.*, tt. 51 - 2. Am drafodaeth fanwl, gw. yr erthygl gyfan, tt. 48 - 83.

<sup>2</sup> Gw. *ibid.*, tt. 79 - 80.

<sup>3</sup> Gw. Skeel, 'Social and Economic Conditions', t. 132.

<sup>4</sup> Fe'i dyfynnir yn Suggett, 'Yr Iaith Gymraeg', t. 172.

gwelir bod gŵr o'r enw Richard Edwards o Sychdyn wedi cyfansoddi cerddi o'r fath am Elizabeth I ac Iago I, ymysg eraill, ac yr oedd llunio cerddi a oedd yn proffwydo neu'n damcaniaethu ynghylch marwolaeth brenin neu frenhines yn bur gyffredin.<sup>1</sup>

Yn ôl y Statud, dirwyo a charcharu oedd y gosb am lunio cerddi o'r fath. Yn wir, ymddengys fod dirwyon pur uchel i'w cael am 'droseddu' yn y fath fodd:

...on one occasion "scandalous and Base" words had been used against Lord Keeper Coventry, an offence which was punished with a fine of £20. There is one instance of a man who had spoken "scandalous words" against the Scottish nation (the date is 1636) and was fined 20 marks. Another, who had spoken "unreverend words and scandalous of the whole Clergie of England" was fined £6 13s. 4d., while a Gloucestershire man had to pay for the making of libellous rhymes, presumably in English, as much as £13 6s. 8d. In most of these cases of contempt the fine inflicted was high, ranging from £20 to 40 s, though a person who inserted contemptuous words in an information and interrogatories had to pay only 6s. 8d.<sup>2</sup>

Nid yng Nghymru'n unig y ceid rheolau a ddeddfai ynghylch ymddygiad beirdd a cherddorion. "In 1549", medd James F. Kenney wrth drafod y sefyllfa yn Iwerddon, "it was ordained "that no poet or any other person hereafter shall make or compose any poems or anything which is called 'auran' to any person, except to the King, on pain of forfeiting all his goods, and imprisonment, at the pleasure of the King or his Deputy"; and in 1571 Sir John Perrot, Lord President of Munster, directed by ordinance "all carroughs, bards, rhymers and common idle men and women wthin this province making rhymes, bringing of messages, and common players at cards, to be spoiled of all their goods and chattels, and to be put in the next stocks, there to remain till they shall find sufficient surety to leave that wicked thrade of life, and to fall to other

---

<sup>1</sup> Gw. *ibid.*, tt. 172 - 5.

<sup>2</sup> Skeel, 'Social and Economic Conditions', tt. 132 - 3.

occupation.”<sup>1</sup> Tebyg ydyw tystiolaeth Eugene O’Curry:

The Order of Poets, was, among its other laws, obliged to be pure from theft and killing, and of satirizing, and of adultery, and of everything that would be a reproach to their learning,...Any Seanchaidhe, then, whether an Ollamh, an Anrad, or any other degree of them, who did not preserve these purities, lost half his income and his dignity, according to law, and was subject to heavy penalties beside...<sup>2</sup>

Ymhellach, nid y beirdd a’r cerddorion yn unig a wynebai reolau llym fel y rhain. Os oedd crefftwr o unrhyw fath yn aelod o gild arbennig, yna yr oedd yn rhaid iddo ufuddhau i reolau’r sefydliad. Pennid y rheolau hyn er mwyn gwarchod statws y gild, ac er mwyn cadw hen rapsgaliwns drwg yn ddigon pell i ffwrdd. Yn ôl rheolau gild Sant Stephan yn Llundain, er enghraifft:

If any of them be a common brawler or given to quarrel or be a vagabond or night-wanderer or use dice or brothels or be guilty of any crime whereby the brethren or sisters may incur scandal...he shall be admonished once, twice or thrice, and if he be delinquent the fourth time he shall be wholly expelled from the brotherhood.<sup>3</sup>

Drachefn, felly, oni ellir honni mai efelychu rheolau gild sefydliedig a wnaeth llunwyr y Statud wrth geisio rheoli ymddygiad y gwŷr wrth gerdd?<sup>4</sup>

---

<sup>1</sup> Fe’i dyfynnir yn Kenney, *The Sources*, t. 31.

<sup>2</sup> O’Curry, *Lectures*. Fe ddyfynnir y paragraff hwn yn Jones, ‘Rhethreg yng Nghyfundrefn y Beirdd’, tt. 166 - 7.

<sup>3</sup> Fe’i dyfynnir yn George Unwin, *The Guilds*, t. 123.

<sup>4</sup> Er llymed y rheolau, fodd bynnag, yr oedd rhai’n fodlon gwneud hwyl am eu pen. Cyfeiria Gwyn Thomas yn *EC*, tt. 100 - 2, at gywydd hwyliog gan Wiliam Cynwal ar achlysur yr ail eisteddfod yng Nghaerwys. Yn y cywydd hwn, mae Cynwal yn cyhuddo dau o feirniaid yr eisteddfod o wneud yr hyn y mae’r Statud yn deddfu yn ei erbyn: cyhuddir Dr. Elis Prys o fercheta, a chyhuddir Ieuan Llwyd o lâl o chwarae cardiau. Cyngor Cynwal ydyw y dylent ymroi i saethu gyda bwa, arfer a

Eto, fel yn nogfennau'r urddau crefft, ceir gwybodaeth ynghylch rhoddion y gwŷr wrth gerdd yn y Statud. Cafwyd crynodeb o'r rhoddion hyn eisoes yn 'Cynnwys Statud Gruffudd ap Cynan', ond beth yn hollol ydyw arwyddocâd y rhoddion, ac a ydynt yn cynrychioli amgylchiadau'r unfed ganrif ar bymtheg?

Fel y gwelwyd, mae cryn dipyn o amrywio yn narlleniadau'r testunau. Yn wir, nodir pedair rhodd wahanol ar gyfer y disgybl disgyblaidd ar y tair gŵyl arbennig, sy'n amrywio o 12d i 36d. Mae S (i) a L yn cynnig darlleniadau gwahanol i fwyafrif y testunau, felly gellir awgrymu mai mympwy sy'n gyfrifol amdanynt hwy. Fodd bynnag, gan fod L at ei gilydd yn cynnig rhoddion uwch na'r gweddill, gellir awgrymu fod ei gopiwr neu ei luniwr wedi ceisio addasu'r rhoddion ar gyfer yr oes, fel petai, er, wrth gwrs, mai ychydig o wahaniaeth a welir rhyngddo a'r gweddill mewn gwirionedd: nid ydyw L yn cynnig mwy nag 8d yn fwy o rodd o gwbl o'i gymharu â'r testunau eraill.

Ceid y rhoddion gorau yn ystod y tair gŵyl arbennig, yn ystod neithiorau brenhinol, ac am lunio cywydd neu awdl. Mae rhoddion y gwyliau mabsant, y neithiorau cyffredin a'r chylchoedd clera, at ei gilydd, yn llai na hanner y rhoddion eraill. Y tâl gorau ydyw'r un a geid am lunio cywydd. Gan na nodir y tâl hwn ar gyfer y graddau sy'n is na'r disgybl pencerddaidd, gellir awgrymu na chredid bod y disgyblion is eu gradd a'u statws yn ddigon cymwys i lunio cerdd o'r fath, neu o leiaf i'w chyflwyno i noddwr. Fodd bynnag, yr oedd yn rhaid i'r disgybl disgyblaidd ddysgu pedwar o fesurau'r cywydd, felly pam na châi dâl anrhydeddus am eu canu? Oherwydd, mae'n

---

ystyrid yn dderbyniol iawn. Mae hyn yn ein hatgoffa o'r cyngor a geir yn nhestun S (i) o'r Statud, sef y dylai'r gwŷr wrth gerdd saethu neu fwynhau cwmni pobl dda yn hytrach na chwarae cardiau neu ddisiau.

debyg, mai bwrw'i brentisiaeth yr oedd o hyd, ac na fyddai noddwr yn gofyn i neb llai na'r disgybl pencerdddaidd, sef cydymaith y pencerdd, lunio cywydd yn arbennig iddo, yn enwedig felly gan mai at gywydd mawl, sef y math uchaf ei statws a'i fri, y cyfeirir yma.

O ystyried bod cymaint o gopïo wedi bod ar y Statud, ac o gofio am chwyddiant mawr yr unfed ganrif ar bymtheg, fe arhosodd taliadau'r gwŷr wrth gerdd yn hynod o statig. Awgrymwyd eisoes mai sefyllfa'r bymthegfed ganrif a adlewyrchir yn nhestun H wrth drafod perthynas y gwŷr wrth gerdd â'u noddwyr, felly a ellir dweud yr un peth yma wrth drafod y rhoddion?

Cyn penderfynu, mae'n werth bwrw golwg ar dystiolaeth annibynnol sy'n nodi'r taliadau a dderbyniodd ambell fardd. Rhwng tua 1450 a 1480, ceir cofnod yng ngwaith y bardd Hywel Dafi ei fod wedi derbyn 'nobl' – sef 6s 8d – yn dâl,<sup>1</sup> a thebyg ydyw tystiolaeth Lewys Glyn Cothi:

Tair rodd a vwryodd evo  
ym vnwyl pan vum ynno  
bwrw gwn a bara gwenith  
A nobl o aur yny blith<sup>2</sup>

Ymhellach, mewn llawysgrif yn llaw Ieuan Fardd honnir bod Dafydd Nanmor wedi cael cynnig nobl am lunio cerdd ofyn dros wraig Gruffudd ap Nicolas:

Gwraig Gruffudd ap Nicolas a yrrodd i geisio gan Ddafydd Nanmor hen ganu cywydd i Ywain Dwnn ei brawd hi oedd yn Iwerddon yn trigo i erchi

---

<sup>1</sup> Gw. E. Stanton Roberts, *Peniarth Ms. 67*, rhif XLVI, llau. 7 - 8: "Wrth rodd ym galwodd gwilym / eb lai rodd no nobl avr ym." Gw. hefyd *CGD*.

<sup>2</sup> Gw. *ibid.*; *GLGC*, rhif lxxv, llau 29 - 32.



mantell Wyddelig, a chynnyg nobl i'r prydydd dros ei wneuthur...<sup>1</sup>

Ceir tystiolaeth, yn ogystal, fod y bardd Meurig Dafydd (1510? - 95) wedi derbyn 'nobl' yn dâl gan William Basset o'r Bewpyr pan aeth i'w dŷ i glera rhwng y Nadolig a Dydd Gŵyl Fair y Canhwyllau,<sup>2</sup> a cheir cofnod yn llawysgrif Wynnstey 92 o rai o'r rhoddion a dderbyniodd beirdd arbennig – gan gynnwys Siôn Brwynog (1500 - 1562)<sup>3</sup> – gan Syr Siôn Salbri o Leweni adeg y Nadolig, 1555. Rhannwyd 28s 8d rhwng pump o finstreliaid: 10s i Siôn Brwynog, 5s i Ddafydd ap Hywel Grugor, 6s 8d i Siôn Tudur, 5s i Hywel Llwyd, a 2s i John ap Saunders.<sup>4</sup>

Yn olaf, ceir rhestr o'r taliadau a dderbyniodd Rhys Cain ar gwrs clera yn llawysgrif Peniarth 178, tt. 56 - 62, yn llaw'r bardd ei hun.<sup>5</sup> Cyfeiria at y taliadau a gafodd adeg y Nadolig, y Grawys, y Pasg, y Sulgwyn, ar Ddydd Gŵyl Fihangel ac mewn priodasau. Bu'n ymweld â thai yn siroedd Maldwyn, Meirionydd, Dinbych, y Fflint, a Swydd Amwythig, cyfanswm o wyth a thrigain o dai i gyd. Enillodd £23 2s 6d, ac amrywia'r rhoddion unigol o 6d i 40s, "ond tebyg mai mân roddion gyda'i gilydd oedd y symiau mwyaf" yn ôl T. Gwynn Jones.<sup>6</sup> Meddai eto:

Ceir o bump i ddeg swllt ar gyfer enwau plasau, ac enwau rhai personau y gellir tybio eu bod o ddsbarth yr uchelwyr. Er enghraifft, rhydd "yr Arglwydd

---

<sup>1</sup> Ceir yr wybodaeth hon yn llsgr. Panton 40, t. 83. Fe'i dyfynnir yn G. H. Hughes, 'Y Dwniaid', *TrCymm* (1941), t. 128.

<sup>2</sup> Gw. Jones, *Cymru a'r Tuduriaid*, t. 41.

<sup>3</sup> Gw. Williams, 'Anglesey's Contribution', t. 17.

<sup>4</sup> Gw. *ibid.*

<sup>5</sup> Gw. *RWMI*, tt. 993 - 4. Gw. hefyd Jones, 'Presidential Address', tt. 9 - 10.

<sup>6</sup> *GTA I*, t. xlii.

Esgob” [Llanelwy, ond odid], bedwar swllt. Cafwyd swllt mewn priodas ym Mhentre Sionyn, a hanner coron mewn un arall yn Lloran.<sup>1</sup>

Yn anffodus, mae’n amhosibl dweud beth yn union ydyw’r rheswm dros yr amrywio a welir yn ei daliadau. Ai haelioni ambell noddwr sy’n gyfrifol am y taliadau mawr, ynteu a gyflawnodd y bardd fwy o waith i haeddu rhoddion gwell, megis cofnodi achau’r noddwr yn ogystal â llunio cerdd?<sup>2</sup>

Mae’r ‘nobl’ a dderbyniodd Hywel Dafi a Lewys Glyn Cothi yn y bymthegfed ganrif yn cyfateb yn fras i’r rhodd a gâi pencerdd yr unfed ganrif ar bymtheg yn y Statud am lunio cywydd, sef 81d. Os felly, mae gwerth y rhodd yn y Statud gryn dipyn o flynyddoedd ar ei hôl hi! Ymhellach, fe dderbyniodd Siôn Brwynog 10s, sef 120d, adeg y Nadolig yn Lleweni, ond dywedir yn y Statud na chât’r pencerdd – na’r athro, hyd yn oed – fwy na 40d, sef 3s 4d, ar bob un o’r tair gŵyl arbennig. Ymddengys, felly, nad ydyw taliadau’r Statud yn adlewyrchu amgylchiadau’r unfed ganrif ar bymtheg o gwbl; yn hytrach, ymddengys mai adlewyrchu amgylchiadau’r bymthegfed ganrif a wnânt, ac na chawsant eu haddasu. Fodd bynnag, ymddengys na chedwid yn fanwl at ganllawiau’r Statud gan fod rhai noddwyr, er enghraifft Siôn Salbri, Lleweni, wedi talu mwy i’r beirdd. Awgryma Bleddyn Owen Huws, serch hynny, fod gwerth cymharol isel y rhoddion yn y Statud wedi gadael ei ôl ar y beirdd: gan nad oedd yr arian a gaent yn ddigon i’w cynnal – yn ddigon i brynu ceffylau ac ati – dechreuodd rhai o’r beirdd ofyn yn eu cerddi am roddion penodol i wneud yn iawn am y golled ariannol.<sup>3</sup> Ond fel y

---

<sup>1</sup> Gw. *ibid.* Am drafodaethau eraill, gw. *CGD*, t. 30; Ifans, ‘Y Canu Gwaseila’, tt. 155 - 6.

<sup>2</sup> Gw. Jones, ‘Presidential Address’, t. 10.

<sup>3</sup> Gw. *CGD*, tt. 121 - 2.

cyfeddyf ei hun, mae'r ffaith fod canran y cywyddau gofyn lle mae'r bardd yn erchi rhodd drosto'i hun yn is yn yr unfed ganrif ar bymtheg yn croes-ddweud hyn oll.

Nid arian yn unig, fel yr awgrymwyd eisoes, a gâi'r beirdd gan eu noddwyr. Mae rhai testunau o'r Statud yn nodi y dylai'r pencerdd a'r athro gael rhoddion ychwanegol, sef arf, dilledyn, tlws, neu beth bynnag y dymunai'r rhoddwr ei roi; ac, yn ôl pob tebyg, ni chyfyngid rhoddion o'r fath, yn ymarferol, i'r penceirddiaid a'r athrawon yn unig.

Ceir llu o gyfeiriadau yng ngherddi'r beirdd at roddion ychwanegol o'r fath. Tir ydyw un,<sup>1</sup> er bod rhoi rhodd o'r fath yn nodwedd a ddaeth i'w phenllanw cyn cyfnod Beirdd yr Uchelwyr, fe ymddengys. Tir oedd un o daliadau'r bardd teulu, ac enghreifftiau amlwg o wŷr wrth gerdd a gafodd dir yn rhodd gan eu noddwr ydyw Berddig, bardd Gruffydd ap Llywelyn, Meilyr Brydydd, Gwalchmai, Prydydd y Moch, ac Ieuan Delynior.<sup>2</sup> Ymhellach, fe gafodd y minstreliaid a oedd yn diddanu ym mhriodas Margaret a John Brabant yn 1290 dir yn rhodd, ynghyd ag aur a dillad.<sup>3</sup>

Yr oedd y bwyd a'r ddiod (ynghyd â'r llety) a gâi'r beirdd yn nhai eu noddwyr yn rhoddion o fath hefyd, wrth gwrs. Ceir dyfyniad yng ngwaith Osborn Bergin sy'n cyfeirio at ddiodydd a anfonid i'r ysgolion barddol yn Iwerddon,<sup>4</sup> ac wrth nodi'r rhoddion y byddai'n eu colli ar ôl i'w noddwr farw, mae Huw Cae Llwyd yn enwi gwin:

---

<sup>1</sup> *Ibid.*, t. 27.

<sup>2</sup> Gw. Bowen, 'Sylwadau', t. 24. Efallai fod Cynddelw Brydydd Mawr, yn ogystal, wedi derbyn tir yn rhodd gan un o'i noddwyr, yn ogystal. Gw. Owen, "A mi feirdd", t. 161.

<sup>3</sup> Câi'r ollamh yn Iwerddon dir gan ei noddwr hefyd. Gw. Joyce, *A Social History* I, t. 65.

<sup>4</sup> Gw. Bergin, 'Bardic Poetry', t. 157: "...they sent in by turns every Week from far and near Liquors and all manner of Provision towards the Subsistence of the Academy, so that the chief Poet was at little or no Charges..."

Y mae'n waeth ein maeth a'n moethau, a'n haur  
A'n harian a'n tlysau;  
Y mae'r gwin im a'r gynau  
Yn y lle hwn yn lleihau.<sup>1</sup>

Nid gwin yn unig a gâi'r beirdd, wrth gwrs – caent fir, medd a gwirod hefyd – ac mae'r cyfeiriadau at y rhain ac at fwydydd yn frith yng nghanu'r beirdd.<sup>2</sup> Cyfeiria Ieuan Tew, er enghraifft, at fedd, bîr, gwin a bwyd (ynghyd â rhoddion eraill) wrth foli Huw Gwyn, y Morfa-mawr, plwyf Llansanffraid:

Lle cynnes ym mynwes y môr,  
Lle iach iawn rhag lluwch Ionor,  
A'r un biau'r annedd  
A wŷr i roi i mi aur a medd,  
A bir a gwin heb awr gas,  
A bwyd im, llei bu Domas<sup>3</sup>

– a thebyg ydyw tystiolaeth Wiliam Cynwal yn ei gywydd i Wiliam ap Tudur o Egryn, Llanaber:

Byrddau llawn a gawn a gwin,  
Bir, brawn, fal be bai'n brenin,  
Iachus yw, mae'n barchus sôn  
Agr y seigiau gwresogion.<sup>4</sup>

Yn ôl cerdd Siôn Dafydd Las i Siân ferch Siôn ap Hwmffre Huws o Faesypany, “Bu'n rhoi gwin, ben rhyw Gwynedd, / Bywyd glân a bwyd a gwledd” i feirdd a cherddorion,<sup>5</sup>

---

<sup>1</sup> Gw. Lewis, ‘Herbertiaid Rhaglan’, t. 48.

<sup>2</sup> Gw. Hall, *Hospitality*, t. 3, am y sefyllfa yn Lloegr.

<sup>3</sup> Fe'i dyfynnir yn Roberts, ‘Noddi beirdd yng Ngheredigion’, t. 32.

<sup>4</sup> Fe'i dyfynnir yn *NBM*, t. 72.

<sup>5</sup> Fe'i dyfynnir yn *ibid.*, t. 39.

ac yr oedd yn arfer ganddi “Gario seigiau gwresogion” iddynt.<sup>1</sup>

Mae cyfeiriadau'r beirdd at y bwyd a'r ddiod a gaent gan eu noddwyr yn ddiddiwedd, bron. Yn yr un modd, cyfeirir at yr aur a'r arian a gaent yn rhoddion. Gwelwyd hyn eisoes yn englyn Huw Cae Llwyd ac yng nghywydd Ieuan Tew i Huw Gwyn, ac enwir aur ac arian hefyd yn y cywyddau a luniwyd i Wiliam ap Tudur a Siân ferch Siôn ap Hwmffre Huws gan Wiliam Cynwal a Siôn Dafydd Las. Medd yr olaf o'r rhain am Siân:

Rhoi aur swrn yn nwrn y naill,  
Rhoi arian i rai eraill;<sup>2</sup>

Yn ôl Lewys Dwnn, yr oedd aur ac arian a chynhaliaeth i'w cael yn rhwydd ar aelwyd Hari Salbri hefyd, sef aelod o deulu Lleweni, yn ystod y gwyliau arbennig:

Awn at wr da'i naturiaeth,  
Y gwyliau man i gael maeth  
Ac aur i gerddwyr a gwin,  
O'i rywiogaeth aur egin.<sup>3</sup>

– a chyfeiria Cynddelw Brydydd Mawr at rodd o ugain punt a gafodd gan Gadwallon ap Madog ab Idnerth, swm enfawr yn y cyfnod!<sup>4</sup>

Yr oedd ‘gwerthu gwawd’, ys dywedir – sef derbyn arian am lunio cerdd foliant – yn bechod yn ôl rhai, ond i'r beirdd yr oedd yn gyfnewid teg: llunient hwy gerddi cain

---

<sup>1</sup> Gw. *ibid.*

<sup>2</sup> Gw. *ibid.*

<sup>3</sup> Gw. *ibid.*

<sup>4</sup> Gw. Owen, “A mi feirdd”, t. 158.

yn moli eu noddwyr, ac yn dâl derbynient roddion o wahanol fathau. Yng ngeiriau

Hywel Cilan yn ei gerdd i Ruffudd ap Rhys ap Ieuan:

Rhwydd wyd wrth bob rhai a ddêl,  
Rhoddi'n wych rhoddion uchel,  
Gwin yn rhad, eginyn Rhys,  
Ac aur mâl a gair melys,  
Mawl a bryni mal brenin,  
Mawl a gai fal mêl a gwin;  
Dy ddwylaw di a ddelia,  
Difeth y'n', mewn dwyfath dda:  
Dail arian, ni byddan' ball,  
Dail aur ar dy law arall;  
Rhoddaist â'th ddwylaw lawer,  
Rhown yty glod, rhent y glêr.<sup>1</sup>

Law yn llaw â chyfeirio at aur ac arian, cyfeiria ambell fardd at gael tlws yn rhodd. Drachefn, gwelwyd hyn yn englyn Huw Cae Llwyd, ac wrth geisio annog boneddigion i wobrwyo'n hael pan genid marwnadau, dywed Wiliam Llŷn:

O amser Grvff ap Kynan hyd heddyw kanmoladwy ac arveredic fv i benkerddiaid ne ddisgybl penkerddiaidd or prydyddion wylofi a chadw marwnad pob pendevic...or vn modd arveredic fv talv am y gerdd arian nev avr ne dlws...<sup>2</sup>

Ond, ys dywed Bleddyn Owen Huws, "Dichon [...] mai march a gwisg, boed yn glogyn, mantell, neu hugan, oedd rhoddion traddodiadol y beirdd, ac nad oedd y noddwyr yn gwarafun eu rhoi."<sup>3</sup> Ceir digonedd o enghreifftiau yng ngherddi'r beirdd o ofyn am

---

<sup>1</sup> Fe'i dyfynnir yn *NBM*, tt. 7 - 8.

<sup>2</sup> Fe'i dyfynnir yn *Ifans*, 'Y Canu Gwaseila', t. 154. Mae'r dystiolaeth uchod gan Wiliam Llŷn yn cadarnhau'r wybodaeth a geir yn y Statud, sef nad oedd yn arferol i neb dan radd disgybl penceirddiaidd gael tâl arbennig am lunio cywydd neu awdl.

<sup>3</sup> *CGD*, t. 71.

roddion o'r fath a'u cael. Cafodd Lewys Glyn Cothi ddilledyn gan Siôn, fab Hywel ap Tomas o Ewias,<sup>1</sup> a chyfeiria Gruffudd Hiraethog at ddillad, ynghyd ag anrhegion eraill, a gafodd gan Domas a Siân Mostyn, Gloddaith, yn yr englyn hwn:

Rhywiog asgell het, gwregys, rhiain - Mostyn  
A chan y meistr chweugain,  
A siaced o'r melfed main  
A dagr o bris deugain.<sup>2</sup>

Dillad fyddai un o'r rhoddion a gollai Huw Cae Llwyd pe byddai ei noddwr farw, yn ogystal:

Y mae'n waeth ein maeth a'n moethau, - a'n haur  
A'n harian a'n tlysau;  
Y mae'r gwin im a'r gynau  
Yn y lle hwn yn lleihau.<sup>3</sup>

Ymddengys fod arwyddocâd arbennig i ddilledyn a roddid yn rhodd. Medd Ann Parry Owen:

Gwyddys bod dillad o liwiau arbennig yn arwyddo statws eu gwisgwr. Yr oedd porffor, er enghraifft, yn lliw brenhinol, ac yr oedd dillad neu blu o'r cyfriw liw yn arwyddo statws uchel eu gwisgwyr o fewn y gymdeithas. Yr oedd rhoddi dillad o'r lliwiau hynny yn arwydd symbolaidd gan dywysog neu arglwydd ei fod yn rhoddi awdurdod a braint arbennig i'r bardd.<sup>4</sup>

---

<sup>1</sup> Gw. *GLGC*, t. 275, rhif 122, llau. 37 - 8; Bowen, 'Beirdd a Noddwyr (Rhan III)', tt. 25 - 6.

<sup>2</sup> Fe'i dyfynnir yn *CGD*, t. 28.

<sup>3</sup> Fe'i dyfynnir yn Lewis, 'Herbertiaid Rhaglan', t. 48.

<sup>4</sup> Owen, "A mi feirdd", t. 159. Gw. hefyd *CA*, t. 12, ll. 292.

Yn aml iawn, cyfeirir at geffylau a dillad gyda'i gilydd, ac awgryma hyn drachefn mai'r rhain oedd y rhoddion mwyaf poblogaidd a'r rhai mwyaf gwerthfawr a defnyddiol. Yn 'Araith Wgon' ceir hanes Gwgon Gwawd Newydd yn mynd o lys Dafydd ab Owain Gwynedd i lys Rhys ap Tewdwr. Mae'r copi cynharaf o'r testun wedi ei gadw yn llawysgrif Llanwrin I, sy'n dyddio i tua 1582, ond barn Gerallt Harris ydyw fod yr araith yn cynnwys deunydd sy'n hŷn na'r unfed ganrif ar bymtheg. Yma eto cyfeirir at geffylau a dillad. Mae'n rhaid eu bod yn werthfawr iawn, gan fod Gwgon yn gwrthod anrhegion eraill. Meddai:

'Ni cheissiaf na thir prynu, na thir prid, na physgodlynnau na pherllannau, na morwynn na gwraic ond pedair punt i mi a gown a march, a gown a march im gwassnaethwr'.<sup>1</sup>

Yr oedd ceffylau a dillad yn rhoddion poblogaidd yn Iwerddon, yn ogystal. "Dywedir bod Tadhg Mor Ó Cobhthaigh", medd Bleddyn Owen Huws, "wedi cyflwyno cerdd foliant ac ynddi ddau ar hugain o benillion i wŷr o'r enw Maghnas Ó Domhnaill, a'i fod wedi derbyn dau ar hugain o feirch yn dâl, sef march am bob pennill, a chael llestr arian i'w canlyn."<sup>2</sup> Derbyniodd y bardd enwog o'r unfed ganrif ar bymtheg, Tadhg Dall Ó hUiginn, rodd o geffyl brith gan ei noddwr Mac Sweeny, yn ogystal,<sup>3</sup> a chyfeiria Thomas Smyth at y bardd, y telynor a'r datgeiniad yn Iwerddon yn hawlio rhoddion – eto, ceffylau neu ddillad ymysg pethau eraill:

---

<sup>1</sup> Fe'i dyfynnir yn *CGD*, tt. 117 - 18. Gw. hefyd Gerallt Harris, 'Araith Wgon', *LIC* III, rhif 1 (Ionor, 1954), tt. 45 - 7.

<sup>2</sup> *CGD*, t. 27. Gw. hefyd Pádraig A. Breatnach, 'In Praise of Maghnas Ó Domhnaill', *Cel* XVI, tt. 63 - 72.

<sup>3</sup> Gw. Douglas Hyde, *A Literary History of Ireland* (London. 1902), t. 520.



Now comes the Rymer that made the Ryme, with his Rakry. The Rakry is he that shall utter the ryme; and the Rymer himself sits by with the captain verie proudlye. He brings with him also his Harper, who please all the while that the raker sings the ryme. Also he hath his Barde, which is a kinde of folise fellowe; who also must have a horse geven him; the harper must have a new safern shurte, and a mantell, and a hacnaye; and the rakry must have xx or xxx kine, and the Rymer himself horse and harness with a nag to ride on, a silver goblett, a pair of bedes of corall, with buttons of silver.<sup>1</sup>

Fel y gwelwyd, y pencerdd neu'r athro a'r cyff clêr a ddylai dderbyn rhoddion megis ceffylau neu ddillad yn ôl y Statud. Yn wir, gan ei fod yn gorfod dioddef cellwair y beirdd eraill a'r gynulleidfa, câi'r cyff clêr ddyblu ei rodd o arian neu o ddillad.

Mae'r cyfeiriad hwn at y cyff clêr mewn neithior, a'r cyfeiriadau uchod at yr arfer o anrhegu yn Iwerddon, yn ein dwyn i fyd diddorol iawn; yn wir, mae'n ein dwyn yn ôl i arferion yr hen fyd Indo-Ewropeaidd, ym marn Proinsias Mac Cana.

Yng Nghymru, yn ôl Cyfraith Hywel Dda, dylai'r pencerdd dderbyn yr hyn a elwir yn 'gyfarws neithior', sef rhodd a gâi mewn gwledd briodas.

Kyfarws neithiawr ageiff nyt amgen pedeir ar hygeint ygan pop morwyn pan wrhao. ny cheiff dim hagen ar neithiawr gwreic arygaffo gynt da yneithiawr pan uu uorwyn.<sup>2</sup>

Hynny ydyw, câi'r pencerdd rodd arbennig gan bob morwyn o fewn y dalaith yr oedd ef yn bencerdd ynddi pan briodai hi. Ond ymddengys mai rhodd ariannol a gâi yn hytrach na dilledyn neu geffyl.

Yr arfer sy'n cyfateb orau i hyn yn Iwerddon ydyw'r un lle mae'r briodferch yn

---

<sup>1</sup> Thomas Smyth, "Information for Ireland", 5 May, 1561'. Fe'i dyfynnir yn Kenney, *Sources*, t. 31.

<sup>2</sup> Fe'i dyfynnir yn Proinsias Mac Cana, 'An Archaism in Irish Poetic Tradition', *Cel*, VIII (1968), tt. 178 - 9.

rhoi ei dillad priodas i'r ollamh – er, erbyn yr unfer ganrif ar bymtheg, dechreuwyd rhoi rhodd ariannol yn hytrach na dillad. Yn India, yn ogystal, câi'r brahman grys y briodferch. Olion defod o'r fath a geir yn y Cyfreithiau yng Nghymru, ym marn Mac Cana, ond bod y Cymry wedi cyfnewid y dillad am rodd ariannol yn gynt nag y gwnaeth y Gwyddyl a'r Indiaid.<sup>1</sup> Yn yr Alban, fodd bynnag, rhodd gan y priodfab yn hytrach na'r briodferch a gâi'r bardd.<sup>2</sup> Awgryma Mac Cana mai datblygiad yn y ddefod briodasol a geir yma, a'i bod wedi ei huno â defod arall, sef seremoni urddo'r brenin, lle câi'r bardd ddillad gan ŵr yn hytrach na chan wraig.<sup>3</sup>

Fodd bynnag, mae Mac Cana'n nodi bod defod rhodd y cyff clêr rywfodd yn gysylltiedig â hyn oll. Fel y gwelwyd eisoes, yr oedd priodas morwyn wryf yn un o'r 'pum erw rydd', ac mewn priodas o'r fath gwneid pencerdd yn gyff clêr gynt. Un o roddion y cyff clêr oedd swrcod, sef dilledyn. Awgryma MacCana fod cysylltiad rhwng defod y cyff clêr a defod y cyfarws neithior, a bod rhodd y cyff clêr yn cyfateb i'r rhodd cyfarws neithior a gâi'r pencerdd yn ôl y Cyfreithiau, er nad ydyw manylion y ddwy ddefod yn cytuno.<sup>4</sup>

Awgrymwyd uchod bod ceffylau'n rhoddion gwerthfawr i feirdd a cherddorion, ac felly ychen. Derbyniodd Cynddelw Brydydd Mawr, er enghraifft, geffylau ac ychen neu wartheg gan rai o'r noddwyr, ac mae'n amlwg ei fod yn gwerthfawrogi rhoddion

---

<sup>1</sup> Gw. idem., 'Elfennau Cyn-Gristnogol', t. 316 - 17.

<sup>2</sup> Mac Cana, 'An Archaism', t. 175.

<sup>3</sup> *Ibid.*, tt. 179 - 80.

<sup>4</sup> Am ymdriniaeth lawnach, gw. *ibid.*, tt. 174 - 81; idem, 'Elfennau Cyn-Gristnogol', tt. 62 - 78; Brinley Rees, 'Y Pencerdd a'r Brenin', *B XXXIX* (1992), tt. 46 - 55, yn arbennig tt. 46 - 8.

cystal.<sup>1</sup> Mae eu gwerth fel rhoddion i'w weld yn amlwg mewn cywydd gan Lywelyn ap Gutun. Bu ef a Dafydd Llwyd yn ymryson, ac mae Dafydd yn cyhuddo Llywelyn o gymhortha ac o dlodi'r wlad gyda'i eirchio. Yn ei gywyddau'n ateb yr haeriadau hyn mae Llywelyn yn cyhuddo Dafydd yntau o ymddwyn fel eirchiad sy'n mynnu cael rhoddion drudfawr bob tro: nid ydyw'n fodlon ar rodd resymol, a rhaid iddo dderbyn rhodd werthfawr iawn megis ceffyl neu ych:

Nid defaid yw chwant Dafydd,  
Ychen, er gwawd, uwch no'r gwýdd!...  
O chawn oen ucho'n anwych,  
Erchi a wnâi ef farch neu ych.<sup>2</sup>

Yn amlwg, felly, yr oedd ceffylau ac ychen yn rhoddion hael a werthfawrogid yn fawr. Ni chyfeirir yn y Statud at roi ychen yn rhoddion i wŷr wrth gerdd fel y cyfryw, ond fe nodir na ddylai bardd erchi ychen (neu geffylau), a hynny gan eu bod mor werthfawr, mae'n debyg. Yr oedd ceffylau o fudd mawr i wŷr wrth gerdd gan y gallent fod o gymorth iddynt wrth deithio; ond gallai ychen gynnig mwy na hynny hyd yn oed, pe bai raid, oherwydd gallent hwy, ynghyd â gwartheg, roi cig, llefrith, caws, ymenyn a lledr, a gallent fod o gymorth ar fferm pe bai angen hynny. Trafodir pwysigrwydd ychen gan Nesta Lloyd a Morfydd E. Owen:

Er mor bwysig oedd y ceffyl yn yr Oesoedd Canol yr oedd anifail pwysicach i ffyniant dyn sef y fuwch [...]. Adlewyrchir pwysigrwydd hwn gan y ffaith fod y rhan fwyaf o'r llyfrau cyfraith yn rhoi'r traethawd ar fuchod ac ychen o flaen meirch ar ddechrau'r adran sy'n trafod Gwerth Gwylt a Dof.

---

<sup>1</sup> Gw. Owen, "A mi feirdd", tt. 159 - 61. Câl'r beirdd yn Iwerddon roddion cyffelyb hefyd. Gw. Breatnach (gol.), *Uraicecht Na Riar*, tt. 4 - 5; Kelly, *Early Irish Law*, tt. 45 - 6.

<sup>2</sup> Fe'i dyfynnir yn Richards, 'Cywyddau Ymryson', t. 220.

Dangosodd F. G. Payne [...] bwysigrwydd ychen yn economi'r wlad a'r cyfoeth o dermau technegol a oedd yn ymwneud ag aredig ag ychen a ddaeth yn rhan o iaith ffigurol y beirdd [...]. Un o'r epithetau am frenin yn yr Hengerdd oedd ei fod yn 'warthegawg', h.y. yn berchen llawer o wartheg, a disgwylid iddo hefyd arwain ei wŷr i ddwyn gwartheg o orwlad [...] Canmolir Gruffudd ap Cyнан gan Feilyr Brydydd am iddo rwystro brenin Lloegr rhag dwyn gwartheg gwŷr Gwynedd, 'Dybu brenhin lloegyr yn llwytawc / ket doeth ef wyd aeth yn warthegawc' [...].<sup>1</sup>

Mae'n werth cyfeirio hefyd at roddion y gwŷr wrth gerdd adeg cylchwyl a chwrs clera. Ymddengys fod awgrym Cynfael Lake na ffynnodd yr arfer o fynd ar gylchwyl yn gwbl gywir gan mai CH, F a H yn unig o blith y testunau o'r Statud a olygwyd sy'n cyfeirio at roddion cylchwyl.<sup>2</sup> Er bod CH yn nodi mai enw arall ar gwrs clera ydyw cylchwyl, yn draddodiadol ymddengys fod gwahaniaeth rhyngddynt: ymweld â noddwyr o fewn ardal gyfyngedig a wnâi beirdd ar gylch clera, tra bod mynd ar gylchwyl yn golygu teithio cryn dipyn ymhellach. Awgryma Cynfael Lake fod mynd ar gylchwyl yn arfer eithaf cyffredin yn y bedwaredd ganrif ar ddeg pan oedd noddwyr yn brinnach, ond awgryma tystiolaeth y Statud a'r dystiolaeth a geir yng nghanu'r beirdd fod yr arfer wedi edwino erbyn yr unfed ganrif ar bymtheg. Honna Guto'r Glyn fod taith glera yn "werth trigain nobl" yn y bymthegfed ganrif, swm pur hael, fe ymddengys; ond os gellir dibynnu ar yr hyn a nodir yn y Statud, nid oedd rhoddion cylchwyl yn fwy na'r rhoddion a geid ar gwrs clera, sef 8d i'r disgybl disgyblaidd a 12d i'r disgybl pencerdddaidd. Er nad ydyw maint y rhoddion hyn yn adlewyrchu sefyllfa'r unfed ganrif ar bymtheg, fel y gwelwyd eisoes, mae'n debyg fod eu gwerth isel yn cadarnhau'r gred fod yr arfer o fynd ar gylchwyl erbyn y cyfnod hwnnw wedi colli ei boblogrwydd. Onid gwell i'r beirdd

---

<sup>1</sup> DOC, t. 156. Gw. hefyd tt. 153 - 4 am bwysigrwydd ceffylau yn y gymdeithas.

<sup>2</sup> Lake, 'Goblygiadau Clera', t. 132.

fyddai teithio llai ar gylch clera, a derbyn yr un rhoddion – os nad mwy – ag a geid ar gylchwyl?<sup>1</sup>

Yn ôl rhai testunau o'r Statud, dylid mynd ar gylchwyl unwaith bob tair blynedd. Dyna'r dystiolaeth a geir yn y testun a elwir yn Dri Chof Ynys Brydain, yn ogystal. Y copi cynharaf sydd ar gael o'r testun hwn ydyw'r un a geir yn Llanstephan 144 yn llaw John Jones, Gellilyfdy. Sylwer, drachefn, mai cylch clera, nid cylchwyl, y'i gelwir:

And the sayd Bards had alsoe a Perambulacione or a Visitacion once every three years to the houses of all the Gentlemem in the Countray (which was called *Cylch Clera*) for preserving of the sayd *Tri Chof*. At which Perambulacione they dyd collect all the memorable things that were donne & fell out in every Country that concerned there profession to take notice of & wrotte yt down soe that theye could not be ignorant of any Memorable acted, the death of any greate persone, his descent, Division of porcione of lands, Armes and Children in any Countrey wythin theyre Perambulacione.<sup>2</sup>

Prif bwrpas cylchwyl, fe ymddengys, oedd casglu gwybodaeth am y noddwr a'i weithredoedd, ei achau, ei arfau, ei diroedd, a'i deulu. Yn ôl pob tebyg, taith gylchwyl o'r fath a ddisgrifir mewn cywydd gan Deio ab Ieuan Du. Yn y cywydd hwn, dywed y bardd ei fod wedi:

Profi iachoedd prif, uchel,  
Ac er da, i'r gwŷr y dêl...  
Llyna hwy wrth y llinyn,  
Achau'r holl gywyddau hyn...  
Troi'n eu mysg, trwy ddysg, ydd wyf,  
Tros y wlad, trasol ydwyf.<sup>3</sup>

---

<sup>1</sup> Am drafodaeth ar gerdd Guto'r Glyn, gw. *ibid.*, tt. 131 - 2,

<sup>2</sup> Williams, 'Tri Chof', t. 235.

<sup>3</sup> Fe'i dyfynnir yn Lake, 'Goblygiadau Clera', t. 128.

Ym marn Cynfael Lake, “Un o ddibenion yr ymweliadau [...] oedd cynnull deunydd crai y gellid ei ymgorffori maes o law mewn cywyddau mawl a marwnad”,<sup>1</sup> ac ychwanega y gallai'r bardd ymddwyn fel achwr neu herodr i'r noddwr yn hytrach nag fel lluniwr cerddi ar rai adegau.

Cyfeiria Tri Chof Ynys Brydain yn ogystal â'r Statud at dâl y beirdd ar daith gylchwyl:

The auncient Bards had a stipend out of every plowland in [4] the country for there mayntenance.

At which Perambulacione the sayd bards received there Rewards beinge a sett and a certenn Stipend from every gentleman to whose house they were intertayned in there Perambulacione, which Stipend or Reward was [5] called *Clera*<sup>2</sup>

Diddorol ydyw'r cyfeiriad at y tâl a gâi'r bardd i'w gynnal ym mhob tir âr. Yn wir, mae'n debyg iawn i'r tâl a gâi'r clerwr yn y Statud, sef ceiniog o bob aradr a dimai o bob hanner aradr; hynny ydyw, tâl cynhaliaeth yn hytrach na thâl am lunio cerdd neu hel achau.<sup>3</sup>

---

<sup>1</sup> *Ibid.*, t. 129

<sup>2</sup> Williams, 'Tri Chof', t. 235.

<sup>3</sup> Er na ellir cymharu tâl y beirdd yng Nghymru â'r tâl a gâi'r cerddorion yn y llys brenhinol, mewn gwirionedd, mae'n werth nodi bod mathau gwahanol o dâl ar gael iddynt hwy hefyd. Câi'r rhai a oedd yn bresennol yn y llys fara, bîr, gwin, cig, gwely a chanhwyllau, deunydd i wneud gwelâu i'w ceffylau, prisiau tân, a llety a bwyd i'w gweision. Yna caent dâl sylfaenol – 4 ½d neu 7 ½d y diwrnod yn ôl eu statws yn 1284/5, er enghraifft. Yn ogystal, caent lifrau ddwywaith y flwyddyn, a dau bâr o esgidiau. Fodd bynnag, fe allent ennill cryn dipyn yn fwy gan fod tâl arall ar gael iddynt ar rai adegau, tâl a elwid yn *largesse*, sef rhodd bersonol gan y brenin neu'r frenhines ar achlysur arbennig, megis y Nadolig, Ystwyll, y Pasg, y Sulgwyn, neu mewn priodas frenhinol. Ym marn Constance Bullock-Davies, *MMul*, tt. 22 - 3, “it would seem that largesse formed a part of the minstrel's legitimate expectations. For his master or mistress it constituted something in the nature of a self-imposed

Fel y gwelwyd uchod, câi'r beirdd a'r cerddorion roddion o bob math mewn gwleddoedd ac yn ystod y gwyliau arbennig. Gan fod anrhegu beirdd yn ystod yr adegau hyn yn hen arfer, magasant arwyddocâd arbennig ym marn Cynfael Lake. "Nid llai ystyrion crybwyll y Nadolig, y Pasg, a'r Sulgwyn na phe cyferchid noddwr trwy ei alw'n Nudd neu'n Rhydderch", meddai.<sup>1</sup> 'Does ryfedd, felly, fod cymaint o gyfeiriadau at y gwyliau hyn i'w gweld yng ngweithiau'r beirdd. Ceir cyfeiriadau gan feirdd at y gwyliau'n gyffredinol, er enghraifft cyfeiria Tudur Aled at y "mil o feirdd gwyliau"<sup>2</sup> a âi i lys Syr Rhys ap Tomas yn Ninesfwr, a chanmola Lewys Dwnn Harri Salbri, aelod o deulu Llewenni, am roi noddfa i feirdd adeg gwyliau:

Awn at wŷr da'i naturiaeth,  
Y gwyliau man i gael maeth  
Ac aur i gerddwyr a gwin,  
O'i rywiogaeth aur egin.<sup>3</sup>

---

obligation." Yn ogystal ag arian, yr oedd ceffylau, arfau, dillad, cwpanau, cigoedd, coed tân, a thir yn cael eu hystyried yn rhan o'r *largesse* hwn. Ceir cofnod manwl o'r *largesse* a dderbyniodd rhai minstreliaid adeg urddo Edward II yn farchog ar yr ail ar hugain o Fai 1306, adeg y Sulgwyn, lle rhannwyd £115 16s 8d rhwng y minstreliaid a gyfranogodd o'r difyrrwch yn y wledd, ynghyd â 200 marc a oedd yn rhodd bersonol gan y brenin. Ymhellach, addawodd y brenin Iago I 12d y dydd tra byddent byw i'r cerddorion Lewis Penmon, Heilin, a Dic Bibydd a'i diddanodd yn ei lys (gw. *HDNg*, t. 50); a derbyniodd y telynor Charles Evans 20d y dydd ynghyd â lifrau gwerth £16 2s 8d gan Charles II yn 1660 (gw. Ellis, 'Welsh Music', t. 751).

Ymhellach, gw. Canon Francis W. Galpin, *Old English Instruments of Music* (London, fourth edition, 1965), tt. 12 - 13; Chambers, *The Mediaeval Stage I*, tt. 44 - 52; Bullock-Davies, 'Welsh Minstrels', tt. 105 - 10; *MMul*, yn arbennig tt. 77 - 23.

<sup>1</sup> Lake, 'Goblygiadau Clera', tt. 132 - 3.

<sup>2</sup> Fe'i dyfynnir yn Eirug Davies, 'Tudur Aled a Chaerfyrddin', *Ba* 239/240 (Rhagfyr/Ionawr, 1982/83), t. 422.

<sup>3</sup> Fe'i dyfynnir yn *NBM*, t. 62.

Dengys y dyfyniad uchod fod beirdd yn cael rhoddion pan gyrchent lysoedd adeg y gwyliau. Ond nid oedd pawb mor hael, fe ymddengys, fel y dengys tystiolaeth Lewys Glyn Cothi: “Mae rhai a lechai bob gŵyl uchel”, meddai.<sup>1</sup> Yr oedd hyn yn bechod o’r mwyaf, mae’n amlwg, yn enwedig o gofio bod y gwyliau’n gyfnod o rod-di anrhegion i feirdd a cherddorion a gweiniaid.

Fel y gwelwyd eisoes, mae dau destun o’r Statud o blith y rhai a olygwyd – sef H a L – yn cynnig gwybodaeth fanwl ynghylch rhai o’r gwyliau pwysicaf y gellid eu dathlu. Yn y testunau hyn, ‘y pum erw rydd’ y gelwir y gwyliau hyn, sef y pum adeg y caniateid i feirdd a cherddorion ymweld â’u noddwyr. Dyma grynoded o’r pum erw rydd:

(i) Nadolig hyd Wyl Fair y Canhwyllau.

Y Pasg oedd yr ŵyl bwysicaf yn y calendr crefyddol, ond yn ystod y Nadolig, fe ymddengys, y ceid y dathlu mwyaf.<sup>2</sup>

---

<sup>1</sup> Fe’i dyfynnir yn J. Gwynfor Jones, ‘Beirdd yr Uchelwyr a Deddfwriaeth y Tuduriaid, 1536 - 43’, *Tal* LVII (1986), t. 84.

<sup>2</sup> Awgrymir pwysigrwydd y Nadolig gan gofnodion rhai o dai uchelwyr yn Lloegr, gan mai yn ystod yr ŵyl hon y derbynai’r uchelwyr y nifer mwyaf o ymwelwyr i’w llysoedd, fel y sylwodd Felicity Hall, *Hospitality in Early Modern England* (Oxford, 1990) tt. 70 - 71:

A crude measure of the importance of the Christmas season can be gained by a look at the numbers of men fed in various households, and at the changing level of expenditure on food. The third Duke of Buckingham had an average of twelve outsiders a day in his house between November 1507 and the latter part of March 1508. On Christmas Day he received 182 strangers to dinner and 176 to supper, while at the famous Epiphany feast which concluded his celebrations he had 319 strangers to dinner and 279 to supper. Numbers as large as these must surely have been unusual, though we may compare them with John Smyth’s claim that Thomas, Lord Berkeley, kept a great and splendid feast for all the county at Christmas 1303, and the Howard Household Book shows that the Duke of Norfolk fed 580 including his own establishment, at Framlingham on 1 January 1527 and 399 on Twelfth Night.



Yr oedd yr erw rydd hon yn parhau hyd Wyl Fair y Canhwyllau. Fe ddethlir Gŵyl Fair y Canhwyllau, neu Wyl Buredigaeth Mair Forwyn fel y'i gelwir weithiau, ar Chwefror yr ail.<sup>1</sup> Credid yn draddodiadol mai yn ystod y diwrnod hwnnw'n unig y cenid y farddoniaeth sy'n gysylltiedig â wyl, ond awgryma Rhiannon Ifans ar sail tystiolaeth gan y bardd Huw ab Ifan o Gaergyrrach mai penllanw'r dathlu oedd Chwefror yr ail, ac

---

Wrth gwrs, adlewyrchid hyn yng nghostau'r tai bonheddig. Yn 1520 mewn un tŷ bonheddig, e.e., rhwng 17s. a 22s. oedd cyllideb y gaeaf, ond fe wariwyd 31s. 7d. mewn un wythnos dros gyfnod y Nadolig. Gw. *ibid.*, t. 11.

Ar y pumed ar hugain o Ragfyr y dethlid y Nadolig yn y Canol Oesoedd fel heddiw, wrth gwrs, ond yr oedd holl ddathliadau'r Nadolig yn ymestyn dros gyfnod o ddyddiau lawer. Gw. John Rankin, 'Christian Festivals' yn Alan Brown (gol.), *Festivals in World Religions* (Chatham, 1986), tt. 82 - 6. Yn y calendr crefyddol, dechreuid y paratodau ar gyfer y Nadolig yn hwyr ym mis Tachwedd neu'n gynnar ym mis Rhagfyr gyda Sul cyntaf yr Adfent, ac ni ddeuai cyfnod dathlu'r Nadolig i ben hyd y chweched o Ionawr, sef yr Ystwyll. Gw. *ibid.*; John Walshe, *Dates and Meanings of Religions and Other Festivals* (Avon, 1989), t. 22.

<sup>1</sup> Wrth gwrs, mae gan y Forwyn Fair le pwysig iawn yn y grefydd Babyddol, a chysegrir pump o wyliau eraill iddi yn ogystal â Gŵyl Fair y Canhwyllau, sef Gŵyl Fair y Cyhydedd, (Mawrth y pumed ar hugain), Gŵyl Fair yn yr Haf (Gorffennaf yr ail), Gŵyl Fair Gyntaf (Awst y pymthegfed), Gŵyl Fair pan Aned (Medi'r wythfed), ac Ymddwyn Mair (Rhagfyr yr wythfed). Gw. *SR*, t. 150 Gydag amser, daethpwyd i gysylltu Gŵyl Fair y Canhwyllau â gŵyl baganaidd o'r enw Gŵyl y Goleuni, gŵyl a folai ffrwythlonedd. Am drafodaeth lawn, gw. *ibid.*, tt. 41 - 2.

Cyfeiria sawl bardd at Wyl Fair y Canhwyllau yn eu cerddi.

Gwyliau i'w gweled  
yr af er yfed,  
Gŵyl Fair, Gŵyl Fared,  
Duwsul dewised.

— medd Lewys Glyn Cothi, er enghraifft (gw. 'Moliant Hywel ab Ystyfn a Sioned', *GLGC*, t. 354, rhif 159, llau. 47 - 50), a chyfeiria'r un bardd mewn cerdd arall at drigo yn nhŷ Dafydd Llwyd ap Dafydd, un o'i noddwyr, o'r Nadolig hyd Wyl Fair:

Cynneddf gwŷr ieuainc annwyl  
yn ei dai gynt, er nad gŵyl,  
hyd y Nadolig trigo  
o doem Wyl Fair i'w deml fo

Gw. 'Marwnad Dafydd Llwyd ap Dafydd', *ibid.*, t. 441, rhif 202, llau. 27 - 30.

y ceid canu i Fair dros gyfnod o ddyddiau.<sup>1</sup>

(ii) Pasg hyd Dydd Iau Dyrchafael / Pasg hyd y Pasg Bychan.

A dyfynnu Rhiannon Ifans:

Gŵyl symudol oedd y Pasg a phenodid y dyddiad yn ôl y lleuad. Yn ôl y Llyfr Gweddi Gyffredin: “Dydd Pasg...yw bob amser y Sul cyntaf wedi’r Llawn Lleuad a syrthio ar, neu nesaf ar ôl, yr unfed dydd ar hugain o Fawrth. Ac os digwydd y Llawn Lleuad ar Ddydd Sul, Dydd Pasg yw y Sul ar ôl.” Dyddiad y Pasg fyddai’n pennu dyddiad yr Ynyd a’r Grawys a’r gwyliau cysylltiedig eraill.<sup>2</sup>

Yn ôl H, yr oedd gan y gwŷr wrth gerdd hawl i fynd ar gylchwyll o’r Pasg hyd Ddydd Iau Dyrchafael, sef y deugeinfed diwrnod ar ôl y Pasg,<sup>3</sup> ond dywed L mai o’r Pasg hyd y Pasg Bychan oedd cyfnod y gylchwyll, sef y Sul sy’n dilyn y Pasg.<sup>4</sup>

(iii) Sulgwyn hyd Sul y Creiriau / Sulgwyn hyd Sul y Drindod.

Yr oedd y Sulgwyn gynt saith wythnos yn ddiweddarach na’r Pasg, felly yr oedd

---

<sup>1</sup> Gw. *SR*, tt. 151 - 3. Am drafodaeth fanylach ar y canu i Fair Forwyn, gw. *ibid.*; Trefor M. Owen, ‘Canu Gŵyl Fair yn Arfon’, *TCHSG XXV* (1964), tt. 22 - 41.

<sup>2</sup> *SR*, t. 43. Cymh. yr hyn a ddywed Walshe, *Dates and Meanings*, t. 32: “The date of Easter is determined by the paschal full moon and can be anywhere between 21 March and 25 April.”

Eto, fodd bynnag, nid un diwrnod o ddathlu a geid dros y Pasg oherwydd, fel y Nadolig, yr oedd y Pasg yn gyfnod a oedd yn cynnwys mwy nag un dydd gŵyl, er mai Sul y Pasg oedd y pwysicaf un. Gw. Rankin, ‘Christian Festivals’, tt. 86 - 90; O fewn cyfnod dathlu’r Pasg yr oedd Dydd Mawrth yr Ynyd, y Grawys, Dydd Mercher y Llundw, Wythnos y Pasg, Sul y Blodau, Dydd Iau’r Gofid a Gwener y Groglith.

Fel yn ystod cyfnod y Nadolig, ceid gwleddoedd a dathlu adeg y Pasg, ond yn ôl pob tebyg ni ddethlid i’r un graddau ag y gwneid dros y Nadolig. Gw. Hall, *Hospitality*, tt. 77 - 8. Y Pasg oedd yr ŵyl bwysicaf yn y calendr crefyddol, ond i’r uchelwyr y Nadolig, fe ymddengys, oedd penllanw’r gwledda a’r gloddesta.

<sup>3</sup> Gw. Rankin, ‘Christian Festivals’, t. 81, t. 92; Walshe, *Dates and Meanings*, t. 39. Cofio ymddangosiad olaf Crist ar y ddaear pan oedd gyda’i ddisgyblion ar ôl yr atgyfodiad a’i esgyniad i’r nefoedd y mae Dydd Iau Dyrchafael.

<sup>4</sup> Gw. *EC*, t. 66.

hon hefyd yn wyl symudol. Yn ôl H, câi'r gwŷr wrth gerdd glera o'r Sulgwyn hyd Ddydd Sul y Creiriau, sef y trydydd Sul ar ôl Gŵyl Ifan (a gynhelid ar Fehefin y pedwerydd ar hugain);<sup>1</sup> yn ôl L, hyd Sul y Drindod yn unig y gellid clera, sef y Sul sy'n dilyn y Sulgwyn.<sup>2</sup> Fel yn rhif (ii) uchod, gwelir bod L, sydd yn ddiweddarach o dipyn na H mae'n debyg, yn lleihau cyfnod clera'r gwŷr wrth gerdd yn sylweddol. Ai gan fod y gwŷr wrth gerdd yn gofyn gormod gan eu noddwyr y gwnaed hyn?

(iv) Pan fyddai pendefig yn codi tŷ / Gŵyl Mabsant.

H ydyw'r unig destun o blith y rhai a olygwyd sy'n nodi bod y gwŷr wrth gerdd yn cael mynd at eu noddwyr er mwyn cael rhoddion pan fo'r noddwyr yn adeiladu tŷ. Nodir yn H, yn ogystal, y dylai'r noddwyr neu'r pendefigion gael rhoddion gan eu deiliaid a'u pobl a'u perthnasau ar achlysur o'r fath.<sup>3</sup>

Fodd bynnag, ymddengys nad oedd yr erw rydd hon mor llwyddiannus ag y dylai fod – gan nad oedd yn wyl flynyddol, gyson fel y gweddill, efallai – gan fod H yn nodi ei bod wedi cael ei dileu, gan gynnig dathlu gŵyl mabsant yn ei lle.<sup>4</sup>

---

<sup>1</sup> Sul y Creiriau ydyw'r Sul cyntaf wedi'r seithfed o Orffennaf. Gw. J. E. Caerwyn Williams, 'Yr Arglwydd Rhys ac 'Eisteddfod' Aberteifi 1176: y cefndir diwylliannol', *ARh*, t. 110.

<sup>2</sup> *EC*, t. 66; Rankin, 'Christian Festivals', tt. 92 - 3. Yn ôl Rankin, yr oedd Sul y Drindod yn wyl grefyddol bwysig: "It is a festival which developed relatively late (in the tenth century CE) and its connotations are more theological than rooted in popular devotion. It is the culminating Sunday of the whole Christian Year, celebrating the glory and majesty of God in all his fulness."

<sup>3</sup> Mae'n amlwg fod arfer o'r fath wedi bodoli gan fod tystiolaeth i'r perwyl hwnnw yng nghanu'r beirdd. Awgryma Cynfael Lake, 'Goblygiadau Clera', t. 133, mai cerdd a luniwyd ar gyfer dathlu cartref newydd noddwr ydyw cerdd Iolo Goch i Sycharth, sef cartref Owain Glyndŵr, a cherddi Guto Glyn i'r Faenor a Moelyrch, sef cartrefi Edward ap Hywel a Hywel ap Ieuan.

<sup>4</sup> Dathlu sant y plwyf a wneid mewn gŵyl mabsant, a Chynfael Lake eto yn 'Goblygiadau Clera', t. 133, sy'n cynnig mai mewn gŵyl flynyddol o'r fath y

(v) Priodas merch

Y bumed erw rydd ydyw 'cyfarwys morwyn ieuanc' – neu 'briodas rhiain wryf', ys dywedir yn H. Mae'r dathliad hwn, ynghyd â phan gyfodai pendefig dŷ, yn wahanol i'r gwyliau eraill, gan nad ydyw'n digwydd yn gyson ar adeg arbennig o'r flwyddyn.<sup>1</sup> Gan nad oedd priodas yn ddigwyddiad rheolaidd, nid ydyw'r cyfeiriadau ato yng ngweithiau'r beirdd mor niferus â'r cyfeiriadau at y Nadolig, y Pasg, y Sulgwyn neu ŵyl mabsant, ond drachefn ymddengys fod digwyddiad o'r fath yn ddathliad a oedd yn llawn ffraethineb ac asbri, a'r beirdd oedd yn rhannol gyfrifol am hynny, fel y ceir gweld maes o law.

Mae modd cysylltu achlysur priodas â nifer o adegau dathlu neu nifer o ddigwyddiadau eraill, megis genedigaeth, bedydd, marwolaeth, a hynny gan eu bod i gyd yn enghreifftiau o 'ddefodau newid byd', fel y'u gelwir.<sup>2</sup> Adeg genedigaeth, marwolaeth a phriodas mae bywyd unigolyn yn newid yn llwyr, ac mae hyn yn wir am aelodau cymunedau ar draws y byd. Mewn neithior, felly, dethlir y newid a ddaw i ran y priodfab a'r briodferch, ac awgryma Jerry Hunter mai'r un math o ddathlu ydyw, yn y

---

datganwyd am y tro cyntaf y cerddi sy'n adrodd hanes Lluchhaearn, Tudecho a Chawrdaf. Yn ôl pob tebyg, credid y byddai'r rhai a oedd yn dioddef o afiechydon yn gwella pe deuent i addoli i'r ŵyl. Am fwy o wybodaeth, gw. Glanmor Williams, 'Poets and Pilgrims in 15<sup>th</sup> and 16<sup>th</sup> century Wales', *TrCymm* (1991), tt. 74 - 9; R. Alun Charles, 'Noddwyr y Beirdd yn Sir y Fflint', *LIC* XII, rhifyn 1 a 2 (Ionor - Gorffennaf, 1972), t. 36.

<sup>1</sup> Mae Rhiannon Ifans yn *SR* yn nodi adegau pwysig eraill ym mywyd unigolion, er na chyfeirir atynt yn y Statud, megis adeg genedigaeth plentyn neu adeg marwolaeth uchelwr.

<sup>2</sup> Gw. Arnold van Gennep, *Les Rites de Passage* (Paris, 1908), cyf. Saesneg gan Monika Vizedon a Gabrielle Caffee, *The Rites of Passage* (Chicago, 1960); Jerry Hunter, 'Cyd-destunoli Ymrysonau'r Cywyddwyr: Cipolwg ar 'Yr Ysbaddiad Barddol'', *D* III (Hydref, 1997), tt. 44 - 6.

bôn, â'r hyn a welir adeg y Nadolig, y Pasg, y Sulgwyn a gwyliau 'cymdeithasol' eraill.

Meddai:

Er i van Gennep ganolbwyntio ar fywyd yr unigolyn, fe ellir ymestyn ei theorïau a'u haddasu er mwyn trafod 'bywyd' y gymuned gyfan hefyd; ceir defodau newid byd sy'n cydnabod a dathlu'r ffaith fod y gymuned gyfan yn symud o un categori cysyniadol i gategori newydd. Y mae'r defodau hyn gan amlaf yn ymwneud â chategoriâu amseryddol – yr un amlycaf sydd yn gyfarwydd inni heddiw yw Nos Galan, sef cydnabod a dathlu'r ffaith fod y gymuned gyfan yn symud o hen gategori cysyniadol – yr hen flwyddyn, y gorffennol – i gategori newydd, sef y flwyddyn newydd, y dyfodol. Ond yn yr Oesoedd Canol a'r Cyfnod Modern cynnar, 'roedd lliaws o wyliau calendr a oedd yn cofnodi'n fanwl symudiad y gymuned drwy gyfres o gerrig milltir amseryddol. Felly, yn ogystal â'r Gwyliau (y cyfnod yn cwmpasu'r Nadolig a'r Flwyddyn Newydd) a'r Pasg, ceid hefyd y Gwyliau Mabsant, sef defodau newid byd a oedd o bwys i'r gymuned leol.<sup>1</sup>

Mewn defodau newid byd o'r fath, yr oedd dathlu trwy gymylu ffiniau arferol neu drwy newid cynhwysion bywyd bob dydd yn bwysig. Weithiau, er enghraifft, gwneid taeog yn frenin am ddiwrnod – hynny ydyw, troi'r arferol â'i ben i waered – a cheir olion tebyg mewn neithiorau yng Nghymru yn nefod y cyff clêr lle gwneid y pencerdd parchus, dysgedig, yn destun hwyl yn ystod y wledd.<sup>2</sup>

Ceir tystiolaeth yng nghanu'r beirdd eu bod yn arfer ymweld â'u noddwyr yn ystod llawer o'r gwyliau y soniwyd amdanynt uchod. Yn wir, mae sawl bardd, yn ogystal â chyfeirio'n gyffredinol at y gwyliau, yn cyfeirio fesul un at y rhai pwysicaf, yn arbennig felly y Nadolig, y Pasg a'r Sulgwyn. Medd Lewys Glyn Cothi, er enghraifft:

Nadolig a Phasg, gan delyn - gywair,  
Calan gaeaf, Sulgwyn,  
goleuhau mae'r gwyliau hyn

---

<sup>1</sup> Hunter, 'Cyd-destunoli', t. 45.

<sup>2</sup> *Ibid.*, tt. 46 - 7.

yt gytgerdd eto Gwacyn.<sup>1</sup>

Yr un hwy a roen' ennyd  
rodd Basg a harddai y byd,  
rhodd Nadolig is brig bron,  
rhodd ail ormodd Wyl Armon.<sup>2</sup>

Meredydd, ni mawr oedai  
roddi i bawb o'r radd y bai.  
Un o delai Nadolig,  
ef a rôl aur ar ei frig.  
*Gwin* hafog Sulgwyn hefyd,  
ac aur Basg i wŷr y byd.<sup>3</sup>

Tebyg ydyw tystiolaeth Tudur Aled:

Sulgwyn mawr, sâl gwin a medd,  
Pasg, wŷn Powys a Gwynedd,  
Ydd ym, res, yn ddi 'mryson  
Yn d'alw, cyff Nadolig hon;<sup>4</sup>

– a thystiolaeth Hywel Cilan:

I'r un tai'r af, mae rhent rhydd,  
Y Pasg, tri Phasg at Ruffudd.<sup>5</sup>

Yn ogystal â chyfeirio at yr arfer o ddathlu, yr oedd crybwyll y gwyliau hyn yn ffordd

---

<sup>1</sup> Gw. 'Moliant Watcyn ap Tomas', *GLGC*, t. 284, rhif 126, llau. 57 - 60.

<sup>2</sup> Gw. 'Marwnad Gwenllian ferch Owain Glyndŵr', *ibid.*, t. 413, rhif 188, llau. 45 - 8.

<sup>3</sup> Gw. 'Marwnad Mareddydd ap Rhys', *ibid.*, tt. 424 - 5, rhif 194, llau. 33 - 8.

<sup>4</sup> Gw. 'Cywydd i Reinallt Conwy, o'r Bryn Euraid', *GTA I*, t. 140, rhif XXXI, llau. 77 - 80.

<sup>5</sup> Gw. cerdd Hywel Cilan, Cilan, Llandrillo yn sir Feirionnydd, i Ruffudd ap Rhys ap Ieuan, Branys a Chrogen, Meirionnydd. Fe'i dyfynnir yn *NBM*, t. 6.

anuniongyrchol, gynnill o foli'r noddwr am ei letygarwch a'i haelioni.<sup>1</sup>

Fe erys rhywfaint o wybodaeth ynghylch gwleddoedd enwog a gynhaliwyd yn ystod rhai o'r gwyliau arbennig yng Nghymru. Yn 1109 cynhaliodd Cadwgan ap Bleddyn wledd frenhinol adeg y Nadolig, ac yn ystod y Nadolig y cynhaliodd yr Arglwydd Rhys ei wledd fawr yn Aberteifi yn 1176.<sup>2</sup>

Ond, wrth gwrs, nid yng Nghymru yn unig y rhoddid pwys ar y gwyliau arbennig. Ym 1184 cynhaliwyd gwledd ym Mainz, yr Almaen, adeg y Pasg;<sup>3</sup> mewn dwy gerdd o Iwerddon, sef 'Tabhrum an Cháisg ar Chathal' ('Gadewch i ni dreulio'r Pasg'), a 'Nodlaig do-chuanair don Chraoibh...' ('Ar y Nadolig aethom i Creve...') cyfeirir at y dathlu a geid adeg y Pasg a'r Nadolig;<sup>4</sup> a chofnodwyd hanes gwledd arall yn Iwerddon, gwledd a gynhaliwyd eto adeg y Nadolig:

1315... William Ó [sic] Donough Moyneagh o'Kelly invited all the Irish poets, Brehons, bards, harpers, gamesters or common kearogs, Jesters and others of their kind in Ireland to his home upon Christmas this year, where every one of them was well used during Christmas holy Days, and gave contentment to each of them at the time of their Departure soe as every one was well pleased & extolled William for his bounty, one of which assembly composed certaine Irish

---

<sup>1</sup> Ceir tystiolaeth fod gwledd wedi ei chynnal yn Lleweni adeg y Nadolig yn y flwyddyn 1595. Gw. J. Gwynfor Jones, 'Cerdd a Bonedd yng Nghymru c. 1540 - 1640: Rhai Argraffiadau Terfynol', *WM* VII, rhif 3, t. 37; Ifor Williams, 'Cerddorion a Cherddau yn Lleweni, Nadolig 1595', *B* VIII (1935), t. 8; *GDB*, t. 204. Yr oedd y gwyliau arbennig yn achlysuron pwysig i uchelwyr a brenhindod Lloegr hefyd, fel y gellid disgwyl. Cyfeirir at ddatliadau adeg y Nadolig, yr Ystwyll, y Pasg a'r Sulgwyn yn y llys brenhinol yn Bullock-Davies, 'Welsh Minstrels', t. 107 - 8, ac yn *MMul*, t. 20. Cyfeirir at y tair gŵyl arbennig, yn ogystal, yn Williams, 'Tri Chof', t. 236.

<sup>2</sup> Am fwy o wybodaeth, gw. Williams, 'Yr Arglwydd Rhys', t. 108, tt. 119 - 20 idem., 'Aberteifi 1176', t. 31.

<sup>3</sup> Gw. idem., 'Yr Arglwydd Rhys', t. 108.

<sup>4</sup> *Ibid.*, t. 120.

verses in commendation of William and his house which began thus...<sup>1</sup>

Yr oedd y gwleddoedd a gynhelid yn llysoedd yr uchelwyr, yn enwedig y rhai a gynhelid adeg y gwyliau arbennig, yn rhai bywiog a lliwgar iawn, fe ymddengys. Fel y gellid disgwyl, bwyd, diod, lloches a rhoddion oedd yr elfennau amlycaf y sonnid amdanynt yng ngherddi'r beirdd,<sup>2</sup> ond cyfeirir yn aml at yr adloniant a geid yno hefyd, yn farddoniaeth a cherddoriaeth. Medd Simwnt Fychan yn ei awdl foliant i Siôn Salbri, er enghraifft:

Lluosawg odlau lle lleisir - tannau,  
Llawer gywyddau lle'n gwahoddir;<sup>3</sup>

– a chyfeiria Siôn Tudur, hefyd, at y cerddorion a'r prydyddion a welid yn llys Siôn Salbri yn ystod y gwyliau arbennig:

Y gwŷr o raddau a gâr roddion,  
Hap a roed iddynt y prydyddion,  
A gwŷr y ddwyradd o gerddorion,  
A chroyw iaith eraill a chrythorion,  
Nadolig, Sulgwyn, delon' - Basg a Mai,  
Er maint a ddelai croesawai Siôn.<sup>4</sup>

Fel y ceir gweld yn nes ymlaen, yr oedd gwleddoedd a geid adeg y gwyliau

---

<sup>1</sup> Dyfynnir y wybodaeth yn Williams a Ford, *The Irish*, t. 166. Gw. hefyd Williams, 'Yr Arglwydd Rhys', t. 120. Am gyfeiriadau at ddatliadau adeg y Nadolig, y Pasg a'r Sulgwyn yn Lloegr, ac yn enwedig yn y llysoedd brenhinol, gw. Bullock-Davies, 'Welsh Minstrels', tt. 107 - 8; *MMul*, t. 20.

<sup>2</sup> Gw. Hall, *Hospitality*, t. 3, tt. 21 - 6.

<sup>3</sup> Fe'i dyfynnir yn Hughes, 'Rhai o Noddwyr', t. 168.

<sup>4</sup> *Ibid.*



arbennig yn llawn o hwyl a thynnu coes, a rhan o hyn oedd defod y cyff clêr. Ymhellach, ymddengys y gallai beirdd gynnig adloniant ar achlysuron o'r fath trwy ymryson â'i gilydd gan fod yr awdl ymryson gyntaf a luniodd Phylip Brydydd, awdl ymryson rhyngddo ef a'r beirdd crwydrol, wedi ei llunio adeg y Nadolig yn ôl pennawd yr awdl:

Awdl a gant Phylip Prydyd yn llys yr Arglwyd Rys Ieuanc yn Llanpadarn 6 awr pan 6u amrysson y rygtha6 a beird ysbydeit puy gyntaf ohonynt a delei a cherd dduw Nadolyc<sup>1</sup>

Yn yr un modd, câi cerddorion yn ogystal â beirdd groeso yn llysoedd yr uchelwyr adeg y tair gŵyl arbennig. Yn Lleweni ger Dinbych ym 1595 yr oedd tri ar ddeg o delynorion a chrythorion a beirdd yn diddanu adeg y Nadolig.<sup>2</sup>

Canolbwyntiodd Cynddelw Brydydd Mawr ar ddisgrifio'r rhoddion a'r ddiod – yn win, medd a gwirod – a dderbyniodd yn llysoedd ei noddwyr yn ystod y gwyliau arbennig,<sup>3</sup> ond, wrth gwrs, ceid bwydydd bendigedig hefyd, a digonedd ohonynt, fe ymddengys, gan fod tri chwrs yn gyffredin mewn cinio mawr, a phob cwrs yn cynnwys o saith i ugain o seigiau.<sup>4</sup>

Ceir disgrifiad manwl o'r neuadd, y byrddau a'r bwydydd a geid mewn gwleddau

---

<sup>1</sup> Gw. *GDB*, t. 195.

<sup>2</sup> Gw. *SHW*, t. 35; J. Gwynfor Jones, 'Cerdd a Bonedd: Rhai Argraffiadau Terfynol', t. 37; Williams, 'Cerddorion a Cherddau yn Lleweni, Nadolig 1595', t. 8. Am gyfeiriadau eraill at y tair gŵyl arbennig, gw. Williams, 'Tri Chof', t. 236.

<sup>3</sup> Gw. Owen, "A mi feirdd";, tt. 161 - 2.

<sup>4</sup> Gw. Enid Roberts, *Bwyd y Beirdd* (Caerdydd, 1976), t. 2. Gw. y llyfryn i gyd am ddarlun cyflawn o dystiolaeth y beirdd ynghylch y bwydydd a geid yn llysoedd yr uchelwyr.

At the west end occupied by the dais, a long trestle-table, running almost the full width of the building, was set up, covered by a fine tablecloth. Here sat the master of the house, occupying the only chair (from which custom is derived our surviving use of the word 'chairman'); his family and his guests of honour sat or stood on benches. The high table displayed his finest possessions: goblets, ewers, and plate, sometimes of gold. The most magnificent ornaments were the containers for spices and the great salt-cellars. Guests supplied their own knives but were provided with a spoon. Only the very richest and most fashionable had a fork. They frequently shared the same cup, a ceremony sometimes remembered at banquets in the City of London today in passing round 'the loving cup' and thus normally ate off wooden trenchers. White cloths and ewers of water were provided for washing hands. Members of the household and less important guests sat at shorter trestle tables running at right angles to the high table. Seated according to rank, they were supplied with food only after high table had been served. On the arrival of the food the kitchens (the bearers sometimes having walked long distances along open paths) minstrels blew trumpets, and a blessing was asked, followed by silence. All important dishes were presented first to the high table, always accompanied by a reverence - the bending of the knees.

Food was treated with great respect. It had taken a vast number of the household to prepare and it was precious. Wines were mixed with honey or ginger; all sorts of animal flesh, fowl and game (including thrushes, gulls, herons, vultures, peacocks and swans) were eaten as well as fish, a few vegetables, wild and cultivated fruits, and pastries. Bread served wrapped in white cloths, was originally also the poor man's plate. (Many people in southern Europe and Scandinavia still eat quite large meals on pieces of open bread in the medieval manner without realising it.) It was hard to keep food fresh, but some form of preservation was adopted by burying the meat, fish and fowl in a cloth in the earth. (In England today game is still occasionally buried in its own grave until ready.) Salt and precious spices from the East, however, were the common preservatives. Most of the food was chopped up finely, coloured, and heavily spiced, then moulded into fanciful shapes to make it more palatable in spite of the long time it may have been kept. A lot of alcohol was consumed during the course of the meal and any nobleman worth his salt (that is, able to own a beautiful salt-cellar) would also provide music for his guests. If he were rich enough he would have built a gallery at the end of the hall facing the high table, to house the minstrels or band of players. They played on a small selection of soft-sounding instruments to contrast with the trumpeters who 'heralded' each course: reed pipes, recorders, tabor, fiddlers or violas, bells or bagpipes. Lutes, from the Middle East crusades, came later, and there may also have been a small harp and a portative organ. After the meal, when the food had filled the belly and drink had mellowed the mind, came the time for the less intellectual entertainment. Inhibitions and protocol were dismissed, the lower tables (and their occupants) were removed and the evening's entertainment really started.

Games like blind-man's-buff, leap frog, 'ring-a-ring-a-roses', parading and blowing out lighted tapers, catching a ball, and 'squeak piggy squeak' were played somewhat more lustily than our present children's party versions.<sup>1</sup>

Ceid dathlu mawr mewn neithiorau – yn arbennig felly mewn neithiorau brenhinol – yn ogystal ag yn y gwyliau arbennig, ac fel y gwelwyd eisoes fe ystyrir bod achlysur o'r fath yn un o'r 'pum erw rydd'. Fel ym mhob gwledd arall ceid bwydydd a diodydd o bob math mewn neithior, ond yn y Statud fe gysylltid neithior yn gyntaf ac yn bennaf â math arbennig o adloniant – sef defod y cyff clêr – lle y gwneid prif bencerdd y wledd yn gyff gwawd gan ei gywion beirdd.

#### *Defod y cyff clêr*

Yn ôl y Statud, athro neu bencerdd a wneid yn gyff clêr, a hynny trwy ddiodef clywed y beirdd eraill a oedd yn bresennol yn yr un wledd ag ef yn datgan cerddi celwyddog – englynion gan amlaf – amdano. Byddai'n rhaid i'r pencerdd fod yn dawel y noson honno, ond yna, drannoeth, câi ateb cyhuddiadau cellweirus y beirdd mewn cerdd ei hun.

Yn ei astudiaeth ddiweddar ar gyd-destun rhai o ymrysonau'r cywyddwyr, daeth Jerry Hunter i'r casgliad fod seiliau hynafol iawn i ddefod y cyff clêr.<sup>2</sup> Wrth graffu ar berthynas pobl â'i gilydd, darganfu anthropolegwyr a fu'n asudio cymunedau yn yr Affrig, ym Mecsico ac yn yr Unol Daleithiau, fod yr hyn a elwir yn 'berthynas jocio' yn bodoli weithiau rhwng pobl a'i gilydd, a bod y bobl hyn yn cyfranogi o 'gellwair

---

<sup>1</sup> Bucknell, *Entertainment*, tt. 154 - 5.

<sup>2</sup> Gw. Hunter, 'Cyd-destunoli', tt. 37 - 49.

defodol'.<sup>1</sup> Yn ôl A. R. Radcliffe-Brown, perthynas jocio ydyw

a relation between two persons in which one is by custom permitted, and in some cases required, to tease or make fun of the other who, in turn, is required to take no offence.<sup>2</sup>

Ymhelaetha Philip Stevens ar y berthynas hon trwy ddweud ei bod i'w gweld rhwng rhai sydd yn gyfeillion agos, bod natur y berthynas jocio yn adlewyrchu perthynas yr unigolion, a bod y berthynas yn cael ei gwneud yn hysbys i eraill.<sup>3</sup> Onid amlygu math o berthynas jocio y mae defod y cyff clêr? Fel y nodwyd eisoes, gwelid y ddefod hon mewn neithior, sef achlysur y gellir ei alw'n 'achlysur newid byd' gan fod bywyd y priodfab a'r briodferch yn newid yn llwyr, neu'n esgyn i ddimensiwn gwahanol, ar ôl y seremoni briodasol. Yn ôl Arnold van Gennep, y rhan bwysicaf oll mewn 'defod newid byd' ydyw'r rhan sy'n canolbwyntio ar y newid o'r hen i'r newydd, a phwysleisir hyn trwy wyrdroi trefn arferol pethau dros dro, er enghraifft trwy wneud taeog yn frenin am ddiwrnod.<sup>4</sup> Dyna, yn y bôn, ydyw Carnifal:

Carnival was an enactment of the 'world upside down', a favourite theme in the popular culture of early modern Europe; *le monde renversé, mondo alla rovescia, Die verkehrte Welt*. The world upside down lent itself to illustration, and from the mid-sixteenth century it was a favourite theme of popular prints. There was

---

<sup>1</sup> Gw. *ibid.*

<sup>2</sup> Gw. A. R. Radcliffe-Brown, 'On Joking Relationships', *Structure and Function in Primitive Society* (London, 1975), t. 90. Fe'i dyfynnir yn Hunter, 'Cyd-destunoli', t. 37.

<sup>3</sup> Gw. Philip Stevens, 'Bachama Joking Categories: Towards New Perspectives in the Study of Joking Relationship', *Journal of Anthropological Research* XXXIV (1978), tt. 47 - 71. Ceir trafodaeth ar waith Stevens yn Hunter, 'Cyd-destunoli', tt. 37 - 8.

<sup>4</sup> Gw. *ibid.*, tt. 45 - 6.

physical reversal: people standing on their heads, cities in the sky... There was reversal of the relation between man and beast... Also represented was the reversal of the relations between man and man, whether age reversal, sex reversal, or other inversions. The son is shown beating his father, the pupil beating his teacher, servants giving orders to their masters... the king going on foot while the peasant rides...<sup>1</sup>

Ym marn Jerry Hunter, mae elfennau megis y rhain yn fyw yn nefod y cyff clêr:

Am noson o ddathlu, mae'r pencerdd yn gorfod dioddef ymosodiadau'r beirdd israddol. Gwneir cyff gwawd o'r bardd mwyaf ei barch. I'm tyb i, mae traddodiad y cyff clêr yn enghreifftio disgrifiad Victor Turner o ddefodau trothwyol mewn modd trawiadol iawn: 'the high could not be high unless the low existed, and he who is high must experience what it is like to be low'. Mae'r hyn a wyddom am benodi'r cyff clêr hefyd yn adleisio disgrifiad Peter Burke o naws y Carnival: 'the son is shown beating his father, the pupil beating his teacher, servants giving orders to their masters'. Beth oedd yr ymosodiadau cellweirus ar y pencerdd, onid y gweision yn rhoi gorchmynion i'w meist'r, y disgyblion yn curo'r athro?<sup>2</sup>

Yn ystod defod y cyff clêr, gwneid y mawr yn fychan, y parchus yn destun chwerthin cyfeillgar; ond o'r anhrefn hwn, adferid trefn yn y pen draw gan fod y pencerdd, ar ail ddiwrnod neu ail noson y neithior, yn cael dweud ei ddweud ei hun gan ateb y beirdd a'i testuniodd.<sup>3</sup>

Mae sawl cofnod wedi goroesi sy'n dangos fod defod y cyff clêr yn fyw iawn yn ystod adloniant neithiorau. Nid oes raid edrych ymhellach na'r neithior a fu yn

---

<sup>1</sup> Gw. Peter Burke, *Popular Culture in Early Modern Europe* (New York and Cambridge, 1978), tt. 188 - 9. Fe'i dyfynnir yn Hunter, 'Cyd-destunoli', tt. 46 - 7.

<sup>2</sup> Hunter, 'Cyd-destunoli', t. 47.

<sup>3</sup> Gw. *ibid.*, t. 48. Ni ellir dweud pwy yn union oedd y rhai a destuniai'r pencerdd ymhob achos. Weithiau, disgyblion y pencerdd oeddynt; ond awgryma Huw Meirion Edwards y gallai'r glêr, sef y beirdd isradd, ymddwyn fel testunwyr dro arall, a bod y term 'cyff clêr' yn awgrymu bod cysylltiad rhwng y glêr a'r arfer. Gw. *DGIA*, t. 27, t. 49. Byddai gweld bardd isradd yn testunio prif fardd yr ŵyl yn cydfynd â theori Jerry Hunter fod defod y cyff clêr yn gwyrddroi trefn arferol pethau.

Rhiwedog ar yr ugeinfed o Hydref, 1555, i ddathlu priodas Wiliam Llwyd ab Elisau ac Elsbeth ferch Owain ab Siôn ap Hywel Fychan o Lwydiarth. Yno gwnaed Gruffudd Hiraethog yn gyff clêr gan ei ddisgyblion Lewys ab Edward, Simwnt Fychan a Siôn Tudur. Haerwyd bod Gruffudd wedi disgyn oddi ar ei geffyl i lyn, a bod gleisiad wedi ei sbaddu.<sup>1</sup> Dyma enghraifft, felly, o athro'n cael ei destunio gan ei ddisgyblion, enghraifft o gywion beirdd yn gwneud hwyl am ben y bardd ar frig ei broffesiwn.

Fe wnaed Tudur Aled yn gyff clêr, yn ogystal, yng ngwledd briodas Siôn Pilstwn Hen gan ddeuddeg o feirdd eraill, ac uwchben yr englynion sy'n cynnwys ei ateb ef i'r beirdd hyn ceir yr wybodaeth ganlynol:

Llyma osteg neu ateb a wnaeth Tudur Aled i ddeuddeg o brydyddion, a haerodd iddo godi i setio at wraig un *a* elwid Badi, a'i glywed o'r Badi, a chael ffon a rhoi ffat i Dudur, a ffoi o Dudur, a Badi ar i ol. A hyn oedd y testun yn neithior Siôn Pilstwn Hen.<sup>2</sup>

Gutun Owain, un o ddisgyblion Tudur Aled, oedd un o'r deuddeg, ac fel hyn yr atebwyd ef gan Dudur:

Gutun Owain, sain swynion - gwrachïod,  
Gŵr â chywydd gwirion;  
Nwyfus yw, anafai i sôn,  
Eithr gweddaï â chwthr gwiddon.<sup>3</sup>

---

<sup>1</sup> Gw. *GTA* I, t. xxv, t. xxiv; *GGH*, t. xxxviii; Hughes, 'Rhai o Noddwyr', t. 183; Hunter, 'Cyd-destunoli'm tt, 43 - 4; Williams, 'Cerddi'r Gogynfeirdd', t. 93. Am gyfeiriadau eraill at Ruffudd Hiraethog yn cael ei destunio gan ei ddisgyblion mewn neithiorau, gw. *GGH*, tt. xii - xiii, t. xxxviii.

<sup>2</sup> Gw. *GTA* II, t. 535, rhif CXLII; Bowen, 'Graddau Barddol', t. 97; Hunter, 'Cyd-destunoli', t. 43; Williams, 'Cerddi'r Gogynfeirdd', t. 93.

<sup>3</sup> *GTA* II, t. 535, rhif CXLII, llai. 9 - 12. Dull Tudur Aled o ateb cywyddau o'r fath, yn ôl T. Gwynn Jones, oedd edliw ei fonedd. Dyna a wnaeth pan destuniwyd ef gan Lewys Môn. Gw. *GTA* I, t. xxv.

Ymhellach, er na chadwyd cerddi a all brofi hyn, awgryma D. J. Bowen y gallasai Dafydd ab Edmwnd fod cael ei wneud yn gyff clêr yng ngwledd briodas Ieuan ap Dafydd ab Ithel Fychan a Chatrin o Laneurgain, Sir y Fflint.<sup>1</sup>

Bu testunio yn neithior merch Syr Rhys ap Thomas o Gaeryw hefyd, lle yr haerodd Iorwerth Fynglwyd fod morfil wedi llyncu Ieuan Brechfa;<sup>2</sup> ac yn (Bangor) Mostyn 1 cofnodir y cerddi a luniwyd yn ystod gwledd briodas Roger Mostyn a Mari Wyn o Wydir ar yr ail o Awst, 1596, cerddi gan feirdd megis Rhisiart Phylip, Edward ap Raff, Siôn Phylip, Huw Machno, Siôn Mawddwy, Simwnt Fychan, Gruffudd Hafren, Owain Gwynedd a Siôn Tudur. Ymhellach, yn neithior Dafydd Amhredudd Fychan gwnaed Tudur Penllyn yn gyff clêr gan honni iddo gael ei sbaddu, y tro hwn gan flaidd.<sup>3</sup> Mae ateb Tudur Penllyn wedi ei gadw, ac yn ei osteg fe enwir nifer o feirdd – Hywel Cilan, Siôn Rheinallt, Gutun Owain a Siôn Conwy, er enghraifft – ac ymddengys fod pob un o'r rhain, yn eu tro, wedi ei destunio. Dyma ateb Tudur:

‘Tudur Penllyn yn Neithior Dafydd Amhredudd Fychan’

Eich rhybudd 'r ydwy' â chribau - rhedyn  
O rhodiwch y Blaenau;  
Er eich hyder, fawlgler fau,  
Och ladron, gwisgwch lodrau.

Hywel, galw uchel dan glochau - ystaen  
Ac estyn weflau,

---

<sup>1</sup> Gw. Bowen, 'Graddau Barddol', tt. 95 - 7.

<sup>2</sup> Gw. Lake, 'Goblygiadau Clera', tt. 133 - 4. Dyma deitl y gerdd fel y'i ceir yn *GIF*, t. 86: "Llyma osteg a wnaeth Iorwerth i haeru i'r Hwâl lyncu Ieuan Brechfa, pan oedd briodas merch Syr Rhys ap Tomas yng Nghaeryw."

<sup>3</sup> Gw. *GTPITP*, t. 90, rhif 51; Hunter, 'Cyd-destunoli', t. 43; *GGG*, t. 93, rhif XXXIV. Yma ceir enghraifft o'r mab yn testunio'r tad, sef Ieuan ap Tudur Penllyn yn llunio cerdd gyff clêr i'w dad.

Cilan, fotwm y ceulau,  
Moelcen tlawd, milcant o lau.

Cwccwallt Siôn Rheinallt, arenau - gwiber  
Fin gobwrs ffyrtingau;  
Gutun Owain, drwyn gwain gau,  
Gulwas biswail glasbysau.

Ac Arfon Gutun dan gorfau - strodwr,  
Was drewedig ei ffroenau,  
A Siôn, fryntion ei sanau,  
Conwy gynt oedd acw'n gwau.

Dafydd wr fal GLWYDD a'i gleddau - by...,  
Deio Bwl y cranclau;  
Na cherdded y merchedau  
Na'm troi o stad na'm tristáu.

Ewch weision beilchion i'r blychau - i ffwrdd  
Ffordd yr euthum innau,  
Ac nid êl nac un na dau  
Heb ladd o gŵn a bleiddiau.<sup>1</sup>

Eto, fel yr honnwyd bod Gruffudd Hiraethog wedi ei sbaddu gan leisiad, dywedir yma fod Tudur Penllyn wedi ei sbaddu gan flaid. Ym marn Jerry Hunter, efallai fod thema o'r fath i'w gweld yn aml gan mai mewn neithiorau y datgenid y cerddi hyn. "Ac ystyried mai dathlu priodas oedd cyd-destun cymdeithasol y canu hwn", meddai, "digon naturiol fyddai tanlinellu ffrwythlondeb, a dyna'r hyn a wneid – er yn negyddol – drwy esgus bod y bardd wedi colli'r gallu i genhedlu plant."<sup>2</sup> Yn wir, pwysleisia Ieuan ap Tudur Penllyn anallu ei dad i genhedlu plant ar ddiwedd ei osteg:

Ni bydd chwiorydd, chwarae - bwriadus,  
Na brodyr i minnau;

---

<sup>1</sup> *GTPITP*, t. 65, rhif 36, rhan VII, llau. 1 - 24.

<sup>2</sup> Hunter, 'Cyd-destunoli', t. 43.



Ni chair had o'r meddwdod mau,  
Nis gall am nad oes geilliau.<sup>1</sup>

Fodd bynnag, mae'n hawdd cyfyngu gormod ar ddefod y cyff clêr. Nid ar y thema uchod yn unig y cenid, wrth gwrs, ac ymddengys nad ar ffurf englynion yn unig y câi penceirddiaid eu testunio. Ymhellach, er i'r arfer gael ei gysylltu'n bennaf â neithiorau, ymddengys fod testunio a gwneud pencerdd yn gyff clêr yn arfer pur gyffredin mewn gwleddau o bob math, ac na chyfyngid mohono – yn ymarferol, o leiaf – i wleddau priodas.<sup>2</sup>

Ceir sawl cyfeiriad at destunio heb nodi pryd nac ar ba achlysur y gwnaed hynny, ac ymddengys nad oes raid cymryd yn ganiatâol mai mewn neithiorau y bu'r testunio hwn bob tro. Yn ei gywydd dychan i Dudur Penllyn, er enghraifft, cyfeiria Ieuan Brydydd Hir at destunio – “Tost iawn yw lle y testuniwyd”,<sup>3</sup> meddai mewn un man, gan awgrymu fod beirdd eisoes wedi gwneud Tudur Penllyn yn gyff clêr, ac yn nes ymlaen mae'n annog eraill i'w destunio.<sup>4</sup> Ymhellach, gwelir elfen gref o destunio yn rhai o ymrysonau'r Cywyddwyr, ac yn hyn o beth ymddengys fod yr ymrysonau hyn yn tarddu rywsut o'r un traddodiad â defod y cyff clêr, yn enwedig gan fod llawer o'r beirdd yn

---

<sup>1</sup> *GTPITP*, t. 90, rhif 51, llau. 25 - 8.

<sup>2</sup> Efallai fod yr arfer yn cael ei gysylltu'n bennaf â neithiorau gan fod rhai'n credu y gallai dychanu ddod â lwc yn ei sgîl. Tybed a gysylltid testunio a defod y cyff clêr â neithiorau, felly, gan y gobeithid y byddai'r dychanu'n dod â lwc i'r parau priod? Gw. *DGIA*, t. 48.

<sup>3</sup> Gw. *GTPITP*, t. 92, atodiad I, ll. 7.

<sup>4</sup> *Ibid.*, ll. 43: “Testuniwch ef,” meddai'r bardd. Ymddengys hefyd y bu testunio a thynnu coes rheolaidd ar aelwyd Plas Iolyn, a bod Elis Prys, y noddwr, yn cael ei wneud yn gyff clêr weithiau. Gw. Roberts, ‘Wiliam Cynwal’, t. 61. Gw. hefyd *CMOC*, t. 11.

cyfeirio at nodweddion corfforol ei gilydd, yn union fel y gwneid yn nefod y cyff clêr.<sup>1</sup>

Fel Ieuan Brydydd Hir, cyfeiria Gruffudd Hiraethog at destunio mewn cerdd a ganwyd mewn gwledd ‘gyffredin’ ym mhlas Gloddaith, cartref Tomos Mostyn (m. 1588)

a Siân (m. 1571), merch Syr Wiliam Gruffydd o’r Penrhyn:

Gwahodd oedd, ar gyhoedd air,  
Gelyniaeth i gael anair.  
O Fair, tost o fwrw testun  
Ar y rhai ni haeddai hyn...<sup>2</sup>

– ac ymddengys fod Guto’r Glyn a Dafydd ab Edmwnd wedi manteisio ar achlysur gwledd gan lunio cerddi dychan i’w gilydd. Lluniodd Guto gywydd yn dychanu Dafydd,<sup>3</sup> a lluniodd Dafydd yntau gywydd yn dychanu Guto.<sup>4</sup> Fel y sylwodd Dafydd Johnston wrth drafod cywydd Guto’r Glyn, ymddengys fod Guto wedi cael ei destunio gan Ddafydd yn ystod hwyl a miri’r noson cynt, gan i Uto ddweud wrth Ddafydd:

Doe y haeraist, dihiryn...<sup>5</sup>

Yn hyn o beth, ymdebyga’r cyfan i ddefod y cyff clêr. Ys dywed Jerry Hunter:

---

<sup>1</sup> Am drafodaeth fanwl ar berthynas ymrysonau’r Cywyddwyr â defod y cyff clêr, gw. Hunter, ‘Cyd-destunoli’, tt. 33 - 5, tt. 49 - 52.

<sup>2</sup> Fe’i dyfynnir yn Bowen, ‘Y Cywyddau a fu rhwng Gruffudd Hiraethog a Beirdd Eraill’, t. 368 - 71. Gw. tt. 378 - 9 am enghraifft arall o dynnu coes mewn cerdd.

<sup>3</sup> Gw. *CMOC*, tt. 124 - 9; *GGG*, tt. 189 - 90, rhif LXXI.

<sup>4</sup> Gw. *CMOC*, tt. 130 - 3.

<sup>5</sup> Gw. *ibid.*, t. 132, ll. 39.

Cawn yma gynnyrch perfformiad a ymestynnai dros ddau ddiwrnod neu ddwy noson. Fel yn achos traddodiad y cyff clêr, fe wnaed Guto yn gyff gwawd y noson gyntaf ac fe gafodd gyfle i ymateb i'r ymosodiadau arno ar ail ddiwrnod y wledd.<sup>1</sup>

Lluniodd Iorwerth Fynglwyd englynion 'i haeru i ysbryd Deicyn ysbaddu Lang Lewys' yn ystod rhyw wledd hefyd,<sup>2</sup> ac ymddengys i Dudur Penllyn yntau gael ei wneud yn gyff clêr mewn gwledd gan fod ei ateb i'r beirdd a'i testuniodd wedi ei gadw. Dyma rai o'r englynion a luniodd Tudur:

Gutun Owain, ddrain ffordd yr ân', - fongam,  
O Fangor i'r Traean;  
A Gutun, etewyn tân  
Goch ellyll o Gwchwillan.

Lewys Môn ddyrys, y ddera'n - ei ben,  
Heb enni'n ei beisen;  
Gwag Dudur, ar untu'r ân',  
Gwallt wÿll, ar farch gwyllt allan.

Deio Bwl, adfail yn udfan - Wyl Bedr,  
Ceilliau lledr, cau, llydan;  
Doed Lewys, o da leuan',  
Daron ag englynion glân.

Hywel Gethin, drel, hwy a dreulian' - rod,  
Mae'r wyt tithau, Ifan?  
Â chaib yn troi uwchben tân,  
Â theib, ynghrog y'th welan'.<sup>3</sup>

Fe allai'r cyfeiriad at Wyl Bedr yn y trydydd englyn a ddyfynnwyd uchod awgrymu mai yn ystod dathliadau gwledd gŵyl mabsant y gwnaed Tudur Penllyn yn gyff

---

<sup>1</sup> Hunter, 'Cyd-destunoli', t. 50.

<sup>2</sup> Gw. *GIF*, t. 89, rhif 39.

<sup>3</sup> Gw. *GTPITP*, t. 61, rhif 36, rhan II, englynion 4 - 7, llau. 13 - 28.

clêr, oherwydd yr oedd gwyliau mabsant yn achlysuron lle y gellid mwynhau defod y cyff clêr. Ymddengys fod rhai beirdd wedi gwneud Iorwerth Fynglwyd yn gyff clêr yn ystod gŵyl mabsant gan fod ateb Iorwerth i'r beirdd a'i testuniodd ar gael heddiw.<sup>1</sup> Y Nadolig oedd yr ŵyl arall lle gwelid defod y cyff clêr a thestunio. Mewn ymryson rhwng Guto'r Glyn a Llywelyn ap Gutun, lluniodd Llywelyn farwnad ffug i Uto gan honni iddo foddi ym Malltraeth, Môn.

Boddi a wnaeth ar draeth heb drai  
Mae'n y nef, am na nofiai.<sup>2</sup>

Fodd bynnag, mae Guto'r Glyn yn ateb Llywelyn gan ddweud mai celwydd ydyw'r cyfan: yn wir, meddwdod Llywelyn sy'n gyfrifol am y stori, meddai:

Ef a welai fy eilun  
Mewn dŵr hallt ym Môn drwy'i hun,  
Yn Llwydiarth y naill ydoedd,  
'Y moddi i, ai meddw oedd.  
Gwin Cynfrig, wyrennig rodd,  
A gwin Huw a'i gwanhaodd...<sup>3</sup>

Yn amlwg, stori gelwyddog a geir yng ngerdd Llywelyn ap Gutun. Mae hyn yn ein hatgoffa'n syth o ddefod y cyff clêr, gan mai stori ddoniol, gelwyddog y dylid ei llunio am y pencerdd a wneid yn gyff. I gadarnhau'r cysylltiad rhwng yr ymryson a defod y cyff clêr, fel petai, mae Llywelyn yn cynnwys y cwpled canlynol yn ei gerdd:

---

<sup>1</sup> Gw. *GIF*, tt. 91 - 2, rhif 41: "Llyma osteg a wnaeth Iorwerth Fynglwyd pan haerodd prydyddion iddo ef bobî moch bychain yn rhith cwingod ar ddydd ei fabsant yn Saint-y-Brid."

<sup>2</sup> Gw. *GGG*, t. 98, rhif XXXVII, llau. 3 - 4.

<sup>3</sup> *Ibid.*, t., 101, rhif XXXVIII llau 17 - 22.

Hwdiwch atoch, ddwyfoch ddig,  
Dylyn yn gyff Nadolig.<sup>1</sup>

Yng ngeiriau Jerry Hunter:

Mae Llywelyn yn disgrifio Guto fel 'dylyn' - dyn dwl, hurt, ynfytn - ac yn fwy arwyddocaol, fe'i geilw yn 'gyff Nadolig'. Dyma dystiolaeth gryf i'r ymryson hwn gael ei berfformio fel rhan o ddifyrrwch Nadolig yn nhŷ uchelwr, ac wrth ddifyrru eu noddwr a'i westeion fe elwodd y ddau fardd ar gonfensiynau'r cyff clêr. Gwnaeth Llywelyn Guto yn gyff Nadolig, fel y gwneid y pencerdd yn gyff clêr mewn neithior.<sup>2</sup>

Ymhellach, gwelir bod elfen o destunio i'w gweld mewn cywyddau gofyn lle mae'r bardd, yn hytrach na gofyn am geffyl neu ddilledyn, yn gofyn am gerddor yn rhodd. Ym marn Bleddyn Owen Huws, "Bron na ellir ystyried cywyddau'r beirdd i'w cyd-gerddorion yn *genre* ar ei ben ei hun, gan mor wahanol ydyw o ran cywair i'r canu mwy ffurfiol."<sup>3</sup> Un o'r enghreifftiau cynharaf ydyw cerdd Gruffudd ab Ieuan ap Llywelyn Fychan i Siôn ap Dafydd Llwyd yn gofyn am Wil Hwysgin y crythor, ac mae cerdd Wiliam Cynwal i Siôn Tudur yn gofyn am Rys Grythor yn enghraifft dda o'r tynnu coes a geid gan fod gwrthrych y gerdd yn cael ei ddychanu:

Gŵr geirddu, bragiwr gwrddaidd,  
Geirffraeth, hy, a gâr ffrwyth haidd.  
Coeg o lanfab, ceg lyncfir,  
Crechwenu bydd, crochan bir.<sup>4</sup>

---

<sup>1</sup> *Ibid.*, t. 98, rhif XXXVII, llau 17 - 18.

<sup>2</sup> Hunter, 'Cyd-destunoli', t. 50.

<sup>3</sup> *CGD*, t. 73.

<sup>4</sup> Gw. *GST*, rhif 136; *CGD*, t. 73. Am enghreifftiau pellach – e. e. cywydd Rhisiart ap Hywel i ofyn Siôn ab Ellis ar ran Elisau ap Wiliam, ac ateb Gruffudd Hiraethog, neu gerdd Wiliam Cynwal yn beio Ieuan ap Siôn am dderbyn y clerwr Ifan

Gellid disgwyl y byddai'n haws i'r beirdd ddychanu eu cyd-feirdd neu eu cyd-gerddorion gan eu bod yn aelodau o'r un grŵp, fel petai. Ond ceir rhai enghreifftiau lle gwneir y noddwyr neu'r uchelwyr yn gyffion gwawd. Tynnwyd coes William Gruffydd o'r Penrhyn, er enghraifft, am ei fod yn dipyn o lanc gyda'r merched!<sup>1</sup>

Mae'n werth cyfeirio, yn ogystal, at gerdd a luniwyd gan Wiliam Cynwal adeg ail Eisteddfod Caerwys, lle mae'n gwneud cyffion gwawd o gomisiynwyr yr eisteddfod honno. Cyhuddiwyd Elis Prys o fercheta, a chyhuddiwyd Ieuan Llwyn o Iâl o chwarae cardiau, a dywed Wiliam Cynwal na chafodd radd ganddynt am iddo eu cynghori i ymwrthod â phethau pechadurus o'r fath.<sup>2</sup> Unwaith eto, dyma droi pethau o chwith, gan weld cystadleuydd yn cystwyo ei feirniaid.

#### *Graddio mewn neithior ac eisteddfod*

Nid cynnig adloniant oedd unig bwrpas beirdd mewn neithiorau: ymddengys fod gwleddau o'r fath yn gyfle da iddynt gyfarfod i raddio rhai o'r beirdd a oedd yn bresennol yn y neithiorau. Cyfeirir at yr arfer o raddio mewn neithior yn y Statud, ond ymddengys fod llunwyr y ddogfen wedi ceisio dyrchafu bri'r eisteddfod yn hytrach na'r neithior yn hyn o beth gan nodi y caniateid graddio mewn neithior ar yr amod nad oedd eisteddfod yn cael ei chynnal tua'r un amser, ac ar yr amod y byddai'r bardd yn mynd i'r eisteddfod nesaf i gadarnhau ei radd neithior. Fodd bynnag, ymddengys mai delfrydol yn hytrach nag ymarferol oedd dymuniadau llunwyr y Statud i raddio gwŷr wrth gerdd mewn

---

(Biocyn) i'w gartref – gw. Bowen, 'Y Cywyddau a fu rhwng Gruffudd Hiraethog a Beirdd Eraill', t. 362 - 7.

<sup>1</sup> CGD, tt. 145 - 6.

<sup>2</sup> EC, tt. 100 - 2.

eisteddfodau yn hytrach nag mewn neithiorau, a hynny gan nad oes tystiolaeth fod eisteddfod arall wedi ei chynnal ar ôl 1523 hyd 1567, er y dymunid cynnal un bob tair blynedd. Heb neithiorau, felly, ychydig iawn o feirdd graddedig a geid yng Nghymru yn yr Oesoedd Canol a'r Cyfnod Modern Cynnar!<sup>1</sup>

Mewn neithiorau y graddiwyd rhai o brif feirdd yr uchelwyr. Dywed Tudur Aled yn ei farwnad i Ieuan ap Dafydd ab Ithel Fychan o Laneurgain a'i wraig Catrin mai

Cyntaf neuadd y'm graddwyd  
Fu oror llys f'eryr llwyd;  
Am dri chof y'm dyrchafodd  
Yn neithior hwn, â thair rhodd.<sup>2</sup>

Nid ei radd gyntaf yn unig a enillodd Tudur mewn neithior: ymddengys ei fod wedi ei raddio'n ddisgybl, yn bencerdd ac yn athro mewn achlysur o'r fath, gan fod llawysgrif Peniarth 155, yn nodi bod ei safle wedi ei gadarnhau yn Eisteddfod Caerwys, 1523:

Tudur Aled a ganhiadwyd ac a gonffirmied yn Athro Cadeiriog, i arwain ariandlws, fal yr oedd er pan gymerasai dan I berigl i'w ddwyn i'r lle yr oedd.<sup>3</sup>

Ymhellach, nodi D. J. Bowen y gallai Gruffudd Hiraethog fod wedi graddio'n ddisgybl pencerdddaidd yn neithior Huw Lewis o Dre'r Delyn, Maesyfed.<sup>4</sup> Mae'n amlwg na raddiodd mewn eisteddfod gan na chofnodir ei enw yn rhestr graddedigion yr un o

---

<sup>1</sup> Gw. Bowen, 'Graddedigion', t. 129; *CGD*, t. 28; *GTA I*, t. xxiv, t. xxxvi; Lewis, 'Einion Offeiriad', t. 63; *EC*, t. 72; *RRR*, t. 14

<sup>2</sup> *GTA I*, t. 312, rhif LXXVII, llau. 63 - 6. Gw. ymhellach Bowen, 'Graddau Barddol', t. 90; *GHO*, t. 12; *CGD*, t. 28; *GTA I*, t. xxii; Fychan, 'Tudur Aled', t. 63.

<sup>3</sup> Fe'i dyfynnir yn *GTA I*, t. xxxvi.

<sup>4</sup> *GHO*, t. 12.

eisteddfodau Caerwys; ac wrth ateb haeriad gan Edmwnd Prys, dywed Wiliam Cynwal  
fod Gruffudd Hiraethog yn bencerdd er na fu eisteddfod yn ei oes:

Gruffydd, ieithydd Hiraethawg,  
Gerdd avr had y gerdd yrhawg,  
Vthr i wawd, athro ydoedd,  
A thrwy ddysc athrawaidd oedd,  
A phencerdd, angerdd i'w oes,  
Ag arwyddfardd gwaraidffoes:  
Ni bv eisteddfod, bost wyddfawl,  
Yn i oes, mwyn asiai i mawl.<sup>1</sup>

Mewn neithior y graddiwyd Edn Grythor a Morys Llanfair, yn ogystal, ond ymddengys  
fod eu graddau hwy wedi cael eu cadarnhau yn eisteddfod gyntaf Caerwys.<sup>2</sup>

Fel y crybwyllwyd eisoes, ymddengys fod llunwyr y Statud yn dymuno pwysleisio  
pwysigrwydd yr eisteddfod fel sefydliad wrth raddio a chadarnhau graddau. Un a gredai  
fod angen diwygio'r drefn a'r ddysg farddol oedd Edmwnd Prys. Fe raddiodd ei gyd-  
ymrysonwr, Wiliam Cynwal, yn bencerdd mewn neithior,<sup>3</sup> a gwelir bod Prys yn edliw  
hyn iddo gan awgrymu nad oedd gradd neithior gystal â gradd eisteddfod. Etyb Cynwal  
ef trwy gyfeirio at Ruffudd Hiraethog, fel y gwna yn y dyfyniad uchod, gan ddweud fod  
Gruffudd yn un o feirdd gorau'r wlad er na raddiodd mewn eisteddfod o gwbl.

Doydais, ag nid i'w wadv,  
Doeda' fyth, daed a fv,  
Fod Gruffudd groewffydd graffwych,

---

<sup>1</sup> Gw. *YEPWC*, t. 90, rhif 20, llau. 67 - 74; *GGH*, t. xx. Dywedir bod Siôn Brwynog yn bencerdd, yn ogystal, ond eto gan na chafodd y cyfle i raddio mewn eisteddfod, ymddengys mai mewn neithior y graddiodd. Gw. Williams, 'Anglesey's Contribution', t. 16.

<sup>2</sup> Gw. Owen, 'Telynorion a Chrythorion', t. 14.

<sup>3</sup> Gw. Jones, 'Edmwnd Prys I', t. 247.



Fardd Hiraethog enwog wych,  
Yn bencerdd drwy angerdd draw,  
Egin vthr, ag yn athraw,  
Ag na bv ddeddf eisteddfod  
Yn i amser, clander clod.  
Pawb a wyr pe bai eirwir,  
Tonav yn iaith, fod hyn yn wir:  
E gaid gradd gynt, hwylynt hawl,  
A'i thrio'n neithiar reiawl.  
Dyna ddangos, achos aeth,  
Byr d'addysg ar brydyddiaeth.<sup>1</sup>

### *Trwyddedau barddol*

Ar ôl enmill gradd – boed honno'n radd neithior neu'n radd eisteddfod – yr oedd gan fardd yr hawl i gael trwydded, sef tamaid o bapur wedi ei lofnodi gan feirdd ac uchelwyr amlwg yn tystio mai bardd swyddogol ydoedd, a bod ganddo'r hawl i grwydro'r wlad yn chwilio am nawdd.

Ymddengys fod yr arfer o gario trwydded neu warant barddol yn hŷn na chyfnod y Statud gan fod bardd o'r bymthegfed ganrif, sef Lewys Glyn Cothi, wedi cyfeirio at yr arfer o glera heb drwydded yn un o'r gerddi:

Penceirddiaid a'i câr lle ymgymharant,  
haid o dinceriaid fyth nis carant;  
teuluwyr a'i câr, darpar cerdd dant,  
erestyn nis câr ef a'i grastant;  
clêr y dom erom heb warant - amlwg,  
ei guwch a'i olwg a ochelant.<sup>2</sup>

Yn amser Lewys, felly, fe gysylltid clera heb drwydded â'r beirdd ofer – neu â chlêr y

---

<sup>1</sup> Fe'i dyfynnir yn *GGH*, t. xxii.

<sup>2</sup> *GLGC*, t. 263, rhif 116, llau. 33 - 8. Gw. yn ogystal Bowen, 'Agweddau', t. 72.

dom, ys dywed.y bardd yma. Ceisio gwahaniaethu rhwng y beirdd ofer a'r beirdd swyddogol unwaith ac am byth a wnaeth eisteddfod gyntaf Caerwys a'r Statud, felly, trwy bwysleisio pwysigrwydd gradd swyddol a thrwydded.<sup>1</sup>

Un o'r ychydig drwyddedau barddol sydd wedi goroesi ydyw trwydded Gruffudd Hiraethog fel disgybl pencerddaid yn 1545/6 a geir yn llawysgrif Peniarth 194.

bid hysbyssol o bawb o voneddigion a chyffredin o vewn siroedd a thaleithiav Kymrv yn bod ni siams vychan ysgwier Hvw ap davydd ap lewys ysgweiar lewys morgannwc penncerdd ac athro kerdd dafawd o vewn siroedd a thaleithiav kymrv trwy rym komisiwn gras y brenin harri wythfed or henw brenin lloegr ffreingk ac ewerddon amddiffynnawdr y ffydd penn goruchel ar y ddaear tann dduw Eglwys loegr ac ewerddon y ddwyfed flwyddyn ar bymthec ar hugein oy deyrmasad y Pab ef Yr ym ni trwy rym yr vn komisiwn y rai sy vry nid amgen siams vychan ysgwiar hvw davydd ap lewys ysgwier lewys morgannwc penkerdd ac athro kerdd tafawd Yd ym ni trwy awdurdod athrawon a hen bennkeirddiaid eraill or blaen yn tystiolaethv isod vod gruffudd hiraethawc prydydd disgybl y lewys morgannwc Yr ym ni wrth rym yr vn komisiwn yn tystiolaethv wrth ystatvd twysogion kymrv ymhvm llyfyr kerddwriaeth kelfyddyd kerdd dafod y vod ef yn abl diddiffic y gael gradd disgybl pennkeirddiaidd y gerdded y gael ac y ovyn ac y gymeryd Roddion ac o ewyllys da boneddigion a chyffredin val y perthyno y radd disgybl pennkeirddiaidd y gaffel da ac yn dystoliaeth ar hynny yr ym ni yn rroddi yn dwylaw yr hvn yn ysg[r]ivennedic ann selav a duw a gattuo gras y brenin amen amen amen

James vaughan Hugh lewis myvi lewys  
Morgannwc

Mae'r drwydded hon yn rhoi caniatâd swyddogol i Ruffudd glera a derbyn rhoddion fel y'u ceir yn Statud Gruffudd ap Cynan. Byddai'n rhaid i Ruffudd gario'r warant hon gydag ef er mwyn profi nad un o'r beirdd ofer ydoedd. Yr oedd rhai ofergerddorion yn

---

<sup>1</sup> Gw. Charles, 'Teulu Mostyn', t. 84, lle nodir mai'r rheol na ddylid clera heb drwydded a arweiniodd at yr englyn canlynol o waith Gruffudd Hiraethog i Domas a Phirs Mostyn o Dalacre:

Wrth weled sicred y siars,  
Erchi i bawb eiriach ei bwn  
Duw ado i mi, piwyd wers,  
Y ffordd at Tomas a Phirs.

honni eu bod yn gerddorion yn y llys brenhinol yn Lloegr, ac er mwyn eu rhwystro rhag gwneud hynny lluniodd Edward IV urdd o gerddorion swyddogol ym 1469, gyda gŵr a chanddo'r teitl *marescallus* yn bennaeth ar yr urdd. Yn ogystal, yr oedd llys Dytwn yng Nghaer yn hawlio'r awdurdod i ddsbarthu trwyddedau i gerddorion y cylch.<sup>1</sup>

\* \* \*

Yn anffodus, ymddengys na lwyddodd ymdrech swyddogion eisteddfodau Caerwys a llunwyr y Statud yn llwyr. Do, fe lwyddwyd i roi rhywfaint o drefn ar ofynion y gwahanol raddau, a cheisiwyd deddfu ynghylch rhoddion ac ymddygiad y gwŷr wrth gerdd. Ond ar ôl eisteddfod 1523, bu dros ddeugain mlynedd o dawelwch. Heb gynulliad neu gyfarfod eisteddfodol cyson i gadw golwg tadol ar bethau, ymddengys fod y dasg o reoleiddio a rheoli'r gyfundrefn farddol yng Nghymru yn un amhosibl. Pwy a wŷr – efallai pe bai eisteddfodau 1526 a 1529 wedi eu cynnal, fel y gobeithid gwneud hynny, y byddai hoelion wyth y gyfundrefn farddol wedi cael gwell hwyl ar gadw lli'r gwŷr wrth gerdd answyddogol rhag boddi beirdd a noddwyr traddodiadol ein gwlad.

---

<sup>1</sup> Gw. Bowen, 'Dafydd ab Edmwn't', t. 444; Chambers, *The Mediaeval Stage I*, t. 259.

## 8. *Y Statud a Cherddoriaeth*

Mae'n hawdd anghofio weithiau fod Statud Gruffudd ap Cynan yr un mor berthnasol i'r cerddorion ag ydoedd i'r beirdd. Fel y graddau barddol, diffinnir y gwahanol raddau cerddorol yn fanwl, ac mae'n bwysig cofio bod y rheolau cyffredinol, y diraddiadau a'r rhoddion wedi eu llunio ar gyfer yr holl wŷr wrth gerdd, sef y cerddorion yn ogystal â'r beirdd.

Yn yr adran hon, fe drafodir rhai o'r elfennau cerddorol y cyfeirir atynt yn y Statud.

### *Y genres cerdd dant*<sup>1</sup>

#### (i) tyniad a chyweirdant

Cynrychiolir y ddwy elfen hyn gan ddau arwydd arbennig, sef I a O. Cynrychiolir dau fath o gord a wnânt, sef ffurfiau ar y tonydd a'r llywydd,<sup>2</sup> ond y mae peth anghytundeb ymhlith ysgolheigion ynghylch union fanylion y tyniad a'r cyweirdant. Mae T. Gwynn Jones ac Enid Roberts, ar sail tystiolaeth a geir mewn gramadeg cerddorol yn llawysgrif Peniarth 62, yn dod i'r casgliad mai O sy'n cynrychioli'r cyweirdant ac mai I sy'n cynrychioli'r tyniad:

---

<sup>1</sup> Mae'r adran a ganlyn yn ddibynnol iawn ar weithiau ysgolheigion sydd wedi arbenigo yn y maes, ysgolheigion megis Osian Ellis, Peter Crossley-Holland a Sally Harper.

<sup>2</sup> Gw. Arnold Dolmetsch, 'Ancient Welsh Music', *TrCymm* (1933 - 35), t. 121; Rees, *Music*, t. 391; Roberts, 'Marwnadau Telynorion', t. 93; Paul D. Whittaker, 'A New Look at the Penllyn Manuscript', *WM* IV, rhif 6 (Gwanwyn, 1974), t. 48.

Pa ryw mesur yw gwydhor *Titr* ne *Drwsgwl*? Os *Trwsgwl*, rhaid yw bod IIII Tyn[iad] a OOOO Cyweirdant.<sup>1</sup>

Fodd bynnag, barn Peter Crossley-Holland, Gustave Rees, Pekka Toivanen, Paul D. Whittaker, Sally Harper ac Osian Ellis ydyw mai I ydyw'r cyweirdant ac mai O ydyw'r tyniad, gan nodi ymhellach mai I (cyweirdant) ydyw'r tonydd ac mai O (tyniad) ydyw'r llywydd.<sup>2</sup> Fel y ceir gweld isod, trwy amrywio lleoliad cordiau I a O o fewn cyfresi y llunid mesurau cerdd dant, ac mae'n ddi-ddorol nodi bod pob mesur yn gorffen gyda chord I, sef cyweirdant (tonydd).<sup>3</sup> Ymddengys, felly, mai'r ail ddehongliad sydd fwyaf cywir – o ystyried y gerddoriaeth a geir yn llawysgrif Robert ap Huw, o leiaf – ac mai'r cyweirdant yn hytrach na'r tyniad a gynrychiolir gan I.<sup>4</sup> Ys dywed Paul D. Whittaker:

Chords are regarded as self-contained entities whose relationship with their neighbours is restricted to the general relationship between the *cyweirdant* and *tyniad* elements of the measures. This relationship may be expressed as follows: '*Cyweirdant*' harmonies are always treated as consonant, even if, within our own terms of reference, they may appear to be highly dissonant. '*Tyniad*' harmonies on the other hand, are treated as mild dissonances, in the sense that they serve as a means of transition from one point of repose (*cyweirdant*) to another. For this reason the measures almost invariably end with one or more *cyweirdant* symbols, signifying a cadence point.<sup>5</sup>

---

<sup>1</sup> Fe'i dyfynnir yn T. Gwynn Jones, 'Cerdd Dant', *BI* (1923), t. 141. Gw. hefyd Roberts, 'Marwnadau Telynorion', t. 93.

<sup>2</sup> Gw. Crossley-Holland, 'Secular Homophonic Music' *Ages*, t. 142; Rees, *Music*, t. 391; Toivanen, 'Llawysgrif Robert', tt. 311 - 12; *HDNg*, t. 32; *SHW*, t. 18.

<sup>3</sup> Gw. *HCC III* (1999), t. 324 am restr o'r mesurau cerdd dant.

<sup>4</sup> Mae'n werth nodi, fodd bynnag, mai mewn cerddoriaeth i'r delyn yn unig y cynrychiolir y cyweirdant gan I; mewn cerddoriaeth ar gyfer y crwth, O sy'n cynrychioli'r cyweirdant ac I sy'n cynrychioli'r tyniad. Gw. *HCC III* (1999), t. 311 - 12; *SHW*, t. 25.

<sup>5</sup> Whittaker, 'A New Look', t. 51. Medd Osian Ellis yntau yn *HDNg*, tt. 46 - 8, wrth drafod cerdd gan Wiliam Llŷn sy'n cyfeirio at gyfyngau a chordiau arbennig (sef cord cyweirdant sy'n cynnwys y trydydd, y pumed a'r degfed nodyn o fewn y

(ii) mesurau

Fe lunnid y gwahanol fesurau trwy osod y cordiau cyweirdant/tyniad mewn trefn arbennig. Wrth eu gosod yn y drefn IIIIOOOOIOIOIIIIOOOOIOII, er enghraifft, fe lunnid y mesur a elwir yn Mac y Mwn Hir. Yng ngeiriau Claire Polin, “chord alteration pattern” ydyw mesur,<sup>1</sup> ac yr oedd yn rhaid i’r cerddorion gynt ddysgu patrymau cordiau’r mesurau hyn ar eu cof. Ceid pedwar ar hugain o fesurau cerdd dant, yr un nifer o fesurau ag a geid mewn cerdd dafod. Dyma’u henwau a phatrwm eu cordiau fel y’u ceir hwy yn Llawysgrif Robert ap Huw:<sup>2</sup>

1	mak y mwn hir	IIIIOOOOIOIOIIIIOOOOIOII
2	korffiniwr	IIOOIOII.IIOOIOII
3	korsgoleff	IIOIIOOIOII
4	Rhiniart	IOOI.IOOII
5	koraldan	IIIIOOOIOOOI
6	tresi heli	IOOOIIIIOOOIOII
7	wnsach	IIIIOOOI
8	kor dia tutlach	IOIIIOOOIOOIII
9	korfinfaen	IOIIIOII.IOIIIOII
10	korwrgog	IOOIOIIIOII

---

raddfa, a chord nad ydyw’n gord cyweirdant sy’n cynnwys yr ail, y pedwerydd y seithfed a’r nawfed nodyn): “Yma mynega Wiliam Llŷn natur y gynghanedd (‘harmonies’) gerddorol a ddefnyddid gan y telynorion: y trydydd, pumed a’r degfed yw nodau cytgordiol y cyweirdant (a ddynodid gan y ffigur 1 yn ystod y Clymmau Cytgerdd), tra ’roedd cyfyngau (‘intervals’) eraill, yr ail, pedwerydd, seithfed a nawfed, yn achosi peth anesmwythyd iddo. Gwyddom fod y cyfyngau hyn i’w cael yn y tyniadau (y cordiau a nodwyd fel O); casglwn, felly, mai eu pwrpas yw creu rhyw gymaint o anghytgord ac anghyseinedd. Cadarnheir hyn gan y gosodiad a welir yn rhai o’r gramadegau - bod y cordiau yn ymrafaelu â’i gilydd. Mae’r anghytgordio pwrpasol, y tyniadau, yn creu tyndra rhwng cytgordiau’r cyweirdant (‘concord’) [...]. Y mae’n arwyddocaol bod y pedwar mesur ar hugain [...] yn diweddu’n gyson ar gytgord y cyweirdant (‘a concord’) [...] beth bynnag fo patrwm y cordiau blaenorol.” Gw. hefyd *SHW*, tt. 32 - 3 am drafodaeth debyg.

<sup>1</sup> Polin, ‘A Possible Provenance’, t. 9. Gw. hefyd Owen, ‘Welsh Folk-Music’, t. 68; Sally Harper, ‘Geirfa’, *HCC* III (1999), t. 314.

<sup>2</sup> Fe’u dyfynnir yn *HCC* III, t. 324.

11	karsi	I000I0II.I000I0II
12	brath yn ysgol	I0II0.I00I0II0I00I0II
13	fflamgwr gwr[g]an	I0II.I0II00II00II
14	mak y mwn byrr	II00IIII
15	kalchan	II00IIII0I
16	bryt odidog	00I0.00I0.II0I.II0I
17	trwsgwl mawr	0000IIII0000I0II
18	tytyr bach	00II00II
19	mak y mynfaen	00II00.00II00IIII
20	toddf	0II000II
21	hatyr	00I0II.00I0II
22	mak y delgi	0II0II
23	alban hyfaidd	I0II.0I00.0I00.I0II
24	alfarch	00000000IIIIIIII

Ym marn Robert Griffith, yr oedd y syniad o bedwar mesur ar hugain cerdd dant yn hŷn na'r pedwar mesur ar hugain cerdd dafod,<sup>1</sup> ond barn Paul D. Whittaker ydyw mai ymgais i ganfod “a musical equivalent of the ‘twenty-four measures of poetry’ (‘pedwar mesur ar hugain cerdd dafod’)” ydoedd, gan awgrymu, felly, fod y syniad o ‘bedwar mesur ar hugain’ i’w gael gyntaf mewn cerdd dafod.<sup>2</sup> Fodd bynnag, er bod pedwar ar hugain o fesurau, ymddengys mai ychydig ohonynt, mewn gwirionedd, a ddefnyddid yn ymarferol, ac mae’r un peth yn wir am y mesurau cerdd dafod hefyd, wrth gwrs.<sup>3</sup>

Yn ôl y gramadegau cerdd dant, fe gafodd y mesurau hyn eu creu er mwyn galluogi rhywun i lunio darnau o gerddoriaeth, i adnabod darnau o gerddoriaeth, ac i

---

<sup>1</sup> *LICD*, t. 29.

<sup>2</sup> Gw. Whittaker, ‘A New Look’, tt. 48 - 9.

<sup>3</sup> Gw. Harper, ‘Geirfa’, t. 314. Gofyn Pekka Toivanen y cwestiwn hwn yn ‘Llawysgrif Robert ap Huw’, t. 121: “Tybed a oedd yn well gan y telynoriaid rai mesurau fel yr oedd yn well, er enghraifft, gan rai cerddorion Twrcaidd proffesiynol o’r cyfnod Otomanaidd ambell makam (a oedd yn cyfateb i raddfa) neu usul (patrwm rhythmig)?”

gofio darnau o gerddoriaeth.<sup>1</sup> Mae'n amlwg, felly, fod disgwyl i'r cerddorion ddysgu'r mesurau hyn i gyd ar eu cof, ac wrth wneud hynny – ac wrth wybod hanfodion y mesurau cerdd dafod, yn ogystal – gallai telynor a chrythor fel ei gilydd gyfeilio i'r sawl a ddatganai gerdd.<sup>2</sup> Gwybod patrwm y mesur oedd y peth sylfaenol oherwydd gellid adeiladu cyfeiliant byrffyr ar sail y mesur wedyn.

Mae'n amlwg, felly, mai'r mesur oedd sylfaen y rhan fwyaf o'r *genres* cerdd dant. Wrth adeiladu ar batrymau cordio'r mesurau gellid llunio ceinciau, gostegion, clymau, caniadau ac ati. “These measures”, medd Thurston Dart, “underlie many of the pieces in ap Huw’s manuscript. Thus the *gosteg dafydd athro* [...] is based on *korffiniwr*. The *gosteg yr halen* [...] is on *korsinfaen*.”<sup>3</sup> Yn wir, nodir yn y gramadegau mai o'r “mesurau y gwneir proffidiau, gostegion, ceinciau, clymau a chaniadau.”<sup>4</sup>

(iii) ceinciau

Y *genre* symlaf oll, mae'n debyg, oedd y gainc.

Ceir dau fath o gainc yn Llawysgrif Robert ap Huw. Yn gyntaf, ceir darnau byrion hunangynhaliol o'r enw ‘Cainc Ruffudd ab Adda’ a ‘Cainc Dafydd Broffwyd’. Gan eu byrred, efallai y byddai'r cerddorion gynt yn llunio amrywiadau arnynt.<sup>5</sup>

---

<sup>1</sup> Gw. Harper, ‘Geirfa’, t. 314; Ellis, ‘Welsh Music’, t. 86; idem., ‘Ap Huw’, t. 78.

<sup>2</sup> Crossley-Holland, ‘Secular Homophonic Music’, tt. 143 - 4. Gw. hefyd Dolmetsch, ‘Ancient Welsh Music’, t. 121.

<sup>3</sup> Thurston Dart, ‘Robert ap Huw’s Manuscript of Welsh Music (c. 1613)’, *GSJ XXI* (March, 1968), t. 61. Gw. hefyd Dolmetsch, ‘Ancient Welsh Music’, t. 121.

<sup>4</sup> Fe'i dyfynnir yn Roberts, ‘Marwnadau Telynorion’, t. 96.

<sup>5</sup> Gw. Harper, ‘Geirfa’, tt. 308 - 9; Roberts, ‘Marwnadau Telynorion’, t. 97.



Ymddengys mai rhan o adeiledd cyfansoddiadau hwy oedd y math arall o gainc a geid; hynny ydyw, wrth lunio gwahanol niferoedd o amrywiadau ar un gainc sylfaenol, ymddengys y gellid llunio *genres* megis clymau a chaniadau.<sup>1</sup> “Y mae lle i gredu”, medd Enid Roberts, “fod cainc yn uned wrth fesur gwerth darn o gerddoriaeth telyn a chrwth.”<sup>2</sup> Mewn geiriau eraill, pe cenid darn o gerddoriaeth ar fesur Mac y Delgi, er enghraifft, sef patrwm cordiau OIIIOII, dôl’r gainc gyntaf i ben ar ôl canu OIIIOII unwaith. Yna, pe dymunid, gellid llunio amrywiadau ar y gainc honno.

(iv) gosteg

Mewn cerdd dant, math o gyfansoddiad cerddorol oedd gosteg. Mewn cerdd dafod, cyfres o englynion ydyw, ac yn aml yr oedd ‘gosteg’ o’r fath yn galw am ddistawrwydd.<sup>3</sup> “Efallai”, medd Sally Harper, “fod i’r osteg gerddorol hefyd swyddogaeth debyg o alw am ddistawrwydd, gan yr ymddengys y ‘Gosteg yr Halen’ ddiennw bron yn ddieithriad yn y catalogau gyda glos i nodi y chwaraeid hi yn ystod swper yn llys y Brenin Arthur.”<sup>4</sup>

Ymddengys mai pedair gosteg a geid, sef ‘Gosteg Dafydd Athro’, ‘Gosteg yr Halen’, ‘Gosteg Ieuan ap y Gof’ a ‘Gosteg y Llwyteg’. Mae’r olaf yn anghyflawn yn Llawysgrif Robert ap Huw, ond fe gynnwys y gweddill ddeg, deuddeg a thair ar ddeg o

---

<sup>1</sup> Ellis, ‘Welsh Music’, t. 85; *SHW*, t. 19.

<sup>2</sup> Roberts, ‘Marwnadau Telynorion’, t. 97. Gw. hefyd *EC*, tt. 60 - 2.

<sup>3</sup> *CD*, t. 297.

<sup>4</sup> Harper, ‘Llawysgrif Robert ap Huw’, t. 165. Meddai eto yn ‘Geirfa’, t. 314: “Efallai iddynt gael eu chwarae tra bo cinio’n cael ei weini.” Ym marn Dart, ‘Robert ap Huw’s Manuscript’, t. 52, math o gân heb eiriau oedd yr osteg.

geinciau yn ôl eu trefn.<sup>1</sup> Er nad ydyw'r gostegion hyn o ran arddull yn ymddangos yn hŷn na gweddill y cyfansoddiadau yn Llawysgrif Robert ap Huw, awgryma Peter Crossley-Holland fod ganddynt gysylltiadau cynnar gan eu bod yn cael eu cysylltu â phenceirddiaid telyn arbennig. Yn wir, awgryma y gellir dyddio 'Gosteg Ieuan ap y Gof' rhwng 1350 - 95, 'Gosteg Dafydd Athro' rhwng 1360 - 1405, a 'Gosteg y Llwyteg' rhwng 1450 - 75.<sup>2</sup>

(v) caniad

Fe geir pymtheg o ganiadau yn Llawysgrif Robert ap Huw, sef 'Caniad Gwyn Bibydd', 'Caniad Ystafell', 'Caniad Cadwgan', 'Caniad Bach ar y Go Gywair', 'Caniad Cynwrig Bencerdd', 'Caniad Llywelyn ab Ieuan ap y Gof', 'Caniad Suwsana', 'Caniad y Wefl' ('Caniad yr Efail'), 'Caniad Tro Tant', 'Caniad San Silin', 'Caniad Marwnad Ieuan ap y Gof', 'Caniad Crych', 'Caniad Hun Wenllian', 'Caniad Pibau Morfydd', a 'Caniad Llywelyn Delynior'.<sup>3</sup> Yr oedd, fodd bynnag, ddau gasgliad o'r hyn a elwir yn 'bedwar prinsipal caniad', a cheid rhai ar gyfer y crwth a rhai ar gyfer y delyn. 'Y kaniad mawr i lefgwr grythor', 'Y kaniad mawr i ankws grythor', 'Y kaniad mawr i wrnerth', ac 'Y kaniad mawr ir pasant' oedd prif ganiadau'r crwth; a 'Kaniad krych ar gainck o vydd', 'Pibe morvydd o waith arthvr', 'Yr hen fragog gowair', a 'Hvn wenllian'

---

<sup>1</sup> HCC III (1999), t. 319. Cred Enid Roberts mai nifer y ceinciau a geir mewn gosteg ydyw'r hyn sy'n diffinio'r *genre*. Daw i'r casgliad mai darn cerddorol sy'n cynnwys rhwng deg a thair cainc ar ddeg ydyw gosteg. Gw. Roberts, 'Marwnadau Telynorion', tt. 97 - 8; *EC*, tt. 62.

<sup>2</sup> Gw. Peter Crossley-Holland, 'Cyfansoddwyr Robert ap Huw', *HCC III* (1999), t. 203.

<sup>3</sup> Gw. *HCC III* (1999), tt. 318 - 20.

oedd prif ganiadau'r delyn.

Ceir rhestr o ganiadau yng Ngramadeg Siôn Dafydd Rhys, yn ogystal.<sup>1</sup> Yno, fodd bynnag, enwir chwe deg wyth o ganiadau, er nad enwir 'Caniad Ystafell', 'Caniad Cadwgan', 'Caniad bach ar y Go Gywair', 'Caniad Cynwrig Bencerdd', 'Caniad y Wefl', 'Caniad Tro Tant', a 'Caniad San Silin'. Ni chrybwyllir, ychwaith, brif ganiadau'r crwth. Serch hynny, mae nifer y caniadau a enwir yma yn arwydd pendant iawn o boblogrwydd y *genre*.

Ym marn Enid Roberts, nifer y ceinciau a geid mewn caniad oedd yr elfen sylfaenol, ac mae'n dadlau bod caniad yn cynnwys rhwng tair ar ddeg a dwy ar bymtheg o geinciau.<sup>2</sup> Cred Peter Crossley-Holland y gallai'r caniad fod yn fath o gyfeiliant yn wreiddiol.

The two *caniadau* (songs) [h.y. 'Caniad Gruffydd ab Adda' a 'Caniad San Silin'] [...] though musically complete in the form in which they have come down to us, seem very like accompaniments to a vocal line.<sup>3</sup>

(vi) cwlwm

Ceid dau fath gwahanol o gwylwm:

(a) cwlwm ymryson;

(b) cwlwm cytgerdd.

---

<sup>1</sup> Gw. PH, llau. 125 - 153.

<sup>2</sup> Roberts, 'Marwnadau Telynorion', t. 98. Gw. hefyd *EC*, t. 62.

<sup>3</sup> Crossley-Holland, 'Secular Homophonic Music', t. 145. Mae Peter Greenhill, 'The Robert ap Huw Manuscript: An Exploration of its Possible Solutions VIII: Verse' (Traethawd ar adnau yn archif Canolfan Uwch-Astudiaethau Cerddoriaeth Cymru), t. 6, yn dadlau nad ydyw hyn yn wir, fodd bynnag.

Am enghreifftiau o feirdd yn cyfeirio at ganiadau yn eu cerddi, gw. Roberts, 'Marwnadau Telynorion', tt. 110 - 17.

(a) Cwlwm ymryson. Er mai ‘cwlwm ymryson’ oedd enw llawn y *genre*, fel ‘cwlwm’ yn unig y’i hadwaenid gan amlaf. Awgryma Sally Harper ar sail y teitl llawn y gallai fod yn fath o ddarn prawf mewn cystadleuaeth.<sup>1</sup>

Ni chedwir enghraifft o gwlwm ymryson yn Llawysgrif Robert ap Huw. Er yr ymddengys fod y *genre* yn un poblogaidd dros ben, tair enghraifft o gwlwm a geir – un o’r rhai hynny’n anghyflawn – ac fe’u cedwir yn llawysgrif LIGC 14970 yn llaw Iolo Morganwg. “Os yw’r darnau hyn a gadwyd yn rhai dilys,” medd Sally Harper, “dangosant gyfatebiaethau strwythurol cryf â’r caniad, gan fod iddynt ddeuddeg adran hanfodol a phob un wedi ei rhannu’n gainc a diwedd.”<sup>2</sup>

Enwau’r clymau a gopiwyd gan Iolo ydyw ‘Cwlwm is gywair’ (anghyflawn), ‘Cwlwm bach ar y go gywair’, ac ‘Yr hen gwlwm ar y go gywair’, a cheir deuddeg neu bymtheg o geinciau ynddynt.<sup>3</sup> Yn ogystal â bod yn hynafiaethydd, yr oedd Iolo yn ffugiwr hynod o gyfrwys, ac o’r herwydd barn Peter Greenhill ydyw na chafodd y llawysgrif bwysig hon o’i eiddo ddigon o sylw. Meddai:

ymddengys fod y pedwar darn [h.y. y tri chwlwm ac adran gyntaf darn arall o’r enw ‘Medle’] yn deillio o ddogfen ddilys o ddechrau’r ail ganrif ar bymtheg, a bod Edward Williams wedi gwneud pob ymdrech i’w copïo’n gywir, er nad oedd ganddo fawr o wybodaeth am fanylion technegol y nodiant yr oedd yn ei

---

<sup>1</sup> Harper, ‘Geirfa’, t. 310.

<sup>2</sup> *Ibid.* Gw. hefyd Peter Greenhill, ‘Tabluniau Llawysgrif Iolo Morganwg’, *HCC III* (1999), t. 274. Meddai: “Nid yw’r testunau a oroesodd yn rhoi unrhyw awgrym o’r gwahaniaeth rhwng cwlwm a chaniad fel ffurfiau cerddorol; mae’r ddau yn cynnwys nifer o geinciau a ddilynir fel rheol gan diwedd [*sic*].”

<sup>3</sup> Gw. Greenhill, ‘Tabluniau’, t. 271. Ni chynhwysir y clymau hyn yn rhestr Siôn Dafydd Rhys yn ei Ramadeg. Gw. hefyd Harper, ‘Llawysgrif Robert ap Huw’, t. 161.

atgynhyrchu.<sup>1</sup>

(b) Cwlwm cytgerdd. Yn wahanol i'r cwlwm ymryson, fe geir enghreifftiau o glymau cytgerdd yn Llawysgrif Robert ap Huw. Fel gyda'r clymau ymryson a'r caniadau, yr oedd y clymau cytgerdd yn seiliedig ar y mesurau. Ceid pedair ar hugain o geinciau mewn cwlwm cytgerdd, sef un brifalaw neu gainc, ac yna tri ar hugain o amrywiadau ar y gainc honno (er bod yr un gynghanedd gerddorol yn sylfaen i bob cainc neu amrywiad, wrth gwrs).<sup>2</sup>

Awgrymir bod elfennau'r gair 'cytgerdd' yn arwydd fod mwy nag un offeryn yn uno i ganu'r cwlwm hwn. Medd Osian Ellis:

The word 'cytgerdd' suggests playing in concert ('cyd' + 'cerdd' = 'together' + 'music'), and it is reasonable to infer that the harpist and crwth player joined together in these *clymmau cytgerdd*, for the chords and length of the piece are specified beforehand, the leader proclaiming that he is about to play, for instance, in *mac y mwn hir*, which calls for a sequence of chords in a particular rotation, as indicated on paper as IIII OOOO IOIO IIII OOOO IOII [...]. They would then play together a suite of 24 variants in this pentatonic scale - simple, repetitive melodies over a sequence of, virtually, two chords. Whether the music could have been used for the singing or declaiming of poetry by the *Datgeiniad* - or *Atkaneiaid*, as David Powell called them - can only be conjectural.<sup>3</sup>

(vii) cadair

Y gadair, yn ôl y Statud, oedd un o'r *genres* anoddaf i'w meistrioli gan ei bod yn

---

<sup>1</sup> Greenhill, 'Tabluniau', t. 272. Am drafodaeth fanwl ar y clymau ymryson hyn, gw. *ibid.*, tt. 263 - 81.

<sup>2</sup> Gw. *HDNg*, t. 28; *SHW*, t. 25; Roberts, 'Marwnadau Telynorion', tt. 97 - 8; *EC*, t. 62; Whittaker, 'A New Look', t. 50. Am drafodaeth ar natur yr amrywiadau, gw. Ellis, 'Welsh Music', tt. 84 - 5'; *idem.*, 'Ap Huw', t. 78.

<sup>3</sup> Ellis, 'Ap Huw', t. 75. Awgryma Sally Harper hithau, 'Geirfa', t. 311, y gallasai'r cerddorion gynt ddefnyddio'r clymau cytgerdd i gyfeilio i gerdd dafod.

gyfwerth â phump o glymau. Ar sail yr wybodaeth hon, ac ar sail ei damcaniaeth bod modd mesur *genres* cerdd dant yn ôl y nifer o geinciau a geid ynddynt, daw Enid Roberts i'r casgliad fod cant ac ugain o geinciau mewn cadair: hynny ydyw, 24 cainc (sef y nifer o geinciau a geir mewn cwlwm cytgerdd)  $\times 5 = 120$  cainc.<sup>1</sup>

Ymddengys fod Enid Roberts wedi cymryd yn ganiataol mai at gwlwm cytgerdd y cyfeiria'r Statud, gan ei bod wedi defnyddio '24 cainc' bum gwaith wrth lunio ateb o 120 o geinciau. Fel arfer, fodd bynnag, cyfeirir at gwlwm cytgerdd trwy ddefnyddio'i deitl llawn; ond gan mai 'cwlwm' yn unig a geir yn y Statud pan ddywedir bod cadair yn gyfwerth â phum cwlwm, a chan mai'r cwlwm ymryson ydyw 'cwlwm' fel arfer, gellir dadlau nad ydyw'r cyfrif uchod yn gywir o angenrheidrwydd. Deuddeg neu bymtheg o geinciau a geid yn y clymau (ymryson) a gedwir yn llawysgrif LIGC14970, felly gellir awgrymu mai  $12 \times 5 = 60$ , neu  $15 \times 5 = 75$  o geinciau a geid mewn cadair.

Serch hynny, awgryma Sally Harper nad ydyw'r dull o fesur gwerth ffurf trwy ystyried nifer y ceinciau a geid ynddi o angenrheidrwydd yn ddigonol, a noda mai naw cainc yn unig a geid mewn tair o'r cadeiriau crwth ac yn un o'r cadeiriau telyn. Meddai:

Ymddengys yn fwy tebygol fod gwerth cymharol y *genres* unigol hyn yn adlewyrchu lefel o allu technegol, gan awgrymu ei bod yn cymryd tua phum gwaith cymaint i feistrioli cadair nag ar gyfer cwlwm...<sup>2</sup>

Mewn geiriau eraill, ymddengys fod y gadair bum gwaith yn anos i'w meistrioli na'r cwlwm ac, o'r herwydd, y byddai gŵr wrth gerdd dant bum gwaith yn hwy cyn ei pherffeithio.

---

<sup>1</sup> Roberts, 'Marwnadau Telynorion', t. 98. Gw. hefyd *EC*, t. 62.

<sup>2</sup> Harper, 'Llawysgrif Robert ap Huw', t. 170.

Ymddengys fod y cadeiriau'n cael eu dosbarthu fesul pedair. Y pedair cadair

crwth oedd:

1. Barf y kawr
2. Kwlwm mawr ynghower Ssesyllt
3. Kwlwm mawr ar y gogower
4. Kwlwm mawr ar y lleddf gywair

Y pedair cadair telyn oedd:

1. Kledde kerdd (neu 'Kwlwm bach ar y kras gywair' yn ôl rhai ffynonellau)
2. Kwlwm gwilim (ap) llon (=Llywelyn) ddu
3. Kadarn ynghadair
- 4a. Kwlwm y frechdan
- 4b. Kwlwm y wefyl [wefus]
- 4c. Kwlwm hir ar y bragod gower

– er bod amrywio rhanbarthol i'w weld.<sup>1</sup>

### (viii) colofn

Eto, yr oedd y golofn yn un o'r *genres* anoddaf i'w meistrioli. Yn wir, yr oedd ddwywaith yn anos na'r gadair gan fod y Statud yn nodi ei bod yn gyfwerth â deg cwlwm. Yn unol â'i damcaniaeth, awgryma Enid Roberts y gallai'r golofn gynnwys dau gant a deugain o geinciau (hynny ydyw, 24 o geinciau'r cwlwm cytgerdd  $\times 10 = 240$ );<sup>2</sup> ond fel yr awgrymwyd eisoes, mae'n debyg nad ar sail nifer y ceinciau'n unig y mesurid gwerth *genre*.

Drachefn, caiff y colofnau eu casglu fesul pedair. Colofnau'r crwth ydyw:

1. Y golon bach anwaeth Ankws
2. Y golon fawr a wnaeth lleddyf gwr grythor
3. Y kwlwm mawr i wrnerth

---

<sup>1</sup> Gw. *ibid.*, tt. 152 - 3.

<sup>2</sup> Roberts, 'Marwnadau Telynoriôn', t. 98.

#### 4. Kolon was dewi

Colofnau'r delyn ydyw:

1. Kerdd gat y gwodyn
- 2a. Krycholofn / Cor colofn / Kroch olon
- 2b. Kwlwm hir ar y bragod gower
- 3a. Lleddf gywair y gwyddil
- 3b. Ymryson fflam ychwysgrych
4. Sathamelach / saeth y melach<sup>1</sup>

Awgryma Peter Crossley-Holland fod nifer o'r colofnau crwth wedi eu cyfansoddi yn hanner cyntaf y bymthegfed ganrif.<sup>2</sup>

(ix) tri mwchl godidog

Yn ôl y Statud yr oedd yn gyferth â hanner cant o glymau neu bedair colofn,<sup>3</sup> felly gellir awgrymu bod y ffurf yn un anodd dros ben i'w meistrioli. Yn wir, nodir mai'r prif delynor yn unig a ddylai ei dysgu, gan awgrymu na fyddai'n addas ar gyfer y crwth. Medd Sally Harper:

Mae'r geiriadurwr William Owen Pughe (1759 - 1835) yn diffinio 'mwcwl' fel 'a jumble; a mixture, that is full of transitions', ac awgryma hyn fod y darn o bosibl yn galw am ddatganiad meistrolgar o wahanol dechnegau, neu efallai mai llygriad yw'r term o'r gair 'trialmwch' ('prawf')...<sup>4</sup>

Yn ôl *GPC*, t. 2506, fodd bynnag, 'trimwch(w)l' oedd y ffurf wreiddiol, fe ymddengys, nid 'trialmwch'.

---

<sup>1</sup> Gw. Harper, 'Llawysgrif Robert ap Huw', tt. 152 - 3.

<sup>2</sup> Gw. *ibid.*, t. 172.

<sup>3</sup> Gw. Roberts, 'Marwnadau Telynorion', t. 98.

<sup>4</sup> Harper, 'Llawysgrif Robert ap Huw', t. 176.



A chyffredinoli, ymddengys mai math o gwllwm anodd iawn ydoedd.

Ni chyfeirir at 'fwchl' yn yr unigol o gwbl, dim ond at gasgliad i dri, fel petai. Tybed a geid tair elfen yn y *genre*? Pe ceid hynny, a ddisgwylid eu clywed gyda'i gilydd bob amser? Awgryma Peter Crossley-Holland fod rhyw wraidd mytholegol yn perthyn i'r *genre* a'i henw yn wreiddiol, ac y gellid canfod cyfatebiaeth yn Iwerddon. Mewn chwedl o Iwerddon dywedir bod Dagda wedi perfformi tri pheth a wnâi crythor yn enwog, sef *Suantraighe* (cerddoriaeth a oedd yn peri cwsg), *Genntnaighe* (cerddoriaeth a oedd yn peri chwerthin), a *Golltraighe* (cerddoriaeth a oedd yn peri tristwch). Cyfeirir at y rhain hefyd mewn llawysgrif o'r ddeuddegfed ganrif ac mewn trioedd, ac oherwydd eu natur driphlyg gellir eu huniaethu – yn rhannol, beth bynnag – â'r tri mwchl godidog. Yr un syniad a welir yn y bôn mewn chwedl o'r Dwyrain Canol lle sonnir am berfformiad ar liwt gan gerddor enwog o'r enw al-Farábí: yn gyntaf mae ei gerddoriaeth yn peri i'r gynulleidfa chwerthin, yna maent yn crio, ac yn olaf yn cysgu. Er bod yr elfen fytholegol wedi ei cholli erbyn y bymthegfed ganrif, a allai'r tri mwchl godidog yng Nghymru gynrychioli'r mathau gwahanol o gerddoriaeth y disgwylid i delynor penigamp eu perfformio?<sup>1</sup>

(x) tri mwchl newydd

Drachefn, ymddengys mai math o gwllwm anodd ydoedd, cwlwm na chyfeirir ato yn y testunau cynharaf o'r Statud. Yr oedd y tri mwchl newydd yn gyfwerth â phedair cadair: gan fod y golofn ddwywaith mor anodd â'r gadair, ymddengys, felly, mai'r tri mwchl godidog oedd yr anoddaf o'r ddau, a'i fod mewn gwirionedd ddwywaith mor

---

<sup>1</sup> Gw. Peter Crossley-Holland, *Telyn Teirtu: Myth and Magic in Medieval Wales* (Bangor, 1997), tt. 17 - 19, t. 25.

anodd â'r tri mwchl newydd.<sup>1</sup>

(xi) difr

Rhai testunau o'r Statud sy'n deillio o ail hanner yr unfed ganrif ar bymtheg ymlaen yn unig sy'n sôn am y difr. Ym marn Sally Harper, "Ymddengys mai tarddiad o fesur, neu ddarn a darddodd o un o'r mesurau oedd y difr: noda Robert ap Huw fod y cadeiriau, colofnau a chlymau a restrir ar dudalennau 102 - 5 o *LbI* MS Add. 14905 yn diweddu â'r sylw ei fod wedi copïo'r darnau 'o ddifre'."<sup>2</sup>

O fewn difr, felly, ceid cadeiriau, colofnau a chlymau, ac felly, wrth gwrs, ceid mesurau gwahanol. Ar sail hyn, awgryma Enid Roberts y gallai'r difr mewn cerdd dant gyfateb i'r awdl mewn cerdd dafod.

A oedd perthynas rhwng awdl a difr? Ai cyfansoddiad yn cynnwys nifer fechan o'r pedwar mesur ar hugain cerdd dant oedd difr?<sup>3</sup>

\*

\*

\*

Meistrioli nifer gwahanol o'r elfennau uchod oedd tasg y disgyblion cerdd dant er mwyn ennill eu graddau yn ôl y Statud. "[Y]r oedd y Statud i delynor neu grythor dan hyfforddiant", medd Sally Harper, "yn bur debyg i'r hyn a olyga maes llafur modern y Bwrdd Cysylltiol i bianydd uchelgeisiol. Dibynnai symud o'r naill raddfa i'r llall ar

---

<sup>1</sup> Gw. Harper, 'Llawysgrif Robert ap Huw', t. 176; idem., 'Geirfa', t. 316.

<sup>2</sup> Harper, 'Geirfa', t. 312.

<sup>3</sup> Roberts, 'Marwnadau Telynorion', t. 100.

feistrioli nifer arbennig o ddarnau neilltuol o fewn genres penodol, dysgu rhai ymarferion technegol, deall egwyddorion hanfodol theori cerddoriaeth, a sefyll arholiad ar y cwbl mewn eisteddfod neu ar ryw achlsur priodol. Gosodai'r Statud yr hyn a oedd mewn gwirionedd yn ganon o ddarnau ar gyfer gwŷr wrth gerdd ar wahanol adegau yn eu gyrfa."<sup>1</sup>

### *Y datgeiniad*

Mae sawl ysgolhaig wedi mynd ati i geisio disgrifio maes llafur y datgeiniad,<sup>2</sup> ond gan fod yr wybodaeth a geir yn y gwahanol destunau o'r Statud mor amrywiol, mae'n anodd ceisio penderfynu beth oedd calon a chraidd ei waith.

Un peth y gwyddom i sicrwydd ydyw mai datgan gwaith y beirdd oedd un o brif swyddogaethau'r datgeiniad. Cyfeiria Ieuan Gyfannedd, er enghraifft, at y datgeiniad yn datgan cerddi i'r beirdd yn ei gywydd i Ffylip ap Rhys o Genarth a'i wraig Gwenllian:

Cyfeiriais it, cyfar sôn,  
Cwysau o foliant cyson;  
Llyfnodd, canodd, datgeiniaid  
Erw o gerdd o raw a gaid.<sup>3</sup>

Yn ôl tystiolaeth o Iwerddon, dyma'r drefn a geid gynt yn y wlad honno wrth ddatgan cerdd:

---

<sup>1</sup> Harper, 'Llawysgrif Robert ap Huw', tt. 169 - 70.

<sup>2</sup> Gw., e.e., *SHW*, t. 44; *HDNg*, t. 46, t. 48; Jones, 'Bardism and Romance', t. 253; *GTA I*, t. xxxii; *EC*, tt. 62 - 4; *GP*, t. ciii; Roberts, 'Marwnadau Telynorion', t. 107.

<sup>3</sup> Fe'i dyfynnir yn Williams, 'Aberteifi 1176', t. 32.

Now comes the Rymer that made the Ryme, with his Rakry. The Rakry is he that shall utter the ryme; and the Rymer himself sits by with the captain verie proudlye. He brings with him also his Harper, who please all the while that the raker sings the ryme.<sup>1</sup>

Er y gallai'r datgeiniad gyfeilio iddo'i hun pe bai raid, yma mae'r telynor yn cyfeilio iddo. Ceir mwy o wybodaeth yn y *Memoirs*:

The last Part to be done, which was the *Action and Pronuciation* of the Poem in Presence of the Maecenas, or the principal Person it related to was perform'd with a great deal of Ceremony in a Consort of Vocal and Instumental Musick. The Poet himself said Nothing, but directed and took care that everybody else did his Part right. The Bards having first had the Composition from him, got it well by Heart, and now pronounc'd it orderly, keeping even Pace with a Harp, touch'd upon that Occasion; no other musical Instrument being allowed for the said Purpose than this alone, as being Masculine, much sweeter and fuller than any other.<sup>2</sup>

Yn Iwerddon yn ôl y dystiolaeth uchod, yr oedd y datgeiniad yn datgan gwaith y bardd i gyfeiliant telyn, cyfeiliant a gynhyrchid fel arfer – ond nid yn ddiethriad – gan gyfeilydd proffesiynol,<sup>3</sup> a'r delyn yn unig a ystyrid yn addas ar gyfer cyfeiliant o'r fath.

Cafwyd crynodeb o swyddogaeth y datgeiniad eisoes yn 'Cynnwys Statud Gruffudd ap Cynan'. Mae'r wybodaeth hon yn awgrymu y dylai'r datgeiniad yng Nghymru wybod sut i gyweirio a chanu telyn a/neu grwth, ond ychydig iawn o bwyslais

---

<sup>1</sup> Fe'i dyfynnir yn Kenney, *Sources*, t. 31.

<sup>2</sup> Fe'i dyfynnir yn *TLII*, tt. 133 - 4. Yn Iwerddon yn wreiddiol yr oedd gwahaniaeth rhwng y bardd uchaf ei statws – y *filid* – a'r bardd is ei statws, sef y *bard*. Yn y dyfyniad uchod, y *bard* sy'n datgan ac yn cyflawni swyddogaeth y 'rakry' a geir yn y dyfyniad blaenorol. Am fwy o wybodaeth ynghylch y gwahaniaeth rhwng y *filid* a'r *bard*, gw. Bergin, 'Bardic Poetry', t. 152, troednodyn rhif. 2; Chadwick, *The Growth of Literature I*, t. 602; Derick S. Thomson, 'Gaelic Learned Orders and Literati in Medieval Scotland', *SS XII* (1968), t. 70.

<sup>3</sup> Am fwy o wybodaeth ynghylch y *recaire* neu'r *rackry* yn Iwerddon, gw. Williams, 'Bardus Gallice', tt. 9 - 10; Williams & Ford (goln.), *The Irish*, t. 163.

a geir ar hyn yn y Statud, mewn gwirionedd. Efallai fod hyn yn arwydd na chyfeiliai'r datgeiniad iddo'i hun bob amser: fel yn Iwerddon, efallai mai rhywun arall – gŵr wrth gerdd dant proffesiynol – a gyflawnai'r swydd honno y rhan fwyaf o'r amser.<sup>1</sup> Wrth gwrs, efallai na phwysleisid pwysigrwydd canu telyn a chrwth gan fod gwybod sut i wneud hynny'n gwbl angenrheidiol, fel na theimlid bod angen defnyddio gordd wrth drafod y mater yn y Statud.

Serch hynny, mae sawl testun yn nodi y dylai'r datgeiniad wybod tair ar ddeg neu bedair ar ddeg o brifgeinciau<sup>2</sup> (ar delyn a chrwth, medd N), gan ddatgan cerdd i'w cyfeiliant hwy, ynghyd â gwybod cwlwm, a chaniad, a phrofiad (a dwy osteg, tair ar ddeg o brif acenion, ceinciau, a'r pedwar mesur ar hugain cerdd dant hefyd, medd PH a LL<sup>(1)</sup>). Hyd yn oed pe na bai raid i'r datgeiniad fedru canu'r *genres* i gyd ei hun ar delyn neu grwth, yr oedd yn rhaid iddo eu gwybod yn drylwyr fel y gallai ddatgan geiriau i batrwm

---

<sup>1</sup> Mae hyn, fodd bynnag, yn groes i'r dystiolaeth a gyflwynir ynghylch y datgeiniad pen pastwn. Datgeiniad na allai ganu offeryn ei hun, ac a gyfeiliai iddo'i hun gyda ffon, oedd y datgeiniad pen pastwn, gan awgrymu fod y datgeiniaid eraill i gyd yn gallu canu offerynnau ac yn gallu cyfeilio iddynt eu hunain.

<sup>2</sup> Pedair ar ddeg o brifgeinciau a geid yn arferol yn ôl y testunau cerdd dant. Caiff y prifgeinciau hyn eu cysylltu ag enwau dau gerddor, sef Cadwgan a Chyhelyn. Yn ôl pob tebyg o Wyrfaï, Sir Gaernarfon, yr hanai'r ddau, ond bu Cadwgan yn byw yn yr Amwythig yn ogystal. Bernir eu bod yn eu blodau tua 1400 - 50. Yn wahanol i'r gerddoriaeth a welir yn Llawysgrif Robert ap Huw, dywed Peter Crossley-Holland, 'Cyfansoddwyr Robert ap Huw', t. 210, fod y prifgeinciau'n ysgafnach ac yn fwy poblogaidd eu naws. Dyma enwau'r prifgeinciau fel y'u ceir yn llsgr. Peniarth 168, f. 33<sup>r</sup>:

"Llyma hennwaü y pedair kaink ar ddec / o brif geingkiaü o waith Kydwgan a / Chyhelyn saith o waith pob vn onaddunt  
Eurai gowydd o waith Kyhelyn / [f. 33<sup>v</sup>] Kas gan grythor o waith Kydwgan / Dillin  
Eva o waith Kyhelyn / Eurlais goeden o waith Cwgan / Krechwenn veinir o waith  
Kyhelyn / Awen Chwerli o waith Cwgan / Eos Werful o waith Cwgan / Organ Leükü  
o waith Cwgan / Y gaink hir i Cyhelyn / Awen Oleüddydd o waith Cwgan / Y  
wyddeles o waith Kyhelyn / Kas gan dinker o waith Cwgan / Annel y vawd o waith  
Kyhelyn / Kainck nest berwyn o waith Cwgan /".

Gw. hefyd Harper, 'Geirfa', t. 315.

y gerddoriaeth:

Fodd bynnag, mae ambell destun – H yn arbennig – yn nodi y dylai'r datgeiniad feistrioli elfennau cerdd dafod yn ogystal. Yn wir, dyna ydyw'r cam cyntaf, yn ôl H; wedyn yn unig y dylai geisio dyblu ei rodd trwy feistrioli elfennau cerdd dant. O'r herwydd, nodir yn H y dylai ddysgu'r Gymraeg a'r wyth rhan ymadrodd, ac y dylai fedru datgan englyn, cywydd ac awdl, a llunio englyn ei hun. Mae F, H, N a R (i) yn nodi y dylai ddysgu ei sillafau; F, H a N yn nodi y dylai adnabod gwall mewn cerdd (a chywirow'r gwall ei hun, medd F a N); N, PH a LL<sup>(1)</sup> yn dweud y dylai wybod ei gynganeddion; tra mae PH a LL<sup>(1)</sup> yn nodi y dylai wybod pedwar mesur ar hugain cerdd dafod, ynghyd â llunio englyn unodl union, englyn proest, a chywydd deuaire hirion ei hun. Ymhellach, dylai'r datgeiniad wybod rhywfaint o gelfyddyd yr arwyddfardd, medd N, a nodir y dylai wybod chwedlau, achau ac arfau, ynghyd â gweithiau'r tri phrifardd, sef Taliesin, Myrddin Emrys a Myrddin Wylt.

Mae rhai o'r gofynion uchod yn gwneud synnwyr llwyr. Pe bai angen i'r datgeiniad gywiro rhan o gerdd y prydydd, byddai'n rhaid iddo wybod rheolau mesurau cerdd dafod ynghyd â'r rhannau ymadrodd, y sillafau, a'r cynganeddion – yn gyntaf, er mwyn adnabod y gwall, ac yn ail er mwyn ei gywiro. Fodd bynnag, mae'r dystiolaeth y dylai fedru llunio englynion a chywydd ei hun yn mynd yn groes i dystiolaeth y cyfeiriwyd ati eisoes sy'n nodi nad ydyw'r datgeiniad yn cynhyrchu gwaith gwreiddiol ei hun ond, yn hytrach, mai datgan gwaith a luniwyd gan arall y mae. Fodd bynnag, efallai mai arwydd o ddatblygiad ydyw hyn yn swyddogaeth y datgeiniad. Yn wreiddiol, efallai mai datgan yn unig oedd ei briod swydd. Fodd bynnag, yn nhestunau ail hanner yr unfed ganrif ar bymtheg ymlaen nodir y dylai lunio cerdd yn ogystal â'i datgan, a nodir yn N y dylai wybod gradd disgybl ysbâs cerdd dafod. Ai ychwanegiadau mympwyol gan

gopiŵyr y testunau ydyw'r rhain, ynteu a ydynt yn adlewyrchu newid a datblygiad yn swyddogaeth y datgeiniad – hynny ydyw, ei fod yn llunio cerddi syml ei hun, ac yn ei drwytho'i hun fwy-fwy yng nghelfyddyd cerdd dafod, efallai er mwyn ceisio dyrchafu ei statws?<sup>1</sup>

Oherwydd, ar ysgol statws y gwŷr wrth gerdd, y beirdd oedd uchaf a'r datgeiniaid oedd isaf. Ceir tystiolaeth o hyn yn y Statud – yn H, yn arbennig – lle y dywedir y gellir cymharu'r datgeiniad i anifail am nad ydoedd – yn draddodiadol, beth bynnag – yn creu gwaith gwreiddiol ei hun. Ymhellach, nodir yn H y dylai'r datgeiniad fod yn was bach i brydydd, gan wisgo amdano, diosg amdano, a dod â dŵr a thywel iddo.<sup>2</sup> Ceir tystiolaeth i'r un perwyl mewn llawysgrif arall sy'n perthyn i'r unfed ganrif ar bymtheg, sef Peniarth 267, yn llaw John Jones, Gellilyfdy, lle ceir hanes Eisteddfod Caerfyrddin. Gwelir yma fod gwahaniaeth mawr rhwng statws y bardd a statws y datgeiniad:

Ar Dafydd ap Edmwnt uchod ef ai ddisgybyl Guttun Owain a gymersant eu taith i fyned ir eisteddfod i Gaerfyrddin ag ef a ddamweiniodd iddo ef ddyfod a disgyn ar y ffordd y mhlas gwr bonheddig, lle yr oedd prydydd arall gwedi disgyn or blaen a Dafydd yn wr diarth dissas, heb neb yn ei adnabod yno, a heb dybiaid ei vod ef yn brydydd [t. 56] onid rhyw Glerwr neu Ddatcaniad...<sup>3</sup>

Ac meddir eto yn nes ymlaen:

---

<sup>1</sup> Am gyfeiriadau eraill at y datgeiniad, gw. Bowen, 'Y Cywyddwyr a'r Noddwyr Cynnar', t. 82; idem., 'Beirdd a Noddwyr (Rhan II)', t. 238; *HDNg*, t. 46, t. 48; *SHW*, t. 44; Holzknrecht, *Literary Patronage*, t. 39; *GTA I*, t. xxxii; Kenney, *Sources*, t. 31; John Stevens, *Music and Poetry in the Early Tudor Court* (London, 1961), t. 43; *EC*, t. 62.

<sup>2</sup> Gw. ymhellach Amy Parry-Williams, 'Canu Gyda'r Tannau', *Y Delyn I*, rhif 2 (Haf, 1947), t. 43.

<sup>3</sup> Fe'i dyfynnir yn Williams, 'Eisteddfod Caerfyrddin', t. 97.

A phann ddoeth Dafydd ir Eisteddfod i Gaerfyrddin, a myned yn ei own llwyd y mysc y prydyddion gwchion, y gofynnodd rhyw ddisgibyl neu ddatcanniad iddo ai un ohonon ni ydych chwi: nag ef heb Dafydd prydydd wyf fi.<sup>1</sup>

Efallai mai o statws isel y datgeiniad, ac o'i arfer o fod yn was bach i'r prydydd, y datblygwyd y rheol sy'n nodi y dylai fedru cerfio cig ac adar a gwasanaethu o'r gegin i'r bwrdd fel y'u gwelir yn N, PH, LL<sup>(1)</sup>.<sup>2</sup> Dywed Enid Roberts fod testun tebyg yn Lloegr yn nodi na ddylai gwas o'r fath gyffwrdd â'r cig ond gyda'i fawd a dau o fysedd.<sup>3</sup>

Ond, a rhoi statws y datgeiniad a'i ddyletswyddau 'ychwanegol' o'r neilltu am y tro, mae'n amlwg mai craidd a chalon ei swydd oedd datgan cerddi i gyfeiliant offerynnol. Wrth drafod damcaniaeth Osian Ellis ynghylch datgan i gyfeiliant, dyma a ddywed Ann Rosser:

Honnwyd ganddo [sef Osian Ellis] mai sylfaen perfformiad cerdd dant oedd cerddoriaeth i'r delyn, ac mai creu amrywiadau ar hyn fyddai'r gamp i'r telynor,

---

<sup>1</sup> *Ibid.*, t. 98. Gw. hefyd Parry-Williams, 'Canu Gyda'r Tannau', t. 43.

<sup>2</sup> Credai Timothy Lewis, fodd bynnag, nad arwydd o statws isel y datgeiniad oedd y ffaith ei fod, o bosibl, wedi gorfod gwasanaethu mewn gwledd. "[N]id yw hyny yn ddim", meddai, "ond dangos fod y "datceiniad" a'r rackry yn cynrychioli dysteyn a menestr yr oesoedd o'r blaen. Nid anfri ond bri oedd cael torri bwyd felly." Gw. Lewis, *Beirdd a Bardd-rin*, t. 23.

<sup>3</sup> Roberts, 'Everyday Life', t. 61. Er na sonnir am y datgeiniad yn hyn o beth, mae Enid Roberts yn cyfeirio at yr arfer o gael gwas i olchi dwylo'r gwesteion mewn gwledd: "Since the hands were used so much in eating it was necessary to wash them before starting a meal and again at the end. A servant with a long towel draped over his right shoulder and passing under his left arm went around the high table; the diners would hold their hands over the bowl and the servant would pour water over them and dry them with the towel." Gw. *ibid.*, t. 44, a gw. Bucknell, *Entertainment*, t. 154. Efallai mai o'r arfer hwn y tyfodd y rheol sy'n nodi y dylai datgeiniad gario dŵr a thywel i'r prydydd.



tra bod y canwr yn cadw'n fwy neu lai ar alaw y gerddoriaeth wreiddiol.<sup>1</sup>

Yn wahanol i heddiw, felly, lle mae'r datgeiniad wrth ganu penillion yn amrywio'r gyfalaw, ymddengys mai'r offeryn a gynhyrchai'r amrywiadau yn yr Oesoedd Canol. Os felly, ys dywed T. Gwynn Jones, "nid ar gyfer geiriau y gwneid peroriaeth yng Nghymru gynt. Camp y datgeiniad oedd cael allan pa fodd y medrai ef "osod" pennill neu benillion ar ryw gainc arbennig."<sup>2</sup> Yr oedd yn rhaid iddo fedru ffitio dau hanner o ddau jig-sô gwahanol gyda'i gilydd, felly. Fodd bynnag, mae Gwyn Thomas yn tynnu sylw at y ffaith fod gwahaniaeth sylfaenol rhwng cerddoriaeth gyfeiliant a cherddoriaeth nad oedd yn gyfeiliant ond a oedd, mae'n debyg, yn gerddoriaeth annibynnol, a chyfeiria wrth drafod hyn at y datgeiniad isaf ei statws, sef y datgeiniad pen pastwn. Cerddor na allai ganu unrhyw offeryn oedd ef, ac o'r herwydd datganai'r cerddi gyda chyfeiliant dymodau ei ffon neu ei bastwn.<sup>3</sup> Yng ngeiriau Gwyn Thomas, "mae'n rhaid mai'r hyn a wnâi oedd taro acenion y gynghanedd gydag ergydion o'i ffon ar lawr. Hynny ydyw, tynnu rhyw fath o sylw at yr acenion oedd y cyfeiliant i'r gerdd. Ymddengys i mi fod cyfeiliant telyn neu grwth i fod i gyflawni'r un swyddogaeth yn y bôn. [...] Os ydych chi'n taro'r acenion mewn cynghanedd yr ydych yn dod yn ymwybodol o'i siâp hi."<sup>4</sup>

---

<sup>1</sup> Ann Rosser, *Telyn a Thelynor: Hanes y Delyn yng Nghymru 1700 - 1900* (Pen-y-Bont ar Ogwr), t. 39.

<sup>2</sup> *GTA* I, t. xxxix.

<sup>3</sup> Ategir y syniad mai datgeiniad o'r radd isaf oedd y datgeiniad pen pastwn gan y ffaith fod rhai beirdd wedi cyfeirio at wŷr wrth gerdd tebyg iddo mewn modd difriol. Dyna 'bastynwas' Dafydd ap Gwilym, 'pastynwr ffair' Gruffudd Llwyd, 'pastwn ffair y gwleddav' Gutun Owain, a 'phastwn drain' Tudur Penllyn. Gw. *DGIA*, t. 26.

<sup>4</sup> *TB*, tt. 181 - 2. Am drafodaeth bellach ar y datgeiniad pen pastwn, gw. *EC*, t. 64.

Ymddengys, felly, y byddai'n rhaid i 'gyfeiliant' y datgeiniad pen pastwn, a chyfeiliant telyn neu grwth, gynhyrchu rhythmau ac acenion cyson i gyd-fynd â'r farddoniaeth, ac fel y sylwodd Bleddyn Owen Huws, dyna o bosibl ydyw awgrym y bardd Ieuan Llawdden mewn cywydd yn gofyn am ddau ych gan Watcyn Fychan, Hergest, lle mae'n cymharu'r ychen yn cnoi eu cil i sain rhythmig cyfeiliant y cyfnod:

Da y gallwn, digellwair  
Canu gwawd, hwyntau'n cnoi gwair.  
Cnoi cil megis canu cainc  
Wych a wna ychen ieuainc.<sup>1</sup>

Mae'n ddiddorol nodi bod Meredydd Evans wedi ymchwilio i'r mathau gwahanol o *genres* a geir yn Llawysgrif Robert ap Huw, gan geisio canfod pa ddarnau cerddorol y gellid eu defnyddio fel cyfeiliant i gerddi. Yn ei farn ef, y rhai mwyaf tebygol o fod wedi cael eu defnyddio i'r perwyl hwnnw oedd y rhai a chanddynt ddiweddiadau, sef y pedair gosteg a rhai o'r caniadau. Er mwyn llwyddo i ddatgan cerddi i gyfeiliant y *genres* hyn, mae'n pwysleisio y byddai'n rhaid i'r datgeiniad fod yn hen gyfarwydd â hanfodion cerdd dafod a cherdd dant, er enghraifft gwybod y cynganeddion, y mesurau cerdd dafod a'r mesurau cerdd dant, gwybod sut i acenu llinellau cynganeddol yn gywir, a sut i berthnasu'r llinellau prydyddol i'r deunydd cerddorol. Oherwydd yr acenion yn y gerddoriaeth a'r farddoniaeth, gellid datgan gosteg o englynion ar 'Gainc Ieuan ap y Gof', meddai, a chywydd ar 'Ganiad Cadwgan'. Camp y datgeiniad fyddai sicrhau asiad rhwng acenion y geiriau ac acenion y cyfeiliant.<sup>2</sup>

---

<sup>1</sup> Fe'i dyfynnir yn Bleddyn Owen Huws, 'II Datgan cerddi', *D II* (Hydref, 1996), t. 120.

<sup>2</sup> Trafodwyd hyn gan Meredydd Evans mewn darlith yn Adran Gerddoriaeth Prifysgol Cymru, Bangor, haf 1999.

Yr oedd y delyn yn un o brif offerynnau Cymru. Mae cryn ddadlau wedi bod ynghylch tarddiad y gair 'telyn'. Ym marn John Morris-Jones, mae'n tarddu o *√ten-*, sy'n golygu tyndra, a daw i'r casgliad mai'r un bôn â 'telyn' a welir yn y geiriau 'tant' yn y Gymraeg a 'tendo' a 'tendre' yn Lladin. Y ffaith fod tyndra yn y tannau sy'n esbonio ystyr yr enw 'telyn', meddai.<sup>1</sup> Fodd bynnag, mae A. O. H. Jarman yn amau hyn oll.

Ar yr wyneb nid ymddengys fod dim sy'n amhosibl nac yn anghredadwy yn yr esboniad hwn. Gellid, efallai, ofyn sut y digwyddodd i briodoledd sy'n perthyn i lawer o offerynnau cerddorol, ac yn wir i liaws o wrthrychau eraill, sef tyndra mewn tant neu lilyn, roi enw ar un offeryn arbennig. Gellir tarddu'r ffurf Saesneg 'harp' a'i chytrasau megis 'harfe' yn yr Almaeneg, o wreiddyn sy'n golygu crymedd y bysedd wrth dynnu'r tannau, ac y mae hynny'n elfen hanfodol yn y gorchwyl o ganu'r delyn. Nid yw'r syniad o dyndra yn cydio mor benodol wrth y delyn yn unig.<sup>2</sup>

Cynigia Jarman esboniad arall. Mae'n adeiladu ar yr hyn a ddywedodd Eugene O'Curry yn *On the Manners and Customs of the Ancient Irish* (1873), tt. 351 - 8, sef bod y delyn wedi ei henwi ar ôl llysenw arbennig a ddefnyddiai'r Gwyddyl i ddisgrifio'r sain a gynhyrchid gan y delyn Gymreig, sef 'teillinn', sy'n golygu su gwenyn. "Ymhen amser", meddai Jarman, "mabwysiadodd y telynorion Cymreig yr enw hwn, a arferwyd

---

<sup>1</sup> John Morris-Jones, *Welsh Grammar* (Oxford, 1913), t. 161. Gw. hefyd A. O. H. Jarman, 'Telyn a Chrwth', *LIC VI* (1960 /61), t. 154. Cymh. yr hyn a ddywed Canon Francis W. Galpin, *Old English Instruments of Music* (London, fourth edition, 1965), t. 10, am y gair 'telyn': "a word which is generally supposed to imply something that is stretched." Gw. hefyd Peter Crossley-Holland, 'Telyn Teirtu': *Myth and Magic in Medieval Wales* (Bangor), 1997), t. 7.

<sup>2</sup> A. O. H. Jarman, 'Telyn a Chrwth', *LIC VI*, 3 a 4 (Ionor - Gorffennaf, 1961), t. 154.

yn y lle cyntaf mewn dirmyg neu mewn cellwair, fel enw ar eu hofferyn.”<sup>1</sup> Dyfynna Jarman o waith rhai beirdd sy’n ategu ei ddamcaniaeth. Medd y bardd Andrew Borde yn *The Fyrst Boke of the Introduction of Knowledge* (1547/8), tt. 125 - 6, am y delyn rawn yng Nghymru:

And yf I haue my harpe, I care for no more;  
It is my treasure, I do kepe it in store;  
For my harpe is made of a good mares skyn,  
The strings be of horse heare, it maketh a good din;  
My songe, and my voyce, and my harpe doth agree,  
Muche lyke the hussyng of a homble be;  
Yet in my countrey I do make good pastyme,  
In tellyng of prophyces whyche be not in ryme.

“Wele gadarnhad diamheuol”, medd Jarman, “i dyb O’Curry fod modd i estron, o leiaf, glywed sŵn yr hen delynau rhawn Cymreig yn debyg i su gwenyn. Y mae hefyd yn dystiolaeth annibynnol oblegid nid oes dim i ddangos, ac nid yw’n debygol, fod Andrew Borde yn gwybod am y posibilrwydd mai ‘su gwenyn’ oedd ystyr wreiddiol y gair *telyn*.”<sup>2</sup> Mae Osian Ellis wedi canfod mwy o enghreifftiau lle y cymherir sain y delyn i su gwenyn. “The children come from their playing”, medd Christian Hölty, bardd o’r Almaen, “to hear the sound of the harp. For the strings murmur of their own accord. They murmur like humming bees.”<sup>3</sup> Hoffi clywed sain y delyn yr oedd y plant yn y dyfyniad hwn, nid ei ddirmygu, ac awgryma Osian Ellis nad llysenw gydag arlliw

---

<sup>1</sup> *Ibid.* Am drafodaeth lawn, gw. tt. 154 - 7. Cyfetyb y gair ‘telyn’ i ‘telein’ yn y Gernyweg, a ‘telen’ mewn Llydaweg. Gw. hefyd Crossley-Holland, ‘*Telyn Teirtu*’, t. 7.

<sup>2</sup> *Ibid.*, t. 169. Gw. hefyd Ellis, ‘Welsh Music’, tt. 77 - 8; idem., ‘Ap Huw’, t. 70.

<sup>3</sup> Fe’i dyfynnir yn Ellis, ‘Welsh Music’, t. 78.

diraddiol iddo oedd y gair 'teillin' ond, yn hytrach, mai enw disgrifiadol niwtral ydoedd.<sup>1</sup>

Un math o delyn oedd y delyn deires, ac ym marn Joan Rimmer, Eidalwr o'r enw Luc Anthoine Eustache a'i dyfeisiodd rywbryd tua diwedd yr unfed ganrif ar bymtheg.<sup>2</sup> Yn ôl pob tebyg, yr oedd yr offeryn tua pum troedfedd o uchder, ac yr oedd iddo bedwar wythawd a saith deg pump o dannau wedi eu gwneud o goluddion.<sup>3</sup> Dyma ddisgrifiad Ann Rosser o'r delyn deires:

Fel yr awgryma'r enw, y mae i'r delyn deir-rhes, dair rhes o dannau. Lleolir y rhain fel arfer ar yr ochr dde i'r grib, a chenir yr offeryn yng Nghymru ar yr ysgwydd chwith. Tua phum wythawd yw cwmpas yr offeryn. Perthyn i'r brif res, sef y rhes a genir gan y llaw dde, tua deg ar hugain o dannau; gelwid y rhes hon yn rhes fas. Y mae tua phedwar ar ddeg ar hugain yn y rhes ganol, a cheir yn y rhes i'r llaw chwith, neu'r rhes drebl, tua saith ar hugain. Y mae'r ddwy res allanol wedi'u cyweirio i'r raddfa ddiatonig a'r rhes ganol i'r nodau cromatig.<sup>4</sup>

Y delyn unres oedd y math arall o delyn a geid. Offeryn ysgafn tua thair i bedair

---

<sup>1</sup> *Ibid.*

<sup>2</sup> Yn ôl Osian Ellis, Eidalwr o'r enw Orazio Michi a'i dyfeisiodd.

<sup>3</sup> Gw. Rosser, *Telyn a Thelynor*, tt. 8 - 12; Ifor ap Gwilym, *Y Traddodiad Cerddorol*, t. 15; Percy Scholes, *The Oxford Companion to Music Revised and Reset*, Edited by John Owen Ward (Oxford, 1988), t. 1105.

<sup>4</sup> *Ibid.*, t. 7. Cymharer disgrifiad Osian Ellis o'r delyn deires yn 'Welsh Music', t. 74: "The outer two rows would be tuned identically in a particular scale (say, C major - like the white notes of a piano), and the middle row would be tuned to give the accidentals (like the black notes of the piano). The difficulty was to play the centre row of strings [...]. By the end of the nineteenth century, however, the triple harp was superseded by the somewhat easier-to-play pedal harp."

Ym marn gwŷr megis Edward Jones ('Bardd y Brenin') a John Parry ('Bardd Alaw'), ceid telyn deires yng Nghymru yn y bedwaredd ganrif ar ddeg, a chredai eraill yn y 'myth' hwn. Ond camddehongli gwybodaeth a arweiniodd at hyn, mae'n debyg, ac wrth bwysu a mesur cyfeiriadau llenyddol, barn Ann Rosser ydyw mai tua'r bedwaredd ganrif a bymtheg y daeth yr offeryn yn boblogaidd yng Nghymru. Am drafodaeth lawn, gw. Rosser, *Telyn a Thelynor*, tt. 7 - 8.

Y delyn unres, felly, fe ymddengys, a geid yng Nghymru yn ystod yr Oesoedd Canol a'r Cyfnod Modern Cynnar.

troedfedd o uchder wedi'i wneud o bren ydoedd, fe ymddengys, "a light, delicate harp, with strings of horse-hair, and a leather soundboard over a wooden frame with a low pitch to the strings", ys dywed Osian Ellis.<sup>1</sup> Cyfeiria'r bardd Tomos Prys o Blasiolyn, Ysbyty Ifan, at dannau'r delyn, gan nodi fod ganddi rai "hirion preiffion" a rhai eraill "byrion a meinion".<sup>2</sup> Cymharer yr hyn a ddywed Dafydd ap Dafydd Llwyd mewn cywydd gofyn a luniodd dros ryw Edward yn gofyn am delyn gan Siôn, aer Hwmffre Huws o Faesypany, Tal-y-llyn, am dannau'r delyn:

Rhai'n hirion, rhai'n fywion fach,  
A rhai'n feinion, rhan fwynach,  
Rhai'n uchel, rhai'n isel nâd  
Yn cario yr un c'weiriad,  
Lliaws oedd y llais iddi  
Wrth droi'n chwyrn ei hesg[y]rn hi.<sup>3</sup>

Mae peth anghytundeb ynghylch nifer y tannau. Ceid tua deg ar hugain ym marn Osian Ellis ac Ann Rosser,<sup>4</sup> ond yn ôl tystiolaeth y bardd Llywelyn ap Gutun ceid tua deugain: "Ac yntau a'i ddeugeintant" meddai mewn cerdd ymryson â Dafydd Llwyd o Fathafarn. Ond barn A. O. H. Jarman ydyw mai "gormodiaeth bwriadol sydd yma".<sup>5</sup> Yn ôl Dafydd Benwyn, "Naw ar hugain, neu'n rhagor" o dannau a geid,<sup>6</sup> tystiolaeth sy'n ategu barn yr

---

<sup>1</sup> Ellis, 'Welsh Music', t. 78. Am ddisgrifiad o'r llun a wnaeth Carnhuanawc o'r delyn unres, gw. *ibid.*, t. 76. Sonia am 'wrachïod', sef pegiau a gysylltai'r tannau i'r seinfwrdd. Gw. ymhellach Galpin, *Old English Instruments*, t. 10; Crossley-Holland, 'Secular Homophonis Music', t. 138.

<sup>2</sup> Fe'i dyfynnir yn Jones, 'Cerdd a Bonedd: Rhai Argraffiadau Terfynol', t. 30.

<sup>3</sup> Fe'i dyfynnir yn *NBM*, t. 157.

<sup>4</sup> Gw. Ellis, 'Welsh Music', t. 76; Rosser, *Telyn a Thelynor*, t. 1.

<sup>5</sup> Jarman, 'Telyn a Chrwth', t. 165.

<sup>6</sup> Fe'i dyfynnir *ibid.*

arbenigwyr mai tua deg ar hugain o dannau a geid ar yr offeryn.

Telynnau bychain oeddynt, fe ymddengys. Cyfeiria Jarman at dystiolaeth a geir yn 'Araith Wgon' a welir yn llawysgrif Llanwrin 1 (c. 1582):

Ac yn y glynn ef a welai blas, ac at y plas hwn i kyrchodd. Ac ef a glywai ganu telynrawn ai chyweiriaw. Ac ef a dybiodd wrth y kaniad ar kyweiriad, nad oedd neb ai medrai ond Gwgon. Ac yno y dyvod y Paun bach, "Hei how, a oes yma le i luddedigvarch i vwrw lluddedigaeth o i wrthaw,..." "Nac oes," heb y Gwgon, a bwrw y delynrawn o'i law.<sup>1</sup>

Ymhellach, cyfeiria Iorwerth Beli at gerddorion yn nofio gyda'u telynnau ar eu cefnau.

Mae hyn hefyd yn awgrymu mai offerynnau bychain oeddynt.<sup>2</sup>

Y delynrawn – sef telyn gyda'i thannau wedi'u gwneud orawn ceffyl – oedd yn boblogaidd yng Nghymru, fel y gwelwyd eisoes; yn wir, y tannau rhawn a gynhyrchai sŵn tebyg i su gwenyn. Fel hyn y mae Siôn Phylip yn dyfalu'r delynrawn mewn cywydd a luniodd dros Hwmffre Wyn o Ynysmaengwyn yn gofyn i Siôn ap Rhisiart, Cefn-Caer, am yr offeryn:

Tôn a sŵn o'r tannau sydd  
Bid i'r dôn bedwar deunydd,  
Pren, croen a rhawn, cwbloddawn cu,  
Ac esgyrn, rhaid eu gwasgu;  
Beichiog yw ebwch a gân,  
Beichiog, a'r gerdd nid bychan.<sup>3</sup>

---

<sup>1</sup> Fe'i dyfynnir *ibid.*, t. 162.

<sup>2</sup> Gw. *ibid.*, t. 163. Sonia Robert Griffith yn *LICD*, t. 123, tt. 130 - 1, am delyn o'r enw 'yr isgywair fach', telyn debyg i'r delyn arferol ond ei bod yn llawer llai a chyda llawer llai o dannau. Barn ef fod y delyn arian a gyflwynwyd i'r prif gerddor yn Eisteddfod Caerwys 1567 – a gedwir bellach ym Mhlas Mostyn – ar ddull yr isgywair fach.

<sup>3</sup> Fe'i dyfynnir yn *NBM*, t. 28.

Fodd bynnag, fe ddaeth telyn a chanddi dannau o fath arall i Gymru o Iwerddon, ac fe'i gelwid yn delyn ledr, ac o goluddion defaid neu efydd y gwneid ei thannau. Dyma ddisgrifiad Edward Jones ('Bardd y Brenin') ohoni:

I am informed by Mr. William Williams, that when a boy, he had an old leathern Harp, which he used to play upon. The body of it was hollowed, or scooped out of a piece of wood, and covered with an ox's skin, which was sewed extremely tight at the back; and the pegs, which the strings were screwed with, were made of bone, or ivory.<sup>1</sup>

Ymddengys, fodd bynnag, nad oedd llawer o groeso i'r delyn ledr yng Nghymru.

Yn y gerdd 'C[owydd] yn canmol telyn rawn ag i ddychanv telyn ledr' – a briodolir weithiau i Ddafydd ap Gwilym, dro arall i Iolo Goch – mae barn y bardd yn berffaith glir.

Dyrchefir y delyn rawn –

Ceisied pob prentis cyson,  
O Farsdir Lloegr i Fôn,  
Delyn eirian i'w chanu  
I rannu dysg o rawn du,  
Mal yr oedd, man gyhoeddi,  
Yn oes ein hendeidiau ni.<sup>2</sup>

– tra eir ati i ddifriō'r delyn ledr, neu'r delyn Wyddelig fel y'i gelwir:

---

<sup>1</sup> Fe'i dyfynnir yn Jarman, 'Telyn a Chwrth', t. 160. Gw. hefyd *LICD*, t. 127. Cymh. disgrifiad Ifor ap Gwilym o'r delyn ledr yn *Y Traddodiad Cerddorol*, t. 13 - 14: "Ymddengys mai telyn fechan oedd y delyn ledr. Sylwn mai telyn fechan (yr un siâp â'r delyn Wyddelig yn wir) sydd yn narlun y mynach o Sir Fynwy Gwilym Puw (c. 1618 - 1689) – yn ei lawysgrif *Opera et Miscellanea de Guil mi Pue Cambrobrittani 1676, Brithwaith Gwilym Pue* [...]. Tybed ai'r delyn ledr oedd hon?

Gwneid corff y delyn ledr o un darn o bren wedi ei gerfio, yna dodid croen ych dros y twll i wneud math o seinfwrdd, a delid y tannau yn y croen gan binnau wedi eu gwneud o esgym. ('Ac esgym rhaid eu gwasgu' meddai Siôn Tudur.)"

<sup>2</sup> Fe'i dyfynnir yn Jarman, 'Telyn a Chwrth', t. 161. Gw. hefyd *GIG*, t. 144, rhif XXXII, llau. 63 - 8.



Anodd i brentis, fis, fydd  
 Ystofi miliast efydd;  
 Anferth bla, llun bwa llwm,  
 Enfys ac echrys gochrwm,  
 Ni cherais, iawngais angerdd,  
 Na'i chafn botymog, na'i cherdd,  
 Na'i choludd sain, damwain dig,  
 Na'i rhifwnt liw, na'i rhyfyg,  
 Na'i chwr bengam ddisgamar,  
 Na'i llorf cam, un llwfr a'i câr.  
 Drwg yw dan bwyth yn wythbys  
 Llun ei chroth, lliain ei chrys.  
 Ni luniwyd ei pharwyden  
 Na'i chreglais ond i Sais hen.<sup>1</sup>

“Sain gŵydd gloff” a gynhyrchid gan y delyn ledr meddai'r bardd, a geilw hi'n “Sonfawr Wyddeles ynfyd.”<sup>2</sup>

Gelwid y delyn ledr yn ‘Wyddeles’ gan fod elfennau'n perthyn iddi a oedd, yn draddodiadol, yn perthyn i'r delyn a geid yn Iwerddon. Fe fabwysiadwyd y delyn gan y Gwyddyl tua dechrau'r unfed ganrif ar ddeg. Er mai telyn ydoedd, ‘cruit’ y'i gelwid. Fel arfer, tannau o wifrau neu o fetel a geid ar yr offeryn – aur, arian, neu ryw efydd gwyn o'r enw ‘findruine’<sup>3</sup> – a thua deg ar hugain o dannau a geid arni, fe ymddengys, fel ar delyn Gymreig.<sup>4</sup>

---

<sup>1</sup> Jarman, ‘Telyn a Chrwth’, t. 161. Gw. hefyd *GIG*, tt. 143 - 4, rhif XXXII, llau. 33 - 60.

<sup>2</sup> Jarman, ‘Telyn a Chrwth’, t. 161. Gw. hefyd Galpin, *Old English Instruments*, t. 10; Jones, ‘Bardism and Romance’, t. 212; Stephens, *The Literature of the Kymry*, t. 64.

<sup>3</sup> Gw. Galpin, *Old English Instruments*, tt. 8 - 9; Jarman, ‘Telyn a Chrwth’, t. 172.

<sup>4</sup> Gw. Crossley-Holland, ‘Secular Homophonic Music’, tt. 138 - 9. Am bwysigrwydd y delyn yn Iwerddon, gw. Chadwick, *The Growth of Literature I*, t. 587. Am darddiad y delyn Gymreig a'r delyn Wyddelig, gw. Ellis, ‘Ap Huw’, t. 70; *HDNg*, t. 8; *SHW*, t. 6; Galpin, *Old English Instruments*, tt. 7 - 12;

Yn ystod yr Oesoedd Canol a'r Cyfnod Modern Cynnar, y llaw chwith a ganai'r alaw ar y delyn, a'r llaw dde a ganai'r adran fâs.<sup>1</sup> Ymddengys mai'r un oedd yr arfer yn Iwerddon:

The Irish harper placed the instrument upon his knees or upon the ground and, resting it either against his left shoulder or against his chest, played the treble with the left hand, and the bass with the right...<sup>2</sup>

Ymddengys, ymhellach, mai gyda'r ewinedd yn hytrach na'r bysedd y cenid y delyn gynt, ac awgrymwyd mai cyfeiriad at yr arfer hwn a welir yng ngherdd Dafydd ap Gwilym, 'Dysgais ryw baradwysgaine',<sup>3</sup> ac yng ngherdd Tudur Aled i Wiliam ap Siôn Edwart, Cwnstabl y Waun.<sup>4</sup> Yn ôl tystiolaeth Dafydd ap Gwilym – os nad siarad yn drosiadol ydoedd – gellid canu'r delyn gyda'r bysedd a'r bodiau i gyd, ond awgryma arbenigwyr yn y maes mai ag wyth o fysedd yn unig y'i cenid, gan beidio â defnyddio bys bach pob

---

Jarman, 'Telyn a Chwrth', t. 172; Pattison, *Music and Poetry*, t. 23.

<sup>1</sup> Gw. Rosser, *Telyn a Thelynor*, t. 3; Ellis, 'Welsh Music', t. 85

<sup>2</sup> Dyfynnir y dystiolaeth yn Jarman, 'Telyn a Chwrth', t. 166.

<sup>3</sup> "Poed anolo fo ei fin / A'i gywydd a'i ddeg ewin", medd Dafydd ap Gwilym. Fe'i dyfynnir *ibid.*, t. 165.

<sup>4</sup> Medd Tudur Aled:

Gosod luwt, yn gystal ynn,  
Gwnaut, eilwaith, ganu'r telyn;  
Ni thrawut gnith a'r ewin  
Na bai lais gwell no blas gwin!

Fe'i dyfynnir *ibid.*, t. 166. Awgryma Jarman mai arfer y Gwyddyl oedd canu'r delyn gyda'r ewinedd yn wreiddiol, gan y byddai techneg o'r fath yn gweddu'n berffaith i dannau wedi'u gwneud o wifrau. Fodd bynnag, cynigia nad ydyw'n gweddu gystal i delynau Cymru, gan mai tannau o rawn neu o goluddion a geid. Am drafodaeth lawn, gw. *ibid.*, tt. 165 - 7.

llaw gan fod y bysedd hynny'n rhy fyr.<sup>1</sup>

### *Y crwth*

Y delyn oedd yr offeryn uchaf ei statws yng Nghymru,<sup>2</sup> ond fe geid offeryn arall, sef y crwth.

Ceir tystiolaeth fod y crwth yn boblogaidd o'r seithfed ganrif ymlaen. Yr oedd yn boblogaidd trwy Ewrop yn ystod yr Oesoedd Canol, ond ymddengys ei fod yn cael ei gysylltu â Phrydain yn benodol mewn cyfnod cynharach. Medd Fenantiws Ffortwnatws tua'r flwyddyn 600 O.C.:

Romanusque lyra, plaudat tibi barbarus harpa,  
Graecus Achilliaca, crotta Brittanna canat.

– sef, yn ôl cyfieithiad Osian Ellis, 'Canmoled y Rhufeinwyr â lyra, y barbariaid â'r delyn, y Groegwyr gyda phenillion Acileiaidd, a'r Prydeinwyr gyda'r crwth'.<sup>3</sup> Ond oddi mewn i Brydain, ymddengys fod gan y Cymry, yn arbennig, hoffter garw o'r offeryn.

---

<sup>1</sup> Gw. *SHW*, t. 6. Mewn cerdd a briodolir weithiau i Ddafydd ap Gwilym, dro arall i Iolo Goch, cyfeirir eto at ganu'r delyn gydag wyth bys: "Drwg yw dan bwyth yr wythmys..."

<sup>2</sup> D. Roy Saer, *Y Delyn Yng Nghymru mewn Llundiau* (Llandysul, 1991), t. 12. Am gyfeiriadau at y delyn yn y Cyfreithiau, mewn cerddi ac mewn chwedlau, gw. Chadwick, *The Growth of Literature I*, t. 583; Galpin, *Old English Instruments*, t. 12; *LICD*, t. 115; Jarman, 'Telyn a Chrwth', tt. 157 - 8, t. 162; Jones, 'Bardism and Romance', t. 213, t. 238.

<sup>3</sup> Fe'i dyfynnir yn *HDNg*, t. 10. Gw. ymhellach idem. 'Welsh Music', t. 77; Chadwick, *The Growth of Literature I*, t. 584; *MMul*, t. 31; Bullock-Davies, 'Welsh Minstrels', t. 114; J. Lumley Davies, 'The Contribution of Welshmen to Music', *TrCymm* 1929 - 30, t. 48; Galpin, *Old English Instruments*, t. 2; Jarman, 'Telyn a Chrwth', t. 171.

Cyfeiria Gerallt Gymro, er enghraifft, at ddefnydd y Cymry o'r crwth,<sup>1</sup> ac ym marn Gerald R. Hayes yng Nghymru'n unig y goroesodd yr offeryn mewn canrifoedd diweddarach.<sup>2</sup>

Darganfuwyd hen grwth yn y Goedwig Ddu. Yr oedd wedi ei wneud o dderw, ac yr oedd tua deg modfedd ar hugain o hyd a chwe modfedd a thri chwarter o led.<sup>3</sup> Pump i wyth tant a geid ar grwth fel arfer, fe ymddengys, ond ceir cyfeiriadau at rai crythau a chanddynt ddau ar bymtheg o dannau.<sup>4</sup>

Dyma ddisgrifiad Constance Bullock-Davies o'r crwth:

It was rectangular in shape, with two large apertures in its top half to enable the player to hold it and at the same time insert his thumb and fingers to reach the strings. Most contemporary illustrations of it show it as having six strings, four on the finger-board and two at the left of it, to be plucked with the thumb.<sup>5</sup>

Cadarnheir llawer o'r wybodaeth hon gan dystiolaeth y bardd Gruffydd Dafydd ap

---

<sup>1</sup> Gw. Philip Weller, 'Golwg Gerallt Gymro ar Gerddoriaeth', *HCC* III (1999), t. 38; Jones, 'Bardism and Romance', t. 238.

<sup>2</sup> Gw. Gerald R. Hayes, *Musical Instruments and their Music 1500 - 1750* (Oxford, 1930), t. 234.

Ym marn Galpin, *Old English Instruments*, t. 55, mae'r gair 'cruwth' yn tarddu o'r gair Hen Wyddeleg 'crot' neu 'cruit'.

<sup>3</sup> Gw. Galpin, *Old English Instruments*, t. 3.

<sup>4</sup> *Ibid.*, t. 5. Gw. hefyd Rees, *Music in the Middle Ages*, t. 124.

<sup>5</sup> *MMul*, t. 31. Cymh. disgrifiad Ifor ap Gwilym o'r crwth:

Offeryn hirsgwar oedd y crwth, gyda thwll i'r bysedd ar bob ochr i'r byseddfwrdd. Yr oedd iddo chwe thant, pedwar uwchlaw'r byseddfwrdd, a dau yn gogwyddo tua'r llaw chwith. Enwau'r tannau oedd 'y Llorfdant', 'byrdwn y Llorfdant', 'y Crasdant', 'byrdwn y Crasdant', 'y Cyweirdant', a 'byrdwn y Cyweirdant'.

Gw. hefyd Scholes, *The Oxford Companion*, t. 271.

Hywel. Meddai:

Prenol teg bwa a gwregis  
Pont a brân, punt yw ei bris;  
A thalaeth ar waith olwyn,  
A'r bwa ar draws byr ei drwyn,  
Ac o'i ganol mewn dolen,  
A gwarr hwn megis gwr hen;  
Ag ar ei frest gywair frig,  
O'r masarn fo geir miwsig;  
Chwe yspigod os codwn  
A dyna holl dannau hwn;  
Chwe' thant a gaed o fantais,  
Ac yn y llaw yn gan llais;  
Tant i bob bÿs yspys oedd  
A deu-dant i'r fawd ydoedd.<sup>1</sup>

Yr oedd y crwth yn debyg i'r lyra; yn wir, honnir y gall mai datblygiad o'r lyra oedd y crwth cyntefig.<sup>2</sup> Fodd bynnag, awgryma Robert Griffith mai "math o delyn oedd y crwth cyntefig",<sup>3</sup> ac nid ydyw'r Chadwickiaid yn sicr pa un ai math o delyn ynteu math o ffidil oedd y crwth yn wreiddiol.<sup>4</sup> Barn Dolmetsch ydyw nad oedd perthynas o gwbl rhwng

---

<sup>1</sup> Fe'i dyfynnir yn *LICD*, tt. 89 - 90. Am fwy o ddisgrifiadau o'r crwth, gw. *ibid.*, tt. 88 - 9. Mae'n amlwg, fodd bynnag, nad oedd pawb yn hoff o sain y crwth. Yn ei ymryson ag Edward Maelor, dyma sydd gan Syr Robert Powel i'w ddweud am yr offeryn:

Mal yslêd nid melys lais,  
Brad ole' dib'radwylais.  
Gwichlais, garw adlais grwydlefr,  
A'i dôn di-radd, dindwn refr.

Fe'i dyfynnir yn *GHCEM*, t. xxiv.

<sup>2</sup> Gw. *HDNg*, t. 10; *SHW*, tt. 1 - 2; Dolmetsch, 'Ancient Welsh Music', t. 123. Fodd bynnag, awgryma Hayes, *Musical Instruments*, t. 233, na ddylid ceisio ymdrechu gormod i geisio lleoli'r crwth o fewn llinach offerynnau megis y lyra, y ffidil a'r fiol.

<sup>3</sup> *LICD*, t. 95.

<sup>4</sup> Chadwick, *The Growth of Literature I*, t. 584.

y ffidil a'r crwth. "It is not an ancestor of the violin", meddai. "In reality, it has no resemblance to it. The violin is a melodic instrument, whilst the crwth is polyphonic by nature."<sup>1</sup>

Beth bynnag fo tarddiad y crwth, mae'n amlwg mai gyda'r bysedd neu'r ewinedd – nid â bwa – y cenid yr offeryn yn wreiddiol. "At first", medd Constance Bullock Davies, "it was plucked, played with the finger-nails or a plectrum as were the lyra, harp and psaltery; but when it took to the bow its nature changed. It became virtually a different instrument."<sup>2</sup>

Yr oedd y crwth yn offeryn defnyddiol iawn ar gyfer cyfeilio gan y gallai gyfeilio i lais neu i delyn – hynny ydyw, y delyn yn canu'r brif alaw a'r crwth yn cyfeilio. Ym marn Peter Crossley-Holland, natur homoffonig y crwth a'i gwnâi'n addas ar gyfer cyfeilio.<sup>3</sup> Gyda dyfodiad y bwa, gallai'r crythor ganu'r alaw i gyd-fynd â'r llais gyda rhai tannau, a gallai lunio cyfeiliant yn gefndir i'r cwbl gyda'r tannau eraill.<sup>4</sup>

#### *Datgan i gyfeiliant telyn a chrwth*

Er y defnyddid y delyn – a'r crwth, o bosibl – i ddiddanu fel offerynnau annibynnol, ymddengys mai un o'u prif swyddogaethau oedd cyfeilio i ddatgeiniad.

---

<sup>1</sup> Dolmetsch, 'Ancient Welsh Music', t. 123.

<sup>2</sup> Bullock-Davies, 'Welsh Minstrels', t. 114. Gw. hefyd *MMul*, t. 31; *HDNg*, t. 10; idem., 'Welsh Music', t. 77; *LICD*, t. 87.

<sup>3</sup> Crossley-Holland, 'Secular Homophonic Music', t. 143. Gw. hefyd Owen, 'Welsh Folk-Music', t. 72.

<sup>4</sup> Gw. *MMul*, t. 31; Bullock-Davies, 'Welsh Minstrels', t. 114. Am gyfeiriadau at grythorion Cymreig yn y llys brenhinol yn Lloegr, gw. 'Welsh Minstrels', t. 108, t. 110, tt. 115 - 16; *MMul*, t. 71, tt. 82 - 3, t. 110, tt. 168 - 9.

Ceir cyfeiriad at ddatgan i gyfeiliant telyn yng Ngramadeg Gruffydd Robert.

Wrth sôn am Gymru, dyma a ddywed:

Canys yno, er poethed fai'r dymyr, ef a gaid esmuythdra, a didanuch i bob bath ar dyn. Os bydai vn yn chuennychu digrifuch, e gai buror ai delyn i ganu muyn bynciau, a datceiniad peroslau i ganu gida thât, hun a fynnychui ai maul i rinued, yntau gogā i drugcampau.<sup>1</sup>

Cyfeiria ambell fardd at yr arfer o ddatgan cerdd i gyfeiliant cerdd dant, hefyd.

“Mae dy haelder yn peri / Moliant gyda'r tant i ti”, meddai Hywel Cilan, a dywed Llawdden ei fod am lunio “[C]aniad Iolo gan delyn” i Philip ap Rhys a'i wraig yng Nghenarth, San Harmon.<sup>2</sup> Ymhellach, cyfeiria Tudur Aled at yr un arfer yn ‘Awdl Farwnad Syr Thomas Salbri’:

Rhoi cwyn, rhai a'i cant, arraith oer â thant,  
Anant, methasant eu mwythused.<sup>3</sup>

– a thebyg ydyw tystiolaeth Lewys Dwnn yn ei farwnad i Siôn Salbri:

Ei farwnad a fu oeri  
Uwchlaw tant ei chlywed hi.<sup>4</sup>

Defnyddid y delyn yn gyfeiliant i ddatgeiniaid mewn gwledydd eraill yn ogystal, yn

---

<sup>1</sup> Williams (gol.) *Gramadeg Cymraeg*, t. vi.

<sup>2</sup> Dyfynnir y ddau fardd yn Bowen, ‘Beirdd a Noddwyr (Rhan III)’, t. 20. Gw. hefyd *NBM*, t. 7.

<sup>3</sup> *GTA* I, t. 56, rhif X, llau. 101 - 2.

<sup>4</sup> Fe'i dyfynnir yn Hughes, ‘Rhai o Noddwyr’, t. 169.

Iwerddon,<sup>1</sup> ac yn y gwledydd Sgandinafaidd, Tiwtonaidd, Sacsonaidd,<sup>2</sup> er enghraifft. Awgryma Gustave Rees na chyfeilid trwy gydol pob datganiad o gerdd ond, yn hytrach, mai cyflwyniad neu ddiweddiad offerynnol yn unig a geid weithiau, heb i'r offerynnau 'gyfeilio' i'r llais fel y cyfryw.<sup>3</sup>

Defnyddid rhai o'r *genres* cerddorol a geid yn Llawysgrif Robert ap Huw i gyfeilio mae'n debyg,<sup>4</sup> yn arbennig felly y gostegion a'r caniaadau.<sup>5</sup> Fodd bynnag, ni wŷr neb i sicrwydd beth yn union oedd perthynas y llais a'r cyfeiliant.<sup>6</sup>

Ai llafarganu'r geiriau i amseriad y miwsig, ai canu'r alawon, neu'n hytrach, ai cyfansoddi cyfalawon yn ddifyfyr a wnaent? Efallai na chawn byth wybod, canys nid oes ddisgrifiad manwl o'r grefft ar gael hyd y gwyddom.<sup>7</sup>

---

<sup>1</sup> Gw. Bergin, 'Bardic Poetry', t. 159; Kenney, *Sources*, t. 31; Eleanor Knott, *Irish Classical Poetry commonly called Bardic Poetry* (Dublin, 1957), t. 46; *TLII*, t. 134; idem., 'Y Beirdd Llys yn Iwerddon', t. 5; Joyce, *A Social History I*, t. 445, t. 541.

<sup>2</sup> Gw. Chadwick, *The Growth of Literature I*, t. 572, t. 573, tt. 575 - 7, tt. 588 - 9, t. 607; Ellis, 'Welsh Music', tt. 76 - 7; *SHW*, t. 2; Holzknicht, *Literary Patronage*, t. 21.

<sup>3</sup> Rees, *Music in the Middle Ages*, t. 203.

<sup>4</sup> Gw. *HDNg*, t. 46; Ellis, 'Welsh Music', t. 84.

<sup>5</sup> Meredydd Evans, darlith a draddodwyd haf 1999 yn Adran Gerddoriaeth Prifysgol Cymru, Bangor.

<sup>6</sup> Am fwy o wybodaeth ynghylch perthynas cerdd dafod a cherdd dant, gw. Roberts, 'Marwnadau Telynorion', t. 108; idem., 'Uchelwyr y Beirdd: 2 Y Llan', t. 87; Davies, 'Canu Gyda'r Tannau', t. 80; Rosser, *Telyn a Thelynor*, t. 39; Stevens, *Music and Poetry*, tt. 27 - 8, tt. 30 - 4; *EC*, t. 64.

<sup>7</sup> *HDNg*, t. 46. Cymh. ei sylwadau yn *SHW*, t. 44: "...we have no idea how the singers actually performed. Did they merely chant the words in time with the music, or did they create and improvise their own tunes and counter-melodies?" Gw. hefyd Patrick Ford, 'The Poet as *Cyfarwydd* in Early Welsh Tradition', *SC X/XI* (1975/76), t. 153; Roberts, 'Marwnadau Telynorion', t. 106; Chadwick, *The Growth of Literature I*, t. 572; Pattison, *Music and Poetry*, t. 20.



Mae Amy Parry-Williams wedi canfod sawl cyfeiriad mewn llawysgrifau at ganu cerddi i gyfeiliant telyn. Ceir cyfeiriad at “[l]ef gan dannau” mewn cerdd gan Ddafydd Bach fab Madog Wladaidd sy’n disgrifio gwledd adeg y Nadolig – er nad ‘canu’ o angenrheidrwydd ydyw ystyr ‘llef’ yma – a hefyd ceir paragraff yn llawysgrif Card. 2.634 (Hafod 24) yn llaw John Jones, Gellilyfdy, sy’n cyfeirio at ‘ganu’ cywydd ac awdl:

Er ystalm pan oeddwn i yn gwyllo yng nghapel Mair o Bylltyn yr oedd gwŷr wrth gerdd yn canu cywyddau ac odlau, a merched yn canu carolau a dyriau.<sup>1</sup>

Ymhellach, cyfeirir at “[G]anu englyn gyda thelyn” mewn cerdd o ddiwedd yr unfed ganrif ar bymtheg.<sup>2</sup> Ond ai ‘canu’ yn yr un ystyr â’r gair heddiw a olygir? <sup>3</sup> “Yn bersonol”, medd Glyn M. Ashton, “ni chredaf mai canu i alawon a wnâi’r datgeiniad, eithr siantio neu lafarganu”;<sup>4</sup> ac ar ôl mynd ati i astudio’r gerddoriaeth a geir yn Llawysgrif Robert ap Huw, gan geisio penderfynu pa *genres* a allai fod wedi eu cyfansoddi ar gyfer cyfeilio, daw Meredydd Evans i’r casgliad mai llafarganu yn hytrach na chanu i gyfeiliant telyn sy’n galluogi’r perfformiwr i gyfleu ystyr y geiriau yn y ffordd

---

<sup>1</sup> Gw. Parry-Williams, ‘Canu Gyda’r Tannau’, t. 43.

<sup>2</sup> *Ibid.*, t. 44. Am drafodaeth lawnach, gw. tt. 42 - 4, t. 70.

<sup>3</sup> Am drafodaeth ar wahanol ystyron y berfenw ‘canu’, gw. Williams, ‘Bardus Gallice’, tt. 1 - 9.

<sup>4</sup> Glyn M. Ashton, ‘Adolygiad o *A Guide to Welsh Lit., Volume 2*, gol. gan A. O. H. Jarman a Gwilym Rees Hughes: Christopher Davies, Abertawe 1979: tt. 1 - 400, £8.95’, *LIC XIV*, rhifyn 1 a 2 (Ionor - Gorffennaf, 1981 - 82), t. 288.

Gw. hefyd y dyfyniad o waith Bruce Pattison yn *HDNg*, t. 77:

Epic poetry probably came to be declaimed rather than sung: the old English expression is “singan ond secgan” – to sing and to say. This is a development parallel to that of the Homeric epics. The stresses would continue to be marked by the strum of the harp, and the laws of music would still govern the composition, except for the loss of melody.

orau.<sup>1</sup>

### *Yr ofergerddorion*

Yn y Statud fe enwir pedwar o gerddorion graddol a phedwar ofergerddorion (sef y pibydd, yr hudol, y tabrer a'r ffidler). Rhennid y beirdd yn ddsbarthiadau graddol a di-radd yn Iwerddon, yn ogystal. Yn ôl y testun *Bretha Nemed déidenach* ceid un math ar bymtheg, sef wyth bardd o urddas ac wyth bardd salw.<sup>2</sup>

Nid oes ryfedd fod y pibydd yn cael ei alw'n ofergerddor yn y Statud, gan yr ymddengys mai edrych i lawr eu trwynau a wnâi'r Cymry ers cyn cof ar yr offeryn a'r sawl a'i canai. Yr oedd y pibyddion yn gerddorion o bwys yn y llys brenhinol yn Lloegr, fodd bynnag. Ys dywed Constance Bullock-Davies:

In many respects the wind and percussion men, the trumpeters, pipers and drummers, were the most important minstrels in both the royal and baronial household because they were responsible for all the ceremonial music.<sup>3</sup>

Ond boed hynny fel y bo, ni chlosiodd y Cymry at y pibau. Medd un bardd am yr offeryn:

Ni luniwyd ei pharwyden  
Nai chreglais ond i Sais tren<sup>4</sup>

---

<sup>1</sup> Meredydd Evans, darlith a draddodwyd haf 1999 yn Adran Gerddoriaeth Prifysgol Cymru, Bangor.

<sup>2</sup> Gw. Kelly, *Early Irish Law*, t. 47; Breatnach (gol.), *Uraicecht Na Riar*, tt. 50 - 1, t. 58.

<sup>3</sup> Bullock-Davies, 'Welsh Minstrels', t. 108.

<sup>4</sup> Fe'i dyfynnir yn Owen, 'Welsh Folk-Music', t. 72.

Tebyg ydyw barn y bardd Huw Ceiriog yntau, gan na hoffai ef, ychwaith, sŵn y pibau a oedd fel sŵn gwyddau neu gathod:

Fel gwyddau yn bynnau, neu beunod - o fewn,  
Neu fyn yn breferod,  
Mae lleisiau'n ei genau god  
Mal gwythi mil o gathod.<sup>1</sup>

Mae Tudur Penllyn yn crisialu agwedd y beirdd at y pibydd yn ei gerdd 'Dychan i Dre'r Fflint ac i'r Pibydd'.<sup>2</sup> Edrydd y bardd ei hanes yn mynd i neithior yn y Fflint. Dechreuodd ganu awdl, ond cafodd ei watwar gan y Saeson a oedd yn bresennol. Yr oedd yn well ganddynt hwy wrando ar ŵr o'r enw Wiliam Bibydd yn perfformio. Cafodd y pibydd hwn geiniogau a dimeau'n dâl, ond bu raid i Dudur Penllyn fynd oddi yno'n waglaw. Fel y gellid disgwyl nid oedd y bardd yn hoff iawn o orfod gwneud hynny, ac felly mae'n ymroi i wfftio'r pibydd a'i gynulleidfa:

O ddifrif rhof ddiolfryd  
Y Fflint gaeth a'i phlant i gyd;  
A'i ffwrn faith fal uffern fydd  
A'i phobl Seisnig a'i phibydd.<sup>3</sup>

I Dudur, "tin y glêr",<sup>4</sup> sef clerwr o'r radd isaf, oedd Wiliam Bibydd, ac ni wnâi ddim ond gwneud sioe fawr o gynhyrchu synau hynod o amhersain. Dyma ddisgrifiad y bardd o'r pibydd a'i berfformiad:

---

<sup>1</sup> *GHCEM*, t. 134, rhif 56, 'I'r Pibydd'.

<sup>2</sup> Gw. *GTPITP*, tt. 51 - 2, rhif 30.

<sup>3</sup> Gw. *ibid.*, llau. 49 - 52.

<sup>4</sup> *Ibid.*, ll. 32.

Galw i'r fainc, ac alar fydd,  
 O bawb ar Wiliam Bibydd.  
 Dyfod o hwn, defod hawl,  
 Garbron, nid fal gŵr breiniawl,  
 A chod leddf, foly perfeddfaich,  
 Wrth ffon rhwng ei fron a'i fraich.  
 Rhygnu, syndremu, sŵn drwg,  
 Rhwth gaul, a rhythu golwg,  
 A throi ei gorff yma a thraw,  
 A chwyddo'r ddwyfoch eiddaw;  
 Chwerw foes, chwarae â'i fysedd,  
 A chroen glwth, chwerw yn eu gwledd;  
 Ymsgrwtian, ymysg rhowter,  
 Tan ei glog fal tin y glêr;  
 Ffroeni byth, ffrwyno â'i ben,  
 Ydd ydoedd at ei ddiiden;  
 Ail sud i farcud oedd fo,  
 Abl ei awydd, 'n ymbluo;  
 Chwythu o'r cranc, chwith fu'r cri,  
 Chwyddo'r god, a chrychweiddi;  
 Garan anoddef lle y gwery,  
 Gŵydd o frat yn gweiddi fry;  
 Gafr un llais, heb gyfran llog,  
 Glwyfus, afiachus, feichiog.<sup>1</sup>

Ys dywed D. J. Bowen, "Er dyddiau Gruffudd Llwyd, yr oedd y Cywyddwyr wedi bod â'u lach ar y glêr ofer, ac y mae'n amlwg fod ganddynt atgasedd at bibyddion."<sup>2</sup> Efallai nad oedd y beirdd swyddogol yn hoff o'r pibyddion gan eu bod yn peryglu eu statws a'u rhoddion, yn arbennig gan fod y pibyddion yn bresennol mewn gwleddau. Yn wir, cyfeirir at y ffaith eu bod mewn gwleddau ochr yn ochr â'r beirdd yng nghanu'r beirdd eu hunain. Dywed Llywelyn Goch ap Meurig Hen fod Bachelltre yn "lle teilwng llef

---

<sup>1</sup> *Ibid.*, llau. 19 - 42.

<sup>2</sup> Bowen, 'Beirdd a Noddwyr (Rhan III)', t. 22. Ymhellach, gw. J. Lumley Davies, 'The Contribution of Welshmen to Music', *TrCymm* (1929 - 30), t. 49: "Certain writers refer to the pipes as being among the national instruments of the ancient Wales, but it seems that, fortunately or otherwise, they did not strike a deep root in the Welsh heart." Am gyfeiriadau at darddiad y bib yng Nghymru, gw. Owen, 'Welsh Folk-Music', t. 72; Stephens, *The Literature of the Kymry*, t. 63; *LICD*, t. 109.

telyn a ffibav”,<sup>1</sup> a chyfeirir at bibau yng ngwaith dau o brif feirdd yr uchelwyr, sef Lewys

Glyn Cothi a Thudur Aled. Medd Lewys:

Pob cerdd a genir yn deg dirion,  
pob crwth a thelyn Sulgwyn i Siôn,  
prydydd â'i gywydd fal Gwion - neu An,  
pibydd ac organ, sinffan i Siôn.<sup>2</sup>

– a thebyg ydyw tystiolaeth Tudur Aled:

Berw yn y bysedd bron basant,  
Be bai'n y dwrn bib neu dant...<sup>3</sup>

Ymhellach, honna Gerallt Gymro fod Cymry ei gyfnod ef, sef ail hanner y ddeuddegfed ganrif a dechrau'r drydedd ganrif ar ddeg, yn defnyddio tri offeryn, sef y delyn, y crwth a'r bib.<sup>4</sup>

Felly, er gwaetha'r ffaith mai offergerddor oedd y pibydd, fe'i gwelid yn diddanu ochr yn ochr â'r beirdd swyddogol. Yn wir, onid estynnwyd gwahoddiad i'r pibyddion yn ogystal ag i'r telynorion a'r crythorion i wledd yr Arglwydd Rhys yn Aberteifi yn 1176? Ac mewn llun o offerynnau gwahanol a wnaed gan John Jones, Gellilyfdy, “y mae'r delyn a'r crwth bellach”, ys dywed D. Roy Saer, “yn rhannu'r llwyfan gyda'r bibgod – offeryn a gawsai gynt ei wawdio'n ddirugaredd yng nghanu'r beirdd

---

<sup>1</sup> Fe'i dyfynnir yn Bowen, 'Y Cywyddwyr a'u Noddwyr Cynnar', t. 80.

<sup>2</sup> 'Moliant Siôn Hafart', *GLGC*, t. 311, rhif 138, llau. 21 - 4.

<sup>3</sup> 'Cywydd i Wiliam ap Siôn Edwart, Cwnstabl y Waun', *GTA I*, t. 254, rhif LXIII, llau. 47 - 8.

<sup>4</sup> Gw. Jones, 'Bardism and Romance', t. 238.

proffesiynol.”<sup>1</sup> .

Cyfeirir at y pedwar ofergerddor, ynghyd â diddanwyr eraill, mewn cywydd gan Rys Goch Eryri i Robert ap Maredudd o Eifionydd:

Cynnal yr ynial a wnae  
Llys agwrdd, gaer llysygae,  
Beirdd ymsangfal Ehangwen  
Fawr ei pharch o fur a phen.  
Derbyn bob ddau i'r neuadd,  
Llwyth grym, ar y lleithig radd.  
Pob amryw ofer glerwr,  
Angerdd mawr gerdd, y mae'r gŵr.  
Bid wir air bedwar wryd  
Beirdd a phibyddion y byd;  
Pob crythor ddihepgor ddyd  
Dilys a phob cerdd delyn,  
Pob trwmpl propr hirgorn copr cau,  
Pob sôn pobl, pob sŵn pibau;  
Pob hudol, anfoddol fydd,  
Llwm hadl, a phob llamhidydd;  
Pob ffidler law draw y dring,  
Pob swtr tabwrdd, pob sawtring;  
Pob rhyw ffloc yn ceinioca,  
Na dyn a'r a geisio da,  
Nâg ni rydd, aur gerydd gun,  
Hynod i neb ohonun.<sup>2</sup>

Math o ddrwm bychan oedd y tabwrdd a'r tabret<sup>3</sup> a ddefnyddid ar gyfer cyfeilio i ddawnsfeydd.<sup>4</sup> Wrth drafod y tabwrdd, dyma sydd gan Constance Bullock-Davies i'w ddweud:

---

<sup>1</sup> Saer, *Y Delyn yng Nghymru*, t. 15.

<sup>2</sup> Fe'i dyfynnir yn Bowen, 'Agweddau', t. 67. Gw. hefyd idem., 'Y Cywyddwyr a'u Noddwyr Cynnar', t. 80.

<sup>3</sup> Am drafodaeth ar darddiad y tabwrdd a'r tabret, gw. *LICD*, t. 108.

<sup>4</sup> Gw. *MMul*, t. 19.

It was a fairly small two-skin drum played either solo or with the fife. Its sticks were wooden and unfelted. For beating time at dances it was indispensable. It also provided quick, exciting rolls that have always been a necessary accompaniment to jugglers' and acrobats' turns.<sup>1</sup>

Nid oedd y drwm, ychwaith, yn offeryn poblogaidd yn ôl y sôn,<sup>2</sup> ond mae Edward Jones, Bardd y Brenin, yn ei enwi'n un o chwech offeryn a ddefnyddid yng Nghymru, sef telyn, crwth (un gyda chwe thant, a'r llall gyda thri thant), pibgwd, pibgorn, corn a thabret.<sup>3</sup>

### *Y cyweiriau cerdd dant*

Er mai tri o gyweiriau cerdd dant a enwir yn y Statud, sef y cras gywair, y bragod gywair a'r lleddf gywair, yr oedd pump o gyweiriau sylfaenol yng Nghymru gynt, sef y tri uchod ynghyd â'r go gywair a'r is gywair. O'r pum cywair hyn, ymddengys y gellid llunio cyweiriau eraill:

y cyweiriau sydd yn dangos lleisiau gwahanedig pob un oddi wrth ei gilydd. Pum cywair gwahanedig y sydd; o'r rhai hynny y gellir gwneuthur a fynner o gyweiriau...<sup>4</sup>

Ceir cyfeiriadau at y cyweiriau 'ychwanegol' yn Llawysgrif Robert ap Huw, ac fe'i trafodir yn bur fanwl gan Thurston Dart.<sup>5</sup> Eu henwau ydyw'r hen fragod gywair, yr uwch gywair, cywair tro tant, y cywair chwith, y cywair dau hanner, cywair athro fedd,

---

<sup>1</sup> *Ibid.*, t. 36.

<sup>2</sup> Gw. Chambers, *The Mediaeval Stage* I, t. 78.

<sup>3</sup> Gw. Owen, 'Welsh Folk-Music', t. 72.

<sup>4</sup> Fe'i dyfynnir yn Roberts, 'Marwnadau Telynorion', t. 98.

<sup>5</sup> Gw. Dart, 'Robert ap Huw's Manuscript', tt. 57 - 9. Gw. hefyd *SHW*, t. 31, t. 33.

cywair yng nghywair Edward, y cywair dieithr, a'r cywair yng nghywair y wrach. Ym marn Dart, gellir cysylltu'r bragod gywair â'r hen fragod gywair.

Cyn mynd ati i drafod y pum prif gywair, mae'n werth crybwyll y modd y tiwnid tannau'r offerynnau er mwyn 'creu' pob cywair. Yr oedd i bob tant enw, wrth gwrs, – 'a', 'b', 'c', ac yn y blaen – ond nid oedd sain pob tant yn cyd-fynd â'r enw bob tro: hynny ydyw, gallai tant 'b', a gynrychiolai sain 'b' fel arfer, gael ei diwnio i gynhyrchu sain 'a'. Yr enw technegol ar hyn ydyw *scordatura*. Mae'n werth dyfynnu'n helaeth o waith Osian Ellis yma er mwyn esbonio hyn yn llawn:

The French and Italian customs of re-tuning particular strings are referred to by Mersenne: 'certain strings must not be re-tuned, whereas all the others could be raised or lowered according to the difference of the genres and their species.' He gives a scale of twenty-four strings, and indicates eight variable strings or tones, and calls them the principle strings. In the Welsh treatises on music, and there are many of them copied by various scribes during the sixteenth century, we read '*Llyma Ddosbarth Cerdd Dannau...Wyth Gyweirdant prif gychwynol, neu Brincipal y sydd*. There are eight principle strings. In Peniarth MS. 62 we are told: '*Am gerddwriaeth Cerdd Dant yw hyn (Cerdd Dant here meaning harp or crwth music - not in the modern sense of penillion singing), o gyweirdant cryf a pha faint ohonynt yn gryfion.*' This treatise is about string music [harp and *crwth*]; of strong chords [or strings] and how many of them are strong. (*Cryf* - normally translated as 'strong', here has technical meaning equivalent to 'principal' in the precious treatise). '*Saith y sydd i gyd. Ac o'r saith, pedwar a newidian mewn modd, a'r lleill nis gwnant felly.*' There are seven [notes], and of the seven notes, only four can be changed in pitch, and the others may not.' (The writer of this treatise has confined himself to a scale of an octave). '*Mae y modd nas gwna?*' 'Why is this so?' '*Am fod y tri yn brincipal neu'n arbennig, a'r pedwar heb fod.*' 'Because the three are principal, and the four are not.' Here, then, is the evidence for proving that the Welsh harpists employed *scordatura* - the re-tuning of certain strings.<sup>1</sup>

Sut felly yr aildiwnid y tannau? Nid trwy ddefnyddio allwedd arbennig, meddid, ond trwy ddefnyddio pegiau pren bychain o'r enw gwrachïod ar y seinfwrdd. Câl'r

---

<sup>1</sup> Ellis, 'Welsh Music', t. 83. Gw. yn ogystal *HDNg*, t. 28; *SHW*, t. 18.




pegiau hyn eu gosod yn erbyn y tannau nes peri iddynt gamu. Tannau 'lleddf' oedd enw'r tannau hyn a oedd wedi eu camu. Ym marn Osian Ellis, nid cywair 'trist' oedd y lleddf gywair, ond cywair yn cynnwys y nifer mwyaf y gellid ei gael o dannau ceimion, sef pedwar. Yn ôl y gramadegau ceid pedwar math o dant lleddf – tannau lleddf fon y bragod gywair, rhai'r go gywair, rhai'r is gywair a rhai'r lleddf gywair. Ymddengys na cheid tannau wedi eu camu yn y cras gywair.<sup>1</sup>

Beth, felly, am droi at y cyweiriau unigol.

(i) Y Cras Gywair.

Ni cheir tannau lleddf fon yn y cras gywair ac, oherwydd hyn, awgryma Osian Ellis mai'r cras gywair oedd cyweiriad elfennol y delyn a'r crwth.<sup>2</sup>

Ym marn Arnold Dolmetsch, mae'r cras gywair yn cyfateb i'r raddfa G mwyaf a geir heddiw.<sup>3</sup> Fodd bynnag, mae ysgolheigion diweddar wedi canfod mai cywair pentatonaid ydyw – hynny ydyw, cywair yn cynnwys pum nodyn yn unig. Yn Llawysgrif Robert ap Huw, fel hyn y cynrychiolir y cras gywair yn ysgrifenedig:



<sup>1</sup> Gw. idem., 'Welsh Music', t. 83; *SHW*, tt. 31 - 2.

<sup>2</sup> Idem., 'Welsh Music', t. 83.

<sup>3</sup> Dolmetsch, 'Ancient Welsh Music', t. 120.

Cynrychioli 'enw' y tant a wna'r golofn chwith, tra mae'r golofn ar y dde yn cynrychioli'r sain y dylai'r tant ei gynhyrchu yn y cras gywair. Gwelir, felly, mai pump o seiniau gwahanol sydd i'r cywair, sef C (1), D (2), E (3), E, G (4), A (5), A, C (sef d, r, m, m, s, l, l, d' mewn Sol-ffa).<sup>1</sup> Er mwyn 'creu' y cras gywair, felly, yr oedd yn rhaid tiwnio pob F i seinio E, a phob B i seinio A.<sup>2</sup>

Yr oedd i'r cras gywair foddau gwahanol, fodd bynnag. Ys dywed Osian Ellis, "Cras Gywair is not just one particular key in the modern sense, but the keynote could be G, C, D or E, with the mode changing but not the actual tuning of the strings."<sup>3</sup>

Dyma bum modd y cras gywair – a'r cyfan, sylwer, yn defnyddio'r pum nodyn sylfaenol – fel y'u dadansoddir gan Osian Ellis:<sup>4</sup>

G A C D E G (d, r, f, s, l, d')  
 A C D E G A (l, d, r', m', s', l')  
 C D E G A C (d, r, m, s, l, d')  
 D E G A C D (r, m, s, l, d', r')  
 E G A C D E (m, s, l, d', r', m')

(ii) Y Bragod Gywair

Cafodd y cywair hwn ei enw, meddir, "am fod peth o bob cywair ynddo."<sup>5</sup> Yn wahanol i'r cras gywair, ni ellir ei ddehongli'n llwyr, a hynny gan na ellir deall y

---

<sup>1</sup> Gw. Dart, 'Robert ap Huw's Manuscript', t. 57; *HDNg*, t. 26, t. 46; idem., 'Welsh Music', t. 83; idem., 'Ap Huw: Untying the Knot', *S VI* (1977), t. 79.

<sup>2</sup> Gw. Ellis, 'Welsh Music', t. 85. Gw. hefyd *SHW*, tt. 31 - 2.

<sup>3</sup> Idem., 'Welsh Music', t. 87.

<sup>4</sup> Gw. *HDNg*, t. 38. Gw. hefyd *SHW*, t. 28.

<sup>5</sup> Dyfynnir yr wybodaeth yn Roberts, 'Marwnadau Telynorion', t. 98.

gerddoriaeth sydd wedi ei hysgrifennu yn y cywair hwnnw.<sup>1</sup> O'r herwydd, mae arbenigwyr yn y maes wedi cynnig dehongliadau gwahanol i'w gilydd: cred Osian Ellis fod y bragod gywair, fel y cras a'r lleddf, yn gywair pentatonaidd, er y cydnebydd y gallai gyfateb yn fras i gywair F mwyaf;<sup>2</sup> ym marn Dolmetsch, cyfetyb y cywair i A lleiaf gyda'r ail estynedig F $\sharp$  - G $\sharp$ ;<sup>3</sup> G A B $\flat$  C D E F ydyw ei nodau medd Dart;<sup>4</sup> a dywed Claire Polin ei fod yn cyfateb i raddfa harmonig, gyda'r trydydd, y chweched a'r seithfed nodyn yn feddalnodau.<sup>5</sup>

Er na ellir cytuno ar union nodau'r cywair, ymddengys mai cywair lleddf ('minor') ydoedd.

### (iii) Y Lleddf Gywair

Ceid dau fath o leddf gywair, sef y lleddf gywair cyffredin – G A B C D E (neu G A B $\flat$  D E G, medd Dart<sup>6</sup>) – a'r lleddf gywair Gwyddyl – G B B C D E G (neu B $\sharp$  C D E G, medd Dart eto<sup>7</sup>).<sup>8</sup> Fel y gwelir, mae'r naill yn cynnwys chwech o seiniau,<sup>9</sup> a'r

---

<sup>1</sup> Gw. *HDNg*, t. 87; idem., 'Ap Huw', t. 79.

<sup>2</sup> *HDNg*, t. 46; *SHW*, t. 29.

<sup>3</sup> Gw. Dolmetsch, 'Ancient Welsh Music', t. 120.

<sup>4</sup> Gw. Dart, 'Robert ap Huw's Manuscript', tt. 56 - 9.

<sup>5</sup> Polin, 'Some Thoughts', tt. 144 - 5; idem., 'A Possible Provenance', tt. 17 - 18.

<sup>6</sup> Dart, 'Robert ap Huw's Manuscript', t. 58.

<sup>7</sup> *Ibid.*

<sup>8</sup> *HDNg*, t. 38.

<sup>9</sup> Gw. idem., 'Welsh Music', t. 87; idem., 'Ap Huw', t. 79.

llall yn cynnwys pump, felly gellir dweud bod y lleddf gywair, fel y cras gywair, yn bentatonaid.<sup>1</sup> Fel y gwelir, nid oes cytundeb ymhlith ysgolheigion ynghylch union nodau'r cywair: mae Ellis a Dart yn cynnig dehongliadau gwahanol uchod, tra dywed Dolmetsch fod y lleddf gywair yn cyfateb i F mwyaf.<sup>2</sup> Yn anffodus, ni ellir cadarnhau barn yr un ohonynt, gan nad oes cerddoriaeth yn y lleddf gywair wedi goroesi.

Er gwaethaf yr ansicrwydd, fodd bynnag, awgryma Osian Ellis fod gan y cywair hwn, fel y cras gywair, foddau gwahanol, sef:

G B C D E G (d, m, f, s, l, d')  
C D E G B C (d, r, m, s, t, d')  
D E G B C D (r, m, s, t, d', r')  
E G B C D E (m, s, t, d', r', m').<sup>3</sup>

(iv) Yr Is Gywair

Fel gyda'r bragod gywair, nid oes disgrifiad digonol o'r is gywair ar gael ac, o'r herwydd, ni ellir bod yn sicr ynghylch ei nodau.<sup>4</sup> Ym marn Dart, yr un ydyw'r is gywair a'r cywair tro tant, a'i nodau ydyw G A B $\flat$  C D E $\flat$  F.<sup>5</sup> Fodd bynnag, dywed Dolmetsch ei fod yn cyfateb i C mwyaf,<sup>6</sup> a dyna ydyw barn Peter Crossley-Holland yntau.<sup>7</sup>

---

<sup>1</sup> HDNg, t. 46; SHW, t. 28.

<sup>2</sup> Dolmetsch, 'Ancient Welsh Music', t. 120.

<sup>3</sup> HDNg, t. 40.

<sup>4</sup> *Ibid.*, t. 40; idem., 'Ap Huw', t. 79.

<sup>5</sup> Dart, 'Robert ap Huw's Manuscript', tt. 57 - 8. Gw. hefyd SHW, t. 30, t. 31, t. 32.

<sup>6</sup> Dolmetsch, 'Ancient British Music', t. 120.

<sup>7</sup> Crossley-Holland, 'Secular Homophonic Music', t. 139.

(v) Y Go Gywair

Unwaith eto, cywair digon amwys ydyw'r go gywair. Wrth drafod Llawysgrif

Robert ap Huw, dyma a ddywed Dart:

There are a number of pieces [in the gogywair] [...] but the chords on which they are composed do not admit of an unambiguous solution to the problem of how the harp was tuned.<sup>1</sup>

Awgryma Dolmetsch ei fod yn cyfateb i C lleiaf gydag A ♯ a B ♯,<sup>2</sup> a honna Claire Polin ei fod yn cyfateb i raddfa leiaf felodig gyda'r chweched a'r seithfed nodyn yn nodau llonnod. Yn ôl tystiolaeth y gramadegau cerdd dant, gellid llunio'r go gywair ar unrhyw nodyn, cyn belled â bod y trydydd nodyn yn cael ei wneud yn feddalnod:

Kyweirio y gogywair ar y delyn. Llyma y modd i gyweirio y gogywair ar y delyn pason bynnag y bo y koweirdant yn y delyn, kymryd y trydydd tant o'r tu uchaf a chyfri y koweirdant yn un o'r tri, a gostwng hanner not ar yr ucha o'r tri.<sup>3</sup>

\* \* \*

Er na ellir profi bod y beirdd yn gyfarwydd ag union fanylion y cyweiriau hyn, yr oedd un ohonynt o leiaf, sef Wiliam Cynwal, yn gyfarwydd â'u henwau, ac fe wyddai mai pum prif gywair a geid. Yn ei farwnad i Robert ap Hywel Llwyd, y telynor, dywed Cynwal ei bod wedi gorffen bellach ar "y pum cywair pêr" ar ôl marwolaeth gwrthrych y gerdd.<sup>4</sup> "Cuddiwyd awen pen y pair, / Caewyd ar y pum cywair", meddai wedyn yn

---

<sup>1</sup> Dart, 'Robert ap Huw's Manuscript', t. 59.

<sup>2</sup> Dolmetsch, 'Ancient Welsh Music', t. 120.

<sup>3</sup> Llsg. LIGC Card 2.634 (Hafod 24), t. 810. Fe'i dyfynnir yn Ellis, 'Welsh Music', t. 87. Gw. yn ogystal Ellis, 'Ap Huw', t. 79; HDNg, t. 40; SHW, t. 28, t. 32.

<sup>4</sup> Fe'i dyfynnir yn Roberts, 'Marwnadau Telynorion', t. 110.

ei farwnad i Ieuan Delynor,<sup>1</sup> a thebyg ydyw ei eiriau wrth farwnadu'r telynor Dafydd

Maenan:

Prid ar gerdd, pryder a gair  
(Pwy mwy?) Caewyd pum cywair.<sup>2</sup>

*Cadwaladr Frenin, ei eisteddfod a'i ddeddfau*

Yn PH a LL<sup>(1)</sup> ceir paragraff sy'n cyfeirio at yr hyn a ddigwyddodd mewn rhyw fath o gyfarfod eisteddfodol a gynhaliwyd gan Cadwaladr.

Cadwaladr ap Cadwallon ap Cadfan ydyw'r Cadwaladr dan sylw, fe ymddengys, sef y tywysog o'r seithfed ganrif a fu farw tua'r flwyddyn 664.<sup>3</sup> Yr oedd ei dad, Cadwallon (m. 633), yn frenin ar Wynedd, ac ymddengys iddo ennill buddugoliaeth yn erbyn rhai a hanai o linach y Saeson trwy ymuno ag arweinydd Seisnig o'r enw Penda, sef brenin Mersia baganaidd.<sup>4</sup> Er na pharhaodd ei lwyddiant yn hir, daeth yn ffigwr amlwg ym meddyliau'r beirdd, ac fe gymharwyd sawl arweinydd Cymreig diweddarach â Chadwallon.<sup>5</sup> Mewn llawysgrif o'r ail ganrif ar bymtheg ceir cerdd o'r enw 'Moliant Cadwallon', ac efallai mai bardd llys Cadwallon, sef Afan Ferddig, a'i cyfansoddodd.<sup>6</sup>

Yn anffodus, ychydig sy'n wybyddus am fywyd Cadwaladr. Yn ôl *Brut y*

---

<sup>1</sup> *Ibid.*, t. 112. Gw. hefyd Owen, 'Ifan Dylunior', t. 37.

<sup>2</sup> Fe'i dyfynnir yn Roberts, 'Marwnadau Telynorion', t. 114.

<sup>3</sup> Gw. *Cyd*, t. 74. Noda John Davies, *HC*, t. 62, y gallai Cadwaladr fod wedi marw yn y flwyddyn 682. Gw. hefyd *GDB*, t. 215.

<sup>4</sup> *Cyd*, t. 75.

<sup>5</sup> *Ibid.*

<sup>6</sup> *Ibid.*, t. 507.

*Tywysogion* bu farw yn Rhufain, a nodir yn y Trioedd ei fod wedi ei ladd gan Golyddan Fardd.<sup>1</sup> Yn ôl pob tebyg, y Cadwaladr hwn a sefydlodd eglwysi yn Llangadwaladr ym Môn a Chroesoswallt, ac yn Bishton yng Ngwent.<sup>2</sup>

Fe gynhaliwyd yr eisteddfod yng nghyfnod Brenin Penbeirdd ac yn amser Cadwaladr, medd y Statud. Fel y gwelwyd, brenin o'r seithfed ganrif oedd Cadwaladr, ond pwy oedd Brenin Penbeirdd? Yn amlwg, yr oedd yn fardd o'r radd flaenaf, ac mae ei enw'n debyg i'r hyn y gelwid Taliesin, sef Taliesin Ben Beirdd. Fodd bynnag, yn ystod ail hanner y chweched ganrif y canai Taliesin,<sup>3</sup> felly ymddengys nad ef oedd y Brenin Penbeirdd y sonnir amdano yn y Statud gan fod Brenin Penbeirdd, fe ymddengys, yn perthyn i'r seithfed ganrif, fel Cadwaladr Frenin.

Dywedir bod Cadwaladr wedi cynnal rhyw fath o 'eisteddfod' i'r cerddorion, a'i fod ef a'i gynghorwyr wedi mynd ati i feirniadu. Daeth un gŵr atynt a chanu 'is gywair ar y bragod dannau'. Barnwyd bod deunydd o'r fath yn rhy syml i'w ganu yn yr eisteddfod, ac nid oeddynt yn hoffi ei glywed am ei fod yn cael ei ganu ar diwn Pibau Morfudd. O'r herwydd, gorchmynnwyd i'r cerddor ganu Mwynen Gwynedd bob tro y canai gerbron gwŷr dysgedig o hynny allan, a deddfwyd na ddylai neb ganu mewn harmoni iawn ond gyda Mwynen Gwynedd, gan fod Mwynen Gwynedd yn dod o'r cyweirdannau a'r llall – Pibau Morfudd – o'r tannau cymysg.

Sut mae modd dehongli'r wybodaeth hon?

Credai Robert Griffith mai math o delyn oedd 'isgywair'. Meddai:

---

<sup>1</sup> *Ibid.*, t. 74.

<sup>2</sup> Gw. Morfudd Jones, *Hanes Eglwys Sant Cadwaladr Llangadwaladr* (1986), t. 5

<sup>3</sup> Gw. *CT*, t. ix.

Yr oedd un math o'r hen delynau a elwid yn Isgywair Fach. Telyn unrhes oedd hon, heb lawer o wahaniaeth rhyngddi, gellid meddwl, a'r delyn uchod [hynny ydyw, y delyn rawn], ond ei bod yn llawer llai o faintioli, ac o ganlyniad yr oedd ynnddi lai o dannau. Ac yn y cywair sydd yn enw i'r delyn y byddid yn arfer a thiwnio y tannau hynny.<sup>1</sup>

Ond yr oedd 'isgywair' yn fath o gywair [= 'key' yn Saesneg] hefyd, yn un o'r pum cywair gwarantedig, ac o fewn cyd-destun yr adran sy'n sôn am 'eisteddfod' Cadwaladr yn y Statud, ymddengys mai cyfeirio at gywair yn hytrach nag at offeryn a wneir. Ys dywed Claire Polin:

[...] the prejudice shown against PM [hynny ydyw Pibau Morfudd] was not due to the nature of the music but to its mode! In being identified as *is gowair ar y bragod dannau* ('the low key on the mixed strings'), it could easily be associated with tunes that are low pitched and in minor modes.<sup>2</sup>

Â Polin yn ei blaen i roi disgrifiad manwl o fesur, strwythr, cywair a rhythm Pibau Morfudd, gan drafod yn ogystal berthynas y caniad â gweithiau eraill;<sup>3</sup> ond yr wybodaeth a rydd ynghylch cywair caniad Pibau Morfudd sydd o brif ddiddordeb yma. Ym marn Polin, gan fod modd gwahaniaethu rhwng Pibau Morfudd ar y naill law a chyfansoddiadau mewn cyweiriau mwyaf [= 'major'], megis Mwynen Gwynedd, ar y llaw arall, gellir casglu bod Pibau Morfudd mewn cywair lleiaf [= 'minor'] neu mewn cywair cymysg – er nad oes unrhyw lonnod neu feddalnod yn y gwaith a all gadarnhau

---

<sup>1</sup> *LICD*, tt. 129 - 30. Gw. hefyd t. 123. Ymhellach, gw. *GPC*, t. 2038, am y gwahanol ddiffiniadau o 'isgywair'.

<sup>2</sup> Claire Polin, 'A Possible Provenance for Parts of the Ap Huw Manuscript', *WM VII*, rhif 8 (Hydref/ Gaeaf, 1984 - 5), t. 8.

<sup>3</sup> *Ibid.*, tt. 9 - 16.



hyn.<sup>1</sup> Yn wir, awgrymir bod ‘alaw’ Pibau Morfudd mewn cyweirnod mwyaf, yn groes i’r disgwyl. Daw Polin i’r casgliad fod tebygrwydd trawiadol rhwng Pibau Morfudd a chân Seisnig o’r enw ‘All Floures in Broom’ (1577). Yn y gân hon mae’r alaw mewn cyweirnod mwyaf, ond mae’r cyfeiliant mewn cyweirnod lleiaf, ac awgryma Polin y gall hyn fod yn wir am Pibau Morfudd, yn ogystal:

The melody is clearly major, but is the accompaniment? Or is it made to agree with the tune by placing it in the minor mode simultaneously? Is *this* what is really meant by the ‘low key on the mixed strings’, after all? Two key centres at once? *All Floures* has a certain tonal instability that makes this possible. Note that the first two bars appear to be in B♭ major while the third establishes E♭ so that the beginning seems a bit foreign to the rest of it. This is why it is so difficult to find the key-centre of the harp part, as it vacillates between B♭ major and C minor chords which are adjacent – very Welsh, to be sure, but perplexing, as to key orientation. The chords of drone note A♭ of G, determines the chord relationship: i.e., B♭, D, F, and C, E♭, G or A♭, C, E♭. This very ambiguity may have been what Cadwaladr and his ‘learned men’ objected to. It may also explain why later versions of PM are more clearly key-defined and why it passed from musical popularity in favour of songs with greater consistency.<sup>2</sup>

Yn ôl traddodiad, felly, yr oedd Mwynen Gwynedd a Phibau Morfudd yn wybyddus yn y seithfed ganrif. Yn wir, credir mai ar ôl pibydd o’r chweched ganrif yr enwyd Pibau Morfudd.<sup>3</sup> “While one need not actually credit these with having been composed in the era of the events commemorated”, medd Claire Polin, “it appears likely that some of these may exhibit qualities of old music which has come down to us over a long period of time often retaining inexplicable peculiarities.”<sup>4</sup> Ni ellir profi, felly,

---

<sup>1</sup> *Ibid.*, t. 9.

<sup>2</sup> *Ibid.*, t. 11.

<sup>3</sup> *Ibid.*, t. 7.

<sup>4</sup> Claire Polin, ‘Some Thoughts on the Musical Content of the Welsh *Bardic Relicks*’, *CLIGC XVI* (1969 - 70), t. 144.

beth yn union ydyw oed y caniadau hyn: fe'u henwir yn PH, a gyhoeddwyd ym 1592 (er mai Pibau Morfudd yn unig a enwir yn rhestr y caniadau a'r clymau), a'r tebyg ydyw nad cyfansoddiadau diweddar iawn oeddynt yr adeg honno gan fod hanes Cadwaladr a'i eisteddfod wedi ei gysylltu â hwy. Nid ydyw Caniad Pibau Morfudd i'w ganfod mewn ffurf ysgrifenedig cyn 1613, sef yn Llawysgrif Robert ap Huw, a rhaid disgwyl hyd 1794 cyn gweld y caniad wedi ei ysgrifennu mewn nodiant cerddorol yn y *Bardic Reliks*.<sup>1</sup>

---

<sup>1</sup> Idem., 'A Possible Provenance', t. 8.